



The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

Deddf Cynllunio 2008

Piblinell Carbon Deuocsid HyNet

Adroddiad Canfyddiadau a Chasgliadau'r
Awdurdod Archwilio

a'i

Argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros
Ddiogelwch Ynni a Sero Net

Yr Awdurdod Archwilio

Christopher Butler BA(Anrh) PG Dip (Cynllunio Trefol) MRTPI Aelod Arweiniol
yr Awdurdod Archwilio

Matthew Shrigley BSc(Anrh) MPlan MRTPI

20 Rhagfyr 2023

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

TROSOLWG

Cyf. y Ffeil: EN070007

Gwnaed y cais, dyddiedig 3 Hydref 2022, o dan adran 37 Deddf Cynllunio 2008 ac fe'i derbyniwyd yn llawn gan yr Arolygiaeth Gynllunio ar 3 Hydref 2022. Fe'i derbyniwyd i'w archwilio ar 31 Hydref 2022.

Yr Ymgeisydd yw Liverpool Bay CCS Limited.

Dechreuodd yr Archwiliad o'r cais ar 20 Mawrth 2023 ac fe'i cwblhawyd ar 20 Medi 2023.

Mae'r Datblygiad Arfaethedig yn cynnwys adeiladu, gweithredu a datgomisiynu piblinell carbon deuocsid (CO₂) o Swydd Gaerlleon yn Lloegr i Sir y Fflint yng Nghymru gyda'r seilwaith angenrheidiol ar gyfer ei gweithredu, gan gynnwys Gosodiadau ar Ben y Tir (AGIau) a Gorsafoedd Falfiau Bloc (BVSau).

Byddai'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu, pe byddai'n cael ei wneud, yn cynnwys y datblygiad awdurdodedig canlynol:

- adeiladu piblinell (CO₂) newydd o AGI Ince yn Ince, Swydd Gaerlleon i Biblinell Gysylltu'r Fflint yn y Fflint, Sir y Fflint, sef piblinell danddaear newydd ar y tir i gludo CO₂;
- addasu'r biblinell nwy naturiol bresennol at ddibenion gwahanol i gludo CO₂, o Gysylltiad y Fflint i Derfynell y Parlwr Du (PoA) yn y Parlwr Du;
- pedwar AGI – Ince, Stanlow, Northop Hall, a'r Fflint;
- chwe BVS – wedi'u lleoli ar hyd Piblinell newydd AGI Stanlow i AGI y Fflint a Phiblinell bresennol Cysylltiad y Fflint i Derfynell PoA;
- seilwaith arall ar ben y tir, gan gynnwys cabinetau unioni newidyddion Amddiffyn Cathodig a physt marcio piblinell;
- seilwaith cysylltu â chyfleustodau, gan gynnwys cyfleustodau pŵer a chebl ffeibr optig; a
- gwaith atodol dros dro sy'n rhan annatod o adeiladu'r Biblinell Carbon Deuocsid, gan gynnwys cyfadeiladau adeiladu a thraciau mynediad dros dro.

Bydd Piblinell CO₂ HyNet yn hwyluso cludo carbon ac yn galluogi Prosiect Gogledd-orllewin ehangach HyNet i fod yn garbon isel. Bydd hefyd yn caniatáu ar gyfer cysylltu ymhellach â diwydiannau carbon-ddwys lleol i leihau allyriadau CO₂ a byddai'n allweddol i fodloni'r targedau uchelgeisiol ond hanfodol a osodwyd gan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 (fel y'i diwygiwyd) a pharatoi'r ffordd i glystyrau diwydiannol eraill yn y Deyrnas Unedig a thramor ddatgarboneiddio diwydiant a'r economi.

Crynodeb o'r Argymhelliad:

Mae'r Awdurdod Archwilio (ExA) yn argymhell y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol wneud y Gorchymyn ar y ffurf a atodir yn Atodiad Ch yr Adroddiad hwn, sef y Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) argymelledig a'r fersiwn (y bont biblinell ymgorfforedig i groesi Nant Alltami) na ystyrir ei bod yn torri'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD). Fodd bynnag, os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net yn anghytuno â'r ExA ynglŷn â thorri'r WFD, mae'r fersiwn o'r DCO a ffefrir gan yr Ymgeisydd, sef y fersiwn o'r DCO a fyddai'n caniatáu torri ffos i groesi Nant Alltami, wedi'i hatodi yn Atodiad D.

TABL CYNNWYS YR ADRODDIAD

1.	CYFLWYNIAD.....	1
1.1.	CYFLWYNIAD I'R ARCHWILIAD.....	1
1.2.	PENODI'R AWDURDOD ARCHWILIO	3
1.3.	YR UNIGOLION A OEDD YN YMWNEUD Â'R ARCHWILIAD.....	4
1.4.	YR ARCHWILIAD A PHENDERFYNIADAU GWEITHDREFNOL.....	4
1.5.	ASESIAD O'R EFFAITH AMGYLCHEDDOL.....	13
1.6.	ASESIAD RHEOLIADAU CYNEFINOEDD.....	14
1.7.	YMGYMERIADAU, RHWYMEDIGAETHAU A CHYTUNDEBAU	14
1.8.	CYDSYNIADAU ERAILL	14
1.9.	STRWYTHUR YR ADRODDIAD.....	20
2.	Y CYNNIG A'R SAFLE	22
2.1.	Y CAIS FEL Y'I GWNAED.....	22
2.2.	Y CAIS FEL Y'I HARCHWILIWYD	34
2.3.	Y SAFLE A'I AMGYLCHOEDD	40
2.4.	HANES CYNLLUNIO PERTHNASOL.....	41
3.	CYD-DESTUN CYFREITHIOL A PHOLISI	43
3.1.	CYFLWYNIAD	43
3.2.	DEDDF CYNLLUNIO 2008	44
3.3.	DATGANIADAU POLISI CENEDLAETHOL	44
3.4.	DEDDF Y MÔR A MYNEDIAD I'R ARFORDIR 2009.....	50
3.5.	RHEOLIADAU'R DU SY'N DEILLIO O GYFRAITH EWROP	50
3.6.	DEDDFWRIAETH, POLISIÂU, A CHANLLAWIAU YNG NGHYMURU	51
3.7.	DEDDFWRIAETH, POLISIÂU, A CHANLLAWIAU'R DEYRNAS UNEDIG.....	52
3.8.	GORCHMYNION CANIATÂD DATBLYGU A WNAED	53
3.9.	POLISIÂU, CYNLLUNIAU AC ADRODDIADAU ERAILL PERTHNASOL.....	54
3.10.	Y FFRAMWAITH POLISI CYNLLUNIO CENEDLAETHOL.....	56
3.11.	ADRODDIADAU AR YR EFFAITH LEOL.....	57
3.12.	Y CYNLLUN DATBLYGU.....	57
3.13.	EFFEITHIAU TRAWSFFINIOL	60
4.	Y MATERION CYNLLUNIO	62
4.1.	Y PRIF FATERION YN YR ARCHWILIAD	62
4.2.	MATERION A GODODD MEWN CYFLWYNIADAU YSGRIFENEDIG.....	63
4.3.	MATERION A GODODD MEWN ADRODDIADAU AR YR EFFAITH LEOL	67
4.4.	CYDYMFFURFEDD Â DATGANIADAU POLISI CENEDLAETHOL	70
4.5.	CYDYMFFURFEDD Â'R DATGANIAD POLISI MOROL A CHYNLLUNIAU MOROL .	77
4.6.	CYDYMFFURFEDD Â CHYNLLUNIAU DATBLYGU	77
4.7.	CYMHWYSO POLISIÂU ERAILL.....	77
4.8.	EGWYDDOR Y DATBLYGIAD.....	77
4.9.	YSTYRIED DEWISIADAU AMGEN	79
4.10.	ASESIAD O'R EFFAITH AR YR AMGYLCHEDD	79
4.11.	ASESIAD RHEOLIADAU CYNEFINOEDD.....	79

5.	CANFYDDIADAU A CHASGLIADAU MEWN PERTHYNAS Â'R MATERION CYNLLUNIO	81
5.1.	CYFLWYNIAD	81
5.2.	YR ACHOS ANGEN AM Y DATBLYGIAD	81
5.3.	ASESU DEWISIADAU AMGEN	88
5.4.	GWRTHSEFYLL Y NEWID YN YR HINSAWDD	97
5.5.	BIOAMRYWIAETH, ECOLEG A CHADWRAETH NATUR	102
5.6.	PERYGL LLIFOGYDD/ ADNODDAU DŴR/ HALOGIAD TIR	121
5.7.	TIRWEDD AC AMWYNDER GWELEDOL/ DYLUNIAD A GOSODIAD	136
5.8.	TREFTADAETH DDIWYLLIANNOL	144
5.9.	SŴN A DIRGRYNIAD	152
5.10.	ANSAWDD AER AC ALLYRIADAU (SY'N CYNNWYS O LWCH, MWG AC AGER)	159
5.11.	TRAFFIG, TRAFNIDIAETH A RHEOLI GWASTRAFF	164
5.12.	EFFEITHIAU ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL (GAN GYNNWYS IECHYD DYNOL)/DEFNYDD TIR AMAETHYDDOL/ GOBLYGIADAU GWEITHIO MWYNAU/ AC EFFEITHIAU CRONNOL CYFFREDINOL	172
6.	CANFYDDIADAU A CHASGLIADAU MEWN PERTHYNAS AG ASESIAID RHEOLIADAU CYNEFINOEDD.....	189
6.1.	CYFLWYNIAD	189
6.2.	CANFYDDIADAU MEWN PERTHYNAS AG EFFEITHIAU SYLWEDDOL TEBYGOL	192
6.3.	AMCANION CADWRAETH	206
6.4.	CANFYDDIADAU MEWN PERTHYNAS AG EFFEITHIAU ANDWYOL AR GYFANRWYDD	206
6.5.	CASGLIADAU'R HRA	220
7.	CASGLIAD AR YR ACHOS AM GANIATÂD DATBLYGU	221
7.1.	CYFLWYNIAD	221
7.2.	Y CYDBWYSEDD CYNLLUNIO	221
8.	CAFFAEL GORFODOL A MATERION CYSYLLTIEDIG.....	229
8.1.	CYFLWYNIAD	229
8.2.	Y CAIS AM BWERAU CA A TP	229
8.3.	AT BA DDIBENION Y MAE ANGEN Y TIR	231
8.4.	GOFYNION DEDDFWRIAETHOL.....	232
8.5.	ARCHWILIO'R ACHOS CA A TP	234
8.6.	MATERION A GODWYD YN YR ARCHWILIAD/ GWRTHWYNEBIADAU I CA A TP	242
8.7.	GWRTHWYNEBIADAU SY'N WEDDILL AC YMATEB YR EXA	257
8.8.	TIR CATEGORI ARBENNIG	359
8.9.	YSTYRIAETHAU DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A DEDDF CYDRADDOLDEB 2010	363
8.10.	CASGLIADAU	365
9.	GORCHYMYN CANIATÂD DATBLYGU DRAFFT A MATERION CYSYLLTIEDIG	367
9.1.	CYFLWYNIAD	367
9.2.	Y DCO FEL Y GWNEIR CAIS AMDANO	368
9.3.	NEWIDIADAU YN YSTOD YR ARCHWILIAD	391
9.4.	CASGLIADAU	416
10.	CRYNODEB O GANFYDDIADAU A CHASGLIADAU	418

10.1.	YSTYRIED CANFYDDIADAU A CHASGLIADAU	418
10.2.	ARGYMHELLIAD	422

ATODIAD A: Rhestr o'r Datblygiad Awdurdodedig a'r Gwaith Ategol.....	II
ATODIAD B: LLYFRGELL YR ARCHWILIAD	XXXVIII
ATODIAD C: RHESTR TALFYRIADAU	CCL
ATODIAD CH: Y DCO ARGYMELLEDIG (Fersiwn Pont Bibell Ymgorfforedig y DCO).....	CCLVII
ATODIAD D – Dewis amgen yn lle'r DCO argymelledig (Fersiwn Croesfan â Ffos y DCO) ...	CCLVIII

Rhestr Tablau

Tabl 1. Safleoedd Ewropeaidd a nodweddion y nodwyd LSE ar eu cyfer gan yr Ymgeisydd/na ellid eu heithrio	196
Tabl 2: LSE ar safleoedd Ewropeaidd a nodweddion cymwys y gellir eithrio AEoI o'r Datblygiad Arfaethedig (ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad) yn eu cylch.....	208
Tabl 3: Casgliadau'r ExA mewn perthynas ag AEoI ar ddiwedd yr Archwiliad.....	215
Tabl 4: Gwrthwynebiadau i CA a TP a oedd yn weddill ar ddiwedd yr Archwiliad	244
Tabl 5: Newidiadau Allweddol i'r dDCO a wnaed yn ystod yr Archwiliad	393
Tabl 6: Darpariaethau DCO yr Argymhellir eu Newid.....	409



DALEN WALLAU – Piblinell Carbon Deuocsid HyNet – Cyf. Ffeil: EN070007

Adroddiad Canfyddiadau a Chasgliadau'r Awdurdod Archwilio a'i Argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net dyddiedig 20 Rhagfyr 2023

Cywiriadau y cytunwyd arnynt gan yr Awdurdod Archwilio cyn gwneud penderfyniad

Rhif y Dudalen	Paragraff	Gwall	Cywiriad	Ymateb yr Awdurdod Archwilio (ExA)
58	3.7.1	<ul style="list-style-type: none">• Cytundeb Paris (2015) Confensiwn Ramsar ar Wlyptiroedd o Bwys Rhyngwladol 1971.	Angen pwynt bwled arall ar gyfer Confensiwn Ramsar...	Cytuno.
68	4.1.5	<p>Er bod y prif faterion a amlygwyd wedi ffurfio'r sail i'r asesiad terfynol wedi hynny, fe'u hystyriwyd gan yr ExA o dan y penawdau canlynol yn y bennod hon, heb fod mewn trefn pwysigrwydd:</p> <ul style="list-style-type: none">□ Ansawdd aer ac allyriadau (sy'n cynnwys o lwch, mwg, ac ager).□ Asesu dewisiadau amgen.□ Bioamrywiaeth, ecoleg, a chadwraeth natur. <p>Yr angen am y datblygiad</p> <ul style="list-style-type: none">□ Y newid yn yr hinsawdd.	<p>Ychwanegu 'gwrthsefyll' cyn y newid yn yr hinsawdd i fod yn gyson â theitlau penodau eraill</p> <p>Symud rheoli gwastraff i'r adran traffig a</p>	Cytuno.

Rhif y Dudalen	Paragraff	Gwall	Cywiriad	Ymateb yr Awdurdod Archwilio (ExA)
		<ul style="list-style-type: none"> □ Treftadaeth ddiwylliannol. □ Perygl llifogydd, adnoddau dŵr, halogiad tir a rheoli gwastraff. □ Tirwedd ac amwynder gweledol/ dylunio a gosod. □ Sŵn a dirgryniad. □ Effeithiau economaidd-gymdeithasol (gan gynnwys iechyd dynol a goblygiadau gweithio mwynau). □ Traffig a thrafnidiaeth. 	thrafnidiaeth i fod yn gyson â theitlau penodau eraill	
114	5.5.54	Mae'r sail i honiad yr Ymgeisydd bod llain glustogi 30m Coed Cadw yn rhy ormodol yn berthynol i ganllawiau cenedlaethol cyffredinol.	Yn y fersiwn Saesneg, mae'r gair 'is' ar goll rhwng 'Applicant' a 'relative'	Cytuno.
122	5.5.90	O ystyried y risg leiafsymiol, mae'r ExA o'r farn bod y strategaeth digolledu coed gyffredinol, a sicheir gan y DCO arfaethedig, yn briodol mewn perthynas â chanllawiau cyffredinol PPW/ TAN sy'n gymwys yn ardal weinyddol FCC, a'r NPPF/ NPPG sy'n gymwys yn Lloegr.	Yn y fersiwn Saesneg, nid yw'r gair 'nor' yn ymddangos yn iawn yn y cyd-destun hwn – a ddylai fod yn 'and'?	Cytuno.

Rhif y Dudalen	Paragraff	Gwall	Cywiriad	Ymateb yr Awdurdod Archwilio (ExA)
134	5.6.48	I grynhoi, mae'r ExA yn derbyn bod y materion hyn yn gymhleth ac yn cynnwys risgiau posibl i'r amgylchedd dŵr. Mae'r ExA yn nodi bod ymagwedd adeiladu'r Ymgeisydd wedi'i hystyried yn dda gan ddefnyddio technegau modern, yn ogystal ag arfer gorau. Fodd bynnag, mae'r ExA wedi defnyddio ymagwedd ragofalus wrth asesu'r achos a gyflwynwyd. Mae'r ExA yn cydnabod y gallai'r corff dŵr ddirywio yn unol â phryderon CNC. Mae'r ExA hefyd wedi ystyried safle'r cwlfer cyfagos o dan yr A55 fel nodwedd ar hyd y cwrs dŵr, wrth wneud ei asesiad, fel cyfyngiad ffisegol presennol ar lif dŵr ac ecoleg.	Yn y fersiwn Saesneg, mae angen dileu 'is' yn y frawddeg olaf	Cytuno.
161	5.10.2	O ran Cymru, mae Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040, o'i ddarllen ar y cyd â PPW, yn cynnwys amcanion i gefnogi datgarboneiddio a gwella iechyd a'r amgylchedd trwy leihau amlygiad i lygredd aer gymaint â phosibl.	Yn y fersiwn Saesneg, mae angen colon cyn 'Y Cynllun Cenedlaethol 2040'	Cytuno.
169	5.11.18	Priffyrdd Cenedlaethol (NH) yw'r Ymgymwrwr Statudol sy'n gyfrifol am yr SNR yn Lloegr.	Dylai SNR fod yn SRN	Cytuno.

Rhif y Dudalen	Paragraff	Gwall	Cywiriad	Ymateb yr Awdurdod Archwilio (ExA)
170	5.11.24	Llywodraeth Cymru yw'r Awdurdod Priffyrdd ar gyfer yr SNR yng Nghymru.	Dylai SNR fod yn SRN	Cytuno.
208	6.2.72	O ystyried y rhesymeg a ddarparwyd, mae'r ExA o'r farn bod y Datblygiad Arfaethedig yn debygol o gael effaith arwyddocaol o'r llwybrau a nodwyd yn Nhabl 1.2.1 uchod ar nodweddion cymwys y safleoedd Ewropeaidd o'u hystyried yn unigol neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill. Nid oedd IPau wedi herio hyn yn ystod yr Archwiliad.	Dylai'r cyfeiriad at dabl fod yn Dabl 1 yn unig	Cytuno.
208	6.3.1	Mae'r amcanion cadwraeth ar gyfer y safleoedd a'r nodweddion a nodir uchod yn Nhabl 1.2.1 wedi'u hamlinellu yn Atodiad A HRAR yr Ymgeisydd. Mae Tabl 5.2 yr HRAR yn manylu ar y bygythiadau a'r pwysau hysbys sy'n berthnasol i'r safleoedd hyn.	Dylai'r cyfeiriad at dabl fod yn Dabl 1 yn unig	Cytuno.

Rhif y Dudalen	Paragraff	Gwall	Cywiriad	Ymateb yr Awdurdod Archwilio (ExA)
244	8.6.1	<p>Ar ddechrau'r Archwiliad, roedd yr APau canlynol wedi gwrthwynebu cynigion CA a TP neu godi pryderon ynglŷn â nhw:</p> <ul style="list-style-type: none"> □ Cadent Gas Limited [RR-006]. □ CRT [RR-008]. □ EA [RR-024]. □ Essar Oil UK Ltd [RR-002]. □ Exolum Pipeline Systems Limited [RR-033]. □ Network Rail (Cymru a Lloegr) (NR) [RR-026]. □ National Grid Electricity Transmission PLC (NGET) [RR-062]/ National Grid Gas PLC (NGG) [RR-063]. □ NH [RR-064]. □ Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) [RR-066]. □ Scottish Power Energy Networks (SPEN) [RR-075]. □ United Utilities Water (UUW) [RR-080]. □ Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) [RR-023]. □ A White Events Limited [RR-027]. □ Peel NRE Limited [RR-078]. □ Travelodge Hotels Limited [RR-011]. □ Ian Bentley [RR-044]. □ John Horace George Bletcher [RR-055]. □ Mr David John Brown, Mr James Edward Brown, a Mrs Ruth Brown [RR-073]. □ J.G. ac M.A. Brown a'u Mab [RR-045]. 	<p>Yr un bobl yw'r APau a amlygwyd yn felyn – a ellir eu symud at ei gilydd yn y rhestr neu ddileu un? Mae'n bosibl mai'r un bobl yw'r APau a amlygwyd yn las – nid oes rhagor o wybodaeth am y Meistri J ac E Williams yn yr adroddiad.</p> <p>Mae Encirc Limited ar goll o'r rhestr.</p>	<p>Cytunir bod y cyfeiriad at Mr B., Mrs S. a Mr M. Jones (Mollington) [RR-047] a Michael A. Jones a Sarah M. Jones a T. Benjamin Jones [RR-047] yn cyfeirio at yr un APau. Fel y cyfryw, dylai cyfeiriadau at Mr B., Mrs S. a Mr M. Jones (Mollington) [RR-047] gael eu dileu, a dylid cadw'r cyfeiriad at Michael A. Jones a Sarah M. Jones a T. Benjamin Jones [RR-047].</p> <p>Yr un APau yw'r Meistri EE (Eryl Edward) a JE (John Elfed) Williams [RR-029] a'r Meistri J ac E Williams [RR-069]. Mae ganddynt fuddiannau CA/ TP yn Lleiniau Rhif 17-42, 17-44, 18-01, 18-33, 19-01, 19-02 a 19-03 a gwnaethant sylwadau [RR-029], [RR-069], [AS-067] a [REP4-282]. Mae paragraffau 8.7.12 i 8.7.15 yr Adroddiad Argymhelliad yn berthnasol i'r AP hwn.</p> <p>Mae Mr E. a Mrs J. Williams [RR-048] yn bobl wahanol i'r rhai a</p>

Rhif y Dudalen	Paragraff	Gwall	Cywiriad	Ymateb yr Awdurdod Archwilio (ExA)
		<ul style="list-style-type: none"> □ Y Meistri MJ ac A Cheers [RR-032]. □ David Leigh Connah [RR-043]. □ Brian Cook [RR-005]. □ Emma Clare Craven-Smith-Milnes [RR-071]. □ Ysgutorion yr Ymadawedig Mrs Gwyneth Evans [RR-052]. □ Sarah Harley [RR-074]. □ Peter Hardern [RR-050]. □ Y Teulu Hewitt [RR-053]. □ Andrew a Karen Hirst [RR-041]. □ Mr B., Mrs S. a Mr M. Jones (Mollington) [RR-047]. □ Frances Isobel Jones, Kevin Glyn Jones, a Sarah Ann Jones [RR-072]. □ Michael A. Jones a Sarah M. Jones a T. Benjamin Jones [RR-047]. □ Richard Benjamin Jones (R B a J Jones a’u Mab) [REP1-081]. □ Andrew Mullock [RR-042]. □ Y Meistri H W Oultram a’u Cwmni, Miss C Oultram a’r Meistri S ac A Oultram [RR-030]. □ John Calvin Peers [RR-046]. □ Myles David Platt [RR-049]. □ Stephanie Roberts [RR-051]. □ Gillian Stevenson [RR-037]. □ Y Meistri AM a JM Walton [RR-028]. 		<p>fanylir uchod ac nid oes ganddynt fuddiant CA/ TP yn Llain Rhif 17-26. Mae paragraffau 8.7.60 i 8.7.63 yr Adroddiad Argymhelliad yn berthnasol i’r AP hwn.</p> <p>Fel y cyfryw, dylai’r testun mewn glas ddweud:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Mr E. a Mrs J. Williams [RR-048]. ▪ Y Meistri EE a JE Williams [RR-029] a [RR-069]. <p>Gan droi at y ffaith bod Encirc Limited ar goll o’r rhestr ym mharagraff 8.6.1, mae’r paragraff yn dweud “<u>Ar ddechrau’r Archwiliad</u>, roedd yr APau canlynol wedi gwrthwynebu cynigion CA a TP neu godi pryderon ynglŷn â nhw...” (Fy mhwyslais i yw’r hyn a danlinellwyd). Ni chododd Encirc Limited bryderon ar ddechrau’r Archwiliad ac ni wnaeth unrhyw sylwadau i’r Awdurdod Archwilio tan Ddyddiad Cau 2 (23 Mai 2023), tua 2 fis ar ôl i’r Archwiliad ddechrau.</p>

Rhif y Dudalen	Paragraff	Gwall	Cywiriad	Ymateb yr Awdurdod Archwilio (ExA)
		<ul style="list-style-type: none"> □ Philip Warrington [RR-068] a Vera Elaine Warrington [RR-082]. □ Mr E. a Mrs J. Williams [RR-048]. □ Y Meistri EE a JE Williams [RR-029]. □ Y Meistri J ac E Williams [RR-069]. □ Carl Woods [RR-009]. □ Y Meistri J Wrench a’u Mab [RR-031]. 		Fel y cyfryw, ni chafodd ei gynnwys yn y rhestr ym mharagraff 8.6.1, gan fod y paragraff hwn yn rhestru cyflwyniadau a wnaed ar ddechrau’r Archwiliad yn unig.
246	8.6.4	<p>Cyflwynwyd [AS-073] yn ystod yr Archwiliad gan J Bradburn Price a’i Gwmni, ar ran nifer o APau a oedd eisoes wedi gwrthwynebu CA a TP neu fynegi pryder ynglŷn â nhw ar ddechrau’r Archwiliad. Fodd bynnag, roedd hefyd yn cynnwys tri APau newydd, a chododd bryderon ynglŷn â CA a TP ar eu rhan. Rhestrir yr APau newydd hyn isod:</p> <ul style="list-style-type: none"> □ Michelle Elford [AS-073]. □ Mr a Mrs K.N. Garner [AS-073]. □ Mr R, Mrs N., Mr I a Mr G Jones [AS-073]. 	Yn y fersiwn Saesneg, dileu ‘number’ a’i ddisodli â ‘new’	Cytuno
256	8.6.10 (Tabl 4)	**Yn dynodi mai dim ond Emma Clare Craven-Smith-Milnes nad yw wedi’i rhestru yn y BoR yn erbyn y rhif llain hwnnw.	Dileu ‘nad yw’ a’i ddisodli â ‘sydd’	Ni chytunir ar hyn. Yn ôl y BoR, nid oes gan Emma Clare Craven-Smith-Milnes fuddiannau mewn lleiniau rhif 5-01, 5-02, 5-03. Felly, os dylid

Rhif y Dudalen	Paragraff	Gwall	Cywiriad	Ymateb yr Awdurdod Archwilio (ExA)
				dileu unrhyw air, dylid dileu'r geiriau 'dim ond'.
288	8.7.170	<p>Mynegodd Brian Cook bryderon ynglŷn â CA/ TP yn RR [RR-005]. Roedd y pryderon hyn yn ymwneud â'r 1.5 erw gerllaw ei eiddo y mae'n ei defnyddio i hyfforddi ei gŵn a thyfu ffrwythau a phlanhigion bach eraill. Mae'n awgrymu bod y biblinell yn cael ei hailalinio i ochr arall ei ffin, fel ei bod yn mynd trwy gae ffermwr cyffiniol, gan ei fod o'r farn bod ailaliniad o'r fath yn fwy economaidd hyfyw.</p> <p>Dywedodd Mr Cook hefyd fod Rostons wedi cael ei benodi i weithredu ar ei ran. Fodd bynnag, mae'r ExA yn nodi na dderbyniwyd unrhyw gyflwyniadau o'r fath gan Rostons ar ran Mr Cook yn ystod yr Archwiliad.</p>	Yn y fersiwn Saesneg, dileu 'and' a'i ddisodli ag 'an' cyn 'adjoining'	Cytuno
385	9.2.54	Er gwaethaf yr uchod, fel y cyfryw, os bydd yr SoS ar gyfer DESNZ yn penderfynu gwneud y DCO, bydd angen iddo fod yn fodlon bod geiriad y PP a gynhwysir yn Atodlen 10, Rhan 7 y DCO fel y'u cytunwyd yn derfynol rhwng yr Ymgeisydd a CRT a	Amnewid 'CRT' â 'WWU'	Cytuno. Yn ogystal, mae angen i Ran 7 gael ei chywiro i Ran 10.

Rhif y Dudalen	Paragraff	Gwall	Cywiriad	Ymateb yr Awdurdod Archwilio (ExA)
		bod y partïon yn fodlon ar unrhyw gytundebau tir gwirfoddol a gwblhawyd rhwng y partïon hyn.		
423	10.2.1	Cadent Gas Limited (Cadent) mewn perthynas â Rhan 6 (er mwyn Amddiffyn Cadent);	Fe ddylai fod yn rhan 5	Cytuno

1. CYFLWYNIAD

1.1. CYFLWYNIAD I'R ARCHWILIAD

1.1.1. Cyflwynwyd y cais ar gyfer Piblinell Carbon Deuocsid (CO₂) HyNet (y Datblygiad Arfaethedig) gan Liverpool Bay CCS Limited (yr Ymgeisydd) i'r Arolygiaeth Gynllunio ar 3 Hydref 2022 o dan adran (a) 31 Deddf Cynllunio 2008 (PA2008) ac fe'i derbyniwyd i'w Archwilio o dan a55 PA2008 ar 31 Hydref 2022 [PD-001] (Cymraeg) a [PD-002] (Saesneg).

1.1.2. Mae'r Datblygiad Arfaethedig yn cynnwys adeiladu, gweithredu, a chynnal a chadw piblinell CO₂ danddaear newydd o Swydd Gaerlleon yn Lloegr i Sir y Fflint yng Nghymru. Byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn cynnwys piblinell 60.4-cilometr (km) a seilwaith cysylltiedig. Amlinellir crynodeb o elfennau'r Datblygiad Arfaethedig isod:

- Adeiladu piblinell (CO₂) newydd:
 - Piblinell AGI Ince i AGI Stanlow – rhan 4km newydd o biblinell danddaear newydd ar y tir (20" o ddiamedr) i gludo CO₂;
 - Piblinell AGI Stanlow i AGI y Fflint – rhan 32km o biblinell danddaear newydd ar y tir (36" o ddiamedr) i gludo CO₂; a
 - Phiblinell AGI y Fflint i Gysylltiad y Fflint – rhan 0.4km o biblinell danddaear newydd ar y tir (24" o ddiamedr) i gludo CO₂;
- Piblinell nwy naturiol bresennol tua 24km sy'n cludo nwy naturiol ar hyn o bryd ond a fyddai'n cael ei haddasu at ddiben gwahanol a'i hailddefnyddio i gludo CO₂, y cyfeirir ati fel Piblinell Cysylltiad y Fflint i Derfynell y Parlwr Du (PoA) – rhan o biblinell danddaear bresennol ar y tir Cei Connah i PoA (24" o ddiamedr);
- pedwar AGI – Ince, Stanlow, Northop Hall, a'r Fflint;
- chwe Gorsaf Falfiau Bloc (BVSau) – wedi'u lleoli ar hyd:
 - Piblinell newydd AGI Stanlow i AGI y Fflint (tair i gyd);
 - Piblinell bresennol Cysylltiad y Fflint i Derfynell PoA (tair i gyd);
- seilwaith arall ar ben y tir, gan gynnwys cabinetau unioni newidyddion amddiffyn cathodig a physt marcio piblinell;
- seilwaith cysylltu â chyfleustodau, gan gynnwys cyfleustodau pŵer a chebl ffeibr optig; a
- gwaith atodol dros dro sy'n rhan annatod o adeiladu'r biblinell CO₂, gan gynnwys cyfadeiladau adeiladu a thraciau mynediad dros dro.

1.1.3. Mae Adran 2 y dogfennau Memorandwm Esboniadol (EM) [REP7-017] (sy'n gysylltiedig â'r fersiwn o'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) a ffefrir gan yr Ymgeisydd) (y fersiwn croesi â ffos) a [REP7-018] (sef yr EM sy'n gysylltiedig â'r fersiwn arall o'r DCO) (y fersiwn pont biblinell ymgorfforedig) yn amlinellu'r datblygiad y mae angen caniatâd datblygu ar ei gyfer, fel Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP).

1.1.4. Mae'r Ymgeisydd wedi cynnig dwy fersiwn o'r DCO mewn perthynas â sut y bydd y Datblygiad Arfaethedig yn croesi Nant Alltami yng Nghymru. Esbonnir y rhesymau dros hyn yn fanylach ym Mhennod 5 yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, o ran y ddwy fersiwn o'r DCO, mae Pennod 3

Datganiad Amgylcheddol (ES) yr Ymgeisydd (Disgrifiad o'r Datblygiad Arfaethedig) [REP7-036] yn disgrifio'r dull adeiladu sy'n gysylltiedig â phob fersiwn fel a ganlyn:

- Y fersiwn a ffefrir gan yr Ymgeisydd, sef croesi Nant Alltami â ffos, trwy gloddio ffos agored, gostwng y bibell i mewn i'r ffos, ac ôl-lenwi â'r deunydd a gloddiwyd.
- Y fersiwn arall, sef pont biblinell ymgorfforedig i groesi Nant Alltami, lle mae'r biblinell yn dod allan o'r tir, ar bob ochr i Nant Alltami, ac yn cael ei chludo ar draws y Nant wedi'i hymgorffori o fewn pont wedi'i gosod ar sylfeini. Byddai'r strwythur hwn yn cael ei adeiladu o goncrit yn bennaf.

1.1.5. Mae Adran 2 yr EMau hyn hefyd yn esbonio bod yr Ymgeisydd wedi ystyried y cyfyngiad ar gynnwys 'Datblygiad Cysylltiedig' yng Nghymru, gan esbonio ymhellach yn ei Ddatganiad Cynllunio [REP4022] ym mharagraff 1.4.2 bod y diffiniad o 'biblinell' yn cynnwys unrhyw gyfarpar a gwaith sy'n gysylltiedig â hynny, gan gynnwys falfiau, cyflenwadau pŵer a seilwaith cyfathrebu yn benodol. Felly, mae'r Ymgeisydd o'r farn bod yr holl elfennau sy'n angenrheidiol i weithredu'r biblinell yn dod o fewn y diffiniad o 'biblinell' ac na chynigir 'Datblygiad Cysylltiedig'. (Trafodir mater 'Datblygiad Cysylltiedig' yn fanylach ym Mhennod 4.8 yr adroddiad hwn).

1.1.6. Mae'r EMau [REP7-017] a [REP7-018] hefyd yn amlinellu bod Atodlen 1, Rhan 1 y DCO drafft (dDCO) yn pennu elfennau amrywiol y 'Datblygiad Awdurdodedig', tra bod Atodlen 1, Rhan 2 y dDCO yn disgrifio 'gwaith atodol'. Mae Rhifau Gwaith 1 i 57N yn cynnwys y 'Datblygiad Awdurdodedig' arfaethedig ac fe'u hamlinellir fel y manylir yn Atodiad A yr Adroddiad Argymhelliad hwn, ac felly hefyd y diffiniad o 'waith atodol'.

1.1.7. Enw'r DCO, os caiff ei wneud, fydd "Gorchymyn Piblinell Carbon Deuocsid HyNet...", a nodir y flwyddyn pryd y gwneir y Gorchymyn ar ddiwedd enw'r Gorchymyn.

1.1.8. Amlinellir y disgrifiad o lwybr y Datblygiad Arfaethedig yn y Datganiad Amgylcheddol (ES) ym Mhennod 3 [REP7-036] ac fe'i dangosir ar y cynlluniau canlynol, ynghyd â'u rhifau cyfeirnod perthnasol yn Llyfrgell yr Archwiliad (EL):

- Cynllun Lleoliad [REP7-006];
- Cynlluniau Tir [CR3-003], yn cynnwys cynllun allwedd a 38 o ddalenni ar wahân wedi'u rhifo 1, 1A a 2 i 37 (yn gynnwysedig);
- Cynlluniau Gwaith [REP7-007], yn cynnwys cynllun allwedd a 38 o ddalenni ar wahân wedi'u rhifo 1, 1A a 2 i 37 (yn gynnwysedig);
- Cynlluniau Tir Categori Arbennig [REP7-008], yn cynnwys un cynllun wedi'i farcio'n Ddalen 1;
- Cynlluniau Tir y Goron [CR3-004], yn cynnwys cynllun allwedd ac 8 o ddalenni ar wahân wedi'u rhifo 6 i 9 (yn gynnwysedig), 17 i 19 (yn gynnwysedig) a 22;
- Cynlluniau Mynediad a Hawliau Tramwy [REP8-004], yn cynnwys cynllun allwedd a 38 o ddalenni ar wahân wedi'u rhifo 1, 1A a 2 i 37 (yn gynnwysedig);

- Cynlluniau Lleoliad Cynllunio AGI [REP7-010], yn cynnwys 4 dalen wedi'u rhifo 1 i 4 (yn gynwysedig);
- Cynlluniau Gweddau AGI [REP2-007], yn cynnwys 4 dalen wedi'u rhifo 1 i 4 (yn gynwysedig);
- Cynllun Lleoliad BVS [CR1-014], yn cynnwys 6 dalen wedi'u rhifo 1 i 6 (yn gynwysedig);
- Cynlluniau Gweddau BVS [REP2-006], yn cynnwys 6 dalen wedi'u rhifo 1 i 6 (yn gynwysedig); a
- chynlluniau dangosol yn cynnwys:
 - Cynlluniau Trefniant Cynllunio AGI [REP7-011], yn cynnwys 4 dalen wedi'u rhifo 1 i 4 (yn gynwysedig); a
 - Chynlluniau Trefniant Cynllunio BVS [REP7-009] yn cynnwys 6 dalen wedi'u rhifo 1 i 6 (yn gynwysedig).

- 1.1.9. Yn ogystal, mae disgrifiad o 'Dir y Gorchymyn'/ 'Terfynau'r Gorchymyn' wedi'i amlinellu yn adran 3 y SoR [REP7-021] ac wedi'i amlygu ar y Cynlluniau Tir [CR3-003].
- 1.1.10. Mae'r Cais wedi esblygu drwy gydol yr Archwiliad, a'r lluniadau a fanylir uchod yw'r fersiynau terfynol a gyflwynwyd cyn i'r Archwiliad gau.
- 1.1.11. Mae llwybr y Datblygiad Arfaethedig yn drawsffiniol ac yn mynd trwy Gymru a Lloegr. Mae llwybr y Datblygiad Arfaethedig o fewn ffiniau gweinyddol Cyngor Sir y Fflint (FCC) a Chyngor Bwrdeistref Gorllewin Swydd Gaerlleon a Chaer (CWCC).
- 1.1.12. Ystyriwyd y profion deddfwriaethol ar gyfer p'un a yw'r Datblygiad Arfaethedig yn NSIP gan yr Ysgrifennydd Gwladol (SoS) ar gyfer yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (sef yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau bellach) ac yn ei benderfyniad, a wnaed gan yr Arolygiaeth Gynllunio ar ran yr SoS, i dderbyn y Cais i'w Archwilio yn unol ag a55 PA2008 [PD-001] (Cymraeg) a PD-002 (Saesneg).
- 1.1.13. Amlinellodd y ffurflen gais [AS-003] y farn bod y Datblygiad Arfaethedig yn NSIP gan ei fod yn golygu adeiladu piblinell traws gwlad sy'n fwy nag 16.093 cilometr (km) o hyd, neu y bwriedir iddi fod yn fwy na'r hyd hwnnw. Mae'r Ymgeisydd yn datgan mai hyd yr elfen o'r biblinell a adeiledir o'r newydd yn Natblygiad Arfaethedig y DCO yw oddeutu 36km, ac felly ei bod yn 'biblinell traws gwlad' sy'n fwy na'r trothwy.
- 1.1.14. Daeth yr Arolygiaeth Gynllunio i'r casgliad fod y Datblygiad Arfaethedig yn golygu adeiladu piblinell traws gwlad, gydag un pen yng Nghymru a'r pen arall yn Lloegr, heblaw gan drawsgludydd nwy y byddai angen iddo (onibai am a33(a) PA2008) gael awdurdodiad o dan a1(1) Deddf Piblinellau 1962 a'i fod yn ddatblygiad sy'n NSIP o fewn a21 PA2008. Felly, mae angen i'r Datblygiad Arfaethedig gael caniatâd datblygu yn unol ag a31, ac mae'n bodloni'r diffiniad o NSIP a amlinellir yn a14(1)(g) PA2008.

1.2. PENODI'R AWDURDOD ARCHWILIO

- 1.2.1. Ar 17 Ionawr 2023, penodwyd Christopher Butler (Arweinydd y Panel) a Matthew Shrigley yn Awdurdod Archwilio (ExA) ar gyfer y cais o dan a61 ac a65 PA2008 [PD-007].

1.3. YR UNIGOLION A OEDD YN YMWNEUD Â'R ARCHWILIAD

- 1.3.1. Yr unigolion a oedd yn ymwneud â'r Archwiliad oedd:
- Unigolion a chanddynt hawl i fod yn Bartïon â Buddiant (IPau) oherwydd eu bod wedi gwneud sylw perthnasol (RR) neu oherwydd yr oeddent yn barti statudol a oedd wedi gofyn am gael bod yn IP.
 - Unigolion yr Effeithir Arnynt (APau) yr oedd cynnig Caffael Gorfodol (CA) a / neu Feddiannu Dros Dro (TP) a wnaed yn rhan o'r Cais yn effeithio arnynt ac yr oeddent wedi ei wrthwynebu ar unrhyw gam yn ystod yr Archwiliad.

1.4. YR ARCHWILIAD A PHENDERFYNIADAU GWEITHDREFNOL

- 1.4.1. Dechreuodd yr Archwiliad ar 20 Mawrth 2023 a daeth i ben ar 20 Medi 2023.
- 1.4.2. Crynhoir prif elfennau a digwyddiadau'r Archwiliad isod. Mae disgrifiad llawnach, graddfeydd amser a dyddiadau i'w gweld ar dudalen Amserlen yr Archwiliad ar dudalen we'r prosiect ar wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol yr Arolygiaeth Gynllunio¹ ac yn Amserlen yr Archwiliad sydd i'w gweld yn Atodiad A llythyr Rheol 8 yr ExA [PD-012], fel y'i diwygiwyd gan benderfyniadau gweithdrefnol yr ExA i ddiwygio Amserlen yr Archwiliad a wnaed o dan Reol 8(3) Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 (EPR) ar 18 Gorffennaf 2023 [PD-026] a 14 Medi 2023 [PD-029].

Y Cyfarfod Rhagarweiniol

- 1.4.3. Ar 20 Chwefror 2023, ysgrifennodd yr ExA at yr holl IPau, Partïon Statudol ac Unigolion Eraill o dan Reol 6 yr EPR (y Llythyr Rheol 6) yn eu gwahodd i'r Cyfarfod Rhagarweiniol (PM) [PD-011], gan amlinellu'r canlynol:
- y trefniadau a'r agenda ar gyfer y PM;
 - Asesiad Cychwynnol o'r Prif Faterion;
 - yr Amserlen Archwiliad ddrafft;
 - argaeledd RRau a dogfennau'r cais; a
 - phenderfyniadau gweithdrefnol yr ExA.
- 1.4.4. Cynhaliwyd y PM yn rhithwir ar 20 Mawrth 2023 ac fe'i ffrydiwyd yn fyw. Cyhoeddwyd recordiad fideo [EV-001] a nodyn o'r cyfarfod [EV-005] ar wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol yr Arolygiaeth Gynllunio. Roedd

¹ <https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/projects/wales/hynet-carbon-dioxide-pipeline/?ipcsection=overview>

modd cymryd rhan yn y PM a'r Archwiliad yn Gymraeg, yn ogystal â Saesneg, oherwydd darparwyd cyfleusterau cyfieithu.

- 1.4.5. Rhoddodd penderfyniadau gweithdrefnol yr ExA ac Amserlen yr Archwiliad ystyriaeth lawn i'r materion a godwyd yn y PM. Fe'u darparwyd yn y Llythyr Rheol 8 [PD-012], dyddiedig 27 Mawrth 2023.

Penderfyniadau Gweithdrefnol Allweddol

- 1.4.6. Roedd y rhan fwyaf o'r penderfyniadau gweithdrefnol a amlinellwyd yn y Llythyr Rheol 8 yn ymwneud â materion a oedd yn gyfyngedig i weithdrefn yr Archwiliad ac nid oeddent yn berthnasol i ystyriaeth yr ExA o rinweddau cynllunio'r Datblygiad Arfaethedig. At hynny, roedd yr Ymgeisydd ac IPau perthnasol wedi cydymffurfio â nhw yn gyffredinol. Gellir gweld y penderfyniadau gweithdrefnol yn y Llythyr Rheol 8 [PD-012] ac felly nid oes angen eu hailadrodd yma.

Archwiliadau Safle

- 1.4.7. Cynhelir Archwiliadau Safle yn rhan o Archwiliadau PA2008 i sicrhau bod gan yr ExA ddealltwriaeth ddigonol o'r Datblygiad Arfaethedig o fewn ei safle a'i amgylchoedd a'i effeithiau ffisegol a gofodol.
- 1.4.8. Lle y gellir gweld y materion sydd i'w harchwilio o dir y cyhoedd ac nid oes unrhyw ystyriaethau eraill fel diogelwch personol neu angen adnabod nodweddion neu brosesau perthnasol, cynhelir Archwiliad Safle Digwmni (USI). Pan fydd angen cynnal archwiliad ar dir y mae angen cael caniatâd i fynd arno, pan fydd ystyriaethau diogelwch neu dechnegol eraill a / neu pan wneir ceisiadau i fod yn bresennol yn ystod archwiliad, cynhelir Archwiliad Safle gyda Chwmni (ASI).
- 1.4.9. Cynhaliodd yr ExA yr USIau canlynol:
- Cynhaliwyd USI1 yn ystod oriau golau dydd ar 15 Tachwedd 2022.
 - Cynhaliwyd USI2 ar fore 16 Tachwedd 2022.
 - Cynhaliwyd USI3 ar fore 9 Mehefin 2023.
- 1.4.10. Cynhaliwyd y tri USI i alluogi'r ExA i ymglyfarwyddo â llwybr y Datblygiad Arfaethedig a'r ardal amgylchynol ac i gefnogi'r Archwiliad. Ymwelodd yr ExA â nifer o leoliadau ac edrychodd ar y safle o fannau agos ac ymhellach i ffwrdd. Roedd yr holl leoliadau yn hygyrch i'r cyhoedd. Gellir gweld nodiadau o USI1, USI2 ac USI3, sy'n darparu cofnod gweithdrefnol o bob USI, yn yr EL o dan y cyfeiriadau canlynol:
- USI1 [EV-003]
 - USI2 [EV-004]
 - USI3 [EV-004a]
- 1.4.11. Cynhaliodd yr ExA yr ASIAu canlynol hefyd:
- Cynhaliwyd ASI1 ar brynhawn 7 Awst 2023.
 - Cynhaliwyd ASI2 yn ystod oriau golau dydd ar 8 Awst 2023.

- 1.4.12. Cynhaliwyd ASI1 ac ASI2 i alluogi'r ExA i ymgyfarwyddo â'r safle ac edrych ar y nodweddion ffisegol y gellir eu gweld arno, neu ohono. Roedd hyn yn cynnwys ymweld â thir y ceisir pwerau CA/ TP drosto ac arsylwi'r rhwydwaith ffyrdd, o fewn ac yn gyfagos i lwybr y Datblygiad Arfaethedig. Gellir gweld yr amserlen ar gyfer yr ASIAu hyn yn llythyr Rheol 16 yr ExA [PD-021] yn Atodiad A ar gyfer ASI1 ac Atodiad B ar gyfer ASI2.
- 1.4.13. Mae'r ExA wedi ystyried y wybodaeth a'r argraffiadau a gafwyd yn ystod ei archwiliadau safle ym mhob adran berthnasol o'r Adroddiad hwn.

Prosesau Gwrandawriad

- 1.4.14. Cynhelir gwrandawiadau yn rhan o Archwiliadau PA2008 mewn dwy brif sefyllfa:
- I ymateb i geisiadau penodol gan unigolion sydd â hawl i gael eu clywed – yn gwyno:
 - lle mae unigolion y mae cynigion CA a/ neu TP yn effeithio arnynt, sef AP, yn gwrthwynebu ac yn gofyn am gael eu clywed mewn Gwrandawriad CA (CAH); a/ neu
 - lle mae IPau yn gofyn am gael eu clywed mewn Gwrandawriad Llawr Agored (OFH).
 - I fynd i'r afael â materion sy'n cael eu harchwilio y mae'r ExA o'r farn bod angen gwrandawriad i ymholi iddynt ar lafar, yn nodweddiadol oherwydd eu bod yn gymhleth, oherwydd bod elfen o ddadl neu anghytundeb, neu oherwydd nad yw'n glir sut y cymhwysir cyfraith berthnasol neu bolisi perthnasol.
- 1.4.15. Cynhaliodd yr ExA nifer o wrandawiadau i sicrhau bod y materion a godwyd gan y Cais yn cael eu harchwilio'n drwyadl. O ganlyniad i natur drawsffiniol y Datblygiad Arfaethedig, sy'n mynd rhwng Cymru a Lloegr, cynhaliwyd y gwrandawiadau mewn dau leoliad ar wahân yn ystod dwy wythnos ar wahân, gydag oddeutu 2 fis rhyngddynt, ac roeddent yn cynnwys cyfleusterau cyfieithu a roddodd gyfle i'r holl gyfranogwyr gymryd rhan. Cafodd y gwrandawiadau hyn eu cynnal yn rhithwir ar Microsoft Teams a'u ffrydio'n fyw, yn ogystal â chael eu recordio a'u cyhoeddi ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol.
- 1.4.16. Dechreuodd y gyfres gyntaf o wrandawiadau yn ystod yr wythnos yn dechrau 5 Mehefin 2023. Fe'u cynhaliwyd wyneb yn wyneb yng Ngwesty'r Village, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3YB, sef lleoliad hygyrch ac eithaf canolog i linell llwybr y Datblygiad Arfaethedig yng Ngogledd Cymru, ac felly ystyriwyd ei fod yn lleoliad priodol i IPau fynychu.
- 1.4.17. Cynhaliwyd yr ail gyfres o wrandawiadau yn ystod dau ddiwrnod ar 9 a 10 Awst 2023. Fe'u cynhaliwyd wyneb yn wyneb yn The Crowne Plaza, Trinity Street, Caer, CH1 2BD, sef lleoliad hygyrch ac eithaf canolog i linell llwybr y Datblygiad Arfaethedig yn Lloegr, ac felly ystyriwyd ei fod yn lleoliad priodol i IPau fynychu.

1.4.18. Cynhaliwyd tri Gwrandawriad Mater Penodol (ISH) o dan a91 PA2008 fel a ganlyn:

- Cynhaliwyd yr ISH cyntaf ynglŷn â Materion Amgylcheddol (ISH1) ar 6 Mehefin 2023. Eisteddodd ISH1 mewn tair sesiwn, a chafodd yr holl sesiynau eu cynnal yn rhithwir ar Microsoft Teams, eu ffrydio'n fyw, a'u recordio ar fideo hefyd. Mae'r recordiadau o Sesiwn 1 ISH1 [EV-008], Sesiwn 2 ISH1 [EV-009] a Sesiwn 3 ISH1 [EV-010] wedi cael eu cyhoeddi ar wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol yr Arolygiaeth Gynllunio.
- Cynhaliwyd yr ail ISH ynglŷn â'r dDCO (ISH2) ar 8 Mehefin 2023. Eisteddodd ISH2 mewn tair sesiwn, a chafodd yr holl sesiynau eu cynnal yn rhithwir ar Microsoft Teams, eu ffrydio'n fyw, a'u recordio ar fideo hefyd. Mae'r recordiadau o Sesiwn 1 ISH2 [EV-020], Sesiwn 2 ISH2 [EV-021] a Sesiwn 3 ISH2 [EV-022] wedi cael eu cyhoeddi ar wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol yr Arolygiaeth Gynllunio.
- Roedd y trydydd ISH yn wrandawriad cyfun lle y clywyd Materion Amgylcheddol a'r dDCO yn yr un gwrandawriad (ISH3). Fe'i cynhaliwyd ar 9 Awst 2023 ac fe eisteddodd mewn tair sesiwn, a chafodd yr holl sesiynau eu cynnal yn rhithwir ar Microsoft Teams, eu ffrydio'n fyw, a'u recordio ar fideo hefyd. Mae'r recordiadau o Sesiwn 1 ISH3 [EV-028], Sesiwn 2 ISH3 [EV-029] a Sesiwn 3 ISH3 [EV-030] wedi cael eu cyhoeddi ar wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol yr Arolygiaeth Gynllunio.

1.4.19. Cynhaliwyd dau CAH o dan a92 PA2008 fel a ganlyn:

- Cynhaliwyd y CAH cyntaf (CAH1) ar 7 Mehefin 2023 ac fe eisteddodd mewn tair sesiwn, a chafodd yr holl sesiynau eu cynnal yn rhithwir ar Microsoft Teams, eu ffrydio'n fyw, a'u recordio ar fideo hefyd. Mae'r recordiadau o Sesiwn 1 CAH1 [EV-014], Sesiwn 2 CAH2 [EV-015] a Sesiwn 3 CAH1 [EV-016] wedi cael eu cyhoeddi ar wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol yr Arolygiaeth Gynllunio.
- Cynhaliwyd yr ail CAH (CAH2) ar 10 Awst 2023 ac fe eisteddodd mewn dwy sesiwn, a chafodd y ddwy sesiwn eu cynnal yn rhithwir ar Microsoft Teams, eu ffrydio'n fyw, a'u recordio ar fideo hefyd. Mae'r recordiadau o Sesiwn 1 CAH2 [EV-034] a Sesiwn 2 CAH2 [EV-035] wedi cael eu cyhoeddi ar wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol yr Arolygiaeth Gynllunio.

1.4.20. Rhoddwyd cyfle i'r holl unigolion yr oedd cynigion CA a/neu TP yn effeithio arnynt (APau) gael eu clywed. Defnyddiodd yr ExA y gwrandawriadau hyn i archwilio achos yr Ymgeisydd dros CA a TP yn fwy cyffredinol hefyd.

1.4.21. Cynhaliwyd OFH o dan a93 PA2008 ar brynhawn 10 Awst 2023 ac fe eisteddodd mewn dwy sesiwn, a chafodd y ddwy sesiwn eu cynnal yn rhithwir ar Microsoft Teams, eu ffrydio'n fyw, a'u recordio ar fideo hefyd. Mae'r recordiadau o Sesiwn 1 OFH [EV-038] a Sesiwn 2 OFH [EV-039] wedi cael eu cyhoeddi ar wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol yr Arolygiaeth Gynllunio. Rhoddwyd cyfle i'r holl IPau gael eu clywed ar unrhyw bwnc pwysig a pherthnasol yr oeddent yn dymuno ei godi.

Prosesau Ysgrifenedig

1.4.22. Mae Archwiliad o dan PA2008 yn broses ysgrifenedig yn bennaf, lle mae'r ExA yn ystyried deunydd ysgrifenedig sy'n ffurfio'r Cais ac sy'n deillio o'r Archwiliad. Mae'r holl ddeunydd hwn wedi'i gofnodi yn yr EL (Atodiad B) a'i gyhoeddi ar-lein. Mae cyfeiriadau yn yr adroddiad hwn at ddogfennau unigol yn yr EL wedi'u hamgáu mewn cromfachau sgwâr [], ac mae Atodiad B (Llyfrgell yr Archwiliad) yn darparu hyperddolenni i'r ddogfen wreiddiol a ddelir ar-lein. Am y rheswm hwn, nid yw'r Adroddiad hwn yn cynnwys crynodebau helaeth o'r holl ddogfennau a sylwadau, er y rhoddwyd ystyriaeth lawn iddynt yng nghasgliadau'r ExA. Mae'r ExA wedi ystyried yr holl faterion pwysig a pherthnasol sy'n deillio ohonynt.

1.4.23. Amlinellir ffynonellau ysgrifenedig allweddol ymhellach isod.

Sylwadau Perthnasol

1.4.24. Cafodd yr Arolygiaeth Gynllunio wyth deg a thri o RRau [RR-001] i [RR-083]. Derbyniodd pawb a luniodd RR y Llythyr Rheol 6 a rhoddwyd cyfle iddynt gymryd rhan yn yr Archwiliad fel IP. Mae'r ExA wedi rhoi ystyriaeth lawn i'r holl RRau. Ystyrir y materion a godwyd ganddynt ym Mhenodau 4, 5, 6 ac 8 yr Adroddiad hwn.

Sylwadau Ysgrifenedig a Dogfennau Eraill yr Archwiliad

1.4.25. Rhoddwyd cyfleoedd i'r Ymgeisydd ac IPau:

- wneud sylwadau ysgrifenedig (WRau) (Terfyn Amser (DL) 1);
- gwneud sylwadau ar WRau a wnaed gan yr Ymgeisydd ac IPau eraill (DL2);
- crynhoi eu cyflwyniadau llafar mewn gwrandawidiadau yn ysgrifenedig (DL4 a DL7);
- gwneud cyflwyniadau ysgrifenedig eraill y gofynnwyd amdanynt neu a dderbyniwyd gan yr ExA; a
- gwneud sylwadau ar yr Adroddiad ar y Goblygiadau i Safleoedd Ewropeaidd (RIES) [OD-008] a gyhoeddwyd ar 1 Awst 2023 erbyn DL7.

1.4.26. Mae'r ExA wedi rhoi ystyriaeth lawn i'r holl WRau a dogfennau eraill yr Archwiliad. Ystyrir y materion a godwyd ganddynt ym Mhenodau 4, 5, 6 ac 8 yr Adroddiad hwn.

Adroddiad(au) ar yr Effaith Leol

1.4.27. Mae Adroddiad ar yr Effaith Leol (LIR) yn adroddiad a wneir gan awdurdod lleol perthnasol sy'n rhoi manylion effaith debygol y Datblygiad Arfaethedig ar ardal yr awdurdod (neu unrhyw ran o'r ardal honno) a wahoddwyd ac a gyflwynwyd i'r ExA o dan a60 PA2008.

1.4.28. Mae'r ExA wedi derbyn LIRau, ynghyd ag atodiadau, gan yr awdurdodau lleol perthnasol canlynol:

- CWCC – LIR [REP1A-002], Atodiad [REP1A-003]; a
- FCC [REP1A-005], Atodiad [REP1A-006].

1.4.29. Mae'r ExA wedi rhoi ystyriaeth lawn i'r LIRau ym mhob Pennod berthnasol o'r Adroddiad hwn.

Datganiadau Tir Cyffredin

1.4.30. Mae Datganiad Tir Cyffredin (SoCG) yn ddatganiad y cytunwyd arno rhwng yr Ymgeisydd ac un IP neu fwy, sy'n cofnodi materion maen nhw'n cytuno arnynt.

1.4.31. Erbyn diwedd yr Archwiliad, roedd y cyrff canlynol wedi cwblhau SoCGau gyda'r Ymgeisydd:

- 2 Sisters Food Group / Amber Real Estate [REP7-275].
- Cadw [REP6A-010].
- Glandŵr Cymru [REP7-265].
- CWCC [REP8-021].
- Asiantaeth yr Amgylchedd (EA) [REP9-004].
- Essar Oil (UK) Limited [REP9-008].
- FCC [REP7-259].
- Historic England [REP6A-009].
- Piblinell Hydrogen y Gogledd-orllewin HyNet [REP7-280].
- Priffyrdd Cenedlaethol [REP7-263].
- Natural England (NE) [REP8-022].
- Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) [REP7-261].
- Network Rail Cymru a Lloegr [REP8-026].
- Peel NRE Limited [REP7-262].
- Royal Mail Group Limited [REP7-270].
- Scottish Power Energy Networks [REP7-267].
- Vertex Hydrogen Limited [REP8-027].
- Wales & West Utilities [REP9-009].
- Llywodraeth Cymru [REP7-264].
- Dŵr Cymru [REP7-266].
- Coed Cadw [REP6A-015].

1.4.32. Mae'r ExA wedi rhoi ystyriaeth i'r holl SoCGau a restrir uchod ym mhob pennod berthnasol o'r adroddiad hwn.

1.4.33. Honnodd yr Ymgeisydd ei fod wedi cwblhau SoCG gydag Encirc Limited erbyn DL9, ond ni chyflwynodd y ddogfen honno i'r Archwiliad. Fel y cyfryw, roedd SoCGau drafft rhwng yr Ymgeisydd a'r IPau canlynol wedi cael eu cyflwyno erbyn diwedd yr Archwiliad:

- British Pipeline Agency [REP5-010].
- Cadent Gas [REP9-003].
- Encirc Limited [REP6-026].
- Exolum Pipeline Systems [REP6A-013].
- National Grid Electricity Transmission [REP6-017].
- National Gas Transmission [REP6-018].

1.4.34. Gan fod y SoCGau drafft uchod heb eu llofnodi/ heb eu dyddio ar ddiwedd yr Archwiliad, mae'r ExA wedi rhoi pwys cyfyngedig iddynt yn unig mewn perthynas â'r argymhelliad.

1.4.35.

Gofynnodd yr ExA i'r Ymgeisydd geisio SoCGau gyda CF Fertilizers UK Limited, yr Awdurdod Glo, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE), Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau (MCA), Asiantaeth Diogelwch Iechyd y Deyrnas Unedig (DU) ac United Utilities hefyd. Fodd bynnag, dywedodd yr Ymgeisydd yn ei 'Ddatganiad Cyffredinedd ynghylch Datganiadau Tir Cyffredin' [REP9-006], a gyflwynwyd erbyn DL9, er y cynigiodd SoCG i'r cyrff hyn, eu bod wedi gwrthod llunio SoCG am y rhesymau canlynol:

- Cadarnhaodd CF Fertilizers UK Ltd ei fod "*...yn dymuno dibynnu r y Darpariaethau Amddiffynnol, a pheidio â llunio SoCG.*" Mae copi o'r neges e-bost gan CF Fertilizers UK Ltd at yr Ymgeisydd, dyddiedig 20 Gorffennaf 2023, sy'n cadarnhau'r safbwynt hwn wedi'i leoli yn Atodiad A Datganiad Cyffredinedd ynghylch SoCG yr Ymgeisydd [REP9-006].
- Cadarnhaodd yr Awdurdod Glo "*...nad yw'n ymddangos bod unrhyw anghytundeb mewn perthynas â'r gwaith ychwanegol sy'n angenrheidiol ...i sicrhau bod materion sefydlogrwydd tir yn cael eu hymchwilio a'u trin yn briodol. ... nid oes gwahaniaeth barn yn yr achos hwn ac ...nid oes angen SoCG ffurfiol.*" Mae copi o'r neges e-bost gan yr Awdurdod Glo at yr Ymgeisydd, dyddiedig 28 Mawrth 2023, sy'n cadarnhau'r safbwynt hwn wedi'i leoli yn Atodiad A Datganiad Cyffredinedd ynghylch SoCG yr Ymgeisydd [REP9-006].
- Yr HSE – Dywedodd yr Ymgeisydd yn ei ymateb i lythyr Rheol 17 yr ExA [REP9-012] ei fod wedi rhoi SoCG drafft i'r HSE, ond cadarnhaodd ar 20 Medi 2023 "*...eu bod nhw [yr HSE] wedi ymateb yn uniongyrchol i'r ExA yn lle cysylltu â'r Ymgeisydd ynglŷn â'r SoCG drafft, felly ni chyflwynir SoCG.*"
- Cadarnhaodd Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau ei bod "*...yn fodlon y bydd ein cylch gwaith yn derbyn sylw'n briodol trwy'r gyfundrefn trwyddedu morol ac nad oes angen bwrw ymlaen â SoCG ar gyfer y DCO hwn ar gyfer Prosiect HyNet.*" Mae copi o'r llythyr gan yr MCA at yr Ymgeisydd, dyddiedig 17 Mawrth 2023, sy'n cadarnhau'r safbwynt hwn wedi'i leoli yn Atodiad A Datganiad Cyffredinedd ynghylch SoCG yr Ymgeisydd [REP9-006].
- Cadarnhaodd Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU mewn llythyr at yr Ymgeisydd ei bod, yn gyffredinol, "*...yn fodlon nad oes unrhyw feysydd pryder neu anghytundeb yn weddill ac felly'n awgrymu nad oes angen SoCG.*" Gellir gweld copi o'r llythyr hwn, dyddiedig 26 Ebrill 2023, yn Atodiad A Datganiad Cyffredinedd ynghylch SoCG yr Ymgeisydd [REP9-006].
- Cadarnhaodd United Utilities Water Ltd, yn ei gyflwyniad erbyn DL9 [REP9-018] "*...ei fod bellach wedi cytuno ar gyfres o Ddarpariaethau Amddiffynnol penodol â'r Ymgeisydd...*" a'i fod "*...wedi dewis peidio â bwrw ymlaen â'r SoCG ffurfiol.*"

1.4.36.

Yn ogystal â'r uchod, nododd yr ExA fod Datganiad Cyffredinedd ynghylch SoCG yr Ymgeisydd [REP9-006], a gyflwynwyd erbyn DL9, yn dweud bod trafodaethau ynglŷn â'r SoCG gyda'r cwmnïau a amlinellir isod wedi cael eu hoedi gan yr Ymgeisydd am y rhesymau canlynol:

- Anesco, o ganlyniad i ddiffyg ymgysylltu â'r rhanddeiliad hyd yma.

- Enso Energy, o ganlyniad i ddiffyg ymgysylltu â'r rhanddeiliad hyd yma.
- Lanes End Development Limited, oherwydd nododd yr Ymgeisydd fod y cwmni wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr yn ddiweddar.
- Shell, oherwydd cadarnhaodd gyda'r Ymgeisydd nad yw'n dymuno bwrw ymlaen â SoCG mwyach. Mae'r Ymgeisydd yn nodi bod gohebiaeth rhwng yr IP hwn a'r Ymgeisydd ar gael yn Atodiad A Datganiad Cyffredinedd ynghylch SoCG yr Ymgeisydd [REP9-006]. Fodd bynnag, nid yw'n glir o'r ohebiaeth honno bod yr ysgrifennydd yn cynrychioli Shell neu ei fuddiannau.
- Redrow PLC, o ganlyniad i ddiffyg ymgysylltu â'r rhanddeiliad hyd yma.

1.4.37. Mae'r ExA wedi rhoi ystyriaeth lawn i'r SoCG(au) (heblaw am y rhai heb eu llofnodi neu anghyflawn y cyfeirir atynt uchod) ym mhob Pennod berthnasol o'r Adroddiad hwn.

Cwestiynau Ysgrifenedig

1.4.38. Gofynnodd yr ExA dair rownd o gwestiynau ysgrifenedig.

- Amlinellwyd y cwestiynau ysgrifenedig cyntaf (ExQ1) [PD-013] (Cymraeg)/ [PD-014] (Saesneg) a'r penderfyniadau gweithdrefnol yn y llythyr Rheol 8 [PD-012], dyddiedig 27 Mawrth 2023.
- Cyhoeddwyd yr ail gwestiynau ysgrifenedig (ExQ2) [PD-022] ar 15 Mehefin 2023.
- Cyhoeddwyd y trydydd cwestiynau ysgrifenedig (ExQ3) [PD-027] ar 15 Awst 2023.

1.4.39. Gofynnwyd am wybodaeth ychwanegol a sylwadau o dan Reol 17 yr EPR ar 14 Medi 2023 [PD-028]. Ceisiodd ddiweddariadau ynglŷn â'r canlynol:

- niwed i ymgymeriadau Ymgymerydd Statudol (SU) lle nad oedd SUau wedi tynnu unrhyw wrthwynebiad a oedd yn weddill yn ôl cyn diwedd yr Archwiliad, gan gynnwys absenoldeb cadarnhad ysgrifenedig gan SUau ynghylch statws y darpariaethau amddiffynnol ac unrhyw gytundebau ochr angenrheidiol;
- cynnydd a wnaed o ran CA/ TP;
- cynnydd o ran dod i gytundeb ag IPau penodedig ynglŷn â SoCGau;
- llythyr dim rhwystr NE;
- p'un a yw'r dDCO yn Atodlen 3 yn ymdrin â phob rhan o'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol (SRN), yng ngoleuni safbwynt Priffyrdd Cenedlaethol bod gwaith twnelu o dan yr SRN yn waith stryd (Gweler cyflwyniadau DL7 a DL8 Priffyrdd Cenedlaethol [REP7-316] a [REP8-046], fel y'u cefnogir gan CWCC [REP7-306], [REP8-041], [REP8-041a] a [REP8-042] ac FCC [REP8-044]). Pe byddai'r ExA yn dod i'r casgliad fod y gwaith twnelu o dan yr SRN yn waith stryd, a fyddai angen unrhyw newidiadau eraill i'r DCO;
- geiriad penodol ynglŷn â Darpariaethau Amddiffynnol o blaid Exolum (Gweler cyflwyniadau DL8 Exolum [REP8-050] a [REP8-051]);

- statws unrhyw gytundeb(au) a111 sy'n cael eu cwblhau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 172, ac unrhyw Gytundebau Perfformiad Cynllunio sy'n cael eu cwblhau rhwng yr Ymgeisydd a CWCC a/ neu FCC;
- eglurhad ynglŷn â'r cyfeiriad at gwblhau cytundeb a106 o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (Gweler cyflwyniad DL8 FCC [REP8-044]);
- diweddariad ynglŷn â chydsyniad(au) y Goron sy'n weddill gan Ystad y Goron;
- ymatebion i sylwadau a wnaed erbyn DL8 gan yr EA [REP8-043] a'r HSE [REP8-045]; a
- thystiolaeth bod Shell yn cadarnhau nad oedd yn dymuno bwrw ymlaen â SoCG.

1.4.40. Mae'r holl ymatebion i gwestiynau ysgrifenedig yr ExA wedi cael eu pwysu a'u mesur yn llawn a'u hystyried ym mhob Pennod berthnasol o'r Adroddiad hwn.

Ceisiadau i Ymuno â'r Archwiliad a'i Arael

1.4.41. Cafwyd nifer o geisiadau hwyr gan bartïon i ddod yn IPau, a chadarnhawyd y partïon hynny'n IPau gan yr ExA ar:

- 17 Chwefror 2023:
 - British Pipeline Agency Limited [PD-008],
 - Cellnex UK [PD-009]; a
 - Nicola Berrow [PD-010].
- 19 Ebrill 2023:
 - Wireless Infrastructure Group [PD-015]

1.4.42. Roedd yr unigolion/ sefydliadau ar y rhestr uchod yn IPau yn awtomatig oherwydd eu bod yn AP ac felly'n dod o dan ddarpariaethau a102(A) PA2008.

1.4.43. Ar 26 Ebrill 2023, arferodd yr ExA ei ddisgresiwn i dderbyn Cyflwyniad Ychwanegol gan Stephen Gibbins [AS-064], nad oedd yn IP, a oedd yn ceisio hyrwyddo llwybr amgen ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig. Yn ei ymateb i gyflwyniadau DL1 [REP1-042], yn nhabl 2.14, nododd yr Ymgeisydd y cyflwyniadau niferus a wnaed gan Mr Gibbins iddo yn 2021 a 2022, yn ogystal â'i gynnig ar gyfer llwybr Coridor Gogleddol. Cadarnhaodd ei fod wedi amlinellu'r rhesymau dros beidio â symud ymlaen â'r llwybr amgen a hyrwyddwyd ganddo, a amlinellwyd hefyd yn ei ymateb i gyflwyniadau DL1 [REP1-042], yn ei ymateb iddo ar 8 Gorffennaf 2021. Amlygodd yr Ymgeisydd hefyd ei ES ym Mhennod 4 (Ystyried Dewisiadau Amgen) [APP-056] (a ddiweddarwyd erbyn DL7 gan [REP7-038]), sy'n asesu'r dewisiadau amgen ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig, gan gynnwys opsiynau llwybr piblinell.

1.4.44. Nid oedd unrhyw geisiadau eraill i ymuno â'r Archwiliad gan unigolion nad oeddent eisoes yn IPau ar adeg y PM neu ar ôl hynny.

1.4.45. Yn ystod yr Archwiliad, ni ysgrifennodd unrhyw unigolion at yr ExA i gofnodi'n ffurfiol bod eu materion wedi'u datrys a'u bod yn tynnu eu sylwadau yn ôl.

1.5. ASESIAID O'R EFFAITH AMGYLCHEDDOL

1.5.1. Rhoddodd yr Ymgeisydd hysbysiad o dan Reoliad 8(1)(b) Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2017 (y Rheoliadau EIA) o'i fwriad i ddarparu Datganiad Amgylcheddol (ES). Felly, yn unol â Rheoliad 6(2)(a) y Rheoliadau EIA, penderfynodd yr ExA fod y Datblygiad Arfaethedig yn ddatblygiad EIA.

1.5.2. Ar 3 Mehefin 2021, cyflwynodd yr Ymgeisydd Adroddiad Cwmpasu i'r SoS o dan Reoliad 10 y Rheoliadau EIA er mwyn gofyn am farn ynglŷn â chwmpas yr ES a oedd i'w baratoi (Barn Gwmpasu) [APP-073] i [APP-075] (yn gynwysedig) (Ailgyflwynwyd y dogfennau hyn i'r Archwiliad wedi hynny fel [REP7-069] i [REP7-071] (yn gynwysedig)).

1.5.3. Ymatebodd yr Arolygiaeth Gynllunio drwy ddarparu Barn Gwmpasu [APP-076] (a ailgyflwynwyd i'r Archwiliad wedi hynny fel [REP7-072]) ym mis Gorffennaf 2021.

1.5.4. At ei gilydd, mae'r ExA o'r farn bod yr ES, fel y'u hategwyd â gwybodaeth ychwanegol yn ystod yr Archwiliad, yn ddigonol i alluogi'r SoS i wneud penderfyniad yn unol â'r Rheoliadau EIA.

1.5.5. Mae'r ExA o'r farn nad oedd newidiadau i'r dogfennau, a ffurfiodd yr ES yn ystod yr Archwiliad, ynghyd â'r ceisiadau i wneud newidiadau (gweler adran 2.2 yr adroddiad hwn) wedi tanseilio cwmpas yr asesiad o'r ES yn unigol nac ar y cyd. Bydd Pennod 3 yr adroddiad hwn yn crynhoi'r effeithiau amgylcheddol o dan bob pwnc.

1.5.6. Roedd yr ES a gyflwynwyd gyda'r Datblygiad Arfaethedig yn cynnwys y dogfennau canlynol: [APP-053] i [APP-221]. Ailgyflwynwyd y rhain i'r Archwiliad wedi hynny fel:

- REP7-030 i REP7-034 (eilrifau);
- REP7-035; REP7-036 i REP7-040 (eilrifau);
- REP7-041; REP7-042 i REP7-054 (eilrifau);
- REP7-055 i REP7-069 (odrifau);
- REP7-070 i REP7-077 (yn gynwysedig);
- REP7-079 i REP7-83 (yn gynwysedig);
- REP7-085 i REP7-087 (yn gynwysedig);
- REP7-089 i REP7-109 (odrifau);
- REP7-110 i REP7-130 (yn gynwysedig);
- REP7-132 i REP7-136 (yn gynwysedig);
- REP7-138;
- REP7-140;
- REP7-141 i REP7-149 (odrifau);
- REP7-152;
- REP7-153 i REP7-163 (odrifau);
- REP7-164 i REP7-170 (eilrifau);
- REP8-013;

- REP7-174;
- REP7-175;
- REP8-015 i REP8-017 (yn gynwysedig);
- REP7-184;
- REP7-185; a
- REP7-187 i REP7-235 (yn gynwysedig)).

1.5.7. Ar 18 Ionawr 2023, rhoddodd yr Ymgeisydd dystysgrif i'r Arolygiaeth Gynllunio yn cadarnhau y cydymffurfiwyd â Rheoliad 16 y Rheoliadau EIA [OD-002].

1.5.8. Ystyrir digonolrwydd yr ES a materion sy'n codi ohono ym Mhenodau 4 a 5 yr Adroddiad hwn.

1.6. ASESIAID RHEOLIADAU CYNEFINOEDD

1.6.1. Mae'r Datblygiad Arfaethedig yn ddatblygiad y darparwyd Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) ar ei gyfer.

1.6.2. Ystyrir digonolrwydd yr Adroddiad HRA, gwybodaeth a thystiolaeth gysylltiedig, a'r materion sy'n codi ohono ym Mhenodau 4, 5 a 6 yr Adroddiad hwn.

1.7. YMGYMERIADAU, RHWYMEDIGAETHAU A CHYTUNDEBAU

1.7.1. Erbyn diwedd yr Archwiliad, nid oedd unrhyw faterion a oedd yn destun unrhyw ymgymeriadau, rhwymedigaethau a/ neu gytundebau ar wahân. Ymdrinnir â'r holl ystyriaethau perthnasol yn yr Adroddiad hwn fel rhai sy'n berthnasol i'r DCO.

1.8. CYDSYNIADAU ERAILL

1.8.1. Mae dogfennau'r Cais a chwestiynau yn ystod yr Archwiliad hwn wedi amlygu'r cydsyniadau canlynol y mae'r Datblygiad Arfaethedig wedi'u cael neu y mae'n rhaid iddo eu cael, yn ogystal â Chaniatâd Datblygu o dan PA2008. Cofnodir y sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas â'r rhain isod.

1.8.2. Yn berthnasol i Gymru yn unig:

- **Cydsyniad/ Caniatâd Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig** o dan a28 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 ar gyfer gweithgareddau adeiladu o fewn/ sy'n effeithio ar safle(oedd) o ddiddordeb gwyddonol arbennig, a allai gynnwys croesfan Afon Dyfrdwy.
Rheoleiddiwr: CNC.
Sefyllfa: Ymgeisio amdano ar ddechrau'r gwaith adeiladu (neu cyn gweithgareddau adeiladu penodol), os bydd angen.
- **Trwydded Forol** o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. Byddai hyn yn ofynnol ar gyfer gweithgareddau a wneir o fewn ardal forol drwyddedadwy ar gyfer croesfan Afon Dyfrdwy.

Rheoleiddiwr: CNC, gan fod pwynt croesi Afon Dyfrdwy wedi'i leoli'n gyfan gwbl yng Nghymru a CNC yw'r rheoleiddiwr islaw penllanw cymedrig y gorllanw ac allan hyd at 12 môr-filltir.

Sefyllfa: Cadarnhaodd yr Ymgeisydd yn ei 'Ymateb i ExQ3' [REP8-036] fod ei Gais am Drwydded Forol wedi cael ei ailgyflwyno ar 1 Medi 2023, ar ôl iddo gael ei dynnu'n ôl yn flaenorol.

- **Esemptiadau Trwydded Forol** o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2010 a Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) 2011 mewn perthynas â gweithgareddau a wneir o fewn ardal forol drwyddedadwy.

Regulator: NRW.

Position: Apply for prior to the start of construction (or prior to specific construction activities), if required.

- **Cymeradwyo system draenio dŵr wyneb** o dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (Atodlen 3) a Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Gweithdrefn Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018, oherwydd bod rhaid i systemau draenio gael eu cymeradwyo gan FCC, gan weithredu yn ei swyddogaeth fel y Corff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy o fewn ei awdurdodaeth.

Rheoleiddiwr: CNC.

Sefyllfa: Ymgeisio cyn dechrau'r gwaith adeiladu (neu cyn gweithgareddau adeiladu penodol).

1.8.3. Yn berthnasol i Gymru a Lloegr:

- **Trwydded Amgylcheddol** o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016, mewn perthynas â'r canlynol:

- Trwydded Gosod

Caniatâd/ Trwydded: Trwydded Gosod A1 (Bwrpasol) yn gysylltiedig â gweithgareddau a restrir yn Atodlen 1; a Thwydded Gosod A1 – rheolau safonol (effaith isel) yn gysylltiedig â gweithgareddau gosod effaith isel.

Rheoleiddiwr: Yr EA a CNC.

Sefyllfa: Ymgeisio cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau (neu cyn gweithgareddau adeiladu penodol), os oes angen;

- Gwastraff

Caniatâd/ Trwydded: Pwrpasol; Rheolau Safonol; Esemptiadau; a Datganiad o'r Sefyllfa Reoleiddiol – Y cyfan yn gysylltiedig â Gweithrediadau Gwastraff.

Rheoleiddiwr: Yr EA a CNC.

Sefyllfa: Ymgeisio cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau (neu cyn gweithgareddau adeiladu penodol), os oes angen;

- Ansawdd Aer

Caniatâd/ Trwydded: Trwydded generadur penodedig – rheolau safonol (risg isel), pwrpasol syml (risg isel) neu bwrpasol cymhleth (risg uchel) i gynnwys allyriadau sylffwr deuocsid, ocsidau nitrogen a llwch i'r aer fel y bo'n berthnasol i eneraduron â chapasiti o

rhwng 1 Megawat Thermol o ynni (MWth) a 50MWth wrth losgi unrhyw danwydd.

Rheoleiddiwr: Yr EA a CNC.

Sefyllfa: Ymgeisio cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau (neu cyn gweithgareddau adeiladu penodol), os oes angen;

- Offer Symudol

Caniatâd/ Trwydded:

- i) Rheolau Safonol (SR2008No27) ar gyfer Offer Symudol ar gyfer triniaeth neu briddoedd a deunydd halogedig, sylweddau neu gynhyrchion ar gyfer trin, adfer gwastraff, cymysgu, cyfuno, trin dŵr daear pwmpiedig oddi ar y safle.

- ii) Rheolau Safonol (SR2010No5) ar gyfer Offer Symudol i adhawlio, adfer neu wella tir sy'n gysylltiedig â storio a chymysgu gwastraff a ganiateir.

- iii) Trwydded offer mathru a sgrinio symudol ar gyfer mathru, malu neu leihau maint, gyda pheiriannau a ddyluniwyd at y diben hwnnw: brics, teils neu goncrit neu unrhyw fwynau dynodedig, yn ogystal â sgrinio'r cynnyrch.

Rheoleiddiwr: Yr EA a CNC.

Sefyllfa: Ymgeisio cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau (neu cyn gweithgareddau adeiladu penodol), os oes angen;

- Perygl Llifogydd

Caniatâd/ Trwydded:

- i) Trwydded Gweithgarwch Perygl Llifogydd – Pwrpasol yn gysylltiedig â'r holl waith dros dro a pharhaol ar neu gerllaw prif afon, ar neu gerllaw strwythur amddiffyn rhag llifogydd, ar neu gerllaw amddiffynfa fôr neu mewn gorlifdir.

- ii) Gweithgarwch Perygl Llifogydd – Esemptiad yn gysylltiedig â rhyw fath o adeiladu neu gynnal a chadw strwythurau, atgyweirio, gwaith gwella, ac ati.

- iii) Trwydded Gweithgarwch Perygl Llifogydd – Esemptiad yn gysylltiedig â gwaith ar raddfa lai, e.e. gwaith o fewn neu ar strwythurau presennol, arwyddion, ffensys, gwaith a wneir mewn argyfwng.

Rheoleiddiwr: Yr EA a CNC.

Sefyllfa: Ymgeisio cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau (neu cyn gweithgareddau adeiladu penodol), os oes angen; ac

- Mae'n bosibl y bydd angen Caniatâd/ Trwydded ar gyfer gollwng i ddŵr wyneb ar gyfer gollwng dŵr wyneb dihalogedig sy'n deillio o ddad-ddyfrio cloddiadau os bydd hyn yn parhau am fwy na thri mis yn olynol.

Rheoleiddiwr: Yr EA.

Sefyllfa: Cais i'w gyflwyno cyn adeiladu, os bydd angen gan y contractwr.

- **Trwydded COMAH** o dan Reoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr (COMAH) 2015. Mae'n bosibl y bydd angen hyn neu roi hysbysiad o ran AGI Stanlow mewn perthynas â'r AGI newydd.

Rheoleiddiwr: HSE.

Sefyllfa: Mae'r Ymgeisydd yn nodi y bydd cais/ ceisiadau neu hysbysiad(au) yn cael eu gwneud, os bydd angen, gan weithredwr Safle Stanlow.

Sylwer: Mae'r Ymgeisydd yn pwysleisio y bydd yn cadw at y rheoliadau i atal damweiniau mawr sy'n cynnwys sylweddau peryglus o ran unrhyw weithgarwch a allai achosi risg damwain sy'n cynnwys sylweddau peryglus. Fodd bynnag, mae hefyd yn nodi nad yw CO₂ wedi'i ddsbarthu'n Sylwedd Peryglus o dan COMAH ar hyn o bryd.

- **Caniatâd Ymchwiliad Dŵr Daear**, o dan a32 Deddf Adnoddau Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd) ar gyfer caniatâd i adeiladu twll turio neu ffynnon, cloddio dalbwll, cwblhau profion pwmpio a thynnu mwy nag 20 metr ciwbig (m³) o ddŵr y dydd ar gyfer profi.
Rheoleiddiwr: Yr EA.
Sefyllfa: Cais i'w gyflwyno ar ôl i'r DCO hwn gael ei wneud, yn ogystal ag yn ystod y camau cyn-adeiladu ac adeiladu, os bydd angen.
Sylwer: Bydd y caniatâd ymchwiliad dŵr daear yn dangos a oes dŵr daear yn bresennol a pha effaith y byddai tynnu dŵr daear yn ei chael ar yr amgylchedd.
- **Caniatâd Sŵn Adeiladu** o dan a61 Deddf Rheoli Llygredd 1974. Fe allai hyn fod yn ofynnol cyn adeiladu'r Datblygiad Arfaethedig ar gyfer unrhyw waith a allai achosi niwsans sŵn.
Rheoleiddiwr: CWCC a FCC (mewn perthynas â'u hawdurdodaethau unigol).
Sefyllfa: Byddai cais yn cael ei wneud cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau, neu cyn gweithgareddau adeiladu penodol, os bydd angen.
- **Trwydded Offer Mathru a Sgrinio Symudol** o dan Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd 1999 ar gyfer mathru, malu neu leihau maint, gyda pheiriannau a ddyluniwyd at y diben hwnnw: brics, teils neu goncrit neu unrhyw fwynau dynodedig, yn ogystal â sgrinio'r cynnyrch.
Rheoleiddiwr: CWCC neu FCC (fel y bo'n berthnasol i'w hawdurdodaeth); yr EA; a CNC.
Sefyllfa: Byddai cais yn cael ei wneud cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau, neu cyn gweithgareddau adeiladu penodol, os bydd angen;
- **Trwydded ar gyfer Cludo Llwythi Anghyffredin** o dan Orchymyn Cerbydau Ffyrdd (Awdurdodi Mathau Arbennig) (Cyffredinol) 2003 neu o dan Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988.
Rheoleiddiwr: Yr Asiantaeth Ardystio Cerbydau; Priffyrdd Cenedlaethol; a CWCC neu FCC, yn gweithredu fel yr Awdurdod Priffyrdd Lleol mewn perthynas â'u hawdurdodaethau unigol.
Sefyllfa: Byddai cais yn cael ei wneud cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau, neu cyn gweithgareddau adeiladu penodol, os bydd angen.
- **Cymeradwyaeth Rheoliadau Adeiladu** o dan Ddeddf Rheoliadau Adeiladu 2010 (fel y'i diwygiwyd). Bydd angen hyn mewn perthynas ag adeiladau a strwythurau sy'n ffurfio rhan o'r Datblygiad Arfaethedig (dosberthir AGIau a BVSau yn adeiladau at ddibenion y Rheoliadau Adeiladu).

Rheoleiddiwr: CWCC a FCC (mewn perthynas â'u hawdurdodaethau unigol).

Sefyllfa: Ceisir Cymeradwyaeth Rheoliadau Adeiladu cyn ac yn ystod y cam adeiladu, os bydd angen, yn ogystal â chymeradwyo ar ôl adeiladu.

- **Trwydded Tynnu Dŵr** o dan a24 ac a25 Deddf Adnoddau Dŵr 1991 ac a1 Deddf Dŵr 2003 ar gyfer:
 - i) Trwydded Tynnu Dŵr (lawn) ar gyfer y rhan fwyaf o fathau o dynnu dŵr sy'n golygu tynnu mwy nag 20m³ y dydd, gan gynnwys tynnu dŵr wyneb a dŵr daear.
 - ii) Trwydded Tynnu Dŵr (trosglwyddo) i symud dros 20m³ o ddŵr y dydd o un ffynhonnell i un arall heb ddefnydd yn y canol, gan gynnwys dŵr wyneb a dŵr daear.
 - iii) Trwydded Tynnu Dŵr (dros dro) i dynnu mwy nag 20m³ o ddŵr y dydd dros gyfnod o lai na 28 niwrnod, gan gynnwys dŵr wyneb a dŵr daear.

Rheoleiddiwr: Yr EA a CNC.

Sefyllfa: Byddai cais yn cael ei wneud cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau (neu cyn gweithgareddau adeiladu penodol), os bydd angen.

- **Trwydded Cronni Dŵr** o dan Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991 (a25) yn gysylltiedig ag unrhyw waith adeiladu, newid, atgyweirio neu symud ymaith strwythurau cronni presennol, neu adeiladu cwlfertau, waliau cynnal, argaeau, coredau, neu wyriadau dros dro yn ystod y gwaith adeiladu.

Rheoleiddiwr: Yr EA a CNC.

Sefyllfa: Byddai cais yn cael ei wneud cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau (neu cyn gweithgareddau adeiladu penodol), os bydd angen.

- **Esemptiad Cronni Dŵr** o dan Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991 (a25) a Rheoliadau Tynnu Dŵr a'i Gronni (Esemptiadau) 2017 lle mae awdurdod cyhoeddus sy'n rheoli neu'n berchen ar ddyfrffyrdd neu harbyrau yn adeiladu cronfa newydd, yn newid cronfa bresennol neu'n rhwystro neu'n atal llif dyfroedd mewndirol wrth arfer ei bwerau neu ymgymryd â'i ddyletswyddau; lle yr awdurdodir cronni dŵr gan orchymyn sychder neu drwydded sychder; lle mae'r unigolion sy'n gwneud y gwaith wedi'u heithrio gan y Goron; lle mae strwythurau neu waith wedi'u hawdurdodi gan ddeddfwriaeth (er enghraifft deddf Seneddol); lle mae'r EA yn rhoi hysbysiad sy'n mynnu cronni dŵr at ddiben sgrinio ar gyfer llysywod neu sicrhau eu bod yn gallu mynd heibio yn unig.

Rheoleiddiwr: Yr EA a CNC.

Sefyllfa: Byddai cais yn cael ei wneud cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau (neu cyn gweithgareddau adeiladu penodol), os bydd angen.

- **Trwydded Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop** o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 a Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (Atodlenni 5, 6 ac 8) sy'n ofynnol mewn

perthynas ag ystlumod, dyfrgwn, a madfallod dŵr cribog yng Nghymru a Lloegr; sy'n ofynnol ar gyfer effeithiau a ystyrir ar hyn o bryd ar rywogaethau a'u manau llochesu/ gorffwys sy'n deillio o adeiladu'r Datblygiad Arfaethedig.

Rheoleiddiwr: NE a CNC.

Sefyllfa: Mae'r Ymgeisydd wedi cadarnhau bod trwyddedau drafft wedi cael eu cyflwyno yn ystod yr Archwiliad DCO, gyda'r bwriad o gyflwyno cais ffurfiol am drwydded Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop cyn adeiladu.

- **Trwydded Rhywogaeth a Warchodir ar gyfer Llygod y Dŵr** o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (Atodlen 5) ar gyfer effeithiau a ystyrir ar hyn o bryd ar lygod y dŵr a'u tyllau sy'n deillio o adeiladu'r Datblygiad Arfaethedig.

Rheoleiddiwr: NE.

Sefyllfa: Mae'r Ymgeisydd yn cynghori ei fod yn bwriadu cyflwyno trwyddedau drafft yn ystod yr Archwiliad DCO, gyda'r bwriad o gyflwyno cais ffurfiol am drwydded cyn adeiladu.

- **Trwydded Moch Daear** o dan Ddeddf Gwarchod Moch Daear 1992 i amharu ar frochfeydd at ddibenion datblygu (A24 ac LR24) sy'n ofynnol ar gyfer effeithiau a ystyrir ar hyn o bryd ar foch daear a'u brochfeydd sy'n deillio o adeiladu'r Datblygiad Arfaethedig.

Rheoleiddiwr: NE a CNC.

Sefyllfa: Mae'r Ymgeisydd yn cynghori ei fod yn bwriadu cyflwyno trwyddedau drafft yn ystod yr Archwiliad DCO, gyda'r bwriad o gyflwyno cais ffurfiol am drwydded cyn adeiladu.

- **Caniatâd/ Trwydded o dan Ddeddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975** ar gyfer:

i) Trwydded i drawsleoli pysgod ac awdurdodiad i ddefnyddio offer pysgota heblaw am wialen a llinell yng Nghymru a Lloegr (FR2) sy'n ofynnol ar gyfer effeithiau a ystyrir ar hyn o bryd ar bysgod sy'n deillio o adeiladu'r Datblygiad Arfaethedig.

ii) Esemptiad i weithio o fewn cyfnodau silio ar gyfer llysywod, llysywod pendoll yr afon, salmonidau a rhywogaethau pysgod bras er mwyn gwarchod pysgod a chynefin cysylltiedig, os oes angen.

iii) Dal neu symud ymaith cimychiaid afon anffrodorol yng Nghymru a Lloegr (CR1) sy'n gysylltiedig â rheoli cimychiaid afon anffrodorol.

Rheoleiddiwr: NE a CNC.

Sefyllfa: Byddai cais yn cael ei wneud cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau (neu cyn gweithgareddau adeiladu penodol), os bydd angen.

- **Trwydded Cwmpo Coed** o dan Ddeddf Coedwigaeth 1967 yn gysylltiedig â chwmpo coed/ gwrychoedd byw.

Rheoleiddiwr: Y Comisiwn Coedwigaeth a CNC, fel y bo'n berthnasol i'w hawdurdodaeth.

Sefyllfa: Byddai cais yn cael ei wneud cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau (neu cyn gweithgareddau adeiladu penodol), os bydd angen.

- **Cofrestrriad Cynhyrchwr Gwastraff Peryglus** a Nodiadau Llwyth Gwastraff sy'n ofynnol o dan Reoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru a Lloegr) 2005.
Rheoleiddiwr: Yr EA a CNC.
Sefyllfa: Byddai cais yn cael ei wneud cyn gweithgareddau adeiladu penodol, os bydd angen.
- **Trwydded i fod yn Gludwr, Brocer neu Ddeliwr Gwastraff**
Caniatâd/ Trwydded: Nodiadau Trosglwyddo Gwastraff; a Thrwydded Cludwr Gwastraff.
Rheoleiddiwr: Yr EA a CNC.
Sefyllfa: Byddai cais yn cael ei wneud cyn gweithgareddau adeiladu penodol.

1.8.4. O ran y caniatadau sy'n weddill a gofnodwyd uchod, mae'r ExA wedi ystyried y wybodaeth sydd ar gael yn berthnasol i'r rhain a, heb niweidio gallu penderfynwyr yn y dyfodol i arfer disgresiwn, mae wedi dod i'r casgliad nad oes rhwystrau rhag gweithredu'r Datblygiad Arfaethedig, petai'r SoS yn gwneud y DCO, a oedd yn amlwg o dystiolaeth yr Archwiliad.

1.8.5. Nodir bod yr Ymgeisydd wedi cyflwyno copi o 'lythyr dim rhwystr', a roddwyd iddo gan Natural England, dyddiedig 19 Medi 2023, yn ei 'Ymateb i'r Cais Rheol 17 am Wybodaeth' [REP9-011] (Gweler yn Atodiad 2 y ddogfen honno). Cadarnhaodd y 'llythyrau dim rhwystr', ar ôl asesu'r cais drafft am drwydded lliniaru madfallod dŵr cribog, ei fod "...yn gallu cadarnhau bellach, ar sail y wybodaeth a'r cynigion a ddarparwyd, nad yw Natural England yn gweld unrhyw rwystr rhag rhoi trwydded, pe byddai'r DCO yn cael ei roi."

1.9. STRWYTHUR YR ADRODDIAD

1.9.1. Mae strwythur yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

- Mae **Pennod 1** yn cyflwyno'r darlennydd i'r Cais, a'r prosesau a ddefnyddiwyd i gynnal yr Archwiliad a gwneud yr Adroddiad hwn.
- Mae **Pennod 2** yn disgrifio'r safle a'i amgylchoedd, y Datblygiad Arfaethedig, ei hanes cynllunio a hwnnw sy'n berthnasol i brosiectau cysylltiedig.
- Mae **Pennod 3** yn cofnodi'r cyd-destun cyfreithiol a pholisi ar gyfer penderfyniad yr SoS.
- Mae **Pennodau 4 a 5** yn amlinellu'r materion cynllunio a gododd o'r Cais ac yn ystod yr Archwiliad.
- Mae **Pennod 6** yn ystyried effeithiau ar Safleoedd Ewropeaidd a HRA.
- Mae **Pennod 7** yn amlinellu cydbwysedd yr ystyriaethau cynllunio sy'n codi o Benodau 4 a 5, yng ngoleuni'r wybodaeth ffeithiol, gyfreithiol a pholisi ym Mhenodau 1 i 3.
- Mae **Pennod 8** yn amlinellu archwiliad yr ExA o gynigion CA a TP.

- Mae **Pennod 9** yn ystyried goblygiadau'r materion sy'n codi o'r penodau blaenorol i'r DCO.
- Mae **Pennod 10** yn crynhoi'r holl ystyriaethau perthnasol ac yn amlinellu argymhelliad yr ExA i'r SoS.

1.9.2. Ategir yr adroddiad hwn gan yr Atodiadau canlynol:

- **Atodiad A** – Y Datblygiad Awdurdodedig a Gwaith Atodol.
- **Atodiad B** – Llyfrgell yr Archwiliad.
- **Atodiad C** – Rhestr Talfyriadau.
- **Atodiad Ch** – Y DCO Argymelledig.
- **Atodiad D** – Fersiwn Croesfan â Ffos y DCO.

2. Y CYNNIG A'R SAFLE

2.1. Y CAIS FEL Y'I GWNAED


- 2.1.1. Cyflwynwyd y cais ar 3 Hydref 2022 o dan adran 31 Deddf Cynllunio 2008 (PA2008) [APP-004] ac fe'i derbyniwyd i'w Archwilio o dan adran 55 PA2008 ar 31 Hydref 2022 [PD-001] (Cymraeg) a [PD-002] (Saesneg). Mae'r Datblygiad Arfaethedig yn cynnwys adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw piblinell Carbon Deuocsid (CO₂) danddaear newydd o Swydd Gaerlleon yn Lloegr i Sir y Fflint yng Nghymru. Amlinellir crynodeb o'r Datblygiad Arfaethedig ym mharagraff 1.1.2 yr adroddiad hwn, a dangosir lleoliad y safle ar y Cynllun Lleoliad [REP7-002].
- 2.1.2. Mae'r cais yn ceisio caniatâd datblygu ar gyfer gwaith fel y'i disgrifir yn y Datganiad Amgylcheddol (ES) Pennod 3 'Disgrifiad o Ddatblygiad Arfaethedig y Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO)' [REP7-036] a'r Datganiad Cynllunio [REP4-022]. Yn ogystal, amlinellir disgrifiad o 'Dir y Gorchymyn'/'Terfynau'r Gorchymyn' yn adran 3 y SoR [REP7-021] ac fe'i hamlygir ar y Cynlluniau Tir [CR3-003].

Y Biblinell Arfaethedig

- 2.1.3. Mae'r Ymgeisydd yn datgan bod tair rhan o'r Biblinell CO₂ Newydd sy'n ffurfio rhan o'r Datblygiad Arfaethedig, sef:
- Piblinell Gosodiad ar Ben y Tir (AGI) Ince i AGI Stanlow;
 - Piblinell AGI Stanlow i AGI y Fflint; a
 - Phiblinell AGI y Fflint i Gysylltiad y Fflint.
- 2.1.4. Mae hefyd yn datgan y bydd y Biblinell CO₂ Newydd yn cysylltu ag allyrwyr ymhellach i fyny er mwyn cludo'r CO₂ a ddaliwyd ac y bydd ganddi oes ddylunio o 40 mlynedd. Bydd y Datblygiad Arfaethedig yn galluogi tair rhan y Biblinell CO₂ Newydd, ar y cyd â Phiblinell Cysylltiad y Fflint i Derfynell y Parlwr Du (PoA) wedi'i haddasu at ddibenion gwahanol, i gludo tua 4.5 o dunelli metrig o CO₂ y flwyddyn.
- 2.1.5. Fe'i hadeiladir o ddur a bydd yn cyd-fynd â chod ymarfer y Safon Brydeinig ar gyfer Piblinellau (BS PD8010-1). Bydd y cyfan ohoni wedi'i chladdu o dan y ddaear, heblaw am rannau byr o fewn yr AGIau ac efallai lle y bydd yn croesi Nant Alltami yng Nghymru. Byddai'r dyfnder o dop/brig y bibell i arwyneb y tir yn amrywio ac yn dibynnu ar ffactorau technegol fel amodau'r tir, topograffeg a hyd y rhan o'r bibell. Fodd bynnag, byddai'r dyfnder claddedig yn 1.2 metr (m) o leiaf i frig y bibell mewn rhannau toriad agored ac yn ddyfnach ar gyfer croesfannau di-ffos er mwyn osgoi gwasanaethau presennol a rhwystrau ffisegol. Bydd y ffos toriad agored rhwng oddeutu 2.5m a 6m o ddyfnder i allu gosod y biblinell.
- 2.1.6. Defnyddir dulliau torri ffosydd agored ar gyfer mwyafrif y Biblinell CO₂ Newydd, ond ar gyfer croesfannau cymhleth, er mwyn osgoi amharu ar gyfleustodau, priffyrdd mawr, rheilffyrdd, cyrsiau dŵr a/ neu sensitifrwydd amgylcheddol penodol (e.e. coetir hynafol), byddai technegau gosod di-ffos arbenigol yn cael eu defnyddio, fel yr amlinellir

yng Nghofrestr Camau Gweithredu ac Ymrwymiadau Amgylcheddol yr Ymgeisydd [REP7-236].

2.1.7. Bydd llwybr terfynol y Biblinell CO₂ Newydd yn cael ei gadarnhau ar y cam dylunio manwl. Fodd bynnag, defnyddiwyd ymagwedd senario achos gwaethaf at ddibenion yr ES, ac mae'r ES yn tybio y gallai'r Biblinell CO₂ Newydd gael ei gosod yn unrhyw le o fewn yr ardal "Caffael Iswyneb yn Barhaol" wedi'i marcio'n binc ar Ffigur 3.2 yr ES – Datblygiad Arfaethedig y DCO [REP7-189].



Ffigur 1 – Lluniad Rhif: EN070007-APP-ES-3.2-Trosolwg – Datganiad Amgylcheddol (ES) Ffigur 3.2: Trosolwg o Ddatblygiad Arfaethedig y DCO.

2.1.8. Mae'r Ffigur yn yr ES a grybwyllwyd uchod [REP7-189] hefyd yn gwahanu llwybr y biblinell CO₂ Newydd yn chwe rhan ddaearyddol (Rhannau 1 i 6), a disgrifir y rhain isod:

- Mae Rhan 1 wedi'i lleoli'n gyfan gwbl o fewn ffin Awdurdod Lleol Cyngor Bwrdeistref Gorllewin Swydd Gaerlleon a Chaer (CWCC), gan rychwantu tair ffin Cyngor Plwyf (Ince, Elton a Thornton-le-Moors), ond yn bennaf o fewn ffin Cyngor Plwyf Elton. Mae'r rhan hon yn cynnwys AGI Ince, sydd wedi'i leoli i'r de-orllewin o Waith CF Fertiliser Limited oddi ar Marsh Lane, ac AGI Stanlow, sydd wedi'i leoli o fewn Cyfadeilad Gweithgynhyrchu presennol Stanlow. Mae'n cynnwys Piblinell gyfan AGI Ince i AGI Stanlow a dechrau Piblinell AGI Stanlow i AGI y Fflint.

O ran y disgrifiad o'r llwybr, gan ddechrau wrth AGI Ince, mae llwybr y rhan hon yn mynd tua'r de i ddwyrain Elton cyn croesi llinell

reilffordd Hapsford (gan gynnwys cainc i ddepo presennol sy'n gwasanaethu ffatri wydr Encirc). Mae'r llwybr yn parhau i'r gogledd o Wasanaethau Caer yr M56 (cyffordd 14) cyn croesi'r A5117 Chester Road a mynd i gyfeiriad de-orllewinol i'r de o Elton.

Mae'r llwybr yn parhau tua'r gorllewin cyn mynd i gyfeiriad gogledd-orllewinol tuag at Thornton-le-Moors. Mae'r llwybr yn croesi'r B5132 Cryers Lane, cyn mynd tua'r gogledd i AGI Stanlow sydd wedi'i leoli o fewn Cyfadeilad Gweithgynhyrchu Stanlow. O AGI Stanlow, mae'r rhan yn mynd tua'r de, gan groesi'r A5117 Chester Road, gan ddefnyddio technegau gosod di-ffos, cyn parhau i gyfeiriad deheuol i'r dwyrain o Thornton-le-Moors.

Cynigir technegau gosod di-ffos o fewn Rhan 1 yn y lleoliadau, fel y'u marciwyd ar Ffigur 3.2 yr ES – Datblygiad Arfaethedig y DCO [REP7-189] gan y rhif cyfeirnod a roddir mewn cromfachau `()`' nesaf at bob lleoliad, fel yr amlinellir isod:

- Llinell reilffordd Hapsford (gan gynnwys cainc i ddepo presennol sy'n gwasanaethu ffatri wydr Encirc) (TRS-01).
 - Yr A5117 Chester Road (i'r gogledd o Wasanaethau Caer yr M56) (TRS-02).
 - Cyfleustodau presennol (wedi'u lleoli yn (TRS-03) a (TRS-04));
 - Yr A5117 Chester Road (Piblinell AGI Ince i AGI Stanlow) (TRS-05); ac
 - Yr A5117 Chester Road (Piblinell AGI Stanlow i AGI y Fflint) i'r dwyrain o Thornton-le-Moors) (TRS-06).
- Mae Rhan 2 wedi'i lleoli'n gyfan gwbl o fewn ffin Awdurdod Lleol CWCC ac mae'n rhychwantu pedair ffin Cyngor Plwyf (Thornton-le-Moors, Mickle Trafford a'r Cylch, Wervin, a Backford). Mae'n mynd rhwng AGI Stanlow a'r A41 ac mae'n cynnwys parhad Piblinell AGI Stanlow i AGI y Fflint. Mae hefyd yn cynnwys BVS Rock Bank, sydd wedi'i lleoli rhwng aneddiadau Chorlton a Caughall.

O ran y disgrifiad o'r llwybr, mae'r rhan hon yn parhau i gyfeiriad deheuol i'r dwyrain o Thornton-le-Moors a Gwarchodfa Natur Gowy Meadows. Mae'r llwybr yn croesi'r M56 cyn mynd i gyfeiriad de-orllewinol gan groesi Afon Gowy a Ffordd Gogledd Swydd Gaerlleon (llwybr troed pellter hir). Mae llwybr y biblinell yn croesi Mill Brook a Picton Lane cyn mynd i'r de o Wervin ac mae'n troi'n sydyn i'r gorllewin cyn croesi'r M53. O'r M53, mae'r llwybr yn croesi Wervin Road ac yna'n mynd tua'r gorllewin yn fras trwy gaeau â'r i'r gogledd o Gaer.

Mae llwybr y biblinell yn parhau i gyfeiriad de-orllewinol cyn mynd tua'r gorllewin a chroesi Camlas Undeb Swydd Amwythig, tua 600m i'r de-orllewinol o New Hall. Mae'r biblinell yn parhau i gyfeiriad gogledd-orllewinol tuag at Chorlton Lane ac yna'n parhau i gyfeiriad gorllewinol cyn croesi'r A41 Liverpool Road.

Cynigir technegau gosod di-ffos o fewn Rhan 2 yn y lleoliadau, fel y'u marciwyd ar Ffigur 3.2 yr ES – Datblygiad Arfaethedig y DCO [REP7-

189] gan y rhif cyfeirnod a roddir mewn cromfachau `()` nesaf at bob lleoliad, fel yr amlinellir isod:

- Cyfleustodau presennol (chwe lleoliad) (TRS-07), (TRS-10), (TRS-12), (TRS-13), (TRS-16) a (TRS-19);
 - Yr M56 (TRS-08);
 - Afon Gowy (TRS-09);
 - Picton Lane (TRS-11);
 - Yr M53 (TRS-14);
 - Wervin Road (TRS-15); a
 - Chamlas Undeb Swydd Amwythig (TRS-17).
- Mae Rhan 3 wedi'i lleoli'n bennaf o fewn ffin Awdurdod Lleol CWCC, ond mae rhan ohoni hefyd o fewn awdurdodaeth Cyngor Sir y Fflint (FCC). Mae'n rhychwantu pum ffin Cyngor Plwyf a Chyngor Cymuned (Backford, Lea-by-Backford, Mollington, Saughall a Shotwick Park a Sealand). Mae llwybr y Biblinell CO₂ Newydd yn rhychwantu rhwng yr A41 a'r A548 Sealand Road ac mae'n cynnwys BVS Mollington i'r gorllewin o anheddiad Mollington.

O ran y disgrifiad o'r llwybr, mae'r rhan hon yn mynd tua'r gorllewin o'r A41 Liverpool Road ac yna'n parhau i gyfeiriad de-orllewinol yn gyffredinol gan groesi Nant Backford ac yna Llinell Reilffordd Caer a Birkenhead cyn troi i gyfeiriad gogledd-orllewinol i groesi Station Road. Yna, mae llwybr y biblinell yn troi'n sydyn i fynd i gyfeiriad gorllewinol tuag at Mollington, gan groesi Grove Road. Wedi hynny, mae'r llwybr yn mynd i gyfeiriad de-orllewinol, i'r gorllewin o anheddiad Mollington, ac yn croesi Townfield Lane ac Overwood Lane. Yna, mae'n parhau tua'r de cyn croesi'r A540 Parkgate Road. Yn y man hwn, mae'r rhan yn parhau i gyfeiriad de-orllewinol, yn gadael Gwastatir Swydd Gaerlleon, yn croesi Hermitage Road, ac yna'n croesi'r ffin i Gymru. Wrth y ffin rhwng Cymru a Lloegr, mae'r rhan yn parhau i gyfeiriad de-orllewinol ac yn croesi'r A548 Sealand Road.

Cynigir technegau gosod di-ffos o fewn Rhan 3 yn y lleoliadau, fel y'u marciwyd ar Ffigur 3.2 yr ES – Datblygiad Arfaethedig y DCO [REP7-189] gan y rhif cyfeirnod a roddir mewn cromfachau `()` nesaf at bob lleoliad, fel yr amlinellir isod:

- Yr A41 Liverpool Road (TRS-18);
 - Cyfleustodau presennol (TRS-19);
 - Llinell Reilffordd Mollington (TRS-20);
 - Station Road (TRS-21);
 - Townfield Lane (TRS-22);
 - Overwood Lane (TRS-23);
 - Yr A540 (Parkgate Road) TRS-24;
 - Hermitage Road (TRS-25);
 - Ffordd Werdd y Mileniwm Caer (TRS-26); ac
 - Yr A548 Sealand Road (TRS-27).
- Mae Rhan 4 wedi'i lleoli'n gyfan gwbl o fewn ffin Awdurdod Lleol FCC ac mae'n rhychwantu tair ffin Cyngor Cymuned (Sealand,

Queensferry, a Phenarlâg). Mae'n rhychwantu rhwng yr A548 Sealand Road a'r A550 Gladstone Way.

O ran y disgrifiad o lwybr y rhan hon, o'r A548 Sealand Road mae'n parhau i gyfeiriad de-orllewinol i groesi Afon Dyfrdwy a Llinell Reilffordd Arfordir Gogledd Cymru cyn troi tua'r gorllewin. Yna, mae'n croesi'r B5129 Chester Road East gan fynd i'r gogledd-orllewin ar draws Moor Lane tuag at gyrion maestrefol adeiledig Sandycroft, Mancot, a Queensferry.

Yna, mae llwybr y Biblinell CO₂ Newydd yn troelli trwy ardaloedd preswyl ac yn croesi sawl is-ffordd cyn troi tua'r gorllewin tuag at Willow Park. Yna, mae'n parhau i fynd i gyfeiriad gorllewinol ac yn mynd trwy ardaloedd preswyl Mancot a Phentre cyn croesi'r A550 Gladstone Way.

Cynigir technegau gosod di-ffos o fewn Rhan 4 yn y lleoliadau, fel y'u marciwyd ar Ffigur 3.2 yr ES – Datblygiad Arfaethedig y DCO [REP7-189] gan y rhif cyfeirnod a roddir mewn cromfachau `()` nesaaf at bob lleoliad, fel yr amlinellir isod:

- Afon Dyfrdwy (TRS-28);
 - Llinell Reilffordd Arfordir Gogledd Cymru a ffosydd cysylltiedig (TRS-29);
 - Y B5129 Chester Road (Dwyrain) (TRS-30);
 - Y B5129 Chester Road (Gorllewin) (mewn dau leoliad) (TRS-31) a (TRS-32);
 - Mancot Lane (TRS-33); ac
 - Yr A550 Gladstone Way (TRS-34).
- Mae Rhan 5 wedi'i lleoli'n gyfan gwbl o fewn ffin Awdurdod Lleol FCC ac mae'n rhychwantu tair ffin Cyngor Cymuned (Penarlâg, Northop Hall, a Northop). Mae'n rhychwantu o'r A550 Gladstone Way i'r B5126 Connah's Quay Road ac mae'n cynnwys BVS Aston Hill ac AGI Northop Hall. Mae BVS Aston Hill wedi'i lleoli o fewn ffin Cyngor Cymuned Penarlâg rhwng aneddiadau Mancot ac Ewloe, tra bod AGI Northop Hall wedi'i leoli o fewn ffin Cyngor Cymuned Northop Hall i'r gogledd o'r A55 rhwng aneddiadau Northop Hall a Northop.

O ran y disgrifiad o lwybr y rhan hon, o'r A550 Gladstone Way mae llwybr y Biblinell CO₂ Newydd yn mynd i'r de-orllewin cyn teithio i gyfeiriad gogledd-orllewinol yn gyffredinol, gan groesi Lower Aston Hall Lane, yna llinell reilffordd Wrecsam i Bidston (y Gororau) a'r A494 Gwibffordd Aston. Yna, mae'n parhau o dan Church Lane cyn mynd i'r gogledd o Fferm Aston Hall. Mae'r llwybr yn croesi Shotton Lane cyn mynd i gyfeiriad de-orllewinol tuag at y B5125 Holywell Road. Mae'n croesi'r B5125 Holywell Road cyn mynd i gyfeiriad de-orllewinol, gan groesi Green Lane mewn dau leoliad cyn mynd tua'r gogledd-orllewin tuag at yr A55 Gwibffordd Gogledd Cymru.

Yna, mae llwybr y Biblinell CO₂ Newydd yn dilyn yn gyfochrog â llwybr yr A55 Gwibffordd Gogledd Cymru gan fynd i gyfeiriad gogledd-orllewinol tuag at Northop Hall, ac yn croesi Robin Hood Lane. Yna,

mae'n croesi Nant Alltami a Brookside i'r de-orllewin o Northop Hall Country House Hotel ac yn parhau i gyfeiriad gogledd-orllewinol ar gyrion ymyl de-orllewinol Northop Hall. Mae'r llwybr yn parhau i fynd tua'r gogledd gan groesi'r B5125 Stamford Way cyn cyrraedd y B5126 Connah's Quay Road.

Cynigir technegau gosod di-ffos o fewn Rhan 5 yn y lleoliadau, fel y'u marciwyd ar Ffigur 3.2 yr ES – Datblygiad Arfaethedig y DCO [REP7-189] gan y rhif cyfeirnod a roddir mewn cromfachau `()` nesaaf at bob lleoliad, fel yr amlinellir isod:

- Maes chwarae ger Aston Hall (TRS-35);
 - Llinell reilffordd Wrecsam i Bidston (y Gororau) (TRS-36);
 - Yr A494 (Gwibffordd Aston) (TRS-37);
 - Church Lane (TRS-38);
 - Holywell Road (TRS-39);
 - Green Lane (TRS-40); a
 - Choetir Hynafol ger Northop Hall (TRS-41).
- Mae Rhan 6 wedi'i lleoli'n gyfan gwbl o fewn ffin Awdurdod Lleol FCC ac mae'n rhychwantu dwy ffin Cyngor Cymuned (Northop a'r Fflint). Mae'n rhychwantu o'r B5126 Connah's Quay Road i Gysylltiad y Fflint, lle mae'r Biblinell CO₂ Newydd yn cysylltu â Phiblinell bresennol Cysylltiad y Fflint i Derfynell PoA ac mae'n cynnwys AGI y Fflint (Diwedd Piblinell AGI Stanlow i AGI y Fflint a dechrau Piblinell AGI y Fflint i Gysylltiad y Fflint).

O ran y disgrifiad o lwybr y rhan hon, o'r B5126 Connah's Quay Road, mae llwybr y Biblinell CO₂ Newydd yn mynd tua'r gogledd, gan fynd i'r gorllewin o Goetir Leadbrook a chroesi Nant Northop. Mae'r llwybr yn parhau tua'r gogledd, ac mae'n croesi Starkey Lane ac yna'n mynd yn gyfochrog ag Allt-Goch Lane, cyn cyrraedd AGI y Fflint.

O AGI y Fflint, mae'r rhan fer o biblinell 24" yn mynd i gyfeiriad gogledd-ddwyreiniol am oddeutu 400m cyn cyfarfod â Chysylltiad y Fflint. Yn y man hwn, mae'r llwybr yn cysylltu â Phiblinell bresennol Cysylltiad y Fflint i Derfynell PoA.

Cynigir technegau gosod di-ffos o fewn Rhan 6 yn y lleoliadau, fel y'u marciwyd ar Ffigur 3.2 yr ES – Datblygiad Arfaethedig y DCO [REP7-189] gan y rhif cyfeirnod a roddir mewn cromfachau `()` nesaaf at bob lleoliad, fel yr amlinellir isod:

- Connah's Quay Road (TRS-42); a
- Nant Northop (TRS-43).

Gosodiadau ar Ben y Tir

- 2.1.9. Mae Pennod 3 yr ES [REP7-036] yn esbonio bod AGIau yn darparu pwynt trosglwyddo ar hyd llwybr y Biblinell CO₂ Newydd danddaear lle mae'n cysylltu â'r allyrwy'r ymhellach i fyny neu ran arall o'r biblinell. Fe'u dyluniwyd yn benodol i weithredu a chynnal y rhwydwaith piblinellau ac

fe'u lleolir fel y dangosir ar Ffigur 3.2 yr ES [REP7-189]. Mae nodweddion a diben cyffredinol yr AGIau fel a ganlyn:

- Monitro'r piblinellau'n barhaus o bell er mwyn gweithredu a chynnal a chadw;
- Telemetreg i ganiatáu ar gyfer gweithredu falfiau rheoli o bell; ac
- Amddiffyn rhag rhyddhau.

2.1.10. Byddai'r safleoedd AGI yn cynnwys:

- ciosg Trydanol ac Offeryniaeth (E&I) (5m o uchder ar y mwyaf) i ddosbarthu pŵer ac i reoli a monitro'r system, ynghyd â seilwaith cysylltiedig (pibwaith a falfiau atodol, offeryniaeth a synwryddion, byrddau ceblau, newidyddion trydanol, a threfniadau mynediad), gan gynnwys cysylltiadau pŵer a thelathrebu ffeibr optig â'r rhwydwaith cyfleustodau presennol;
- gorffeniad agregau mâl i'r tir, gydag ardal balmantog i leoli'r newidydd trydanol a'r Ciosg E&I, ynghyd â darpariaeth barcio ar gyfer hyd at ddau gerbyd cynnal a chadw a thrac mynediad parhaol newydd (6m o led) gyda gorffeniad agregau mâl, sy'n cysylltu'r AGI â'r rhwydwaith ffyrdd lleol;
- ffens, hyd at 3m o uchder, â weiren bigog ar ei phen, ynghyd â giât fynediad ddwbl ar gyfer cerbydau cynnal a chadw; a
- goleuadau.

2.1.11. Mae'r Ymgeisydd yn dweud na fydd staff yn gweithio yn yr AGIau yn barhaol, oherwydd fe'u gweithredir o bell. Fel y cyfryw, bydd yr AGIau yn cynnwys nifer o nodweddion diogelwch, gan gynnwys camerâu teledu cylch cyfyng lwcs isel neu isgoch/ thermol; systemau canfod ymyrraeth; a systemau rheoli mynediad.

Gorsafodd Falfiau Bloc

2.1.12. Mae'r BVSau yn gyfleusterau ar gyfer cynnal falf bloc. Defnyddir falfiau bloc i ynysu rhannau o'r biblinell at ddibenion cynnal a chadw neu mewn argyfwng. Bydd systemau canfod cynnar a osodwyd ar hyd y biblinell yn adnabod a oes nam posibl wedi digwydd ac ymhle, ac yna byddai'r falfiau bloc priodol yn cael eu cau o bell i ynysu'r rhan honno o'r biblinell. Byddai gan bob BVS ddargyfeiriad lleol hefyd i hwyluso gweithgareddau cychwyn a chynnal a chadw.

2.1.13. Mae nodweddion a diben cyffredinol y BVSau fel a ganlyn:

- Ynysu'r system ar gyfer cynnal a chadw neu mewn argyfwng;
- Monitro'r piblinellau'n barhaus o bell er mwyn gweithredu a chynnal a chadw;
- Telemetreg i ganiatáu ar gyfer gweithredu falfiau rheoli o bell; ac
- Amddiffyn rhag rhyddhau.

2.1.14. Mae'r BVSau o faint unffurf, sef tua 45m x 40m, ac mae ganddynt drefniant mewnol tebyg yn nodweddiadol. Mae'r Cynlluniau Trefniant Dangosol BVS [REP7-009] yn darparu gosodiad dangosol ar gyfer pob BVS a gellir gweld lleoliad y BVSau yn Ffigur 3.2 yr ES – Datblygiad Arfaethedig y DCO [REP7-189]. Bydd y falfiau bloc yn cael eu gosod islaw

lefel y tir ar ddyfnder disgwylidig o oddeutu 1m o leiaf, a bydd elfennau cyfyngedig yn unig i'w gweld ar ben y tir.

2.1.15. Bydd pob BVS yn cynnwys:

- Ciosg E&I (5m o uchder ar y mwyaf) i ddsbarthu pŵer ac i reoli a monitro'r system.
- Seilwaith cysylltiedig (pibwaith a falbiau atodol, offeryniaeth a synwryddion, byrddau ceblau, newidydd trydanol, a threfniadau mynediad).
- Ffens dolen gadwyn ddiogel hyd at 3m o uchder sy'n cynnwys giât fynediad ddwbl ar gyfer cerbydau.
- Goleuadau, gan gynnwys colofnau goleuadau perimedr hyd at 5m o uchder, y mae'r Ymgeisydd yn dweud y byddant yn cael eu hactifadu os bydd angen ar gyfer cynnal a chadw neu mewn argyfwng.
- Gorffeniad agregau mâl i'r tir, gydag ardal balmantog i leoli'r Ciosg E&I a darpariaeth barcio ar gyfer hyd at ddau gerbyd cynnal a chadw mawr.
- Trac mynediad parhaol newydd a fyddai'n cysylltu'r BVS â'r rhwydwaith ffyrdd lleol, gyda phob trac â gorffeniad agregau mâl a hyd at 3m o led.
- Cysylltiadau pŵer a thelathrebu ffeibr optig newydd â'r rhwydwaith cyfleustodau presennol wedi'u cynnwys o fewn/ ochr yn ochr â phob un o'r traciau mynediad.

2.1.16. Mae'r Ymgeisydd yn datgan y bydd yr holl offer yn cael ei osod yn uchel ar sylfeini/ plinthau concrit i liniaru perygl llifogydd, ac na fyddai unrhyw offer sensitif yn cael ei leoli'n agos i lefel y tir.

2.1.17. Yn debyg i'r AGIau, mae'r Ymgeisydd yn datgan na fyddai staff yn gweithio yn y BVSau ac y byddent yn cael eu monitro a'u rheoli o bell. Byddent hefyd yn cynnwys yr un nodweddion diogelwch â'r AGIau.

2.1.18. Byddai cyfanswm o chwe BVS yn cael eu gosod yn rhan o'r Datblygiad Arfaethedig. Bydd tair BVS yn cael eu lleoli ar hyd Piblinell AGI Stanlow i AGI y Fflint, a byddai'r tair sy'n weddill yn cael eu lleoli ar hyd Piblinell bresennol Cysylltiad y Fflint i Derfynell PoA. Bydd gan y tair BVS hyn (BVS Cornist Lane, BVS Pentre Helygain a BVS Babell) rannau newydd o biblinellau cysylltu wedi'u gosod i gysylltu'r BVSau newydd â Phiblinell bresennol Cysylltiad y Fflint i Derfynell PoA. Ni chynigir unrhyw BVSau ar hyd Piblinell AGI Ince i AGI Stanlow na Phiblinell AGI y Fflint i Gysylltiad y Fflint.

Seilwaith arall ar ben y tir

Cabinetau Unioni Newidyddion Amddiffyn Cathodig a Physt Profi

2.1.19. Mae'r Ymgeisydd yn datgan y bydd system Amddiffyn Cathodig (CP) yn cael ei gosod ar hyd y Biblinell CO₂ Newydd i helpu i amddiffyn rhag cyrydiad. Mae'n cadarnhau y bydd y rhan fwyaf o elfennau'r system CP, gan gynnwys ceblau a gwelyau tir, yn cael eu claddu o dan y tir ac yn cael eu gosod tra bydd y Biblinell CO₂ Newydd yn cael ei hadeiladu. Fodd bynnag, bydd angen i gabinetau unioni newidyddion CP ar ben y tir

(cabinetau CP) gael eu gosod ar hyd y llwybr. Bydd y cabinetau CP wedi'u gwneud o flaen llaw a byddant yn mesur oddeutu 1m o uchder, 0.5m o hyd a 0.5m o led. Mae hefyd yn datgan na fydd angen goleuadau ychwanegol ar gyfer y cabinetau CP. At hynny, mae'n disgwyl y byddai'r cabinetau CP yn cael eu gosod ar blinth concrit.

- 2.1.20. Mae'r Ymgeisydd yn disgwyl y bydd tri chabinet CP yn cael eu gosod ar hyd y Biblinell CO₂ Newydd yn AGI Stanlow, AGI y Fflint ac i'r gogledd o Afon Dyfrdwy. Mae hefyd yn dweud, pan fydd y cabinet CP yn cael ei osod y tu allan i AGI neu BVS, y bydd y lleoliad a ffefrir wedi ystyried:
- y pellter oddi wrth y biblinell;
 - gwrthedd y tir;
 - rhwyddineb mynediad ar gyfer cynnal a chadw;
 - agosrwydd i seilwaith a gwasanaethau metelig claddedig eraill;
 - agosrwydd i gyflenwadau pŵer;
 - osgoi gwelededd o Hawl Dramwy Gyhoeddus/ Hawliau Tramwy Cyhoeddus (PRoW);
 - sensitifrwydd amgylcheddol; a
 - lleihau ymyrryd â gweithrediadau amaethyddol i'r eithaf.
- 2.1.21. Mae'r Ymgeisydd hefyd yn dweud y byddai'r cabinet CP i'r gogledd o Afon Dyfrdwy yn cael ei leoli ar hyd Deeside Lane a'i sicrhau gan ffens bren 1m o uchder wedi'i hamgylchynu gan wrych i atal mynediad heb awdurdod ac i osgoi gwelededd o'r PRoW gyfagos. Mae'r Ymgeisydd o'r farn y byddai hawliau mynediad parhaol i'r cabinet CP hwn o Deeside Lane, ac na fyddai angen trac parhaol newydd. O ran y ddau gabinet sy'n weddill, mae'r Ymgeisydd o'r farn bod y rhain yn ddiogel oherwydd eu bod wedi'u lleoli yn y cyfleusterau AGI.
- 2.1.22. Yn olaf, mae'r Ymgeisydd yn dweud bod y system CP yn cynnwys pyst profi CP bach ar ben y tir, sydd i'w gosod ar hyd y Biblinell CO₂ Newydd i ganiatáu i archwilwyr cynnal a chadw gymryd darlleniadau o'r system CP. Mae'n disgwyl gosod y pyst profi CP o fewn AGIau a BVSau a ger croesfannau ffyrdd, afonydd a rheilffyrdd, yn union uwchben y biblinell ac wedi'u lleoli o fewn ymylon er mwyn tarfu llai ar ddefnyddiau tir. Mae'r Ymgeisydd yn cadarnhau y bydd lleoliad penodol y pyst profi bach hyn yn cael ei gadarnhau yn ystod y cam dylunio manwl, pan fydd union aliniad y Biblinell CO₂ Newydd wedi'i gadarnhau.
- Pyst Marcio**
- 2.1.23. Mae gosod pyst marcio piblinell wrth yr holl groesfannau ffyrdd, rheilffyrdd, afonydd a chamlesi, newidiadau i gyfeiriad y Biblinell CO₂ Newydd, a ffiniau caeau wedi'i gynnwys yn y Datblygiad Arfaethedig. Mae'r pyst marcio hyn ar lefel y tir yn debyg o ran maint a golwg i'r pyst profi CP y cyfeiriwyd atynt uchod.
- 2.1.24. Mae'r Ymgeisydd yn datgan y bydd union nifer, lleoliad, a dyluniad y pyst marcio'n cael eu cadarnhau yn ystod y cam dylunio manwl. Fodd bynnag, mae'n cadarnhau y dilynir safonau'r diwydiant ac y bydd y pyst marcio'n byst concrit cyfnerthedig wedi'u rhag-gastio gyda phlaciau gwybodaeth

arnynt, yn nodweddiadol. Fe' u lleolir mewn safle sy'n tarfu llai ar ddefnyddiau tir (h.y. terfynau caeau neu mewn ymylon).

- 2.1.25. Bydd llwybr y Biblinell CO₂ Newydd hefyd yn cael ei farcio â physt marcio coch a du o'r awyr oddeutu 1 cilometr oddi wrth ei gilydd a/ neu lle mae'r biblinell yn newid cyfeiriad yn sydyn, yn nodweddiadol. Mae'r Ymgeisydd yn dweud y bydd y marcwyr hyn yn cael eu lleoli wrth derfynau caeau, lle y bo'n bosibl, ac fe' u defnyddir i archwilio'r Biblinell CO₂ Newydd mewn hofrennydd pan fydd wedi'i hadeiladu.

Seilwaith Arall

Cebl Ffeibr Optig

- 2.1.26. Mae angen cysylltiadau Cebl Ffeibr Optig (FOC) i sefydlu cysylltiad telathrebu rhwng systemau diogelwch a rheoli Terfynell PoA â'r AGIau a'r BVSau newydd. Fe'i gosodir ar hyd Piblinell AGI Ince i AGI Stanlow a Phiblinell AGI Stanlow i AGI y Fflint ar ddyfnder nad yw'n uwch na thop y biblinell. Mae'r Ymgeisydd yn dweud y bydd yr FOC yn cael ei osod naill ai o fewn ffos y biblinell neu, lle nad yw hyn yn bosibl, er enghraifft wrth groesfannau di-ffos, gerllaw'r biblinell. Bydd y FOC yn caniatáu cyfathrebu rhwng yr AGIau a'r BVSau ar hyd y Biblinell CO₂ Newydd, a bydd pob AGI a BVS wedi'u cysylltu â'r rhwydwaith telathrebu ar wahân hefyd.
- 2.1.27. O ran BVSau yn Cornist Lane, Pentre Helygain a BVS Babell, yn ogystal ag AGI y Fflint, mae'r Ymgeisydd yn dweud y bydd dau gysylltiad ar wahân yn cael eu gosod â'r rhwydwaith telathrebu lleol, gan na fydd FOC yn cael ei osod ar hyd Piblinell AGI y Fflint i Gysylltiad y Fflint a Phiblinell Cysylltiad y Fflint i Derfynell PoA.
- 2.1.28. O ran yr AGIau a'r BVSau, bydd cysylltiadau FOC ar wahân i'r rhwydwaith telathrebu yn cael eu gosod yn gyfochrog â'r traciau mynediad parhaol newydd, o'r cyfleuster i'r man lle y bydd y trac mynediad yn cyfarfod â'r rhwydwaith ffyrdd mabwysiedig. O'r man hwn, mae'r Ymgeisydd yn dweud y bydd cysylltiad â'r rhwydwaith seilwaith telathrebu ehangach yn cael ei wneud gan yr ymgwymerwr statudol perthnasol a bod yr agwedd hon ar y gwaith y tu allan i'r Cais DCO.

Cysylltiadau Trydan

- 2.1.29. Mae'r Ymgeisydd yn datgan y bydd angen i bob AGI, BVS a chabinet CP annibynnol gael cysylltiad â'r rhwydwaith trydan lleol yn y man cysylltu agosaf sy'n ymarferol. Byddai hyn trwy'r briffordd fabwysiedig agosaf a bydd unrhyw waith cysylltu, hyd at y pwynt hwnnw, yn cael ei wneud gan yr ymgwymerwr/ ymgwymerwyr statudol unigol. Fel y cyfryw, mae'r Ymgeisydd o'r farn bod hyn y tu allan i gwmpas y Datblygiad Arfaethedig ac mae'n datgan nad yw'r cysylltiadau trydan wedi'u cynnwys yn y Cais DCO o ganlyniad.

Pont Bibell Ymgorfforedig

- 2.1.30. Mae'r Datblygiad Arfaethedig yn cynnwys opsiwn i osod pont bibell ymgorfforedig ar draws Nant Alltami, os na chanfyddir bod yr opsiwn a

ffefrir gan yr Ymgeisydd yn briodol, sef gosod y biblinell o dan y cwrs dŵr trwy groesfan ffos agored. Os bydd angen yr opsiwn pont bibell ymgorfforedig, mae'r Ymgeisydd yn datgan y bydd y bont a'i sylfeini'n cael eu hadeiladu o goncrit yn bennaf. Bydd y biblinell yn cael ei gosod a'i chladdu'n llwyr o fewn y strwythur ac, yn dibynnu ar ddyluniad terfynol y bont a'r uchder o'r tir, byddai ochrau'r bont yn cynnwys canllawiau dur neu ffens er mwyn diogelwch ac amddiffyn rhag cwmpo. Byddai giât a ffens yn cael eu gosod ar bob ochr i'r bont er mwyn atal y cyhoedd rhag tresmasu.

2.1.31. Mae'r Ymgeisydd yn nodi bod rhychwant opsiwn pont bibell ymgorfforedig Nant Alltami oddeutu 15m ac y bydd oddeutu 4m o led a 5m o uchder. Tybiwyd cliriad fertigol o ryw 1.5m uwchben y Nant yn y dyluniad rhagarweiniol, a byddai'r dimensiynau terfynol, gan gynnwys rhychwant a chliriad, yn cael eu penderfynu yn ystod y cam dylunio manwl. Mae dogfen yr Ymgeisydd 'Croesfan Nant Alltami – Gwerthuso Opsiynau' [REP3-039] yn rhoi rhagor o fanylion am yr opsiwn hwn. Yn ogystal, os bydd yr opsiwn hwn yn symud ymlaen, mae'r Ymgeisydd yn dweud y bydd y materion canlynol yn cael eu hystyried wrth ddylanwadu ar y dyluniad manwl:

- arolygon topograffaid manwl;
- ymchwiliadau tir;
- modelu llifogydd;
- arolygon ecolegol; a
- lleihau colli llystyfiant i'r eithaf.

CYFADEILADAU ADEILADU DROS DRO

2.1.32. Byddai Rhifau Gwaith 1A, 6A, 6B, 9A, 15A, 19A, 20A, 26A, 30A, 30D, 31A, 36A, 43A, 44A, 44C, 48A, 51A, 53A, a 55A yn cael eu defnyddio ar gyfer cyfadeiladau adeiladu dros dro tra bod y Datblygiad Arfaethedig yn cael ei adeiladu. Cynigir tri math o Gyfadeilad Adeiladu i wasanaethu'r gwahanol fathau o waith adeiladu, sef:

- Cyfadeiladau Canolog (Rhifau Gwaith 6B, 15A, 19A, 30A, 30D, 31A, a 44C).
- Cyfadeiladau Croesfannau Di-ffos (wedi'u cynnwys fel gwaith o fewn y disgrifiadau perthnasol o waith piblinell yn y DCO).
- Cyfadeiladau Lleol (Rhifau Gwaith 1A, 6A, 9A, 20A, 26A, 36A, 43A, 44A, 48A, 51A, 53A, a 55A).

2.1.33. Mae pob un o'r tri math o gyfadeilad adeiladu dros dro yn cynnwys datrysiadau draenio dros dro a bydd ganddynt y nodweddion cyffredinol canlynol:

- ffens ddiogelwch dros dro;
- yr holl arwyddion angenrheidiol sy'n cynghori ynghylch cyfyngiadau a/neu wyriadau PRoW sy'n berthnasol i bob cyfadeilad;
- ardal storio deunyddiau, iard, ystafell fwyta, toiledau, ystafell cymorth cyntaf, lle i storio cynwysyddion a lle i storio gwastraff material;
- cyfleusterau lles symudol hunangynhwysol, generaduron ar gyfer pŵer, a chyfathrebu symudol;

- parcio;
- lle i storio deunydd a gloddiwyd;
- goleuadau adeiladu (na fyddant ymlaen yn barhaus, heblaw mewn perthynas â chroesfannau di-ffos);
- mynediad o'r rhwydwaith ffyrdd, trwy draciau mynediad dros dro.

2.1.34. Bydd y Cyfadeladau Canolog, a fydd yn meddiannu ardal nad yw'n fwy na 90,000m², yn gwasanaethu fel mannau i dderbyn danfoniadau a storio offer, pibellau a deunyddiau eraill. Bydd rhannau o'r bibell ac offer yn cael eu cludo o'r Cyfadeladau Canolog hyn yn syth i'r ardaloedd storio o fewn y cyfadeladau a'r mannau gweithio eraill amrywiol trwy drafndiaeth briodol. Byddant hefyd yn cynnwys:

- caban diogelwch;
- cyfleuster dros dro i storio deunyddiau penodol;
- gweithdai dros dro ar gyfer rhagffurfio pibellau, sgwrio pibellau â thywod a'u peintio, ac inswleiddio pibellau; a
- gorchudd concrit a ddefnyddir ar gyfer mynedfeydd/ traciau mynediad, warysau, ac ardaloedd aildanwyddo â bwnd o'u hamgylch, ymhlith defnyddiau eraill. Bydd hyn yn cael ei dorri'n ddarnau a'i waredu ar ddiwedd y gweithgareddau adeiladu yn rhan o'r gweithgareddau adfer.

2.1.35. O ran cyfadeladau croesfannau di-ffos, bydd angen i bob croesfan ddi-ffos gael dau Gyfadelad Adeiladu penodol i hwyluso'r gwaith ar bob ochr i'r nodwedd sy'n cael ei chroesi. Bydd angen cyfadelad mwy o faint ar yr ochr "i mewn" a chyfadelad llai o faint ar yr ochr "allan".

2.1.36. Mae gan y Datblygiad Arfaethedig 43 o groesfannau di-ffos; fodd bynnag, ni fydd gan bob un gyfadelad croesfan ddi-ffos oherwydd bod rhai croesfannau'n cael eu gwasanaethu gan Gyfadeladau Lleol.

2.1.37. Bydd y Cyfadeladau Croesfannau Di-ffos hyd at 50m wrth 50m o faint a byddant yn eu lle ar hyd cyfnod y gwaith sy'n gysylltiedig â'r groesfan ddi-ffos, na ddisgwylir iddo fod yn hwy na 3 mis fesul croesfan. Bydd y cyfadelad croesfan ddi-ffos yn cael ei ddatgymalu ar ôl i'r gwaith ddod i ben a bydd y tir yn cael ei adfer i'w ddefnydd blaenorol.

2.1.38. Bydd gan yr holl gyfadeladau croesfannau di-ffos y nodweddion cyffredin canlynol:

- darpariaeth ar gyfer iard offer, swyddfa goruchwyliwr ac ardal storio deunyddiau;
- darpariaeth ar gyfer ardal symud a pharatoi craen;
- offer croesfan ddi-ffos arbenigol; a
- bydd croesfannau drilio cyfeiriadol llorweddol yn cynnwys darpariaeth ar gyfer rig drilio ac offer atodol cysylltiedig (cabinet rheoli, pecynnau pŵer, tanciau dŵr a bentonit, pypiau).

2.1.39. O ran Cyfadeladau Lleol, mae'r rhain yn ofynnol i wasanaethu'r gwaith adeiladu mewn lleoliadau AGI a BVS. Yn ogystal, mae nifer o groesfannau ffos agored y bydd arnynt angen Cyfadelad Lleol i hwyluso'r gwaith adeiladu mwy cymhleth.

2.1.40. Bydd y Cyfadeiladau Lleol hyd at oddeutu 35m wrth 35m o faint ac, o ran y BVSau/ AGIau, disgwylir iddynt fod yn eu lle ar hyd cyfnod y rhaglen adeiladu. Yn y lleoliadau torri ffosydd agored, disgwylir i'r cyfadeiladau lleol fod yn eu lle ar hyd cyfnod y gwaith sy'n gysylltiedig â'r groesfan honno yn ôl y rhaglen adeiladu, na ddisgwylir iddo fod yn hwy na 3 mis.

2.1.41. Bydd gan Cyfadeiladau Lleol y nodweddion ychwanegol canlynol:

- darpariaeth ar gyfer iard offer, swyddfa goruchwyliwr ac ardal storio deunyddiau; a
- darpariaeth ar gyfer ardal symud a pharatoi craen.

2.2. Y CAIS FEL Y'I HARCHWILIWYD

2.2.1. Gwnaed newidiadau i rai o ddogfennau'r cais yn ystod yr Archwiliad, gan gynnwys geiriad y DCO drafft (dDCO). Roedd y newidiadau hyn yn ceisio mynd i'r afael â chwestiynau ysgrifenedig yr ExA, yn ogystal â phwyntiau a godwyd gan Bartion â Buddiant (IPau). Nod y newidiadau yw gwneud y DCO yn fwy eglur a mynd i'r afael ag unrhyw hepgoriadau, anghysondebau a materion a godwyd yn ystod yr Archwiliad.

2.2.2. Manylir ar newidiadau'r Ymgeisydd i ddogfennau'r cais, ynghyd ag unrhyw wybodaeth ychwanegol a gyflenwyd, yn y Canllaw i'r Cais a gyflwynwyd erbyn Terfyn Amser (DL) 9 [REP9-002]. Mae hwn yn rhoi arweiniad i'r holl ddogfennau a gyflwynwyd yn rhan o'r cais ac fe'i diweddarwyd ym mhob DL pan gyflwynwyd dogfennau newydd neu ddiwygiedig. Mae'n rhoi cofnod llawn o'r holl ddogfennau a gyflwynwyd i'r Archwiliad.

Ceisiadau i Wneud Newidiadau

2.2.3. Gwnaeth yr Ymgeisydd dri Chais i Wneud Newidiadau (CR) yn ystod yr Archwiliad, fel a ganlyn:

- Cyflwynwyd CR1 ar 27 Mawrth 2023 ac roedd yn cynnwys y dogfennau canlynol [CR1-001] i [CR1-126].
- Cyflwynwyd CR2 ar 2 Mehefin 2023 ac roedd yn cynnwys y dogfennau canlynol [CR2-001] i [CR2-022].
- Cyflwynwyd CR3 ar 12 Gorffennaf 2023 ac roedd yn cynnwys y dogfennau canlynol [CR3-001] i [CR3-019].

2.2.4. Rhestrod CR1 y newidiadau arfaethedig fel a ganlyn:

Newid Rhif 1	Adleoli Gwaith Rhif 51, BVS Cornist Lane, 120m i'r de-ddwyrain.
Newid Rhif 2	Ymestyn Terfynau'r Gorchymyn wrth Waith Rhif 41 a 42 ac ychwanegu Llain Rhif 18-20a, i'r gogledd-orllewin a'r gorllewin, yn Fferm New Bridge, ac ychwanegu cael gwared â thanc slyri at y Gwaith.

Newid Rhif 3	Adleoli Gwaith Rhif 45, AGI Northop Hall 75m i'r gorllewin.
Newid Rhif 4	Ymestyn Terfynau'r Gorchymyn wrth Waith Rhif 23 ac ychwanegu Lleiniau Rhif 9-14a, 9-16a, 9-16b, 9-18a 9-18b a 9-19a, i'r gogledd i leihau'r effaith ar goed hynod ger Nant Backford.
Newid Rhif 5	Ymestyn yr oriau gwaith adeiladu i gynnwys gweithio ar fore dydd Sadwrn.
Newid Rhif 6	Ymestyn Terfynau'r Gorchymyn wrth Waith Rhif 3 i alluogi mynediad at AGI Ince o'r briffordd fabwysiedig.
Newid Rhif 7	Gwriad troedffordd a llwybr beicio ychwanegol ar hyd Chester Road, gerllaw Cyfleuster Diwydiannol 2 Sisters wrth Waith Rhif 34, a chau troedffordd a llwybr beicio dros dro ar hyd Chester Road/ Brookside wrth Waith Rhif 44.
Newid Rhif 8	Lleihau Terfynau'r Gorchymyn wrth Waith Rhif 3 i ddileu rhan o gainc llinell reilffordd Hapsford.
Newid Rhif 9	Lleihau Terfynau'r Gorchymyn i ddileu dau eiddo preswyl a chwrtil amwynder wrth Waith Rhif 13 Grove Road (Mollington) a Gwaith Rhif 25 Halls Green Lane (i'r de o Stanlow).
Newid Rhif 10	Lleihau Terfynau'r Gorchymyn i ddileu rhan o lan ddwyreiniol Afon Gowy wrth Waith Rhif 13A.
Newid Rhif 11	Ymestyn Terfynau'r Gorchymyn i gynnwys trac mynediad preifat newydd wrth Waith Rhif 32A a lleihau Terfynau'r Gorchymyn i ddileu trac mynediad o'r B5129 wrth Waith Rhif 33.
Newid Rhif 12	Egluro'r fethodoleg adeiladu i ganiatáu i beiriannau symudol nad ydynt ar gyfer y ffordd groesi nodweddion ar wyneb croesfannau di-ffos.
Newid Rhif 13	Lleihau Terfynau'r Gorchymyn wrth Waith Rhif 31 i ddileu rhan o PRow ar hyd lan ddeheuol Afon Dyfrdwy.

Newid Rhif 14	Lleihau Terfynau'r Gorchymyn wrth Waith Rhif 18 i ddileu rhan o Gamlas Undeb Swydd Amwythig.
Newid Rhif 15	Diwygiad i'r fynedfa ar gyfer Cyfadeilad Adeiladu Shotton Lane wrth Waith Rhif 41A ger Ewloe i leihau'r effaith ar Frochfa Moch Daear.
Newid Rhif 16	Gwriad PRow ychwanegol ger Stanlow wrth Waith Rhif 11.
Newid Rhif 17	Ymestyn Terfynau'r Gorchymyn i gynnwys mynedfa bresennol o Lwybr Ceffylau (Picton PR4) wrth Waith Rhif 16a.
Newid Rhif 18	Diwygiadau i Gynlluniau Tir yn dilyn newidiadau i Gyflwyniad y Datblygiad Arfaethedig.

- 2.2.5. Ar 24 Ebrill 2023, gwnaeth yr ExA benderfyniad gweithdrefnol i dderbyn CR1, gan nodi nad oedd yr un o'r newidiadau arfaethedig mor fawr fel y byddent yn gyfystyr â phrosiect sylweddol wahanol. Ni ystyriwyd y byddai'r newidiadau arfaethedig, yn unigol neu ar y cyd, yn achosi i'r prosiect fod yn wahanol o ran natur neu sylwedd i hwnnw yr ymgeisiwyd amdano'n wreiddiol ym mis Hydref 2022.
- 2.2.6. Fodd bynnag, o ystyried bod diwygio Terfynau'r Gorchymyn yn gofyn am ymestyn tir y Gorchymyn o fewn cwrpas Caffael Gorfodol (CA) ac y byddai effaith ar berchnogaeth newydd, lesddeiliaid, buddiannau mewn tir, ac ati, ystyriwyd bod y Newidiadau y tu hwnt i'r hyn y gellid ystyried ei fod yn amherthnasol o ran ffeithiau ac amgylchiadau'r cais hwn. Er gwaethaf hyn, roedd yr ExA yn fodlon bod y dogfennau perthnasol a gyflwynwyd gyda'r CR yn cydymffurfio â gofynion Rheoliadau 5 a 6 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (CA) 2010 (y Rheoliadau CA).
- 2.2.7. At hynny, roedd yr ExA yn fodlon bod digon o amser ar ôl yn yr Archwiliad i'r newidiadau arfaethedig gael eu harchwilio a bod yn destun ymgynghoriad yn briodol ac yn deg, gan gynnwys y cyfle i wneud cyflwyniadau ysgrifenedig ac unrhyw sylwadau llafar mewn Gwrandawiadau, gan barhau i gydymffurfio â'r gofynion gweithdrefnol a'r Rheoliadau CA.
- 2.2.8. Cynhaliodd yr Ymgeisydd yr ymgynghoriad angenrheidiol yn sgil derbyn y CR1 rhwng 11 Mai 2023 a 14 Mehefin 2023 a rhoddodd ardystiad o gydymffurfio â rheoliadau 7 ac 8 y Rheoliadau CA i'r Arolygiaeth Gynllunio, gan gynnwys hysbysu unigolion ychwanegol yr effeithir arnynt, yn unol â Rheoliad 8 y Rheoliadau CA [OD-004] ac [OD-005]. Cyflwynodd yr Ymgeisydd ei adroddiad ymgynghori wedi'i ddiweddarau, yn unol â diwygiad CR1, erbyn DL5 [REP5-024].

2.2.9. Yn unol â'r ymgynghoriad CR1 a gynhaliwyd gan yr Ymgeisydd, derbyniodd yr Arolygiaeth Gynllunio ddeuddeg Sylw Perthnasol (RR) [CR1RR-001] i [CR1RR-012]. Rhoddwyd cyfle i bawb a wnaeth RR ynglŷn â CR1 gymryd rhan yn yr Archwiliad fel IP. Mae'r ExA wedi rhoi ystyriaeth lawn i holl RRau CR1 rhoddir sylw i unrhyw faterion perthnasol a godwyd ynddynt ym Mhenodau 4, 5, 6 ac 8 yr Adroddiad hwn.

2.2.10. Rhestrodd CR2 y newidiadau arfaethedig fel a ganlyn:

Newid Rhif 1	Cyflwyno dewisoldeb ar gyfer croesi Nant Alltami wrth Waith Rhif 43, yn cynnwys opsiwn amgen ar gyfer pont bibell ymgorfforedig. Bydd hyn yn ddewis amgen yn lle'r opsiwn a ffefrir gan yr Ymgeisydd ar gyfer croesi Nant Alltami, sef croesfan â ffos. Roedd y newid hwn hefyd yn newid y CA a geisir o fuddiannau iswynebol yn unig i CA llawn i ganiatáu ar gyfer y bont ar ben y tir.
Newid Rhif 2	Ychwanegu lleiniau bach o dir at Derfynau'r Gorchymyn a dileu lleiniau bach o dir o Derfynau'r Gorchymyn wrth Waith Rhif 34 i optimeiddio mynediad dros dro ar gyfer adeiladu ger Chester Road East er mwyn lleihau effeithiau ar 2 Sisters Food Group gymaint â phosibl, yn ogystal â newid i'r CA a geisir.

2.2.11. Ar 2 Mehefin 2023, gwnaeth yr ExA benderfyniad gweithdrefnol i dderbyn CR2 [PD-019], gan nodi nad oedd yr un o'r newidiadau arfaethedig mor fawr fel y byddent yn gyfystyr â phrosiect sylweddol wahanol. Ni ystyriwyd y byddai'r newidiadau arfaethedig, yn unigol neu ar y cyd, yn achosi i'r prosiect fod yn wahanol o ran natur neu sylwedd i hwnnw yr ymgeisiwyd amdano'n wreiddiol ym mis Hydref 2022. Fodd bynnag, o ystyried bod Newid 2 CR2 yn cynnwys ymestyn Terfynau'r Gorchymyn; tra bod Newid 1 CR2 yn newid y math o CA a geisir (o fuddiannau iswynebol yn unig i gaffael tir yn llawn) i ganiatáu ar gyfer y bont ar ben y tir, gallai'r ddau ymyrryd yn fwy â hawliau tirlfeddianwyr ac ystyriwyd eu bod yn sbarduno Rheoliadau 5 i 19 y Rheoliadau CA.

2.2.12. Er gwaethaf hyn, roedd yr ExA yn fodlon bod y dogfennau perthnasol a gyflwynwyd gyda'r CR hwn yn cydymffurfio â gofynion Rheoliadau 5 a 6 y Rheoliadau CA a bod digon o amser ar ôl yn yr Archwiliad i'r newidiadau arfaethedig gael eu harchwilio a bod yn destun ymgynghoriad yn briodol ac yn deg. Roedd hyn yn cynnwys y cyfle i wneud cyflwyniadau ysgrifenedig, yn ogystal â gwneud unrhyw sylwadau llafar mewn unrhyw wrandawiadau a oedd yn ofynnol. Roedd hefyd yn caniatáu digon o amser i allu cydymffurfio â gofynion gweithdrefnol y Rheoliadau CA.

2.2.13. Cynhaliodd yr Ymgeisydd yr ymgynghoriad angenrheidiol yn sgil derbyn y CR2 rhwng 8 Mehefin 2023 a 17 Gorffennaf 2023 a rhoddodd ardystiad o gydymffurfio â rheoliadau 7 ac 8 y Rheoliadau CA i'r Arolygiaeth Gynllunio, gan gynnwys hysbysu unigolion ychwanegol yr effeithir

arnynt, yn unol â Rheoliad 8 y Rheoliadau CA [OD-006] ac [OD-007]. Cyflwynodd yr Ymgeisydd adrodiad ymgynghori wedi'i ddiweddarau [CR2-022] gyda'i gyflwyniadau CR2.

2.2.14. Yn unol â CR2, derbyniodd yr Arolygiaeth Gynllunio ddau RR [CR2RR-001] a [CR2RR-002]. Rhoddwyd cyfle i'r rhai a wnaeth yr RRau hyn gymryd rhan yn yr Archwiliad fel IPau. Mae'r ExA wedi rhoi ystyriaeth lawn i holl RRau CR2. Rhoddir sylw i unrhyw faterion perthnasol a godwyd ynddynt ym Mhenodau 4, 5, 6 ac 8 yr Adroddiad hwn.

2.2.15. Rhestrodd CR3 y newidiadau arfaethedig fel a ganlyn:

Newid Rhif 1	<p>Dileu Cyfadeilad Canolog Shotton Lane a Lleihau'r Ffin Seilwaith Newydd gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ dileu'r Cyfadeilad Logisteg ac Adeiladu Dros Dro (Gwaith Rhif 41A); ▪ dileu'r Ardal Weithio Dros Dro (Gwaith Rhif 41D); ac ▪ ymestyn y Fynedfa Dros Dro (Gwaith Rhif 41B) i gyrraedd y Gwaith Piblinell CO₂ (Gwaith Rhif 41), i ystyried dileu'r gwaith uchod. <p>Yn nodedig, roedd y newid hwn yn arwain at ddileu tir o Derfynau'r Gorchymyn (yn benodol lleiniau tir 18-08, 18-09, 18-12 a dileu llain 18-13 yn rhannol).</p>
Newid Rhif 2	<p>Newid y Dyluniad Draenio Dŵr Wyneb Amlinellol a Lleihau'r Ffin Seilwaith Newydd yn AGI Ince gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ dileu Llain 1-07 a diweddariadau i'r Strategaeth Draenio Dŵr Wyneb Amlinellol, i atal yr ollyngfa ar gyfer pwll draenio AGI Ince rhag cysylltu â Draen Ganolog y Dwyrain.
Newid Rhif 3	<p>Lleihau'r Ffin Seilwaith Newydd yn Picton Lane gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ dileu tir o Derfynau'r Gorchymyn yn Picton Lane i leihau faint o dir y mae'n ofynnol ei gymryd ar gyfer adeiladu a mynediad gweithredol wrth Waith Rhif 16A a Gwaith Rhif 16B i'r eithaf, a sicrhau bod Terfynau'r Gorchymyn yn cyd-fynd â'r newidiadau i leiniau tir a gyflwynwyd yn DL4.
Newid Rhif 4	<p>Newid i gymhwyso pwerau gorfodol ar gyfer mynediad i dir Encirc gan gynnwys:</p>

	<ul style="list-style-type: none"> ▪ israddio rhan o Lain 1-06 o gaffael hawliau'n barhaol i feddiannu tir dros dro. I alluogi hyn, crëwyd Llain newydd 1-06d o fewn Terfynau presennol y Gorchymyn, gan ddiweddarau Cynlluniau Gwaith cysylltiedig trwy rannu Gwaith Rhif 3 yn rhannol, creu Gwaith Rhif 3A newydd (a israddiwyd o Fynediad Parhaol i Fynediad Dros Dro) a Gwaith Rhif 3B (yn aros fel Mynediad Parhaol), yn cyfiawnhau ei Rif Gwaith ei hun gan y byddai'n swyddogaethol annibynnol.
--	---

- 2.2.16. Wrth ystyried yr holl newidiadau CR3 a grybwyllwyd uchod, nododd yr ExA nad oedd yr un o'r newidiadau yn creu neu'n arwain at 'Dir Ychwanegol' o fewn ystyr y Rheoliadau CA ac nad oeddent yn effeithio ar unrhyw dir newydd. O ganlyniad, lleihaodd faint Terfynau'r Gorchymyn. Yng ngoleuni'r ffeithiau hyn, daeth yr ExA i'r casgliad nad oedd y newidiadau arfaethedig yn CR3 yn gyfystyr â newid sylweddol i'r Datblygiad Arfaethedig, gan eu bod yn ymwneud yn unig â lleihau Terfynau'r Gorchymyn ac na cheisiwyd tir ychwanegol trwy CA. Nid oeddent yn gyfystyr â chynnig prosiect gwahanol.
- 2.2.17. Am y rhesymau a amlinellwyd ym mhenderfyniad gweithdrefnol yr ExA ar 12 Gorffennaf 2023 [PD-025], derbyniodd yr ExA newidiadau arfaethedig CR3 a restrir uchod i'r Archwiliad.
- 2.2.18. Cyflwynwyd ES wedi'i gydgrynhoi yn DL4, a oedd yn ymgorffori'r newidiadau a dderbyniwyd gan yr ExA yn rhan o CR1 a CR2. Amlinellodd ganfyddiadau'r Ymgeisydd o'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol llawn a gynhaliwyd ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig, gan gynnwys y rhai hynny yn ymwneud â CR1 a CR2. Yn ogystal, yn rhan o gyflwyniadau CR3 yr Ymgeisydd, cynhwysodd ddogfen o'r enw 'Nodyn technegol – D.7.47' [CR3-019], â'r pennawd 'Nodyn Technegol Amgylcheddol CR3'. Dywedodd yr Ymgeisydd fod hwn wedi cael ei gynhyrchu i ddangos tystiolaeth bod yr effeithiau amgylcheddol ar y Datblygiad Arfaethedig yn rhan o CR3 wedi cael eu hasesu'n briodol, gan amlygu unrhyw effeithiau amgylcheddol arwyddocaol tebygol, ac i fodloni gofynion Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2017 (fel y'u diwygiwyd).
- 2.2.19. Cyflwynodd yr Ymgeisydd fersiynau terfynol o holl ddogfennau'r ES erbyn DL7, yn ymgorffori'r holl newidiadau a wnaed yn ystod yr Archwiliad hyd yma. Diweddarwyd dwy o'r dogfennau hyn ymhellach erbyn DL8, o ganlyniad i fân anghysondebau ynddynt. Rhoddir rhestr llawn o gyfeiriadau Llyfrgell Archwiliad yr Arolygiaeth Gynllunio ar gyfer holl ddogfennau'r Ymgeisydd ar gyfer fersiwn derfynol yr ES ym mharagraff 1.5.6 uchod.
- 2.2.20. O ran pob CR (CR1, CR2 a CR3), roedd yr ExA yn ymwybodol drwy gydol yr Archwiliad o'r angen i ystyried p'un a oedd newidiadau i ddogfennau'r cais wedi newid y cais i'r fath raddau ei fod yn gais gwahanol ac felly p'un

a fyddai gan yr Ysgrifennydd Gwladol bŵer o dan adran 114 PA2008 i wneud DCO o ystyried y caniatâd datblygu yr ymgeisiwyd amdano.

- 2.2.21. Mae 'Deddf Cynllunio 2008: Canllawiau ar Archwilio ceisiadau ar gyfer caniatâd datblygu' (Mawrth 2015) yn rhoi arweiniad ym mharagraffau 109 i 115 ar newid cais ar ôl iddo gael ei dderbyn. Y farn a fynegwyd gan y Llywodraeth yn ystod y broses o basio'r Ddeddf Lleoliaeth oedd bod adran 114(1) yn rhoi'r cyfrifoldeb am wneud DCO ar y penderfynwr ac nad yw'n cyfyngu ar y telerau y gellir ei wneud ynddynt.
- 2.2.22. Mae'n amlwg o ystyried y cyd-destun hwn drwy gydol yr Archwiliad nad yw newidiadau i'r cais, sy'n cynnwys y CR a grybwyllwyd uchod a diweddarau dogfennau, wedi arwain at newidiadau sylweddol i natur y Datblygiad Arfaethedig o'r hyn y gwnaed cais amdano. Mae'r newidiadau a ystyriwyd wrth ddod i'r casgliad hwn wedi'u cofnodi ym mhenodau isod yr adroddiad hwn. Mae'n dilyn bod gan yr Ysgrifennydd Gwladol y pŵer i wneud y DCO fel y trafodir ym Mhennod 9 ac y darperir yn Atodiad Ch yr adroddiad hwn.
- 2.2.23. Rhoddir disgrifiad llawn o'r Datblygiad Arfaethedig, fel yr oedd ar ddiwedd yr Archwiliad, ym Mhennod 3 yr ES [REP7-036], y cyflwynwyd y fersiwn derfynol ohono erbyn DL7.

2.3. Y SAFLE A'I AMGYLCHOEDD

- 2.3.1. Disgrifir rhannau daearyddol llwybr y Biblinell CO₂ Newydd ym mharagraff 2.1.7 uchod. Fodd bynnag, o ganlyniad i natur linol y Datblygiad Arfaethedig a'i hyd, nid oes nodwedd gyson i lwybr y Datblygiad Arfaethedig. Fel y cyfryw, nid yw'n ymarferol ceisio disgrifio safle ac amgylchoedd y Biblinell Arfaethedig. Er gwaethaf hyn, trafodir llawer o'r materion sy'n ymwneud ag amgylchoedd y Datblygiad Arfaethedig ym Mhennod 5.
- 2.3.2. Mae'r Datblygiad Arfaethedig yn ymestyn trwy ardaloedd gweinyddol dau awdurdod lleol; FCC a CWCC. Mae llawer o'r llwybr arfaethedig yn mynd trwy dirwedd amaethyddol olygfaol o gaeau â'r a thir pori gyda phentrefi, eiddo preswyl gwasgaredig ac ardaloedd bach o goetir hwnt ac yma. Fodd bynnag, mae rhannau eraill o'r llwybr yn fwy trefol, y mae rhai ohonynt o gymeriad preswyl, tra bod eraill o natur fwy diwydiannol.
- 2.3.3. Mae llwybr y Datblygiad Arfaethedig yn mynd trwy nifer o ddynodiadau neu wedi'i leoli'n agos atynt, gan gynnwys:
- Safle(oedd) o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig;
 - Ardal(oedd) Gwarchodaeth Arbennig;
 - Ardal(oedd) Cadwraeth Arbennig;
 - Safle Ramsar;
 - Llain Las/ Lletem Las;
 - Ardaloedd Cadwraeth;
 - Henebion Cofrestredig; a
 - Safleoedd Tirlenwi Hanesyddol.

- 2.3.4. Mae hefyd yn mynd trwy ardal a ddynodwyd yn fan agored (Gweler Llain Rhif 17-02 yn y Llyfr Cyfeirio [REP7-025] a/ neu'r Cynlluniau Tir [CR3-003] a/ neu'r Cynlluniau Tir Categori Arbennig [REP7-008]).
- 2.3.5. Byddai angen i'r Datblygiad Arfaethedig fynd o dan a/ neu yn agos at linellau rheilffyrdd, Camlas Undeb Swydd Amwythig, traffyrdd yr M53 a'r M56 a ffyrdd 'A' hefyd.

2.4. HANES CYNLLUNIO PERTHNASOL

- 2.4.1. Mae Datganiad Cynllunio'r Ymgeisydd [REP4-022] yn rhoi amlinelliad byr o'r hanes cynllunio sy'n gysylltiedig â llwybr y Datblygiad Arfaethedig, yn ogystal â thir arall, yn ei gyffiniau. Yn fras, mae Terfynau Gorchymyn y DCO yn faes glas ac nid oes gan y safle a'r ardaloedd amgylchynol hanes cynllunio helaeth, o ganlyniad. Fodd bynnag, mae eithriadau i hyn mewn lleoliadau lle mae Terfynau'r Gorchymyn yn mynd yn agos at ganolfannau trefol yn FCC a chanolfannau diwydiannol yn CWCC.
- 2.4.2. Amlygodd yr Adroddiadau ar yr Effaith Leol (LIR) gan FCC [REP1A-005] a CWCC [REP1A-002], ynghyd â'u hatodiadau unigol (FCC [REP6A-006] a CWCC [REP6A-003]) hanes cynllunio nad oedd wedi'i nodi yn Natganiad Cynllunio'r Ymgeisydd, fel y'i cyflwynwyd yn wreiddiol [APP-048]. Fodd bynnag, unionodd yr Ymgeisydd hyn mewn fersiynau dilynol o'i Ddatganiad Cynllunio (Fersiwn gyfredol [REP4-022]) yn Atodiad A, gan gynnwys yr holl hanes cynllunio a oedd yn gymwys i'w gynnwys yn y rhestr hir o'r Asesiad o Effeithiau Rhyng-Brosiect (Tabl 2 Atodiad 19.1 yr ES [REP7-185]).
- 2.4.3. Yn ei 'Ymateb i sylwadau'r Ymgeisydd ynglŷn â LIR Terfynol FCC' [REP3-046], cadarnhaodd FCC fod ymateb yr Ymgeisydd i'w sylwadau ar hanes cynllunio wedi'i nodi. Ni wnaeth CWCC sylwadau ychwanegol ar y mater hwn yn ei ddogfen o'r enw 'Ymateb i sylwadau'r Ymgeisydd ynglŷn â LIR CWCC' [REP3-044]. At hynny, nid oedd y mater hwn wedi'i gynnwys fel maes anghytundeb yn y Datganiad Tir Cyffredin gyda FCC [REP7-259] na CWCC [REP8-021].
- 2.4.4. Manylir ar yr hanes cynllunio sy'n gysylltiedig â Therfynau Gorchymyn y Datblygiad Arfaethedig, yn ogystal â thir arall sydd wedi'i leoli'n bennaf yng nghyffiniau safle'r cais, yn Atodiad A Datganiad Cynllunio'r Ymgeisydd [REP4-022].
- 2.4.5. Ni chododd unrhyw faterion eraill, nad oedd yr Ymgeisydd wedi mynd i'r afael â nhw yn ystod yr Archwiliad, o'i adroddiad ar hanes cynllunio'r safle ar gyfer safle'r Datblygiad Arfaethedig a'r ardal amgylchynol heblaw am gyflwyniad a wnaed erbyn DL1 gan Rostons (yn cynrychioli IP) [REP1-079], a gyfeiriodd at "*datblygiad fferm solar arfaethedig*". Roedd y cyfeiriad hwn, yn rhannol, wedi llywio ail gwestiynau ysgrifenedig yr ExA [PD-022] a geisiodd, ymhlith materion eraill, ragor o wybodaeth yn ymwneud â'r "*datblygiad fferm solar arfaethedig*".
- 2.4.6. Wrth ymateb i'r cais hwn, gwnaeth Rostons gyflwyniad erbyn DL5 [REP5-045] a nododd "*...nad oedd cais cynllunio llawn wedi cael ei gyflwyno...*" ar gyfer y datblygiad solar ar ddyddiad yr ymateb (neges e-

bost ddyddiedig 28 Mehefin 2023), ond bod cais cyn-gynllunio (23/01234) a chyflwyniad Sgrinio Asesu Effeithiau Amgylcheddol 22/04248/SCR wedi cael eu cyflwyno i CWCC. Cadarnhaodd Rostons fod y ddau fater yn parhau.

- 2.4.7. Wrth ymateb i ExQ2 [REP5-026], cadarnhaodd yr Ymgeisydd nad oedd yn ymwybodol bod cais cynllunio ffurfiol wedi'i gyflwyno i CWCC; ac yn ei ymateb i ExQ2 [REP5-030], rhoddodd CWCC ymateb tebyg i un Rostons uchod, ond nododd hefyd y byddai'n rhoi diweddariadau i'r ExA ynglŷn ag unrhyw gyflwyniadau a wneir mewn perthynas â'r datblygiad fferm wynt hwn.
- 2.4.8. Gwnaeth CWCC nifer o gyflwyniadau erbyn DL7, gan gynnwys [REP7-302], [REP7-303], [REP7-304], [REP7-307] a [REP7-308] ynglŷn â'r cais cyn-gynllunio a grybwyllwyd uchod (23/01234) a'r cyflwyniad Sgrinio Asesu Effeithiau Amgylcheddol 22/04248/SCR. Roedd y cyflwyniadau hyn yn cynnwys copi o Farn Sgrinio CWCC a gyhoeddwyd ynglŷn â chais sgrinio cyf. 22/04248/SCR, yn ogystal â chopi o'i lythyr a roddodd gyngor cyn-ymgeisio ynglŷn â chyfeirnod cynllunio 23/01234/PREAPP, ac nid oedd yr ExA o'r farn bod y cyngor olaf yn ymddangos yn arbennig o gadarnhaol neu anogol.
- 2.4.9. Erbyn diwedd yr Archwiliad, nid oedd unrhyw IPau na'r Ymgeisydd wedi rhoi diweddariadau ychwanegol ynglŷn â chyflwyno unrhyw gais/ceisiadau cynllunio ffurfiol ar gyfer y datblygiad fferm solar y cyfeiriwyd ato uchod.

3. CYD-DESTUN CYFREITHIOL A PHOLISI

3.1. CYFLWYNIAD

3.1.1. Mae'r bennod hon yn amlinellu'r cyd-destun cyfreithiol a pholisi perthnasol ar gyfer y cais. Mae'r Awdurdod Archwilio (ExA) wedi ystyried hyn wrth Archwilio'r Datblygiad Arfaethedig ac wrth gyflwyno canfyddiadau a gwneud argymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol (SoS).

3.1.2. Disgrifir y fframwaith deddfwriaethol a chydsynio, fel y'i deëllir gan yr Ymgeisydd, yn ei Ddatganiad Cynllunio [REP4-022] yn adran 3. Mae hyn yn cynnwys materion pwysig a pherthnasol o dan Adran (a) 105 Deddf Cynllunio 2008 (PA2008), asesiad o'r cyd-destun polisi ar gyfer Datganiadau Polisi Cenedlaethol (NPS) ar gyfer Ynni sy'n dod i'r amlwg, asesiad o Bolisi Ynni'r Deyrnas Unedig (DU) a Chymru ac ystyried materion pwysig a pherthnasol eraill.

3.1.3. Mae Adrannau eraill o fewn Datganiad Cynllunio'r Ymgeisydd [REP4-022] yn cynnwys:

- asesiad yr Ymgeisydd o'r Datblygiad Arfaethedig yn erbyn NPS EN-1 (NPS Troswaol ar gyfer Ynni) ac NPS EN-4 (NPS ar gyfer Seilwaith Cyflenwi Nwy a Phiblinellau Nwy ac Olew) (Adran 4);
- asesiad o Leiniau Glas, Lletemau Glas a Mannau Agored (Adran 5);
- asesiad yr Ymgeisydd o fanteision ac anfanteision y Datblygiad Arfaethedig (Adran 6); ac
- Aseidiadau cydymffurfio â pholisi (Atodiad B) yn gysylltiedig â'r canlynol:
 - NPS EN-4;
 - y Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol (Gorffennaf 2021) (NPPF), y nododd yr Ymgeisydd ei fod wedi'i ddisodli ar 5 Medi 2023, gyda pholisi wedi'i ddiweddarau ar gyfer datblygiad ynni gwynt ar y tir yn Lloegr, yn ei lythyr eglurhaol ar gyfer Terfyn Amser (DL) 8 [REP8-001] gan ddatgan "*...nid yw'r newidiadau polisi yn yr NPPF newydd ei fabwysiadu (Medi 2023) yn berthnasol i'r Cais hwn...*" ac yn cadarnhau ei safbwynt "*...bod yr ystyriaethau polisi yn Nhabl B2 Atodiad 2 y Datganiad Cynllunio [REP4- 022] yn berthnasol o hyd*";
 - Polisi Cynllunio Cymru (Chwefror 2021);
 - Polisi Cynllunio Lleol ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Gorllewin Swydd Gaerlleon a Chaer (CWCC), gan gynnwys 'Cynllun Lleol CWCC (Rhan Un): Polisiâu Strategol' (a fabwysiadwyd ar 29 Ionawr 2015) a 'Chynllun Lleol CWCC (Rhan Dau): Dyraniadau Tir a Pholisiâu Manwl' (a fabwysiadwyd ar 18 Gorffennaf 2019);
 - Polisi Cynllunio Lleol ar gyfer Cyngor Sir y Fflint (FCC), gan gynnwys Cynllun Datblygu Lleol 2015 – 2030 Sir y Fflint (a fabwysiadwyd ar 24 Ionawr 2023); a
 - Chynllun Cymdogaeth Ince sy'n dod i'r amlwg.

3.1.4. Yn ogystal â'r uchod, mae penodau unigol o Ddatganiad Amgylcheddol yr Ymgeisydd yn darparu cefndir cyfreithiol a pholisi penodol, seiliedig ar bwnc, yn ymwneud â phynciau penodol.

- 3.1.5. Mae Adroddiadau ar yr Effaith Leol (LIR) FCC [REP1A-005] a CWCC [REP1A-002], ynghyd â'u hatodiadau unigol (FCC [REP6A-006] a CWCC [REP6A-003]), yn amlinellu safbwynt yr awdurdodau hyn mewn perthynas â'u polisiau cynllun datblygu unigol.

3.2. DEDDF CYNLLUNIO 2008

- 3.2.1. Mae'r cais ar gyfer Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) o dan PA2008 i adeiladu piblinell traws gwlad, gydag un pen yng Nghymru a'r pen arall yn Lloegr, heblaw gan drawsgludydd nwy. Amlinellir elfennau'r Datblygiad Arfaethedig ym Mhennod 1 ac Atodiad A yr adroddiad hwn.
- 3.2.2. Deddf Piblinellau 1962 fyddai'r gyfundrefn gydsynio onibai am a33(1) PA2008. O ganlyniad, mae'r Datblygiad Arfaethedig yn Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP) gan ei fod yn dod o fewn a.21 PA2008, ac felly mae angen iddo gael caniatâd datblygu yn unol ag a.31 y Ddeddf honno. Felly, mae'r Datblygiad Arfaethedig yn bodloni'r diffiniad o NSIP a amlinellir yn a14(1)(g) PA2008.
- 3.2.3. Mae adran 105 PA2008 yn gymwys, gan nad oes NPS yn berthnasol i ddatblygiad o'r disgrifiad y mae'r cais yn ymwneud ag ef. Fodd bynnag, mae a.105(2) PA2008 yn amlinellu'r materion y mae'n rhaid i'r SoS eu hystyried wrth benderfynu ar gais a gyflwynir yn unol â PA2008. I grynhoi, y materion a amlinellir yn a.105(2) y mae'n rhaid i'r SoS eu hystyried yw unrhyw LIRau, unrhyw faterion a ragnodir mewn perthynas â'r datblygiad, ac unrhyw faterion eraill y mae'r SoS yn credu eu bod yn bwysig ac yn berthnasol i'r penderfyniad.
- 3.2.4. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canfyddiadau, casgliadau ac argymhellion yr ExA gan roi ystyriaeth lawn i'r materion hyn a chymhwyso'r meini prawf a amlinellir yn a.105 PA2008, tra bod gweddill y bennod hon yn mynd i'r afael â'r LIRau a gyflwynwyd gan FCC a CWCC; unrhyw faterion a ragnodwyd yn ymwneud â'r datblygiad, lle y bo'n berthnasol; ac unrhyw faterion eraill a allai fod yn bwysig ac yn berthnasol i benderfyniad yr SoS o ran y Datblygiad Arfaethedig, sy'n cynnwys yr NPSau ar gyfer Ynni a fabwysiadwyd ac sy'n dod i'r amlwg.

3.3. DATGANIADAU POLISI CENEDLAETHOL

- 3.3.1. Mae'r NPS Trosfwaol ar gyfer Ynni² (NPS EN-1) a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2011 yn amlinellu polisi'r Llywodraeth ar gyfer cyflwyno seilwaith ynni mawr. Roedd pum NPS penodol i dechnoleg yn cyd-fynd ag ef ar gyfer y sector ynni, yr ystyrir mai dim ond yr NPS ar gyfer Seilwaith Cyflenwi Nwy a Phiblinellau Nwy ac Olew³ (NPS EN-4) sy'n berthnasol.

² Datganiad Polisi Cenedlaethol Trosfwaol ar gyfer Ynni (EN-1) (Yr Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd 2011). Adalwyd o: <https://www.gov.uk/government/publications/national-policy-statements-for-energy-infrastructure>.

³ Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer Seilwaith Cyflenwi Nwy a Phiblinellau Nwy ac Olew (EN-4) (Yr Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd 2011). Adalwyd o: <https://www.gov.uk/government/publications/national-policy-statements-for-energy-infrastructure>.

NPS EN-1: DATGANIAD POLISI CENEDLAETHOL TROSFWAOL AR GYFER YNNI

- 3.3.2. Mae Rhan 2 NPS EN-1, Gorffennaf 2011, yn amlinellu "*Polisi'r Llywodraeth ar ynni a datblygiad seilwaith ynni*". Mae'n cadarnhau:
- ymrwymiad y Llywodraeth i gyrraedd ei tharged cyfreithiol rwymol i dorri allyriadau nwyon tŷ gwydr (GHG) 80% o leiaf erbyn 2050 o gymharu â lefelau 1990 (sydd wedi'i gynyddu ers hynny i ymrwymiad i gyrraedd allyriadau sero net erbyn 2050⁴);
 - yr angen i ysgogi newid i economi carbon isel, er mwyn lleihau allyriadau GHG; a
 - phwysigrwydd cynnal cyflenwadau ynni diogel a dibynadwy wrth i weithfeydd cynhyrchu tanwydd ffosil hŷn gau o ganlyniad i System Masnachu Allyriadau yr Undeb Ewropeaidd (UE) ac wrth i'r DU symud tuag at economi carbon isel.
- 3.3.3. Er nad yw NPS EN-1 yn cyfeirio'n benodol at Ddal a Storio Carbon (CCS) ar gyfer datrysiadau datgarboneiddio diwydiannol yn y DU nac yn darparu arweiniad ar gyfer hynny, mae'r ExA o'r farn ei fod yn bwysig ac yn berthnasol i'r NSIP hwn fel dogfen bolisi ddefnyddiol i gyfeirio ati sy'n cynnwys egwyddorion trosfwaol sy'n cefnogi datgarboneiddio a chyflenwad ynni amrywiol.
- 3.3.4. Mae'r NPS hwn (NPS EN-1) hefyd yn ymhelaethu trwy ddweud "*Hoffai'r Llywodraeth i ddiwydiant gyflwyno llawer o ddatblygiadau carbon isel newydd (ynni adnewyddadwy, niwclear a chynhyrchu tanwydd ffosil gyda CCS) o fewn y 10 i 15 mlynedd nesaf er mwyn ateb her ddeuol diogelwch ynni a'r newid yn yr hinsawdd*" erbyn 2050 (paragraff 3.3.5).
- 3.3.5. Mae Rhan 2 NPS EN-1 yn nodi "...pwysigrwydd cynnal cyflenwadau ynni diogel a dibynadwy" yn ogystal â bod ynni'n allweddol i dwf economaidd, lles cymdeithasol a chyflawni targedau 2050. Mae paragraff 2.2.5 NPS EN-1 yn cyfeirio at "*Newid i economi carbon isel*", tra bod paragraff 2.2.6 yn datgan: "*Mae angen i'r DU gefnu'n raddol ar gymysgedd ynni sydd mor uchel o ran carbon: i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, ac i wella diogelwch, argaeledd a fforddiadwyedd ynni trwy arallgyfeirio.*"
- 3.3.6. At hynny, mae NPS EN-1 yn sefydlu'r angen hollbwysig i'r DU barhau i fod â chyflenwadau diogel a dibynadwy o drydan wrth iddi newid i economi carbon isel, tra bod Rhan 3 NPS EN-1 yn pwysleisio'r angen am seilwaith ynni ar lefel genedlaethol. Yn wir, mae paragraff 3.2.2 yn datgan "*mae angen i ni ddod yn llai dibynnol ar rai mathau o ynni, wrth i dechnegau carbon isel newydd ac arloesol a mesurau effeithlonrwydd ynni gael eu defnyddio*".
- 3.3.7. Mae paragraff 3.3.5 NPS EN-1 yn nodi bod y DU yn dewis datgarboneiddio ei sector pŵer i raddau helaeth trwy fabwysiadu

⁴ UK becomes first major economy to pass net zero emissions law (27 Mehefin 2019). Adalwyd o: <https://www.gov.uk/government/news/uk-becomes-first-major-economy-to-pass-net-zero-emissions-law>.

ffynonellau carbon isel yn gyflym ac mae'n nodi bod cynnal ystod amrywiol o ffynonellau ynni yn debygol o fod yn fuddiol i'r DU, fel nad ydym yn rhy ddibynnol ar unrhyw dechnoleg unigol. Yn wir, mae NPS EN-1 yn nodi'r angen brys am gapasiti trydan newydd, ar yr un pryd â bodloni ein rhwymedigaethau ar gyfer 2050, yn enwedig ar gyfer ynni carbon isel (paragraff 3.3.15). Mae hefyd yn nodi, ym mharagraff 3.3.16, y gallai methiant i ddatgarboneiddio ac amrywiaethu ffynonellau ynni ein cloi mewn system cynhyrchu carbon uchel, gan ei gwneud yn anodd ac yn ddrud iawn i fodloni targed lleihau carbon 2050.

- 3.3.8. Mae Adran 3.6 NPS EN-1 yn cydnabod bod cynhyrchu tanwydd ffosil yn chwarae rôl allweddol mewn darparu cyflenwadau ynni dibynadwy a'r hyblygrwydd i ymateb i newidiadau i'r cyflenwad a'r galw ac amrywiaeth yn y cymysgedd ynni. Polisi'r Llywodraeth yw bod rhaid i orsafoedd cynhyrchu wedi'u seilio ar danwydd ffosil gael eu hadeiladu a'u gweithredu yn unol â nodau newid yn yr hinsawdd cynyddol heriol. Yn wir, mae paragraffau 3.6.4 - 3.6.7 NPS EN-1 yn ymwneud â CCS a'i rôl bosibl wrth gyrraedd targedau allyriadau, ar yr un pryd â chynnal diogelwch y cyflenwad. Mae'r paragraffau hyn hefyd yn cydnabod y gallai CCS leihau allyriadau carbon hyd at 90%. Fodd bynnag, mae NPS EN-1 hefyd yn cydnabod bod "*ansicrwydd ynglŷn â defnyddio CCS yn yr economi yn y dyfodol...*", ond "*...na ellir datrys hyn heb ddangos CCS ar raddfa fasnachol yn gyntaf.*" (paragraff 3.6.4).
- 3.3.9. Mae paragraff 4.1.2 NPS EN-1 yn nodi y dylai'r SoS ddechrau trwy ragdybio o blaid rhoi caniatâd i geisiadau ar gyfer NSIPau ynni, tra bod paragraff 4.1.3 NPS EN-1 yn cynghori y dylid ystyried buddion posibl y Datblygiad Arfaethedig i fodloni'r angen am seilwaith ynni, creu swyddi ac unrhyw fuddion tymor hwy neu ehangach. Yn ogystal, mae'n amlinellu y dylid hefyd ystyried effeithiau niweidiol posibl, gan gynnwys unrhyw rai tymor hir a chronnol, yn ogystal â mesurau i'w hosgoi, eu lleihau neu wneud iawn amdanynt. Mae paragraff 4.1.4 yn parhau trwy ddatgan, yn y cyd-destun hwn, y dylai'r SoS ystyried buddion ac effeithiau niweidiol amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.
- 3.3.10. Yn ogystal, gallai polisiau ac ystyriaethau eraill, gan gynnwys y rhai hynny a gynhwysir yn y cynllun datblygu ar gyfer yr ardal, fod yn faterion y gallai'r SoS ystyried eu bod yn bwysig ac yn berthnasol i'r penderfyniad. Fodd bynnag, ystyrir bod goruchafiaeth NPSau ar gyfer NSIPau yn glir, ac mae'r ExA o'r farn eu bod yn bwysig ac yn berthnasol ac y dylid eu hystyried wrth benderfynu ar y Datblygiad Arfaethedig hwn. Os bydd gwrthdaro rhwng polisiau a gynhwysir mewn unrhyw ddogfen arall a'r rhai hynny mewn NPS, gallai'r rhai hynny yn yr NPS fod yn drech at ddibenion penderfynu ar NSIPau, os byddant yn gwrthbwysu'r dogfennau eraill ac ystyrir eu bod yn bwysig ac yn berthnasol yn unol ag a105 PA2008.
- 3.3.11. Mae Rhan 5 NPS EN-1 yn rhestru nifer o effeithiau generig sy'n ymwneud â'r rhan fwyaf o fathau o seilwaith ynni, y dylai'r SoS eu hystyried wrth baratoi ac ystyried ceisiadau. Mae'r rhain yn cynnwys defnydd tir; materion economaidd-gymdeithasol; ansawdd aer ac allyriadau; sŵn a

dirgryniad; llwch, arogleuon, golau artiffisial, ager a mwg; traffig a thrafnidiaeth; hedfanaeth sifil a milwrol; bioamrywiaeth a chadwraeth ddaearegol; yr amgylchedd hanesyddol; tirwedd a gweledol; ansawdd ac adnoddau dŵr; perygl llifogydd a gwastraff, ymhlith rhai eraill.

NPS EN-4: DATGANIAD POLISI CENEDLAETHOL AR GYFER SEILWAITH CYFLENWI NWY A PHIBLINELLAU NWY AC OLEW

- 3.3.12. Mae NPS EN-4 (Gorffennaf 2011) ym mharagraff 1.8.1 (iv) yn datgan yn glir *"Y seilwaith y mae'r NPS yn ymwneud ag ef yw'r seilwaith cenedlaethol arwyddocaol sy'n dod o fewn trothwyon perthnasol y Ddeddf Cynllunio (adrannau 17–21 Deddf Cynllunio 2008), fel a ganlyn..."*

(iv) Piblinellau dros 16.093km (10 milltir) o hyd y byddai angen iddynt gael caniatâd fel arall o dan a.1 Deddf Piblinellau 1962 ynghyd â gwyradau i biblinellau o'r fath ni waeth am eu hyd. Cyfeirir at y piblinellau hyn yn yr NPS hwn fel piblinellau traws gwlad."

- 3.3.13. Er gwaethaf hyn, mae paragraff 1.8.2 yn nodi *"Gallai piblinellau sy'n bodloni trothwy'r Ddeddf Cynllunio yn 1.8.1 (iv) fod yn cludo gwahanol fathau o nwy, tanwydd neu gemegau..."* ond mae'n glir bod NPS EN-4 *"...yn ymdrin yn unig â'r piblinellau seilwaith cenedlaethol arwyddocaol hynny sy'n cludo nwy naturiol neu olew."* Fodd bynnag, mae'r paragraff hwn hefyd yn datgan *"...gallai gwybodaeth yn yr NPS hwn fod yn ddefnyddiol wrth amlygu effeithiau i'w hystyried mewn ceisiadau ar gyfer piblinellau y bwriedir iddynt gludo sylweddau eraill."*

- 3.3.14. Yng ngoleuni hyn, mae'r ExA o'r farn bod NPS EN-4 yn bwysig ac yn berthnasol i ystyriaeth yr SoS o'r Datblygiad Arfaethedig hwn yn yr ystyr ei fod yn rhoi arweiniad ar ystyriaethau penodol i dechnoleg ar gyfer piblinellau, er hynny rhai nwy a/ neu olew, sy'n cynnwys agosrwydd i ddefnyddiau tir sensitif (e.e., datblygiad preswyl ac ysgolion) wrth gynllunio llwybrau; diogelwch piblinell; sŵn a dirgryniad; bioamrywiaeth; tirwedd ac amwynder gweledol; ansawdd ac adnoddau dŵr; a phriddoedd a daeareg.

DATGANIADAU POLISI CENEDLAETHOL AR GYFER YNNI SY'N DOD I'R AMLWG – CYD-DESTUN POLISI

- 3.3.15. Ar 6 Medi 2021, cyhoeddodd yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) NPSau drafft (dNPS) diwygiedig ynglŷn ag ynni (dNPS EN-1 i dNPS EN-5 (yn gynwysedig)) ar gyfer ymgynghoriad. Roedd y dNPSau hyn yn ailadrodd yr angen brys am ddatblygiad ynni carbon isel a dal carbon, yn ogystal â phwysleisio pwysigrwydd dylunio da.

- 3.3.16. Ailgyhoeddwyd fersiynau wedi'u diweddarau o'r dNPSau gan yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net (DESNZ), a dechreuodd gyfnod ymgynghori newydd ar 30 Mawrth 2023. Caeodd yr ymgynghoriad ar 23 Mehefin 2023. Mae'r holl gyfeiriadau dilynol at dNPSau yn yr adroddiad hwn, gan

gynnwys dNPS EN-1 a dNPS EN-4, yn cyfeirio at fersiynau mis Mawrth 2023 o'r dNPSau hynny, oni nodir fel arall.

- 3.3.17. Nid yw'r NPSau presennol (Gorffennaf 2011) yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â chynigion o natur y Datblygiad Arfaethedig. Fodd bynnag, ystyrir bod y dNPS EN-1 a'r dNPS EN-4 presennol yn ystyriaethau pwysig a pherthnasol yn y broses benderfynu ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig hwn.
- 3.3.18. Mae'r ExA wedi ystyried y dNPSau perthnasol a oedd yn bodoli ar ddiwedd yr Archwiliad, ac mae'n ymwybodol bod yr SoS wedi rhyddhau dNPSau diwygiedig ar 22 Tachwedd 2023, gan gynnwys dNPS EN-1 (Tachwedd 2023) a dNPS EN-4 (Tachwedd 2023). Er nad yw'r ExA wedi ystyried y dNPSau diwygiedig hyn (Tachwedd 2023) yn yr Adroddiad hwn, oherwydd y'u cyhoeddwyd ar ôl i'r Archwiliad ddod i ben, mae'n amlwg y gallent fod yn bwysig ac yn berthnasol i benderfynu ar y cyflwyniad NSIP hwn. Felly, fe allai'r SoS ar gyfer DESNZ ddymuno eu hystyried wrth benderfynu ar y Datblygiad Arfaethedig hwn, yn enwedig os cânt eu dynodi cyn i benderfyniad gael ei wneud ar y Datblygiad Arfaethedig.
- 3.3.19. Mae'r dNPSau canlynol yn berthnasol i'r Datblygiad Arfaethedig:
- dNPS NPS Trosfwaol ar gyfer Ynni (dNPS EN-1).
 - dNPS ar gyfer Seilwaith Cyflenwi Nwy Naturiol a Phiblinellau Nwy ac Olew (dNPS EN-4).
- 3.3.20. Mae dNPS EN-1 yn amlinellu'r "*angen brys*" am seilwaith CCS newydd, yn ogystal ag amlinellu'r rôl allweddol y gall y sector ei chwarae wrth helpu'r DU i fodloni ei hymrwymiad sero net. Mae paragraff 2.3.11 yn nodi "*Bydd angen cymryd camau gweithredu clir i adeiladu ar y galluoedd profedig yn y sector i arwain technolegau ynni newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg.*" Byddai hyn yn cynnwys ceisiadau NSIP fel y Datblygiad Arfaethedig a'r rôl y gall piblinellau CO₂ ac ymestyn rhwydweithiau CCS ei chwarae wrth helpu'r DU i fodloni ei hymrwymiad sero net.
- 3.3.21. Mae Rhan 2 dNPS EN-1 yn amlinellu'r cyd-destun polisi ar gyfer datblygu seilwaith ynni o arwyddocâd cenedlaethol, ac mae paragraffau 2.1.1 a 2.1.2 yn amlinellu ymrwymiad y Llywodraeth i gyflawni targedau datgarboneiddio. Pe byddai'n cael ei ddynodi ar ei ffurf bresennol, mae dNPS EN-1 yn ymrwymo i roi'r DU ar y llwybr tuag at gyrraedd ei thargedau allyriadau sero net erbyn 2050. Amlinellir targed cyfreithiol rwymol y Llywodraeth o gyflawni sero net o ran allyriadau nwyon tŷ gwydr erbyn 2050 yn adran 2.2 ac mae'n ymhelaethu ymhellach ar dargedau penodol i fodloni targedau Sero Net yn adran 2.3, gan ddatgan:
- "Mae bodloni'r amcanion hyn yn gofyn am seilwaith ynni sylweddol, ar raddfa fawr a bach... Mae'n... cynnwys y seilwaith sy'n angenrheidiol i ddal, cludo a storio carbon deuocsid. Bydd y gofyniad ar gyfer seilwaith ynni newydd yn cyflwyno cyfleoedd ar gyfer y DU ac mae'n cyfrannu tuag at ein huchelgais i gefnogi swyddi yn niwydiant ynni glân y DU a chadwyni cyflenwi lleol." (paragraff 2.3.4).*

- 3.3.22. At hynny, mae dNPS EN-1 yn cydnabod y "*rôl gynyddol arwyddocaol*" y gall hydrogen carbon isel ei chwarae wrth ddatgarboneiddio ynni ar draws sawl sector, gan ddatgan "*Bydd angen i ni addasu rhwydweithiau presennol neu adeiladu rhai newydd i ...alluogi cludo a storio carbon deuocsid.*" (paragraff 2.3.8).
- 3.3.23. Mae Rhan 3 dNPS EN-1 yn sefydlu'r angen brys am brosiectau seilwaith ynni newydd o arwyddocâd cenedlaethol, tra bod paragraff 3.2.6 yn nodi y dylai'r SoS roi pwys sylweddol i ystyriaethau ynglŷn ag angen. Mae paragraff 3.2.7 hefyd yn egluro "*...nid yw'n ofynnol i'r SoS roi ystyriaeth ar wahân i gyfraniad penodol unrhyw brosiect unigol at fodloni'r angen a sefydlwyd yn yr NPS hwn.*"
- 3.3.24. Mae Adran 3.2 dNPS EN-1 yn cadarnhau y dylai'r SoS asesu pob cais am ganiatâd datblygu y mae'r NPSau ynni'n ymdrin ag ef ar y sail bod y llywodraeth wedi dangos bod angen am seilwaith o'r math hwnnw. Mae hefyd yn amlinellu ym mharagraff 3.2.5 y dylai'r SoS asesu pob cais am ganiatâd datblygu ar gyfer y mathau o seilwaith y mae dNPS EN-1 yn ymdrin â nhw ar y sail bod y llywodraeth wedi dangos bod angen brys am seilwaith o'r math hwnnw.
- 3.3.25. Mae Adran 3.5 dNPS EN-1 yn sefydlu'r angen am seilwaith dal a storio carbon newydd o arwyddocâd cenedlaethol, gan ddatgan "*Mae angen brys am seilwaith CCS newydd i gefnogi'r newid i economi sero net.*" (paragraff 3.5.1).
- 3.3.26. Cydnabu dNPS EN-1 "*gallai seilwaith CCS fod yn seilwaith newydd neu wedi'i addasu at ddibenion gwahanol*" gan ddatgan hefyd "*bydd angen seilwaith CCS hefyd i ddal a storio carbon deuocsid o gynhyrchu hydrogen o nwy naturiol, prosesau diwydiannol, defnyddio bioynni (BECCS) ac o'r awyr (DACCS)*" (paragraff 3.5.2.). At hynny, mae paragraff 3.5.6 yn cydnabod bod piblinellau CO₂ newydd ar y tir dros 16.093 cilometr o hyd o fewn cwmpas dNPS EN-1, tra bod paragraff 3.5.5 yn cydnabod "*Mae capasiti storio CO₂ posibl y DU ymhlith y mwyaf yn Ewrop, gyda chapasiti amcangyfrifedig i storio 78 biliwn o dunelli o CO₂ o dan wely môr UKCS*" (Ysgafell Gyfandirol y DU).
- 3.3.27. Mae paragraff 3.5.8 dNPS EN-1 yn cydnabod nad yw'n ymddangos bod unrhyw ddewisiadau amgen realistig yn lle seilwaith CCS newydd er mwyn cyflawni Sero Net erbyn 2050.
- 3.3.28. Mae paragraff 4.8.22 dNPS EN-1 yn cydnabod bod piblinellau'n ddull o gludo CO₂ a ddaliwyd, gan ddatgan "*...bydd angen buddsoddiad sylweddol mewn piblinellau er mwyn defnyddio CCS yn ehangach*". Er bod paragraff 4.8.23 yn datgan "*Disgwylir i ymgeiswyr ystyried y galw rhagweladwy yn y dyfodol wrth ystyried maint a llwybr eu buddsoddiadau. Felly, fe allai ymgeiswyr gynnig piblinellau â mwy o gapasiti na'r galw y gellid ei awgrymu ar yr adeg gydsynio.*"
- 3.3.29. O ran dNPS EN-4, mae'n parhau i fod yn amlwg ei fod yn ymdrin â "*Piblinellau dros 16.093km (10 milltir) o hyd y byddai angen iddynt gael eu hawdurdodi o dan a.1 Deddf Piblinellau 1962 fel arall ynghyd â*

gwyradau i'r cyfryw biblinellau ni waeth am eu hyd" (paragraff 1.6.1 (iv)).

3.3.30. Er gwaethaf hyn, mae paragraff 1.6.2 yn nodi "*Gallai piblinellau sy'n bodloni trothwy'r Ddeddf Cynllunio yn 1.6.1 (iv) fod yn cludo gwahanol fathau o nwy, tanwydd neu gemegau...*" ond mae'n glir bod dNPS EN-4 "*...yn ymdrin yn unig â'r piblinellau seilwaith cenedlaethol arwyddocaol hynny sy'n cludo nwy naturiol neu olew.*" Fodd bynnag, mae'r paragraff hwn hefyd yn datgan "*...gallai gwybodaeth yn yr NPS hwn fod yn ddefnyddiol wrth amlygu effeithiau i'w hystyried mewn ceisiadau ar gyfer piblinellau y bwriedir iddynt gludo sylweddau eraill.*"

3.3.31. Mae dNPS EN-4 yn rhoi arweiniad ar ystyriaethau penodol i dechnoleg ar gyfer piblinellau, er hynny rhai nwy a/ neu olew, sy'n cynnwys agosrwydd i ddefnyddiau tir sensitif (e.e., datblygiad preswyl ac ysgolion) wrth gynllunio llwybrau; diogelwch piblinell; sŵn a dirgryniad; bioamrywiaeth; tirwedd ac amwynder gweledol; ansawdd ac adnoddau dŵr; a phriddoedd a daeareg.

3.4. DEDDF Y MÔR A MYNEDIAD I'R ARFORDIR 2009

3.4.1. Mae angen i'r Ymgeisydd wneud cais i Dîm Trwyddedu Morol Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), ar ran Llywodraeth Cymru, o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 am Drwydded Forol ar gyfer Croesfan Afon Dyfrdwy, gan y byddai'n arwain at weithgareddau trwyddedadwy yn nyfroedd Cymru. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd yn ei lythyr eglurhaol a gyflwynwyd erbyn DL7 [REP7-001] fod cais wedi'i ddiweddarau am Drwydded Forol wedi cael ei gyflwyno i CNC ar 1 Medi 2023, a bod cydnabyddiaeth wedi'i derbyn ar 4 Medi 2023. Cadarnheir hyn hefyd yn nogfen yr Ymgeisydd 'Cydsyniadau a Thrwyddedau Eraill' [REP7-028].

3.4.2. Er bod Tîm Trwyddedu Morol CNC, ar ran Llywodraeth Cymru, yn gyfrifol am benderfynu ar y trwyddedau morol perthnasol, mae'r ExA wedi rhoi ystyriaeth lawn i Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir a chynlluniau a pholisïau morol eraill perthnasol.

3.5. RHEOLIADAU'R DU SY'N DEILLIO O GYFRAITH EWROP

YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD

3.5.1. Gadawodd y DU yr UE fel aelod-wladwriaeth ar 31 Ionawr 2020 a daeth y cyfnod pontio i ben ar 31 Rhagfyr 2020. Mae deddfwriaeth ddomestig sy'n deillio o'r UE, fel y bo'n berthnasol i gyfraith ddomestig yn union cyn y dyddiad ymadael, yn parhau i fod yn berthnasol i gyfraith ddomestig ar ac ar ôl y diwrnod ymadael fel cyfraith a ddargedwir oni bai ei bod wedi'i disodli'n benodol.

3.5.2. Paratowyd yr adroddiad hwn ar sail y gyfraith a ddargedwir ac mae cyfeiriadau ynddi at dermau Ewropeaidd fel 'cynefinoedd' wedi cael eu cadw yn gyffredinol er mwyn cysondeb â dogfennau'r Archwiliad. Fodd bynnag, lle mae terminoleg wedi newid, er enghraifft 'Rhwydwaith

Safleoedd Cenedlaethol' yn hytrach na 'rhwydwaith Natura 2000', defnyddir y derminoleg ddiwygiedig.

- 3.5.3. Oherwydd y gallai fod newidiadau i'r ddeddfwriaeth rhwng ysgrifennu'r adroddiad hwn a phenderfyniad yr SoS, mater i'r SoS yw bodloni ei hun ynglŷn â'r sefyllfa mewn perthynas â chyfraith a rhwymedigaethau a ddargedwir ar adeg y penderfyniad.

3.6. DEDDFWRIAETH, POLISIÛAU, A CHANLLAWIAU YNG NGHYMRU

- 3.6.1. Mae deddfwriaeth, polisiau a chanllawiau perthnasol yng Nghymru yn cynnwys:

- Deddf Cymru 2017.
- Deddf Cynllunio (Cymru) 2015.
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol – Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (2021).
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Diwygio Targed Allyriadau 2050).
- Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016.
- Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016.
- Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru 2019.
- Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11, Chwefror 2021) a Nodiadau Cyngor Technegol (TAN) cysylltiedig, gan gynnwys y TANau sy'n ôl-ddyddio'r NPSau perthnasol, sef:
 - TAN1 (2015) Cyd-astudiaethau argaeledd tir ar gyfer tai;
 - TAN12 (2016) Dylunio;
 - TAN20 (2017) Cynllunio a'r Gymraeg;
 - TAN21 (2014) Gwastraff;
 - TAN23 (2014) Datblygu economaidd; a
 - TAN24 (2017) Yr amgylchedd hanesyddol.
- Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2 (2021-25) (Llywodraeth Cymru, 2021).
- Rhwydwaith Casglu, Defnyddio, a Storio Carbon i Gymru (Mawrth 2021).
- Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel (2019).
- Canllawiau Ymarfer Llywodraeth Cymru: Goblygiadau Cynllunio Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Carbon Isel (2011).
- Canllawiau Ymarfer Llywodraeth Cymru: Goblygiadau Cynllunio Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Carbon Isel – Pecyn Cymorth ar gyfer Cynllunwyr (2015).
- Polisi Adnoddau Naturiol (2017).
- Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru 2020-21.
- Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017.
- Deddf Llywodraeth Cymru (2006).
- Cynllun Gofodol Cymru (2008).
- Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

- Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.
- Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013.
- Elfennau o ddogfennau polisi ynni, hinsawdd a seilwaith Llywodraeth Cymru.
- Datganiad argyfwng hinsawdd Llywodraeth Cymru (2019).
- Polisi Adnoddau Cenedlaethol Cymru.
- Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru.

3.7. DEDDFWRIAETH, POLISIŌAU, A CHANLLAWIAU'R DEYRNAS UNEDIG

3.7.1. Mae deddfwriaeth, polisiŷau a chanllawiau perthnasol y DU, na restrir ym mharagraff 3.6.1 uchod, yn cynnwys:

- Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2017 (Rheoliadau EIA).
- Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016.
- Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017.
- Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019.
- Deddf yr Amgylchedd 2021.
- Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer 2010, a wnaed o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995.
- Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer 2010.
- Y Strategaeth Ansawdd Aer.
- Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017 (fel y'u diwygiwyd).
- Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Penderfyniadau) 2010.
- Confensiwn Rhaglen Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol 1992.
- Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.
- Deddf Priffyrdd 1980.
- Deddf Rheoli Llygredd 1974.
- Y Datganiad Polisi Sŵn ar gyfer Lloegr.
- Canllawiau Ymarfer Cynllunio Cenedlaethol.
- Deddf yr Amgylchedd 1995.
- Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.
- Y Strategaeth Ansawdd Aer ar gyfer Lloegr.
- Deddf Adnoddau Dŵr 1991.
- Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010.
- Deddf Dŵr 2003.
- Deddf Dŵr 2014.
- Deddf Draenio Tir 1991.
- Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU.
- Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.
- Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006.
- Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (fel y'i diwygiwyd).
- Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.
- Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979.
- Deddf Hawliau Dynol 1998.

- Deddf Cydraddoldeb 2010.
- Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008.
- Gorchymyn Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 (Diwygio Targed 2050) 2019.
- Cytundeb Paris (2015) Confensiwn Ramsar ar Wlyptiroedd o Bwysigrwydd Rhyngwladol 1971.

3.8. GORCHMYNION CANIATÂD DATBLYGU A WNAED

3.8.1. Yn ei Femoranda Esboniadol [REP7-018] a [REP7-018], ynghyd â'i ymatebion i Gwestiynau Ysgrifenedig Cyntaf yr ExA [REP1-044] a'r cais am wybodaeth ychwanegol ar 14 Medi 2023, a wnaed o dan Reol 17 Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 [REP9-012], mae'r Ymgeisydd wedi cyfeirio at y Gorchymynion canlynol a wnaed i gefnogi ei safbwynt:

- Gorchymyn Gorsaf Gynhyrchu Llanw Bae Abertawe 2015.
- Gorchymyn Gwella'r A14 Caergrawnt i Huntingdon 2016.
- Gorchymyn Amnewid Piblinell Nwy Afon Humber 2016.
- Gorchymyn Piblinell Nwy Cors Thorpe 2016.
- DCO y Grid Cenedlaethol (Prosiect Cysylltu Richborough) 2017.
- Gorchymyn Newid Cyffordd Testo'r A19/A184 2018.
- Gorchymyn Twannel Silvertown 2018.
- DCO Priffordd yr A585 Windy Harbour i Skipool 2020.
- Gorchymyn Trydedd Groesfan Llyn Lothing (Lowestoft) 2020.
- DCO Cyffordd 6 yr M42 2020.
- Gorchymyn Fferm Wynt Alltraeth Vanguard Norfolk 2020.
- Gorchymyn Atgyfnerthu Rhwydwaith Dosbarthu Trydan Gogledd Swydd Amwythig 2020.
- Gorchymyn Fferm Wynt Alltraeth Boreas Norfolk 2021
- DCO yr A47 Blofield i Ogledd Burlingham 2022.
- DCO yr A47/A11 Cyffordd Thickthorn 2022.
- DCO Ffyrdd Cyswllt yr A57 2022.
- DCO Cyswllt Coll yr A417 2022.
- DCO yr A428 Black Cat i Caxton Gibbet 2022.
- Gorchymyn Fferm Wynt Alltraeth Hornsea Three 2020.
- Gorchymyn Keadby 3 (Gorsaf Gynhyrchu sy'n Rhedeg ar Nwy wedi'i Chyfarparu i Ddal Carbon) 2022.
- DCO Cyffordd 28 yr M25 2022.
- DCO Ffordd Gyswllt yr M54 i'r M6 2022.
- DCO Gwaith Cynhyrchu Hyblyg Thurrock 2022.
- DCO yr A38 Cyffyrdd Derby 2023.
- DCO yr A47 Wansford i Sutton 2023.

3.8.2. Yn ogystal â'r uchod, cyfeiriodd yr Ymgeisydd at nifer o Geisiadau NSIP na phenderfynwyd arnynt ar ddiwedd yr Archwiliad. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Ffyrdd Cyswllt yr A56 (a adwaenwyd yn flaenorol fel y Rhaglen Uwchraddio Traws-Penwynion).
- Prosiect Traws-Penwynion Gogleddol yr A66.
- Prosiect Bioynni Drax gyda CCS.
- Cyfleuster Gwres a Phŵer Cyfunedig Ynni o Wastraff Medworth.

- Parc Ynni Gwyrdd Gogledd Swydd Lincoln.
- Prosiectau Ymestyn Sheringham a Dudgeon.
- Prosiect Ymestyn Amlndanwydd Slough.
- Yorkshire Green.

3.8.3. Mae'r ExA wedi rhoi ystyriaeth i'r holl Orchmynion a grybwyllwyd uchod lle y bo'n berthnasol.

3.9. POLISIŌAU, CYNLLUNIAU AC ADRODDIADAU ERAILL PERTHNASOL

3.9.1. Mae'r ExA wedi ystyried polisiâu eraill perthnasol y Llywodraeth, gan gynnwys y canlynol:

- **Papur gwyn ynni:** Pweru ein dyfodol sero net (BEIS), 2020:
 - Trydan glân fydd y prif fath o ynni, sy'n golygu bod posibilrwydd y bydd y galw am drydan yn dyblu ac felly y bydd cynnydd pedair gwaith drosodd mewn cynhyrchu trydan carbon isel. Mae'n rhaid i ni sicrhau'r newid hwn ar yr un pryd â chadw dibynadwyedd, cydnerthedd a fforddiadwyedd hanfodol ein hynni.
 - O ystyried rôl allweddol trydan wrth gyflawni allyriadau sero net, mae'n rhaid i ni anelu at system bŵer gwbl ddatgarboneiddiedig, ddibynadwy a chost isel erbyn 2050.
 - Dylai'r farchnad drydan bennu'r datrysiadau gorau ar gyfer allyriadau isel iawn a chyflenwad dibynadwy, am gost isel i ddefnyddwyr.
 - Bydd yr adolygiad yn ceisio sicrhau cydbwysedd priodol rhwng costau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd.
- Mae **Cynllun Seilwaith Cenedlaethol 2014** yn amlinellu gweledigaeth ar gyfer seilwaith y DU, gan atgyfnerthu ymrwymiad y Llywodraeth i fuddsoddi mewn seilwaith a gwella ei ansawdd a'i berfformiad.
- Y **Cynllun Cyflawni Seilwaith Cenedlaethol (2016 - 2021)**, a adeiladodd ar Gynllun Seilwaith Cenedlaethol 2014 ac a unodd gynlluniau'r Llywodraeth ar gyfer seilwaith economaidd dros gyfnod o bum mlynedd (2016 – 2021) â'r rhai hynny i gefnogi cyflenwi tai a seilwaith cymdeithasol.
- Y **'Strategaeth Twf Glân – Arwain y ffordd tuag at ddyfodol carbon isel' (BEIS) 2017**, sy'n amlinellu nodau'r Llywodraeth i gyflawni mwy o dwf economaidd ar yr un pryd â lleihau allyriadau carbon.
- **'Twf Glân – Y Llwybr tuag at Ddal, Defnyddio a Storio Carbon (CCUS) yn y DU – Cynllun Gweithredu' (BEIS), 2018** sy'n cadarnhau gweledigaeth y Llywodraeth i'r DU ddod yn arweinydd byd-eang mewn CCUS. Nod y cynllun gweithredu yw galluogi datblygu'r cyfleuster CCUS cyntaf yn y DU, gan gomisiynu

yng nghanol y 2020au, i gefnogi'r uchelgais o allu defnyddio CCUS wrth raddfa yn y 2030au.

- Edrychodd **Aseiad Seilwaith Cenedlaethol 2018 (y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol)** ar wahanol sectorau seilwaith gan ddod i gasgliad annibynnol yn seiliedig ar y dystiolaeth orau a oedd ar gael, fod yr Aseiad Seilwaith Cenedlaethol yn cyflwyno strategaeth tymor hir glir ar gyfer seilwaith economaidd y DU o 2020 i 2050, gan ddarparu eglurder tymor hir i ddiwydiant a'r gadwyn gyflenwi. Yn ogystal, amlinellodd y ddogfen hon nifer o argymhellion, ac un o'r themâu allweddol oedd 'Cost isel, carbon isel' gan ddatgan y gall ac y dylai'r DU gael trydan, gwres a gwastraff cost isel a charbon isel.
- **'Sero Net' erbyn 2050 (Llywodraeth EF, 2019)** oedd cyhoeddiad y Llywodraeth a wnaed pan ddaeth Gorchymyn Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 (Diwygio Targed 2050) 2019 i rym ar 27 Mehefin 2019. Ymgorfforodd y Gorchymyn hwn yr ymrwymiad i gyflawni 'Sero Net' o ran allyriadau GHG erbyn 2050 yng nghyfraith y DU.
- Cyhoeddwyd **adroddiad y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol 'Sero Net – Cyfleoedd i'r sector pŵer'** ym mis Mawrth 2020 er mwyn diweddarur'r modelu, y tybiaethau a'r argymhellion yn Aseiad Seilwaith Cenedlaethol 2018 a grybwyllwyd uchod ac ymateb i benderfyniad y Llywodraeth ym mis Mehefin 2019 i ddeddfu ar gyfer targed allyriadau GHG 'Sero Net' i'r economi gyfan erbyn 2050, trwy Orchymyn Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 (Diwygio Targed 2050) 2019.
- **Ymateb y Llywodraeth i fodelau busnes posibl ar gyfer CCUS (2020)**, a amlinellodd ymateb y Llywodraeth i ymgysylltu â rhanddeiliaid ynglŷn â materion o dan y penawdau canlynol:
 - Defnyddio CCUS yn y 2020au.
 - Paramedrau, Integreiddio a Defnyddio.
 - Cludo a Storio CO₂.
 - CCUS Pŵer.
 - CCUS Diwydiannol.
 - Cynhyrchu Hydrogen Carbon Isel.
- **Y Strategaeth Seilwaith Cenedlaethol (Tachwedd 2020)**, sy'n amlinellu sylfaen ar gyfer blaenoriaethau a buddsoddiadau yn y dyfodol er mwyn radicaleiddio cyflenwi seilwaith effeithiol yn unol â'r targed allyriadau sero net erbyn 2050. Roedd yn cyd-fynd â chynllun 10 pwynt y Prif Weinidog ar y pryd i ddatgarboneiddio'r economi ar draws pob sector, gan gynnwys ynni, trafndiaeth a diwydiant. Mae'n ystyried y canlynol yn arbennig:
 - cynyddu dibyniaeth ar brosiectau a thechnolegau ynni adnewyddadwy a charbon isel;
 - gwella'r rhwydwaith digidol trwy ymestyn y rhaglen band eang sy'n gallu trosglwyddo data ar gyfradd gigabeit i alluogi cysylltedd ffeibr llawn ar draws 85% o'r DU erbyn 2030;

- ymgorffori dylunio da ym mhob prosiect seilwaith;
- gwella trafndiaeth gyhoeddus i fynd i'r afael â thagfeydd a llygredd aer sy'n deillio o draffig; a
- gweithio o fewn adrannau'r Llywodraeth i adolygu NPSau.
- Mae'r **Strategaeth Sero Net: Ailgoddi'n Wyrddach (Llywodraeth EF, 2021)** yn ymhelaethu ar ymrwymadau allweddol yn y papur gwyn Ynni, gan gynnig cyflawni "*pedwar clwstwr CCUS, sy'n dal 20-30 MtCO₂ ar draws yr economi, gan gynnwys 6 MtCO₂ o allyriadau diwydiannol, y flwyddyn erbyn 2030.*"

Sylwer: Canfu'r Uchel Lys fod y strategaeth hon yn anghyfreithlon yn ei ddyfarniad [2022] EWHC 1841 (Gwein)⁵. Er na ddiddymwyd y Strategaeth Sero Net, mae'n rhaid i adroddiad sy'n mynd i'r afael â'r pryderon a amlygwyd yn y strategaeth gael ei baratoi a'i gyflwyno, ac mae'n rhaid cydymffurfio erbyn 31 Mawrth 2023.

- **Ymgynghoriad y Llywodraeth ynglŷn â'r fframwaith polisi yn y dyfodol ar gyfer pŵer gyda CCUS.** Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn ceisio safbwyntiau a thystiolaeth ynglŷn â'r ffordd orau y gall y llywodraeth gefnogi cyflwyniad parhaus prosiectau pŵer gyda CCUS yn y 2030au y tu hwnt i Drac 1 y broses Dilyniannu Clwstwr. Mae'r alwad am dystiolaeth yn cau ar 17 Hydref 2022. Mae'r meysydd pwnc yn cynnwys:
 - dylunio dyraniad cystadleuol ar gyfer pŵer gyda CCUS;
 - esblygiad y model busnes a ddefnyddir i gefnogi pŵer gyda CCUS;
 - datblygu'r sector a'r gadwyn gyflenwi pŵer gyda CCUS; a
 - sut gallai pŵer gyda CCUS weithredu o dan drefniadau marchnad yn y dyfodol.
- **Cynllun Newid Carbon Isel y DU (2009).**
- **Strategaeth Genedlaethol ar gyfer yr Hinsawdd ac Ynni (Gorffennaf 2009).**

3.9.2. Mae'r ExA yn nodi er nad oes NPS dynodedig mewn grym ar gyfer piblinellau CO₂, bod polisi a strategaeth y Llywodraeth i gefnogi CCUS a seilwaith cysylltiedig yn dangos cyfeiriad clir o ran cynigion datblygu o'r fath.

3.10. Y FFRAMWAITH POLISI CYNLLUNIO CENEDLAETHOL

3.10.1. Mae'r Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol (NPPF) (5 Medi 2023) a'i Ganllawiau Ymarfer Cynllunio cysylltiedig yn amlinellu polisiâu cynllunio'r Llywodraeth ar gyfer Lloegr a sut y disgwylir iddynt gael eu cymhwyso. Diben penodol hyn yw gwneud cynlluniau datblygu a phenderfynu ar

⁵ <https://www.judiciary.uk/wp-content/uploads/2022/07/FoE-v-BEIS-judgment-180722.pdf>

geisiadau ar gyfer caniatâd cynllunio a phenderfyniadau cysylltiedig o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

- 3.10.2. Ar ddiwedd yr Archwiliad, yr NPPF (5 Medi 2023) oedd y fersiwn berthnasol o'r NPPF. Mae'r NPPF a'r Canllawiau Ymarfer Cynllunio yn debygol o fod yn ystyriaethau pwysig a pherthnasol wrth benderfynu ar NSIPau, ond dim ond i'r graddau sy'n berthnasol i'r prosiect hwnnw. Mae paragraff 5 yr NPPF yn egluro nad yw'r ddogfen yn cynnwys polisiau penodol ar gyfer NSIPau, y gall ystyriaethau penodol fod yn berthnasol iddynt. Fodd bynnag, mae'n nodi y gallai'r NPPF a'r polisiau ynddo fod yn faterion yr ystyrir eu bod yn bwysig ac yn berthnasol i NSIPau.
- 3.10.3. Er bod yr ExA wedi ystyried yr NPPF perthnasol a oedd ar waith ar ddiwedd yr Archwiliad, mae'n ymwybodol bod yr SoS wedi rhyddhau NPPF wedi'i ddiweddarau ar 19 Rhagfyr 2023. Nid yw'r ExA wedi ystyried NPPF (19 Rhagfyr 2023) yn yr Adroddiad hwn, oherwydd y'i cyhoeddwyd ar ôl i'r Archwiliad gau. Yn wir, er mwyn egluro, mae cyfeiriadau yn yr adroddiad hwn yn cyfeirio at NPPF (Medi 2023) oni nodir fel arall. Er gwaethaf hyn, fe allai'r SoS ar gyfer DESNZ ystyried bod NPPF (19 Rhagfyr 2023) yn ystyriaeth bwysig a pherthnasol wrth benderfynu ar y cyflwyniad NSIP hwn ac fe allai ddymuno ei ystyried.

3.11. ADRODDIADAU AR YR EFFAITH LEOL

- 3.11.1. Mae adrannau 104 a 105 PA2008 yn datgan bod rhaid i'r SoS, wrth benderfynu ar gais, ystyried unrhyw Adroddiad ar yr Effaith Leol (LIR) o fewn ystyr a60(3) PA2008. Mae LIR yn adroddiad a wneir gan awdurdod lleol perthnasol sy'n rhoi manylion effaith debygol Datblygiad Arfaethedig ar ardal yr awdurdod (neu unrhyw ran o'r ardal honno) a wahoddwyd ac a gyflwynwyd i'r ExA o dan a60 PA2008.
- 3.11.2. Roedd llythyr Rheol 6 yr ExA [PD-011] yn cynnwys cais ffurfiol o dan a60(2) PA2008 i awdurdodau lleol cymwys gyflwyno LIRau erbyn DL1. Trafodwyd hyn yn ystod y Cyfarfod Rhagarweiniol ar 20 Mawrth 2023, pan geisiodd FCC a CWCC ohirio'r dyddiad cyflwyno. O ganlyniad, cyflwynodd Llythyr Rheol 8 yr ExA [PD-012], a oedd yn cwblhau amserlen yr Archwiliad yn derfynol, DL newydd (DL1A), sef dydd Mercher 26 Ebrill 2023, i ddarparu ar gyfer cyflwyno LIRau gorffenedig, gan ei bod yn ymddangos bod yr holl bartion yn cytuno ac yn fodlon ar ddiwygiad o'r fath yn dilyn y trafodaethau ar y mater hwn yn y Cyfarfod Rhagarweiniol.
- 3.11.3. Roedd yr LIR yn amlinellu'r prif bolisiau cynllunio lleol a pholisiau eraill sy'n berthnasol i'r Datblygiad Arfaethedig ac yn rhoi sylwadau ar ystyried effeithiau lleol. Trafodir materion a godwyd yn yr LIR yn yr adroddiad hwn ac mae'r ExA wedi rhoi ystyriaeth lawn iddynt.

3.12. Y CYNLLUN DATBLYGU

- 3.12.1. Nid yw'r gofyniad cyfreithiol o dan a38(6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 i benderfynu ar geisiadau ar gyfer caniatâd datblygu yn unol â dogfennau'r cynllun datblygu yn berthnasol i geisiadau o dan PA2008. Fodd bynnag, yn achos y cais hwn, mae'r ExA o'r farn bod y

cynlluniau datblygu unigol ar gyfer FCC a CWCC yn bwysig ac yn berthnasol.

- 3.12.2. Mae NPS EN-1 yn cadarnhau y gellir ystyried bod polisiau mewn cynlluniau datblygu a dogfennau Fframwaith Datblygu Lleol eraill yn bwysig ac yn berthnasol wrth wneud penderfyniadau cynllunio. Fodd bynnag, os bydd gwrthdaro, yr NPSau fydd yn drech at ddibenion gwneud penderfyniadau gan yr SoS. Felly, mae'r cynllun datblygu'n ystyriaeth o bwys i'r SoS ac fe'i hystyriwyd yn unol â hynny yn rhan o'r cyd-destun polisi ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig.
- 3.12.3. Mae'r cynlluniau datblygu ar gyfer yr ardaloedd awdurdod lleol y mae'r datblygiad wedi'i leoli ynddynt yn cynnwys:
- Ar gyfer FCC:
 - Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint (2015-2030), a fabwysiadwyd ar 24 Ionawr 2023.
 - Ar gyfer CWCC:
 - Cynllun Lleol CWCC (Rhan Un) Polisiau Strategol, a fabwysiadwyd ar 29 Ionawr 2015; a
 - Chynllun Lleol CWCC (Rhan Dau) Dyranïadau Tir a Pholisiau Manwl, a fabwysiadwyd ar 18 Gorffennaf 2019.
- 3.12.4. Mae'r polisiau cynllun datblygu sy'n fwyaf perthnasol wedi'u rhestru yn erbyn pob dogfen bolisi isod:
- Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint (2015-2030), a fabwysiadwyd ar 24 Ionawr 2023:
 - Polisi STR1 (Twf Strategol).
 - Polisi STR4 (Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy, Dylunio a Chreu Lleoedd).
 - Polisi STR5 (Trafnidiaeth a Hygyrchedd).
 - Polisi STR7 (Datblygu Economaidd, Menter a Chyflogaeth).
 - Polisi STR12 (Darparu ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr).
 - Polisi STR13 (Yr Amgylchedd Naturiol ac Adeiledig, Rhwydweithiau Gwyrdd a Seilwaith).
 - Polisi STR14 (Y Newid yn yr Hinsawdd a Diogelu'r Amgylchedd).
 - Polisi STR16 (Cynllunio Strategol ar gyfer Mwynau).
 - Polisi PC2 (Gofynion Cyffredinol ar gyfer Datblygu).
 - Polisi PC3 (Dylunio).
 - Polisi PC5 (Trafnidiaeth a Hygyrchedd).
 - Polisi PC8 (Parth Diogelu Maes Awyr).
 - Polisi PC10 (Cynlluniau Trafnidiaeth Newydd).
 - Polisi EN1 (Cyfleusterau Chwaraeon, Hamdden a Diwylliannol).
 - Polisi EN2 (Seilwaith Gwyrdd).
 - Polisi EN4 (Cymeriad Tirwedd).
 - Polisi EN5 (Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol).
 - Polisi EN6 (Safleoedd o Bwysigrwydd Bioamrywiaeth).
 - Polisi EN7 (Datblygiad sy'n Effeithio ar Goed, Coetiroedd a Gwrychoedd).

- Polisi EN8 (Yr Amgylchedd Hanesyddol Adeiledig ac Adeiladau Rhestredig).
 - Polisi EN9 (Datblygiad o Fewn neu Gerllaw Ardaloedd Cadwraeth).
 - Polisi EN11 (Lletemau Glas).
 - Polisi EN12 (Datblygiad Newydd a Thechnoleg Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel).
 - Polisi EN14 (Perygl Llifogydd).
 - Polisi EN15 (Adnoddau Dŵr).
 - Polisi EN16 (Datblygiad ar neu gerllaw Safleoedd Tirlenwi neu Dir Diffaith a Halogedig).
 - Polisi EN18 (Llygredd a Sŵn).
 - Polisi EN19 (Rheoli Gwastraff yn Gynaliadwy).
 - Polisi EN23 (Diogelu Mwynau).
 - Polisi EN24 (Lleiniau Clustogi Mwynau).
- Cynllun Lleol CWCC (Rhan Un) Polisiâu Strategol, a fabwysiadwyd ar 29 Ionawr 2015:
 - Polisi STRAT1 (Datblygu Cynaliadwy).
 - Polisi STRAT2 (Datblygu Strategol).
 - Polisi STRAT 4 (Ellesmere Port).
 - Polisi STRAT9 (Llain Las a Chefn Gwlad).
 - Polisi STRAT10 (Trafnidiaeth a Hygyrchedd).
 - Polisi STRAT 11 (Seilwaith).
 - Polisi ECON1 (Twf Economaidd, Cyflogaeth a Menter).
 - Polisi SOC 4 (Llety Sipsiwn a Theithwyr a Siewmyn Teithiol).
 - Polisi SOC 5 (Iechyd a Lles).
 - Polisi SOC6 (Mannau Agored, Chwarae a Hamdden).
 - Polisi ENV1 (Perygl Llifogydd a Rheoli Dŵr).
 - Polisi ENV2 (Tirwedd).
 - Polisi ENV3 (Seilwaith Gwyrdd).
 - Polisi ENV4 (Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth).
 - Polisi ENV5 (Yr Amgylchedd Hanesyddol).
 - Polisi ENV6 (Dylunio o Ansawdd Uchel ac Adeiladu Cynaliadwy).
 - Polisi ENV7 (Cyflenwadau Ynni Amgen).
 - Polisi ENV8 (Rheoli Gwastraff).
 - Polisi ENV9 (Cyflenwi a Diogelu Mwynau).
 - Cynllun Lleol CWCC (Rhan Dau) Dyraniadau Tir a Pholisiâu Manwl, a fabwysiadwyd ar 18 Gorffennaf 2019:
 - Polisi EP1 (Ardal Anheddiad Ellesmere Port).
 - Polisi EP2.A (Tir yn Encirc Glass).
 - Polisi EP3 (Ardal Polisi Arbennig Stanlow).
 - Polisi EP 6 – (Ince Park).
 - Polisi R1 (Datblygu yn yr Ardal Wledig).
 - Polisi GBC2 (Diogelu'r Dirwedd).
 - Polisi M2 (Ardaloedd diogelu mwynau – echdynnu mwynau o flaen llaw).
 - Polisi M8 (Seilwaith Mwynau).
 - Polisi DM2 (Effaith ar Amwynder Preswyl).
 - Polisi DM3 (Dylunio, Cymeriad ac Amwynder Gweledol).
 - Polisi DM4 (Adeiladu Cynaliadwy).

- Polisi DM29 (Effeithiau Iechyd Datblygiad Newydd).
- Polisi DM30 (Sŵn).
- Polisi DM31 (Ansawdd Aer).
- Policy DM32 (Halogiad ac Ansefydlogrwydd Tir).
- Polisi DM33 (Gosodiadau Peryglus Newydd neu Estyniadau Iddynt).
- Polisi DM 37 (Llwybrau Hamdden).
- Polisi DM40 (Datblygu a Pherygl Llifogydd).
- Polisi DM43 (Ansawdd, Cyflenwad a Thrin Dŵr).
- Polisi DM44 (Diogelu a Gwella'r Amgylchedd Naturiol).
- Polisi DM45 (Coed, Coetiroedd a Gwrychoedd).
- Polisi DM46 (Datblygu mewn Ardaloedd Cadwraeth).
- Polisi DM47 (Adeiladau Rhestredig).
- Polisi DM48 (Asedau Treftadaeth Heb eu Dynodi).
- Polisi DM50 (Archaeoleg).

3.12.5. Yn ogystal â'r uchod, mae CWCC wedi cyfeirio at Gynllun Cymdogaeth Ince (2023-2030). Fodd bynnag, nid oedd wedi'i wneud (wedi'i fabwysiadu) erbyn diwedd yr Archwiliad ond bu'n destun ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 30 Ionawr a 14 Mawrth 2023. Fel y cyfryw, mae'r ExA o'r farn y gellid rhoi pwys cyfyngedig yn unig i'r ddogfen hon. Mae'r rhestr isod yn rhoi trosolwg o'r polisiau perthnasol sydd wedi'u cynnwys yn y ddogfen honno:

- Polisi LGS1 (Mannau Gwyrdd Lleol).
- Polisi NAT1 (Safleoedd Bywyd Gwylt, Coridorau Bywyd Gwylt Dangosol a Bioamrywiaeth).
- Polisi NAT5 (Coed a Gwrychoedd).
- Polisi CC2 (Ansawdd Aer).
- Polisi FBC1 (Llwybrau Troed, Llwybrau Ceffylau a Llwybrau Beicio).
- Polisi ECDEV2 (Datblygiad Cyflogaeth).

3.13. EFFEITHIAU TRAWSFFINIOL

3.13.1. Ym mis Rhagfyr 2021, yn ystod y cam cyn-ymgeisio, ac o dan broses a32 y Rheoliadau EIA, cynhaliodd yr Arolygiaeth Gynllunio ymarfer sgrinio trawsffiniol o'r Datblygiad Arfaethedig ar ran yr SoS [OD-009]. Ar sail y wybodaeth a oedd ar gael gan yr Ymgeisydd bryd hynny, canfuwyd nad oedd tebygolrwydd effeithiau trawsffiniol sy'n deillio o'r Datblygiad Arfaethedig yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar yr amgylchedd mewn unrhyw Aelod-wladwriaeth yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd. Fel y cyfryw, nid oedd angen ymarfer sgrinio trawsffiniol manwl. Fodd bynnag, nododd yr ymarfer sgrinio y byddai'r sefyllfa'n cael ei hadolygu'n barhaus ac y byddai unrhyw wybodaeth newydd neu sylweddol wahanol a ddeuai i'r amlwg a allai newid y penderfyniad hwnnw yn cael ei hystyried.

3.13.2. Ar ôl i'r cais NSIP ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig gael ei dderbyn i'w Archwilio, ym mis Chwefror 2023, ac o dan broses a32 y Rheoliadau EIA, ailystyriodd yr Arolygiaeth Gynllunio'r tebygolrwydd o effeithiau trawsffiniol yn deillio o'r Datblygiad Arfaethedig ar ran yr SoS [OD-009]. Roedd yr ailystyriaeth hon gan yr Arolygiaeth Gynllunio wedi ystyried unrhyw newidiadau a wnaed i'r Datblygiad Arfaethedig ers i'r broses sgrinio trawsffiniol flaenorol gael ei chynnal.

- 3.13.3. Canfuwyd, ar sail y wybodaeth a oedd ar gael, nad oedd newid o'r casgliad blaenorol, gan gynnal y safbwynt nad yw'r Datblygiad Arfaethedig yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar yr amgylchedd mewn unrhyw Aelod-wladwriaeth yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd. Mae'r safbwynt hwn wedi cael ei adolygu'n barhaus drwy gydol yr Archwiliad, ond nid oes unrhyw wybodaeth newydd neu sylweddol wahanol wedi dod i'r amlwg sy'n newid y casgliad hwn.
- 3.13.4. Wrth ddod i'r casgliad hwn, ystyriwyd effeithiau tebygol y Datblygiad Arfaethedig, gan gynnwys ystyried llwybrau posibl a graddau, maint, tebygolrwydd, hyd, amllder a gwrthdroadwyedd yr effeithiau.
- 3.13.5. Ni dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth ynglŷn â materion trawsffiniol.

4. Y MATERION CYNLLUNIO

4.1. Y PRIF FATERION YN YR ARCHWILIAD

4.1.1. Fel sy'n ofynnol gan adran (a) 88 Deddf Cynllunio 2008 (PA2008) a Rheol 5 Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 (EPR), cynhaliodd yr Awdurdod Archwilio (ExA) Asesiad Cychwynnol o'r Prif Faterion (IAPI) sy'n codi o'r cais ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig ac yn seiliedig ar y Sylwadau Perthnasol (RRau) a dderbyniwyd. Gwnaed hyn o fewn 21 diwrnod ar ôl derbyn y dystysgrif a58 o gydymffurfio ag a56 PA2008 a ddarparwyd gan yr Ymgeisydd [OD-001].

4.1.2. Roedd IAPI yr ExA yn cynnwys y pynciau canlynol:

- Asesu dewisiadau amgen (o ystyried angen).
- Y newid yn yr hinsawdd.
- Caffael Gorfodol (CA) a/ neu Feddiannu Dros Dro (TP).
- Treftadaeth ddiwylliannol.
- Materion dylunio a gosod.
- Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft (dDCO).
- Bioamrywiaeth, ecoleg, a buddiannau cadwraeth natur.
- Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA) a Datganiad Amgylcheddol (ES).
- Perygl llifogydd, hydroleg, ac adnoddau dŵr.
- Daeareg a halogiad tir.
- Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA).
- Tirwedd ac amwynder gweledol.
- Adnoddau mwynau.
- Sŵn a dirgryniad.
- Polisi cynllunio.
- Effeithiau economaidd-gymdeithasol gan gynnwys iechyd y boblogaeth ac iechyd dynol.
- Buddiannau traffig a thrafnidiaeth.
- Rheoli gwastraff.

4.1.3. Yn y Cyfarfod Rhagarweiniol [EV-001], nid oedd unrhyw barti wedi herio IAPI yr ExA na mynegi dymuniad i'w ddiwygio. Adolygwyd yr IAPI eto gan yr ExA yn ystod yr Archwiliad yn dilyn cyfres o Geisiadau i Wneud Newidiadau (CR) a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd, yr oedd dau ohonynt (CR1 a CR2) yn sbarduno Rheoliadau 5 i 19 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Caffael Gorfodol) 2010 (y Rheoliadau CA)). Roedd hyn o ganlyniad i ddarpariaeth arfaethedig yr Ymgeisydd ar gyfer caffael tir ychwanegol yn orfodol yn deillio o CR1 a CR2. Ar ôl i'r Ymgeisydd hysbysu yn unol â Rheoliad 7 a chyhoeddi hysbysiad o'r darpariaethau arfaethedig yn unol â Rheoliad 8 y Rheoliadau CA, derbyniwyd nifer o RRau (CR1 [CR1RR-001] i [CR1RR-012] a CR2 ([CR2RR-001] a [CR2RR-002])).

4.1.4. Wrth ystyried y CRau a'r RRau a grybwyllwyd uchod, cynhaliodd yr ExA IAPI arall (yn unol â Rheoliad 11(1) y Rheoliadau CA) mewn perthynas â CR1 a CR2 a chanfu nad oedd unrhyw faterion newydd wedi'u codi nad oeddent eisoes wedi'u hamlygu yn IAPI gwreiddiol yr ExA. Felly,

arhosodd yr IAPI heb ei newid. At hynny, ar ôl dod i'r casgliad hwnnw, nid oedd yr ExA o'r farn bod angen cynnal cyfarfod i drafod sut y dylai'r darpariaethau arfaethedig sy'n deillio o CR1 neu CR2 gael eu harchwilio, yn unol â Rheoliad 11(2) y Rheoliadau CA.

4.1.5. Er bod y prif faterion a amlygwyd wedi ffurfio'r sail i'r asesiad terfynol wedi hynny, rhoddodd yr ExA ystyriaeth iddynt o dan y penawdau canlynol yn y bennod hon, nad ydynt yn nhrefn pwysigrwydd:

- Ansawdd aer ac allyriadau (sy'n cynnwys o lwch, mwg, ac ager).
- Asesu dewisiadau amgen.
- Bioamrywiaeth, ecoleg, a chadwraeth natur.
- Yr angen am y datblygiad.
- Y newid yn yr hinsawdd.
- Treftadaeth ddiwylliannol.
- Perygl llifogydd, adnoddau dŵr, halogiad tir a rheoli gwastraff.
- Tirwedd ac amwynder gweledol/ dylunio a gosod.
- Sŵn a dirgryniad.
- Effeithiau economaidd-gymdeithasol (gan gynnwys iechyd dynol a goblygiadau gweithio mwynau).
- Traffig a thrafnidiaeth.

4.2. MATERION A GODODD MEWN CYFLWYNIADAU YSGRIFENEDIG

4.2.1. Ar ddechrau ac yn ystod yr Archwiliad, amlygodd aelodau o'r cyhoedd a Phartïon â Buddiant (IP) amrywiaeth o faterion yn ymwneud â'r hinsawdd a'r amgylchedd a oedd yn achos pryder.

4.2.2. Gwnaed wyth deg a thri o RRau ([RR-001 i RR-083]) i'r Datblygiad Arfaethedig fel y'i cyflwynwyd yn wreiddiol; a gwnaed deuddeg RR arall yn unol â CR1 ([CR1RR-001] i [CR1RR-012]) a derbyniwyd dau RR ychwanegol yn unol â CR2 ([CR2RR-001] i [CR2RR012]). Mae'r holl RRau wedi cael eu hystyried.

Sylwadau Perthnasol

4.2.3. Gellir crynhoi'r pryderon yn ystod y cam RR fel rhai a oedd yn cynnwys y materion canlynol, ond nid yn gyfyngedig iddynt:

- Cyfiawnhad annigonol yn gyffredinol i'r angen am y datblygiad.
- Mae dewisiadau amgen gwell ar gael.
- Effeithiau ar ddefnyddiau preswyl, ysgolion a chymunedol presennol, busnesau a defnyddiau/ gweithrediadau masnachol yn digwydd yn y cyffiniau, gan gynnwys datblygiadau/ seilwaith presennol ac yn yr arfaeth, symud nwyddau, parcio a symudiadau cerbydau, digonolrwydd yr holl fesurau lliniaru, ac ystyriaethau amgylcheddol cysylltiedig eraill.
- Niwed i weithgarwch amaethyddol presennol a'i hyfywedd dilynol.
- Ymyrryd â hawliau tir.
- Effeithiau ar fywyd gwylt (yn cynnwys rhywogaethau a warchodir).
- Colli coed a difrod i goed, gan gynnwys sawl ardal o goetir hynafol.

- Yr effaith ar ddyfrffyrdd (camlas), cyrsiau dŵr, a digonolrwydd mesurau diogelu yn y dyfodol.
- Erydu diogelwch ar y priffyrdd a goblygiadau eraill y Datblygiad Arfaethedig i ddiogelwch cyhoeddus.
- Tarfu ar y rhwydwaith ffyrdd ac ystyried effeithiau ar bobl ag anabledau.
- Effeithiau negyddol posibl ar aelodau o'r gymuned sipsiwn a theithwyr.
- Effeithiau eraill ar y rhwydwaith ffyrdd (gan gynnwys ffyrdd strategol).
- Ystyriaethau mynediad, gan gynnwys ar gyfer meddiannu dros dro.
- Goblygiadau daearegol, gan gynnwys o gloddio am lo yn ogystal ag effeithiau dilynol ar ffrwythlondeb pridd.
- Digonolrwydd y mesurau lliniaru cyffredinol a gynigiwyd gan yr Ymgeisydd.
- Cyfle ategol i fanteisio ar fand eang ffeibr optig.
- Pryderon ynglŷn â graddau'r ymgysylltiad lleol a gynhaliwyd gan yr Ymgeisydd a rhanddeiliaid y tu ôl i'r Datblygiad Arfaethedig.
- Sŵn, llwch, effeithiau gweledol, a dirgryniad.
- Goblygiadau llifogydd, draenio, ac adnoddau dŵr.
- Pryderon iechyd cyhoeddus a diogelwch ehangach.
- Y posibilrwydd o sterileiddio pridd/ tir ar gyfer tyfu cnydau, gweithgarwch gweithio mwynau, hamdden, neu weithgarwch arall.
- Ansicrwydd ynglŷn â manylion technegol ac effeithiolrwydd y Datblygiad Arfaethedig (gan gynnwys effeithiolrwydd cyffredinol y Datblygiad Arfaethedig).
- Graddau'r buddion lleol neu'r buddion cymunedol sydd ar gael.
- Llygredd ac effeithiau amgylcheddol ehangach eraill.
- Graddau'r cynefin/ gwelliannau amgylcheddol eraill a gynigir.
- Effeithiau ar yr amgylchedd morol, gan gynnwys yr effaith bosibl ar ddiogelwch mordwyo, mynediad i borthladdoedd, harbyrau a marinas ac unrhyw effaith ar rwymedigaethau chwilio ac achub.

MATERION ERAILL (SYLWADAU YSGRIFENEDIG)

4.2.4. Rhoddwyd cyfle i gyfranogwyr yr Archwiliad wneud Sylwadau Ysgrifenedig erbyn Terfyn Amser (DL) 1, i wneud sylwadau arnynt erbyn DL2 ac i ymateb yn ysgrifenedig i gwestiynau'r ExA, i faterion a gododd mewn gwrandawiadau, i geisiadau am wybodaeth ychwanegol ac i Gyflwyniadau Ychwanegol (AS), dros naw DL (DL2 i DL9, gan gynnwys DL6A).

4.2.5. Darparwyd cyfanswm o 83 AS, gan 13 o bartïon ar wahân, ac fe'u hystyriwyd gan yr ExA [AS001] i [AS083], er bod llawer o'r ASau gan yr Ymgeisydd wedi cael eu disodli gan gyflwyniadau a wnaed ganddo erbyn DLau dilynol. Derbyniwyd yr ASau gan y canlynol:

- British Pipeline Agency Limited [AS-075].
- Glandŵr Cymru [AS-065].
- Cyngor Bwrdeistref Gorllewin Swydd Gaerlleon a Chaer (CWCC) [AS-080].
- Cyngor Sir y Fflint (FCC) [AS-078].

- Fisher German LLP, ar ran John Williams [AS-067].
- J Bradburne Price and Co, ar ran:
 - Andrew a Karen Hirst [AS-070].
 - John Calvin Peers [AS-071].
 - Ysgutorion Gwynedd Evans [AS-072].
 - Mr Andrew Mullock, JG & MA Brown & Son, Mr J.C. Peers, Ysgutorion Mrs G. Evans, Mr D.L. Cunnah, Mr A. & Mrs K. Hirst, Mr E & Mrs J. Williams, Mr P. Hardern, Stephanie Roberts, Ian Bentley, Teulu Hewitt, Mr B., Mrs S. & Mr M. Jones (Mollington), Mr R, Mrs N., Mr I & Mr G. Jones (Picton), Mr & Mrs K.N. Garner a Michelle Elford [AS-073].
- Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) [AS-074] ac [AS-079].
- Stephen Gibbons [AS-064].
- Turley ar ran Peel NRE [AS-068].
- United Utilities Water Limited [AS-061], [AS-062] ac [AS-063].
- Llywodraeth Cymru [AS-081], [AS-082] ac [AS-083],
- Coed Cadw [AS-069].
- Yr Ymgeisydd [AS-001] i [AS-060] (yn gynwysedig), [AS-066], [AS-076] ac [AS-077]. (Dylid nodi, o ASau yr Ymgeisydd a restrir uchod, bod yr ASau canlynol i gyd wedi cael eu disodli [AS-002], [AS-005] i [AS-059] (yn gynwysedig), [AS-076] ac [AS-077].

4.2.6. O'r rhain a chyflwyniadau ysgrifenedig eraill, gan gynnwys ymatebion a wnaed i CRau, daeth amrywiaeth o faterion i'r amlwg. Roedd llawer ohonynt yn debyg i'r cyfraniadau hynny a grynhowyd uchod, ond roedd eraill yn cynnwys:

- P'un a fyddai effeithiau'r datblygiad yn niweidio neu'n arwain at golli coed a choetir (gan gynnwys coetir hynafol a choed hynod) i raddau mwy nag a fanylwyd gan yr Ymgeisydd.
- Goblygiadau adnoddau dŵr, yn enwedig ystyriaethau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.
- Ystyried ymrwymïadau rhwymedigaethau cynllunio hanesyddol presennol ar gyfer datblygiadau sydd eisoes yn bodoli ac ar gyfer tir y mae'r Datblygiad Arfaethedig yn effeithio arno.
- Ystyried dewisiadau amgen ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig yn llawnach.
- Yr effaith ar leihau ac atafaelu carbon gan ddefnyddio systemau wedi'u seilio ar natur.
- Ystyriaeth lawnach o niweidiau ac effeithiau amgylcheddol ehangach.
- Materion mynediad a pherchnogaeth tir ar ôl cwblhau'r Datblygiad Arfaethedig.
- Ystyriaethau trwyddedu morol.
- Digionoldeb gofynion a darpariaethau amddiffynnol yn y dDCO.

Datganiadau Tir Cyffredin

4.2.7. Darparwyd Datganiadau Tir Cyffredin (SoCG) wedi'u llofnodi rhwng yr Ymgeisydd a'r partïon canlynol ac fe'u hystyriwyd fel a ganlyn:

- 2 Sisters Food Group/ Amber Real Estate [REP7-275].
- Glandŵr Cymru [REP7-265].

- Cadw [REP6A-010].
- CWCC [REP8-021].
- Asiantaeth yr Amgylchedd (EA) [REP9-004].
- Essar Oil (UK) Limited [REP9-008].
- FCC [REP7-259].
- Historic England [REP6A-009].
- Piblinell Hydrogen y Gogledd-Orllewin HyNet [REP7-280].
- Priffyrdd Cenedlaethol [REP7-263].
- Natural England [REP8-022].
- CNC [REP7-261].
- Network Rail (Cymru a Lloegr) [REP8-026].
- Peel NRE Limited [REP7-262].
- Royal Mail Group Limited [REP7-270].
- Scottish Power Energy Networks [REP7-267].
- Vertex Hydrogen Limited [REP8-027].
- Wales and West Utilities [REP9-009].
- Llywodraeth Cymru [REP7-264].
- Dŵr Cymru [REP7-266].
- Coed Cadw [REP6A-015].

Gwrandawiadau Mater Penodol (Cyfranogi)

- 4.2.8. Cymerodd yr Ymgeisydd, CWCC, FCC, yr EA, a CNC ran yn y Gwrandawriad Mater Penodol (ISH) ynglŷn â materion amgylcheddol (ISH1), a gynhaliwyd fel digwyddiad cyfunol, wyneb yn wyneb ac yn rhithwir, mewn tair sesiwn (ISH1 Rhan 1 [EV-008], ISH1 Rhan 2 [EV009] ac ISH1 Rhan 3 [EV-010]). Ni chodwyd unrhyw faterion newydd mewn sylwadau llafar nad oeddent wedi derbyn sylw mewn cyflwyniadau ysgrifenedig.
- 4.2.9. Cymerodd yr Ymgeisydd, CWCC, FCC, yr EA, Priffyrdd Cenedlaethol, Encirc Limited a Chyngor Cymuned Penarlâg ran yn ISH2, ynglŷn â'r dDCO. Digwyddiad cyfunol oedd hwn, a gynhaliwyd wyneb yn wyneb ac yn rhithwir, mewn tair sesiwn (ISH2 Rhan 1 [EV020], ISH2 Rhan 2 [EV021] ac ISH2 Rhan 3 [EV-022]). Ni chodwyd unrhyw faterion newydd mewn sylwadau llafar nad oeddent wedi derbyn sylw mewn cyflwyniadau ysgrifenedig.
- 4.2.10. Cymerodd yr Ymgeisydd, CWCC ac FCC ran yn ISH3, a oedd yn ISH cyfun ynglŷn â Materion Amgylcheddol a'r dDCO. Digwyddiad cyfunol oedd hwn, a gynhaliwyd wyneb yn wyneb ac yn rhithwir, mewn tair sesiwn (ISH3 Rhan 1 [EV028], ISH3 Rhan 2 [EV029] ac ISH3 Rhan 3 [EV-030]). Ni chodwyd unrhyw faterion newydd mewn sylwadau llafar nad oeddent wedi derbyn sylw mewn cyflwyniadau ysgrifenedig.

Casgliad

- 4.2.11. Wrth ddod i gasgliad ar 'Faterion Eraill (Sylwadau Ysgrifenedig)', ymatebwyd i'r materion a godwyd mewn RRau, WRau ac ymatebion i gwestiynau'r ExA, ASau a materion a gododd mewn gwrandawiadau yn fframwaith yr ExA o faterion a amlinellir isod, ac fe'u hystyrir yng ngweddill yr adroddiad hwn i'r graddau eu bod yn bwysig ac yn berthnasol.

4.3. MATERION A GODODD MEWN ADRODDIADAU AR YR EFFAITH LEOL

- 4.3.1. Cyflwynwyd dau LIR ar wahân erbyn DL1A (26 Ebrill 2023) gan FCC [REP1A-005] (ynghyd ag atodiadau [REP1A-006]) a CWCC [REP1A002] (ynghyd ag atodiadau [REP1A-003]), y mae'r ExA wedi'u hystyried yn yr adroddiad hwn ac o ran yr argymhelliad a wnaed.
- 4.3.2. Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol (SoS), sy'n penderfynu ar y cais, ddyletswydd i ystyried y LIRau o dan a60(3) PA2008 yn unol â'r ystyriaethau cyfreithiol y cyfeiriwyd atynt ym Mhennod 3 yr adroddiad hwn.

LIR Cyngor Sir y Fflint

- 4.3.3. Mae'r meysydd allweddol a amlygwyd yn LIR FCC fel a ganlyn:
- O safbwynt lleihau carbon, mae FCC yn cefnogi'r cynnig o ganlyniad i'r arbedion disgwylidig mewn allyriadau carbon a fyddai'n cael eu hatal rhag mynd i mewn i'r atmosffer. Byddai Prosiect HyNet yn cyfrannu at leihau carbon ac, yn ei dro, yn helpu'r DU i gyrraedd ei tharged o fod yn garbon sero net erbyn 2050.
 - Byddai Prosiect ehangach HyNet hefyd yn cyfrannu at liniaru'r straen ar y grid trydan cenedlaethol, oherwydd deillir y byddai rhywfaint o'r hydrogen a gynhyrchir yn cael ei ddefnyddio i gynhyrchu ynni i gyflenwi adeiladau domestig.
 - Mae rhan sylweddol o'r ardal a rychwantir gan rwydwaith HyNet yn ddiwydiannol i raddau helaeth, sy'n allyrru symiau mawr o allyriadau carbon ar hyn o bryd, a phe byddai modd dal cyfran ohonynt byddai hynny'n fuddiol, nid yn unig i'r ardaloedd uniongyrchol lle y cynigir y gwaith cynhyrchu hydrogen yn Swydd Gaerlleon, ond hefyd i Sir y Fflint a thu hwnt. At hynny, os bydd y cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) ar gyfer piblinell carbon deuocsid (CO₂) yn cael ei gydsynio, byddai hyn yn darparu cyfleoedd yn y dyfodol (yn amodol ar gydsyniad ar wahân) i ddiwydiannau mawr sy'n allyrru CO₂ ddal eu carbon a chysylltu ac 'uno' â phiblinell CO₂ arfaethedig HyNet ar gyfer storio alltraeth.
 - Mae FCC yn cytuno y byddai'r cynnig yn darparu buddion clir a sylweddol ar lefel leol, ranbarthol, a chenedlaethol.
 - Fodd bynnag, mae FCC yn tynnu sylw at nifer o gyfyngiadau yn gysylltiedig â Phrosiect ehangach HyNet. Mae hyn yn ymwneud â'r pwynt bod HyNet yn bwriadu cynhyrchu'r hyn a adwaenir fel Hydrogen 'Glas'; defnyddio nwy naturiol (tanwydd ffosil) i gyflymu'r newid i rwydwaith ynni di-garbon. Mae FCC o'r farn bod hyn yn ymddangos braidd yn wrthreddfol gan nad yw'n osgoi allyriadau ac fe allai annog buddsoddiad pellach mewn diwydiannau nwy naturiol ac i ffwrdd oddi wrth y sector ynni adnewyddadwy, o bosibl. Er y gellir nodi bod Hydrogen 'Glas' yn cynrychioli mesur dros dro i ryw raddau, os yw rhwydweithiau hydrogen am gael eu datblygu, mae angen i'r rhain newid i Hydrogen 'Gwyrdd' a alluogwyd gan ynni adnewyddadwy yn y pen

draw er mwyn cyflawni carbon gwirioneddol sero net. Nid yw hyn yn arbennig o ymarferol ar raddfa fawr ar hyn o bryd, er ei fod yn cael ei ddatblygu ymhellach yn rhan o ymagwedd 'llwybr deul' Llywodraeth y DU.

- O ran bioamrywiaeth a buddiannau ecolegol, mae FCC yn cydnabod bod y cynefinoedd a'r rhywogaethau a warchodir sydd wedi'u lleoli o fewn ei ffin weinyddol yn gyson ag arfarniad yr Ymgeisydd. Wrth wneud hynny, mae FCC yn gwneud sylwadau ac awgrymiadau technegol ynglŷn ag ystod y mesurau lliniaru a gynigir gan yr Ymgeisydd naill ai lle y credir bod hepgoriad neu gyfle posibl i wella.
- O ran yr Asesiad Budd Net i Fioamrywiaeth, mae cydweithwyr yn CWCC wedi dibynnu ar sylwadau a wnaed yn yr LIR o ran buddion gwirioneddol (yn hytrach na'r buddion y cyfeirir atynt yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru).
- Mae FCC yn nodi bod polisi cynllunio Cymru yn annog cyfle i edrych ar fuddiannau ehangach ar gyfer cydnerthedd ecosystem sy'n cynnwys y cynigion penodol a amlinellir yn yr adroddiad Budd Net i Fioamrywiaeth ond a allai gynnwys cyfleoedd ar gyfer rhywogaethau ehangach.
- O ran cydymffurfio â pholisïau'r Cynllun Lleol, mae'r Ymgeisydd wedi cyflwyno achos dros amgylchiadau arbennig iawn yn ei Ddatganiad Cynllunio sy'n ymwneud â'r effaith ar natur agored Llain Las Swydd Gaerlleon ac nid 'lletem las' Sir y Fflint. Roedd FCC o'r farn y dylai'r Ymgeisydd gyflwyno achos dros 'amgylchiadau eithriadol iawn' ar gyfer datblygiad amhriodol yn lletem las Sir y Fflint mewn perthynas â Gorsaf Falfiau Bloc Aston Hill, fel y gellir penderfynu p'un a fyddai'r angen am y datblygiad yn drech na'r niwed y byddai'r Orsaf Falfiau Bloc yn ei achosi i'r lletem las.
- Nid yw FCC yn amlygu unrhyw bryderon arwyddocaol ynglŷn â'r broses Asesu'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol a'r asesiadau a wnaed ar gyfer camau adeiladu, gweithredol a datgomisiynu'r Datblygiad Arfaethedig.
- Effeithiau ar goed. Mae FCC yn derbyn yn gyffredinol bod yr Ymgeisydd wedi ceisio lleihau effeithiau ar goed a choetiroedd gymaint â phosibl, trwy gynllunio llwybr piblinell y DCO yn ofalus trwy gefn gwlad agored. Wedi dweud hynny, nodir ansicrwydd ynglŷn â symud coed ymaith sy'n codi o'r Datblygiad Arfaethedig.
- O ran effeithiau sŵn a dirgryniad, cynghorir bod angen mwy o fanylion ynglŷn â mesurau lliniaru penodol yn ystod y camau adeiladu a datgomisiynu, gan ar ddeall y byddai Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu llawn yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo ar bob cam o'r datblygiad. Felly, mae FCC yn ceisio sicrhau bod mwy o fanylion yn cael eu cyflwyno mewn perthynas â lliniaru sŵn ar bob cam ar gyfer cymeradwyaeth ddilynol.
- Mae FCC yn cytuno â'r fethodoleg, graddau'r effeithiau a'r mesurau lliniaru arfaethedig ar gyfer halogiad tir.
- Effeithiau ar briffyrdd. Derbyniodd FCC yn gyffredinol y gellir lliniaru'r effeithiau niweidiol ar y rhwydwaith priffyrdd yn ddigonol yn ystod y cam adeiladu, er y dylid nodi bod safbwynt FCC ar y mater hwn wedi newid wedi hynny o ran y gallu i wneud gwaith

priffyrdd o dan Drwydded Gwaith Stryd, o ganlyniad i sylwadau Priffyrdd Cenedlaethol ar y mater hwn.

- O ran goblygiadau hawliau tramwy cyhoeddus, mae prif bryderon FCC yn ymwneud ag ardaloedd cyfadeiladau adeiladu, traciau mynediad parhaol mewn rhai lleoliadau, a'r ffaith y nodwyd bod Deeside Lane a Llwybr Ceffylau Rhif 9 i'w defnyddio ar gyfer mynediad i draffig adeiladu (Gwaith Rhif 30E).
- Mae FCC yn ildio i CNC i raddau helaeth, sef y corff statudol ar gyfer perygl llifogydd arfordirol ac afonol, ar faterion yn ymwneud â llifogydd. Fodd bynnag, cynigiodd yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol eiriad amgen o fewn y Pwerau Atodol a gynhwysir yn Rhan 4 y dDCO o ystyried materion draenio.

LIR Cyngor Bwrdeistref Gorllewin Swydd Gaerlleon a Chaer

4.3.4. Mae'r meysydd allweddol a amlygwyd yn yr LIR fel a ganlyn:

- Yn unol â'r Cynllun Lleol, mae CWCC yn cydnabod buddion economaidd ehangach 'Gogledd-orllewin HyNet' (prosiect ar gyfer creu seilwaith i gynhyrchu, cludo a storio hydrogen carbon isel ar draws y Gogledd-orllewin a Chymru), trwy greu cyfleoedd newydd ar gyfer swyddi a chefnogi busnesau presennol ar draws ystod eang o sectorau.
- Mae rhai o brif gyflogwyr y fwrdeistref yng nghyffiniau'r biblinell yn ardaloedd Ellesmere Port ac Ince. Mae'r Datblygiad Arfaethedig o fewn ardal sydd wedi'i diogelu at ddefnyddiau economaidd/cyflogaeth yn y Cynllun Lleol. Mae'r Cyngor yn amlygu potensial y Datblygiad Arfaethedig ar gyfer effeithiau economaidd lleol niweidiol. Yn enwedig y busnesau/ gweithrediadau presennol neu gynlluniau aildatblygu i ehangu yn y dyfodol, fel ar safleoedd busnes Protos, Encirc, a CF Fertilisers.
- Mae'n ystyried y byddai effeithiau cyfyngedig yn bennaf ar yr amgylchedd hanesyddol ac y gellir darparu a sicrhau manylion a mesurau lliniaru pellach yn rhan o'r Datblygiad Arfaethedig, er hynny gydag asesiadau treftadaeth ychwanegol naill ai o fewn Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecolegol Amlinellol diwygiedig neu'n uniongyrchol trwy eiriad a gofynion yn y dDCO.
- Gwneir sylwadau ar fuddiannau bioamrywiaeth. Nodir arolygon anghyflawn sy'n awgrymu rhywfaint o amheuaeth ynglŷn â chadernid a chasgliadau lefel yr effeithiau ar dderbynyddion ecolegol.
- Mae Bwrdeistref Gorllewin Swydd Gaerlleon a Chaer yn gyflenwr allweddol tywod a gro o ansawdd uchel. Dylid nodi bod gofyniad i gael banc tir 7 mlynedd o agregau, yn seiliedig ar werthiannau blaenorol neu'r ffigur dosrannu penodedig. O ganlyniad i'r galw am adnoddau, mae'n debygol y bydd pwysau cynyddol ar yr ardaloedd hynny lle mae agregau ar gael. Anogir Cynllun Rheoli Mwynau i gynnwys manylion y deunydd sydd i'w echdynnu/ symud ymaith o'r tir ac asesiad o gyfleoedd ar gyfer prosesu a/ neu ailddefnyddio'r deunydd.
- Nodir y gallai'r Datblygiad Arfaethedig effeithio ar nifer fawr o goed a gwrychoedd ar hyd ei lwybr. Er nad oedd yr astudiaeth ddesg gychwynnol a gyflwynwyd wedi nodi unrhyw goed hynod, mae'r

arolygon dilynol yn dangos 34 o goed hynod. Mae colli coed hynod yn gyfystyr â cholli 'cynefin na ellir ei amnewid' ac mae'n cael effeithiau parhaol a hirsefydlog ar y dirwedd a chynefinoedd. Cynigir symud pedair coeden hynod ymaith (3 derwen frodorol a helygen) ac mae dwy arall mewn perygl. Ystyrir bod colli hyd at chwe choeden hynod yn effaith leol arwyddocaol o ran cynefin a'r dirwedd weledol a byddai'n gwrthdaro â chanllawiau yn y Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol a'r Cynllun Lleol.

- Mae CWCC yn cytuno'n gyffredinol â'r asesiad o effeithiau gwastraff, tir halogedig, a sŵn yn yr ES.
- Mae'r Cyngor yn codi'r potensial ar gyfer effeithiau ar hawliau tramwy cyhoeddus oherwydd newidiadau i ddraenio lleol. Yn arbennig, mae'n amlygu Rhifau Gwaith: 13, 14, 15A a 28.
- Mae CWCC yn amlygu y gallai cau ffyrdd gael effeithiau sylweddol ar breswylwyr, gan gynnwys mynediad i Ysgol Gynradd Mollington.
- Mae CWCC yn ildio i sylwadau a ddisgwylir gan yr EA er mwyn sicrhau bod unrhyw fesurau lliniaru priodol ar waith i sicrhau nad yw'r perygl llifogydd lleol yn cael ei waethygu.
- Mae CWCC hefyd yn amlygu'r potensial ar gyfer effeithiau arwyddocaol sy'n deillio o'r effeithiau cyfunol â datblygiadau a phrosiectau seilwaith eraill, gan gynnwys y prosiect HS2 cenedlaethol. Mae'n dweud bod yr effeithiau cyfunol tebygol ar y cyflenwad mwynau, cynhyrchu gwastraff a thrafnidiaeth yn bwyntiau nodedig ac yn amlygu'r potensial ar gyfer effeithiau sy'n deillio o'r gorgyffyrddiad rhwng Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP) eraill, gan gynnwys Piblinell Hydrogen HyNet.

4.3.5. Mae'r ExA wedi ystyried yr holl faterion a godwyd yn yr LIRau a gyflwynwyd. Trafodir rhai o'r materion hyn yn fanylach ym Mhenodau 5 a 6 yr adroddiad hwn.

4.4. CYDYMFFURFEDD Â DATGANIADAU POLISI CENEDLAETHOL

4.4.1. Mae a104 ac a105 PA2008 yn darparu ar gyfer yr ymagwedd i'w defnyddio mewn penderfyniadau y mae Datganiadau Polisi Cenedlaethol (NPS) yn berthnasol iddynt (a104) a rhai nad yw NPS yn berthnasol iddynt (a105). Gan nad oes NPS mewn grym ar gyfer piblinellau CO₂, mae'r Ymgeisydd yn dadlau y dylai'r Datblygiad Arfaethedig gael ei benderfynu o dan a105 PA2008 ac nid oes gan yr ExA reswm i anghytuno. Fel y cyfryw, mae'r ExA o'r farn bod yr NPSau a fanylir isod yn bwysig ac yn berthnasol wrth benderfynu ar y Datblygiad Arfaethedig hwn, yn unol ag a105(2)(c) PA2008.

4.4.2. Mae'r adran hon yn amlinellu dadansoddiad trosfwaol o gydymffurfedd y Datblygiad Arfaethedig â'r NPSau perthnasol, a amlygwyd ym Mhennod 3 uchod fel NPS EN-1 (Datganiad Polisi Cenedlaethol Trosfwaol ar gyfer Ynni) ac NPS EN-4 (NPS ar gyfer Seilwaith Cyflenwi Nwy a Phiblinellau Nwy ac Olew).

4.4.3. Mae'r adran hon hefyd yn amlinellu dadansoddiad trosfwaol o gydymffurfedd y Datblygiad Arfaethedig â'r NPSau drafft (dNPS)

perthnasol, a amlygwyd ym Mhennod 3 uchod fel dNPS EN-1, a dNPS EN-4, a gyhoeddwyd yn wreiddiol ar 6 Medi 2021 gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer ymgynghoriad. Ailgyhoeddwyd fersiynau wedi'u diweddarau o'r dNPSau hyn gan yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net, gyda chyfnod ymgynghori newydd a ddechreuodd ar 30 Mawrth 2023 ac a ddaeth i ben ar 23 Mehefin 2023.

- 4.4.4. Er mwyn eglurder, oni nodir fel arall, mae cyfeiriadau at NPSau o hyn ymlaen yn cyfeirio at NPSau a ddynodwyd yn 2011; tra bod cyfeiriadau at dNPSau o hyn ymlaen yn cyfeirio at dNPSau dyddiedig mis Mawrth 2023.

NPS EN-1

- 4.4.5. Dadansoddodd yr Ymgeisydd berfformiad y Datblygiad Arfaethedig yn erbyn y polisiâu perthnasol yn NPS EN-1 ac NPS EN-4 yn ei Ddatganiad Cynllunio [REP4-022]. Mae'r ES yn ystyried egwyddor y Datblygiad Arfaethedig, a'r angen amdano, o fewn y fframwaith a ddarperir gan yr NPSau.
- 4.4.6. Mae'r Ymgeisydd yn nodi nad yw NPS EN-1 yn cyfeirio'n benodol at Ddal a Storio Carbon (CCS) ar gyfer cynhyrchu hydrogen neu ddatrysiadau datgarboneiddio diwydiannol yn y Deyrnas Unedig, ac nad yw'n darparu arweiniad ar gyfer hynny. Fodd bynnag, mae'n ystyried ei fod yn cynnwys cyfeiriadau polisi defnyddiol sy'n cynnwys egwyddorion trosfwaol sy'n cefnogi datgarboneiddio a chyflenwad ynni amrywiol, y mae'r Datblygiad Arfaethedig yn ceisio eu cyflawni.
- 4.4.7. Mae'r Ymgeisydd yn nodi bod yr NPS hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar gynhyrchu ynni, ond ei fod yn cynnwys manylion ynglŷn â'r gofyniad ar gyfer seilwaith i gyflawni'r nod trosfwaol hwn. Mae paragraff 3.1.1 NPS EN-1 yn cydnabod y canlynol "*Mae angen i'r Deyrnas Unedig gael yr holl fathau o seilwaith ynni sydd dan sylw yn yr NPS hwn er mwyn cyflawni diogelwch ynni ar yr un pryd â lleihau allyriadau nwyon tŷ gwyrdr yn sylweddol*". Fel y cyfryw, mae'r Ymgeisydd o'r farn bod NPS EN-1 yn ei alluogi i ddefnyddio polisiâu'r NPS hwnnw fel materion sy'n berthnasol ac yn bwysig i'r Datblygiad Arfaethedig.
- 4.4.8. Mae NPS EN-1 yn ymhelaethu trwy ddweud "*Hoffai'r Llywodraeth i ddiwydiant gyflwyno llawer o ddatblygiadau carbon isel newydd (ynni adnewyddadwy, niwclear a chynhyrchu tanwydd ffosil gyda CCS) o fewn y 10 i 15 mlynedd nesaf er mwyn ateb her ddeuol diogelwch ynni a'r newid yn yr hinsawdd erbyn 2050*" (paragraff 3.3.5).
- 4.4.9. Fel y cyfryw, mae'r Ymgeisydd o'r farn bod y Datblygiad Arfaethedig yn cyd-fynd ag amcanion Llywodraeth y Deyrnas Unedig i leihau allyriadau carbon ac y byddai'n cyfrannu at heriau diogelwch ynni a'r newid yn yr hinsawdd trwy hwyluso dal carbon ar gyfer diwydiant yn y Gogledd-orllewin a Chymru.
- 4.4.10. Mae Rhan 2 NPS EN-1 yn amlinellu polisi'r Llywodraeth ar ynni a datblygu seilwaith ynni, ac mae'n nodi'r cyd-destun polisi cyfredinol ar gyfer seilwaith ynni cenedlaethol arwyddocaol. Mae'n cadarnhau ymrwymiad y

Llywodraeth "...i gyrraedd ein targed cyfreithiol rwymol o leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr 80% o leiaf erbyn 2050, o gymharu â lefelau 1990. Mae dadansoddiad a wnaed o lwybrau posibl tuag at 2050 yn dangos bod symud i system ynni carbon isel, ddiogel yn heriol, ond y gellir ei gyflawni. Bydd angen buddsoddiad mawr mewn technolegau newydd i adnewyddu ein hadeiladau, trydaneiddio llawer o'n dulliau gwresogi, diwydiant a thrafnidiaeth, blaenoriaethu bioynni cynaliadwy a chynhyrchu pŵer glanach." (paragraff 2.2.1).

- 4.4.11. Mae'r Ymgeisydd o'r farn y bydd y Datblygiad Arfaethedig yn cyflawni datgarboneiddio diwydiannol i fodloni'r nod hwn o system ynni carbon isel a'r ymrwymiad dilynol, mwy arwyddocaol i gyflawni sero net erbyn 2050.
- 4.4.12. Mae Rhan 2 NPS EN-1 yn amlygu bod ynni'n allweddol i dwf economaidd, lles cymdeithasol a chyflawni targedau 2050, gan nodi hefyd bod angen diwygio'r ymagwedd at seilwaith ynni a'r dulliau o'i ddarparu. Ymhelaethir ar hyn ym mharagraffau 2.2.5 i 2.2.11 wrth i baragraff 2.2.5 gyfeirio at "*Newid i economi carbon isel*", a pharagraff 2.2.6 ddatgan: "*Mae angen i'r DU gefnu'n raddol ar gymysgedd ynni sydd mor uchel o ran carbon: i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, ac i wella diogelwch, argaeledd a fforddiadwyedd ynni trwy arallgyfeirio.*"
- 4.4.13. Mae'r Ymgeisydd yn dadlau y bydd y Datblygiad Arfaethedig yn cefnogi newid i economi carbon is, yn unol â pholisïau NPS EN-1, gan nodi y byddai ailddefnyddio seilwaith presennol yn gwneud yr hyfywedd cyffredinol yn fwy effeithiol ac yn enghraifft o arallgyfeirio'r ddarpariaeth.
- 4.4.14. Ystyrir bod Rhan 2 NPS EN-1 yn cadarnhau ei bod yn hollbwysig i'r Deyrnas Unedig barhau i gael cyflenwadau diogel a dibynadwy o drydan wrth iddi newid i economi carbon isel, tra bod Rhan 3 yn pwysleisio'r angen am seilwaith ynni ar lefel genedlaethol.
- 4.4.15. Mae paragraff 3.2.2 NPS EN-1 yn datgan "*mae angen i ni ddod yn llai dibynnol ar rai mathau o ynni, wrth i dechnegau carbon isel newydd ac arloesol a mesurau effeithlonrwydd ynni gael eu defnyddio*". Ystyrir bod paragraff 3.3.5 yn berthnasol hefyd yn yr ystyr ei fod yn datgan "*Mae'r DU yn dewis datgarboneiddio ei sector pŵer i raddau helaeth trwy fabwysiadu ffynonellau carbon isel yn gyflym ac mae'n debygol y bydd yn fuddiol i'r DU gynnal ystod amrywiol o ffynonellau ynni fel nad ydym yn rhy ddibynnol ar unrhyw dechnoleg unigol. Dyna pam yr hoffai'r Llywodraeth i ddiwydiant gyflwyno llawer o ddatblygiadau carbon isel newydd (ynni adnewyddadwy, niwclear a chynhyrchu tanwydd ffosil gyda CCS...)*".
- 4.4.16. Mae'r Ymgeisydd yn dadlau bod hyn yn cadarnhau bod angen seilwaith ynni newydd i fynd i'r afael â chapasiti cynhyrchu ynni sy'n lleihau ac i gyflawni anghenion lleihau carbon. Er mwyn diogelu cyflenwadau ynni sy'n galluogi'r DU i gyflawni ei rhwymedigaethau newid yn yr hinsawdd hyd at 2050, mae paragraff 3.3.15 yn amlinellu'r angen brys i gyflwyno seilwaith ynni newydd cyn gynted â phosibl.

- 4.4.17. Er bod yr NPS yn egluro bod angen i'r DU gefnu ar danwyddau ffosil ar gyfer cynhyrchu trydan, mae hefyd yn cydnabod yr angen brys i seilwaith ynni gyflawni diogewch ynni, gan roi pwys sylweddol i'r cyfraniad y byddai prosiectau'n ei wneud tuag at fodloni'r angen hwn. Mae hefyd yn mynnu y dylai'r cais gael ei asesu ar y sail bod y Llywodraeth wedi dangos bod angen seilwaith o'r fath sydd dan sylw yn yr NPSau ynni.
- 4.4.18. Yn ogystal, mae paragraffau 3.6.4 i 3.6.7 NPS EN-1 yn esbonio'r rôl y gall CCS ei chyflawni wrth gyrraedd targedau allyriadau ar yr un pryd â chynnal diogelwch y cyflenwad, oherwydd gallai CCS leihau allyriadau carbon 90%. Mae'r paragraffau hyn yn nodi'r ansicrwydd ynglŷn â defnyddio CCS yn yr economi yn y dyfodol, ond yn ystyried y gellir datrys hyn trwy ddangos CCS ar raddfa fasnachol, a gefnogir gan y Llywodraeth, gan nodi bod prosiectau arddangos ar raddfa fasnachol yn flaenoriaeth i brosiectau ynni'r DU.
- 4.4.19. Mae Rhan 4 NPS EN-1 yn amlinellu nifer o egwyddorion asesu y mae'n rhaid i ymgeiswyr a'r SoS eu hystyried wrth baratoi a phenderfynu ar geisiadau ar gyfer seilwaith ynni cenedlaethol arwyddocaol. Mae pwyntiau cyffredinol yn cynnwys y gofyniad i'r SoS ddechrau gyda rhagdybiaeth o blaid rhoi caniatâd i geisiadau ar gyfer NSIPau ynni (paragraff 4.1.2). Mae'r rhagdybiaeth hon yn berthnasol oni bai bod polisiau mwy penodol a pherthnasol a amlinellir yn yr NPS perthnasol yn dangos yn glir y dylid gwrthod rhoi caniatâd.
- 4.4.20. Mae paragraff 4.4.1 NPS EN-1 yn datgan nad oes gofyniad cyffredinol i ystyried dewisiadau amgen neu sefydlu p'un ai'r Datblygiad Arfaethedig yw'r opsiwn gorau. Ar yr un pryd, mae paragraff 4.4.2 yn nodi bod rhaid i ymgeiswyr gynnwys gwybodaeth yn eu ES am y prif ddewisiadau amgen a astudiwyd ac esbonio'r prif resymau dros eu dewis.
- 4.4.21. Mae Rhan 5 NPS EN-1 yn amlinellu effeithiau generig posibl seilwaith ynni y mae'n rhaid eu hystyried wrth asesu prosiectau, ond nid oes manylion sy'n benodol i Ddal, Defnyddio a Storio Carbon (CCUS) yn yr NPS hwn. Fodd bynnag, asesir effeithiau generig posibl, lle y bônt yn berthnasol, yn adrannau canlynol yr adroddiad hwn.

dNPS EN-1 (NPS Trosfwaol ar gyfer Ynni)

- 4.4.22. O ran dNPS EN-1 (NPS Trosfwaol ar gyfer Ynni), bernir ei fod yn ystyriaeth 'bwysig a pherthnasol' at ddibenion a105 PA2008. Mae'n datgan bod Rhan 2 yn amlinellu'r cyd-destun polisi ar gyfer datblygu seilwaith ynni o arwyddocâd cenedlaethol ac yn nodi ymrwymiad y Llywodraeth i gyflawni targedau datgarboneiddio a chyrraedd ei tharged allyriadau sero net erbyn 2050.
- 4.4.23. Mae'n bwriadu cyflawni hyn trwy gymryd camau i ddatgarboneiddio rhwydweithiau pŵer y DU, ar yr un pryd â chydabod bod angen cryn dipyn o seilwaith ar lefel leol a chenedlaethol i gynhyrchu digon o ynni ar gyfer y DU a sicrhau y gellir ei gludo i'r mannau lle y mae ei angen (paragraff 2.1.1 a 2.1.2). Mae'r Ymgeisydd yn credu bod hyn yn cynnwys y seilwaith sy'n angenrheidiol i ddal, cludo a storio CO₂ a darparu seilwaith cludo CO₂,

oherwydd y bydd yn helpu i ddatgarboneiddio diwydiant yn unol â'r dNPS EN-1 sy'n dod i'r amlwg, gan fod CCUS wedi'i nodi fel dull o gyflawni targedau datgarboneiddio yn dNPS EN-1.

- 4.4.24. Mae Rhan 3 dNPS EN-1 yn sefydlu'r angen brys am brosiectau seilwaith ynni newydd o arwyddocâd cenedlaethol ac yn nodi y dylai'r SoS roi pwys sylweddol i ystyriaethau ynglŷn ag angen, ac na ddylai fod yn ofynnol iddo roi ystyriaeth ar wahân i gyfraniad penodol unrhyw brosiect unigol at fodloni'r angen a sefydlwyd yn yr NPS (paragraff 3.2.6). Mae'r Ymgeisydd hefyd yn ystyried bod y Datblygiad Arfaethedig yn cyd-fynd â'r brys y cyfeirir ato yn dNPS EN-1, oherwydd y gallai ddal hyd at 10MtCO₂ y flwyddyn erbyn y 2030au cynnar.
- 4.4.25. Mae adran 3.2 dNPS EN-1 yn cadarnhau y dylai'r SoS asesu pob cais am ganiatâd datblygu y mae'r NPSau ynni'n ymdrin ag ef ar y sail bod y llywodraeth wedi dangos bod angen am seilwaith o'r math hwnnw. Mae hefyd yn nodi y dylai'r SoS asesu pob cais am ganiatâd datblygu ar gyfer y mathau o seilwaith y mae dNPS EN-1 yn ymdrin â nhw ar y sail bod y llywodraeth wedi dangos bod angen brys am seilwaith o'r math hwnnw (paragraff 3.2.5).
- 4.4.26. Mae adran 3.5 yn sefydlu'r angen am seilwaith CCUS newydd o arwyddocâd cenedlaethol, ac mae paragraff 3.5.1 yn cydnabod: "*Mae angen brys am seilwaith dal a storio carbon (CCS) newydd i gefnogi'r newid i economi sero net.*" Mae dNPS EN-1 yn datgan "*Bydd angen seilwaith CCS hefyd i ddal a storio CO₂ o gynhyrchu hydrogen o nwy naturiol, prosesau diwydiannol, defnyddio bioynni (BECCS) ac o'r awyr (DACCS). Gallai seilwaith CCS fod yn seilwaith newydd neu wedi'i addasu at ddibenion gwahanol*" (paragraff 3.5.2), tra bod paragraff 3.5.5 yn datgan: "*Mae capasiti storio CO₂ posibl y DU ymhlith y mwyaf yn Ewrop, gyda chapasiti amcangyfrifedig i storio 78 biliwn o dunelli o CO₂ o dan wely môr UKCS*" ac mae paragraff 3.5.6 yn datgan: "*Mae piblinellau CO₂ newydd ar y tir dros 16.093 o gilometrau o hyd o fewn cwmpas yr NPS hwn.*"
- 4.4.27. Mae'r Ymgeisydd o'r farn bod paragraff 3.5.1 dNPS EN-1 yn dangos yn glir bod y Llywodraeth yn bwriadu ymestyn cyrhaeddiad y polisi trosfwaol i ddangos ei chefnogaeth i biblinellau CO₂ ar y tir, fel y Datblygiad Arfaethedig, a'r angen amdanynt. Mae'n ystyried bod hyn yn allweddol i'r Datblygiad Arfaethedig, a fydd yn dal, cludo a storio CO₂.
- 4.4.28. Mae'r Ymgeisydd yn cyfeirio at nifer o fanteision lleoliadol sy'n arwyddocaol, yn ei farn ef, i'r Datblygiad Arfaethedig. Mae'r rhain yn cynnwys:
- ei agosrwydd i nifer o allyrwyr diwydiannol presennol o amgylch Ince a Chyfadeilad Gweithgynhyrchu Stanlow;
 - addasu asedau presennol at ddibenion gwahanol a fydd yn galluogi dal a storio swm sylweddol o CO₂;
 - mae ardaloedd Gogledd Cymru a'r Gogledd-orllewin yn ddelfrydol o safbwynt daearyddol o ystyried eu hagosrwydd i gyfleusterau cronfa nwy presennol ym Mae Lerpwl.

- 4.4.29. Mae'r Ymgeisydd yn nodi bod paragraff 3.5.8 dNPS EN-1 yn cydnabod nad yw'n ymddangos bod unrhyw ddewisiadau amgen realistig yn lle seilwaith CCS newydd er mwyn cyflawni Sero Net erbyn 2050, tra bod Adran 3.5 yn cydnabod pwysigrwydd seilwaith CCS newydd, gan ddatgan "*...bydd yn angenrheidiol i sicrhau'r newid i economi sero net*". Fodd bynnag, mae hefyd yn pwysleisio "*Nid rôl y system gynllunio yw darparu neu gyfyngu ar symiau penodol o seilwaith CCS yr ymdrinnir â nhw yn yr NPS hwn*" (paragraff 3.5.8 dNPS EN-1).
- 4.4.30. Fel y cyfryw, mae'r Ymgeisydd yn dadlau bod ei Ddatblygiad Arfaethedig mewn sefyllfa dda i helpu'r rhanbarth a'r DU i fodloni eu hamcanion ynni a chyfrannu tuag at economi Sero Net. Mae'n ystyried y bydd y Datblygiad Arfaethedig yn galluogi darparu buddion seilwaith CCS yn gost-ffeithiol wrth raddfa, gan ddatgloi arbedion carbon yn gyflym ar adeg pan fo angen gweithredu ar frys i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.
- 4.4.31. Mae hefyd yn nodi y bwriadwyd i dNPS EN-1 amlygu'r ymagwedd wahanol rhwng yr NPSau mabwysiedig a'r NPSau sy'n dod i'r amlwg, yn benodol o ran amlygu pwyslais ar ddarparu CCUS a chyflawni targedau Sero Net.

NPS EN-4

- 4.4.32. Mae NPS EN-4 yn berthnasol oherwydd bydd y Datblygiad Arfaethedig yn cludo CO₂ gan ddefnyddio piblinell gyflenwi. Mae'r Ymgeisydd yn datgan bod y biblinell yn NSIP a bod yr NPS hwn yn nodi "*Y seilwaith y mae'r NPS yn ymwneud ag ef yw'r seilwaith cenedlaethol arwyddocaol sy'n dod o fewn trothwyon perthnasol y Ddeddf Cynllunio (adrannau 17–21 Deddf Cynllunio 2008), fel a ganlyn: ...iv) Piblinellau dros 16.093km (10 milltir) o hyd y byddai angen iddynt gael caniatâd fel arall o dan a.1 Deddf Piblinellau 1962 ynghyd â gwyradau i biblinellau o'r fath ni waeth am eu hyd. Cyfeirir at y piblinellau hyn yn yr NPS hwn fel piblinellau traws gwlad.*" (paragraff 1.8.1 iv).
- 4.4.33. Er gwaethaf yr uchod, mae paragraff 1.8.2 yn nodi "*Gallai piblinellau sy'n bodloni trothwy'r Ddeddf Cynllunio yn 1.8.1 (iv) fod yn cludo gwahanol fathau o nwy, tanwydd neu gemegau...*" ond mae'n datgan yn glir bod NPS EN-4 "*...yn ymdrin yn unig â'r piblinellau seilwaith cenedlaethol arwyddocaol hynny sy'n cludo nwy naturiol neu olew.*" Ailadroddir hyn ym mharagraff 2.7.1, sy'n datgan "*y mathau o seilwaith cyflenwi nwy a phiblinellau nwy sydd dan sylw yn yr NPS hwn yw cyfleusterau nwy naturiol.*" Fodd bynng, mae paragraff 1.8.2 hefyd yn datgan "*...gallai gwybodaeth yn yr NPS hwn fod yn ddefnyddiol wrth amlygu effeithiau i'w hystyried mewn ceisiadau ar gyfer piblinellau y bwriedir iddynt gludo sylweddau eraill.*"
- 4.4.34. Mae NPS EN-4 yn ceisio rhoi cymorth ychwanegol penodol i dechnoleg i NPS EN-1 yn bennaf, gan geisio peidio ag ailadrodd ei gynnwys. Yn wir, mae paragraff 1.3.1 yn sefydlu'r berthynas rhwng y ddau NPS yn glir. Wedi dweud hynny, mae NPS EN-4 yn cadw'r un targedau sylfaenol, fel sefydlu'r angen a'r brys i seilwaith ynni newydd gael ei ganiatáu a'i adeiladu er

mwyn cyfrannu at gyflenwad ynni diogel, amrywiol a fforddiadwy a chefnogi polisiau'r Llywodraeth ar ddatblygu cynaliadwy, yn enwedig trwy liniaru'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo.

- 4.4.35. Mae NPS EN-4 yn datgan, yn Rhan 1, bod mewnfario, storio, a throsglwyddo nwy naturiol yn effeithlon yn allweddol i fodloni anghenion ynni'r DU yn ystod y newid i economi carbon isel (paragraff 1.1.1). Mae hefyd yn nodi na ellir cyflawni'r amcanion cenedlaethol sy'n ymwneud â diogelwch cyflenwad heb alluogi buddsoddiad mewn seilwaith newydd. Yn ogystal, mae paragraff 1.1.4 yn cyfeirio at hydrogen glân ac yn sôn am y seilwaith sy'n ei gefnogi, fel y Datblygiad Arfaethedig, a fydd yn angenrheidiol i helpu i newid ein system ynni i Sero Net erbyn 2050, gyda'r potensial i helpu i ddatgarboneiddio sectorau allweddol o ddiwydiant y DU a sicrhau darpariaeth hyblyg ar draws gwres, pŵer a thrafnidiaeth.
- 4.4.36. Mae Rhan 2 NPS EN-4 yn ymdrin ag asesu a gwybodaeth penodol i dechnoleg, gan ystyried addasu i'r newid yn yr hinsawdd a dylunio da. Mae'n amlinellu ystyriaethau allweddol, penodol i dechnoleg ar gyfer piblinellau nwy, gan gynnwys yr agosrwydd i ddefnyddiau tir sensitif (e.e., datblygiad preswyl ac ysgolion) wrth gynllunio llwybrau; diogelwch piblinell; sŵn a dirgryniad; bioamrywiaeth; tirwedd a gweledol; ansawdd ac adnoddau dŵr; a phriddoedd a daeareg. Mae'r Ymgeisydd o'r farn bod yr ystyriaethau allweddol, penodol i dechnoleg hyn ar gyfer piblinellau nwy, fel yr amlinellwyd uchod, yn ystyriaethau pwysig a pherthnasol wrth asesu'r Datblygiad Arfaethedig hwn.

dNPS EN-4

- 4.4.37. Gan droi at dNPS EN-4, mae'r Ymgeisydd yn amlygu y gallai piblinellau fod yn cludo gwahanol fathau o nwy, ond bod yr NPS yn berthnasol i'r piblinellau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol hynny sy'n cludo nwy naturiol neu olew yn unig. Fodd bynnag, mae hefyd yn nodi er nad yw'r arweiniad yn yr NPS yn gymwys i seilwaith CCS, fe allai gynnwys gwybodaeth sy'n bwysig ac yn berthnasol i benderfyniad yr SoS ar geisiadau ar gyfer seilwaith CCS (paragraff 1.6.6). Fel y cyfryw, mae'n ystyried y gallai fod rhai ystyriaethau pwysig a pherthnasol o hyd i'r SoS eu defnyddio wrth wneud ei benderfyniad mewn perthynas â'r dNPS hwn.

CASGLIADAU AR BOLISI NPS

- 4.4.38. Ar ôl ystyried yr holl ddogfennau a pholisiau perthnasol, daw'r ExA i'r casgliad:
- nad oedd IPau wedi nodi unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio ag NPSau neu NPSau drafft;
 - er bod angen i'r Datblygiad Arfaethedig gael ei ystyried o dan a105 PA2008, mae'n amlwg bod yr NPSau a'r dNPSau sy'n dod i'r amlwg yn ystyriaethau pwysig a pherthnasol ac yn helpu i sefydlu'r angen am y Datblygiad Arfaethedig;
 - bod y Datblygiad Arfaethedig yn cydymffurfio â'r polisi lefel uchel yn NPS EN-1, ac NPS EN-4 a'r dNPSau sy'n dod i'r amlwg; a

- bod cydymffurfedd y Datblygiad Arfaethedig wedi cael ei archwilio yn erbyn manylion polisi a phrofion sy'n berthnasol i faterion cynllunio unigol fel yr amlinellir mewn paragraffau perthnasol NPSau ac NPSau sy'n dod i'r amlwg, a chynhelir y dadansoddiad hwn ym Mhennod 5 isod.

4.4.39. Dylid nodi y cyhoeddwyd dNPSau diwygiedig ym mis Tachwedd 2023. Fodd bynnag, oherwydd y'u cyhoeddwyd ar ôl i'r Archwiliad gau, nid yw'r ExA wedi ystyried y dNPSau diwygiedig (Tachwedd 2023). Er mwyn eglurder, mae'r ExA wedi ystyried fersiynau mis Mawrth 2023 o'r dNPSau, lle yr ystyriwyd eu bod yn berthnasol ac yn bwysig i'r Datblygiad Arfaethedig.

4.5. CYDYMFFURFEDD Â'R DATGANIAD POLISI MOROL A CHYNLLUNIAU MOROL

4.5.1. Gan fod hwn yn gyflwyniad trawsffiniol, sy'n mynd rhwng Cymru a Lloegr, rhoddwyd ystyriaeth i effaith y Datblygiad Arfaethedig ar ddyfroedd Cymru a Lloegr. Fodd bynnag, yr unig weithgarwch sy'n cael ei wneud o fewn ardal forol drwyddedadwy sy'n golygu bod angen trwydded forol yw croesfan Afon Dyfrdwy yng Nghymru, gan fod yr holl weithgareddau eraill yn yr ardal forol drwyddedadwy hon yn gymwys ar gyfer esemptiadau trwydded forol.

4.5.2. Fel y cyfryw, byddai angen i groesfan Afon Dyfrdwy gael trwydded forol gan CNC o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. Felly, nid yw'r dDCO yn cynnwys pwerau na rheolaethau sy'n dod o fewn y gyfundrefn Trwyddedu Morol.

4.5.3. Mae dogfen yr Ymgeisydd 'Cydsyniadau a Thrwyddedau Eraill' [REP7-028] yn nodi y cyflwynwyd y drwydded forol ar 1 Medi 2023 ac ni roddwyd diweddariad arall ar y mater hwn cyn i'r Archwiliad ddod i ben. Fodd bynnag, byddai unrhyw DCO yn gallu cael ei weithredu dim ond pe byddai CNC yn rhoi trwydded forol/ trwyddedau morol effeithiol, a byddai'n ddarostyngedig i gydymffurfio â thelerau unrhyw drwydded(au) o'r fath.

4.6. CYDYMFFURFEDD Â CHYNLLUNIAU DATBLYGU

4.6.1. Lle y bo'n berthnasol, ystyrir cydymffurfedd â pholisïau perthnasol Cynllun Datblygu ym Mhenodau 5 a 7 yr adroddiad hwn. Dylid nodi nad oedd FCC a CWCC, ar y cyfan, wedi codi unrhyw bryderon penodol ynglŷn â chydymffurfio â pholisïau cynllun datblygu yn ystod cyfnod yr Archwiliad.

4.7. CYMHWYSO POLISÏAU ERAILL

4.7.1. Y tu hwnt i bolisïau Cynllun Datblygu (gan gynnwys ystyried polisïau Cynllun Datblygu sy'n dod i'r amlwg) a pholisi cynllunio cenedlaethol, ni ystyrir bod unrhyw bolisïau eraill sy'n berthnasol i'r Archwiliad.

4.8. EGWYDDOR Y DATBLYGIAD

Datblygiad Awdurdodedig/ Datblygiad Cysylltiedig

- 4.8.1. O ran 'Datblygiad Awdurdodedig' a 'Datblygiad Cysylltiedig', mae'r ExA yn nodi bod Pennod 2 ES yr Ymgeisydd (Y Prosiect) [REP7-035] yn ystyried bod y biblinell arfaethedig, ynghyd â'r AGIau a'r BVSau yn ffurfio'r Datblygiad Arfaethedig (h.y. y Datblygiad Awdurdodedig) ac yn rhan o'i gyflwyniad NSIP. Fodd bynnag, mae'r Bennod hon o'r ES hefyd yn crybwyll nad yw Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r farn honno. Er gwaethaf y datganiad hwn, mae'r ExA hefyd yn nodi nad yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw gyflwyniadau i'r Archwiliad sy'n cadarnhau'r safbwynt hwnnw.
- 4.8.2. Yng nghwestiynau ysgrifenedig cyntaf yr ExA (ExQ1) [PD-013] (Cymraeg)/ [PD-014] (Saesneg) yn Q1.19.1, ceisiwyd eglurhad gan Lywodraeth Cymru ac FCC ynglŷn â'r mater hwn. Ni chafwyd ymateb gan Lywodraeth Cymru i gwestiwn yr ExA, ond datganodd FCC ei fod yn cytuno "*...â safbwynt yr ymgeisydd na ystyrir bod y BVSau a'r AGIau yn 'Ddatblygiad Cysylltiedig' oherwydd ystyrir eu bod yn dod o fewn y diffiniad o 'biblinell' yn Adran 65 Deddf Piblinellau 1962.*"
- 4.8.3. Mae'r ExA yn fodlon bod y Datblygiad Arfaethedig, o ran y biblinell, AGIau, BVSau a seilwaith cysylltiedig yn gyfystyr â 'Datblygiad Awdurdodedig' fel NSIP o fewn a14 ac a21 PA2008, gan fod y Datblygiad Arfaethedig yn biblinell traws gwlad fel y'i diffinnir yn a235 PA2008, sy'n cadarnhau bod ganddi'r un ystyr ag yn Neddf Piblinellau 1962 (PLA) a66.
- 4.8.4. Mae'r PLA a66(1) yn darparu bod 'piblinell traws gwlad' yn golygu 'piblinell' sydd dros 16.093 o gilometrau (km) o hyd. Byddai'r Datblygiad Awdurdodedig yn cynnwys adeiladu piblinell newydd 36km ac addasu piblinell nwy naturiol bresennol 24km at ddiben gwahanol. Byddai'r Datblygiad Arfaethedig cyffredinol oddeutu 60km o hyd.
- 4.8.5. Mae'r PLA yn datgan yn glir yn a65 "*Yn y Ddeddf hon, mae "piblinell" (ac eithrio lle mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall) yn golygu pibell (ynghyd ag unrhyw gyfarpar a gwaith sy'n gysylltiedig â hi), neu system o bibellau (ynghyd ag unrhyw gyfarpar a gwaith sy'n gysylltiedig â hi), ar gyfer cludo unrhyw beth heblaw am aer, dŵr, anwedd dŵr neu ager...*". Er bod rhestr o biblinellau sydd wedi'u heithrio yn a65(1), nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Datblygiad Arfaethedig. Mae adran 65(2) y PLA yn rhestru cyfarpar a gwaith sy'n gysylltiedig â phibell, neu system o bibellau.
- 4.8.6. Gan ystyried a65, mae'r ExA yn derbyn bod hyn yn cynnwys cyfarpar ar hyd y biblinell, fel AGIau a BVSau, sef gwaith sy'n atodol i'r biblinell neu wedi'i ymgorffori ynddi. Mae gwaith o'r fath yn angenrheidiol i adeiladu a gweithredu'r Datblygiad Awdurdodedig ac mae hyn yn cynnwys mynediad adeiladu a gweithredol, draenio, a thirweddu ar gyfer yr AGIau a'r BVSau.
- 4.8.7. Wrth ddod i'r casgliad hwn, mae'r ExA wedi ystyried y cyfyngiad ar gynnwys 'Datblygiad Cysylltiedig' yng Nghymru, yn ogystal â DCOau eraill gan gynnwys DCO Morlyn Llanw Bae Abertawe. Mae'n fodlon bod y Datblygiad Awdurdodedig yn NSIP ac nad yw'r biblinell arfaethedig, yr

AGIau, y BVSau nac agweddau eraill ar y Datblygiad Arfaethedig yn gyfystyr â 'Datblygiad Cysylltiedig'.

Achos Angen yr Ymgeisydd

- 4.8.8. Mae'r ExA yn asesu Achos Angen yr Ymgeisydd ym Mhennod 5, Adran 5.2 yr adroddiad hwn.

4.9. YSTYRIED DEWISIADAU AMGEN

- 4.9.1. Nid yw NPS EN-1 ac NPS EN-4 yn cynnwys unrhyw ofyniad cyffredinol i ystyried dewisiadau amgen na sefydlu p'un ai'r prosiect arfaethedig yw'r opsiwn gorau. Fodd bynnag, o dan Reoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2017, mae'n ofynnol i ymgeiswyr gynnwys gwybodaeth yn eu ES ynglŷn â'r prif ddewisiadau amgen a astudiwyd a nodi'r prif resymau dros ddewis y safle, gan ystyried yr effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol, ac economaidd, ynghyd ag ymarferoldeb masnachol, lle y bo'n berthnasol. At hynny, mae paragraff 4.4.3 NPS EN-1 yn cynghori y dylai dewisiadau amgen gael eu hystyried mewn modd cymesur.
- 4.9.2. Yn unol â hynny, mae'r ExA wedi defnyddio'r ymagwedd a argymhellir ym mharagraff 4.4.3 NPS EN-1 ac mae'n ystyried y materion hyn yn adran prif faterion cynllunio yr adroddiad hwn, ym Mhennod 5, yn enwedig o gofio'r ystyriaethau eang a'r cymhlethdodau sy'n ymwneud ag asesu dewisiadau amgen yn lle'r Datblygiad Arfaethedig, yn ogystal â llwybr y biblinell ochr yn ochr ag ystyriaethau achos angen sy'n gorgyffwrdd.

4.10. ASESIAID O'R EFFAITH AR YR AMGYLCHEDD

- 4.10.1. Mae'r Ymgeisydd wedi cyflwyno ES i gyd-fynd â'r cais. Ar ddechrau'r Archwiliad, roedd hyn yn cynnwys rhifau cyfeirnod dogfen [APP-051] gan godi'n olynol i [APP-245]. Diweddarwyd Penodau'r ES a dogfennau cysylltiedig wedi hynny erbyn DLau amrywiol, gan gynnwys diweddariadau yn dilyn cwestiynau ysgrifenedig yr ExA (Cwestiynau Ysgrifenedig Cyntaf [PD-014], Ail Gwestiynau Ysgrifenedig [PD-022] a Thrydydd Cwestiynau Ysgrifenedig [PD-027]). Cyflwynwyd ES wedi'i gydgrynhoi erbyn DL4, ac ailgyflwynwyd fersiynau terfynol o'r ES i'r Archwiliad erbyn DL7 a DL8.
- 4.10.2. Gwnaed diweddariadau eraill i elfennau o wybodaeth yr ES yn ystod yr Archwiliad hefyd, y rhoddodd yr ExA ystyriaeth ddyladwy iddynt drwy gydol yr Archwiliad. Mae'r Canllaw i'r Cais [REP7003] a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd, ynghyd ag Olrheiniwr Dogfennau'r Cais [REP9002] a ddiweddarwyd yn gynyddrannol hyd at DL9, yn rhoi rhestr o'r holl newidiadau perthnasol i ddogfennau sy'n gymwys o fewn yr Archwiliad. Yn ogystal, mae paragraff 1.5.6 uchod yn rhoi rhestr fanwl o gyfeiriadau'r ES yn Llyfrgell yr Archwiliad ar gyfer y dogfennau ES terfynol a gyflwynwyd i'r Archwiliad.

4.11. ASESIAID RHEOLIADAU CYNEFINOEDD

4.11.1. Ystyrir yr holl faterion yn ymwneud â HRA ym Mhennod 6 yr adroddiad hwn.

5. CANFYDDIADAU A CHASGLIADAU MEWN PERTHYNAS Â'R MATERION CYNLLUNIO

5.1. CYFLWYNIAD

- 5.1.1. Mae'r bennod hon yn archwilio'r prif faterion cysylltiedig â chynllunio a godwyd yn ystod yr Archwiliad. Mae Pennod 5 wedi'i strwythuro ar sail Aseiad Cychwynnol yr Awdurdod Archwilio (ExA) o'r Prif Faterion, a materion a godwyd wedi hynny yn ystod yr Archwiliad. Er mwyn eglurder, mae'r ExA wedi crynhoi'r materion o fewn y prif benawdau pwnc amrywiol lle y bo'n berthnasol, pan fo hynny'n briodol.
- 5.1.2. Mae'r ExA hefyd yn cynnwys yr is-benawdau: Polisi; Achos yr Ymgeisydd; Safbwyntiau Partïon â Buddiant (IP); Archwiliad (sy'n golygu'r materion a ystyriwyd); a Chasgliad yr ExA, ar gyfer pob prif bwnc a drafodir.
- 5.1.3. Fel y cadarnhawyd eisoes ym Mhennod 3, mae'r ExA wedi ystyried dNPSau perthnasol a oedd ar waith hyd at ddiwedd yr Archwiliad. Fodd bynnag, mae'n ymwybodol bod yr SoS wedi rhyddhau dNPSau diwygiedig ar 22 Tachwedd 2023, gan gynnwys dNPS EN-1 a dNPS EN-4. Nid yw'r dNPSau diwygiedig hyn wedi cael eu hystyried yn yr Adroddiad hwn oherwydd y'u cyhoeddwyd ar ôl i'r Archwiliad ddod i ben, ac fe'u nodir ar ôl i'r casgliadau terfynol gael eu dwyn ynghyd ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

5.2. YR ACHOS ANGEN AM Y DATBLYGIAD POLISI

- 5.2.1. Er efallai nad yw'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol (NPS) yn gymwys i ddatblygiadau y penderfynir arnynt o dan Adran (a) 105 Deddf Cynllunio 2008, mae'r materion a gynhwysir ynddynt yn debygol o fod yn ystyriaethau pwysig a pherthnasol er hynny. Mae'r NPSau yn ystyriaeth berthnasol yng Nghymru a Lloegr. Felly, lle y bo'n gymwys, mae'r ExA wedi rhoi ystyriaeth lawn iddynt law yn llaw â Strategaeth gyffredinol y DU.
- 5.2.2. Mae'r ExA eisoes wedi amlygu rhestr o ddeddfwriaeth, polisiâu a strategaethau ym Mhennod 3 yr argymhelliad hwn fel cyfeirbwynt, ac mae'r ExA yn gwneud rhai sylwadau ar NPSau ym Mhennod 4.
- 5.2.3. Mae'r ExA yn cydnabod bod NPS EN-1 yn datgan yn benodol ymrwymiad y Llywodraeth i gynyddu'r defnydd o ynni adnewyddadwy a buddsoddi mewn cynhyrchu ynni carbon isel er mwyn sicrhau marchnad drydan ddiogel yn y dyfodol. Mae'r NPS yn datgan nad oes angen i allyriadau Carbon Deuocsid (CO₂) ceisiadau unigol gael eu meincnodi yn erbyn cyllidebau carbon y DU, ac nad yw allyriadau CO₂ yn rheswm dros beidio â chydsynio i brosiect.

5.2.4. At hynny, cyfeiriodd NPS EN-1 drafft (dNPS EN-1) at ddatblygu modelau busnes gan y Llywodraeth i gymell defnyddio cyfleusterau Dal, Defnyddio a Storio Carbon (CCUS) a hydrogen yn y DU. Yn arbennig, mae paragraff 2.4.5 yn cyfeirio at Gynllun Masnachu Allyriadau y DU; Cymorth Pris Carbon; a modelau Safon Perfformiad Allyriadau fel llwybrau posibl i ysgogi datgarboneiddio'r sector pŵer.

5.2.5. O safbwynt ehangach, mae dNPS EN-1 hefyd yn sôn am yr ymagwedd drawsnewidiol i fynd i'r afael â phroblemau tymor hir er mwyn cyflawni twf sy'n creu swyddi o ansawdd uchel yn y DU ac sy'n gwneud y mwyaf o gryfderau'r Undeb. Mae paragraff 2.3.8 yn nodi:-

"Fodd bynnag, ni all y trawsnewidiad hwn ddigwydd yn syth. Bydd angen defnyddio nwy naturiol a thanwyddau olew crai yn ddireolaeth ar gyfer gwresogi, coginio, trydan a thrafnidiaeth, a chynhyrchu llawer o hanfodion pob dydd fel meddyginiaethau, plastigion, cosmetigion, a dyfeisiau'r cartref, o hyd yn ystod y newid i economi sero net. Bydd hyn yn galluogi cyflenwadau diogel, dibynadwy, a fforddiadwy o ynni wrth i ni ddatblygu'r modd o fynd i'r afael â CO₂ a nwyon tŷ gwydr eraill sy'n gysylltiedig â'u defnyddio, gan gynnwys datblygu a defnyddio dewisiadau amgen carbon isel. Mae sector olew a nwy'r DU yn cydnabod y bydd y galw am olew a nwy yn lleihau'n sylweddol, ond mae hefyd yn cydnabod y rôl allweddol y gall ei chwarae wrth helpu'r DU i gyflawni ei hymrwymiad sero net. Bydd angen cymryd camau clir i adeiladu ar y galluoedd profedig yn y sector i arwain technolegau ynni newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg."

5.2.6. Heblaw am ddarpariaeth bresennol a dNPS sy'n gymwys fel ystyriaeth berthnasol yng Nghymru a Lloegr, mae'r ExA wedi rhoi ystyriaeth lefel uchel i'r canlynol wrth asesu dadleuon angen trosfwaol ar gyfer ardaloedd tir gweinyddol yng Nghymru:-

- Polisi Cynllunio Cymru (PPW) sy'n amlinellu polisiau cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru a'r gyfres ategol o Nodiadau Cyngor Technegol (TANau), TANau Gweinidogol, Cylchlythyrau Llywodraeth Cymru, a llythyrau egluro polisi sydd, ynghyd â PPW, yn darparu'r fframwaith polisi cynllunio cenedlaethol ar gyfer Cymru.
- Mae'r ExA yn deall mai prif amcan PPW yw sicrhau bod y system gynllunio'n cyfrannu tuag at gyflawni datblygiad cynaliadwy ac yn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (WBFGA) a deddfwriaeth allweddol arall fel Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (a sefydlodd dargedau carbon) a dyletswyddau eraill canlyniadol fel y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol.
- Mae PPW a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (a gyhoeddwyd fel Cymru'r Dyfodol – y Cynllun Cenedlaethol 2040) yn amlinellu sut gall y system gynllunio ar lefel genedlaethol, ranbarthol, a lleol helpu i gyflawni'r gofynion hyn trwy Gynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol (CDLI).

5.2.7. Ar gyfer ardaloedd gweinyddol yn Lloegr, mae cyngor y Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol (NPPF) a'r CDLI ar gyfer Cyngor Sir y Fflint (FCC)

a Chyngor Bwrdeistref Gorllewin Swydd Gaerlleon a Chaer (CWCC) hefyd yn berthnasol wrth asesu rhinweddau achos angen. Yn y bôn, derbynnir bod yr holl ddarpariaethau nodau cynaliadwyedd yn y Cynlluniau hynny'n cyd-fynd yn gyffredinol â chefnogi'r egwyddor o ddelio ag allyriadau carbon.

- 5.2.8. Mae'r ExA hefyd wedi ystyried rhywfaint o'r wybodaeth gefndir a gynhwysir yn Natganiad Amgylcheddol (ES) yr Ymgeisydd, Pennod 10 Nwyon Tŷ Gwydr Diwygiad C [REP7-048]. Yn arbennig, Adran 10.2 y ddogfen sy'n cyfeirio at ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd a'r fframwaith polisi ategol y cyfeiriwyd ato gan yr ExA.

ACHOS YR YMGEISYDD

- 5.2.9. Gwneir achos angen cyffredinol yr Ymgeisydd yn nogfen archwilio [APP-049] yn bennaf, ond mae Pennod 10 yr ES [REP7-048] yn berthnasol hefyd. Mae'n dadlau bod rhaid i'r DU fod â seilwaith diwydiannol a chynhyrchu ynni digonol ar waith i gyflawni gofynion Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 (fel y'i diwygiwyd). Y Ddeddf hon yw'r prif ysgogwr deddfwriaethol i wireddu ymrwymadau'r DU i gyflawni datgarboneiddio a nodau datblygu cynaliadwy trosfwaol cysylltiedig. Mae hefyd yn cynnwys elfennau rhyngberthynol sy'n gysylltiedig â ffactorau economaidd-gymdeithasol hynod bwysig y mae'r ExA yn eu hystyried yn Adran 5.12 y Bennod hon.
- 5.2.10. Rhoddodd Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 (fel y'i diwygiwyd) rwymedigaeth ar Lywodraeth y DU i osod cyllidebau carbon ar gyfer cyfnod o bum mlynedd. Cyhoeddwyd chweched gyllideb garbon y DU (sef yr un ddiweddaraf) yn 2021 ac mae'n rhychwantu'r cyfnod 2033-2037. Ymrwymodd i ostyngiad 78% mewn allyriadau o gymharu â lefelau 1990 ac mae 760,000,000 o dunelli'n is na'r bumed gyllideb garbon (Llywodraeth EF, 2021).
- 5.2.11. Ar yr un pryd, rhyddhaodd Llywodraeth y DU ei "Strategaeth Sero Net: Ailgoddi'n Wyrddach" ym mis Hydref 2021, a roddodd fanylion am sut y bydd y DU yn bodloni ei chweched gyllideb garbon. Mae'r strategaeth yn trafod lleihau allyriadau ar draws yr economi, gan gynnwys ym maes pŵer, cyflenwi tanwydd a hydrogen, diwydiant, gwres ac adeiladau, trafniadaeth, adnoddau naturiol, gwastraff, a chael gwared ar Nwyon Tŷ Gwydr (GHG).
- 5.2.12. Mae systemau Dal a Storio Carbon (CCS), y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn rhan ohonynt, yn gyfres o dechnolegau sy'n cynnwys dal CO₂ o darddbwyntiau mawr, gan gynnwys cynhyrchu pŵer a chyfleusterau diwydiannol. Dadleuir y gall seilwaith piblinell newydd gyfrannu'n sylweddol at ddatgarboneiddio diwydiant, cynhyrchu pŵer hyblyg, a sectorau eraill sy'n anodd eu lleihau trwy ddal y CO₂ sy'n deillio o'r prosesau hyn.
- 5.2.13. Byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn cludo CO₂ o ddiwydiannau sy'n allyrru GHG a chynhyrchu hydrogen carbon isel, gan gyfrannu at leihau CO₂ i

wireddu ymrwymiad y Llywodraeth i gyflawni targed cyfreithiol rwymol y DU i dorri allyriadau GHG (y mae'r DU bellach wedi ymrwymo i gyflawni gostyngiad 100% mewn allyriadau erbyn 2050).

- 5.2.14. At hynny, mae'r Datblygiad Arfaethedig yn galluogi datblygu elfennau ehangach o 'Prosiect HyNet' (yn ei gyfanrwydd) sy'n cynnwys cynhyrchu hydrogen carbon isel a rhwydwaith dosbarthu hydrogen. Heb y biblinell CO₂, ni fyddai Prosiect ehangach HyNet, gan gynnwys datblygiadau clwstrw cysylltiedig y disgwylir iddynt weithredu fel hybiau economaidd ar gyfer swyddi technoleg werdd, yn gallu cael ei gyflawni'n llwyddiannus.
- 5.2.15. Dadleuir bod aildefnyddio seilwaith nwy naturiol presennol ar gyfer cludo a storio CO₂ yn lleihau costau cyfalaf y Prosiect i'r eithaf. Y rheswm am hyn yw bod gweithredwyr a'r Llywodraeth fel arfer yn rhannu costau datgomisiynu asedau olew a nwy. Mae'r ffaith bod y Prosiect yn addasu'r cronfeydd nwy sydd wedi'u dihysbyddu at ddiben gwahanol yn golygu nad oes angen eu datgomisiynu, gan leihau'r baich ar drethdalwyr y DU yn sylweddol.
- 5.2.16. O ran lleoliad, mae basn halen Swydd Gaerlleon eisoes yn cael ei ddefnyddio'n helaeth i storio nwy naturiol ac mae'n addas ac ar gael ar gyfer storio yn gysylltiedig â'r Datblygiad Arfaethedig. Mae Prosiect ehangach HyNet yn cynnwys cynhyrchu, dosbarthu, storio a defnyddio symiau sylweddol o hydrogen carbon isel. Mae hyn yn caniatáu ar gyfer datgarboneiddio'r allyriadau llosgi sy'n gysylltiedig â phrosesau gweithgynhyrchu diwydiannol mewn ffordd gost-effeithiol, ac mae'r gallu i storio hydrogen wrth raddfa yn golygu y gellir datgarboneiddio cynhyrchu pŵer hyblyg ar gyfer cyfnodau pan fydd yr ynni adnewyddadwy a gynhyrchir yn annigonol.
- 5.2.17. Mae elfennau hydrogen carbon isel y Prosiect yn ddarostyngedig i brosesau cydsynio ar wahân, ond maen nhw'n dibynnu ar y biblinell CO₂, oherwydd hebddi ni ellir cynhyrchu hydrogen carbon isel ar raddfa ddigon mawr i ddatgarboneiddio allyriadau diwydiannol ar draws y rhanbarth yn sylweddol.
- 5.2.18. Yn ogystal, mae astudiaeth gan Lywodraeth y DU y cyfeiriwyd ati yn y deunydd archwilio wedi canfod mai maes nwy Hamilton ym Mae Lerpwl yw'r safle mwyaf addas a diogel yn y DU ar gyfer storio CO₂ (y Sefydliad Technolegau Ynni, 2016) ac mae'r adroddiad Llwybr Defnyddio CCS gan y Llywodraeth yn cynnwys Dwyrain Môr Iwerddon fel lleoliad allweddol ar gyfer y cyfle posibl i aildefnyddio seilwaith olew a nwy (Llywodraeth EF, 2018).
- 5.2.19. Felly, mae'r Ymgeisydd yn dadlau'n gryf y byddai defnyddio CCS yn ddull allweddol o helpu'r DU i newid i economi carbon isel, er mwyn cyrraedd y targed sero net a helpu i ddatgarboneiddio clystyrau diwydiannol yng Ngogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru.

SAFBWYNTIAU PARTÏON Â BUDDIANT

- 5.2.20. At ei gilydd, roedd FCC a CWCC yn cefnogi achos angen yr Ymgeisydd dros y Datblygiad Arfaethedig drwy gydol yr Archwiliad, a ymestynnodd i oblygiadau economaidd-gymdeithasol ehangach. O ran delio â buddiannau'r newid yn yr hinsawdd, gwnaethant dderbyn y byddai allyriadau carbon yn cael eu hatal rhag mynd i mewn i'r atmosffer. Roedd y ddau Gyngor yn derbyn yn gyffredinol y byddai Prosiect HyNet yn cyfrannu at leihau carbon ac, yn ei dro, yn helpu'r DU â'i tharged i fod yn garbon sero net erbyn 2050.
- 5.2.21. Roedd hyn yn cynnwys derbyn bod Prosiect HyNet yn ddull posibl derbyniol o leddfu'r straen ar y grid trydan cenedlaethol. Roedd hyn wedi'i seilio ar y ddealltwriaeth y byddai cyfran o'r hydrogen a gynhyrchir (gan y Prosiect yn ei gyfanrwydd) yn cael ei defnyddio i gynhyrchu ynni i gyflenwi adeiladau domestig.
- 5.2.22. Cydnabu'r Cynghorau cynhaliol bod y rhan o'r ardal a rychwantir gan rwydwaith HyNet yn ddiwydiannol gan mwyaf, ac yn allyrru symiau mawr o allyriadau carbon ar hyn o bryd. Pe gellid dal cyfran o'r allyriadau hynny, byddai hynny'n fuddiol nid yn unig i'r ardaloedd uniongyrchol lle y cynigir y gwaith cynhyrchu hydrogen yng Nghaerlleon, ond hefyd i Sir y Fflint a thu hwnt.
- 5.2.23. At hynny, pe byddai'r Datblygiad Arfaethedig ar gyfer piblinell CO₂ yn cael ei ganiatáu, byddai hynny'n darparu cyfleoedd yn y dyfodol (yn amodol ar gydsyniad ar wahân) i ddiwydiannau mawr sy'n allyrru CO₂ ddal eu carbon a chysylltu ac 'uno' â phiblinell CO₂ arfaethedig HyNet i'w storio ar y môr. Ar y sail honno, cytunodd FCC a CWCC yn gyffredinol y byddai'r cynnig yn darparu buddion clir a sylweddol ar lefel leol, ranbarthol, a chenedlaethol.
- 5.2.24. Fodd bynnag, dangosodd cyd-destun ehangach IP wrthwynebiad i achos angen yr Ymgeisydd. Roedd hyn yn cynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) cyflwyniadau manwl gan Carolyn Thomas AS (Aelod o'r Senedd) [REP7-320] a wnaeth wrthwynebiadau ar y sail y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn tanseilio nodau cynaliadwyedd yn ymwneud â:
- darparu'r WBFGA;
 - darparu seilwaith priffyrdd;
 - perygl llifogydd;
 - perygl gollyngiadau;
 - diogelwch cymunedol; yn ogystal ag effaith economaidd annigonol.
- 5.2.25. Roedd gwrthwynebiadau gan Gyfeillion y Ddaear Lerpwl (LFoE) trwy [CR1RR-007] a [REP7315] a Nick Crosby trwy [CR1RR-008] a [REP7-324], a gymerodd ran mewn Gwrandawriad Llawr Agored, yn cyfeirio hefyd at: bryderon diogelwch cyhoeddus/ amgylcheddol; natur amhroffedig y dechnoleg sydd dan sylw; materion asesu carbon ymhellach i fyny sy'n niweidiol ac yn groes i asesiad cronol; risgiau cysylltiedig y Datblygiad Arfaethedig; a mesurau lliniaru amheus, ymhlith materion eraill.

ARCHWILIAD

- 5.2.26. Yn ystod yr Archwiliad, roedd yr ExA yn ymwybodol bod achos angen yr Ymgeisydd yn cael ei wneud o dan a105 Deddf Cynllunio 2008, sy'n mynnu bod yr Ysgrifennydd Gwladol (SoS) yn penderfynu ar geisiadau gan ystyried unrhyw faterion y mae'r SoS yn credu eu bod yn "bwysig ac yn berthnasol".
- 5.2.27. Gan gydnabod bod diweddariadau i NPSau ar ffurf ddrafft o hyd, profodd yr ExA y cyfiawnhad cyffredinol dros angen trwy Gwestiynau Ysgrifenedig yr ExA (ExQ) gan mwyaf. Roedd tair rownd o ExQau (Cwestiynau Ysgrifenedig Cyntaf yr ExA (ExQ1) [PD-014], Ail Gwestiynau Ysgrifenedig yr ExA (ExQ2) [PD-022] a Thrydydd Cwestiynau Ysgrifenedig yr ExA (ExQ3) [PD-027]). Profwyd y cyfiawnhad cyffredinol dros angen yn bennaf yn ExQ1 [PD-014] ac yn ystod Gwrandawriad Mater Penodol (ISH)1. Yn ogystal, archwiliodd yr ExA y cyfiawnhad angen cyffredinol trwy ExQ2 [PD-022] ac ExQ3 [PD-027]. Mae'r ExA hefyd wedi ystyried Atodiad B yr ES – Effeithiau Economaidd Posibl Prosiect Gogledd-Orllewin HyNet [REP1-046].
- 5.2.28. Nododd yr ExA fod [REP7-038] yn amlygu bod y Datblygiad Arfaethedig yn angenrheidiol i ddatgarboneiddio diwydiannau sy'n allyrru a chyflawni llwybr y DU tuag at sero net. Gofynnodd yr ExA i'r Ymgeisydd esbonio'r achos angen cyffredinol dros y Datblygiad Arfaethedig ymhellach mewn perthynas ag ystyriaethau newid yn yr hinsawdd, gwybodaeth bresennol a dulliau naturiol (neu eraill) o ddal/ atafaelu carbon sydd ar gael ar hyn o bryd neu'r rhai hynny sy'n dod i'r amlwg.
- 5.2.29. Yn ystod ISH1 [EV-008] i [EV-010], gofynnodd yr ExA gwestiynau amrywiol i'r Ymgeisydd ynglŷn â ph'un a oedd dewisiadau amgen eraill yn ymarferol yn groes i ganfyddiadau'r ES. Roedd hyn yn cynnwys ystyried senario 'gwneud dim byd'. Canolbwyntiodd yr ExA yn benodol a b'un a fyddai unrhyw newidiadau sy'n deillio o arloesedd yn arwain at unrhyw opsiwn ymarferol arall i ddarparu'r buddion newid yn yr hinsawdd y canolbwyntir arnynt yng nghyfiawnhad yr Ymgeisydd o'r angen.
- 5.2.30. Roedd ymatebion yr Ymgeisydd i gwestiynau ysgrifenedig yn [REP1-044], [REP5-025] a [REP8-036] yn cynnwys esboniad pellach o rinweddau achos angen y Datblygiad Arfaethedig.
- 5.2.31. O ystyried yr holl ddeunydd a gyflwynwyd i'r Archwiliad, gan gynnwys yr ymatebion llafar ac ysgrifenedig a dderbyniwyd i ymholiadau'r archwiliad, roedd yr ExA o'r farn bod yr achos angen trosfwaol a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd wedi'i lunio'n dda, ac yn gadarn.
- 5.2.32. At hynny, ni welwyd unrhyw beth argyhoeddiadol ynglŷn â'r ddadl angen sy'n gwrthdaro â darpariaeth gyffredinol NPSau (na'r dNPSau sy'n dod i'r amlwg), na Strategaeth y DU, i'r ExA feddwl yn wahanol. Yn wir, dangoswyd hefyd bod y ddarpariaeth polisi lleol a ysgogwyd yn cyd-fynd â chefnogi cynigion sy'n ceisio lliniaru problemau yn ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd – y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn gyson â nhw ̈.
- 5.2.33. Fel ystyriaeth berthnasol ar gyfer Cymru a Lloegr, mae'r ExA yn cydnabod bod yr NPS EN-1 presennol yn adlewyrchu polisi sy'n dyddio'n

ôl i 2011, a ddisgwyliodd ddefnyddio CCS yn bennaf i gynhyrchu trydan carbon isel. Er enghraifft, mae paragraff 3.6.4 NPS EN-1 yn datgan:

- *"Gallai CCS leihau allyriadau carbon hyd at 90%..."*
- *"Nid yw'r gadwyn CCS gyflawn wedi cael ei dangos ar raddfa fasnachol eto..."* ac
- *"Felly, mae ansicrwydd ynglŷn â defnyddio CCS yn yr economi yn y dyfodol, na ellir ei ddatrys, ym marn y Llywodraeth, heb ddangos CCS ar raddfa fasnachol yn gyntaf"*.

5.2.34. Ac eto, yn fwy diweddar, mae paragraff 2.4.4 dNPS EN-1 yn rhoi safbwynt mwy cyfredol y Llywodraeth ar rôl strategol CCS. Mae'n datgan bod *"y Llywodraeth yn datblygu modelau busnes i gymell defnyddio cyfleusterau CCUS a hydrogen yn y DU"*. Mae NPS EN-1 drafft hefyd yn datgan ym mharagraff 3.2.11, *"bod angen brys am bob math o seilwaith hydrogen carbon isel i ganiatáu i hydrogen chwarae ei rôl wrth newid i sero net"*.

5.2.35. Yn benodol ar gyfer Cymru, ym mis Mawrth 2021, cymeradwyodd Senedd Cymru darged sero net ar gyfer 2050. Mae gan Gymru dargedau interim ar gyfer 2030 a 2040 hefyd, a chyfres o gyllidebau carbon 5 mlynedd. Mae'r targedau a'r cyllidebau carbon yn ffurfio fframwaith Cymru y mae deddfwriaeth Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn rhan ohono.

5.2.36. At hynny, mae cefnogaeth ehangach sylweddol ar ffurf Strategaeth y DU a ddangoswyd gan gyflwyniadau'r Ymgeisydd yn [APP-049] sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr sy'n argymhell defnyddio CCS i newid i economi carbon isel yn y DU, i gyrraedd y targed sero net a helpu i ddatgarboneiddio clystyrau diwydiannol yng Ngogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru. Mae hyn yn cynnwys:

- Twf Glân – Llwybr tuag at Ddefnyddio CCUS y DU (Tachwedd 2018);
- Cadwyni cyflenwi CCUS: map trywydd i fanteisio i'r eithaf ar botensial y DU (Mai 2021);
- Adroddiad Cynnydd 2021 i'r Senedd (Mehefin 2021); a
- Chynllun Twf 2022 (Medi 2022).

5.2.37. Byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn galluogi cynhyrchu hydrogen carbon isel yn Stanlow trwy gludo'r CO₂ a gynhyrchwyd i gael ei storio, sy'n golygu y gellir defnyddio hydrogen carbon isel wrth newid i sero net.

5.2.38. Felly, mae'r Strategaethau uchod yn ogystal â chyfeiriad presennol dNPSau perthnasol a strategaeth gyffredinol y DU ym Mhennod 3 a Phennod 4 yr adroddiad argymhelliad hwn i gyd yn dangos i'r ExA fod ystyriaeth yr Ymgeisydd o ddewisiadau amgen yn gymesur. At hynny, mae'r ExA yn cydnabod bod y gyfres lawn o ddarpariaethau Strategaeth gyffredinol y DU a ysgogir o bwys sylweddol.

5.2.39. O ran buddion economaidd-gymdeithasol ehangach sy'n perthyn i'r achos angen, mae'r ExA yn cytuno y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn galluogi cyflawni buddion economaidd-gymdeithasol arwyddocaol ledled y

DU. Cofnodir hyn a deuir i gasgliad helaeth arno yn Adran 5.12 y Bennod hon.

- 5.2.40. Mae'r ExA yn cydnabod mai prif amcan PPW yw cyfrannu tuag at gyflawni datblygiad cynaliadwy ac, wrth wneud hynny, gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, fel sy'n ofynnol gan WBFGA a deddfwriaeth allweddol arall a dyletswyddau eraill canlyniadol fel y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol. Mae'r ExA yn cytuno y byddai'r achos angen trosfwaol a wnaed o blaid y Datblygiad Arfaethedig yn gyson â'r amcanion cyffredinol hyn.
- 5.2.41. At hynny, mae cynnwys Adroddiad ar yr Effaith Leol (LIR) CWCC (LIR) [REP1A-002], ynghyd â'i Atodiad [REP1A-003]; a LIR FCC [REP1A-005] a'i Atodiad [REP1A-006] yn cefnogi achos angen trosfwaol yr Ymgeisydd yn gyffredinol.

CASGLIAD YR EXA

- 5.2.42. Mae'r ExA yn nodi bod yr NPSau a'r dNPSau sy'n dod i'r amlwg, yn ogystal â strategaeth gyfredol y DU, yn cefnogi CCS. Ystyrir bod yr holl ddogfennau hyn yn faterion pwysig a pherthnasol wrth ystyried yr achos angen dros y Datblygiad Arfaethedig. Daw'r ExA i'r casgliad nad oes agwedd strategol lefel uchel ar PPW sy'n cyfrif yn erbyn egwyddor gyffredinol cefnogi'r Datblygiad Arfaethedig o ystyried TANau, Nodiadau Cyngor Technegol Mwynau 1 a 2, Cylchlythyrau Llywodraeth Cymru, a llythyrau egluro polisi. O ran ardaloedd cysylltiedig yn Lloegr, mae'r ExA yn fodlon yr ystyriwyd yr ystod o bolisiau/ strategaethau sy'n ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd. Mae'r achos angen cyffredinol dros y datblygiad yn cyd-fynd â'r holl bolisiau a strategaethau lleol perthnasol a ysgogwyd, gan gynnwys y rhai hynny y cyfeirir atynt yn y ddau LIR.
- 5.2.43. Mae'r ExA yn cytuno y byddai amseriad arfaethedig y Datblygiad Arfaethedig yn helpu'r Llywodraeth a Llywodraeth Cymru i gyrraedd targedau carbon cenedlaethol. Mae hefyd yn cytuno y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn arwain at economi wedi'i datgarboneiddio ledled y DU yn gyflymach o lawer nag a fyddai'n wir heb y Datblygiad Arfaethedig.
- 5.2.44. Yn unol â hynny, daw'r ExA i'r casgliad fod achos angen trosfwaol a chymhellol o blaid cefnogi datblygiad cysylltiedig â CCS yng Nghymru a Lloegr sy'n cefnogi buddiannau'r newid yn yr hinsawdd. Wedi dweud hynny, mae ystyried dewisiadau amgen ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig yn fater arall sy'n gorgyffwrdd. Felly, dylai agweddau technegol eraill a gynhwyswyd ym Mhennod 4 ES yr Ymgeisydd, sef Ystyried Dewisiadau Amgen [REP7-038], a archwiliwyd gan yr ExA, gael eu hystyried gan yr SoS cyn dod i gasgliad ar y dadleuon angen a wnaed. Mae'r ExA yn rhoi ei farn am y mater i'r SoS fel yr amlinellir yn 5.3.

5.3. ASESU DEWISIADAU AMGEN

POLISI

- 5.3.1. Mae paragraff 4.4.1 NPS EN-1 yn amlygu, yn yr un modd ag unrhyw achos cynllunio, bod perthnasedd neu ddiffyg perthnasedd bodolaeth

(neu fodolaeth honedig) dewisiadau amgen yn lle'r Datblygiad Arfaethedig i'r broses benderfynu yn fater cyfreithiol yn y lle cyntaf, y mae'r arweiniad manwl arno y tu allan i gwmpas yr NPS hwn. O safbwynt polisi, nid yw'r NPS hwn yn cynnwys unrhyw ofyniad cyffredinol i ystyried dewisiadau amgen na sefydlu p'un ai'r prosiect arfaethedig yw'r opsiwn gorau. Mae diweddariadau drafft i'r NPSau yn rhoi cyngor tebyg.

- 5.3.2. Felly, yn hytrach na gofyniad polisi annibynnol generig ar gyfer y DU neu bolisi cyfatebol yng Nghymru neu Loegr ynddo'i hun, mae'r ExA yn nodi bod cynnwys Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2017 yn berthnasol. Mae'r rheoliadau hyn yn datgan y dylai ES gynnwys *'disgrifiad o'r dewisiadau amgen rhesymol a astudiwyd gan yr Ymgeisydd, sy'n berthnasol i'r Datblygiad Arfaethedig a'i nodweddion penodol, ac arwydd o'r prif resymau dros yr opsiwn a ddewiswyd, gan ystyried effeithiau'r datblygiad ar yr amgylchedd'*.
- 5.3.3. Wrth ystyried yr holl ddewisiadau amgen ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig, mae'r ExA wedi ystyried holl bolisiau amgylcheddol y CDLI ar gyfer FCC a CWCC a restrwyd ym Mhennod 3 yr argymhelliad hwn. Wrth wneud hynny, mae'r ExA yn cydnabod bod FCC CDLI EN-11 (lletemau glas) a CWC CDLI STRAT9 (lleiniau glas a chefn gwlad) yn agweddau polisi lleol pwysig ar unrhyw benderfyniad sy'n llywio'r llwybr a ddewisir ar gyfer y biblinell, ac felly hefyd yr holl effeithiau amgylcheddol eraill perthnasol. I raddau llai, mae CWC CDLI STRAT3 (Caer) yn berthnasol hefyd oherwydd ei fod yn manylu ar ardaloedd lleoliadau aneddiadau.
- 5.3.4. Felly, o ganlyniad i'r materion a ysgogwyd yng Nghymru a Lloegr, mae rhai agweddau generig ar NPS EN-1 yn berthnasol i'w crybwyll ar hyn o bryd yn yr ystyr bod paragraff 5.10.17 yn amlygu pan fydd Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Arbennig (NSIP) yn cael ei leoli mewn Llain Las, mae prosiectau seilwaith ynni yn debygol o fod yn 'ddatblygiad amhriodol'.
- 5.3.5. Mae datblygiad amhriodol, yn ôl ei ddiffiniad, yn niweidiol i'r Llain Las ac mae'r rhagdybiaeth gyffredinol yn ei erbyn mewn polisi cynllunio yn berthnasol i'r un graddau i brosiectau seilwaith ynni mawr. O ganlyniad, yn rhan o'r dewisiadau amgen a ystyriwyd, mae angen i'r ExA asesu p'un a oes amgylchiadau arbennig iawn i gyfiawnhau datblygiad amhriodol. Ni fydd amgylchiadau arbennig iawn yn bodoli oni bai bod y niwed trwy gyfrwng amhriodoldeb, ac unrhyw niwed arall, yn cael ei wrthbwysu gan ystyriaethau eraill. O ystyried y rhagdybiaeth yn erbyn datblygiad amhriodol, mae'r ExA yn rhoi pwys mawr iawn i unrhyw niwed i'r Llain Las. Fodd bynnag, mae NPS EN-1 hefyd yn dweud y gall seilwaith llinol o dan y tir (fel sy'n wir yn yr achos hwn) gael effaith gyfyngedig neu, yn wir, ddim effaith ar ddibenion sylfaenol dynodiad Llain Las.
- 5.3.6. Yn ogystal, mae paragraff 5.10.18 NPS EN-1 yn nodi y gallai 'lletemau glas' gael eu dynodi'n lleol yng Nghymru. Mae'r rhain yn cael eu hamddiffyn i'r un graddau â Lleiniau Glas (yn Lloegr) yng Nghymru a dylai'r ExA ddefnyddio ymagwedd debyg.

- 5.3.7. Fodd bynnag, nid yw Lletemau Glas yn cyfleu'r un lefel o barhauster â Llain Las a dylid eu hadolygu gan yr awdurdod lleol yn rhan o broses adolygu'r cynllun datblygu. Yn yr un modd â Lleiniau Glas, mae rhagdybiaeth yn erbyn datblygiad amhriodol. Felly, yn ei asesiad cyffredinol, mae'n ofynnol i'r ExA asesu p'un a oes amgylchiadau 'eithriadol iawn' i gyfiawnhau unrhyw ddatblygiad amhriodol arfaethedig yng Nghymru, yn berthynol i PPW a pholisi lleol.

ACHOS YR YMGEISYDD

- 5.3.8. Cyflwynir Asesiad o Ddewisiadau Amgen yr Ymgeisydd ym Mhennod 4 yr ES (Ystyried Dewisiadau Amgen) [REP7-038] ac mae'n rhoi'r ystod lawn o ddewisiadau amgen a ystyriwyd gan yr Ymgeisydd, gan gynnwys yn ystod camau adeiladu'r Datblygiad Arfaethedig. Cefnogir y Bennod hon o'r ES gan Ffigurau ES 4.17 – Dewisiadau amgen yn lle'r cyfadeilad adeiladu yn Stanlow Diwygiad A [REP7-208]; 4.18 – Dewisiadau amgen yn lle'r cyfadeilad adeiladu yn Northop Hall Diwygiad A [REP7-209]; a 4.19 – Opsiynau Ychwanegol ar gyfer Gosodiad ar y Tir (AGI) Northop Hall Diwygiad B [REP7-210].
- 5.3.9. Ar lefel strategol, mae'r Ymgeisydd yn dechrau o safbwynt sylfaenol 'gwneud dim byd' yn ei ES. Mae'r Ymgeisydd yn dadlau nad yw gwneud dim byd yn opsiwn os yw'r DU am gyrraedd ei tharged sero net erbyn 2050, oherwydd byddai hyn yn golygu y byddai allyriadau carbon o ffynonellau diwydiannol yng Ngogledd Cymru a Gogledd-orllewin Lloegr yn parhau'n ddireolaeth.
- 5.3.10. Wrth ddatblygu'r opsiynau ar gyfer coridor llwybr y biblinell arfaethedig, mae'r Ymgeisydd yn cyfeirio'r ExA at bum egwyddor arweiniol a lywiodd ei broses ddethol:
1. Osgoi, lleiafu a rheoli effeithiau ar yr amgylchedd ac amwynder lleol;
 2. Sicrhau bod CO₂ yn cael ei gludo'n ddiogel;
 3. Optimeiddio'r buddion economaidd-gymdeithasol posibl yn y rhanbarth;
 4. Bod yn dechnegol hyfyw a gallu cael ei adeiladu gan darfu cyn lleied â phosibl; a
 5. Bod yn gost-effeithiol.
- 5.3.11. Mae'r Ymgeisydd wedi dangos tystiolaeth o broses 3 cham i ddod o hyd i lwybr addas ar gyfer y biblinell: Cam 1: Datblygu ac arfarnu coridorau strategol; Cam 2: Datblygu ac arfarnu opsiynau llwybr; a Cham 3; Mireinio'r opsiwn llwybr a'r lleoliad a ffefrir.
- 5.3.12. Ystyriwyd llwybr y biblinell mewn dwy ran: Yn gyntaf, Piblinell AGI Ince i AGI Stanlow (20"); ac yn ail Piblinell AGI Stanlow i AGI y Fflint (36"). Amlygodd arfarniad Cam 1 bedwar coridor strategol ar gyfer adeiladu'r biblinell 36" newydd.

- 5.3.13. O ganlyniad i'w hyd byrrach a'i hopsiynau coridor cyfyngedig, nid oedd y biblinell 20" newydd yn destun arfarniad Cam 1 gan yr Ymgeisydd. Wedi hynny, labelwyd y cyntaf o'r pedwar coridor strategol diffiniedig yn goridor 'Craidd' gan yr Ymgeisydd. Dyma'r mwyaf llydan o'r pedwar coridor oherwydd dyma'r un lleiaf cyfyngedig yn ddaearyddol. Mae'r coridor craidd yn mynd oddeutu 13 cilometr (km) rhwng Stanlow a'r A548 Sealand Road, gan ymestyn tua 1km i Gymru.
- 5.3.14. Yna, rhannwyd y coridorau strategol a amlygwyd gan yr Ymgeisydd yn dri choridor mwy amlwg:
- Coridor Gogleddol: Roedd y coridor Gogleddol, sy'n mesur tua 8.5km o hyd, yn mynd ar hyd perimedr gogleddol Ystad Ddiwydiannol Glannau Dyfrdwy;
 - Coridor Canolog: Roedd y coridor Canolog, sy'n mesur tua 7.5km o hyd, yn mynd trwy ardal o gaeau agored gerllaw Garden City ac Ystad Ddiwydiannol y Meysydd Awyr cyn mynd tua'r gogledd ar hyd ochr ogleddol Afon Dyfrdwy; a
 - Choridor Deheuol: Roedd y coridor Deheuol, sy'n mesur tua 15km o hyd, yn gwneud bwa i'r de o Lannau Dyfrdwy, Queensferry a Chei Connah.
- 5.3.15. At ei gilydd, dewiswyd y coridor Deheuol fel yr opsiwn a ffefrir am resymau gan gynnwys: y cyfle mwyaf i gysylltu ag allyrwyr CO₂ eraill, gan felly leihau CO₂ i'r graddau mwyaf yn y rhanbarth; y llwybr hwnnw oedd yr un lleiaf cymhleth i'w adeiladu a'r un mwyaf diogel i'w adeiladu gan fod llai o groesfannau cymhleth; roedd yn fwy tebygol o ddarparu opsiynau llwybr sy'n cael llai o effaith uniongyrchol ar ddynodiadau amgylcheddol rhyngwladol a chenedlaethol (gan gynnwys Aber Afon Dyfrdwy); ac roedd yn debygol o gynnig y datrysiad mwyaf cost-ffeithiol, ar sail y ffaith y byddai'n opsiwn lleiaf cymhleth. Wedi hynny, datblygwyd y Coridor Craidd ynghyd â'r coridor Deheuol ymlaen i'r Arfarniad Cam 2.
- 5.3.16. Yn dilyn casgliadau'r Arfarniad Cam 2 a gofnodwyd, datblygwyd dyluniad y biblinell 20" a 36" (a seilwaith cysylltiedig) a'r seilwaith sy'n gysylltiedig ag addasu Piblinell Cysylltiad y Fflint i Derfynell PoA at ddiben gwahanol yn rhan o'r broses Cam 3. Wrth wneud hynny, cymhwyswyd coridor 100m i'r llwybr a ffefrir i allu rhoi ystyriaeth fanylach i feini prawf cynllunio, defnydd tir, amgylcheddol a chymdeithasol penodol ac i amlygu materion peirianegol, cost ac adeiladwyedd sy'n cyfateb i ryw dri deg pump o ffactorau fel y crybwyllwyd ym mharagraff 4.5.21 [REP7-038] ym Mhennod 4 ES yr Ymgeisydd (Ystyried Dewisiadau Amgen).

SAFBWYNTIAU PARTÏON Â BUDDIANT

- 5.3.17. Roedd FCC a CWCC yn cytuno'n gyffredinol yn ystod yr Archwiliad bod y dewisiadau amgen ar gyfer llwybr y biblinell a ystyriwyd gan yr Ymgeisydd wedi'u hesbonio'n briodol. Yn gyffredinol, roeddent o'r farn bod yr Ymgeisydd wedi gwneud asesiad rhesymol wrth amlinellu ei opsiynau a pham y gwnaeth ei ddewisiadau.

- 5.3.18. Er bod IPau wedi cyfeirio at y math o gynhyrchu hydrogen (y mae rhai ohonynt yn fwy carbon ddwys nag eraill a bod rhai yn cael effaith carbon niwtral), nid yw'r mater yn uniongyrchol gysylltiedig â'r Datblygiad Arfaethedig hwn ac felly nid yw o fewn cwrmpas asesiadau'r archwiliad.
- 5.3.19. Fodd bynnag, cynigiodd cyflwyniad [AS-064] gan Mr Steven Gibbins (nad yw'n IP) rywfaint o wybodaeth i'r ExA a oedd yn awgrymu nad y llwybr a ddewiswyd gan yr Ymgeisydd yw'r opsiwn gorau sydd ar gael o reidrwydd. Heriodd IPau eraill b'un a ddylid archwilio opsiynau eraill hefyd. Mae'r ExA wedi ystyried sail y dadleuon hynny.

ARCHWILIAD

- 5.3.20. Yng ngoleuni'r wybodaeth a ddarparwyd gan ES yr Ymgeisydd a sylwadau IPau, roedd y 'mathau' canlynol o ddewisiadau amgen yn destun craffu a chwestiynau gan yr ExA:
1. Gwneud dim byd;
 2. Dewisiadau amgen eraill posibl; a
 3. Lliniaru trwy ddylunio.
- 5.3.21. Gofynnodd yr ExA gwestiynau amrywiol ynglŷn â'r dewis amgen 'gwneud dim byd' yn ystod rhyngweithiadau Gwrandawiadau. Roedd cwestiynau'n ymwneud yn bennaf â chydabod dulliau amgen o ddal carbon gan ddefnyddio datrysiadau seiliedig ar natur neu arloesiadau sy'n dod i'r amlwg ym myd diwydiant, na wyddys eu cyflymder.
- 5.3.22. Yn dilyn holi gan yr ExA, dangosodd yr Ymgeisydd dystiolaeth ddigonol yn ystod yr Archwiliad fod y dewis amgen gwneud dim byd yn groes i'r canlynol: nod y DU i gyflawni allyriadau carbon sero net erbyn 2050; y Strategaeth Datgarboneiddio Diwydiannol; Strategaeth Diogelwch Ynni Prydain; a Strategaeth Hydrogen y DU. Mae'r ExA hefyd o'r farn bod y senario gwneud dim byd yn llinell sylfaen briodol ar gyfer ES yr Ymgeisydd yng ngoleuni sylwadau IP.
- 5.3.23. Ymchwiliwyd i'r posibilrwydd o lwybr byrrach i'r gogledd o Barc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy yn gyfochrog â'r A548 y cyfeiriwyd ato yn [AS-064], a wnaed gan Mr Steven Gibbins, trwy gwestiynau ychwanegol gan yr ExA oherwydd ei fod yn awgrymu'r canlynol o ran y llwybr a ddiystyriwyd:
- nid yw'n mynd heibio'n agos i ardaloedd preswyl ac felly mae'n llai tebygol o gael effaith;
 - mae'r llwybr trwy gefn gwlad agored ac yn hawdd ei gyrraedd ar gyfer adeiladu o'r A548;
 - mae'r llwybr amgen tua 7.2km yn fyrrach a fyddai'n arwain at arbed costau mawr; ac
 - mae llwybr byrrach yn lleihau tarfu ar hawliau tirfeddianwyr preifat gymaint â phosibl.
- 5.3.24. Cyflwynodd yr Ymgeisydd ddadleuon amrywiol (yn ysgrifenedig ac ar lafar) i gyfiawnhau pam y diystyriwyd opsiwn o'r fath. Roedd y rhain yn cynnwys bod y llwybr a awgrymwyd gan Mr Gibbons [AS-064] yn debyg

i'r Coridor strategol Gogleddol a ddisgrifiwyd ym Mhennod 4 yr ES (Ystyried Dewisiadau Amgen) [REP7-038].

- 5.3.25. At hynny, roedd yr ymarfer llwybro coridor strategol (ar gyfer pob opsiwn) yn gyfyngedig i ymchwiliadau bwrdd gwaith gan ddefnyddio adnoddau sydd ar gael yn gyhoeddus fel: cofnodion chwilio cyfleustodau; cofnodion tirlenwi hanesyddol; ffotograffiaeth o'r awyr; ac yn ystyried dynodiadau amgylcheddol (e.e. Safle(oedd) o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), Ardal(oedd) Cadwraeth Arbennig (ACA), Ardal(oedd) Gwarchodaeth Arbennig (AGA), safle(oedd) Ramsar, Coetiroedd Hynafol, Parthau Llifogydd (FZ)); a gwybodaeth Arolwg Daearegol Prydain.
- 5.3.26. Darparodd gwybodaeth o'r fath ddigon o wybodaeth ar gyfer yr ymarfer dewis llwybr. Dangoswyd tystiolaeth i'r ExA ei bod yn afrealistig i'r Ymgeisydd ymgymryd ag arolygon manwl ychwanegol (fel Ymchwiliadau Tir ymwithiol) ar hyd yr holl opsiynau coridor strategol gan y byddai'r gost a'r amser sy'n ofynnol yn atal datblygu'r prosiect.
- 5.3.27. Ar ôl adolygu'r data a oedd ar gael yn 2021, dangosodd yr Ymgeisydd dystiolaeth ei bod o'r farn nad oedd y Coridor Gogleddol yn llwybr amgen ac ni chynigiodd ef ar gyfer ymgynghoriad statudol. At hynny, mae'r Ymgeisydd yn dadlau nad yw'r llwybr a gynigiwyd gan Mr Gibbons yn 'ddewis amgen rhesymol' oherwydd byddai llawer o'r un ystyriaethau a oedd yn berthnasol i'r coridor Strategol Gogleddol yn berthnasol i'w lwybr arfaethedig ef. Mae'r Ymgeisydd yn honni bod yr opsiwn gorau wedi cael ei gyflwyno o ystyried yr holl sylwadau a dderbyniwyd gan IPau.
- 5.3.28. Fel pwynt ehangach ar wahân, mae'n wir hefyd y byddai llawer o'r mesurau lliniaru ymgorfforedig o fewn dyluniad y Datblygiad Arfaethedig wedi codi wrth gymhwyso: deddfwriaeth EIA yn gyffredinol; goblygiadau asesiad Cyfarwydddeb Fframwaith Dŵr (WFD) perthnasol [REP8-013]; 'Strategaeth Budd Net i Fioamrywiaeth' yr Ymgeisydd [REP8-024]; ac yn 'Arfarniad Opsiynau Croesfan Nant Alltami' yr Ymgeisydd [REP3-039].
- 5.3.29. Roedd y dewisiadau amgen a ystyriwyd ym Mhennod 4 yr ES (Ystyried Dewisiadau Amgen) [REP7-039] i osgoi, lleihau, a lleiafu effeithiau yn cynnwys:
- Llwybrau piblinell.
 - Dyluniadau piblinell.
 - Croesfannau piblinell.
 - Safleoedd amgen AGIau.
 - Safleoedd amgen Gorsafoedd Falfiau Bloc (BVSau).
 - Cyfadeiladau Adeiladu.

Lleoliadau Lletem Las/ Llain Las wrth ystyried dewisiadau amgen yn gyffredinol

- 5.3.30. Mae'r llwybr a ddewiswyd gan yr Ymgeisydd yn gyffredinol wedi ystyried dynodiad Lletem Las (yng Nghymru) a dynodiad Llain Las (yn Lloegr) o safbwyntiau polisi lleol a chenedlaethol.

- 5.3.31. O safbwynt polisi lleol, mae Polisi EN11 CDLI Sir y Fflint yn nodi y bydd datblygiad o fewn Lletemau Glas dynodedig yn cael ei ganiatáu dim ond ar gyfer defnyddiau penodol, fel anghenion menter wledig a gyfiawnheir, cyfleusterau hanfodol ar gyfer chwaraeon a hamdden awyr agored, a defnyddiau tir eraill sy'n cynnal natur agored y Lletem Las.
- 5.3.32. O fewn ardal weinyddol CWCC, mae Polisi STRAT 9 Lleiniau Glas a Chefn Gwlad yn nodi y dylid gwarchod cymeriad a harddwch cynhenid cefn gwlad Swydd Gaerlleon trwy gyfyngu ar ddatblygiad i hwnnw y mae angen iddo gael ei leoli yng nghan gwlad ac na ellir ei leoli o fewn aneddiadau a amlygwyd. Gellir caniatáu'r mathau canlynol o ddatblygiad yng nghefn gwlad:
- datblygiad y mae angen iddo gael ei leoli yng nghefn gwlad am resymau gweithredol, fel ar gyfer gweithrediadau amaethyddol neu goedwigaeth;
 - adeiladau cyfnewid;
 - cynlluniau arallgyfeirio gwledig/ fferm effaith isel ar raddfa fach sy'n briodol i'r safle, y lleoliad ac amgylchedd yr ardal;
 - ailddefnyddio adeiladau gwledig presennol, yn enwedig at ddibenion economaidd, lle y mae adeiladau o adeiladwaith parhaol ac y gellir eu haildefnyddio heb waith ailadeiladu mawr;
 - ymestyn adeiladau presennol i hwyluso twf busnesau sefydledig yn gymesur â natur a graddfa'r safle a'i lleoliad.
- 5.3.33. Ym mhob un o'r uchod, mae Polisi STRAT 9 yn nodi bod rhaid i ddatblygiad fod o raddfa a dyluniad priodol i beidio â niweidio cymeriad cefn gwlad. Bydd hyd a lled cyffredinol Llain Las Gogledd Swydd Gaerlleon yn cael ei gynnal. Er mwyn rhoi cyd-destun ychwanegol, mae Polisi 'STRAT 3 Caer' yn amlinellu'r bwriad i ryddhau Llain Las i fodloni anghenion datblygu Caer.
- 5.3.34. O ran agweddau ar y tir y Datblygiad Arfaethedig, byddai un AGI (Ince) a dwy BVS (Rock Bank a Mollington) wedi'u lleoli yn y Llain Las. O fewn ardal weinyddol FCC, byddai un BVS yn Aston Hill wedi'i lleoli o fewn Lletem Las.
- 5.3.35. Mae'r AGI yn Ince a'r BVSau yn strwythurau adeiledig sy'n hanfodol i weithredu'r Datblygiad Arfaethedig. O ganlyniad i'w graddfa a'u natur, ni fyddent yn gwarchod natur agored Llain Las Gorllewin Swydd Gaerlleon a Chaer, na natur agored y Lletem Las o fewn Sir y Fflint. Mae'r ExA yn cytuno y byddai agweddau ar y tir y Datblygiad Arfaethedig yn 'ddatblygiad amhriodol' yn nhermau polisi lleol a chenedlaethol yn yr ardaloedd hynny.
- 5.3.36. At hynny, o ganlyniad i natur linol llwybr y biblinell, dadleuodd yr Ymgeisydd er bod y Datblygiad Arfaethedig yn mynd trwy leoliadau Llain Las Swydd Gaerlleon a Lletemau Glas o fewn Sir y Fflint, gwneir hyn er mwyn osgoi aneddiadau, a gwrthdaro diangen â datblygiadau eraill.
- 5.3.37. Heblaw am yr agweddau ar y tir a amlygwyd, mae'r biblinell newydd ei hun yn torri trwy leoliadau Llain Las a Lletem Las hefyd. Mae'r ExA yn cydnabod bod agweddau o dan y tir y Datblygiad Arfaethedig yn gyfystyr

â gweithrediadau peirianegol, ond rhai nad oes ganddynt debygolrwydd realistig o leihau natur agored lleoliadau o'r fath. Felly, roedd yr ExA o'r farn bod elfen piblinell newydd y Datblygiad Arfaethedig ymhell o fewn terfynau polisi cenedlaethol Cymru a Lloegr ar gyfer ardaloedd dynodedig o'r fath.

- 5.3.38. Yn wir, mae'r ymagwedd hon yn gyson â chyngor cyffredinol ar gyfer cynlluniau piblinell nwy yn unol â pharagraff 5.10.12 NPS EN-1: "*Mae'n bosibl y gallai ymgeisydd ddangos nad yw seilwaith ynni o fath penodol, fel piblinell danddaear, y gellid ei hystyried yn "weithrediad peirianegol" yn hytrach nag adeilad, yn nhermau polisi Llain Las, yn ddatblygiad amhriodol yn amgylchiadau'r cais.*" Safbwynt yr ExA yw, heb wrthdaro â pholisi cenedlaethol sy'n deillio o TANau (a pholisi cenedlaethol arall perthnasol yng Nghymru), y gellir cymhwyso'r un syniad i leoliadau Lletem Las yng Nghymru.
- 5.3.39. Felly, derbyniodd yr ExA na fyddai'r piblinell newydd o dan y tir yn ddatblygiad amhriodol yn y Lletem Las a'r Llain Las. Nac ychwaith y gwaith adeiladu dros dro sy'n gysylltiedig â hi.
- 5.3.40. Felly, wrth asesu effeithiau elfennau amhriodol y Datblygiad Arfaethedig ar 'natur agored' lleoliadau Llain Las a Lletem Las, erys y ffaith bod rhaid i'r ExA wneud dyfarniad ar lefel yr effaith. Wrth lywio dyfarniad o'r fath, mae'r ExA yn cydnabod bod agweddau gofodol a gweledol yn gallu bod yn gysylltiedig ag effeithiau ar natur agored. Felly, mae'r ExA yn trafod goblygiadau gweledol cysylltiedig yn Adran 5.7 Tirwedd a Gweledol yr adroddiad hwn.
- 5.3.41. Er bod yr Ymgeisydd yn derbyn bod elfennau ar tir y Datblygiad Arfaethedig yn effeithio ar gymeriad agored y Llain Las a'r Lletem Las, maen nhw'n angenrheidiol i weithredu piblinell yn effeithlon ac yn ddiogel. O ganlyniad, mae'r Ymgeisydd yn dadlau nad yw presenoldeb yr elfennau hynny yn y Llain Las a'r Lletem Las yn gwrthdaro â dibenion dynodiadau o'r fath, fel yr amlinellir ym mharagraff 138 yr NPPF a pharagraff 3.74 PPW.
- 5.3.42. Er gwaethaf y safbwynt hwnnw, o ystyried yr effeithiau ar natur agored dynodiadau tir o'r fath sy'n deillio o'r AGIau a'r BVSau, mae angen i'r ExA ystyried p'un a oes unrhyw 'amgylchiadau arbennig iawn' (NPPF) ac 'amgylchiadau eithriadol iawn' (PPW) yn bodoli a fyddai'n drech na'r niwed i'r Llain Las a'r Lletem Las.
- 5.3.43. Mae'r ExA yn amlygu nad oedd FCC a CWCC wedi gwrthwynebu'r achosion 'amgylchiadau arbennig iawn/ amgylchiadau eithriadol iawn' a wnaed o blaid Cymru a Lloegr yn y Datganiad Cynllunio [REP4-022] yn ystod yr Archwiliad.
- 5.3.44. Felly, yn yr adroddiad argymhelliad hwn, mae'r ExA yn ymdrin â'r ddadl amgylchiadau arbennig/ eithriadol iawn ym Mhennod 7, ar ôl ystyried yr holl faterion gweddilliol. Wrth wneud hynny, mae'r ExA yn cytuno â'r achos a wnaed gan yr Ymgeisydd, ar sail angen y gellir ei ddangos yn bennaf.

- 5.3.45. At hynny, cyn i'r ExA ddod i gasgliad o'r fath, ystyriodd yr Asesiad o'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd sy'n ystyried sefydlu plannu lliniarol i sicrhau bod effeithiau gweledol arwyddocaol yn cael eu lleihau. Mae'r ExA yn asesu effeithiau ar y dirwedd ac effeithiau gweledol yn fanylach yn Adran 5.7 y Bennod hon o'r adroddiad argymhelliad, ac mae ystyriaethau o'r fath yn rhan o'r achos amgylchiadau arbennig/ eithriadol iawn cyffredinol y cyflwynodd yr Ymgeisydd dystiolaeth ohono.

CASGLIAD YR EXA

- 5.3.46. Mae'r ExA yn cytuno bod cryn ansicrwydd yn ymwneud â dibynnu ar ddatrysiadau seiliedig ar natur yn unig ar gyfer CCS fel dewis amgen tybiannol. Ar eu pen eu hunain, neu hyd yn oed wedi'u cyfuno â mathau eraill o dechnoleg allyrru carbon isel a storio carbon sy'n dod i'r amlwg yn yr economi ehangach, nid oes sicrwydd y byddai ymagwedd o'r fath yn llwyddiannus. O ystyried yr ansicrwydd amlwg sy'n gysylltiedig, nid oes tystiolaeth gref na chymhellol y byddai'r opsiwn gwneud dim byd yn ddewis amgen llwyddiannus yn lle'r Datblygiad Arfaethedig.
- 5.3.47. Yn gysylltiedig â chanfyddiadau'r ExA ynglŷn â dewisiadau amgen yw achos angen sylfaenol yr Ymgeisydd, lle mae sail resymegol y strategaeth ategol a ddangoswyd yn amlinellu llwybr clir tuag at helpu'r DU i gyflawni ei hymrwymyiadau sero net. Yn unol â hynny, mae'r ExA yn derbyn na fyddai'r llinell sylfaen gwneud dim byd yn opsiwn realistig o ystyried nodau cyfrwymol y DU i gyflawni sero net erbyn 2050.
- 5.3.48. O ran opsiynau llwybr amgen eraill y cyfeiriwyd atynt yn [AS-064], mae'r ExA yn derbyn bod costau ac amseriadau adeiladu tebygol yr Ymgeisydd er mwyn i lwybr y prosiect fod yn hyfyw, ochr yn ochr â newidynnau eraill fel meini prawf dynodiad tir a llwyddiant mesurau lliniaru amgylcheddol cysylltiedig, yn allweddol i asesu p'un a yw dewisiadau amgen yn debygol o fod yn ymarferol.
- 5.3.49. Yn bwysig, mae'r Ymgeisydd yn amlinellu'n fanwl yn ei ES yr egwyddorion troswaol lefel uchel ar gyfer sut y lluniwyd y rhestr fer ar gyfer y coridor llwybr terfynol ac y penderfynwyd arno yn y pen draw. Mae hyn yn cynnig cyd-destun digon clir ac argyhoeddiadol i'r ExA fod dewisiadau amgen wedi cael eu diystyru'n briodol o'r arfarniadau cychwynol a wnaed.
- 5.3.50. O ganlyniad, o ystyried technegau arfarnu ac egwyddorion arweiniol troswaol yr Ymgeisydd, nid oes sail gref i gasglu y byddai unrhyw lwybr amgen arall na aseswyd gan yr ES yn cynnig canlyniad amgylcheddol gwell yn gyffredinol.
- 5.3.51. Mae'r ExA yn cytuno nad oes dewisiadau amgen hyfyw sy'n fwy addas na'r Datblygiad Arfaethedig wedi'u dangos mewn senario 'gwneud dim byd'. At hynny, mae'r ExA o'r farn na chyflwynwyd dewisiadau amgen hyfyw yn lle'r llwybr a ffefrir a fyddai'n cynnig opsiwn mwy realistig neu sylweddol fwy ffafriol yn nhermau amgylcheddol, o ystyried yr holl

ddynodiadau tir a'r ystod o asedau naturiol a ffisegol eraill sy'n gysylltiedig. Mae achos yr Ymgeisydd yn gadarn ac yn gymhellol.

- 5.3.52. Yn rhan o'r asesiad o ddewisiadau amgen a wnaed, mae'r ExA yn cytuno bod y llwybr a ddewiswyd gan yr Ymgeisydd wedi rhoi ystyriaeth briodol i ddynodiad Lletem Las (yng Nghymru) a Llain Las (yn Lloegr). O ran agweddau ar y tir, byddai un AGI (Ince) a dwy BVS (Rock Bank a Mollington) wedi'u lleoli yn y Llain Las. O fewn ardal weinyddol FCC, byddai un BVS yn Aston Hill wedi'i lleoli o fewn Lletem Las. Mae'r AGI yn Ince a'r BVSau yn strwythurau adeiledig sy'n hanfodol i weithredu'r Datblygiad Arfaethedig. O ganlyniad i'w graddfa a'u natur ffisegol wedi'i pheiriannu, ni fyddent yn gwarchod natur agored Llain Las Gorllewin Swydd Gaerlleon a Chaer, na natur agored y Lletem Las o fewn Sir y Fflint.
- 5.3.53. Yn unol â hynny, daw'r ExA i'r casgliad y byddai'r agweddau ar y tir hynny o'r Datblygiad Arfaethedig yn 'ddatblygiad amhriodol' yn nhermau polisi lleol a chenedlaethol yn yr ardaloedd penodol hynny. Er hynny, mae'r achos amgylchiadau arbennig iawn trosfwaol a amlygwyd gan yr Ymgeisydd yn bwysig, ac felly mae'r ExA yn cynnal ymarfer cydbwysu ym Mhennod 7 ar gyfer yr agwedd hon. Mae'r ExA yn priodoli pwys mawr iawn i niwed sy'n deillio o amhriodoldeb yn y Llain Las a'r Lletem Las, gan gynnwys dibenion cynnwys tir o fewn y dynodiadau hynny, yn unol â'r cyngor yn NPS EN-1.
- 5.3.54. At ei gilydd, daw'r ExA i'r casgliad fod yr Ymgeisydd wedi cynnal asesiad digonol a chymesur o ddewisiadau amgen sy'n rhychwantu Cymru a Lloegr. At hynny, mae'r ExA yn derbyn bod yr achos angen sylfaenol a wnaed gan yr Ymgeisydd yn gymhellol ac yn pwysu'n fawr iawn o blaid caniatáu'r DCO.

5.4. GWRTHSEFYLL Y NEWID YN YR HINSAWDD POLISI

- 5.4.1. O gofio bod rhywfaint o'r ddeddfwriaeth a'r polisiâu y mae'r ExA eisoes wedi manylu arnynt ym Mhennod 3 yn ffactorau i fesur y cais yn eu herbyn, mae Pennod 10 yr ES, Nwyon Tŷ Gwydr Diwygiad C [REP7-048] – Adran 10.2 yn cyfeirio at ysgogiadau deddfwriaethol a pholisi penodol yn ymwneud â gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd a ystyriwyd gan yr ExA.
- 5.4.2. I'r perwyl hwnnw, mae PPW yn cyfeirio at "*bolisiau cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru*" gyda'r nod o "*sicrhau bod y system gynllunio'n cyfrannu tuag at gyflawni datblygu cynaliadwy ac yn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru*". O gymharu, yn Lloegr, mae'r NPPF yn amlinellu'r egwyddor gynllunio graidd, sef cefnogi'r "*newid i ddyfodol carbon isel mewn hinsawdd sy'n newid...*"
- 5.4.3. Ar lefel sirol, mae Strategaeth Newid Hinsawdd 2022-2030 FCC yn annog yn weithredol buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy, buddsoddi mewn seilwaith gwefru trydan, gweithio gyda chyflenwyr i ddatblygu arferion

carbon niwtral, a datblygu dulliau amsugno carbon a gwella cynefinoedd. Mae'r Cyngor hefyd yn amlinellu ei gynlluniau i integreiddio ystyried cynaliadwyedd yn ei benderfyniadau a lleihau effaith amgylcheddol caffael trwy brosesau caffael cynaliadwy. Mae Polisiâu EN13 (Datblygu Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel); STR14 (Newid yn yr Hinsawdd a Diogelu'r Amgylchedd) a PC4 (Cynaliadwyedd a Chydnerthedd) CDLI Sir y Fflint i gyd yn cefnogi mynd i'r afael â phroblemau'r newid yn yr hinsawdd er mwyn sicrhau rhanbarth mwy cydnerth.

- 5.4.4. Yn yr un modd, mae Cynllun Ymateb i'r Argyfwng Hinsawdd Gorllewin Swydd Gaerlleon a Chaer (2021) yn datgan bod argyfwng hinsawdd, a bod y Cynllun yn gosod y cyfeiriad strategol er mwyn i'r Cyngor flaenoriaethu'r newid yn yr hinsawdd a chyflawni niwtraliaeth garbon erbyn 2045. Mae'r Cynllun yn amlinellu'r camau y bydd y Cyngor yn eu cymryd i ymateb i'r argyfwng hinsawdd a'i drywydd posibl yn ystod y cyfnod 2020-2045.

ACHOS YR YMGEISYDD

- 5.4.5. Y tu hwnt i'r gofynion sero net, mae gweddill yr achos technegol a wnaed gan yr Ymgeisydd yn yr ES a gyflwynwyd yn canolbwyntio ar 'fesurau gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd'. Mae'r mesurau gwrthsefyll hynny'n deillio o asesiad bregusrwydd sy'n cyfeirio at effaith y newid yn yr hinsawdd ar y Datblygiad Arfaethedig (yn hytrach nag effaith y Datblygiad Arfaethedig ar yr amgylchedd).
- 5.4.6. Defnyddiwyd Rhagolygon Hinsawdd y DU 2018 i dybio newidiadau yn y dyfodol i ystod o newidynnau hinsawdd a allai effeithio ar allu'r Datblygiad Arfaethedig i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd.
- 5.4.7. Oherwydd y newidynnau hynny, mae'r Ymgeisydd yn derbyn bod ansicrwydd cynhenid yn gysylltiedig â rhagolygon hinsawdd ac nad ydynt yn rhagfynegiadau o'r dyfodol. Mae'n cydnabod ei bod yn bosibl y bydd yr hinsawdd yn y dyfodol yn wahanol i'r hinsawdd sylfaenol yn y dyfodol yr aseswyd cydnerthedd y Datblygiad Arfaethedig yn ei herbyn, yn dibynnu ar allyriadau byd-eang yn ystod y ganrif nesaf. Felly, mae'r Ymgeisydd wedi defnyddio ymagwedd ragofalus (h.y. y senario 'achos gwaethaf') ar gyfer tir o fewn rhanbarth Cymru a'r Gogledd-orllewin.
- 5.4.8. Yn ystod gweithredu, y brif risg yw pridd yn crebachu ac yn cracio gan arwain at ansefydlogi'r tir. Dywedir y bydd ymchwiliadau tir ychwanegol yn cael eu cynnal, gan gynnwys arolygon sefydlogrwydd tir (yn ymestyn i samplu dŵr daear), yn ystod y cyfnod cyn-adeiladu i bennu unrhyw risgiau sefydlogrwydd tir sy'n codi a mynd i'r afael â nhw.
- 5.4.9. Yn ystod y cam datgomisiynu, perygl llifogydd a chynnydd mewn tymheredd amgylcheddol gan arwain at risgiau tân a goblygiadau diogelwch yw'r prif faterion arwyddocaol y byddai angen eu rheoli'n ddigonol yn y dyfodol. O ganlyniad, mae Cynllun Rheoli Amgylcheddol Datgomisiynu wedi'i gynnwys fel Gofyniad (R) yn y DCO drafft (dDCO) i liniaru'r materion diwedd oes weithredol hyn.

- 5.4.10. Disgwylir i gam gweithredol y Datblygiad Arfaethedig bara am 25 mlynedd (hyd at 2050) ac mae'r biblinell ei hun wedi'i dylunio ar gyfer rychwant oes 40 mlynedd. Y sail i rychwant oes weithredol y Datblygiad Arfaethedig yn yr ES yw 25 mlynedd ac mae'r ES yn cadarnhau y caiff ei ddatgomiynu pan fydd yn peidio â bod yn weithredol mwyach ac yn cyrraedd diwedd ei oes ddefnyddiol (Pennod 3 yr ES [REP7-036] paragraff 3.8.1). Mae'r gwaith datgomiynu a ddisgwylir gan yr Ymgeisydd yn y pen draw yn cynnwys symud yr AGIau a'r BVSau ymaith, tra nodir y bydd y biblinell CO₂ newydd a phiblinell bresennol Cysylltiad y Fflint i Derfynell PoA yn cael eu gadael yn eu lle.
- 5.4.11. Er bod y cyfnod adeiladu wedi cael ei hepgor o asesiad yr Ymgeisydd o ganlyniad i'w raddfa amser fer a'i freguster isel i'r newid yn yr hinsawdd, tybiwyd y bydd datgomiynu'n digwydd ar ôl 2050, pryd y gallai rhagfynegiadau'r newid yn yr hinsawdd fod yn fwy eithafol.
- 5.4.12. Yn ystod gweithredu, byddai monitro'n cael ei wneud trwy amserlen o archwiliadau cyffredinol o AGIau/BVSau a fyddai'n amlygu unrhyw ofynion cynnal a chadw posibl. Byddai digwyddiadau cysylltiedig â thywydd eithafol yn cael eu monitro hefyd a byddai unrhyw waith cynnal a chadw angenrheidiol yn cael ei wneud yn dilyn digwyddiadau o'r fath. Nodir hyn yn y Gofrestr Camau Gweithredu ac Ymrwymiadau Amgylcheddol (REAC) Diwygiad H [REP7-236] a gyflwynwyd.
- 5.4.13. At hynny, bydd Cynllun Rheoli Amgylcheddol Gweithrediadau a Chynnal a Chadw Amlinellol (diweddarwyd y fersiwn amlinellol fesul cam hyd at Ddiwygiad D erbyn Terfyn Amser (DL) 7) [REP7-271] yn cael ei sicrhau fel Gofyniad yn y dDCO a ffefrir gan yr Ymgeisydd.

SAFBWYNTIAU PARTÏON Â BUDDIANT

- 5.4.14. Roedd FCC a CWCC yn fodlon at ei gilydd ar y mesurau monitro a lliniaru a gynigiwyd gan yr Ymgeisydd i sicrhau bod y Datblygiad Arfaethedig yn gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd yn foddhaol yng Nghymru a Lloegr yn ystod y camau adeiladu, gweithredu, a diwedd oes.
- 5.4.15. Amlygodd sylwadau ehangach gan IPau yn ystod yr Archwiliad rai pryderon ynglŷn â diogelwch yn ystod y camau gweithredol a datgomiynu. Fodd bynnag, ni amlygodd ymgylgoreion statudol bryderon technegol penodol neu anoresgynnol.
- 5.4.16. Er enghraifft, dywedodd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) [REP8-045] fod gan weithredwyr piblinell ddyletswyddau o dan y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith i leihau risgiau i gyflogeion a'r cyhoedd, gan gynnwys sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli'n briodol. Cynghorodd yr HSE ei fod yn rheoleiddio piblinellau trwy Reoliadau Diogelwch Piblinellau 1996 (PSR) sy'n berthnasol i'r holl biblinellau ym Mhrydain Fawr, a'r holl biblinellau yn nyfroedd tiriogaethol ac Ysgafell Gyfandirol y DU (gyda rhai eithriadau cyfyngedig). Mae'n ofynnol i weithredwyr piblinellau gydymffurfio â'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau cyffredinol a amlinellir yn y PSR, yn ogystal â dyletswyddau ychwanegol os ydynt yn gweithredu Piblinell Perygl Damwain Fawr (MAHP).

5.4.17. Mae MAHP yn un sy'n cludo neu y bwriedir iddi gludo 'hylif peryglus' sydd wedi'i nodi yn Atodlen 2 y PSR. Wrth ymateb i gwestiynau'r ExA, cofnododd yr HSE trwy [REP7-314] nad yw cludo CO₂, fel y bwriedir gan y Datblygiad Arfaethedig, yn gyfystyr ar hyn o bryd â chludo hylif peryglus fel y'i diffinnir yn y PSR; ac ni fyddai'r biblinell arfaethedig yn cael ei dosbarthu'n MAHP o dan y ddeddfwriaeth bresennol.

ARCHWILIAD

5.4.18. Cydnabu'r ExA drwy gydol yr Archwiliad fod dadleuon achos angen dyfnach i'w hystyried wrth asesu materion yn ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd. Felly, roedd yr ExA o'r farn ei bod yn briodol gwahanu buddion newid yn yr hinsawdd yr achos angen oddi wrth y dadleuon gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd a wnaed gan yr Ymgeisydd. Mae lleoliad y biblinell o dan y tir yn cyfyngu ar yr hyn y mae angen ei ystyried wrth asesu mesurau cydnerthedd. Felly, oherwydd hynny, defnyddiodd yr ExA ddull cymesur o asesu achos yr Ymgeisydd.

5.4.19. Roedd yr ExA hefyd o'r farn bod mesurau lliniaru bioamrywiaeth ac ecolegol yn rhan o'r pecyn cydnerthedd cyflawn i'w asesu yn y pen draw. O ganlyniad, canolbwyntiodd llawer o brif elfennau'r Archwiliad ar y ddarpariaeth honno.

5.4.20. Yn y cyd-destun hwnnw, yn ystod yr Archwiliad, nododd yr ExA fod Pennod 10 yr ES (Nwyon Tŷ Gwydr) [REP7-048] ym mharagraff 10.9.3 yn amcangyfrif bod yr allyriadau GHG sy'n codi o garbon ymgorfforedig, cludo deunyddiau adeiladu, cludo a gwaredu gwastraff, a defnyddio peiriannau yn gyfystyr ag oddeutu 81,328 o dunelli o CO₂ cyfatebol (tCO_{2e}). Yn ystod gweithredu, mae gan allyriadau GHG werth negyddol, sef -61,247 tCO_{2e}. Mae'r Ymgeisydd yn cyfeirio at hyn fel effaith gadarnhaol.

5.4.21. Mae Pennod 10 yr ES (Nwyon Tŷ Gwydr) [REP7048] ym mharagraff 10.9.16 yn amlinellu yr amcangyfrifir y bydd yr allyriadau GHG sy'n codi o ddatgomisiynu'r Datblygiad Arfaethedig ar ddiwedd ei oes yn gyfystyr ag oddeutu 11,765 tCO_{2e}.

5.4.22. Mae'r Ymgeisydd wedi amlinellu ystod o fesurau lliniaru a gwelliannau i leihau GHG, sydd wedi'u cofnodi yn y REAC a gyflwynwyd. Mae hyn yn cynnwys darpariaethau ar gyfer:

- osgoi gwastraff;
- caffael a rheoli cadwyni cyflenwi yn ddeallus gan ddefnyddio sianeli lleol;
- peiriannau a thechnegau adeiladu carbon effeithlon;
- cyfleoedd i sicrhau ynni gan gyflenwyr ynni glân.

Yn dilyn cwestiynau ynglŷn â thechnegau adeiladu sy'n ymwneud â rheoli tarfu ar bridd, roedd yr ExA yn fodlon ar y darpariaethau hyn at ei gilydd.

CASGLIAD YR EXA

- 5.4.23. O ran effeithiau GHG uniongyrchol, mae'r ExA yn cytuno bod deddfwriaeth a pholisïau priodol wedi cael eu hasesu yng Nghymru a Lloegr fel y cofnodwyd ym Mhennod 10 yr ES [REP7-048], a bod yr ES ehangach wedi cael ei ystyried yn ei gyfanrwydd. Mae'r ExA hefyd yn canfod:
- Y byddai effaith GHG niweidiol fach yn unig yn ystod adeiladu, fel y casglwyd ym Mhennod 10 yr ES (Nwyon Tŷ Gwydr) [REP7-048], na fyddai'n arwyddocaol.
 - Byddai gweithredu'r datblygiad, gan gynnwys yr allyriadau a fyddai'n cael eu hosgoi a gesglir o'r gweithfeydd sy'n bwydo i system biblinell y DCO yn rhan o'r Prosiect, yn fuddiol iawn.
 - Mae'n debygol y bydd effaith GHG niweidiol fach yn ystod y cam datgomisiynu. Fodd bynnag, ni ystyrir y byddai'n arwyddocaol o safbwynt EIA.
- 5.4.24. O ran goblygiadau i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol, mae'r ExA yn canfod y defnyddiwyd llinell sylfaen briodol yn ES yr Ymgeisydd i asesu'r gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd yng Nghymru a Lloegr, h.y. senarios achos gwaethaf, o ystyried yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig â chadw at ragfynegiadau patrymau'r tywydd yn y dyfodol.
- 5.4.25. At hynny, mae'r ExA yn cydnabod y dylai materion yn ymwneud â gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd, yn eu hystyr lawnaf, dderbyn sylw trwy ystyried manyleb y mesurau lliniaru bioamrywiaeth ac ecolegol a gynigir. O ystyried y gorgyffyrddiad, ymdrinnir yn llawn â chanfyddiadau allweddol yr ExA ynglŷn â'r elfen honno yn Adran 5.5 y Bennod hon.
- 5.4.26. Er hynny, o ran yr elfennau anorganig wedi'u peiriannu o'r Datblygiad Arfaethedig, daw'r ExA i'r casgliad fod y mesurau monitro a lliniaru a gynigiwyd yn y REAC (a esblygodd yn raddol hyd at Ddiwygiad H [REP7-236], a gyflwynwyd erbyn DL7); ac yn y Cynllun Rheoli Amgylcheddol Gweithrediadau a Chynnal a Chadw Amlinellol [REP7-271], o'u darllen ochr yn ochr â darpariaethau'r DCO gyda'i gilydd, yn gyfystyr â lefelau priodol o ddarpariaeth i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd o ystyried senarios newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol.
- 5.4.27. O ystyried yr optimeiddio dylunio gan yr Ymgeisydd trwy ficroleoli yn ystod y camau manylach, ochr yn ochr â'r mesurau lliniaru y rhoddwyd tystiolaeth ohonynt, mae'r ExA yn cydnabod y byddai allyriadau adeiladu'n cael eu lleihau cyn belled ag y bo'n bosibl. Ni fyddai unrhyw effeithiau arwyddocaol yn ystod y cam adeiladu oherwydd y ffactorau hynny.
- 5.4.28. Daw'r ExA i'r casgliad:
- Fod breguster y Datblygiad Arfaethedig i newidiadau rhagfynedig i'r hinsawdd yn ystod gweithredu wedi cael ei asesu'n ddigonol gan yr ES. Yn amodol ar y Gofynion a nodir yn y dDCO, byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn gydnerth. Felly, nid oes gwrthdaro â pholisïau cynllun datblygu cenedlaethol, rhanbarthol, na lleol mabwysiedig. Byddai'n cydymffurfio â'r holl bolisiau perthnasol ar gyfer Cymru a Lloegr.

- Yn gyffredinol, o ran effeithiau newid yn yr hinsawdd, mae'r ExA yn canfod nad oes unrhyw Effeithiau Arwyddocaol Tebygol (LSE) sy'n pwysu yn erbyn gwneud y DCO. Yn lle hynny, byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn darparu buddion sero net mawr iawn i'r DU, fel y manylir yn achos angen yr Ymgeisydd, sy'n pwysu'n sylweddol o blaid y datblygiad.
- At hynny, daw'r ExA i'r casgliad y byddai'r goblygiadau gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd ar gyfer effeithiau adeiladu, gweithredu, a datgomisiynu'r elfennau anorganig wedi'u peiriannu o'r Datblygiad Arfaethedig yn arwain at effaith niwtral o ystyried y mesurau lliniaru a monitro sydd ar gael. Yn unol â hynny, nid yw'r materion penodol hynny sy'n ymwneud â gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd yn pwysu o blaid nac yn erbyn caniatáu'r DCO.

5.5. BIOAMRYWIAETH, ECOLEG A CHADWRAETH NATUR POLISI

- 5.5.1. Mae Pennod 9 yr ES [REP7-046] yn Adran 9.2 yn amlinellu'r ddeddfwriaeth a'r polisiâu mwyaf perthnasol yr ymdriniwyd â nhw gan yr ES ar lefel genedlaethol, ranbarthol, a lleol ar gyfer Cymru a Lloegr. Mae'r ExA yn cyfeirio'n uniongyrchol at y darpariaethau hynny yn ogystal â chynnwys polisi a deddfwriaethol perthnasol a restrir ym Mhennod 3 yr adroddiad hwn.
- 5.5.2. Ar lefel genedlaethol, mae PPW yn datgan "*rhaid i awdurdodau cynllunio geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau. Mae hyn yn golygu na ddylai unrhyw ddatblygiad beri colled sylweddol o ran cynefinoedd neu boblogaethau rhywogaethau, yn lleol nac yn genedlaethol a rhaid i'r datblygiad weithio ochr yn ochr â natur a bod o fantais net i fioamrywiaeth*".
- 5.5.3. Mae NPPF yn argymhell "*y dylai'r system gynllunio gyfrannu at yr amgylchedd cenedlaethol a lleol a'i wella trwy leihau effeithiau ar fioamrywiaeth i'r eithaf a darparu buddion net i fioamrywiaeth lle y bo'n bosibl, gan gyfrannu at ymrwymiad y Llywodraeth i atal y dirywiad cyffredinol mewn bioamrywiaeth, gan gynnwys trwy sefydlu rhwydweithiau ecolegol cydlynol sy'n gallu gwrthsefyll pwysau presennol ac yn y dyfodol yn well*".
- 5.5.4. Mae NPS EN-1 ac NPS EN-4, yn ogystal â'r dNPSau sy'n dod i'r amlwg (dNPS EN-1 a dNPS EN-4), yn cynnwys hyrwyddo cyfleoedd i ymgorffori nodweddion sy'n fuddiol i fioamrywiaeth o fewn dyluniad y datblygiad, gan sicrhau bod buddiannau cadwraeth bioamrywiaeth a daearegol yn cael eu gwarchod a'u gwella a sicrhau bod mesurau lliniaru priodol yn cael eu rhoi ar waith pan fo'r angen.
- 5.5.5. Ar lefel sirol a lleol, mae Polisiâu canlynol CDLI FCC: STR13 Yr Amgylchedd Naturiol ac Adeiledig, Rhwydweithiau Gwyrdd a Seilwaith; EN6 Safleoedd o Bwysigrwydd Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth; EN7 Datblygiad sy'n Effeithio ar Goed, Coetiroedd a Gwrychoedd; ac EN11 Lletemau Glas oll yn berthnasol i'r Archwiliad. Mae'r polisiâu hyn, ochr yn ochr â Chynllun Bioamrywiaeth FCC 'Cefnogi Natur yn Sir y Fflint 2020-

2023' a Pholisi ENV4 Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth CDLI 2015 – 2030 CWCC, oll yn annog diogelu a gwella bioamrywiaeth.

- 5.5.6. Roedd y pwyslais nodedig ar goetir hynafol a choed hynod mewn polisiau lleol a chenedlaethol yn nodwedd bwysig o'r Archwiliad. Yn hynny o beth, mae NPS EN-1, ynghyd â dNPS EN-1, yn cynghori bod coetir hynafol yn adnodd bioamrywiaeth gwerthfawr ar gyfer ei rywogaethau amrywiol a'i hirhoedledd fel coetir. Ni ellir ei ail-greu ar ôl ei golli. Mae polisiau cenedlaethol yng Nghymru a gefnogir gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn nodi rhywbeth tebyg. Mae'n cydnabod gwerth uchel coetir hynafol a'i bwysigrwydd diwylliannol ac yn nodi y dylid gwrthod rhoi caniatâd ar gyfer symud coed hynafol a hynod ymaith.
- 5.5.7. Felly, safbwynt polisi cyfunol y DU yn genedlaethol (ar gyfer Cymru a Lloegr) ac yn lleol yw na ddylai'r SoS roi caniatâd datblygu ar gyfer unrhyw ddatblygiad a fyddai'n arwain at golli neu ddirywio coed hynafol a choed hynod oni bai bod buddion y datblygiad (gan gynnwys yr angen amdano) yn y lleoliad hwnnw'n amlwg yn drech na cholli'r cynefin coetir.
- 5.5.8. Mae coed hen neu 'hynod' y tu allan i goetir hynafol yn arbennig o werthfawr ar gyfer bioamrywiaeth hefyd a dylid osgoi eu colli. Pan fyddai cynigion datblygu'n effeithio ar goed o'r fath, dylai'r Ymgeisydd amlinellu cynigion ar gyfer eu gwarchod neu, os na ellir osgoi eu colli, y rhesymau pam.

ACHOS YR YMGEISYDD

- 5.5.9. Mae Pennod 9 yr ES (Bioamrywiaeth) Diwygiad D [REP7-046] yn amlinellu prif agweddau achos yr Ymgeisydd. Ym mharagraff 9.3.2, mae Tabl 9.1 yn crynhoi'r ymgynghoriad a gynhaliwyd i lywio'r asesiad bioamrywiaeth. Mae'r materion na ystyriwyd eu bod yn arwain at LSE o'r Datblygiad Arfaethedig ac a hepgorwyd o'r asesiad wedi'u nodi yn Nhabl 9.2.
- 5.5.10. Gwelir tystiolaeth o'r llinell sylfaen fioamrywiaeth trwy gyfuniad o astudiaethau desg ac arolygon maes. Datblygwyd yr ardaloedd astudio a ddefnyddiwyd i lywio'r EIA yn seiliedig ar Barthau Dylanwad tebygol y Datblygiad Arfaethedig, yn ystod adeiladu, gweithredu a datgomisiynu, a'i botensial i arwain at effeithiau arwyddocaol ar nodweddion ecolegol perthnasol.
- 5.5.11. Er mwyn nodweddu effeithiau'r Datblygiad Arfaethedig ar dderbynyddion ecolegol, priodolir lefel pwysigrwydd cadwraeth natur i bob ecosystem, cynefin a rhywogaeth yn seiliedig ar feini prawf a fanylir yng Nghanllawiau'r Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheoli Amgylcheddol (CIEEM), fel y manylir yn Nhabl 9.4 [REP7-046]. Yna, mae Tabl 9.5 yn priodoli lefelau categori arwyddocâd, yn unol â Chanllawiau CIEEM unwaith eto.
- 5.5.12. Mae Tablau 9.6 a 9.7 Pennod 9 yr ES yn manylu ar yr amodau sylfaenol gwirioneddol. Mae'r rheiny'n cydnabod safleoedd a ddynodwyd yn rhyngwladol sydd wedi'u cofnodi o fewn 10km o'r Ffin Seilwaith Newydd, yn cynnwys pum Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA), dwy Ardal

Gwarchodaeth Arbennig (AGA) a phedwar safle Ramsar. Amlygwyd deuddeg safle a ddynodwyd yn genedlaethol o fewn 2km o'r Ffin Seilwaith Newydd, yn cynnwys un ar ddeg Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ac un Warchodfa Natur Leol (GNL). Amlygwyd deunaw ar hugain o safleoedd dynodedig anstatudol o fewn 1km o'r Ffin Seilwaith Newydd, yn cynnwys tri ar hugain o safleoedd bywyd gwylt lleol yn Lloegr a phymtheg safle bywyd gwylt yng Nghymru.

- 5.5.13. Mae Tabl 9.10 [REP7-046] yn amlinellu ystod o fesurau lliniaru ymgorfforedig a ddyluniwyd ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig. Darparwyd asesiad o effeithiau tebygol y Datblygiad Arfaethedig yn ystod y camau adeiladu a gweithredol hefyd, ar ôl gweithredu'r mesurau ymgorfforedig a heb fesurau lliniaru eilaidd.
- 5.5.14. Amlinellir yr LSE rhagfynedig ar gyfer Bioamrywiaeth sy'n gysylltiedig â'r 'cam adeiladu', heb fesurau lliniaru eilaidd, yn Nhabl 9.11 Pennod 9 yr ES (Bioamrywiaeth) [REP7-046]. Mae'r ES yn asesu bod y rhain yn niweidiol cymedrol neu'n sylweddol ar gyfer ystod o gynefinoedd a rhywogaethau.
- 5.5.15. Bydd adeiladu'r Datblygiad Arfaethedig yn arwain at golli cynefinoedd, y byddai mesurau lliniaru a digolledu'n cael eu darparu ar eu cyfer.
- 5.5.16. Mae Pennod 9 yr ES (Bioamrywiaeth) [REP7-046] yn Nhabl 9.12 yn amlinellu manylion mesurau lliniaru eilaidd a digolledu a ddatblygwyd ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig, yn ymwneud ag ecoleg yn ystod y cam adeiladu. Ni ystyrir bod angen unrhyw fesurau lliniaru neu wella ychwanegol gan yr Ymgeisydd yn ystod y 'cam gweithredol' oherwydd bod y rhain wedi cael eu cynnwys yn y mesurau lliniaru ymgorfforedig.
- 5.5.17. Amlinellir effeithiau gweddilliol ar ôl lliniaru a digolledu arfaethedig ym Mhennod 9 yr ES yn Nhabl 9.13, a nodir effeithiau cyn lliniaru yn Nhabl 9.11. Mae'r Ymgeisydd yn asesu bod yr effeithiau gweddilliol ar ôl lliniaru naill ai'n ddibwys neu heb fod yn arwyddocaol yn ystod y camau adeiladu, gweithredol, a datgomisiynu. Mae'r Cynllun Lliniaru Tirwedd ac Ecolegol (LEMP), Diwygiad C [REP7-191] a gyflwynwyd yn rhan o'r pecyn lliniaru a digolledu cyffredinol y cyfeiriwyd ato gan yr Ymgeisydd, ac felly hefyd y Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecolegol Amlinellol, Diwygiad B (OLEMP) [REP7-251].
- 5.5.18. O ran asesiad penodol o effeithiau ar goed, mae'r Ymgeisydd yn cydnabod y bydd angen colli coed (coed unigol a'r rhai hynny o goetiroedd) er mwyn hwyluso'r gwaith adeiladu. Yn hynny o beth, defnyddiwyd ymagwedd senario achos gwaethaf i asesu coed/ coetiroedd yr ystyrir eu bod 'mewn perygl' o'u symud ymaith. Mae Atodiad 9.11 yr ES – Adroddiad Asesiad o'r Effaith ar Goedyddiaeth, Diwygiad D [REP7-107] yn rhoi'r sefyllfa fwyaf cyfredol yn dilyn cyfres o geisiadau i wneud newidiadau a dderbyniwyd gan yr ExA.
- 5.5.19. Asesir y bydd effeithiau sy'n codi yn ystod cam gweithredol y Datblygiad Arfaethedig o arwyddocâd dibwys (neu heb fod yn arwyddocaol). At hynny, asesir y bydd effeithiau ar dderbynyddion ecolegol yn ystod datgomisiynu o arwyddocâd dibwys (heb fod yn arwyddocaol).

- 5.5.20. Mae'r Ymgeisydd yn cyflwyno'r ddadl sylfaenol y byddai cyfleoedd gwella bioamrywiaeth yn cael eu hystyried ymhellach yn ystod y cam dylunio manwl, sydd wedi'i gynnwys fel ymrwymiad yn ei REAC a gyflwynwyd.
- 5.5.21. Er mwyn rhoi cyd-destun ychwanegol, mae'r Ymgeisydd yn nodi bod y Llywodraeth yn bwriadu i'r gofyniad Budd Net i Fioamrywiaeth (BNG) a gyflwynwyd yn wreiddiol gan Ddeddf yr Amgylchedd 2021 fod yn gymwys yn y pen draw i'r holl brosiectau seilwaith daearol, neu elfennau daearol o brosiectau, a dderbynnir i'w harchwilio gan yr Arolygiaeth Gynllunio trwy'r gyfundrefn NSIP erbyn mis Tachwedd 2025 (yn amodol ar ddarpariaethau'r NPSau perthnasol neu ddatganiad budd net i fioamrywiaeth). Ni fyddai'n ofynnol i brosiectau a dderbynnir i'w harchwilio cyn y dyddiad dechrau penodedig gyflawni BNG gorfodol. Er hynny, mae'r Ymgeisydd wedi cyflwyno strategaeth BNG a ddatblygwyd yn ystod yr Archwiliad sy'n ymdrin â Chymru a Lloegr yn rhan o'i achos cyffredinol.
- 5.5.22. O ran ystyriaethau penodol gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd yn ymwneud â bioamrywiaeth ac ecoleg, mae'r Ymgeisydd yn amlygu y rhagfynegir y bydd yr ardal leol yn gweld gaeafau gwlypach a hafau sychach, gyda thebygolrwydd uwch o ddigwyddiadau eithafol fel sychder a stormydd. Disgwylir i dymheredd yr haf a'r gaeaf godi hefyd ochr yn ochr â chynnydd yn lefel y môr (tua 0.24 metr (m)).
- 5.5.23. Derbynnir y gallai'r newidiadau hinsoddol hynny gael effeithiau tymor hir ar gynefinoedd a'u hyd a'u lled yn yr ardal o amgylch y Ffin Seilwaith Newydd. Gallai newidiadau hefyd effeithio ar rychwant rhywogaethau penodol o fewn yr ardaloedd astudio.
- 5.5.24. Fodd bynnag, gan dybio bod yr holl fesurau lliniaru priodol yn cael eu hymgorffori yn y Datblygiad Arfaethedig, rhagfynegir y bydd yr holl effeithiau gweddilliol sy'n deillio o'r cynllun, ar y cyd ag effeithiau newid yn yr hinsawdd a ragfynegir, naill ai'n rhai niweidiol bach neu'n ddibwys a heb fod yn arwyddocaol.

SAFBWYNTIAU PARTÏON Â BUDDIANT

- 5.5.25. Mae'r ExA wedi rhoi ystyriaeth ddyladwy i holl sylwadau partïon â buddiant yn ymwneud â bioamrywiaeth. Fodd bynnag, dim ond y safbwyntiau mwyaf perthnasol ac allweddol tua diwedd yr Archwiliad a amlygir yma gan yr ExA. Mae hynny'n bennaf oherwydd bod ystyriaethau wedi esblygu'n berthynol i ystod o wybodaeth a ddarparwyd gan yr Ymgeisydd.
- 5.5.26. Rhoddodd Coed Cadw sylwadau drwy gydol yr Archwiliad oherwydd yr effeithiau ar goed hynafol a hynod a ysgogir gan adeiladu'r Datblygiad Arfaethedig. Mae'r Datganiad Tir Cyffredin (SoCG) [REP6A-015] terfynol a lofnodwyd gyda Choed Cadw yn ailadrodd elfennau o'i Sylw Perthnasol [RR-077] sy'n cyfleu pryderon difrifol ynglŷn â'r Rhestr Coetir Hynafol, yn ogystal ag effaith bosibl ar nifer o goed hynod, fel yr amlinellwyd yn yr Aseiad o'r Effaith ar Goedyddiaeth erbyn DL4 [REP4-118]. Diweddarwyd y ddogfen hon wedi hynny gan [REP7-107], a gyflwynwyd erbyn DL7.

- 5.5.27. Mynegodd Coed Cadw bryderon ychwanegol y byddai llygredd sŵn a llwch gerllaw ffin y biblinell yn ystod adeiladu, yn ogystal ag effaith uniongyrchol bosibl ar un coetir sy'n destun croesfan ddi-ffos. Yn rhan o ymrwymadau dylunio cynnar, mae'r Ymgeisydd wedi dangos tystiolaeth ei fod wedi ceisio osgoi cynefinoedd a nodweddion sensitif, lle bynnag y bo'n bosibl, gan gynnwys coetir hynafol a choed hynod. Byddai mwy o ymdrech yn cael ei gwneud yn ystod y cam dylunio manwl i leihau a/ neu osgoi derbynyddion o'r fath ymhellach, fel y sicheir gan R4 dDCO yr Ymgeisydd.
- 5.5.28. Er hynny, mae mater allweddol na chytunir arno'n ymwneud â chadw at bellter llain glustogi coetir hynafol. Yn ei Sylw Perthnasol [RR-077], nododd Coed Cadw y dylid gweithredu llain glustogi 30m ar gyfer pob ardal o goetir hynafol er mwyn lliniaru'r effeithiau yn ystod adeiladu.
- 5.5.29. Mae'r Ymgeisydd wedi darparu llain glustogi 15m ar draws Terfynau'r Gorchymyn yn amodol ar eithriad yn 'Fferm New Bridge'. Yn y lleoliad eithriedig hwn, cofnodir bod yr Ymgeisydd ac FCC wedi cytuno y byddai'r gwaith ymwithiol arfaethedig oddeutu 13m oddi wrth y coetir hynafol sy'n ffinio â Therfynau'r Gorchymyn mewn lleoliad Tanc Slyri (sy'n gysylltiedig â newid dylunio Cais 1 opsiwn PS02b). Byddai angen gwneud gwaith anymwithiol o fewn y llain glustogi 13m ar y cae amaethyddol sy'n cael ei weithio yn ystod adeiladu. Fodd bynnag, byddai mesurau lliniaru a amlinellir yn y Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu Amlinellol (OCEMP) yn cael eu dilyn yn y lleoliad hwn. Mae mesurau o'r fath yn cynnwys: Datganiad Dull Coedyddiaeth (AMS) penodol i safle; Cynllun Diogelu Coed (TPP); a monitro gan Glerc Gwaith Coedyddiaeth (ACoW) yn ystod adeiladu.
- 5.5.30. Er bod Coed Cadw yn cydnabod y cytundeb rhwng yr Ymgeisydd ac FCC ac yn amlygu nad oedd yn gwrthwynebu cynnwys yr OCEMP, hyd yn oed gyda mesurau lliniaru, nid oedd yn cytuno â chaniatáu tresmasu ar unrhyw goed islaw'r pellter 30m yr oedd yn ei geisio fel llain glustogi rhwng y Datblygiad Arfaethedig a choetir hynafol/ coed hynod.
- 5.5.31. Cynhyrchwyd SoCG terfynol wedi'i lofnodi gyda Natural England a gyflwynwyd erbyn DL8 [REP8-022] heb faterion yn weddill. Roedd y SoCG terfynol wedi'i lofnodi gyda CNC [REP7-261] yn cytuno ar y canlynol, ymhlith materion eraill:
- Dylai'r LEMP terfynol gynnwys manylion diwygiedig ynglŷn â monitro a rheoli tymor hir, o ran bioamrywiaeth (rhywogaethau a warchodir). Cadarnhaodd yr Ymgeisydd y bydd manylion ynglŷn â monitro a rheoli tymor hir yn cael eu darparu yn ystod y cam dylunio manwl. Ymgysylltwyd ynglŷn ag ymagweddau trawsffiniol at liniaru rhwng Cymru a Lloegr.
 - Roedd ardal yr arolwg tylluanod gwynion yn cynnwys llain glustogi i ystyried tarfu posibl ar dylluanod gwynion sy'n bridio y tu allan i ffin y DCO. Cwblhawyd arolygon hefyd ar gyfer nodweddion clwydo/ nythu posibl ar hyd llwybr cyfan y biblinell newydd (lle'r oedd mynediad yn caniatáu), sydd hefyd wedi cael eu diwygio a'u lleihau yn ystod camau dylunio ailadroddol.

- Cyflwynwyd Trwyddedau Rhywogaeth a Warchodir drafft i CNC ar gyfer pob rhywogaeth berthnasol (Moch Daear, Madfallod Dŵr Cribog (GCN), ac Ystlumod).
- Cyflwynwyd ymagwedd yr Ymgeisydd at BNG i CNC ac fe'i trafodwyd gydag ef. Ni chodwyd unrhyw faterion ynglŷn â'r ymagwedd wedi'i theilwra a gymhwyswyd i ardaloedd gweinyddol Cymru sy'n destun asesiad a'r fethodoleg a ddefnyddiwyd.

5.5.32. Mae'r SoCG gydag FCC, Diwygiad F [REP7-259] yn cadarnhau, ymhlith eitemau eraill:

- Trafodwyd ymagwedd drawsffiniol at liniaru gydag FCC. Nid oedd FCC yn gwrthwynebu hynny, ond awgrymodd ddefnyddio cynlluniau polisi lleol fel sail i adfer cynefinoedd a darparu cyfiawnhad addas dros leoliadau. Byddai ardaloedd lliniaru'r Ymgeisydd yn cael eu hamlygu o fewn cyfyngiadau Terfynau'r Gorchymyn a byddent yn ceisio cysylltu â seilwaith gwyrdd presennol a'i wella.
- Mae'r Ymgeisydd wedi archwilio'r angen am fesurau lliniaru ymhellach yng nghyd-destun y dyluniad datblygedig ac mae wedi cadarnhau bod digon o dir wedi'i gynnwys yn yr ardaloedd lliniaru amgylcheddol o fewn Terfynau'r Gorchymyn yng Nghymru (fel y cyflwynwyd yn y Cynlluniau Gwaith diweddaraf [REP7-007]) ar gyfer plannu coed lliniarol. Fel y cyfryw, nid yw'r Ymgeisydd nac FCC yn credu bod angen ymagwedd drawsffiniol at blannu coed lliniarol mwyach.
- Nid yw'r asesiad BNG a gynhaliwyd gan yr Ymgeisydd yn mynd i'r afael â gofynion ychwanegol. Ni roddwyd unrhyw fanylion am senarios digolledu oddi ar y safle. Mae'r Ymgeisydd yn cadarnhau ei fod yn archwilio cyfleoedd i greu darpariaeth ddigolledu oddi ar y safle trwy gysylltu â thirfeddianwyr, rhanddeiliaid, ac IPau eraill priodol ac addas er mwyn ceisio sicrhau cytundebau.
- Mae'r Ymgeisydd wedi symud ymlaen â thrafodaethau gydag FCC ac IPau eraill er mwyn ceisio sicrhau tir ar gyfer cynefin gwrthbwysu sy'n ofynnol. Mae'r trafodaethau hyn wedi cyrraedd cam datblygedig, ac mae lleoliadau gwrthbwysu arfaethedig yng Nghymru ar gyfer gwrychoedd a phyllau wedi'u hamlygu yn y Strategaeth BNG ddiweddaraf. Mae tystiolaeth bod yr Ymgeisydd ac FCC yn cynnal trafodaethau i lunio cytundeb a111 i sicrhau bod FCC yn creu ac yn cynnal y cynefin gwrychoedd a phyllau.
- Mae angen caniatâd tirfeddianwyr trydydd parti i gaffael tir er mwyn i'r Ymgeisydd ddarparu cynefin coetir. Er mwyn galluogi dull gorfodadwy sy'n sicrhau bod cynefin coetir yn cael ei ddarparu, mae'r Ymgeisydd ac FCC yn ceisio cwblhau cytundeb a111, a fyddai'n gofyn i'r partion perthnasol lunio cytundeb a106 pan fydd yr Ymgeisydd wedi caffael tir. Byddai'r cytundeb a106 yn gorfodi'r Ymgeisydd i greu cynefin coetir a'i gynnal am 30 mlynedd. Nid oedd y cytundebau cyfreithiol a ddymunwyd wedi'u llunio cyn DL7 nac erbyn diwedd yr Archwiliad. Mae'r mater hwn yn gysylltiedig â strategaeth BNG yr Ymgeisydd.
- Er mwyn darparu Opsiwn PS02b Cais i Wneud Newidiadau 1, byddai angen tresmasu 2m o fewn rhan o'r ardal glustogi 15m geidwadol o'r coetir hynafol. Cynigir na fyddai unrhyw waith ymwthiol yn cael ei wneud o fewn yr ardal glustogi 13m, ac y byddai angen mynediad ar

yr wyneb yn unig. Cytunwyd ar yr ymagwedd hon gydag FCC ar y sail y dilynir y mesurau lliniaru arfaethedig a amlinellir yn yr OCEMP a'u bod yn cynnwys AMS (Atodiad F Asesiad o'r Effaith ar Goedyddiaeth yr Ymgeisydd), TPP a monitro gwaith gan ACoW i sicrhau ei fod yn cael ei gwblhau yn unol â'r AMS. Byddai cydymffurfio â'r ymagwedd hon yn cael ei gyfnerthu trwy R11 y DCO.

- Cadarnhaodd FCC y byddai'n well ganddo petai tanc slyri amaethyddol sydd eisoes yn bodoli (ar dir sy'n ymwneud â PS02b) yn aros yn ei le o ystyried mai dim ond yn ddiweddar y cafodd ganiatâd cynllunio. Byddai arolygon cyn adeiladu i bennu unrhyw newidiadau i'r canlyniadau sylfaenol yn cael eu cynnal cyn adeiladu ac wrth ymateb i ddyluniad manwl y Datblygiad Arfaethedig, fel y darperir ar ei gyfer yn yr OCEMP.

5.5.33. Mae SoCG yr Ymgeisydd gyda CWCC [REP8-021] yn darparu cofnod o ymgysylltiad gweithredol a arweiniwyd gan yr Ymgeisydd ynglŷn â bioamrywiaeth. Mae'n nodi cyfres o gytundebau. Erbyn DL8, roedd telerau masnachol gwrthbwyso BNG ar gam terfynol ond heb eu cytuno. Yn yr amgylchiadau hynny, mae'r Ymgeisydd yn awgrymu bod Gofyniad allweddol newydd yn cael ei gynnwys yn y DCO y marciwyd ei fod heb ei gytuno eto yn y SoCG. Mae'r ExA yn trafod y materion hyn yn yr adran Archwiliad isod.

5.5.34. Mae'r ExA hefyd wedi ystyried y LIRau gan CWCC [REP1A-002] (Atodiad [REP1A-003]); ac FCC [REP1A-005] (Atodiad [REP1A-006]) wrth ystyried bioamrywiaeth, ecoleg a chadwraeth natur. Fodd bynnag, roedd yr agweddau perthnasol yn ymwneud ag ecoleg a choed yn destun sylwadau manylach wedi'u diweddarau gan y Cyngor cynhaliol yn ystod DLau amrywiol drwy gydol yr Archwiliad, fel yr adlewyrchwyd eisoes uchod. Gan gynnwys REP5-030; REP5-031; REP8-041; REP8-041a; REP6-039; REP6-040; REP7-308; a REP8-044 ar gyfer CWCC; a REP4-286; REP5-035; REP5-036; REP7-312; a REP7-313 ar gyfer FCC).

ARCHWILIAD

5.5.35. Archwiliodd yr ExA nodweddion gwahanol a thebyg polisi cadwraeth natur Cymru a Lloegr, yn ogystal â'r ystod o ddeddfwriaeth sylfaenol a ysgogir gan y Datblygiad Arfaethedig, trwy gymysgedd o Wrandawiadau a chwestiynau ysgrifenedig. Diben hyn hefyd oedd sicrhau bod yr holl bartïon gweithredol yn deall unrhyw oblygiadau diwylliannol a thrawsffiniol yn ymwneud â darpariaeth fioamrywiaeth neu ddisgwyliadau lleol.

5.5.36. Trwy ExQ1 [PD-014], ExQ2 [PD-022] ac ExQ3 [PD-027], profodd yr ExA faterion bioamrywiaeth. Yn ystod ISH1 [EV-008] i [EV-010], gofynnodd yr ExA gwestiynau i'r Ymgeisydd ynglŷn â'r mater hwn. Mae ymatebion yr Ymgeisydd i gwestiynau ysgrifenedig yn [REP1-044] a [REP5-025] yn berthnasol. Yn ogystal, mae dogfen archwilio [REP6-035] yn manylu ar sylwadau'r Ymgeisydd ar ymatebion IPau erbyn DL5; yn ogystal â dogfennau [REP6-036] a [REP7-291] sy'n rhoi sylwadau'r Ymgeisydd ar ymatebion i ExQ2 ac ExQ3. At hynny, mae dogfen [REP7-292] yn rhoi crynodeb yr Ymgeisydd o'r cyflwyniadau llafar a wnaed yn y

Gwrandawiadau a gynhaliwyd yn ystod yr wythnos a ddechreuodd ar 7 Awst 2023.

Coed (gan gynnwys Coetir Hynafol a Choed Hynod)

- 5.5.37. Mae'r ExA yn cydnabod y llywiwyd presenoldeb posibl coed hynafol a choed hynod gan ddefnyddio Rhestr Coed Hynafol Coed Cadw; cronfa ddata'r Porwr Map Lle (ar gyfer Cymru) (sydd bellach wedi'i mudo i www.datamap.gov.wales); a chronfa ddata map MAGIC (Gwybodaeth Ddaearyddol Amlasiantaethol ar gyfer Cefn Gwlad) Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (ar gyfer Lloegr). Nid oedd unrhyw WR nac RR wedi arwain at unrhyw amheuon sylweddol ynglŷn â chywirdeb y wybodaeth honno.
- 5.5.38. Yn ystod yr Archwiliad, holodd yr ExA yr Ymgeisydd yn benodol ynglŷn â faint o goed y disgwylir eu colli'n gyffredinol, a sut gallai colled o'r fath gael ei lleihau i'r eithaf neu ei hosgoi. Mae ymateb yr Ymgeisydd i bryderon ynglŷn â cholli coed yn cyfeirio at sawl calibrad osgoi yn y cynllun a esblygodd drwy broses ailadroddol cyn yr Archwiliad ac yn ystod yr Archwiliad ei hun.
- 5.5.39. Nododd yr ExA yn ystod camau cychwynnol yr Archwiliad, heb ddyluniad manwl terfynol, na ellid cadarnhau'n llwyr ac yn bendant faint o wrychoedd a choed a fyddai'n cael eu colli ar draws Terfynau'r Gorchymyn. Felly, cododd cwestiynau'r ExA faterion yn ymwneud â ph'un a oedd gwybodaeth ddigonol i ganiatáu dealltwriaeth briodol o effeithiau ecolegol/ cynefin o ystyried y byddai gofynion arolygu ychwanegol yn debygol.
- 5.5.40. Mae Asesiad Coedyddiaeth diweddaraf yr Ymgeisydd, sef Diwygiad D [REP7-107], a dderbyniwyd erbyn DL7, yn nodi bod cyfanswm o 1,321 o nodweddion coedyddiaeth, yn cynnwys 879 o goed unigol a 442 o grwpiau o goed, wedi cael eu harolygu gan yr ES. Cadarnhaodd yr asesiad hwn hefyd fod asesiad rhagarweiniol wedi nodi bod angen i 134 o nodweddion plannu/ coed eraill gael eu symud ymaith a bod angen i 108 o nodweddion grŵp eraill gael eu symud ymaith yn rhannol. Yn bwysig, nid yw'r coed y cynigir eu colli yn cynnwys unrhyw Goetir Hynafol. O ran yr holl leoliadau coetir hynafol a choed hynod, byddai'r Ymgeisydd yn defnyddio dulliau adeiladu di-ffos, er mwyn ceisio osgoi unrhyw niwed.
- 5.5.41. Mae'r ExA yn canfod nad oes unrhyw reswm i anghytuno â mwyafrif y coed y disgwylir effeithio arnynt a amlygwyd yn yr ES, er bod yr ExA wedi gwneud canfyddiadau penodol ynglŷn â'r effeithiau tebygol ar Goetir Hynafol a ddadleuir gan Goed Cadw, yn y paragraffau dilynol isod. Roedd Cais i Wneud Newidiadau 1 [CR1-124] yn golygu bod angen symud dwy goeden ychwanegol ymaith o Ran 3 llwybr y biblinell newydd a symud tair coeden ymaith o Ran 5. Fodd bynnag, mae Cais i Wneud Newidiadau 1 yn Rhan 3 wedi osgoi symud saith coeden ymaith, y mae pump ohonynt o ansawdd uchel, a thair o'r rhain yn rhai hynod yn ôl asesiad. At hynny, roedd y fersiynau cynharach blaenorol o [REP7-107] yn cynnwys colli coed hynod yn uniongyrchol. Ond llwyddwyd i ddiwygio hyn ar ôl y gyfres gyntaf o Wrandawiadau Archwiliad a chwestiynau gan yr ExA.

- 5.5.42. Byddai cyfanswm y coed na ellir osgoi eu colli, yn ôl yr ES, yn cael eu digolledu trwy blannu coed newydd yn y gosodiadau tirwedd a gyflwynwyd ar gyfer yr AGIau yn: y Fflint; a Northop Hall; a'r BVSau yn: Aston Hill; Mollington; Rock Bank; Babell; Pentre Helygain; a Cornist Lane.
- 5.5.43. Wrth ymateb i bryderon yr ExA, mae'r Ymgeisydd wedi egluro ei ymrwymadau i geisio cadw'r holl goed, coetir, a gwrychoedd lle y bo'n bosibl yn ystod datblygu'r dyluniad manwl yn unol â'r OCEMP, lle y cynigir mesurau lliniaru hefyd.
- 5.5.44. Gwnaeth yr Ymgeisydd gyflwyniadau yn cadarnhau bod y senario achos gwaethaf rhesymol yn yr ES yn tybio bod yr holl goed (heblaw am grwpiau coetir a gedwir) o fewn y coridor adeiladu 32m mewn perygl o gael eu symud ymaith.
- 5.5.45. Nododd yr Ymgeisydd hefyd nad yw Pennod 9 Bioamrywiaeth yr ES yn rhestru'r holl nodweddion coed a gwrychoedd unigol a fyddai mewn perygl o'u symud ymaith o bosibl. Cyflwynir Tabl 9.11 ar sail y senario achos gwaethaf rhesymol o ran colledion ac effeithiau a dybir mewn perthynas â choetiroedd a gwrychoedd, o ystyried eu statws fel Cynefinoedd Pwysig Iawn.
- 5.5.46. Yn unol ag ymagwedd safonol at asesu effeithiau ar goed, cyfeirir at asesiad o'r effaith ar goed unigol a grwpiau o goed yr ystyrir eu bod mewn perygl o'u symud ymaith (o fewn yr asesiad o golledion wedi'i seilio ar y senario achos gwaethaf) yn Atodiad 9.11 Asesiad o'r Effaith ar Goedyddiaeth, Diwygiad D [REP7-107]. Lle yr amlygwyd coed unigol a chanddynt werth cadwraeth natur arall, er enghraifft, presenoldeb rhywogaethau a warchodir a/ neu rywogaethau nodedig fel ystlumod, neu'r potensial i gynnal rhywogaethau o'r fath, cyflwynwyd y rhain yn Nhabl 9.11 Pennod 9 yr ES yn unol â hynny.
- 5.5.47. Wedi hynny, cadarnhaodd yr Ymgeisydd hefyd na fyddai arolygon ychwanegol yn cael eu cwblhau i lywio'r ES yn ystod yr Archwiliad. Lle y bo'r angen cyn adeiladu, byddai unrhyw arolygon ar droed cyn dechrau yn cael eu cwblhau yn lle hynny, yn unol â'r OCEMP Diwygiad H [REP7-242]. Yn dilyn dylunio manwl, byddai gorchmynion rheoli ecolegol/cynefin wedi'u diweddarau sy'n briodol i'r dyluniad manwl terfynol yn cael eu hymgorffori yn yr LEMP manwl.
- 5.5.48. O ran unrhyw gynefinoedd wedi'u hadfer neu eu creu (gwrychoedd a phlannu coed), mae'r OLEMP a gyflwynwyd yn darparu ymagwedd lefel uchel at reoli ecolegol a chynefin, a fyddai'n cael ei gweithredu trwy fersiwn fanwl lawn a chyflawn yn y pen draw, a sicrheir trwy R11 (Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecolegol) y DCO.
- 5.5.49. Gan droi at yr effeithiau posibl ar yr ardal o Goetir Hynafol sy'n ffinio ag ardal y DCO, mae'r pecyn o fesurau y rhoddwyd tystiolaeth ohonynt i'r Archwiliad yn cynnwys arferion lliniarol anymwithiol ac ymwthiol; technegau cloddio a pherthynas linol gyfyngedig llwybr y biblinell, sy'n symud i ffwrdd oddi wrth ffin y Coetir Hynafol yn gyffredinol.

- 5.5.50. Yr eithriad i hyn yw'r Coetir Hynafol yn agos i Fferm New Bridge. Fodd bynnag, mae'r pecyn uchod o fesurau, ynghyd â newid sylweddol i lefelau'r tir rhwng llwybr y biblinell a'r coetir hynafol, fel yr arsylwyd gan yr ExA yn ystod yr ail Archwiliad Safle gyda Chwmni, yn peri iddo gasglu bod y Datblygiad Arfaethedig yn annhebygol o niweidio'r Coetir Hynafol ger Fferm New Bridge nac, yn wir, yn unrhyw le arall ar hyd llwybr y biblinell.
- 5.5.51. Ochr yn ochr â hynny, mae'r Ymgeisydd wedi gwneud sawl ymrwymiad clir yn ymwneud â gwaith gerllaw'r Coetir Hynafol. Er enghraifft, mae Ymrwymiad D-BD-008, a gyflwynwyd yn yr OCEMP [REP7-292], yn cynnwys defnyddio technegau croesi di-ffos yn benodol er mwyn osgoi a lleihau effeithiau niweidiol ar Goetir Hynafol sy'n bresennol o fewn Terfynau'r Gorchymyn.
- 5.5.52. Mae'r Ymgeisydd wedi dangos, trwy ei luniadau gosodiad, ei fod wedi ceisio osgoi effeithiau uniongyrchol (h.y. cwmpo coed) ar Goetir Hynafol, yn benodol yn Northop, ac y byddai'n cynnal cyfanrwydd coetir. Mae ardaloedd eraill o goetir naill wedi cael eu hosgoi neu eu dileu o Derfynau'r Gorchymyn a/ neu eu clustogi rhag gwaith adeiladu lle bynnag y bo'n ymarferol. Mae'r ExA yn cytuno ag asesiad yr ES na fyddai coetir hynafol yn cael ei golli.
- 5.5.53. Mae mesurau osgoi colli coed wedi cael eu dangos yn foddhaol i'r ExA. Fodd bynnag, nid oedd yr Ymgeisydd a Choed Cadw yn gallu cytuno ar gymhwyso llain glustogi 30m i Goetir Hynafol yn ystod yr Archwiliad. Mae'r Ymgeisydd wedi darparu llain glustogi 15m ar draws Terfynau'r Gorchymyn (sy'n cyd-fynd yn gyffredinol â chynnwys NPPG, er nad yw cyngor o'r fath wedi'i fabwysiadu yn PPW/TAN ar gyfer Cymru yn ardal weinyddol FCC), heblaw am Derfynau'r Gorchymyn yn Fferm New Bridge lle mae hyn wedi'i leihau i 13m ar gyfer rhan fach o'r llwybr.
- 5.5.54. Roedd yr Ymgeisydd o'r farn bod llain glustogi 30m Coed Cadw yn rhy ormodol ar sail canllawiau cenedlaethol cyffredinol. Llywiwyd ei gasgliadau gan y ffaith na chanfuwyd canllawiau penodol yn PPW a oedd yn groes i NPPG ar fater tebyg ac asesiadau'r ES a gynhaliwyd ganddo.
- 5.5.55. Mae'r ExA yn ymwybodol o'r ystod o ganllawiau cenedlaethol sydd ar gael ac yn nodi nad yw'r llain glustogi 30m a gynghorwyd gan Goed Cadw yn ffigur a fabwysiadwyd yn ffurfiol yng Nghymru na Lloegr. Mae'r ExA hefyd yn ymwybodol, o egwyddor ragofalus, bod ffigur llain glustogi Coed Cadw yn uwch yn ei gyhoeddiadau ei hun lle y mae'n cynghori y dylid cynnal o leiaf 50m rhwng datblygiad a choetir hynafol, gan gynnwys drwy gydol y cam adeiladu. Wedi dweud hynny, mae'r cofnod o ymgysylltiad lleol ag FCC (sydd wedi ymweld â'r lleoliadau dan sylw) yn allweddol i ganfyddiadau'r ExA hefyd o'i ystyried ochr yn ochr â natur benodol y Datblygiad Arfaethedig a'r technegau adeiladu penodol sy'n berthnasol gyda'r holl fesurau lliniaru.
- 5.5.56. Mae'r Ymgeisydd ac FCC yn cytuno y byddai angen gwneud rhywfaint o waith 13m oddi wrth y coetir hynafol, sy'n ffinio â Therfynau'r Gorchymyn yn agos i danc slyri ar Fferm New Bridge, ar y tir

amaethyddol yn y canol sy'n cael ei weithio yn ystod y camau adeiladu. Safbwynt FCC ar y mater hwn oedd bod y pellter llinol ar gyfer y gwaith ymwithiol a gynigir yn gyfyngedig ac y byddai'r mesurau lliniaru arfaethedig a amlinellir yn yr OCEMP yn cael eu dilyn. Yn arbennig, byddai ymrwymiad D-LV-015, a gyflwynwyd yn yr OCEMP ac y nodwyd y byddai'n cael ei sicrhau trwy R5 (Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP)) ac R11 (Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecolegol) y dDCO), yn rhoi mesurau diogelu ychwanegol.

- 5.5.57. Trwy gynnwys y rheiny, byddai'r holl ardaloedd Coetir Hynafol yn cael eu diogelu yn ystod adeiladu gyda pharth gwahardd gweithio 15m o leiaf ym mhob lleoliad heblaw am Fferm New Bridge (lle y byddai wedi'i leihau i 13m). O ran mesurau lliniaru a gwaith draenio, neu mewn ardaloedd a gyfyngir gan seilwaith presennol, byddai mesurau diogelu coed yn cael eu manylu mewn AMS penodol i safle ac yn cael eu dangos ar TPP. Lle y bo'r angen, bydd dulliau gweithio'n cael eu monitro gan ACoW addas. Bydd y Contractwr Adeiladu'n paratoi'r AMS.
- 5.5.58. Dangoswyd tystiolaeth y byddai effeithiau sŵn ac ansawdd aer yn cael eu lliniaru a'u rheoli yn ystod adeiladu'r Datblygiad Arfaethedig trwy ystod o fesurau, fel lleihau llwybro traffig adeiladu heibio i dderbynyddion sensitif gymaint â phosibl, dewis offer sŵn isel ac optimeiddio lleoliad offer/ gweithgareddau yn berthynol i goed cyfagos.
- 5.5.59. Byddai'r gwaith adeiladu'n cael ei gwblhau yn unol â'r OCEMP, fel y'i sicrhau gan Ofyniad 5 y dDCO, gan gynnwys Cynllun Rheoli Llŵch (gweler eitem D-AQ-004 yr OCEMP) fel y'i sicrhau gan R5(c). Mae Coed Cadw wedi cytuno bod y mesurau a gynigiwyd gan yr Ymgeisydd i reoli sŵn a llygredd llŵch yn ystod adeiladu yn dderbyniol. Erbyn diwedd yr Archwiliad, nid oedd Coed Cadw/ FCC/ CWCC yn gwrthwynebu ymagwedd yr Ymgeisydd at gynhyrchu TPP a phenodi ACoW, yn seiliedig ar yr holl gyflwyniadau llafar ac ysgrifenedig a wnaed.
- 5.5.60. O ystyried yr holl fesurau lliniaru, mae'r ExA o'r farn bod y lleiniau clustogi 15m a 13m a fabwysiadwyd gan y DCO, ochr yn ochr â'r holl fesurau lliniaru (ac o ystyried trywydd y llwybr strategol y penderfynwyd arno wrth gynllunio'r Datblygiad Arfaethedig), yn ymagwedd resymol gan yr Ymgeisydd, yn groes i'r pellterau mwy a argymhellir gan Goed Cadw.

Rhywogaethau a warchodir a rhywogaethau eraill

- 5.5.61. Yn gynnar yn ystod yr Archwiliad, cyfeiriodd CWCC at absenoldeb arolygon ecolegol y tu hwnt i derfynau ffin y gorchymyn ar gyfer tylluanod gwynion a moch daear yn ei ohebiaeth fanwl a dderbyniwyd erbyn DL2 [REP2-046]. Amlygodd bryderon hefyd ynglŷn ag arolygon anghyflawn mewn perthynas ag ystlumod a thylluanod gwynion ac, i ddechrau, roedd o'r farn bod yr asesiadau o lefelau pwysigrwydd a gwerth/ sensitifrwydd derbynyddion wedi'u seilio ar setiau data anghyflawn. At hynny, cyfeiriodd CNC [REP1-071] at lain glustogi 100m ar gyfer tylluanod gwynion, lle mae hyn yn berthnasol i rai ardaloedd lleol y mae'r biblinell yn mynd trwyddynt, lle mae clwydi bridio llwyddiannus y gwyddys amdanynt.

- 5.5.62. Fodd bynnag, dangosodd yr Ymgeisydd dystiolaeth bod data arolwg wedi'i gofnodi y tu hwnt i Derfynau'r Gorchymyn ar gyfer rhai derbynyddion, fel y cyflwynir ym Mhennod 9 yr ES (Bioamrywiaeth) [REP7-046] a'i hatodiadau cysylltiedig (Atodiad 9.5 Adroddiad Arolwg Moch Daear [REP7-095]). Yn ogystal, gwelwyd tystiolaeth bod egwyddorion a mesurau lliniaru priodol wedi cael eu datblygu i ddiogelu derbynyddion a amlygwyd o fewn Terfynau'r Gorchymyn a'r tu hwnt iddynt.
- 5.5.63. Ar ôl adolygu'r materion hyn ymhellach, roedd CWCC yn fodlon wedi hynny bod lefel y setiau data ecolegol a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd yn briodol. Derbyniodd FCC hefyd fod yr arolygon ecolegol a gynhaliwyd gan yr Ymgeisydd yn unol ag arfer gorau.
- 5.5.64. Rhoddodd yr Ymgeisydd gofnod o ymgysylltu lle'r oedd angen trafod ag ymgynghoreion ochr yn ochr â chyflwyniadau eraill yr archwiliad, er enghraifft ymatebion ag NE [REP1-070]; [REP5-043]; [REP6A-025]; a [REP7-317]. Er bod diogelu rhywogaethau'n thema bwysig yn yr archwiliad, roedd y materion a oedd yn weddill a drafodwyd gydag NE yn ymwneud yn fwy â rheoli pridd a mawndir yn hytrach na buddiannau diogelu rhywogaethau, a ddatryswyd yn gyffredinol gan yr ymrwymïadau a'r camau i'w cymryd gan yr Ymgeisydd yn y dyfodol.
- 5.5.65. Ar adegau eraill yn ystod yr Archwiliad, paratôdd yr Ymgeisydd Drwyddedau Rhywogaeth a Warchodir (PSL) drafft a'u cyflwyno i NE a CNC cyn cais ffurfiol. Cytunodd y SoCG a gwblhawyd gydag NE [REP8-022] a CNC [REP7-261] y bydd un drwydded liniaru ar draws y prosiect cyfan ar gyfer pob rhywogaeth a warchodir yn yr awdurdodaethau unigol ar gyfer Cymru a Lloegr. Yn wir, cytunodd y SoCG gydag NE [REP8-022] *"...ar ôl adolygu'r PSL drafft ar gyfer ystlumod, GCN a llygod y dŵr, roedd NE yn fodlon y gellir trwyddedu'r gwaith..."*, a chytunodd y SoCG gyda CNC [REP7-261], o ran:
- GCN ac ystlumod, nid yw'n ystyried bod rhwystr rhag rhoi trwydded rhywogaeth, ond heb cais ffurfiol, ni allai ddarparu unrhyw ymrwymïadau cyfrwymol ynglŷn â phenderfynu ar gais PSL dilynol ar y cam hwn; a
 - Moch daear, ystyriwyd bod cytundeb ynglŷn â'r dogfennau sy'n gysylltiedig â PSL ddrafft ar gyfer Moch Daear, yng ngoleuni'r ffaith bod yr Ymgeisydd wedi cytuno i ddatblygu dangosyddion perfformiad allweddol yn ystod y cam dylunio manwl.
- 5.5.66. Er nad oedd yr Ymgeisydd wedi cyflwyno copïau o'r PSL drafft i'r Archwiliad, mae'r SoCG a gwblhawyd gydag NE [REP8-022] a CNC [REP7261] yn awgrymu bod y ddau barti'n cytuno. Mae'r ExA yn cytuno bod hyn yn safbwynt derbyniol.
- 5.5.67. Wedi dweud hynny, cynghorodd CNC y dylai'r darpariaethau amlinellol ar gyfer clirio cynefin gael eu datblygu ymhellach a'u hamlinellu mewn Cynllun Cadwraeth GCN i'w gyflwyno fel Atodiad i'r CEMP manwl sydd i'w gyflwyno a'i gymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) mewn ymgynghoriad â CNC. Mae'r Ymgeisydd wedi cytuno wedi hynny i gynnwys y cam hwn yn ei gynigion yn y dyfodol ar gyfer y CEMP.

- 5.5.68. Yn ogystal, rhoddwyd gwybod i'r ExA ei bod yn debygol y bydd y PSL sy'n ofynnol i hwyluso adeiladu'r Datblygiad Arfaethedig yn mynnu cyfnod monitro ar ôl gweithredu er mwyn sicrhau bod y mesurau lliniaru'n gweithredu yn ôl y disgwyl ac fel sy'n ofynnol ar gyfer unrhyw drwydded. Yn wir, cydnabu'r Ymgeisydd i'r ExA y gallai arolygon monitro ar ôl cwblhau fod yn ofynnol ar gyfer rhywogaethau yn amodol ar drwyddedau rhywogaeth a warchodir ac y byddant yn benodol i'r rhywogaeth/nodwedd/ derbynnydd unigol.
- 5.5.69. Erbyn diwedd yr Archwiliad, nid oedd gan yr ExA reswm cryf i anghytuno â'r LSE a ragfynegwyd ar gyfer ffawna a gynhwysir yn yr ES. Mae'r effeithiau cyn lliniaru yn amrywio i rai niweidiol cymedrol (neu arwyddocaol) ar gyfer ystod o gynefinoedd a rhywogaethau sy'n gysylltiedig â'r 'cam adeiladu', fel yr amlinellir yn Nhabl 9.11 Pennod 9 yr ES (Bioamrywiaeth) [REP7-046]. Mae'r ddogfen hon hefyd yn nodi na fyddai unrhyw effeithiau niweidiol arwyddocaol ar ôl lliniaru.
- 5.5.70. Ar wahân i'r uchod, er mwyn bodloni ymatebion ymgynghori amrywiol, cadarnhaodd yr Ymgeisydd y byddai Datganiad Dull Bioamrywiaeth yn cyd-fynd â'r CEMP manwl ac y byddai'n mynd i'r afael â'r holl bryderon ynglŷn â rhywogaethau estron goresgynnol a allai godi yn ystod unrhyw gam adeiladu. Ar ôl i'r ExA holi ynglŷn â mesurau lliniaru o'r fath, cadarnhaodd yr Ymgeisydd y byddai hyn yn cynnwys darpariaethau yn gysylltiedig ag unrhyw glymog Japan a ddarganfyddir.

Mesurau gwella / cydnherthedd bioamrywiaeth

- 5.5.71. Cydnabu'r ExA yn ystod yr Archwiliad, o ystyried telerau Deddf yr Amgylchedd 2021, nad yw darpariaeth BNG yn orfodol yn Lloegr ar gyfer NSIPau. At hynny, nid oes metrig BNG mabwysiedig i'w ddefnyddio yng Nghymru. Cydnabu'r ExA hefyd y ddarpariaeth ddeddfwriaethol a pholisi yng Nghymru a Lloegr. Adlewyrchir y ffactorau hyn yn Adran 1.5 Asesiad BNG, Diwygiad C yr Ymgeisydd [REP7-252]. Gan ddwyn y pwyntiau hyn ynghyd ac o ystyried Adran 1.5 Asesiad BNG, Diwygiad C yr Ymgeisydd [REP7-252], mae'r ExA yn derbyn bod y wybodaeth BNG a gynigiwyd gan yr Ymgeisydd yn fesur addas i ddeall lefel y gwelliant ecolegol sy'n bosibl yng Nghymru a Lloegr.
- 5.5.72. Er nad oes rhaid i NSIPau ddarparu BNG yng Nghymru na Lloegr ar hyn o bryd, mae polisiau a strategaethau lleol a chenedlaethol yng Nghymru a Lloegr yn dangos cefnogaeth glir i ddarparu gwelliannau bioamrywiaeth ac ecolegol priodol. Felly, mae'r ExA yn cytuno ei bod yn fuddiol i lefelau gwella bioamrywiaeth gael eu hasesu trwy fetrig priodol. Fel arall, ni fyddai ffordd ddibynadwy o asesu lefel unrhyw welliant a gynigir.
- 5.5.73. Yn ystod yr Archwiliad, gofynnodd yr ExA i'r Ymgeisydd adolygu ei safbwynt ynglŷn â darparu gwelliannau ecolegol a bioamrywiaeth ymhellach (ac ychwanegu ato, os oedd angen) er mwyn cynyddu'r posibiliadau gwella sydd ar gael i'r eithaf. Roedd yr ExA yn ymwybodol bod y ddarpariaeth ddeddfwriaethol a pholisi yng Nghymru a Lloegr yn cynnwys nodweddion allweddol sy'n debyg ac yn wahanol.

- 5.5.74. Mae'r ExA yn cydnabod sylwadau'r Ymgeisydd mai BNG yw diwedd proses a gymhwysir i ddatblygiad fel bod canlyniad cadarnhaol i fioamrywiaeth, at ei gilydd. Mae'r broses ei hun yn dilyn hierarchaeth liniaru, sy'n amlinellu bod rhaid gwneud popeth posibl yn gyntaf i osgoi, ac yn ail lleihau gymaint â phosibl, ac yn drydydd adfer/ adsefydlu colledion bioamrywiaeth ar y safle. Dim ond fel dewis olaf y dylid digolledu ar gyfer colledion gweddilliol.
- 5.5.75. Yn ogystal, gellir darparu gwelliannau eraill gan ddefnyddio mesurau gwrthbwyso bioamrywiaeth, sy'n wahanol i'r mathau o fesurau lliniaru ar y safle oherwydd eu bod yn digwydd y tu allan i'r safle datblygu. Gallai'r rhain ystyried cyfleoedd gwella ychwanegol yn seiliedig ar strategaethau adfer bioamrywiaeth lleol, cynlluniau, a rhwydweithiau gwasanaeth ecosystem.
- 5.5.76. Yn dilyn yr ymateb i'r adolygiad a geisiwyd gan yr ExA yn ystod yr Archwiliad, nod datganedig yr Ymgeisydd o hyd oedd sicrhau budd net 1% 'o leiaf' i Gynefinoedd Blaenoriaeth yng Nghymru a Lloegr. Mae Strategaeth BNG derfynol yr Ymgeisydd (Diwygiad F) [REP8-024], a dderbyniwyd erbyn DL8, yn cynrychioli safbwynt yr Ymgeisydd ynglŷn â'r materion hyn ar ddiwedd yr Archwiliad.
- 5.5.77. Mae'r ExA yn ymwybodol, wrth ganiatáu ar gyfer canllawiau arfer da fel y dangoswyd gan yr Ymgeisydd, bod cynefinoedd na ellir eu hamnewid a safleoedd a ddynodwyd yn statudol wedi cael eu heithrio o'r cyfrifiadau BNG. Ni ellir cyflawni budd net neu ddim colled net i ddatblygiad os oes effaith negyddol ar gynefin na ellir ei amnewid. Lle mae effeithiau o'r fath yn parhau, gellir cytuno ar fesurau lliniaru wedi'u teilwra. Ond gellir ceisio ac asesu enillion net o hyd ar gyfer y cynefinoedd sy'n weddill. Mae unrhyw gynefin na ellir ei ail-greu mewn man arall, o fewn cyfnod rhesymol, yn gynefin na ellir ei amnewid.
- 5.5.78. Amlygodd yr Ymgeisydd y mathau canlynol o Gynefin Blaenoriaeth, sef 'Gorlifdir Arfordirol a Chors Bori', 'Pyllau (Cynefin Blaenoriaeth)', 'Coetir collddail cymysg iseldir', a 'Gwrychoedd (Cynefin Blaenoriaeth)' o setiau data cyhoeddus o fewn yr Ardal Arolygu; ni amlygwyd unrhyw Gynefinoedd Blaenoriaeth eraill.
- 5.5.79. Felly, cyflwynodd asesiad BNG yr Ymgeisydd gyfres o 'Fesurau Gwrthbwyso' digolledol a ddyluniwyd i gyflawni budd net 1% o ran Cynefinoedd Blaenoriaeth ar draws y Datblygiad Arfaethedig. Cynigiwyd creu a gwella cynefin mewn ymgynghoriad manwl â CWCC ac FCC yng Nghymru a Lloegr, yn ôl eu trefn, yn ogystal â CNC/ NE. Ystyriodd y broses hon wybodaeth leol a darpariaeth Cynllun Lleol bresennol.
- 5.5.80. Mae dogfen archwiliad [REP8-037] yn amlinellu safbwynt terfynol yr Ymgeisydd ynglŷn â phwyntiau cysylltiedig â Bioamrywiaeth sydd heb eu datrys. O ystyried bod yr Ymgeisydd wedi gwneud cynnydd da ar y cytundebau BNG a ddisgwyllir ond heb eu cwblhau'n derfynol, awgrymodd yr Ymgeisydd, pe byddai'r ExA o'r farn ei fod yn angenrheidiol, y gallai Gofyniad cyn dechrau gael ei osod yn y DCO yn unol â'r telerau canlynol:-

'Ni chaiff unrhyw ddatblygiad ddechrau hyd nes bod cynllun (a allai gynnwys hyd at 2 ran, sef un ar gyfer Cymru ac un ar gyfer Lloegr) sy'n sicrhau bod BNG 1% neu fwy yn cael ei ddarparu ar gyfer y cynefinoedd blaenoriaeth y mae'r datblygiad awdurdodedig yn effeithio arnynt (fel y'i cyfrifwyd gan ddefnyddio Metrig Bioamrywiaeth 3.1 Natural England), wedi cael ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio perthnasol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Mae'n rhaid i'r cynllun amlinellu mesurau i gyflawni'r ddarpariaeth BNG a sicrhau ei bod yn cael ei chynnal a'i chadw am 30 mlynedd.'

- 5.5.81. Dangoswyd tystiolaeth i'r Archwiliad o gysail ddiweddar sy'n cefnogi ymagwedd y Gofyniad uchod yng nghaniatâd cynllunio tybiedig Gorchymyn Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd ar gyfer Gorchymyn Parth Arddangos Morlais 2021 (SI2021/1478) (cyfeirnod Llywodraeth Cymru DNS/3234121) fel amod 23. Yn yr enghraifft honno, darparodd yr amod ar gyfer cynllun digolledu tirwedd y cynigiwyd ei gyflawni trwy gytundeb lle nad oedd y cytundeb hwnnw ar waith ar ddiwedd cyfnod yr ymchwiliad.
- 5.5.82. O ran BNG, roedd yn amlwg erbyn diwedd yr Archwiliad bod yr Ymgeisydd yn bwriadu llunio cytundebau cyfreithiol i sicrhau bod y darpariaethau BNG a gynigir yn cael eu cyflawni a'u cynnal a'u cadw oddi ar y safle. Wrth ymateb i lythyr Rheol 17 yr ExA [PD028] a oedd yn ceisio gwybodaeth ychwanegol ynglŷn â "...statws unrhyw gytundeb(au) a111, sy'n cael eu cwblhau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac unrhyw Gytundebau Perfformiad Cynllunio sy'n cael eu paratoi, rhwng FCC a CWCC", cynghorodd yr Ymgeisydd, yn ei ymateb erbyn DL9 [REP9-012]:
- O ran CWCC: "Anfonwyd drafft cyntaf o'r cytundeb BNG sy'n ymdrin â'r holl gynefinoedd yn Lloegr at CWCC ar 05 Mehefin 2023. Mae trafodaethau ynglŷn â hyn yn parhau a dychwelwyd y drafft diweddaraf i CWCC ar 14 Medi. Arhosir am sylwadau ar y diwygiadau hynny."
 - O ran FCC: Mae'r Ymgeisydd ac FCC "...wedi cytuno y bydd FCC yn darparu budd net i fioamrywiaeth... ar gyfer Cynefinoedd Blaenoriaeth Pyllau a Gwrychoedd yng Nghymru. Mae trafodaethau'n parhau ynglŷn â chytundeb A111 lle (a) mae'r Ymgeisydd yn cytuno i dalu'r cyfraniad cytunedig i FCC ar gyfer y gwasanaethau hyn, a (b) mae FCC yn cytuno i ddarparu'r BNB a'i gynnal a'i fonitro am gyfnod o 30 mlynedd. Mae lleoliadau'r BNB, ac egwyddorion parhaus ynglŷn â rheoli a monitro wedi'u cytuno, ac mae'r Ymgeisydd yn disgwyl llunio'r cytundeb yn fuan.

Mae'r Ymgeisydd ac FCC wedi cytuno y bydd yr Ymgeisydd yn darparu BNB ar gyfer Cynefin Blaenoriaeth Coetir yng Nghymru. Er bod yr Ymgeisydd yn trafod gyda thirfeddiannwr trydydd parti ynglŷn â chaffael tir, ni fydd y tir yn cael ei gaffael cyn diwedd yr archwiliad. Felly, mae'r Ymgeisydd wedi rhoi cytundeb a111 i FCC sy'n nodi y byddai'r Ymgeisydd yn ymrwymo i ddarparu cytundeb A106 sy'n sicrhau bod coetir yn cael ei ddarparu yng Nghymru cyn gynted â bod

LBCCS [yr Ymgeisydd] wedi caffael buddiant cyfreithiol mewn tir y gellir ei ddefnyddio i greu'r Cynefin Coetir sy'n ofynnol.

Darparwyd fersiwn ddrafft o'r cytundeb a111 Cynefinoedd Blaenoriaeth Pyllau a Gwrychoedd ym mis Mehefin 2023 a darparwyd fersiwn ddrafft o gytundeb a111 gyda chytundeb a106 ar gyfer coetir i FCC ar 14 Awst. Er yr anfonwyd nodiadau atgoffa, nid yw'r Ymgeisydd wedi derbyn sylwadau ar y fersiynau drafft hynny. Mae'r Ymgeisydd wedi cael gwybod ar wahân gan FCC bod rhan o'r ddarpariaeth wrychoedd a amlygwyd yn flaenorol yn cael ei hadolygu ac efallai y bydd angen addasu union leoliad y ddarpariaeth rywfaint. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn effeithio ar y strategaeth, yr asesiad, na ffurf y cytundeb yn gyffredinol, a bydd yr amcan cyffredinol yn cael ei gyflawni.

Anfonwyd PPA drafft at FCC ar 18 Gorffennaf 2023. Er yr anfonwyd nodiadau atgoffa, nid yw'r Ymgeisydd wedi derbyn sylwadau ar y drafft hwnnw."

- 5.5.83. Er gwaethaf yr oedi uchod, daeth yn amlwg yn ystod yr Archwiliad bod yr IPau perthnasol yn fodlon y byddai cytundeb a111 o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn cael ei ddefnyddio i sicrhau:
- BNB ar gyfer Cynefinoedd Blaenoriaeth Pyllau a Gwrychoedd yng Nghymru;
 - BNB Cynefin Blaenoriaeth Coetir yng Nghymru (gyda'r cytundeb a111 yn mynnu bod cytundeb a106 yn cael ei gwblhau o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 mewn perthynas â chyflawni a chynnal darpariaeth BNG oddi ar y safle);
 - cytundeb BNG yn ymdrin â'r holl gynefinoedd sy'n ofynnol yn Lloegr.
- 5.5.84. Roedd yr Ymgeisydd ac IPau perthnasol yn fodlon y byddai cytundeb a111 yn ddigonol i sicrhau'r materion hyn ac nad oedd angen i'r cyfryw gytundebau gael eu cyflwyno i'r Archwiliad. Nid oes gan yr ExA reswm i anghytuno â'r Ymgeisydd nac IPau perthnasol yn hyn o beth ac mae'n fodlon ar yr ymagwedd.
- 5.5.85. Gan droi at oblygiadau cysylltiedig gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd sy'n ymwneud â bioamrywiaeth, holodd yr ExA a ellid darparu coed sy'n tyfu'n gyflym er mwyn sicrhau cyfnerthu cadarnhaol neu ystyried nodweddion dylunio ymgorfforedig eraill. Mae'r Ymgeisydd wedi cynnwys darpariaeth o'r fath. Mae hefyd yn honni bod ansicrwydd ynglŷn â sut byddai coed a choetir yn ymateb i newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol (gan gyfeirio at Reoli coetiroedd Lloegr mewn argyfwng hinsawdd, y Comisiwn Coedwigaeth (2020)).
- 5.5.86. Fodd bynnag, mae tystiolaeth yr Ymgeisydd yn disgwyl yn gyffredinol y bydd gaeafau'n mynd yn wlypach a hafau'n mynd yn sychach gyda chyfnodau dwysach o sychder haf a digwyddiadau glawiad. Mae canllawiau cyffredinol yn cynnwys plannu ystod ehangach o rywogaethau oherwydd yr ansicrwydd sy'n ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd a rheoli coetir (gan gyfeirio at Gydnerthedd Coedwigoedd Canllaw 2: Gwella

amrywiaeth rhywogaethau coed coetiroedd Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru (Mawrth 2017)). Nid oes gan yr ExA sail i anghytuno.

- 5.5.87. Cydnabu'r ExA, er mwyn i'r Ymgeisydd gynyddu'r gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd a chyflawni gwelliannau ecolegol i'r eithaf, fod angen i rywogaethau gael eu dewis yn unol â'r microhinsoddau penodol i safle cyffredinol/ disgwylidig, amodau pridd a nodau bioamrywiaeth. Felly, mae'r Ymgeisydd wedi dewis ystod amrywiol o rywogaethau plannu a all sefydlu a ffynnu mewn perthynas ag amodau hinsoddol disgwylidig y dyfodol. Disgrifir y dull rheoli yn yr OLEMP hefyd. Yn ogystal, nodir y byddai'r union rywogaethau a ddewisir yn cael eu sicrhau yn yr LEMP terfynol.
- 5.5.88. At hynny, anogwyd darparu banc hadau mewn cyflwyniadau yn gynharach yn yr Archwiliad a gofynnodd yr ExA i'r Ymgeisydd egluro darpariaeth o'r fath naill ai yn yr OLEMP (ac unrhyw ddiwygiad a sbardunir gan R11) a/ neu'r ddogfen REAC. Tua diwedd yr Archwiliad, eglurodd yr Ymgeisydd y byddai'r LEMP canlyniadol a sicheir gan R11 y dDCO yn cynnwys manylion rheoli'r banc pridd a hadau.

CASGLIAD YR EXA

Agweddau ar linell sylfaen/ arolwg/ methodoleg

- 5.5.89. Mae'r ExA yn canfod:
- Bod methodoleg asesu'r Ymgeisydd yn gynhwysfawr ac yn dryloyw, sy'n golygu nad oes llawer o amheuaeth ynglŷn â sut y meintiolwyd effeithiau'r Datblygiad Arfaethedig. Mae hefyd yn defnyddio cyngor gan unigolion cymwys ac arbenigwyr wrth ddod i'w gasgliadau cyffredinol, y mae'r ExA yn rhoi pwys sylweddol iddo.
 - Cafodd yr Ymgeisydd ddata arolwg sylfaenol, o leiaf, ar draws Terfynau'r Gorchymyn ond mae wedi cwblhau arolygon y tu hwnt i'r rheiny hefyd, lle y bo hynny'n gymesur. Defnyddiwyd y canlyniadau'n briodol i lywio'r ES a datblygiad egwyddorion a mesurau lliniaru i ddiogelu derbynyddion fel y bo'r angen, gan dybio senario achos gwaethaf rhesymol. Yn unol â hynny, mae'r ExA yn fodlon y byddai'r egwyddorion a'r mesurau lliniaru y dangoswyd tystiolaeth ohonynt yn sicrhau y gellir diogelu derbynyddion y tu hwnt i Derfynau Gorchymyn y DCO yn ddigonol.
 - At hynny, o ystyried yr elfennau a hepgorwyd o asesiad yr Ymgeisydd [REP7-046] yn Nhabl 9.2, mae'r ExA yn cytuno bod yr elfennau a restrwyd yn briodol ac na fyddent yn arwain at LSE oherwydd natur y Datblygiad Arfaethedig.
 - Yn unol â hynny, mae'r ExA yn derbyn bod llinell sylfaen y ES, lefel y wybodaeth arolygu, a'r fethodoleg gyffredinol a ddarparwyd yn briodol i seilio penderfyniad arnynt. Er y derbynnir yr agweddau hynny, mae'r ExA hefyd yn cydnabod y byddai gan ymrwymadau arolygu cyn dechrau ar gyfer unrhyw faterion annisgwyl rôl allweddol i'w chwarae o hyd wrth gyfrif am risgiau cyffredinol.

Effeithiau ar goed (gan gynnwys coed hynafol a choed hynod)

5.5.90. Mae'r ExA yn fodlon:

- Bod osgoi colli coed yn ymddangos yn gryf fel mesur lliniaru dylunio ymgorfforedig wrth gynllunio'r Datblygiad Arfaethedig yn gyffredinol, a bod hyn wedi'i ddangos gan yr ES. Addasodd yr Ymgeisydd y Datblygiad Arfaethedig yn ystod cyfnod yr Archwiliad i leihau colli coed ymhellach, ac i gryfhau plannu coed newydd mewn ardaloedd lle bo hynny'n bosibl.
- Bod faint o goed a gollir (sydd oll yn rhai nad ydynt yn hynafol nac yn hynod), fel y manylir yn Asesiad Coedyddiaeth yr Ymgeisydd [REP7-107], yn ymagwedd senario achos gwaethaf. Fodd bynnag, mewn senario o'r fath, byddai'r golled hon yn arwain at effeithiau niweidiol arwyddocaol. Wrth ymateb i'r effaith hon, mae strategaeth lliniaru'r Ymgeisydd, fel y'i sicrhair gan R11 y DCO, yn sylweddol. Mae hyn, ynghyd â'r gyfundrefn reoli arfaethedig, fel y'i hamlinellir yn yr OLEMP, yn caniatáu ar gyfer plannu swm sylweddol o goed newydd, yn ogystal â sefydlu cyfnod cynnal a chadw 5 mlynedd ar gyfer pob elfen o'r dirwedd, gan gynnwys yn bennaf: gwrychoedd, glaswelltir; a phlannu llwyni brodorol; a chyfnod 10 mlynedd ar gyfer plannu coed a choetir brodorol.
- O ran Coetir Hynafol, mae'r ExA wedi ystyried yr holl ffactorau perthnasol, gan gynnwys lledaeniad canopi'r ardal goetir dan sylw, a gwahaniaethau o ran lefel y tir, yn berthynol i'r pellter llain glustogi 13m ar Fferm New Bridge, a lleiniau clustogi eraill (15m ym mhob lleoliad arall). Mae'n credu bod y rhain yn ddigonol ac yn cael eu sicrhau'n ddigonol trwy Ofyniad yn y dDCO. Wrth ddod i'r casgliad hwnnw, nid yw'r ExA yn cytuno bod cyfiawnhad felly i'r llain glustogi 30m a gynghorir gan Goed Cadw. Yn yr amgylchiadau hyn, o ystyried holl fesurau lliniaru arfaethedig yr Ymgeisydd mewn perthynas â Choetir Hynafol a choed hynod, mae'r ExA o'r farn bod y risgiau i Goetir Hynafol a choed hynod (na chynigir eu symud ymaith) yn lleiafswmiol, o ganlyniad i fesurau lliniaru rhesymedig yr Ymgeisydd a gynlluniwyd yn ofalus.
- Yn unol â hynny, er y byddai lefel gyffredinol y coed a gollir yn cael effaith niweidiol, mae'r ExA yn ymwybodol y byddai plannu digolledu'n mynd ymhell tuag at wneud iawn am golled o'r fath. At hynny, er y byddai risgiau ymylol i Goetir Hynafol wedi'i leoli ar Fferm New Bridge, mae'r ExA o'r farn bod y risg hon yn gyfyngedig yng ngoleuni'r lleiniau clustogi a gynigir a'r dopograffeg yn yr ardal amgylchynol.
- O ystyried y risg leiafswmiol, mae'r ExA o'r farn bod y strategaeth digolledu coed gyffredinol, a sicrhair gan y DCO arfaethedig, yn briodol mewn perthynas â chanllawiau cyffredinol PPW/ TAN sy'n gymwys yn ardal weinyddol FCC, a'r NPPF/ NPPG sy'n gymwys yn Lloegr.

Effeithiau/ mesurau lliniaru rhywogaethau a warchodir/ rhywogaethau eraill

5.5.91. Mae'r ExA yn canfod:

- Byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn arwain at golli cynefinoedd, y byddai mesurau lliniaru a digolledu'n cael eu cymryd ar ei gyfer yn unol â Thabl 9.12 Pennod 9 (Bioamrywiaeth) yr ES [REP7-046]. Ar ôl lliniaru a digolledu, mae'r ExA yn cytuno â chanfyddiadau Tabl 9.13, fel yr amlinellir ym Mhennod 9 (Bioamrywiaeth) yr ES [REP7-046], y bydd yr effeithiau canlyniadol naill ai'n ddibwys neu heb fod yn arwyddocaol yn ystod y camau adeiladu, gweithredol, a datgomisiynu.
- Er bod rhai agweddau ar ymagwedd yr Ymgeisydd at liniaru a fanylir yn yr LEMP [REP7-191] yn fanwl, ei bod hefyd yn cynnwys mesurau sydd wedi'u cyffredinoli i raddau, gan gydnabod absenoldeb dyluniad penodol, ar yr un pryd â bod yn ddigon rhagnodol i sicrhau bod derbynyddion yn cael eu diogelu a/ neu eu lliniaru yn ystod adeiladu. At ei gilydd, o ystyried y ddarpariaeth drwyddedu ar wahân sydd ar gael, fel y'i datblygwyd yn ystod cyfnod yr Archwiliad, mae'r ExA yn derbyn bod ymagwedd yr Ymgeisydd yn gymesur ac yn rhesymol.

Mesurau gwella bioamrywiaeth/ cydnerthedd

5.5.92. Mae'r ExA yn canfod:

- Byddai gwelliannau sy'n cynnig gwerth budd net diffiniedig o 1% o leiaf ym mhob Cynefin Blaenoriaeth yng Nghymru a Lloegr (a fesurir yn annibynnol neu ar y cyd fel ardaloedd gweinyddol) yn realistig gan ddefnyddio safleoedd gwrthbwysu Cynefin Blaenoriaeth. Er hynny, heb gadarnhad ynghylch unrhyw rwymedigaethau wedi'u cwblhau sy'n sicrhau bod gwelliannau bioamrywiaeth yn cael eu darparu oddi ar y safle, nid oes sicrwydd ynglŷn â chyflawni budd 1% o leiaf.
- Felly, mae'r ExA yn cytuno bod angen geiriad ychwanegol Gofyniad y DCO (fel y manylwyd yn flaenorol uchod) i sicrhau bod mesurau o'r fath yn cael eu cyflawni er mwyn i'r datblygiad fod yn dderbyniol o safbwynt cynllunio yn y modd a osodwyd gan yr Ymgeisydd. Mae'r ymagwedd hon yn cyd-fynd â darpariaeth gyfreithiol a pholisi Cymru yn ogystal â'r dyheadau polisi cysylltiedig sy'n bresennol yn Lloegr. Mae'r ExA yn amlygu ei safbwynt ynglŷn â hyn trwy ddweud nad yw BNG yn orfodol i NSIPau a bod y gwelliant ecolegol dymunol y cyfeirir ato'n defnyddio terminoleg BNG er mwyn cyfleustra gweinyddol yn unig.

Casgliad Cyffredinol yr ExA

5.5.93. Mae'r ExA wedi ystyried yr holl ddarpariaeth bolisi genedlaethol, ranbarthol, a lleol ar fioamrywiaeth a chadwraeth ecolegol, yn ogystal â sbardunwyr deddfwriaethol allweddol ar gyfer Cymru a Lloegr.

5.5.94. Mae'r ExA yn fodlon nad oes tystiolaeth gref i ddangos y byddai unrhyw effeithiau ehangach ar fioamrywiaeth na chadwraeth natur y tu hwnt i'r rhai hynny a aseswyd gan yr Ymgeisydd yn yr ES a gyflwynwyd. Mae'r effeithiau achos gwaethaf rhesymol tebygol wedi cael eu hamlygu mewn perthynas â bioamrywiaeth a chadwraeth ecolegol.

- 5.5.95. Mae'r ExA yn canfod bod yr Ymgeisydd wedi ceisio osgoi niwed i fioamrywiaeth cyn belled â'i fod yn gallu. Law yn llaw â mesurau osgoi, mae'r ExA yn canfod bod yr Ymgeisydd yn darparu pecyn helaeth o fesurau lliniaru a digolledu a gofnodwyd yn dda. Mae mesurau o'r fath wedi'u sicrhau'n briodol a byddent yn cynnwys hyblygrwydd ychwanegol i ddelio ag unrhyw newidiadau i amgylchiadau sy'n effeithio ar effeithiolrwydd lliniaru.
- 5.5.96. Byddai lefelau digonol o welliant bioamrywiaeth ac ecolegol cadarnhaol yn gyffredinol i Gymru a Lloegr yn bosibl dim ond trwy ychwanegu gofyniad at y DCO, ar y ffurf a amlinellir yn y SoCGau a grybwyllwyd uchod gydag FCC [REP7-259] a CWCC [REP8-022]. Felly, mae'r ExA wedi cynnwys gofyniad o'r fath yn y DCO argymelledig (rDCO).
- 5.5.97. Mae'r ExA yn canfod, gan ganiatáu ar gyfer yr holl strategaethau osgoi, mesurau lliniaru a gwelliannau y dangoswyd tystiolaeth ohonynt, nad oes gwrthdaro sylweddol na llethol â'r polisi lleol mabwysiedig cyffredinol yng Nghymru na Lloegr.
- 5.5.98. Er hynny, wrth ganfod yr uchod, mae'r ExA hefyd yn derbyn bod y polisi cenedlaethol ar gyfer Cymru a Lloegr yn cydnabod na ellir amnewid coetir hynafol (a choed hynod). Diffinnir bod gan yr asedau naturiol hynny werth bioamrywiaeth, diwylliannol a threftadaeth eithriadol a bod unrhyw berygl niwed i gynefinoedd o'r fath, ni waeth pa mor gyfyngedig, yn effaith niweidiol ychwanegol y mae angen ei hystyried yn y cydbwysedd cynllunio. Mae'r ExA yn canfod bod unrhyw risg bosibl i iechyd Coetir Hynafol sy'n ffinio â Fferm New Bridge neu yn rhywle arall ar hyd llwybr y biblinell (er hynny'n gyfyngedig) yn cyfrif yn erbyn y Datblygiad Arfaethedig. O ystyried NPS EN-1 a PPW gyda'i gilydd, mae'r ExA yn rhoi pwys mawr i'r mater hwnnw.
- 5.5.99. Yn hynny o beth, mae'n rhaid i'r angen am y Datblygiad Arfaethedig a'i fuddion fod yn amlwg drech nag unrhyw niwed i goetir hynafol (gan gynnwys niwed posibl) er mwyn rhoi caniatâd. Cynhelir yr ymarfer hwnnw ym Mhennod 7 yr adroddiad hwn.
- 5.5.100. Yn seiliedig ar yr uchod i gyd, mae'r ExA yn fodlon y rhoddwyd ystyriaeth briodol i'r holl effeithiau arwyddocaol tebygol ar fioamrywiaeth yn yr ES. Yn amodol ar ddarpariaethau'r Gofyniad yr awgrymodd yr Ymgeisydd ei ychwanegu at yr rDCO (Atodiad Ch), nid oes unrhyw effeithiau ecolegol eraill negyddol sy'n pwysu yn erbyn caniatáu'r DCO.

5.6. PERYGL LLIFOGYDD/ ADNODDAU DŴR/ HALOGIAD TIR

POLISI

- 5.6.1. Mae'r ExA yn cydnabod bod Adran 18.2 Pennod 18 (Adnoddau Dŵr a Pherygl Llifogydd) yr ES [REP7-063] yn amlinellu'r holl ddeddfwriaeth a pholisïau sy'n gysylltiedig â chyrsiau dŵr a pherygl llifogydd. Mae'r ExA wedi defnyddio'r wybodaeth honno fel sail i'w asesiad yn ogystal â'r cynnwys perthnasol y cyfeiriwyd ato ym Mhennod 3 yr adroddiad hwn.

- 5.6.2. I grynhoi, roedd yr ystyriaethau pwysig a pherthnasol y canolbwyntiwyd arnynt yn yr Archwiliad yn cynnwys y rhai hynny ar lefel genedlaethol (yn berthnasol i Gymru a Lloegr). Mae hyn yn ymestyn i NPS EN-1 lle mae Paragraff 5.7 yn trafod gofynion cynllunio perygl llifogydd ar gyfer prosiectau ynni. Mae'r arweiniad hwn yn cyfeirio at Ganllawiau Polisi Cynllunio (ar gyfer Lloegr) a TAN15 (ar gyfer Cymru), gan gynghori y bydd angen Asesiad Perygl Llifogydd (FRA) ac Asesiad Canlyniadau Llifogydd (FCA) ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig. Yna, mae Paragraff 5.15 yn trafod ansawdd ac adnoddau dŵr, gan ddatgan y dylai'r ES ystyried ansawdd dŵr, swm, nodweddion ffisegol yr amgylchedd dŵr ac amcanion WFD cyrff dŵr.
- 5.6.3. O ran NPS EN-4, mae adran 2.22.2 yn cynghori bod adeiladu piblinellau'n creu coridorau o glirio a chloddio ar yr wyneb a allai effeithio ar dderbynyddion amrywiol fel cyrsiau dŵr, dyfrhaenau, pwyntiau tynnu a gollwng dŵr, ardaloedd sy'n tueddu i orlifo a derbynyddion ecolegol. Gallai effeithiau piblinell gynnwys draenio annigonol neu ormodol, ymyrryd â llwybrau llif dŵr daear, symud halogyddion sydd eisoes yn y tir, cyflwyno llygryddion newydd, llifogydd, tarfu ar ecoleg dŵr, llygredd o ganlyniad i silt o adeiladu a tharfu ar rywogaethau a'u cynefinoedd. Mae'n datgan y dylid osgoi effeithiau yn ystod adeiladu gymaint â phosibl trwy ddewis aliniad neu eu lliniaru os na ellir eu hosgoi, a dylid adfer y tir ar ôl adeiladu.
- 5.6.4. O safbwynt lleol, mae FRA Rhagarweiniol FCC (2011); Strategaeth Leol Sir y Fflint ar gyfer Rheoli Risg Llifogydd (2013); Cynllun Lleol CWCC, Polisi ENV1 ochr yn ochr â Chynllun Lleol CWCC (Rhan Dau) Dyraniadau Tir a Pholisïau Manwl – Ymagwedd a Ffeffir (2015) gyda'i gilydd yn ceisio darparu gwybodaeth ddefnyddiol am reoli perygl llifogydd ac ymagweddau sy'n sensitif i'r ardal leol. O ran ardal Sir y Fflint, mae'r ExA hefyd yn ymwybodol bod TAN15 yn treiddio trwy bolisi lleol fel ystyriaeth bwysig.
- 5.6.5. O ran goblygiadau halogiad, mae cynnwys Adran 11.2 Pennod 11 (Tir a Phriddoedd), Diwygiad C yr ES [REP7-050] yn berthnasol. Mae'n rhoi adroddiad llawn ar y sbardunwyr deddfwriaethol a pholisi ac arweiniad technegol arall. Nid yw'r polisi cenedlaethol ar gyfer Lloegr yn NPS EN-1 a PPW (o ystyried cynnwys TAN5, TAN12 a TAN15) yn sylweddol wahanol i'w gilydd o ran eu nodau.
- 5.6.6. Mae Adran 4.2 NPS EN-1 a chynnwys NPS EN-4 gyda'i gilydd yn ceisio sicrhau bod Ymgeiswyr yn asesu cyflwr y tir sy'n gysylltiedig â llwybr y biblinell. Mae mesurau lliniaru priodol yn ofynnol o dan y polisiau hynny i leihau unrhyw effeithiau niweidiol ar bridd a daeareg i'r eithaf. Cynghorir bod mesurau lliniaru o'r fath yn cynnwys mesurau i sicrhau bod effeithiau gweddilliol ar yr wyneb yn fach, er enghraifft rhywfaint o dwf llystyfiant gwahanol.
- 5.6.7. Law yn llaw â'r darpariaethau cenedlaethol hynny, ar raddfa leol, mae'r ExA wedi rhoi ystyriaeth ddyladwy i'r holl bolisiau amgylcheddol perthnasol yng Nghynllun Lleol CWCC; Cynlluniau Datblygu FCC a Chynllun Glannau Dyfrdwy (2017).

ACHOS YR YMGEISYDD

- 5.6.8. Mae Pennod 18, Diwygiad C yr ES [REP7-063] yn rhoi adroddiad trosfwaol ar yr holl effeithiau ar ddŵr a sbardunir gan y Datblygiad Arfaethedig. Gwahanir effeithiau yng Nghymru a Lloegr. O ran Cymru, mae'r FCA (Atodiad 18.5, Diwygiad C, Rhannau 1, 2, a 3) [REP8-015], [REP8-016] a [REP8-017] yn berthnasol. O ran Lloegr, mae Atodiad 18.4 FRA Rhan 1 a 2, Diwygiad C yr ES [REP7-175] a [REP7-177] yn berthnasol.
- 5.6.9. Yn ogystal, cyflwynodd yr Ymgeisydd Asesiad WFD Diwygiad D [REP8-013]. Mae ardal astudio'r asesiad yn rychwantu coridor 25.2km o Elton yn Swydd Gaerlleon (Lloegr) i'r Fflint yn Sir y Fflint (Cymru).
- 5.6.10. Mae Adroddiad Ymchwiliad Tir [REP8-033] yn cyd-fynd ag asesiad WFD cyffredinol yr Ymgeisydd, fel cyd-destun ychwanegol, ac mae Pennod 14 (Deunyddiau a Gwastraff) yr ES [REP7-055] yn asesu rheolaeth mwynau a gwastraff hefyd. Mae'r ddwy ffynhonnell wybodaeth hynny'n llywio'r holl fesurau lliniaru a monitro a gynigir gan yr Ymgeisydd.
- 5.6.11. O ran halogiad tir, Pennod 11 (Tir a Phriddoedd) Diwygiad C yr ES [REP7-050] sy'n fwyaf perthnasol ochr yn ochr â Ffigur 11.1.3: Ffynonellau Halogiad Posibl yr ES [REP4-269]. Yn ogystal, mae dogfen 'Gwybodaeth am Leoliadau Groundsure' yr Ymgeisydd [REP4-268] yn rhoi cyd-destun i agweddau ar halogiad tir y mae'r ExA wedi'u hystyried. Mae'r Asesiad Risg Mwyngloddio (Rhannau 1 i 10 [REP7-110] i [REP7-119]) yn rhoi rhagor o wybodaeth ryngberthynol ddefnyddiol i dynnu arni hefyd.

Perygl Llifogydd

- 5.6.12. Mae'r FCA (Atodiad 18.5, Diwygiad C Rhannau 1, 2, a 3) [REP8-015], [REP8-016] a [REP8-017] yn adrodd ar y seilwaith DCO a gynigir yng Nghymru yn unig, o Ffin Cymru/ Lloegr i BVS arfaethedig Babell. Daw'r FCA i'r casgliad: -
- Gan fod y biblinell newydd yn ddatblygiad llinol, byddai'n croesi FZau amrywiol drwy gydol ei haliniad. Ond mae'r biblinell yn y categori 'datblygiad llai bregus'. Yn unol â hynny, mae'n cydymffurfio â gofynion TAN15 ar gyfer datblygiad o'r math hwn.
 - Mae pob AGI a BVS yn gyfystyr â 'datblygiad llai bregus' hefyd ac, yn unol â gofynion TAN15, maen nhw'n addas i'w datblygu yn ardaloedd FZ A.
 - Mae Strategaeth Draenio Dŵr Wyneb Amlinellol [REP7-295] wedi cael ei datblygu ochr yn ochr â'r FCA ar gyfer yr holl AGIau/ BVSau arfaethedig i ddangos sut y bydd dŵr wyneb yn cael ei reoli yn unol â gofynion yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol (LLFA) a'r Corff Cymeradwyo (SAB) Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS).
 - Byddai perygl llifogydd i'r biblinell newydd o ganlyniad i ffynonellau amrywiol, gan gynnwys carthffosydd, afonol, llanw, a chronfeydd dŵr, yn ddibwys oherwydd ei bod o dan y tir. Fodd bynnag, mae llwybr y biblinell yn croesi ardaloedd lle y ceir perygl isel, canolig, ac uchel o ddŵr daear yn dod i'r amlwg a pherygl llifogydd. Gallai hyn achosi i lwybrau llif dŵr daear blaenoriaethol ffurfio trwy wely'r bibell a

deunydd amgylchynol y biblinell arfaethedig (ar ôl ei hadeiladu). Cynigir lliniaru'r risgiau hyn yn llwyddiannus trwy dechnegau adeiladu fel defnyddio plwg clai yn rhan o adfer y ffosydd arfaethedig a dileu risg hynofedd trwy ddylunio mewn ardaloedd allweddol lle y ceir pryder y gallai dŵr daear ddod i'r amlwg.

- O ganlyniad i bryderon a godwyd gan CNC ynglŷn â dull y Datblygiad Arfaethedig o groesi Nant Alltami, a archwilir yn ddiweddarach yn y Bennod hon, mae'r Ymgeisydd wedi cynnig ffordd arall o groesi Nant Alltami. Cyfeirir at y fersiwn amgen hon fel y Fersiwn Pont Bibell Ymgorfforedig (EPBV), ac nid dyma'r Fersiwn a Ffefrir gan yr Ymgeisydd (APV) ar gyfer croesi Nant Alltami. Ni fyddai'r EPBV yn cael ei chladdu, ond byddai'n cael ei dylunio mewn ffordd sy'n atal unrhyw gynnydd mewn perygl llifogydd afonol i'r EPBV neu fan arall. Byddai'r dyluniad yn cydymffurfio â gofynion CNC i ganiatáu ar gyfer bwrdd rhydd digonol uwchlaw lefelau llifogydd y dyluniad argymelledig.

5.6.13. Mae ES Atodiad 18.4 FRA Rhan 1 [REP7-177] (Wedi'i olrhain (Ni chyflwynwyd fersiwn lân o Ddiwygiad C)) a Rhan 2 [REP7-175] (Glân) yn manylu:

- Y byddai'r BVSau a'r AGIau arfaethedig yn cael eu gwasanaethu gan system ddraenio a ddyluniwyd i ymdopi â senarios newid yn yr hinsawdd. Mae'r biblinell o dan y tir ac felly nid yw mewn perygl o effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar yr amgylchedd dŵr na pherygl llifogydd.
- Mae'r FRA o'r farn y gellir ymdrin â'r holl risgiau llifogydd yn ddigonol heb arwain at unrhyw niwed sylweddol yn unol â'r polisi cyffredinol. I gyflawni hynny:
 - Argymhellir monitro dŵr daear yn y tymor hir i lywio dyluniad manwl AGI Ince; a bod ymgysylltiad ychwanegol yn cael ei gynnal â'r LLFA yn CWCC, i sicrhau bod yr holl ofynion rheoli dŵr wyneb yn cael eu trafod a'u cytuno.
- Mae'r FRA a'r FCA yn derbyn y byddai gwaith ger gorlifdiroedd ac amddiffynfeydd rhag llifogydd, yn ogytal â strategaeth a dyluniad draenio manwl, yn gofyn i'r Ymgeisydd gysylltu ymhellach â'r LLFA a'r SAB yn FCC/ CWCC. Diben hyn yw sicrhau y cydymffurfir â holl gamau proses gymeradwyo'r SAB. At hynny, byddai'n ofynnol yn rhan o'r OCEMP a'r cais am Drwydded Gweithgarwch Perygl Llifogydd (FRAP) iddo gael ei gyflwyno ar gyfer cydsyniad gwaith dros dro a pharhaol gan CNC ac FCC fel yr LLFA yng Nghymru, ac Asiantaeth yr Amgylchedd (EA) a CWCC fel yr LLFA yn Lloegr. At ei gilydd, byddai'r broses yn atal risgiau llifogydd a llygredd.

Cydymffurfio â'r WFD

5.6.14. Mae'r Asesiad WFD a gyflwynwyd [REP8-013] yn gwneud yr achos trosfwaol bod yr Ymgeisydd, trwy broses ddylunio, wedi ceisio dileu, lleihau, rheoli, a gwella effeithiau posibl ar yr amgylchedd dŵr a derbynnyddion WFD. Asesir bod y rhan fwyaf o'r effeithiau posibl yr ymdrinnir â nhw yn [REP8-013] yn ystod adeiladu.

- 5.6.15. Fel sy'n ofynnol gan yr WFD, mae'r Ymgeisydd yn asesu p'un a fyddai'r Datblygiad Arfaethedig yn dirywio potensial neu statws ecolegol corff dŵr wyneb neu ddŵr daear.
- 5.6.16. Hefgorwyd dŵr daear o'r asesiad manwl gan na ddisgwylir unrhyw effeithiau ar y raddfa corff dŵr ar gyfer Cymru na Lloegr. Mae'r Datblygiad Arfaethedig hefyd yn cynnwys draenio cysylltiedig ar gyfer AGIau a BVSau, a chroesfannau gyda ffos a di-ffos ar gyfer y biblinell newydd.
- 5.6.17. O ran elfennau ardal tir y DCO o fewn ardaloedd gweinyddol Cymru, daw'r asesiad WFD i'r casgliad: -
- Na fyddai cyrff dŵr yn dirywio: Nant Gwepa; Nant Swinchiard; Dyfrdwy (Gogledd Cymru); Wheeler – Isaf; a Phant Gwyn. Mae'r holl gyrff dŵr hynny'n rhan o ddarpariaethau'r OCEMP, y REAC a'r Cynllun Rheoli a Monitro Dŵr Daear (GWMMP) [REP7-283].
 - Byddai cynefinoedd yn agos at gyrff dŵr yn cael eu hadfer cyn belled ag y bo'n ymarferol i efelychu'r amodau sylfaenol. Disgwylir i gynefinoedd wella'n naturiol o fewn dwy flynedd ar ôl iddynt gael eu hadfer ac felly ni ddisgwylir effaith tymor hir.
 - Mae Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 yn berthnasol i'r asesiad o ganlyniad i newidiadau posibl i ddeinameg waddodion. Fodd bynnag, ni ystyrir bod hyn yn ffactor arwyddocaol yn ymarferion cwmpasu'r Ymgeisydd. I'r perwyl hwnnw, ni fyddai ffynonellau nitradau'n cael eu cyflwyno i'r corff dŵr yn rhan o'r Datblygiad Arfaethedig. Felly, ni ystyrir bod angen asesiad ar wahân ar gyfer nitradau.
 - Yn ystod adeiladu, disgwylir i groesfannau di-ffos gael effaith leiafswmiol neu ddim effaith ar gyrff dŵr WFD, sy'n cefnogi'r casgliad na ddisgwylir unrhyw effeithiau cronol.
 - O ran cyrff dŵr Nant Alltami a Nant Gwepa, daw'r asesiad WFD i'r casgliad y byddai'r cyrsiau dŵr yn cael eu hadfer i efelychu'r amodau sylfaenol, gan felly osgoi unrhyw ddirywiad.
 - Fodd bynnag, o ystyried y gwrthwynebiadau a fynegwyd gan CNC, cynhwyswyd 'Achos Rhanddirymiad WFD Heb Ragfarnu' [REP5-016] (yn benodol ar gyfer Nant Alltami) yn rhan o'r cyflwyniad DCO. Paratowyd Achos Rhanddirymiad WFD Heb Ragfarnu'r Ymgeisydd i gyflwyno tystiolaeth i fynd i'r afael â'r holl brofion Erthygl 4(7) a nodir yn y ddeddfwriaeth WFD.
 - Trwy ddarparu data a dadansoddiad ychwanegol, mae'r achos rhanddirymiad yn ceisio dangos na fyddai'r biblinell yn achosi i statws Nant Alltami ddirywio o gwbl.
- 5.6.18. Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn [REP5-016] yn amlygu effeithiolrwydd y mesurau lliniaru a'r aliniad â chynseiliau sefydledig fel penderfyniad Waddensee⁶ i atal unrhyw effeithiau niweidiol ar y corff dŵr.

⁶ Achos C-127/02 Waddensee Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd (CJEU) 7 Medi 2004, Cyfeirnod ar gyfer dyfarniad rhagarweiniol gan y Raad van State (yr Iseldiroedd) yn yr

- 5.6.19. O ran cyrff dŵr yn Lloegr, mae asesiadau'r Ymgeisydd yn canolbwyntio ar: Nant Peckmill, Cwter Hoolpool a Chorsydd Ince; Aberol Mersi; Gowy (Nant Milton i Afon Mersi); Nant Stanney Mill; Camlas Undeb Swydd Amwythig; Camlas Llongau Manceinion; Cwter Fitchett; Draen Garden City; a Draen Sandycroft. Mae'r Ymgeisydd yn honni na fydd yr holl gyrff dŵr hynny'n dirywio o ystyried darpariaethau'r OCEMP, y REAC a'r GWMP. Mae'n dod i'r casgliad:
- Na fyddai'r Datblygiad Arfaethedig yn peryglu gallu corff dŵr i gyflawni statws neu botensial ecolegol da. Wrth wneud hynny, mae'r Ymgeisydd yn amlygu pan fydd angen symud coed ymaith o'r parth glannau afon ar hyd cwrs dŵr, cynigir gwelliannau yn unol â'r OLEMP i sicrhau nad oes effaith ganlyniadol arwyddocaol.
 - Wrth groesfan Afon Gowy, byddai'r biblinell newydd yn cael ei chladdu o dan lefel gwely'r afon heb effeithio ar brosesau afonol, fel yr amlinellir yn y REAC. Trwy wneud hynny, mae'r Ymgeisydd yn amlygu na fyddai hyn yn atal cyflawni statws neu botensial da.
- 5.6.20. O ganlyniad, ar gyfer yr holl effeithiau disgwylidig yng Nghymru a Lloegr, mae asesiadau cyfunol yr Ymgeisydd yn dangos ei fod yn credu y cydymffurfir â'r WFD. Mae'r ES hefyd yn cadarnhau, yn sgil gweithredu mesurau lliniaru priodol, na ddisgwylir unrhyw effeithiau cronol o ganlyniad i'r effeithiau dros dro a thymor byr yn ystod y cam adeiladu.
- 5.6.21. Pan fydd dyluniad manwl ar gael ar gyfer y biblinell yn dilyn mesurau microleoli, mae'r Ymgeisydd yn bwriadu cynnal adolygiad i gadarnhau effeithiau cronol er mwyn sicrhau nad yw'n tanseilio amcanion yr WFD nac yn peryglu cyflawni mesurau lliniaru'r WFD. Byddai adolygiad cadarnhau WFD o'r fath yn cael ei gyflwyno gyda'r cais disgwylidig am Drwydded gweithgarwch perygl llifogydd, gan sicrhau bod effeithiau posibl yn cael eu gwerthuso ac y cydymffurfir yn briodol â rheoliadau amgylcheddol.
- 5.6.22. Mae'r pecyn lliniaru a monitro cyffredinol a gynigir gan yr Ymgeisydd yn cynnwys y canlynol:
- Cynllun Rheoli a Monitro Dŵr Wyneb (a gynhwysir fel dDCO R8);
 - Monitro Afloywder (Cyfeirnod REAC D-WR-044);
 - GWMP a gynhwysir fel Gofyniad yn y DCO (dDCO R5);
 - Cynllun Rheoli Dad-ddyfrio a gynhwysir fel Gofyniad yn y DCO (dDCO R5);
 - Monitro geomorffolegol ac ecolegol o'r gwaith parhaol yn Nant Alltami i amlygu unrhyw fethiant posibl a allai arwain at effaith arwyddocaol ar yr amgylchedd dŵr a'r cynefin dyfrol. Cynigir penderfynu ar y math o fonitro, ei hyd, a'i amllder trwy ddatblygu'r asesiad geomorffolegol a'r dyluniad manwl; mewn ymgynghoriad â CNC ac FCC (fel LLFA) (Cyfeirnod REAC D-WR-065). Fe'i sicrhau gan R3/ R5 y dDCO gyda'i gilydd.

achos: Landelijke Vereniging tot Behoud van de Waddenzee and Nederlandse Vereniging tot Bescherming van Vogels v Staatssecretaris van Landbouw, Natuurbeheer en Visserij.

SAFBWYNTIAU PARTÏON Â BUDDIANT

- 5.6.23. Gan gyfrif am ddiweddariadau a newidiadau yn ystod yr Archwiliad i'r rhan o'r Datblygiad Arfaethedig yng Nghymru, roedd CNC yn fodlon at ei gilydd ar yr ystod o fesurau rheoli perygl llifogydd a'r rhan fwyaf o effeithiau dŵr daear y datblygiad. Roedd y prif faes anghytundeb drwy gydol yr Archwiliad yn ymwneud â sut byddai'r biblinell yn croesi Nant Alltami.
- 5.6.24. Yn bwysig, mae CNC o'r farn y 'gallai' corff dŵr 'Nant Gweptra' ddirywio o ganlyniad i groesfan ffos agored (gyda ffos) arfaethedig 'Nant Alltami'. Y prif bryder oedd na fyddai gofynion Erthygl 4(7) yr WFD, fel y'i troswyd gan Reoliad 19 Rheoliadau WFD 2017, yn cael eu bodloni. Fodd bynnag, roedd y Fersiwn Croesfan â Ffos (TCV) o'r DCO (yr APV) yn cael ei thrafod o hyd ar ddiwedd yr Archwiliad, er bod yr Ymgeisydd hefyd wedi cyflwyno EPBV amgen o'r DCO [REP8-007] rhag ofn y byddai'r ExA neu'r SoS o'r farn bod yr APV yn annerbyniol.
- 5.6.25. Yn ei ymatebion i'r Archwiliad, ni nododd FCC unrhyw wrthwynebiadau i oblygiadau ansawdd dŵr/ adnodd dŵr/ hydroddaearegol na materion halogiad tir neu reoli gwastraff. Fodd bynnag, mynegodd sylwadau gan IPau rywfaint o bryder ynglŷn â goblygiadau ansawdd dŵr/ ecolegol cyffredinol yng Nghymru a Lloegr.
- 5.6.26. O ran datblygiad y biblinell yn Lloegr, cydnabu'r EA [REP7-309] [REP8-043], o ystyried yr Adroddiad Technegol Ymchwiliad Tir [REP7-293], y gallai defnyddiau amaethyddol gyflwyno rhai risgiau halogiad tir a allai gynyddu yn sgil gwaith sy'n gysylltiedig ag adeiladu'r biblinell (h.y. dad-ddyfrïo; gwastraff; cynlluniau rheoli pridd a mwynau).
- 5.6.27. Amlygodd yr EA nad yw tyllau ymchwilio o fewn radiws 500m yn ddigonol a bod rhannau o'r Datblygiad Arfaethedig lle mae un neu ddau bwynt samplu yn unig wedi'u lleoli o fewn coridor y biblinell. Felly, er bod yr Ymgeisydd wedi amlygu ardaloedd ychwanegol i'w hymchwilio (lleiniau 1-25; 4-12; 8-10 ac 8-12 yn y Cynlluniau Tir [REP7-008]) yn [REP7-293], mae'r EA yn parhau i gredu bod angen gwaith ymchwilio ac asesu tir ychwanegol yn ehangach na'r lleiniau a amlygwyd er mwyn sicrhau dealltwriaeth ddigonol o nodweddion safle llwybr y biblinell ac i ddangos y gellir rheoli'r risgiau i 'ddyfroedd a reolir' yn briodol o fewn Terfynau'r Gorchymyn.
- 5.6.28. Mae'r EA hefyd yn cydnabod bod y REAC a gyflwynwyd [REP7-237] yn darparu ar gyfer ymchwiliadau ac asesiadau ychwanegol, yn seiliedig ar 'bwyntiau ffynhonnell' halogiad (Cyfeirnodau REAC D-LS-020 ac, i ryw raddau, D-LS-021). Fodd bynnag, nid yw'n credu y byddai ymagwedd o'r fath yn briodol wrth ystyried risg. Mae'r EA o'r un farn o ran Atodlen 2, R9 y dDCOau (ar gyfer yr EPBV [REP8-007] neu TCV a ffefrir yr Ymgeisydd [REP9-011]).
- 5.6.29. O ran Cyfadeilad Gweithgynhyrchu Stanlow, nododd yr EA fod yr Ymgeisydd wedi cynnwys Gofyniad penodol ar gyfer Lleiniau Tir 3-11; 3-12; 3-13; 3-14 a 3-15 yn Atodlen 2 R9 y dDCOau (EPBV [REP8-007])

neu'r TCV a ffefrir gan yr Ymgeisydd [REP9011]). Fodd bynnag, mae'n nodi er y gallai materion halogiad yn Stanlow fod yn gymhleth, nid yw'n credu bod angen trin Stanlow ar wahân i'r datblygiad piblinell ehangach wrth ystyried egwyddorion rheoli tir halogedig. Yn unol â hynny, mae'r EA o'r farn y byddai Gofyniad DCO yn briodol sy'n mynnu bod gwaith ymchwilio/ asesu safle yn cael ei gyflwyno a'i gymeradwyo; a, lle y bo'r angen, strategaeth(au) unioni; cynllun(iau) dilysu a chadarnhau dilynol cyn i waith datblygu ddechrau ar gyfer pob cam.

- 5.6.30. Yn gyffredinol, wrth amlygu sawl maes anghytundeb yn ystod yr Archwiliad, gofynnodd yr EA i ystyriaeth gael ei rhoi i ddiwygio R9 y DCO er mwyn sicrhau bod gwaith yn cael ei wneud a bod mesurau unioni/ rheoli llygredd digonol yn cael eu sefydlu i'w cyflwyno i'r awdurdod perthnasol a'u cymeradwyo ganddo, mewn ymgynghoriad â nhw. Mae'r SoCG gyda'r EA yn manylu ar rai o'r materion hyn [REP9-004].
- 5.6.31. Mae'r ExA hefyd yn cydnabod bod cynnwys LIR CWCC [REP1A-002], Atodiad [REP1A-003]; a LIR FCC [REP1A-005], Atodiad [REP1A-006] gyda'i gilydd yn codi rhai pryderon ynglŷn â llifogydd/ dwrlawnder a draenio cyffredinol. Ond, at ei gilydd, ildwyd y materion lleol hynny a godwyd gan y ddau Gyngor cynhaliol i'r EA a CNC yn ystod yr Archwiliad, lle'r oeddent yn gysylltiedig ag asesu cydymffurfio â'r WFD a pherygl llifogydd trosfwaol.

ARCHWILIAD

Perygl Llifogydd ar gyfer Cymru

- 5.6.32. Roedd yr ExA yn ymwybodol bod effeithiau perygl llifogydd yn destun trafodaeth gydag ymgynghoreion perthnasol yn ystod yr Archwiliad. Wedi hynny, cytunodd y SoCG gyda CNC Diwygiad E [REP7-261], a gyflwynwyd erbyn DL7, fod cynnwys yr FCA yn dderbyniol at ei gilydd, ond bod angen rhai mân ddiweddiadau os bydd amddiffynfeydd Afon Dyfrdwy (Arglawdd Penarlâg) yn methu. Mae'r ExA hefyd yn amlygu bod cynlluniau lleoliad, ar gyfer pob croesfan arfaethedig ar brif afonydd, wedi cael eu darparu trwy Atodiad 18.5 yr FCA (Rhan 3) [REP8-017] yn Ffigur 18.5.17 Croesfannau Cyrsiau Dŵr (Cymru).
- 5.6.33. Adolygodd yr Ymgeisydd Bennod 3 yr ES yn erbyn y 'Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio' newydd a chanfu nad oedd unrhyw newidiadau i'r perygl llifogydd fel yr adroddwyd yn yr FCA. Nid oedd gan yr ExA reswm i anghytuno â'r safbwynt hwnnw yn dilyn mewnbwn gan IPau a'r holl ymatebion i'r archwiliad.
- 5.6.34. Mae'r ExA yn nodi bod y dDCO yn ymrwymo'r Ymgeisydd i gynhyrchu CEMP wedi'i gydgrynhoi yn seiliedig ar yr OCEMP. Roedd CNC o'r farn bod yr ymagwedd hon yn dderbyniol, ar yr amod bod yr OCEMP yn cael ei ddiweddarau i gadarnhau beth fydd yn digwydd i unrhyw sgil-gynhyrchion o'r gwaith cloddio. Diwygiwyd yr OCEMP i egluro, o ran y croesfannau di-ffos arfaethedig ar gyfer cyrsiau dŵr llanw, bod dogfennau'r archwiliad yn cadarnhau y byddai pyllau i mewn ac allan ar gyfer y croesfannau di-ffos yn cael eu lleoli o leiaf 16m i ffwrdd oddi wrth y cwrs dŵr llanw ac unrhyw strwythurau amddiffyn rhag llifogydd ar y cwrs dŵr hwnnw.

5.6.35. Cydnabyddir hefyd bod yr FCA wedi cael ei ddiweddarau i gynnwys asesiad o berygl llifogydd ar gyfer y groesfan pont bibell ymgorfforedig amgen arfaethedig dros Nant Alltami. Yna, seiliwyd mesurau lliniaru wedi'u diweddarau ar yr ymagwedd hon. Roedd CNC o'r farn bod yr asesiad o risg a'r mesurau lliniaru arfaethedig yn rhesymol, ond gwahoddodd foddelu hydrolig manwl yn ystod y cam dylunio i feintioli lefelau llifogydd a llywio dyluniad y bont. Wedi hynny, cynhwysodd yr Ymgeisydd ymrwymiad ym mharagraff (8) R4 y dDCO. Gyda'r diweddariadau hynny, mae'r ExA yn fodlon y cydymffurfir â pholisi rheoli llifogydd Cymru.

WFD ar gyfer Cymru

- 5.6.36. Yn ystod yr Archwiliad, roedd yr ExA yn ymwybodol o'r 'Canllawiau ar Gynllunio Basnau Afonydd: Canllawiau statudol yn ymwneud â gweithredu Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017', a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2020. Mae'r ExA wedi ystyried cynnwys y canllawiau hyn wrth gymhwyso polisi strategol a chynllun lleol cysylltiedig, cyngor TAN (gyda'i gilydd gan nad oes TAN penodol ar yr amgylchedd dŵr), yn ogystal â'r profion deddfwriaethol a sbardunir.
- 5.6.37. Wrth ystyried y canllawiau uchod, mae'n berthnasol nodi bod Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gosod ymagwedd ddeddfwriaethol fodern sy'n cydnabod bod cydgysylltiad rhwng dŵr, tir, aer, a môr Cymru, a bod yr economi, cymdeithas a'r amgylchedd i gyd yn rhyngddibynol. Mae'n amlinellu'r gofynion i reoli, defnyddio a gwella adnoddau naturiol Cymru er mwyn cyflawni buddion economaidd, cymdeithasol, ac amgylcheddol cynaliadwy sy'n para. Mae'r Ddeddf yn ychwanegu at yr WBFGA a Deddf Cynllunio (Cymru) 2015. Un o themâu allweddol Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yw rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, sy'n tynnu ar Ymagwedd Ecosystemau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol.
- 5.6.38. Gyda'i gilydd, maen nhw'n sefydlu ymagwedd seiliedig ar ardal at gynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn ffordd fwy cydgysylltiedig i wella cydnerthedd ecosystemau a gallu ecosystemau i addasu i'r newid yn yr hinsawdd. Mae hyn yn golygu sicrhau bod amcanion Cynllun Rheoli Basn Afon yn cyd-fynd â Datganiadau Ardal, sef y dogfennau sy'n amlinellu'r blaenoriaethau, yr heriau, a'r cyfleoedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ar lefel ranbarthol yng Nghymru.
- 5.6.39. Canfu'r ExA fod llawer o'r dadleuon a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd ac IPau yn cyfeirio'n ôl yn uniongyrchol at ddarpariaeth ddeddfwriaethol yn hytrach na materion polisi lleol neu ranbarthol. Cofnodwyd y materion hyn yn bennaf mewn perthynas ag ymatebion gan CNC. Nid oedd FCC wedi adrodd yn uniongyrchol am unrhyw bryderon sylweddol ynglŷn ag effeithiau polisi lleol cysylltiedig ag WFD na phryderon cyffredinol ynglŷn â chydymffurfio â deddfwriaeth o'r fath. Roedd yr ExA hefyd wedi cydnabod dymunoldeb a'r ymagwedd gyffredinol at gydymffurfio â pholisi atal llygredd dŵr a gwarchod ecosystemau ar lefel Cynllun Lleol.

- 5.6.40. Mae'r canllawiau statudol y cyfeiriwyd atynt yn cydnabod eu bod yn berthnasol i CNC o ran gweithredu Rheoliadau 2017 yn ymarferol, i'r graddau eu bod yn berthnasol i Ardaloedd Basn Afon (RBDau) sy'n gyfan gwbl yng Nghymru a'r rhan o RBDau trawsffiniol sydd yng Nghymru. Cyhoeddir y canllawiau o dan reoliad 36(5) Rheoliadau 2017. Maen nhw hefyd yn nodi y bydd Gweinidogion Cymru a'r SoS yn cyhoeddi canllawiau atodol i CNC ac Asiantaeth yr Amgylchedd ar gynllunio basn afon ar y cyd yn RBD Dyfrdwy.
- 5.6.41. Mae'r ExA yn nodi nad oedd CNC nac IPau eraill wedi cyfeirio'n sylweddol at Ddatganiadau Ardal yn y dadleuon a gyflwynwyd.
- 5.6.42. Profodd yr ExA oblygiadau WFD drwy gydol cyfnod yr Archwiliad trwy Wrandawiadau yn bennaf, yng nghyd-destun ymatebion statudol gan CNC. Cynghorodd CNC yr ExA nad oedd yr asesiad WFD [REP8-013] yn cynnwys digon o fanylion i ddangos cydymffurfedd â'r WFD/ Rheoliadau WFD 2017 ([REP6A-024] a [REP7-318]). Roedd o'r farn bod diffyg tystiolaeth i gefnogi'r groesfan ffos arfaethedig o Nant Alltami (o fewn corff dŵr Nant Gwepre) ac yn credu y gallai corff dŵr Nant Gwepre ddirywio o ganlyniad i'r posibilrwydd o golli llif dŵr o Nant Alltami. Felly, roedd CNC o'r farn y dylai gofynion rhanddirymiad Rheoliad 19 Rheoliadau WFD 2017/ Erthygl 4(7) yr WFD gael eu bodloni os bydd TCV y Datblygiad Arfaethedig yn cael ei datblygu.
- 5.6.43. Cynhyrchodd yr Ymgeisydd achos rhanddirymiad 'heb ragfarnu' ynglŷn â llif dŵr yn Nant Alltami. Cyflwynwyd yr adroddiad rhanddirymiad WFD erbyn DL5 [REP5-016], a rhoddodd CNC ei ymateb i'r adroddiad hwn erbyn DL6A [REP6A-024]. Nid oedd CNC yn cytuno bod y dystiolaeth yn bodloni Rheoliadau WFD 2017 o ran profion rhanddirymiad. Roedd CNC o'r farn nad oedd digon o dystiolaeth i gytuno bod achos cyfiawnadwy wedi'i gyflwyno neu na allai'r amcanion buddiol a geir trwy'r addasiadau i gorff dŵr Nant Alltami gael eu cyflawni trwy ddulliau eraill, am resymau ymarferoldeb technegol neu gost anghymesur, a oedd yn ddewis gwell o lawer i'r amgylchedd.
- 5.6.44. Wrth ymateb, cyflwynodd yr Ymgeisydd ddewis amgen ar gyfer croesfan, sef EPBV [REP8-007], erbyn DL7 i ddechrau, a chyflwynwyd mân ddiwygiadau erbyn DL8, nad oedd yn credu y byddai angen gwneud achos rhanddirymiad ar ei gyfer. Cyflwynwyd hwn fel dewis amgen pe na byddai'r Ymgeisydd yn bodloni'r ExA neu'r SoS gyda'r dystiolaeth a gyflwynodd a oedd yn ceisio gwneud achos rhanddirymiad o blaid ei TCV a ffefrir ac nad oedd opsiynau amgylcheddol sylweddol well ar gael.
- 5.6.45. Ni newidiodd CNC ei farn ynglŷn â'r groesfan â ffos ar draws Nant Alltami a ffefrir gan yr Ymgeisydd a honnodd nad oedd y groesfan gyda ffos yn bodloni gofynion yr WFD/ Rheoliadau WFD 2017 mewn perthynas â'r profion rhanddirymiad (cyflwyniadau CNC DL7 [REP7-318] a [REP7-261]). Nid oedd safbwynt CNC ynglŷn â'r mater hwn wedi newid erbyn diwedd yr Archwiliad.
- 5.6.46. Mae CNC yn honni y gallai'r groesfan gyda ffos achosi i statws WFD y corff dŵr ddirywio o ganlyniad i'r dull adeiladu a defnyddio cwlfertau dros

dro. Mae hefyd wedi datgan na chyfeiriwyd at effeithiau cronol yn yr asesiad WFD.

- 5.6.47. Fodd bynnag, mae'r ExA yn cydnabod bod yr Ymgeisydd wedi cyfeirio at effeithiau cronol o'r fath ym Mhennod 18 yr ES [REP7-063] ac yn ei asesiad WFD [REP8-013]. Yn ei ymatebion i CNC yn ystod yr Archwiliad, mae CNC wedi honni y byddai effeithiau posibl o natur dros dro yn bennaf yn ystod adeiladu ac y byddent yn cael eu rheoli trwy'r OCEMP [REP7-242]. Mae'n honni bod natur dros dro effeithiau posibl yn golygu na ddisgwylir effeithiau cronol, ac na fyddent yn arwain at ddirywio statws corff dŵr yr WFD. Mae'r Ymgeisydd yn gwrthod y syniad y byddai dŵr yn cael ei golli o Nant Alltami.
- 5.6.48. I grynhoi, mae'r ExA yn derbyn bod y materion hyn yn gymhleth ac yn cynnwys risgiau posibl i'r amgylchedd dŵr. Mae'r ExA yn nodi bod ymagwedd adeiladu'r Ymgeisydd wedi'i hystyried yn dda gan ddefnyddio technegau modern, yn ogystal ag arfer gorau. Fodd bynnag, mae'r ExA wedi defnyddio ymagwedd ragofalus wrth asesu'r achos a gyflwynwyd. Mae'r ExA yn cydnabod y gallai'r corff dŵr ddirywio yn unol â phryderon CNC. Mae'r ExA hefyd wedi ystyried safle'r cwlfer cyfagos o dan yr A55 fel nodwedd ar hyd y cwrs dŵr, wrth wneud ei asesiad, fel cyfyngiad ffisegol presennol ar lif dŵr ac ecoleg.
- 5.6.49. Mae'r mesurau lliniaru a gynhwyswyd gan yr Ymgeisydd i atal niwed i gorff dŵr Nant Gwepa yn cynnwys yn benodol:
- Microleoli'r biblinell yn ystod y cam dylunio manwl.
 - Lleihau'r lled gweithio ar gyfer y groesfan toriad agored i 16m.
 - Arolwg cyn gweithio o'r pwynt croesi.
 - Growtio gwasgedd uchel ar gyfer unrhyw holltau a ddatguddir o fewn y craigwely wedi'i gloddio.
 - Cynllun Rheoli a Monitro Dŵr Daear.
 - Asesiad geomorffoleg wedi'i deilwra i lywio microleoli lleoliad y groesfan a dylunio'r gwaith parhaol yn fanwl.
 - Monitro geomorffolegol ac ecolegol o'r gwaith parhaol ar ôl adeiladu.
- 5.6.50. Mae'r Ymgeisydd wedi cynnig y camau gweithredu a'r ymrwymadau amgylcheddol a restrir yn Nhabl 7.1 [REP4-235] i ddileu, lleihau a rheoli effeithiau adeiladu a gweithredu'r groesfan gyda ffos (toriad agored) ar draws Nant Alltami, gan gynnwys mesurau gwella cadarnhaol i wrthbwysu effeithiau (D-BD-048 a D-WR-066).
- 5.6.51. Hyd yn oed os oedd mwy o wybodaeth am dyllau turio ar gael i lywio asesiadau cychwynol yr Ymgeisydd yn yr ES, nid yw'r ExA o'r farn y byddai darpariaeth o'r fath yn gwella'r mesurau lliniaru helaeth a gynigir. Er hynny, fe allai gwybodaeth o'r fath roi mwy o sicrwydd ynghylch yr amodau daearegol a ddisgwylir.
- 5.6.52. Er bod yr OCEMP; y REAC [REP4-235]; ymrwymadau yn yr OLEMP; a'r SWMMP Amlinellol i gyd yn ceisio lleihau risgiau i'r eithaf, byddai rhai risgiau sylweddol yn parhau o ran dirywiad cyrff dŵr. Yn arbennig, mae trefniadau monitro Nant Alltami yn cynnwys rheolaeth addasol os bydd unrhyw arwyddion bod y sêl anhydraidd yn methu wrth leoliad y groesfan

neu fod y concrit, y growt neu'r deunyddiau a adferwyd yn diraddio (D-WR-065 y REAC). Gallai'r mesur lliniaru hwn fynd ymhell tuag at reoli'r risg achos gwaethaf ddamcaniaethol bosibl o golli llif dŵr i'r ddaear o fewn Nant Alltami, gyda'r nod o warchod corff dŵr Nant Gwepra rhag dirywio. Er hynny, byddai risgiau gweddilliol sylweddol o hyd, gan na ellir diystyru colli llif dŵr yn llwyr os bydd y mesurau lliniaru'n methu yn unrhyw fan.

- 5.6.53. At hynny, os byddai'r corff dŵr yn diraddio, mae'r achos rhanddirymiad heb ragfarnu [REP5-016] yn berthnasol i argymhelliad yr ExA i'r SoS.
- 5.6.54. Yn hynny o beth, mae Erthygl 4(7) yr WFD yn darparu ar gyfer sefyllfa lle na ellir bodloni'r amcanion amgylcheddol yn Erthygl 4(1) y ddeddfwriaeth WFD, gan felly ganiatáu rhanddirymiad o'i gofynion. Er mwyn i rhanddirymiad gael ei ganiatáu, mae'n rhaid i'r meini prawf yn Erthygl 4(7) gael eu bodloni. Mae Erthygl 4(7) yn datgan na fydd y ddeddfwriaeth WFD yn cael ei thorri pan fodlonir yr amodau (profion) canlynol:
- (a) cymerir pob cam ymarferol i liniaru'r effaith niweidiol ar statws y corff dŵr;
 - (b) mae'r rhesymau dros yr addasiadau neu'r newidiadau hynny'n cael eu hamlinellu a'u hesbonio'n benodol yn y Cynllun Rheoli Basn Afon sy'n ofynnol o dan Erthygl 13 ac mae'r amcanion yn cael eu hadolygu bob chwe blynedd;
 - (c) mae'r rhesymau dros yr addasiadau neu'r newidiadau hynny er budd cyhoeddus tra phwysig a/neu mae'r buddion i'r amgylchedd ac i gymdeithas sy'n gysylltiedig â chyflawni'r amcanion a amlinellir ym mharagraff 1 [Erthygl 4(7) y ddeddfwriaeth WFD] yn cael eu gwrthbwysu gan fuddion yr addasiadau neu'r newidiadau newydd i iechyd dynol, i gynnal diogelwch dynol neu i ddatblygu cynaliadwy, ac
 - (ch) na all amcanion buddiol yr addasiadau neu'r newidiadau hynny i'r corff dŵr gael eu cyflawni trwy fodd arall, sy'n opsiwn amgylcheddol sylweddol well, am resymau ymarferoldeb technegol neu gost anghymesur.
- 5.6.55. O ran prawf (ch), gellid ystyried bod opsiwn yn un sylweddol well yn amgylcheddol:
- Os yw'r budd y mae'n ei gyflawni'n gyfwerth o leiaf â'r budd a fyddai'n cael ei gyflawni gan y cynnig;
 - Os yw ei gost amgylcheddol yn sylweddol lai na chost amgylcheddol y cynnig; ac
 - Os yw'n opsiwn economaidd hyfyw, ac felly realistig.
- 5.6.56. Wrth benderfynu p'un a yw opsiwn neu addasiad yn anghymesur o gostus, mae'r canllawiau'n awgrymu bod y pwyntiau canlynol yn cael eu hystyried:
- Bydd rhaid i'r asesiad o gostau a buddion gynnwys costau a buddion ansoddol yn ogystal â meintiol;
 - Dylai'r costau fod yn sylweddol fwy na'r buddion gyda lefel uchel o hyder; a

- Dylai cost anghymesur hefyd ystyried gallu'r rhai sy'n ysgwyddo cost y mesurau i dalu. Dylid nodi cyfuniad o'r datrysiadau mwyaf cost-ffeithiol i lywio'r asesiad o gostau anghymesur.

5.6.57. Mae'r Ymgeisydd wedi amlygu pont bibell ymgorfforedig fel dewis amgen realistig yn lle croesfan gyda ffos ac a fyddai'n cyflawni'r un budd â'r groesfan â ffos a ffefrir (sef y byddai'n caniatáu i'r biblinell gael ei hadeiladu a'i gweithredu). Er hynny, nid yw'r Ymgeisydd yn derbyn y byddai'r gost amgylcheddol yn sylweddol lai na'r cynnig gyda ffos o'i hystyried yn ei chyfanrwydd a heb edrych yn unig ar y posibilrwydd damcaniaethol o golli dŵr i'r ddaear. Amlinellwyd hyn yn yr asesiad o'r opsiwn pont yn yr ES [CR2-017].

5.6.58. Mae'r ExA yn cydnabod bod natur y Datblygiad Arfaethedig, deddfwriaeth ehangach, a chefnogaeth bolisi sylweddol i CCS fel llwybr pwysig i gyrraedd Sero Net i gyd yn ffactorau perthnasol. Felly, mae'r ExA yn ymwybodol bod yr Ymgeisydd yn gwneud achos budd cyhoeddus tra phwysig, mewn perthynas â materion WFD a godwyd gan CNC.

5.6.59. Fodd bynnag, mae'r ExA hefyd yn cydnabod bod cyngor CNC a gynhwysir yn [REP6A-024], sy'n amlinellu'r holl feysydd anghydfod sy'n weddill, yn argyhoeddiadol wrth ystyried yr achos rhanddirymiad a wnaed. At ei gilydd, mae CNC yn cyflwyno rhesymau digonol i'r ExA nad yw'r Ymgeisydd wedi gwneud achos rhanddirymiad yn llwyddiannus ac felly na ddylid caniatáu rhanddirymiad.

Peryglon Llifogydd – Lloegr

5.6.60. Ni ystyriwyd bod goblygiadau rheoli perygl llifogydd yn Lloegr yn niweidiol yn ystod yr Archwiliad, o ystyried y wybodaeth a gynhwyswyd yn ymatebion technegol yr Ymgeisydd a'r mesurau lliniaru arfaethedig. Ni fu gan yr ExA achos i anghytuno, o ystyried yr holl ymatebion WR, RR, ac IP.

WFD ar gyfer Lloegr

5.6.61. Mae'r ExA yn nodi bod yr EA yn cytuno â chwmpas yr asesiad WFD a ddarparwyd. Fodd bynnag, mae'n anghytuno â rhai agweddau technegol ar welliant ecolegol – yn bennaf fel cyfleoedd a gollwyd. Mae'n croesawu'r bwriad i ddarparu adolygiad i gadarnhau'r Asesiad WFD, ond mae'n nodi bod hyn wedi'i gynnwys yn y Cynllun Monitro a Rheoli Dŵr Wyneb Amlinellol [REP8-029] a'r Asesiad WFD wedi'i ddiweddarau [REP8-013] yn unig o ran yr WFD, mesurau lliniaru ac effeithiau cronol.

5.6.62. Mae'r EA yn nodi y byddai sianel a glannau cyrsiau dŵr yn cael eu hadfer i efelychu'r amodau sylfaenol cyn belled ag y bo'n ymarferol [REP7-236] (D-BD-048). O ystyried graddfa'r cynnig, mae'r EA eisiau gwybod beth fyddai'r gwaith adfer manwl yn ei gynnwys.

5.6.63. At ei gilydd, mae'r EA o'r farn nad yw'r wybodaeth a gyflwynwyd yn mynd i'r afael yn ddigonol ag adfer cyrsiau dŵr/ coridorau glannau afonydd oherwydd bydd mwy o eglurder ynglŷn â'r mesurau lliniaru sy'n ofynnol yn cael ei bennu yn ystod y cam dylunio manwl.

- 5.6.64. Yn ogystal â'r uchod, cydnabu'r EA y bwriedir i'r OLEMP ymgorffori mesurau ar gyfer adfer cyrsiau dŵr a chreu cynefinoedd ar hyd coridorau glannau afonydd a bod yr LEMP manwl wedi cael ei gynnwys o dan R10 yr EPBV dDCO [REP8-007] yn ogystal â'r APV, sef TCV y dDCO [REP9011].
- 5.6.65. Amlygodd yr EA nad yw'r adolygiad i gadarnhau'r Asesiad WFD yn ystod y cam dylunio manwl wedi cael ei gynnwys yn yr OLEMP, i sicrhau bod yr asesiad yn llywio'r cynllun hwn. Ar y sail hon, heriodd yr EA ddigonoldeb y mesurau lliniaru a allai fod yn ofynnol yn ystod y cam dylunio manwl i sicrhau nad oes effaith niweidiol ar statws WFD, fel achos pryder.
- 5.6.66. Ar ddiwedd yr Archwiliad, fel y manylir yn [REP9-004], safbwynt terfynol yr Ymgeisydd ar y mater hwn oedd bod yr OLEMP yn ddogfen hollgynhwysol sy'n cyfeirio at fesurau a chyfarwyddiadau ar gyfer adfer a chreu cynefinoedd ar draws Terfynau'r Gorchymyn yn eu cyfanrwydd. O ganlyniad, mae hyn yn cwmpasu creu ac adfer cynefinoedd a fydd yn digwydd ar hyd coridorau glannau afonydd a fydd yn cefnogi mesurau lliniaru, digolledu, a chydymffurfio â'r WFD. Mae'r ExA wedi ystyried yr holl ymatebion.

CASGLIAD YR EXA

- 5.6.67. Mae safbwyntiau cychwynnol unigol LIR [REP1A-002], ac Atodiad [REP1A-003] CWCC; a LIR [REP1A-005], ac Atodiad [REP1A-006] FCC wedi llywio canfyddiadau'r ExA, ynghyd â chyflwyniadau eraill perthnasol gan y Cynghorau cynhaliol erbyn y terfynau amser a'r sylwadau cyffredinol a dderbyniwyd gan IPau.
- 5.6.68. Mae'r Ymgeisydd wedi gwneud ymrwymadau ynglŷn â microleoli'r biblinell arfaethedig yn ystod y cam dylunio manwl (yn unol â D-BD-009 y REAC) i leihau effeithiau niweidiol posibl ar yr amgylchedd dŵr, cyn belled ag y bo'n bosibl. Yn y cyd-destun hwnnw, mae'r ExA o'r farn y byddai'r OLEMP a'r LEMP, wedi hynny, yn cynnig mesurau diogelu digonol yn berthynol i'r WFD ar gyfer ardaloedd llwybr y biblinell yn Lloegr.
- 5.6.69. I grynhoi, mae'r ExA o'r farn y gallai'r gwelliannau i lannau afonydd/gwelliannau ecolegol a gynigir fynd ymhellach, yng ngoleuni pryderon yr EA, ond gan fod yr Ymgeisydd yn cynnig plannu ar hyd glannau Draen Ganolog y Dwyrain ger AGI Ince, ystyrir y byddai hyn yn lleihau'r tresmasiad a gofnodir ar hyn o bryd ar lan afon y cwrs dŵr hwnnw ac y byddai hyn yn mynd ychydig o'r ffordd tuag at gyfrannu at welliant ecolegol cyffredinol yn Lloegr. Byddai'r cam hwnnw, ynghyd â phlannu ar lannau eraill yr ymrwymwyd iddo yn: Friars Park Ditch; Nant Backford; ac Is-afon Finchetts Gutter (yn unol â D-WR-062 y REAC [REP7-236]), yn ddigonol i atal niwed i ansawdd dŵr. Felly, er y nodir pryderon yr EA, mae'r ExA o'r farn bod ymrwymadau ecolegol yr Ymgeisydd yn ddigonol yn Lloegr, o safbwynt yr WFD.
- 5.6.70. O ran ymatebion yr EA i sicrhau mesurau adfer/ rheoli llygredd digonol, crynhoir safbwynt yr Ymgeisydd ar yr holl bwyntiau hyn yn Adran 2 (paragraffau 3.1 i 3.6) ei ddiweddariad ar ddrafftio'r DCO [REP7-294], a

gyflwynwyd erbyn DL7. Erbyn DL8, cyflwynodd yr Ymgeisydd eiriad wedi'i ddiweddarau ar gyfer R9 y dDCO [REP8-005] yn dilyn trafodaethau â'r EA. Cyflwynodd yr Ymgeisydd Adroddiad Technegol Ymchwiliad Tir [REP7-293] erbyn DL7 a chyflwynwyd fersiwn wedi'i diweddarau o'r adroddiad technegol hwn erbyn DL8 [REP8-033]. Ar ôl ystyried yr holl gyflwyniadau a wnaed, gan gynnwys pryderon yr EA, mae'r ExA yn fodlon y byddai mesurau diogelu digonol yn y DCO.

- 5.6.71. O ystyried yr uchod, mae'r ExA yn fodlon bod yr FCA (Cymru) a'r FRA (Lloegr) a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd wedi'u cynnal yn briodol a'u bod yn cyd-fynd â'r NPSau, PPW a'r NPPF. Mae'r ExA hefyd o'r farn bod yr holl fesurau lliniaru a nodwyd yn yr FRA/ FCA a'r ES, yn eu cyfanrwydd, yn ddigonol i ddiogelu yn erbyn perygl llifogydd neu berygl llifogydd yn y dyfodol ac y byddent yn cael eu sicrhau gan: R4 (Dyluniad y Cynllun); R5 (CEMP); R8 (Draenio Dŵr Wyneb); R11 (Cynllun rheoli tirwedd ac ecolegol); R18 (Cynllun rheoli amgylcheddol gweithredol a chynnal a chadw); ac R19 (Cynllun rheoli amgylcheddol datgomisiynu) yr rDCO, sydd wedi'i atodi yn Atodiad Ch yr adroddiad hwn.
- 5.6.72. Mae'r ExA yn cytuno bod materion sy'n codi ynglŷn â gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol wedi derbyn sylw'n ddigonol, o ystyried yr holl Ofynion sydd wedi'u hymgorffori a mesurau lliniaru trwy ddylunio yn y DCO. Mae hefyd yn fodlon bod mesurau lliniaru a diogelu digonol yn ymwneud â rheoli llygredd a halogiad tir yng Nghymru a Lloegr wedi'u cynnig a'u sicrhau yn yr rDCO, sydd wedi'i atodi yn Atodiad Ch yr adroddiad hwn, gan gynnwys o dan:
- R8 (Draenio Dŵr Wyneb);
 - R9 (Tir Halogedig a Dŵr Daear);
 - R5 (CEMP); ac
 - R19 (Datgomisiynu).
- 5.6.73. O ran y groesfan â ffos dros Nant Alltami yn y rhan o'r Datblygiad Arfaethedig yng Nghymru, sef APV y DCO [REP9011], mae'r ExA yn derbyn gwrthwynebiadau CNC y gallai achosi i gorff dŵr Gwepra ddirywio. Er y byddai'r dulliau adeiladu ynghyd â'r mesurau lliniaru a gynigir gan yr Ymgeisydd a fyddai'n cael eu sicrhau trwy'r fersiwn honno o'r DCO yn helaeth, fe 'allai' natur y groesfan â ffos achosi i'r corff dŵr ddirywio o hyd o ganlyniad i golli/ llif dŵr tybiannol petai hynny'n digwydd.
- 5.6.74. Mae'r ExA yn cydnabod bod y mater hwn yn gyfartal iawn, ond yng ngoleuni'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn ystod yr Archwiliad, ystyrir na fyddai APV y DCO (y TCV) [REP9011] yn cydymffurfio â'r WFD, a bod angen i randdirymiad gael ei roi.
- 5.6.75. Fodd bynnag, fe allai'r SoS anghytuno â'r ExA ynglŷn â'r pwynt hwn ac, os felly, gall yr SoS gyfeirio at y fersiwn hon o'r DCO os bydd o'r farn ei bod yn dderbyniol o ran yr WFD. I wneud hynny, byddai angen i'r SoS fod yn fodlon na fyddai dirywiad y corff dŵr yn arwain at dorri'r WFD.
- 5.6.76. Pe byddai'r SoS yn cytuno â safbwynt yr ExA nad yw'r TCV yn dderbyniol, byddai angen i'r SoS ystyried y profion rhanddirymiad, fel y'u hamlinellir

yn Erthygl 4(7) Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (WFD) (Cymru a Lloegr) 2017, a phenderfynu p'un ai rhoi rhanddirymiad ai peidio, yn ôl y digwydd. Yn yr achos hwn, byddai 'Achos Rhanddirymiad WFD Heb Ragfarnu ar gyfer Croesfan Nant Alltami' yr Ymgeisydd [REP5016], a gyflwynwyd erbyn DL5, yn berthnasol.

- 5.6.77. Fodd bynnag, mae'r ExA wedi penderfynu na wnaed achos rhanddirymiad yn llwyddiannus yn unol â chyngor CNC, fel y manylir yn ei gyflwyniad erbyn DL6 [REP6A-024], a oedd yn datgan, o ran y TCV (yr APV) "Mae CNC wedi adolygu'r adroddiad ac, i grynhoi, mae'n cynghori bod y dystiolaeth ategol a ddarparwyd gan yr Ymgeisydd yn annigonol/anaddas i alluogi'r ExA i ddod i'r casgliad y gellir gwneud achos rhanddirymiad WFD cadarn." Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth/cyflwyniadau perthnasol a gyflwynwyd i'r Archwiliad, nid yw'r ExA yn anghytuno â safbwynt CNC yn hyn o beth.
- 5.6.78. Er gwaethaf yr uchod, mae'r ExA yn cytuno â barn CNC na all EPBV y DCO [REP8-007] wrthdaro â'r WFD o ganlyniad i'w dull adeiladu ac na fyddai angen rhoi rhanddirymiad ar gyfer y groesfan honno.
- 5.6.79. Felly, at ei gilydd, mae'r ExA o'r farn mai dim ond fersiwn yr EPBV [REP8-007] o'r dDCO a gyflwynwyd a fyddai'n cyd-fynd â'r holl ofynion deddfwriaethol a pholisi perthnasol yng Nghymru a Lloegr gyda'i gilydd, o ran ansawdd dŵr, perygl llifogydd, effeithiau ar y gallu i wrthsefyll llifogydd yn y dyfodol a llygredd, gan gynnwys y rhai hynny yn NPS EN1, NPS EN-4; y dNPSau sy'n dod i'r amlwg, PPW, TANau a pholisïau yn CDLlau FCC a CWCC.
- 5.6.80. Yn unol â hynny, yn amodol ar fabwysiadu fersiwn EPBV [REP8-007] y DCO (sy'n ddewis amgen yn lle'r APV (y TBV), mae'r ExA o'r farn y byddai effeithiau ar ansawdd dŵr, perygl llifogydd ac effeithiau ar y gallu i wrthsefyll llifogydd yn y dyfodol, yn ogystal â llygredd, yn ffactorau niwtral yn y cydbwysedd cynllunio.

5.7. TIRWEDD AC AMWYNDER GWELEDOL/ DYLUNIAD A GOSODIAD

POLISI

- 5.7.1. Mae NPS EN-1 yn rhoi arweiniad ar ystyried y dirwedd, gan gynnwys seilwaith gwyrdd a mesur effeithiau gweledol seilwaith ynni. Mae adran 2.21 NPS EN-4 yn rhoi arweiniad polisi ynglŷn ag effeithiau tymor hir ac asesiad priodol yn ogystal â lliniaru nodweddion piblinell wrth fesur effeithiau tirwedd a gweledol. Yn ogystal, mae dNPS EN-1 a dNPS EN-4 yn adlewyrchu ymagweddau trosfwaol tebyg at asesu newid i'r dirwedd a sicrhau unrhyw fesurau lliniaru sy'n angenrheidiol.
- 5.7.2. Yn benodol ar gyfer Cymru, mae PPW yn cynnwys arweiniad cenedlaethol allweddol drwyddo draw ar gyflawni dylunio da, gan gynnwys manau naturiol, sy'n berthnasol i asesu effeithiau ar y dirwedd. Er nad yw'n union debyg i PPW, mae'r NPPF yn debyg yn ei ymagwedd at gyflawni dylunio da, ac mae'r ExA wedi rhoi ystyriaeth lawn i'r ddau.

- 5.7.3. O ystyried CDLI llawn FCC, mae'n cynnwys amrywiaeth o bolisiau cysylltiedig â thirwedd a sawl uchelgais dylunio ar gyfer yr ardal. Er enghraifft, mae hyn yn cynnwys y Polisiau canlynol, ond nid yn gyfyngedig iddynt: EN2 – Seilwaith Gwyrdd; EN4 – Cymeriad y Dirwedd; EN5 – Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol; EN7 – Datblygiad sy'n Effeithio ar Goed, Coetiroedd, a Gwrychoedd; EN9 – Datblygiad o Fewn neu Gerllaw Ardaloedd Cadwraeth, ac EN11 – Lletemau Glas. Gyda'i gilydd, maen nhw'n adlewyrchu nodau PPW wrth geisio sicrhau dylunio da a gwarchod tirweddau lleol.
- 5.7.4. Mae'r Cynllun Lleol ar gyfer CWCC, Rhannau Un a Dau, yn cynnwys nifer o bolisiau rheoli strategol a manwl sy'n berthnasol i Asesiadau o'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol (LVIAau). Mae rhai o'r prif bolisiau sy'n ymddangos yn sylwadau'r Archwiliad yn cynnwys Polisiau Strategol: ENV3; ENV4; a pholisiau rheoli cynllunio: DM 44 – Gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol; a DM 45 – Coed, coetiroedd, a gwrychoedd. Gan gydnabod bod materion bioamrywiaeth a seilwaith gwyrdd yn amlwg yn yr holl bolisiau hyn, mae'r ExA yn derbyn eu bod yn ymgorffori agweddau trosfwaol ar feini prawf dylunio da. Ceir adroddiad llawnach ar yr holl bolisiau lleol a ystyriwyd yn ystod yr Archwiliad ym Mhennod 3 yr adroddiad hwn.
- 5.7.5. O ran agweddau ar y Datblygiad Arfaethedig yng Nghymru, ar raddfa ranbarthol a chenedlaethol mae'r ExA yn cydnabod bodolaeth Ardaloedd Cymeriad Tirwedd Cenedlaethol (NLCA) CNC: NCLA 12: Bryniau Clwyd; ac NLCA 13: Glannau Dyfrdwy a Wrecsam. Yn ardaloedd gweinyddol Lloegr, mae'r ExA yn cydnabod bod Ardaloedd Cymeriad Cenedlaethol (NCA) Natural England (NE) yn berthnasol, sef: NCA 59 Cilgwri; NCA 60 Dyffryn Mersi; ac NCA 61 Gwastadedd Swydd Amwythig, Swydd Gaerlleon, a Swydd Stafford. Gyda'i gilydd, maen nhw'n darparu cyd-destun pwysig ar gyfer yr effaith ar y dirwedd a'r effaith weledol i fesur polisi cenedlaethol a lleol yn ei erbyn, a adlewyrchir yn yr ES a gyflwynwyd.
- 5.7.6. Heblaw am y darpariaethau polisi a chyd-destunol perthnasol hynny, mae'r ExA yn cydnabod bod y DU wedi llofnodi'r Confensiwn Tirwedd Ewropeaidd (ELC), sy'n mynnu "*bod y dirwedd yn cael ei hintegreiddio i bolisiau cynllunio rhanbarthol a threfol ac i bolisiau diwylliannol, amgylcheddol, amaethyddol, cymdeithasol ac economaidd, yn ogystal ag unrhyw bolisiau eraill a allai gael effeithiau uniongyrchol neu anuniongyrchol ar y dirwedd*". Yn unol â hynny, mae'r egwyddorion arweiniol hynny wedi cael eu hadlewyrchu yn asesiad cyffredinol yr ExA o'r wybodaeth a gynhwysir yn yr ES.

ACHOS YR YMGEISYDD

- 5.7.7. Mae Pennod 12 yr ES (Tirwedd a Gweledol) [REP7-052] yn amlinellu casgliadau'r Ymgeisydd ynglŷn ag effeithiau ar y dirwedd ac effeithiau gweledol. Mae Atodiad 12.2 yr ES Methodoleg LVIA Diwygiad A [REP7-128]; Ffigur 12.2 yr ES Cynllun Cymeriad Tirwedd Diwygiad C [REP7-219]; Ffigur 12.1 yr ES Parth Gwelededd Damcaniaethol Diwygiad C [REP7-218]; Ffigur 12.3 Cynllun Golygfannau Diwygiad C [REP7-220];

Ffigur 12.4 Ffotograffiaeth Golygfannau Diwygiad C [REP7-221]; a [REP7-222] Ffigur 12.5 Ffotogyfosodiadau Diwygiad C i gyd yn rhoi cydestun pwysig i'r Archwiliad.

- 5.7.8. Defnyddir y canllawiau ar gyfer LVIA (3ydd Argraffiad) drwy gydol asesiad yr Ymgeisydd, sydd hefyd yn darparu'r sail ar gyfer yr holl fethodoleg asesu cronol. Cynhaliwyd cyfuniad o astudiaethau bwrdd gwaith, arolygon o'r ardal ar droed, a'r Parthau Gweledol Damcaniaethol [REP7-218] diffiniol i sefydlu'r amodau sylfaenol. Mae'r asesiad sylfaenol presennol wedi cael ei rannu'n ddwy ran sy'n ymdrin â chymeriad y dirwedd ac amwynder gweledol.
- 5.7.9. Nodir bod mesurau lliniaru ymgorfforedig rhagarweiniol ar gyfer y dyluniad wedi'u cynnwys yn yr OLEMP, Diwygiad C [REP7-250] yn ogystal â'r REAC Diwygiad H [REP7-236]. Yn ystod adeiladu, mae'r ddarpariaeth a wneir yn ymestyn yn bennaf i gadw coed a gwrychoedd, er y byddai rhywfaint o goed yn cael eu colli.
- 5.7.10. Aseswyd prif elfennau achos yr Ymgeisydd wedi hynny gan yr ExA yn ystod y cyfnod Archwilio, fel yr adroddir isod.

SAFBWYNTIAU PARTÏON Â BUDDIANT

- 5.7.11. Nid oedd FCC na CWCC yn gwrthwynebu'r rhan fwyaf o'r effeithiau ar y dirwedd a chymeriad a aseswyd gan ES yr Ymgeisydd, yn gyffredinol. Y prif eithriad oedd bod gan FCC bryderon penodol ynglŷn â chymhwyso'r polisi 'Lletem Las' lleol, sy'n debyg i ddynodiad 'Llain Las' yn Lloegr. Oherwydd bod pryder FCC yn ymestyn i gydnabod yr holl effeithiau gweledol sy'n ymwneud â lleoliadau o'r fath, mae'r ExA wedi cynnwys hyn wrth fesur effeithiau cyffredinol y Datblygiad Arfaethedig ar y dirwedd ac yn weledol. Y tu hwnt i'r sylwadau cyffredinol a gafwyd mewn RRau (y mae'r ExA wedi'u hystyried, ynghyd â'r holl safbwyntiau a fynegwyd), nid oedd unrhyw heriau arwyddocaol i ganfyddiadau'r ES gan IPau eraill.

ARCHWILIAD

- 5.7.12. Cynhaliodd yr ExA gymysgedd o Archwiliadau Safle Digwmni [EV-003], [EV-004] ac [EV-004a] ac Archwiliadau Safle gyda Chwmni i gynorthwyo i werthuso'r cyflwyniadau a wnaed yn yr ES. Rhannodd yr ES lwybr y biblinell yn 6 rhan ar wahân, ac, er mwyn rhwyddineb, mae'r ExA wedi defnyddio'r rhannau hynny i gyfeirio at linell y Datblygiad Arfaethedig isod.
- 5.7.13. O'r Archwiliadau safle hyn, roedd yr ExA yn gallu gweld bod ardaloedd mawr o Ran 1 ffin llwybr piblinell y DCO yn drefol yn bennaf, gyda phentref Elton, gweithgynhyrchwyr diwydiannol a Chyfdeilad Gweithgynhyrchu Stanlow i'r gogledd a'r gogledd-orllewin. Mae'r dwyrain, y de, a'r de-ddwyrain yn wledig yn bennaf, ond mae'r M56 yn mynd o'r gogledd-ddwyrain i'r de-orllewin o'r Ffin Adeiladu Seilwaith Newydd.
- 5.7.14. Mae Rhan 2 yn wledig yn bennaf gydag ardaloedd mwy adeiledig sy'n cynnwys anheddau preswyl a masnachol yn Thornton Le Moors, Picton,

Wervin, a Backford. Mae Sw Caer wedi'i lleoli i'r de. Mae Rhan 3 yn wledig yn bennaf. Mae ardaloedd mwy adeiledig wedi'u lleoli i'r dwyrain a'r gogledd-orllewin o fewn pentrefi Saughall a Mollington.

- 5.7.15. Mae ardaloedd mawr o dirwedd o fewn Rhan 4 yn adeiledig. Mae anheddau preswyl wedi'u lleoli'n bennaf tua'r gogledd-ddwyrain, y gorllewin a'r gogledd-orllewin o fewn pentrefi Sandycroft, Mancot a Phentre. Mae nifer fawr o anheddau masnachol wedi'u lleoli tua'r gogledd-ddwyrain o ffin y DCO o fewn Ystadau Diwydiannol Queensferry a Phentre. Mae Parc Anifeiliaid Greenacres a Pharc Gwyliau Willow wedi'u lleoli i'r de ac i'r gogledd hefyd, yn ôl eu trefn.
- 5.7.16. Gwelodd yr ExA hefyd fod Rhan 5 llwybr y biblinell yn drefol yn bennaf i'r gogledd a'r de, gydag anheddau preswyl a masnachol wedi'u crynhoi o fewn cyrion Shotton a Mancot, Ewloe, a Northop Hall. Mae safle tirlenwi chwarel wedi'i lleoli i'r de o'r Ffin Adeiladu Seilwaith Newydd, ac mae Clwb Golff Parc Gwledig Northop a Chastell Ewloe wedi'u lleoli i'r dwyrain ac i'r gogledd, yn ôl eu trefn. Mae'r hyn a arsylwyd yn gyson â'r hyn a nodir yn yr ES.

Effeithiau ar natur agored Lletem Las/ Llain Las

- 5.7.17. Yn Adran 5.3 yr adroddiad hwn, mae'r ExA wedi nodi y byddai un AGI (yn Ince) a dwy BVS (yn Rock Bank a Mollington) wedi'u lleoli o fewn y Llain Las. O fewn ardal weinyddol FCC, byddai un BVS yn Aston Hill wedi'i lleoli o fewn Lletem Las.
- 5.7.18. Mae'r ExA wedi amlygu bod y strwythurau hynny'n fathau 'amhriodol' o ddatblygiad mewn lleoliadau dynodedig o'r fath. Mae cymeriad y lleoliadau yr effeithir arnynt yn cynnwys rhinweddau a nodweddion gwyrddni a chefn gwlad gwledig anadeiledig yn gyffredinol.
- 5.7.19. Felly, o ganlyniad i'w parhauster, graddfa, crynswth a natur, ni fyddai'r strwythurau'n gwarchod natur agored Llain Las Gorllewin Swydd Gaerlleon a Chaer, na natur agored y Lletem Las o fewn Sir y Fflint. Mae'r ExA yn cydnabod y byddai lefelau natur agored yn lleihau'n sylweddol yng Nghymru a Lloegr.
- 5.7.20. Heriodd FCC asesiad yr Ymgeisydd o Bolisi EN11 (Lletemau Glas) ei CDLI yn ystod yr Archwiliad, ac archwiliwyd hyn hefyd gan yr ExA yn ei gwestiynau ysgrifenedig ac yn ystod yr ISHau.
- 5.7.21. Y rheswm am hyn yw oherwydd bod paragraff 4.3.62 Datganiad Cynllunio'r Ymgeisydd a gyflwynwyd yn wreiddiol [APP-048] yn datgan nad oedd Terfynau'r Gorchymyn yn gwrthdaro ag unrhyw dir a ddynodwyd yn 'Lletem Las'. Ar ôl asesu ymhellach, cytunodd yr ExA fod Terfynau'r Gorchymyn yn tresmasu ar leiniau o dir a ddynodwyd o dan Bolisi EN11 y CDLI. Er mai prif fwriad EN11 yw sicrhau bod mathau priodol o ddatblygiad yn digwydd mewn ardaloedd o'r fath, cydnabu'r ExA fod goblygiadau uniongyrchol i'r dirwedd ac yn weledol yn gysylltiedig â gwneud asesiad cyffredinol.

- 5.7.22. O ganlyniad, diweddarwyd Datganiad Cynllunio'r Ymgeisydd i gynnwys arfarniad yn erbyn Polisi EN11 erbyn DL4 [REP4-022] i sicrhau bod y polisi lleol yn Sir y Fflint yn cael ei asesu'n briodol ac wrth wneud hynny, cyflwynodd yr Ymgeisydd achos trosfwaol dros 'amgylchiadau eithriadol iawn' yn unol â disgwyliadau'r polisi. Felly, mae'r ExA yn nodi, o dan EN11, bod dynodiad Lletem Las yn y manau canlynol:
- Gronant, Talacre, Gwesbyr yn Nhalacre;
 - Y Fflint/ Mynydd y Fflint;
 - Cei Connah – Northop Hall / Ewloe / Shotton;
 - Shotton/ Mancot/ Penarlâg/ Ewloe;
 - Penarlâg/ Mancot/ Maes Awyr Penarlâg/ a Saltney; a
 - Sealand/ ffin Swydd Gaerlleon.
- 5.7.23. Yr achos trosfwaol a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd oedd bod yr holl dresmasu ar Letem Las er mwyn osgoi aneddiadau presennol. Nid oedd FCC yn gwrthwynebu'r sail resymegol honno wedi hynny.
- 5.7.24. O ran BVS Aston Hill, mae'r ExA yn ymwybodol bod yr effeithiau gweledol yn ystod y cam gweithredol yn cynnwys effaith ar dderbynyddion preswyl i'r dwyrain a defnyddwyr llwybr troed i'r de ac i'r gorllewin. Mae'r ExA yn cydnabod y bydd yr effeithiau gweledol yn lleol yn bennaf ac y byddai'r potensial i effeithio ar natur agored ganfyddedig y cefn gwlad agored wedi'i gyfyngu i ardal ddaearyddol fach. Mae'r dystiolaeth yn dangos y byddai golygfeydd pellter hirach o ardal safle BVS Aston Hill yn cynnwys elfennau tirwedd feddal yn bennaf yn hytrach na datblygiad adeiledig ac na fyddai canfyddiad cryf o gyfuno rhwng yr ardaloedd presennol o ddatblygiad adeiledig i'r gogledd-orllewin a'r de-ddwyrain o'r safle.
- 5.7.25. Byddai rhan fach (tua 20%) o'r uned gae bresennol (ag arwynebedd cyfan o oddeutu 3.6 hectar (ha)) yn cael ei datblygu ac yn newid yn barhaol. Mae hyn yn cynnwys cyfadeilad y BVS (tua 0.18ha), trac mynediad (tua 0.12ha) a mesurau lliniaru tirwedd feddal (tua 0.44ha). Byddai'r 80% sy'n weddill o'r uned gae yn cael ei dychwelyd i'w defnydd tir blaenorol, sef amaethyddiaeth fugeiliol.
- 5.7.26. O ran lleoli AGI Ince, dewiswyd ei leoliad i sicrhau ei fod mor agos ag sy'n ymarferol i gasgliad o allyrwyr diwydiannol lleol, sef yn nodedig CF Fertilisers a datblygiad 'Protos' Peel NRE. Dewiswyd ei leoliad ar ôl ymgynghori ag IPau, yn fwyaf nodedig Peel NRE Limited, i sicrhau bod y Datblygiad Arfaethedig yn osgoi gwrthdaro â chynigion datblygu eraill a dyheadau yn ymwneud â'i gyfleusterau. Yn wir, roedd yr Ymgeisydd yn parhau i drafod gyda Peel NRE ar ddiwedd yr Archwiliad ynglŷn â sicrhau'r safle ar gyfer AGI Ince (Rhoddir rhagor o wybodaeth am y mater hwn ym Mhennod 8 yr Adroddiad hwn isod).
- 5.7.27. Mae'r ExA yn derbyn mai agweddau ar ben y tir y Datblygiad Arfaethedig sy'n fwyaf perthnasol o safbwynt effaith weledol ac effaith ar y dirwedd. Er y byddai'r AGI yn Ince a'r BVSau yn Rock Bank, Mollington ac Aston Hill yn amlwg yn effeithio ar natur agored y Llain Las/ Lletem Las, byddai plannu lliniarol yn sgrinio'r newidiadau tirweddol a gweledol canlyniadol yn sylweddol, fel y cofnodwyd yn yr ES.

5.7.28. Felly, o safbwynt polisi lleol, derbyniodd yr ExA fod yr ES wedi rhoi sylw dyladwy i effeithiau newid ar y dirwedd ac yn weledol, o ystyried yr holl ddynodiadau tir lleol perthnasol. Mae hefyd yn nodi, o safbwynt newid i'r dirwedd ym mholisi Llain Las Lloegr, nad oedd CWCC wedi gwneud unrhyw ddatleuon polisi arwyddocaol yn erbyn y Datblygiad Arfaethedig.

Effeithiau pwysig eraill ar y dirwedd ac yn weledol

5.7.29. O ran effeithiau eraill ar y dirwedd ac yn weledol, gan gynnwys yr ystod ehangach o dderbynyddion tirwedd sensitif, mae'r ExA wedi ystyried yr ardaloedd hynny a nodir yn yr ES, sy'n cynnwys:

- Ardal Cymeriad Tirwedd (LCA) Dunham i Wastadedd Tarvin;
- LCA Saughall i Wastadedd Waverton;
- LCA Dyffryn Gowy;
- Gwastadeddau arfordirol Dyfrdwy;
- Cyrion tir amaeth Shotton;
- Ardal drefol arfordirol ac aberol Queensferry;
- Ardal drefol arfordirol ac aberol Cei Connah;
- Ardal drefol fewndirol Penarlâg;
- Cyrion tir amaeth;
- Ymyl a Dyffrynnoedd Aber;
- Coridorau Ffyrdd yr A55 a'r A494;
- Ardal drefol fewndirol Northop Hall;
- Dyffryn Coediog a Thir Parc;
- Northop;
- Cefnen Galchog;
- Tir Amaeth Tonnog; a
- Llethrau a Llwyfandir Dyffryn.

5.7.30. Mae'r ExA hefyd wedi ystyried y rhestr lawn o dderbynyddion amwynder gweledol sensitif a nodir yn Nhabl 12.5 Pennod 12 yr ES Tirwedd a Gweledol [REP7-052]. Mae'r rhain yn ymestyn i lwybrau troed lleol a golygfannau cyhoeddus. Roedd yr ExA yn fodlon at ei gilydd yn ystod yr Archwiliad bod yr ystod o dderbynyddion sensitif a aseswyd gan yr Ymgeisydd yn gynhwysfawr a bod effeithiau perthnasol ar gymeriad ac yn weledol wedi cael eu hasesu'n briodol.

5.7.31. O ystyried holl gyflwyniadau'r Archwiliad, cydnabu'r ExA y gallai gweithgareddau adeiladu i adeiladu'r Datblygiad Arfaethedig greu effeithiau niweidiol dros dro a pharhaol ar nodweddion tirwedd trwy weithgareddau fel clirio llystyfiant a nodweddion ffin i alluogi lle ar gyfer asedau newydd ar ben ac o dan y tir.

5.7.32. O ganlyniad, fe allai fod rhai effeithiau tymor byr dros dro ar gymeriad y dirwedd yn sgil presenoldeb a symudiadau peiriannau adeiladu a seilwaith adeiladu dros dro cysylltiedig. Rhoddir asesiad manwl o effeithiau ar gymeriad y dirwedd yn Atodiad 12.3 yr ES - Dadansoddiad Tirwedd [REP7-129] a dangosir crynodeb o'r rhai hynny sy'n debygol o fod yn arwyddocaol, heb fesurau lliniaru eilaidd, yn Nhabl 12.6 Pennod 12 yr ES [REP7-052]. Nodir bod yr ystod o effeithiau ar gymeriad y dirwedd yn rhai niweidiol cymedrol (neu arwyddocaol).

- 5.7.33. Rhoddir asesiad manwl o effeithiau cyn lliniaru ar amwynder gweledol ar gyfer derbynyddion yn ystod adeiladu yn Atodiad 12.4 yr ES – Dadansoddiad Gweledol [REP7-130] a dangosir crynodeb o'r rhai hynny sy'n debygol o fod yn arwyddocaol yn Nhabl 12.7 yr ES. Byddai'r effeithiau'n rhai niweidiol cymedrol (neu arwyddocaol) ar gyfer yr holl dderbynyddion sensitif a restrir.
- 5.7.34. O ran camau gweithredol y Datblygiad Arfaethedig, nododd yr ExA fod asesiad manwl o effeithiau ar gymeriad y dirwedd wedi'i amlinellu yn Atodiad 12.3 yr ES – Dadansoddiad Tirwedd Diwygiad D [REP7-129]. Cyn mesurau lliniaru eilaidd, daw'r asesiad i'r casgliad, yn ystod Blwyddyn Weithredu 1, y byddai'r effaith fwyaf yn un niweidiol fach (nad yw'n arwyddocaol).
- 5.7.35. Rhoddir asesiad manwl o effeithiau ar amwynder gweledol ar gyfer derbynyddion yn ystod gweithredu yn Atodiad 12.4 yr ES – Dadansoddiad Gweledol, Diwygiad D [REP7-130] ac mae'r ExA yn cydnabod bod hyn yn helaeth. At hynny, dangosir crynodeb o'r derbynyddion hynny sy'n debygol o brofi effeithiau arwyddocaol yn Nhabl 12.8 Pennod 12 yr ES (Tirwedd a Gweledol) [REP7-052]. Nodwyd effeithiau niweidiol cymedrol arwyddocaol ym mlwyddyn 1, ond lleihaodd y rhain i beidio â bod yn arwyddocaol erbyn blwyddyn 15. Ni fyddai'r effaith hon yn newid ar ôl mesurau lliniaru. O ystyried holl gyflwyniadau'r Archwiliad, nid oes gan yr ExA reswm i anghytuno â'r canfyddiadau hynny.
- 5.7.36. Yn ystod yr Archwiliad, derbyniodd yr ExA fod Pennod 12 yr ES (Tirwedd a Gweledol) [REP7-052], fel y'i llywiodd gan Fethodoleg LVIA yr Ymgeisydd [REP7-128], yn cyflwyno asesiad manwl a chywir o effeithiau arwyddocaol tebygol. Mae hyn yn cynnwys mewn perthynas â'r safleoedd AGI a BVS, gyda phob un â gosodiad tirwedd penodol a lywiodd y gosodiad/ dyluniad dangosol rhagarweiniol. Nid oedd unrhyw IP wedi anghytuno â chasgliadau na chanfyddiadau'r Ymgeisydd yn hyn o beth, ac ni chododd unrhyw beth yn ystod yr Archwiliad i beri i'r ExA gasglu y byddai'r effaith ar y dirwedd neu'r effaith weledol yn wahanol i honno a amlinellir ym Mhennod 12 yr ES, neu Fethodoleg LVIA yr Ymgeisydd.
- 5.7.37. O ystyried y cyfraniadau yn ystod gwrandawiadau, yn ogystal ag yn ExQau, cydnabu'r ExA y byddai'r AGIau, y BVSau ac EPBV Pont Alltami (petai'n cael ei derbyn) yn cael eu symud ymaith yn ystod datgomisiynu. Byddai'r biblinell newydd gladdedig a phiblinell bresennol Cysylltiad y Fflint i Derfynell PoA yn aros yn eu lle. Felly, ni fyddai unrhyw effeithiau arwyddocaol ar y dirwedd ac yn weledol yn digwydd yn ystod y cam hwnnw.
- 5.7.38. Yn gysylltiedig â'r asesiad tirwedd a gweledol, yn ogystal â'r goblygiadau dylunio ehangach, roedd yr ExA yn fodlon y rhoddyd ystyriaeth i'r effeithiau gweledol posibl sy'n deillio o'r newid yn yr hinsawdd ar ddewis y rhywogaethau a gynigir ar gyfer plannu lliniarol, yn ogystal â rheoli planhigion newydd a phresennol, fel yr amlinellir yn yr OCEMP [REP7-242] a'r REAC [REP7-237].

CASGLIAD YR EXA

- 5.7.39. Mae'r ExA yn cytuno â chanfyddiadau'r dogfennau ES a methodoleg LVIA a gyflwynwyd o ran eu hasesiad o'r effeithiau tebygol ar y dirwedd ac yn weledol. Byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn cael effaith niweidiol gymedrol (arwyddocaol) weddilliol tymor byr ar gymeriad y dirwedd yn ystod y cam adeiladu cychwynnol a fyddai'n dod i ben ar ôl i'r gweithgarwch adeiladu orffen.
- 5.7.40. Byddai'r OCEMP, ynghyd â'r REAC, yn sicrhau dulliau plannu priodol a goroesiad parhaus planhigion fel eu bod yn sefydlu'n briodol ac yn cyrraedd aeddfedrwydd digonol erbyn Blwyddyn weithredol 15. Mae'r REAC [REP7-237] a'r OLEMP [REP7191] yn amlinellu'r arferion monitro/rheoli sydd i'w sefydlu i alluogi hynny i ddigwydd.
- 5.7.41. Er hynny, mae'r ExA yn nodi y byddai effeithiau gweledol yn niweidiol yn ystod adeiladu ac ym mlwyddyn 1 ar ôl adeiladu ar gyfer y derbynnyddion pwysicaf. Byddai'r effeithiau hyn yn lleihau dros amser gyda mesurau lliniaru ar waith. Mae'r ExA yn cytuno y byddai'r OCEMP, ynghyd â'r REAC, yn sicrhau bod planhigion priodol yn cael eu plannu ac na fyddai'r effaith gyffredinol yn arwyddocaol erbyn blwyddyn weithredu 15.
- 5.7.42. Ystyrir bod yr effeithiau ar y dirwedd a'r effeithiau gweledol, yn ogystal â goblygiadau dylunio da'r Datblygiad Arfaethedig, yn bodloni gofynion NPS EN-1, NPS EN-4, dNPS EN-1 a dNPS EN-4. At hynny, mae'r ExA o'r farn bod lleoliad a dyluniad y Datblygiad Arfaethedig a'r mesurau lliniaru sy'n gysylltiedig ag ef yn rhoi sylw dyladwy i'r holl bolisiâu cynllunio a dynodiadau tir lleol perthnasol sy'n gymwys i ardaloedd gweinyddol FCC a CWCC yn ymwneud ag effeithiau ar y dirwedd ac effeithiau gweledol.
- 5.7.43. Yn unol â hynny, mae'r ExA o'r farn nad oes gwrthdaro sylweddol â'r polisiâu hynny yn amodol ar gymhwyso'r holl fesurau lliniaru. Mae'r ExA hefyd yn cytuno y byddai effeithiau'r Datblygiad Arfaethedig ar y dirwedd ac yn weledol yn cyd-fynd â PPW, fel y'i hategir gan TANau, Cylchlythyrau Llywodraeth Cymru, a llythyrau egluro polisi; a nodau'r NPPF ar gyfer cyflawni dylunio da.
- 5.7.44. Mae'r ExA o'r farn y byddai natur agored y Lletem Las/ Llain Las yn lleihau o ganlyniad i ddatblygiad amhriodol. Mae hyn yn ymwneud yn benodol â'r AGI (yn Ince) a dwy BVS (yn Rock Bank a Mollington) wedi'u lleoli yn y Llain Las, yn ogystal â'r BVS yn Aston Hill, sydd wedi'i lleoli o fewn dynodiad Lletem Las FCC. Byddai hyn yn niweidiol i gymeriad a golwg y lleoliadau cefn gwlad agored hynny. Ystyrir achos yr Ymgeisydd dros 'amgylchiadau arbennig iawn/ eithriadol', a sbardunir gan bolisi cenedlaethol unigol Cymru a Lloegr, ymhellach isod ym Mhennod 7 yr adroddiad hwn.
- 5.7.45. At ei gilydd, gan ddwyn yr holl bwyntiau perthnasol ynghyd, daw'r ExA i'r casgliad y byddai effeithiau gweledol y Datblygiad Arfaethedig yn arwain at rywffaint o niwed gweledol arwyddocaol (cymedrol) yn y tymor byr i'r tymor canolig i'w ystyried yn y cydbwysedd cynllunio sydd i'w gymhwyso.

Mae niwed o'r fath yn denu pwys negyddol wrth wneud y Gorchymyn. Mae'r ExA yn priodoli pwys mawr i'r mater hwn.

5.8. TREFTADAETH DDIWYLLIANNOL

POLISI

- 5.8.1. Mae NPS EN-1 yn cynnwys cyngor cyffredinol yn Adran 5.8 ar faterion Amgylchedd Hanesyddol sy'n drosglwyddadwy i bob NSIP sy'n ymwneud ag unrhyw un o'r NPSau eraill. Mae'n nodi y gallai adeiladu, gweithredu a datgomisiynu seilwaith ynni arwain at effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd hanesyddol.
- 5.8.2. Pan fydd safle datblygu'n cynnwys asedau treftadaeth â diddordeb archaeolegol, neu pan fydd y dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu y gallai eu cynnwys, dylai'r Ymgeisydd gynnal asesiad desg priodol a, phan fydd ymchwil ddesg o'r fath yn annigonol i asesu'r diddordeb yn briodol, gwerthusiad maes. Pan fydd Datblygiad Arfaethedig yn effeithio ar leoliad ased treftadaeth, efallai y bydd angen delweddau cynrychioliadol i esbonio'r effaith.
- 5.8.3. Mae paragraff 5.8.14 NPS EN-1 yn datgan "*...dylid rhagdybio o blaid gwarchod asedau treftadaeth dynodedig a pho fwyaf arwyddocaol yr ased treftadaeth dynodedig, y mwyaf y dylid rhagdybio o blaid ei warchod. Ni ellir amnewid asedau treftadaeth ar ôl eu colli, ac mae eu colled yn cael effaith ddiwylliannol, amgylcheddol, economaidd, a chymdeithasol.*"
- 5.8.4. Mae paragraff 5.8.15 yn mynd ymlaen i ddweud y dylai unrhyw effaith niweidiol ar arwyddocâd ased treftadaeth dynodedig gael ei phwyso yn erbyn budd cyhoeddus datblygiad, gan gydnabod po fwyaf y niwed i arwyddocâd yr ased treftadaeth, po fwyaf cyfiawnhad y bydd ei angen am unrhyw golled. Pan fydd y cais yn arwain at niwed sylweddol i ased treftadaeth dynodedig neu gollu ei arwyddocâd yn llwyr, dylai'r SoS wrthod caniatâd oni bai y gellir dangos bod y niwed sylweddol neu'r colli arwyddocâd yn angenrheidiol i gyflawni buddion cyhoeddus sylweddol sy'n drech na'r golled neu'r niwed.
- 5.8.5. Ystyrir y cyfeiriadau cyffredinol at yr amgylchedd hanesyddol yn NPS EN-1 ar y cyd ag NPS EN-4 (gan fod cyfeiriad penodol at yr amgylchedd hanesyddol yn yr olaf). Mae diweddariadau dNPS EN-1 a dNPS EN-4 (o'u hystyried gyda'i gilydd) yn cynnal egwyddorion gwarchod asedau treftadaeth.
- 5.8.6. O ran Cymru, mae Pennod 6 PPW (2021) yn amlinellu polisiâu ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol a cheisiadau cynllunio mewn perthynas ag olion archaeolegol, adeiladau rhestredig, asedau a restrwyd yn lleol a thirweddau hanesyddol. Mae hefyd yn cynnwys esboniad ynglŷn ag arwyddocâd a lleoliad asedau hanesyddol, ac amlinellir y polisiâu mwyaf perthnasol ym mharagraffau 6.1.10 i 6.1.29 (yn gynwysedig) y ddogfen honno. Gan ychwanegu at PPW, mae TAN 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol – Lleoliad Asedau Hanesyddol yn rhoi arweiniad manylach ar sut y dylid ystyried agweddau ar yr amgylchedd hanesyddol wrth wneud penderfyniadau.

- 5.8.7. Law yn llaw â hynny, mae'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer amddiffyn yr Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru yn cael ei osod gan Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979, a Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016. Mae Polisi Cynllunio Cymru (11eg Argraffiad, Chwefror 2021) yn darparu'r fframwaith polisi cynllunio cenedlaethol ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol. Ategir hyn gan TAN24: Yr Amgylchedd Hanesyddol (Mai 2017) a chyngor ac arweiniad arfer gorau a gyhoeddwyd gan Cadw.
- 5.8.8. O ran Lloegr, nid yw'r NPPF a'r NPPG yn annhebyg o ran sut mae'r amgylchedd hanesyddol yn cael ei asesu yn ôl y cyngor a gynhwysir yn PPW a TAN24. Ceir rhagdybiaeth glir i warchod asedau treftadaeth rhag niwed. Gan ddefnyddio terminoleg yr NPPF, priodolir 'pwys mawr' i unrhyw niwed canlyniadol i unrhyw ased dynodedig. O ran asedau heb eu dynodi, cydnabyddir eu pwysigrwydd diwylliannol o hyd wrth gydbwysu'r holl ystyriaethau'n gyffredinol.
- 5.8.9. Ar lefel leol, mae polisiau EN8 i EN10 CDLI FCC yn berthnasol i fesur effeithiau treftadaeth a diwylliannol, ac felly hefyd polisiau ENV5 a DM46 i DM50 CDLI CWCC (Rhannau Un a Dau). Yn ei hanfod, mae'r darpariaethau lleol hynny, gyda'i gilydd, yn adlewyrchu cyngor cenedlaethol yn fras sy'n berthnasol yng Nghymru a Lloegr. Maen nhw'n ceisio gwarchod yr holl asedau treftadaeth lleol arwyddocaol rhag niwed. Wrth wneud hynny, maen nhw hefyd yn annog gwarchod a pharchu diwylliant lleol.
- 5.8.10. Heblaw am y polisiau cenedlaethol a lleol a amlygwyd, mae'r darpariaethau deddfwriaethol sy'n bwysig i benderfyniad yr ExA yn cynnwys: Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979; Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016; Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990; a Rheoliadau Gwrychoedd 1997. Maen nhw i gyd yn berthnasol i ganfyddiadau'r ExA ynglŷn â'r amgylchedd hanesyddol.
- 5.8.11. Mae'r ExA hefyd yn nodi'r ystod lawn o bolisiau a deddfwriaeth y cyfeirir atynt ym Mhennod 8 yr ES (Treftadaeth Ddiwylliannol) [REP7-044] ar y cyd â'r uchod. Yn ogystal, mae'r ExA wedi ystyried Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Penderfyniadau) 2010 sy'n cynnwys mesurau statudol yn ymwneud ag asesu effeithiau treftadaeth.

ACHOS YR YMGEISYDD

- 5.8.12. Mae'r Ymgeisydd wedi asesu goblygiadau i asedau diwylliannol ym Mhennod 8 ei ES (Treftadaeth Ddiwylliannol) [REP7-044]. Mae'n cyfeirio at gymysgedd o astudiaethau desg, ymweliadau safle a data arolwg geoffisegol yn ei astudiaeth i werthuso effeithiau ar asedau treftadaeth. Defnyddiwyd canllawiau Historic England, y Sefydliad Tirwedd a'r Sefydliad Rheoli ac Asesu Amgylcheddol i fabwysiadu ymagwedd fesul cam at asesu'r potensial ar gyfer effeithio ar arwyddocâd lleoliadau asedau treftadaeth.

- 5.8.13. Dangosir tystiolaeth bod cyfanswm o 208 o asedau treftadaeth dynodedig yn bresennol o fewn 1km o'r Ffin Adeiladu Seilwaith Newydd linol, sy'n cynnwys:
- 22 o Henebion Cofrestredig;
 - 173 o Adeiladau Rhestredig;
 - 2 Barc a Gardd Hanesyddol Cofrestredig;
 - 1 Dirwedd Hanesyddol Gofrestredig; a
 - 10 Ardal Gadwraeth.
- 5.8.14. O'r rheiny, dim ond tri ased treftadaeth dynodedig sydd o fewn y Ffin Adeiladu Seilwaith Newydd, sef Ardal Gadwraeth Camlas Caer, Ardal Gadwraeth Thornton-le-Moors a Thirwedd Hanesyddol Gofrestredig Comin Treffynnon a Mynydd Helygain.
- 5.8.15. Amlinellir yr LSE ar asedau treftadaeth sy'n gysylltiedig ag adeiladu yn Nhabl 8.6 Pennod 8 yr ES (Treftadaeth Ddiwylliannol) [REP7-044]. Mae'r tabl yn amlygu ystod o effeithiau niweidiol cymedrol (arwyddocaol), heblaw am y potensial ar gyfer olion angladdol o'r Oes Efydd rhwng Northop Hall tua'r gorllewin i BVS Babell, y nodir ei fod yn effaith niweidiol fawr (arwyddocaol) yn Sir y Fflint.
- 5.8.16. Fodd bynnag, mae Tabl 8.7 Pennod 8 [REP7-044] yn cyfeirio at yr holl effeithiau gweddilliol ar ôl lliniaru. Mae'n nodi y bydd y rhan fwyaf o'r effeithiau gweddilliol yn cael eu lliniaru trwy eu gwarchod trwy gofnodi neu, yn achos y nodweddion sy'n gysylltiedig â'r safle amffosog, y pwll pysgod a'r sianel gysylltu yn Elton, yn cael eu lliniaru trwy eu gwarchod trwy gofnodi neu eu gwarchod yn y fan a'r lle trwy osgoi.
- 5.8.17. Wrth werthuso'r holl effeithiau ar dreftadaeth, mae'r Ymgeisydd yn cadarnhau nad oes unrhyw effeithiau amgylcheddol arwyddocaol eraill ar dderbynyddion hanesyddol sensitif wedi'u cofnodi yn yr ES yn ystod gweithredu'r Datblygiad Arfaethedig. At hynny, hepgorodd yr Ymgeisydd y cam datgomisiynu ar y sail na fyddai seilwaith claddedig presennol yn effeithio ar archaeoleg gladdedig. A byddai symud y seilwaith ar ben y tir (yr AGIau a'r BVSau) ymaith yn dychwelyd i amodau sy'n debyg i'r llinell sylfaen bresennol. Felly, mae'r Ymgeisydd o'r farn bod yr agweddau hynny'n annhebygol o arwain at unrhyw effeithiau arwyddocaol ar faterion treftadaeth ddiwylliannol.

SAFBWYNTIAU PARTÏON Â BUDDIANT

- 5.8.18. Mae SoCGau'r Ymgeisydd a gwblhawyd gyda FCC [REP7-259] a CWCC [REP8-021] yn cadarnhau bod yr IPau hyn yn cytuno ag ymagwedd yr Ymgeisydd at y materion canlynol:
- mesuriadau sylfaenol;
 - methodoleg;
 - bod yr asesiad o effeithiau ym Mhennod 8 yr ES wedi cael ei gynnal yn unol ag arfer gorau a chanllawiau;
 - bod casgliadau'r asesiad o effeithiau'n briodol;
 - yr holl fesurau lliniaru cysylltiedig â'r amgylchedd hanesyddol a gynigiwyd.

5.8.19. Erbyn diwedd yr Archwiliad, nid oedd y naill barti na'r llall yn codi unrhyw bryderon ynglŷn ag effaith y Datblygiad Arfaethedig ar faterion yn ymwneud â threftadaeth ddiwylliannol.

5.8.20. I ddechrau, roedd Cadw, sef Gwasanaeth Cyngor Hanesyddol Llywodraeth Cymru, yn ei Sylw Perthnasol [RR-007], wedi nodi'r 'effaith bosibl' ar asedau hanesyddol, fel y'i hamlinellir ym Mhennod 8 (Treftadaeth Ddiwylliannol) ES yr Ymgeisydd (a ddiweddarwyd yn y pen draw i [REP7-044]). Cadarnhaodd ei fod yn cytuno â'r casgliadau a nodir yn y ddogfen honno, sef:

- o ystyried asedau o fewn 3km o'r datblygiad arfaethedig, heblaw am Dirwedd Gofrestredig o Bwysigrwydd Hanesyddol Eithriadol Comin Treffynnon a Mynydd Helygain, na fyddai'r Datblygiad Arfaethedig yn cael effaith uniongyrchol ar unrhyw asedau hanesyddol dynodedig na'u lleoliadau; ac
- er y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn cael effaith ffisegol uniongyrchol ar y Dirwedd Hanesyddol Gofrestredig, byddai'r effaith ar werth yr ased yn fach a heb fod yn arwyddocaol.

5.8.21. Yn SoCG yr Ymgeisydd a gwblhawyd gyda Cadw [REP6A-010], cytunwyd ar yr holl faterion wedi hynny ac fe'u cofnodwyd, yn cynnwys:

- Ymgysylltu.
- Cynnwys yr ES a sut y'i cynhaliwyd, gan gynnwys:
 - yr ardal astudio;
 - y llinell sylfaen;
 - methodoleg asesu effeithiau;
 - y mesurau lliniaru a gynigiwyd; ac
 - ystyriaeth briodol wedi'i rhoi i'r fethodoleg amgylchedd hanesyddol a threftadaeth ddiwylliannol yn yr asesiad cronol.
- Treftadaeth Ddiwylliannol o ran:
 - ffynonellau data sylfaenol;
 - torri ffosydd treialu; ac
 - effeithiau posibl ar asedau hanesyddol, gan gynnwys dod i gytundeb bod effeithiau'r Datblygiad Arfaethedig ar Dirwedd Hanesyddol Comin Treffynnon a Mynydd Helygain, fel y trafodwyd yn Atodiad 8.1 Yr Amgylchedd Hanesyddol ES yr Ymgeisydd, Aseiad Desg Rhan 1 [REP4-081] (fersiwn gyfredol [REP7-081]), heb fod yn arwyddocaol.
- Y dDCO, gan gynnwys Gofynion.
- Cydsyniadau a Thrwyddedau eraill sy'n ofynnol y tu allan i'r dDCO.

5.8.22. Nodir yn y SoCG a gwblhawyd gyda Cadw [REP6A-010] ei fod wedi gofyn i ffosydd treialu pellach gael eu torri, y mae'r Ymgeisydd wedi ymrwymo iddo ar ffurf ail gam o dorri ffosydd ar ôl cael caniatâd. Er y byddai'n well gan Cadw petai'r holl ffosydd wedi'u targedu o'r cam torri ffosydd cyntaf yn cael eu torri yn ystod y cam cyn penderfynu, cadarnhaodd ei fod yn derbyn y gallai hyn gael ei wneud yn ddiweddarach o ystyried materion mynediad. Fel y cyfryw, cytunodd yr Ymgeisydd a Cadw fod yr

ymagwedd a ddefnyddiwyd hyd yma yn ddigonol i bennu arwyddocâd a'i bod yn unol â'r arweiniad a gynhwysir yn NPS EN-1.

5.8.23. Nododd Historic England, yn y SoCG a gwblhawyd gyda'r Ymgeisydd [REP6A-009], y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn effeithio ar ddau adeilad rhestredig yn Lloegr dros dro yn ystod adeiladu, sef:

- The Willows (Gradd II), adeiladau cysylltiedig a deial haul.
- Mynegbost llwybr troed rhestredig Gradd II.

5.8.24. Er gwaethaf hyn, cytunodd Historic England, yn y SoCG a gwblhawyd, yr aseswyd y byddai effaith niweidiol fach ar y ddau yn ystod adeiladu ac y byddai'r effaith yn un niweidiol fach dros dro (heb fod yn arwyddocaol). O ganlyniad, cytunodd Historic England yn y SoCG [REP6a-009] ei fod yn fodlon ar:

- yr holl fesurau lliniaru yn y REAC;
- yr Ymchwiliad Cynllun Archaeolegol Ysgrifenedig Amlinellol (AWSI); a
- geiriad dDCO yr Ymgeisydd.

ARCHWILIAD

Asedau treftadaeth dynodedig

5.8.25. Rhoddodd yr ExA ystyriaeth i'r gyfres lawn o ddeddfwriaeth a pholisi ar gyfer Cymru a Lloegr a ddiffinnir yn yr ES drwy gydol cyfnod yr Archwiliad. Mae'r ExA yn nodi, o ran NSIPau, bod y cyngor cyffredinol troswaol yn NPS EN-1 yn diffinio *arwyddocâd hanesyddol 'fel cyfanswm y buddiannau treftadaeth sydd gan ased treftadaeth'* ac y gallai buddiant fod yn hanesyddol, yn archaeolegol, yn bensaernïol, yn artistig, neu'n hanesyddol. Mae arwyddocâd yn deillio nid yn unig o bresenoldeb ffisegol ased treftadaeth, ond hefyd o'i leoliad.

5.8.26. Felly, mae cyngor cyffredinol eang NPS EN-1 yn ystyriaeth bwysig a gellir ei gymhwyso fel man cychwyn defnyddiol i asesu sawl agwedd ar y gwaith DCO arfaethedig yng Nghymru a Lloegr, ar yr un pryd ag ystyried polisiau cenedlaethol a lleol unigol a amlygwyd.

5.8.27. Fel y nodwyd yn y SoCG y cytunwyd arno gyda Historic England a Cadw, cydnabyddir nad oedd asesiadau'r ES o effeithiau ar leoliad asedau rhestredig amrywiol ger y gwaith DCO arfaethedig yn ddadleuol i raddau helaeth yn ystod yr Archwiliad. Roedd hyn yn bennaf o ganlyniad i'r canlynol:

- y pellterau sylweddol rhwng y seilwaith DCO ac asedau amgylchynol presennol o bwysigrwydd hanesyddol a amlygwyd yn yr ES;
- yr agweddau ar y Datblygiad Arfaethedig o dan y tir; a
- thopograffeg yr ardal a nodweddion tirwedd.

5.8.28. Yn ystod yr Archwiliad, cydnabu'r ExA gyngor Pennod 6 PPW a TAN24: Yr Amgylchedd Hanesyddol – ynglŷn â lleoliad asedau dynodedig yng Nghymru. O ran Lloegr, mae'r NPPF a'r NPPG yn defnyddio ymagweddau sylfaenol tebyg. Ni chanfu'r ExA unrhyw reswm i awgrymu nad oedd ymagweddau PPW neu'r NPPF/ NPPG wedi cael eu dilyn yn yr ES.

- 5.8.29. Ceir rhagdybiaeth glir i Ymgeiswyr gydnabod a gwarchod pob ased treftadaeth rhag niwed. Mae'r ExA yn ymwybodol y priodolir pwys mawr i unrhyw niwed canlyniadol i unrhyw ased dynodedig. Er y byddai rhai effeithiau adeiladu dros dro yn amlwg, ni chodwyd unrhyw niwed sylweddol i asedau dynodedig na'u lleoliadau ar ôl cwblhau'r datblygiad gyda'r holl fesurau lliniaru, yn unol ag ymatebion statudol a SoCGau. O ran asedau heb eu dynodi, mae'r ES yn cydnabod pwysigrwydd diwylliannol y rheiny o hyd, ac mae'r ExA wedi amlinellu ei safbwynt yn unol â hynny.
- 5.8.30. Fel y manylir yn y SoCG y cytunwyd arno gyda Cadw [REP6A-010], ni fyddai'r effeithiau ar leoliad Tirwedd Hanesyddol Comin Treffynnon a Mynydd Helygain, fel y cyfeirir atynt yn yr Aseiad Desg Rhan 1 yn Atodiad 8.1 Yr Amgylchedd Hanesyddol [REP7-081], yn arwyddocaol. Nid oedd gan yr ExA unrhyw reswm i anghytuno â'r safbwynt hwnnw, o ystyried pellterau, topograffeg a'r newidiadau a fyddai'n amlwg.

Asedau archaeolegol heb eu dynodi

- 5.8.31. Yn gyffredinol, goblygiadau archaeolegol llwybr y biblinell oedd yr hyn a ddenodd y sylwadau mwyaf technegol yng Nghymru a Lloegr. Yn ystod yr Archwiliad, roedd yr ExA yn ymwybodol o'r Adroddiad Gwerthuso Archaeolegol [REP4-267], a gyflwynwyd erbyn DL4, a ganfu, yn Sir y Fflint, fod 14 o'r 26 o ffosydd a gloddiwyd wedi datgelu cyfanswm o 24 o nodweddion archaeolegol. Canfuwyd y nodwedd gynharaf y gellid ei dyddio o'r ardal hon yn Ffos 78, sef pwll unigol a oedd yn cynnwys olion ulw a chrochenwaith o'r Oes Efydd o bosibl. Canfuwyd bod pâr arall o byllau o Ffos 58 yn cynnwys sbwriel domestig o'r ail ganrif ar bymtheg i'r ddeunawfed ganrif. Datgelwyd nodweddion ffin eraill heb ddyddiad yn Sir y Fflint, gan gynnwys pyllau, ffosydd, a gyliau, y gallai rhai ohonynt fod wedi cynrychioli hen derfynau caeau neu glostiroedd, nodweddion domestig posibl, paleosianeli a nodweddion naturiol eraill.
- 5.8.32. O ystyried goblygiadau archaeolegol y Datblygiad Arfaethedig, ac ymatebion statudol, diweddarwyd Atodiad 8.5 yr ES Adroddiad Modelu Dyddodion Geoarchaeolegol Diwygiad A [REP7-086] yn ystod yr Archwiliad hefyd, yn ogystal â'r AWSI Amlinellol Diwygiad B [REP7-238], Ffigur 8.1 yr ES Asedau Treftadaeth Dynodedig [REP7-215], Ffigur 8.2 yr ES Asedau Treftadaeth Heb eu Dynodi [REP7-216] ac Atodiad 8.1 yr ES Aseiad Desg yr Amgylchedd Hanesyddol [REP7-081].
- 5.8.33. Cydnabu'r ExA yn ystod yr Archwiliad fod rhan fwyaf gorllewinol y Datblygiad Arfaethedig o Northop Hall trwy safle BVS Babell wedi'i lleoli mewn tirwedd gynhanesyddol hysbys sydd wedi'i dominyddu gan henebion angladdol o'r Oes Efydd. Nodir bod olion tri beddrod crwn wedi'u difrodi neu eu dinistrio yn agos i Northop Hall, a bod pum Heneb Gofrestredig o'r cyfnod cynhanesyddol o fewn 1km o BVSau Pentre Helygain a Babell sy'n cynnwys nifer o feddrodau crwn a bryngaer Bwrdd y Rhyfel o'r Oes Efydd hwyr i'r Oes Haearn.
- 5.8.34. Gan dderbyn bod olion angladdol o'r Oes Efydd yn bosibl o Northop Hall tua'r gorllewin i BVS Babell, nododd yr ExA fod Pennod 8 yr ES yn cofnodi

y byddai effaith niweidiol gymedrol ar yr asedau treftadaeth hyn sydd heb eu dynodi.

- 5.8.35. Yn hynny o beth, roedd yr ExA yn ymwybodol o Dabl 8.7 'Crynodeb o Effeithiau Gweddilliol' ym Mhenod 8 yr ES (Treftadaeth Ddiwylliannol) [REP7044], lle yr amlygodd y gellir lliniaru trwy warchod trwy gofnodi. Mae'r ExA yn cytuno y byddai symud olion archaeolegol angladdol o'r Oes Efydd ymaith mewn ffordd reoledig a'u cofnodi yn lleihau maint yr effaith o fawr i gymedrol. Er hynny, hyd yn oed gyda'r mesur lliniaru hwnnw, mae'n nodi hefyd y byddai effaith weddilliol niweidiol gymedrol yn ystod adeiladu, fel yr amlygwyd yn yr ES.
- 5.8.36. Yn y cyd-destun hwnnw, nid yw PPW/TAN24 'Yr Amgylchedd Hanesyddol' yn rhoi cyngor penodol ar asedau heb eu dynodi sy'n bresennol yng Nghymru. Er hynny, mae amddiffyniadau a disgwyliadau diwylliannol hanesyddol wedi'u hymgorffori'n glir mewn polisi lleol a chenedlaethol ac yng nghyfraith Cymru.
- 5.8.37. I'r gwrthwyneb, o ran ardaloedd gweinyddol yn Lloegr, mae paragraff 203 yr NPPF yn nodi bod niwed i asedau treftadaeth heb eu dynodi yn gydbwysedd gan ystyried graddau unrhyw niwed neu golled ac arwyddocâd yr ased treftadaeth.
- 5.8.38. O ganlyniad, heb unrhyw arweiniad arall penodol yn PPW nac o safbwynt cynllun datblygu lleol, mae'r ExA wedi defnyddio ymagwedd debyg, a adlewyrchir hefyd ym mharagraff 5.8.6 NPS EN-1.
- 5.8.39. Yn yr achos hwn, byddai rhywfaint o risg bosibl o niwed i asedau archaeolegol heb eu dynodi, sy'n arwyddocaol yn hanesyddol ac yn ddiwylliannol. Mae niwed o'r fath i asedau heb eu dynodi yn bwysig o hyd o ganlyniad i arwyddocâd diwylliannol lleol ac mae'n denu pwys cymedrol yn erbyn gwneud y Gorchymyn yn argymhelliad yr ExA.
- 5.8.40. Ar wahân i'r mater hwn, gwnaeth yr Ymgeisydd ddiweddariadau erbyn DLau amrywiol yn glŷn â'r cwmpasu a'r fethodoleg yn ei asesiadau cyffredinol yn ymwneud â threftadaeth ddiwylliannol ac ymatebion technegol cysylltiedig. Gwnaed y diweddariadau hyn i ymateb i safbwyntiau IPau ac roedd yr ExA yn fodlon ar y cyfan ar y wybodaeth ychwanegol a gynhwyswyd yn y dogfennau hyn wedi'u diweddarau. Yn unol â'r holl ddarpariaethau statudol a sbardunwyd a chynnwys polisiau Cymru a Lloegr, gwerthusodd yr ExA y REAC, sy'n darparu'r ymrwymadau lliniaru cyffredinol, y manylir arnynt ymhellach wedi hynny mewn Cynllun Ymchwilio Archaeolegol Ysgrifenedig Amlinellol (OAWSI) [REP7-238]. Mae'n fodlon bod y darpariaethau hyn yn cyd-fynd â'r polisi cenedlaethol a lleol cyffredinol yng Nghymru a Lloegr.
- 5.8.41. Mae'r OAWSI yn cynnwys ardaloedd lle y gallai fod angen gwarchod yn y fan a'r lle, ac mae ymchwiliadau pellach o ddyddodion geoarchaeolegol wedi cael eu hamlygu. Byddai unrhyw ymchwiliadau archaeolegol sy'n ofynnol yn cael eu dylunio a'u cynnal mewn ymgynghoriad â'r Cynghorydd Archaeolegol perthnasol (sy'n cynrychioli'r ACLI perthnasol)

ac yn unol ag AWSI cymeradwy. Mae cynhyrchu WSI yn unol â'r OAWSI wedi'i gynnwys fel R10 yn dDCO yr Ymgeisydd.

- 5.8.42. Fel yr ymdriniwyd ag ef gan fater archwiliad arall, mae'r ExA yn nodi'n benodol bresenoldeb safle amffosog Elton, sef Heneb Gofrestredig gerllaw ffin y DCO, sydd wedi'i leoli o fewn awdurdodaeth CWCC. Yn bwysig, roedd yn fodlon y byddai'r gweithgareddau adeiladu a gynigir yn ei osgoi'n llwyr. Y rheswm am hyn yw oherwydd y byddai angen i unrhyw waith i'r Heneb Gofrestredig yn yr ardal amgylchynol gadw at yr AWSI ac mewn ymgynghoriad â'r Cynghorydd Archaeolegol perthnasol.
- 5.8.43. Dangoswyd bod llain ddiogelwch 30m wedi'i hymgorffori yn ffin y DCO o amgylch ardal yr Heneb Gofrestredig i sicrhau nad yw'n cael ei difrodi'n anfwriadol yn ystod gweithgareddau adeiladu. Mae hyn yn un o ddarpariaethau'r REAC yng nghyfeirnod D-CH-002 [REP7-236]. Byddai nodweddion cysylltiedig y tu allan i ffin yr heneb gofrestredig yn cael eu hymchwilio a byddai strategaeth liniaru briodol yn cael ei gweithredu mewn ymgynghoriad â CWCC. Nid yw'r un o'r IPau wedi gwneud unrhyw wrthwynebiadau i'r ymagwedd honno. Mae'r ExA wedi ystyried yr holl ddyletswyddau a sbardunir trwy gyfrwng deddfwriaeth bwysig a pherthnasol ac mae'n cytuno ei fod yn ddull priodol i'w ddefnyddio.
- 5.8.44. Mae LIR [REP1A-002], Atodiad [REP1A-003] CWCC; a LIR [REP1A-005], Atodiad [REP1A-006] FCC, o'u hystyried gyda'i gilydd, yn dangos y dylid rhoi ystyriaeth briodol i'r amgylchedd hanesyddol yn unol â'r sylwadau uchod. Ond, erbyn diwedd yr Archwiliad, nid oedd gan CWCC na FCC unrhyw bryderon arwyddocaol yn weddill yn deillio o gyflwyniadau'r LIR.

CASGLIAD YR EXA

- 5.8.45. Mae'r ExA yn fodlon bod asesiad yr Ymgeisydd o'r amgylchedd hanesyddol wedi amlygu arwyddocâd yr holl asedau treftadaeth perthnasol yn briodol, effeithiau ar eu lleoliadau, ac effeithiau eraill cysylltiedig sy'n deillio o'r Datblygiad Arfaethedig yng Nghymru a Lloegr yn berthynol i PPW/ TAN 24 a'r NPPF/ PPG.
- 5.8.46. Mae'r ExA yn cytuno bod deunydd yr Archwiliad, o'i ystyried gyda'i gilydd, yn cyflwyno achos argyhoeddiadol bod llwybr y biblinell a gwaith y DCO wedi cael eu dylunio i osgoi'r holl asedau treftadaeth a lleihau effeithiau arnynt cyn belled ag y bo'n rhesymol bosibl fel egwyddor drosfwaol.
- 5.8.47. Nid yw Cadw, HE, FCC na CWCC wedi gwrthwynebu'r asesiad o effeithiau ar asedau treftadaeth dynodedig nac ar y sail nad yw effeithiau posibl wedi cael eu hasesu'n briodol gan yr ES, fel y dangoswyd trwy'r SoCGau a sylwadau ehangach yn yr Archwiliad. Mae'r ExA yn cytuno y byddai rhai effeithiau adeiladu dros dro bach, fel y nodwyd gan ymgynghoreion statudol a'r SoCGau, na fyddent yn arwain at effeithiau niweidiol arwyddocaol. Ac ni fyddai unrhyw effaith arwyddocaol arall ar asedau dynodedig na'u lleoliadau ar ôl cwblhau'r Datblygiad Arfaethedig.

- 5.8.48. At hynny, mae'r ExA yn cytuno y byddai'r REAC a'r AWSI a sicrheir trwy dDCO yr Ymgeisydd yn sicrhau bod mesurau lliniaru effeithiol yn cael eu cynnal i gyfyngu ar unrhyw niwed posibl.
- 5.8.49. Mae'r ExA yn cytuno bod yr ystod o ddarpariaethau deddfwriaethol a pholisi cenedlaethol a lleol perthnasol sy'n gymwys i Gymru a Lloegr ar gyfer gwarchod yr amgylchedd hanesyddol er mwyn presenoldeb yr holl asedau arwyddocaol wedi cael eu cymhwyso'n briodol yn asesiad yr ES. Mae hefyd yn fodlon pe byddai'r datblygiad yn mynd yn ei flaen, y byddai'n cael ei gynnal yn unol â'r holl ddarpariaethau statudol, dyletswyddau a pholisïau cysylltiedig a sbardunir ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol. Yng ngoleuni hyn, nid yw'r ExA yn canfod unrhyw wrthdaro ag NPS EN-1 nac NPS EN-4 na'r diweddariadau drafft i NPSau.
- 5.8.50. Mae'r ExA yn cytuno na fyddai'r effeithiau a aseswyd yn yr ES ar asedau treftadaeth perthnasol yng Nghymru a Lloegr yn arwyddocaol ar ôl lliniaru. Yr unig eithriad yw goblygiadau archaeolegol tebygol yn ymwneud ag olion angladdol posibl o'r Oes Efydd (yn agos i Northop Hall tua'r gorllewin i BVS Babell). Mae'r ExA yn cytuno y byddai effaith niweidiol gymedrol yn debygol ar yr asedau archaeolegol heb eu dynodi hynny sydd o werth diwylliannol. Wrth ddod i'r casgliad hwnnw, mae'r ExA yn fodlon bod yr Ymgeisydd wedi defnyddio arfer gorau ac y byddai'r mesurau lliniaru arfaethedig yn briodol.
- 5.8.51. O ran y risgiau sy'n gysylltiedig â niwed a amlygwyd i asedau archaeolegol heb eu dynodi, mae'r ExA yn priodoli pwys cymedrol i'r mater, o ystyried paramedrau arwyddocâd diwylliannol lleol a gwerth hanesyddol yr asedau. Gan dderbyn bod yr olion o'r Oes Efydd yng Nghymru (Sir y Fflint), ystyriodd yr ExA gyngor cyfunol TAN-24 a PPW, yn ogystal ag NPS EN-1 a, heb gyngor i'r gwrthwyneb ar wneud penderfyniad/ argymhelliad, defnyddiodd ymagwedd debyg i honno a amlinellir yn yr NPPF, sy'n amlygu'r ymagwedd a gynhwysir ym mharagraff 203 yr NPP, sef bod niwed i asedau treftadaeth heb eu dynodi yn gydbwysedd sy'n ystyried graddau unrhyw niwed neu golled ac arwyddocâd yr ased treftadaeth. Cynhelir ymarfer cydbwyso'r ExA ym Mhennod 7 yr Adroddiad hwn.
- 5.8.52. At ei gilydd, gan ddwyn yr holl bwyntiau perthnasol ynghyd, daw'r ExA i'r casgliad fod yr effaith debygol ar olion angladdol posibl o'r Oes Efydd (a dderbynnir yn yr ES) yn ffactor y dylai'r SoS ei ystyried a'i gydnabod yn un sy'n denu pwys negyddol. Wedi dweud hynny, mae cyngor yr NPPF ar gyfer asedau heb eu dynodi yn berthnasol. Felly, derbynnir bod y tebygolrwydd penodol hwnnw o niwed yn gyfyngedig, ac yn berthynol i ffactorau eraill mewn unrhyw gydbwysedd cynllunio cyffredinol sydd i'w gynnal ym Mhennod 7 yr Adroddiad hwn.

5.9. SŴN A DIRGRYNIAD

POLISI

- 5.9.1. Yn ôl NPS EN-1, dylai sŵn gweithredol, gan gynnwys gweithgareddau atodol sy'n gysylltiedig â datblygiad, fel mwy o symudiadau traffig ffyrdd

a rheilffyrdd, neu fathau eraill o drafnidiaeth, gael ei asesu gan ddefnyddio egwyddorion Safonau Prydeinig perthnasol (BS4142, BS6472 a BS8233) lle y bo'n briodol. Mae NPS EN-4 adrannau 2.9 a 2.20 yn cydfynd â'r cyngor cyffredinol yn NPS EN-1 ar asesu effeithiau sŵn a dirgryniad o dan y tir ar gyfer nwy.

- 5.9.2. O ran Cymru, mae PPW, ynghyd â chyngor penodol TAN11 yn glŷn â phob datblygiad newydd a fyddai naill ai'n cynhyrchu sŵn neu'n agored i ffynonellau sŵn presennol, yn bwysig ac yn berthnasol. Yn ogystal, mae'r Cynllun Sŵn a Seinwedd i Gymru 2018-2023 yn amlinellu cynlluniau i fodloni'r rhwymedigaethau a ddisgrifir yn Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) (Diwygio) 2009. Mae'n cynnwys cefnogi nodau llesiant cenedlaethol sy'n gysylltiedig â sŵn a seinweddau.
- 5.9.3. O ran Lloegr, mae'r NPPF a'r NPPG, gyda'i gilydd, yn ceisio gwarchod buddiannau ansawdd bywyd sy'n gysylltiedig â datblygiad newydd. Mae'r Datganiad Polisi Sŵn ar gyfer Lloegr yn berthnasol hefyd, sy'n amlinellu gweledigaeth tymor hir y Llywodraeth ar gyfer rheoli sŵn yn effeithiol.
- 5.9.4. Ar lefel leol a sirol yn ardal y DCO arfaethedig: o ran CDLI FCC, polisïau STR14 sy'n ymwneud â diogelu'r amgylchedd ac EN18 sy'n ymwneud â llygredd a niwsans sŵn; ac o ran CLI CWCC, Polisi SOC5 (Iechyd a Lles) a Pholisi DM30 (Sŵn) yw'r polisïau sy'n fwyaf perthnasol i'r Datblygiad Arfaethedig.
- 5.9.5. Mae'r holl bolisïau cysylltiedig ag effeithiau sŵn a dirgryniad yng Nghymru a Lloegr yn canolbwyntio ar sicrhau bod effeithiau niweidiol ar iechyd ac ansawdd bywyd yn cael eu hosgoi neu eu lliniaru'n ddigonol.
- 5.9.6. Ar y cyd â'r holl bolisïau uchod, mae'r ExA wedi ystyried prif ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â sŵn a dirgryniad, gan gynnwys Deddf Rheoli Llygredd (1974). Mae hefyd yn cydnabod: Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) (Diwygio) (2009); Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Lloegr) (Diwygio) (2010); a Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Lloegr) (Diwygio) (2018).
- 5.9.7. Mae'r ExA hefyd yn cydnabod yr ystod o bolisïau cenedlaethol a lleol a chanllawiau cyffredinol sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr ar gyfer sŵn, fel yr amlinellir ym Mhennod 15 (Sŵn a Dirgryniad) ES yr Ymgeisydd [REP7-057], sydd oll wedi cael eu hystyried gan yr ExA.

ACHOS YR YMGEISYDD

- 5.9.8. Mae Pennod 15 yr ES yn adrodd ar yr effeithiau sŵn a dirgryniad arwyddocaol tebygol sy'n gysylltiedig ag adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Datblygiad Arfaethedig. Fe'i darllenir ochr yn ochr â'r wybodaeth a gynhwysir yn Ffigur 15.3 yr ES Maint Effeithiau Sŵn Adeiladu Diwygiad C [REP7-225] a Ffigur 15.2 yr ES Lefelau Sŵn Adeiladu Rhagfynedig Diwygiad C [REP7-224]; Atodiad 15.1 Data Sŵn Sylfaenol Diwygiad A [REP7-134]; Atodiad 15.2 Tybiaethau ar gyfer Sŵn a Dirgryniad Adeiladu Diwygiad A [REP7-135]; ac Atodiad 15.3 Canlyniadau Asesiad Sŵn a Dirgryniad Diwygiad C [REP7-136].

- 5.9.9. Mae ardal astudio'r ES a ystyriwyd yn yr asesiad sŵn ar gyfer cam adeiladu'r Datblygiad Arfaethedig 300m oddi wrth y Ffin Adeiladu Seilwaith Newydd. Mae'r ES yn cyfeirio at Safonau Prydeinig perthnasol, fel yr argymhellir yn NPS EN-1.
- 5.9.10. Mae'r Ymgeisydd yn nodi bod yr amodau sylfaenol wedi'u llywio gan ddadansoddiad ystadegol o'r lefelau sŵn a fesurwyd yn ystod amrywiaeth o gyfnodau monitro: Yn Ystod y Dydd: 07:00 – 19:00; Gyda'r Nos: 19:00 – 23:00; ac Yn Ystod y Nos: 23:00 – 07:00. Mae Tablau 15.17, 15.18 a 15.19 [REP7-058] yn manylu ar nifer debygol y derbynyddion sensitif i sŵn sy'n agored i effaith sŵn o faint canolig neu uchel oherwydd yr holl weithgareddau adeiladu yn ystod y dydd, gyda'r nos, ac yn y nos, yn y drefn honno.
- 5.9.11. O ran gweithgareddau adeiladu sy'n gysylltiedig â'r technegau gosod di-ffos, mae Tabl 15.18 a Thabl 15.19 [REP7-058] yn dangos bod rhai derbynyddion lleol yn debygol o brofi effaith sŵn niweidiol o faint canolig neu uchel.
- 5.9.12. Mae'r Ymgeisydd yn datgan y bydd y gweithgarwch hwn yn digwydd yn achlysurol ac am gyfnod byr wrth y rhan fwyaf o groesfannau. Fodd bynnag, wrth rai croesfannau hirach lle mae amodau'r tir yn anodd, disgwylir i'r gwaith gyda'r nos ac yn ystod y nos bara hyd at bedair wythnos. Felly, ni fydd effaith arwyddocaol yn digwydd yn y rhan fwyaf o leoliadau croesfannau, ond nodir effaith niweidiol arwyddocaol mewn chwe lleoliad lle y disgwylir drilio'n barhaus am 24 awr yn gysylltiedig â thechnegau gosod di-ffos.
- 5.9.13. Mae Tabl 15.17 [REP7-058] yn nodi bod rhai derbynyddion ym mhob rhan o'r Datblygiad Arfaethedig yn debygol o brofi effaith sŵn niweidiol ganolig neu uchel ar ryw adeg yn ystod y cam adeiladu. Yn arbennig, mae'n bosibl y byddai Rhannau 3, 4 a 5 y biblinell yn effeithio ar y nifer fwyaf o dderbynyddion.
- 5.9.14. Byddai effaith ar ardaloedd preswyl Mollington, Sandycroft, Aston, Ewloe ac AGI Northop Hall. Mae derbynyddion yn debygol o brofi effaith sŵn niweidiol o faint canolig neu uchel yn y lleoliadau hynny. Byddai hyn yn arwain at effeithiau niweidiol arwyddocaol, hyd yn oed ar ôl rhoi mesurau lliniaru ar waith.
- 5.9.15. Mae canlyniadau'r Ymgeisydd yn dangos bod lefelau sŵn traffig yn debygol o gynyddu hyd at 1 desibel (dB), a ddosberthir yn effaith fach. Ar gyfer nifer gyfyngedig o gysylltiadau ffyrdd, mae'r newidiadau i lefelau sŵn yn uwch nag 1dB. Yn yr achosion hyn, ystyrir bod y lefelau sŵn absoliwt yn isel o hyd. Felly, ym marn yr Ymgeisydd, ni fyddai effaith sŵn traffig adeiladu yn arwyddocaol.
- 5.9.16. Yn ôl asesiad yr Ymgeisydd, ni fydd effeithiau dirgryniad yn ystod y cam adeiladu a datgomisiynu yn arwyddocaol. Ni fu gan yr ExA achos i anghytuno yn ystod cyfnod yr Archwiliad. Yn ystod gweithredu'r Datblygiad Arfaethedig, gan gynnwys AGIau/ BVSau, ni ddisgwylir unrhyw newid arwyddocaol i lefelau sŵn amgylchynol wrth unrhyw

dderbynnwyd sensitif. Byddai rhai effeithiau sŵn niweidiol yn ystod datgomisiynu, y byddai angen eu lliniaru. At hynny, ni ddisgwylir i'r effeithiau cyfunol a amlygwyd gan yr Ymgeisydd newid oherwydd amcanestyniadau hinsoddol yn y dyfodol a fesurwyd yn yr ES.

SAFBWYNTIAU PARTÏON Â BUDDIANT

- 5.9.17. Roedd gan CWCC rai pryderon technegol ynglŷn â drafftio R15(5) y dDCO o ystyried y diffiniad o weithgareddau cychwyn a diffodd. Mae'r sylwadau ar sŵn yn LIR [REP1A-002] ac Atodiad [REP1A-003] CWCC gyda'i gilydd yn rhoi cyd-destun ychwanegol. Wrth ymateb, ceisiodd yr Ymgeisydd ddatrys y mater hwn yn ystod yr Archwiliad trwy ddiwygio geiriad y dDCO a'r Cynllun Rheoli Sŵn a Dirgryniad Amlinellol Diwygiad B [REP7-282], a gyflwynwyd erbyn DL7. Mae'n cynnwys y diffiniad o 'weithgareddau cychwyn a diffodd', a meini prawf asesu sŵn a dirgryniad cysylltiedig i reoli gweithgareddau o'r fath. Yn ei sylwadau erbyn DL8 [REP8-041a], cydnabu CWCC y diwygiadau hyn a chadarnhaodd nad oedd ganddo unrhyw bryderon ychwanegol ynglŷn â'r oriau gwaith craidd o dan Ofyniad perthnasol y dDCO.
- 5.9.18. Yn ystod camau diweddarach yr Archwiliad, cytunodd CWCC fod yr ymagwedd gyffredinol at asesu sŵn yn cyd-fynd â BS 4142:2014. Cytunodd hefyd ei bod yn briodol hepgor dirgryniad gweithredol, gan gynnwys wrth AGIau a BVSau, o ganlyniad i ddiffyg derbynyddion sensitif.
- 5.9.19. Derbyniodd LIR [REP1A-005] ac Atodiad [REP1A-006] FCC fod effeithiau sŵn a llwch strategol posibl yn deillio o weithgarwch adeiladu ac yn ystod y camau gweithredol, cynnal a chadw a datgomisiynu. Gwahoddodd yr LIR drafodaeth fanylach â'r Ymgeisydd ynglŷn â'r mesurau lliniaru penodol i'w sicrhau gan y DCO yn ystod cyfnod yr Archwiliad.
- 5.9.20. Roedd llawer o sylwadau Archwiliad FCC yn debyg i rai CWCC. Ni fynegodd FCC unrhyw wrthwynebiadau i'r asesiad sylfaenol a gynhwysir ym Mhennod 15 yr ES [REP7-057] yn ei LIR [REP1A-005] na'i atodiadau cysylltiedig [REP1A-006]. Yn dilyn y cyflwyniadau hynny, cytunodd y byddai'r camau adeiladu a datgomisiynu'n cyd-fynd â BS5228, Rhannau 1 a 2 (2009) ac ymagwedd BS4142:2014. Cytunwyd yn gyffredinol ag ymagwedd yr Ymgeisydd at yr holl fesurau lliniaru hefyd.
- 5.9.21. Yn ogystal, nododd FCC yn ystod yr Archwiliad fod Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar newidiadau drafft i TAN11 'Ansawdd Aer, Sŵn a Seinwedd', ac ymrwymodd yr Ymgeisydd i fonitro hyn ac adlewyrchu unrhyw newidiadau yn ei fesurau lliniaru arfaethedig. Mae'r ExA yn cydnabod bod yr Ymgeisydd wedi rhoi diweddariad ar y mater hwn wrth ymateb i Gwestiwn 3.20.1 ExQ3, gan gynghori:

"Mae'r Cynllun Sŵn a Seinwedd i Gymru 2023-2028 ar ffurf ddrafft ar hyn o bryd ac yn destun ymgynghoriad tan 2 Hydref 2023. Mae 'Atodiad E – arweiniad i gefnogi gwneud penderfyniadau' y ddogfen hon yn cyfeirio ar hyn o bryd at BS 5228-1:2009+A1:2014, Cod ymarfer ar gyfer rheoli sŵn a dirgryniad ar safleoedd adeiladu ac agored a hefyd BS

4142:2014+A1:2019, Dulliau ar gyfer graddio ac asesu sŵn diwydiannol a masnachol. Defnyddiwyd y ddwy safon yn yr ES. Felly, mae'r Ymgeisydd o'r farn nad oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol."

5.9.22. Yn unol â hynny, mae'r ExA wedi ystyried y pwyntiau a wnaed.

ARCHWILIAD

5.9.23. Mae NPS EN-1 ac NPS EN-4 yn amlinellu sut y dylid ystyried sŵn a dirgryniad, yr asesiadau y mae angen i ymgeisydd ar gyfer DCO eu gwneud i gefnogi ei gais ac yn rhoi enghreifftiau o fesurau lliniaru y gellid eu rhoi ar waith i leihau effeithiau gymaint â phosibl.

5.9.24. Mae'r NPSau yn cyfeirio at fynnu bod caniatâd datblygu'n cael ei wrthod oni bai bod y penderfynwr yn gallu bod yn fodlon y byddai'r datblygiad yn osgoi effeithiau niweidiol arwyddocaol ar iechyd ac ansawdd bywyd o ganlyniad i sŵn, yn lliniaru effeithiau niweidiol eraill ar iechyd ac ansawdd bywyd o ganlyniad i sŵn a'u lleihau i'r eithaf, a (lle y bo'n bosibl) chyfrannu at wella iechyd ac ansawdd bywyd trwy reoli sŵn yn effeithiol. Nid yw'r ymagwedd yn y dNPSau sy'n dod i'r amlwg yn wahanol iawn. Mae'r ExA wedi ystyried cyflwyniadau'r Ymgeisydd ar y sail honno.

5.9.25. Mae adran 2.20 NPS EN-4 yn datgan *yn ystod adeiladu, gallai tasgau gynnwys clirio safle, symud pridd, cloddio tir, twnelu, torri ffosydd, gosod pibelli a weldio, ac adfer tir. Yn ogystal, bydd mwy o draffig HGV yn cael ei gynhyrchu ar ffyrdd lleol i symud deunyddiau. Bydd angen i'r mathau hyn o effeithiau sŵn a dirgryniad gael eu hasesu.* Yn berthynol i NPS EN-4, mae'r ExA yn cytuno bod yr Ymgeisydd wedi rhoi adroddiad da ar yr holl effeithiau tebygol yn yr ES cyffredinol.

5.9.26. Yn ogystal â'r uchod, gall sŵn sy'n deillio o'r Datblygiad Arfaethedig gael effeithiau niweidiol ar fywyd gwyllt a bioamrywiaeth hefyd. Roedd yr ExA yn ymwybodol o'r posibilrwydd hwn yn ystod ei Archwiliad ac mae'n ystyried effeithiau o'r fath yn fras yn adran fioamrywiaeth y bennod hon. Wrth wneud hynny, canfu'r ExA nad oedd gwrthdaro o ran amddiffyn buddiannau bywyd gwyllt ar ôl rhoi mesurau lliniaru ar waith, yn enwedig o ystyried gofynion trwyddedu ar wahân a fyddai'n berthnasol yn hyn o beth.

5.9.27. Ar ôl ystyried holl ymatebion IPau, ni fu gan yr ExA achos i anghytuno â chanfyddiadau'r ES na fyddai effeithiau gweithredol yn achosi niwed arwyddocaol i iechyd dynol. Yr effeithiau sŵn a dirgryniad yn ystod adeiladu oedd yn ymddangos yn bennaf fel thema fwyaf perthnasol yr Archwiliad o ystyried yr ystod o gyfraniadau technegol gan FCC a CWCC.

5.9.28. Yng ngoleuni holl gyflwyniadau ES yr Ymgeisydd, cydnabu'r ExA yn ystod yr Archwiliad fod angen i'r methodolegau gwaith adeiladu a aseswyd gael eu trin yn ddangosol ar yr adeg hon. Y rheswm am hynny yw oherwydd disgwylir i amrywiadau i leoliad gweithgareddau adeiladu a newidiadau i dechnegau ddylanwadu ar y potensial ar gyfer effeithiau arwyddocaol o'r Datblygiad Arfaethedig.

- 5.9.29. Felly, gyda hynny mewn cof, defnyddiwyd ymagwedd lliniaru sŵn achos gwaethaf gan ddefnyddio ffigur 10dB(A) yn yr ES ym mhob lleoliad. Mae'r ExA o'r farn y byddai ymagwedd o'r fath yn rhoi arwydd rhesymol i fesur effeithiau yn ystod adeiladu.
- 5.9.30. Cynhwyswyd Cynllun Rheoli Sŵn a Dirgryniad Amlinellol [REP7-281] (Diwygiad B) yn nogfennau cyflwyniad yr Ymgeisydd, a lle y ceir potensial ar gyfer effeithiau niweidiol arwyddocaol amlygwyd ystod o fesurau lliniaru, sy'n cynnwys:
- ymgynghori ag FCC a CWCC (REAC Cyf: D-NV-002 a D-NV-012);
 - darparu manylion cyswllt ar gyfer gweithiwr safle enwebedig i breswylwyr lleol i ymdrin â chwynion ac ymgysylltu (REAC Cyf: D-NV-003);
 - defnyddio detholiad o offer a methodoleg tawel a sŵn isel (REAC Cyf: D-NV-004);
 - mynnu bod sgriniau acwstig yn cael eu lleoli yn y manau gorau i leihau effeithiau niweidiol sŵn gymaint â phosibl (REAC Cyf: D-NV-005);
 - lleoli offer ar y safle mewn modd sensitif i leihau tarfu o ganlyniad i sŵn gymaint â phosibl (REAC Cyf: D-NV-006);
 - darparu caeadleoedd acwstig o amgylch peiriannau sefydlog, lle y bo'r angen (REAC Cyf: D-NV-007); a
 - gwneud ymrwymadau ar gyfer larymau llai ymwithiol, fel rhybuddion band eang ar gyfer cerbydau'n bacio'n ôl, lle bynnag y bo'n bosibl (REAC Cyf: D-NV-008).
- 5.9.31. Sicrheir fersiwn derfynol o'r Cynllun Rheoli Sŵn a Dirgryniad, sy'n nodi lleoliadau a mesurau lliniaru penodol, yn rhan o'r REAC [REP7-236] (Gweler: Cyf DNV-001) a bydd yn nodi mesurau penodol i'w defnyddio pan wyddys y methodolegau gweithio.
- 5.9.32. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd, trwy sawl cyflwyniad a wnaed yn ystod yr Archwiliad, fod lefelau sŵn sy'n gysylltiedig ag adeiladu'r elfennau allweddol canlynol wedi cael eu cynnwys yn y modelu sŵn a gymhwyswyd yn yr ES:
- torri ffosydd agored (yn ystod y dydd yn unig);
 - technegau gosod di-ffos (yn ystod y dydd, gyda'r nos, ac yn ystod y nos);
 - cyfadeiladau adeiladu canolog a lleol (yn ystod y dydd yn unig);
 - AGIau a BVSau (yn ystod y dydd yn unig); a
 - phwyntiau mynediad a gadael ar gyfer cerbydau trwm (yn ystod y dydd yn unig).
- 5.9.33. Yn ogystal, nodir trwy gyflwyniadau'r ES bod yr asesiad o sŵn technegau gosod di-ffos wedi'i seilio ar ddefnyddio'r dull drilio cyfeiriadol llorweddol, fel yr achos gwaethaf rhesymol ar gyfer goblygiadau sŵn. Yn ystod yr Archwiliad, roedd yr ExA yn fodlon ar yr ymagwedd achos gwaethaf a ddefnyddiwyd.
- 5.9.34. Yn gysylltiedig â'r holl bwyntiau hyn, nododd yr ExA hefyd yn ystod yr Archwiliad fod 12 o Ardaloedd Pwysig o ran Sŵn ac Ardaloedd

Blaenoriaeth Cynllun Gweithredu Sŵn wedi'u lleoli ar draws yr Ardal Astudio. Mae'r rhain yn gysylltiedig â'r A540 a'r A41 yn awdurdodaeth CWCC a'r A55 a'r A494 yn awdurdodaeth FCC. Felly, gwneir casgliadau'r ExA yn y cyd-destun hwnnw.

- 5.9.35. Nid oedd FCC na CWCC yn anghytuno â chanfyddiadau cyffredinol yr ES ynglŷn â sŵn a dirgryniad, na lefel y mesurau lliniaru a ddisgwyllir. Ochr yn ochr â chanllawiau NPS, mae'r ExA wedi ystyried yr holl agweddau polisi a deddfwriaethol perthnasol yng Nghymru a Lloegr wrth ddod i'w gasgliadau. O ran ardaloedd gweinyddol Cymru, amlygwyd yr ymgynghoriad ar y Cynllun Ansawdd Aer, Sŵn a Seinwedd i Gymru 2023-2028 fel Cynllun sy'n dod i'r amlwg. Fodd bynnag, canfu'r Ymgeisydd nad oedd hwnnw'n newid y casgliadau a amlinellir ym Mhennod 15 ei ES (Sŵn a Dirgryniad) [REP7057] rhyw lawer. O ganlyniad, mae'r ExA yn fodlon ar y wybodaeth sydd ar gael i'r Archwiliad o ran sŵn a dirgryniad ac ni ystyriwyd bod angen gwybodaeth ychwanegol, y tu hwnt i honno a amlygwyd eisoes yn yr ES.

CASGLIADAU'R EXA

- 5.9.36. O ystyried yr holl gyflwyniadau, gan gynnwys yr LIRau a gyflwynwyd, mae'r ExA:
- O'r farn bod yr Ymgeisydd wedi darparu esboniad cynhwysfawr o'r gwahaniaethau rhwng lefelau sŵn a arsylwyd a'r rhai a ragfyneir trwy'r modelu sŵn a ddefnyddiwyd.
 - Yn fodlon bod amodau sylfaenol yr asesiad sŵn a'r sail resymegol dros leoliadau derbynyddion cynrychioliadol a ddefnyddiwyd yn yr ES yn i) briodol o gadarn, ii) bod y derbynyddion a ystyriwyd fel arall yn briodol o helaeth a iii) bod y fethodoleg gyffredinol a ddefnyddiwyd yn rhesymol.
- 5.9.37. Yn ei ganfyddiadau, mae'r ExA wedi rhoi sylw dyladwy i'r nodau polisi cyffredinol a amlinellir yn NPSau a dNPSau perthnasol wrth fesur effeithiau'r Datblygiad Arfaethedig o ran sŵn a dirgryniad. At hynny, mae'r ExA wedi rhoi ystyriaeth i:
- PPW;
 - TAN11;
 - y Cynllun Ansawdd Aer, Sŵn a Seinwedd i Gymru 2018-2023;
 - y Datganiad Polisi Sŵn ar gyfer Lloegr;
 - NPPF;
 - NPPG ar sŵn; a
 - pholisïau perthnasol Cynlluniau Lleol sy'n ymwneud ag FCC a CWCC.
- 5.9.38. Mae'r ExA yn fodlon bod materion sŵn mewn Ardaloedd Pwysig o ran Sŵn wedi cael eu hystyried yn briodol, yn ogystal ag ymhellach i ffwrdd. Mae mesurau lliniaru sŵn a dirgryniad y cam adeiladu wedi cael eu hesbonio yn yr ES ac mae'r dulliau cyflawni a gynigir wedi'u hystyried yn ofalus. Nid oes gan yr ExA reswm i gredu na fyddai'r mesurau lliniaru a ddisgwyllir yn effeithiol wrth leihau effeithiau adeiladu cyn belled ag y bo'n ymarferol ac mewn ffordd ystyriol i'r holl breswylwyr a busnesau.

- 5.9.39. Er hynny, mae'r ExA hefyd yn derbyn y byddai sŵn yn gysylltiedig â'r cam adeiladu yn tarfu'n sylweddol ar rai derbynyddion hyd yn oed ar ôl mesurau lliniaru. Mae'r ExA yn cytuno y byddai effaith ar ardaloedd preswyl Mollington, Sandycroft, Aston, Ewloe, ac AGI Northop Hall. Mae derbynyddion yn y lleoliadau hyn yn debygol o brofi effaith sŵn niweidiol ganolig neu uchel ar adegau amrywiol. Byddai'r effaith yn sylweddol hyd yn oed ar ôl mesurau lliniaru a gymhwyswyd yn ofalus. Wrth amlygu'r mater hwnnw, derbynnir bod yr Ymgeisydd wedi defnyddio egwyddorion arfer gorau o ran mesurau lliniaru.
- 5.9.40. Felly, byddai effeithiau sŵn sylweddol yn y tymor byr, wedi'u cyfyngu i gyfnodau penodol, a fyddai'n niweidiol i amodau byw lleol yn ystod cyfnodau adeiladu. O ganlyniad, mae hyn yn pwysu yn erbyn caniatáu'r DCO. Mae'r ExA yn priodoli pwys mawr i'r mater hwn.

5.10. ANSAWDD AER AC ALLYRIADAU (SY'N CYNNWYS O LWCH, MWG AC AGER)

POLISI

- 5.10.1. Ar lefel y DU, mae Cynllun Gwella'r Amgylchedd 2023 yn amlinellu gweledigaethau Llywodraeth y DU ar gyfer gwella'r amgylchedd yn y DU. Mae Nod 2: 'Aer Glân' yn nodi sut bydd y llywodraeth yn gwella ansawdd aer yn y DU, gan gynnwys cyflwyno targedau ac ymrwymadau newydd.
- 5.10.2. O ran Cymru, mae Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040, o'i ddarllen ar y cyd â PPW, yn cynnwys amcanion i gefnogi datgarboneiddio a gwella iechyd a'r amgylchedd trwy leihau amlygiad i lygredd aer gymaint â phosibl.
- 5.10.3. Mae paragraff 6.7.5 PPW yn datgan "*prif egwyddor polisi cynllunio yw ystyried pa effaith y gallai datblygiadau arfaethedig ei chael ar ansawdd aer neu seinwedd a'r effeithiau y gallai ansawdd cyfredol yr aer neu'r seinwedd eu cael ar ddatblygiadau arfaethedig*". Mae paragraff 6.7.6 yn mynd ymlaen i osod gofyniad ar ddatblygwyr i fynd i'r afael ag unrhyw oblygiadau i Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer (AQMA), peidio â chreu ardaloedd o ansawdd aer gwael a cheisio ymgorffori mesurau sy'n lleihau amlygiad cyffredinol i lygredd aer. Dylid rhoi lefel briodol o wybodaeth i benderfynwyr am ansawdd aer a'r datblygiad arfaethedig, ac am fesurau lliniaru. Mae paragraff 6.7.13 yn mynnu bod ystyriaeth ofalus yn cael ei rhoi i effeithiau cynnydd mewn gweithgarwch trafniadaeth sy'n gysylltiedig â gweithgarwch datblygu.
- 5.10.4. O ran Lloegr, mae paragraff 186 yr NPPF yn datgan "*Dylai polisïau a phenderfyniadau cynllunio gynnal a chyfrannu tuag at gydymffurfio â gwerthoedd terfyn perthnasol neu amcanion cenedlaethol ar gyfer llygryddion, gan ystyried presenoldeb AQMA a Pharthau Aer Glân, a'r effeithiau cronol o safleoedd unigol mewn ardaloedd lleol . . . Dylai penderfyniadau cynllunio sicrhau bod unrhyw ddatblygiad newydd mewn AQMA a Pharthau Aer Glân yn gyson â'r cynllun gweithredu ansawdd aer lleol*"; mae paragraff 188 yn mynd ymlaen i ddatgan "*Dylai polisïau a phenderfyniadau cynllunio ganolbwyntio ar b'un a yw datblygiad*

arfaethedig yn ddefnydd derbynol o dir, yn hytrach na rheoli prosesau neu allyriadau (lle mae'r rhain yn destun cyfundrefnau rheoli llygredd ar wahân). Dylai penderfyniadau cynllunio dybio y bydd y cyfundrefnau hyn yn gweithredu'n effeithiol. Yn yr un modd, pan fydd penderfyniad cynllunio wedi cael ei wneud ar ddatblygiad penodol, ni ddylid ailystyried y materion cynllunio trwy'r cyfundrefnau trwyddedu a weithredir gan awdurdodau rheoli llygredd".

- 5.10.5. Mae gofynion NPS EN-1 ar gyfer ansawdd aer ac allyriadau i'r aer yn eithaf tebyg i PPW a'r NPPF. Mae NPS EN-4 yn cyfeirio'n uniongyrchol at ofynion NPS EN-1 o ran asesiadau ansawdd aer. Nid yw dNPS EN-1 a dNPS EN-4 sy'n dod i'r amlwg yn newid egwyddorion presennol yn sylweddol o ran asesu effeithiau ansawdd aer o NSIPau.
- 5.10.6. Ar lefel sirol yng Nghymru a Lloegr, mae Polisi PC5: Trafnidiaeth a Hygyrchedd CDLI FCC yn amlinellu gofynion i wella'r rhwydwaith trafndiaeth ledled Sir y Fflint, gan gynnwys defnyddio dulliau mwy cynaliadwy o drafnidiaeth. Mae FCC o'r farn y bydd cyflawni'r amcan hwn yn gwneud cyfraniad pwysig at wella ansawdd aer yn y rhanbarth.
- 5.10.7. Mae Polisi DM31 CDLI CWCC hefyd yn ymwneud ag ansawdd aer ac mae'n datgan "*mae'n rhaid i ddatblygiad beidio ag arwain at effeithiau niweidiol arwyddocaol ar iechyd ac ansawdd bywyd, o ganlyniad i lygredd aer. Yn arbennig, disgwylir i gynigion datblygu o fewn neu gerllaw Ardal Rheoli Ansawdd Aer gael eu dylunio i liniaru effaith ansawdd aer gwael gymaint â phosibl ar feddianwyr yn y dyfodol". Mae'n datgan ymhellach "*Bydd angen asesiad ansawdd aer ar gyfer cynigion datblygu a allai gael effeithiau sylweddol ar ansawdd aer, gan gynnwys y rhai hynny: y dosberthir eu bod yn ddatblygiad mawr ac a allai, naill ai'n unigol neu ar y cyd, arwain at allyriadau sylweddol; neu sy'n debygol o arwain at gynydd mewn lefelau llygredd mewn AQMA; neu sy'n debygol o wneud pobl yn agored i ffynonellau llygryddion aer presennol.*" "*Pan fydd asesiad ansawdd aer yn amlygu effaith annerbyniol ar ansawdd aer neu ohono, mae'n rhaid i gynllun lliniaru priodol gael ei gyflwyno, a allai fod ar ffurf mesurau ar y safle neu, lle y bo'n briodol, gyfraniad ariannol at fesurau oddi ar y safle.*" "*Mae'n rhaid i ymgeiswyr ddangos y bydd mesurau lliniaru priodol yn cael eu darparu i sicrhau bod y datblygiad newydd yn briodol i'w leoliad a bod risgiau annerbyniol yn cael eu hosgoi.*"*
- 5.10.8. Mae'r ExA yn ymwybodol bod Pennod 6 yr ES (Ansawdd Aer) [REP7-041] yn amlinellu'r darpariaethau deddfwriaethol cyfunol sy'n berthnasol yng Nghymru a Lloegr yn Nhabl 6.1, a'r polisiau perthnasol wedi hynny ym mharagraffau 6.2.2 i 6.2.23 ar gyfer mesur effeithiau ar ansawdd aer. Cyfeirir at ystod o ganllawiau pwysig ym mharagraffau 6.2.22 i 6.2.24 hefyd.
- 5.10.9. Ymhlith y ddeddfwriaeth allweddol ar ansawdd aer, mae Pennod 6 yr ES (Ansawdd Aer) [REP7041] yn cyfeirio at WBFGA (sy'n effeithio ar Gymru) sy'n mynnu bod cyrff cyhoeddus yn annog gwelliannau i lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol, a diwylliannol Cymru, gan nodi ei bod wedi'i hymgorffori yn yr asesiad. Mae'r ExA wedi ystyried yr

holl agweddau hyn, fel y'u hamlinellir ym Mhennod Ansawdd Aer yr ES [REP7-041], wrth wneud ei argymhelliad terfynol.

ACHOS YR YMGEISYDD

- 5.10.10. Mae gwybodaeth sylfaenol a gyflwynwyd ym Mhennod 6 yr ES (Ansawdd Aer) [REP7-041] yn dangos bod ansawdd aer wrth dderbynyddion yng nghyffiniau'r Datblygiad Arfaethedig yn dda gyda chrynodiadau llygryddion ymhell islaw'r amcanion ansawdd aer perthnasol. Dangosodd mesuriadau monitro tiwbiau tryledu yn 2020 fod crynodiadau cymedrig blynyddol o nitrogen deuocsid (NO₂) ymhell islaw'r amcan o 40µg/m³ ym mhob blwyddyn. Cefnogir y casgliad ynghylch ansawdd aer da hefyd gan foddelu cefndir Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar gyfer NO₂ a deunydd gronynnol (PM₁₀ (sef PM₁₀µg/m³ neu lai) a PM_{2.5} (sef PM_{2.5}µg/m³ neu lai), yn ystod y cyfnod 2020 i 2022, a ddangosodd fod crynodiadau cymedrig blynyddol yr allyriadau unigol hyn ymhell islaw'r amcanion cenedlaethol unigol ar gyfer y cyfnod hwnnw.
- 5.10.11. O ran derbynyddion dynol, amlygodd yr ES fod y lleoliadau sensitif o fewn: Northop Hall; Ewloe; Mancot; Mollington; ac Elton.
- 5.10.12. Nodir safleoedd ecolegol sensitif hefyd yn: ACA Safleoedd Madfallod Glannau Dyfrdwy a Bwcle; ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid; SoDdGA Afon Dyfrdwy; SoDdGA Pyllau a Choetiroedd Cei Connah; ac 20 o Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol.
- 5.10.13. Derbynnir bod risgiau'n gysylltiedig ag effeithiau adeiladu o ganlyniad i lwch yn disgyn ar safleoedd ecolegol yn ystod technegau gosod di-ffos. O ran baeddu gan lwch, yr ardal achos gwaethaf yw Chester Road lle mae 5 eiddo o fewn 20m o'r gwaith. O ran effeithiau ecolegol, yr ardal achos gwaethaf yw ACA Safleoedd Madfallod Glannau Dyfrdwy a Bwcle, sydd wedi'i lleoli 25m oddi wrth y gwaith. Felly, mae'r ES yn cydnabod effaith arwyddocaol niweidiol bosibl yn y ddau achos, ond un y gellid ei rheoli trwy fesurau lliniaru.
- 5.10.14. Adroddir ar effeithiau gollwng amhureddau yn Atodiad 6.2 yr ES (Gollwng Amhureddau) [REP7-079] a Phenod 6 yr ES (Ansawdd Aer) [REP7-041] yn Nhabl 6.8., lle y modelwyd crynodiadau hydrogen sylffid uchaf fesul awr. Mae canlyniadau'r modelu'n dangos, gyda stac awyr 10m, nad oes risg effeithiau arwyddocaol ar iechyd yng nghyffiniau'r AGIau yn ystod unrhyw un o'r senarios a amlinellir yn y tabl a grybwyllwyd uchod (Tabl 6.8). Fodd bynnag, mae'r modelu'n dangos crynodiadau a allai fynd dros y trothwy arogleuon 7µg/m³ ar gyfer y gweithgareddau canlynol: Awyru maniffold yn AGIau Ince, Stanlow a'r Fflint; lansio Medrydd Archwilio Piblinell (PIG) yn AGI Stanlow; a derbyn PIG yn AGI Stanlow.
- 5.10.15. Mae'r Ymgeisydd hefyd yn asesu y byddai perygl mwyaf arogleuon yn digwydd yn ystod awyru (awyru maniffold) yn AGI Ince. Nid oes unrhyw eiddo preswyl cyfagos o fewn y parth arogleuon yr effeithir arno, heblaw am barc carafannau preswyl 130m i'r de o AGI Stanlow, sydd wedi'i leoli ar gyrion allanol y parth asesu arogleuon.

- 5.10.16. At ei gilydd, mae'r ES a gyflwynwyd yn canfod, o ystyried agosrwydd derbynyddion sensitif ac amllder y gweithrediadau awyru, bod risg fach (nad yw'n arwyddocaol) o arogleuon yn ystod awyru manifold yn AGIau Ince, Stanlow a'r Fflint, ac yn ystod lansio/ derbyn PIG yn AGI Stanlow.

SAFBWYNTIAU PARTÏON Â BUDDIANT

- 5.10.17. Ni heriwyd materion ansawdd aer gan IPau, gan gynnwys FCC a CWCC (gan gynnwys ymatebion LIR [REP1A-002], [REP1A-003]; [REP1A-005], a [REP1A-006]), at ei gilydd, yn ystod camau canol i hwyr yr Archwiliad, o ystyried yr holl fesurau lliniaru.
- 5.10.18. Mae Atodiad 6.2 yr ES yn amlygu bod risg arogleuon yn cael ei dileu trwy uchder stac o 6m o leiaf. Er mwyn yr holl IPau, yn Q1.3.1 ExQ1 [PD-014], gofynnwyd i'r Ymgeisydd esbonio'r dulliau sy'n gysylltiedig â'r staciau a gynhwysir yn y dDCO, gan ei bod yn ymddangos bod yr uchder stac arfaethedig yn fwy na'r terfynau a amlinellir yn Atodlen 2, Rhan 1, R4 (Dyluniad y Cynllun) y dDCO [APP-024]. Ystyrir hyn ymhellach yn yr adran Archwiliad isod.
- 5.10.19. Roedd yr ExA yn ymwybodol bod y parth arogleuon mwyaf, sef 100m i 160m, wedi'i leoli yn AGI Ince, yn agos i barc carafannau preswyl 130m i'r de o AGI Stanlow. Gallai'r derbynyddion hyn brofi effaith yn syth ar ôl i'r nwy gael ei ryddhau yn ystod awyru manifold, y bwriedir iddo ddigwydd unwaith bob pum mlynedd. Felly, gofynnodd yr ExA a oedd gan IPau unrhyw sylwadau ychwanegol ar y potensial i arogleuon arwain at faterion amwynder neu effeithiolrwydd mesurau lliniaru. Ni fynegwyd unrhyw bryderon arwyddocaol trwy gyfrwng ymatebion ysgrifenedig na llafar.
- 5.10.20. Roedd CWCC o'r farn bod yr Ymgeisydd wedi mynd i'r afael yn ddigonol â'r effeithiau ar ansawdd aer, gan gynnwys arogleuon, o ganlyniad i awyru argyfwng. Roedd yn cytuno ei bod yn ymddangos bod yr holl dderbynyddion wedi'u hamlygu'n gywir gan yr ES. At hynny, cydnabu CWCC y bwriedir defnyddio staciau dros dro ar gyfer gweithgareddau awyru. Wrth wneud hynny, cydnabu y byddai'r strwythurau dros dro hyn yn gwaredu allyriadau'n dda ac yn lleihau unrhyw effaith ar amwynder preswyl i'r eithaf.
- 5.10.21. Ni chafwyd unrhyw wrthwynebiadau gan FCC ynglŷn â'r pwnc hwn ar ddiwedd yr archwiliad.

ARCHWILIAD

- 5.10.22. Dulliau rheoli lleol o ddelio ag effeithiau ar ansawdd aer oedd yr agweddau mwyaf arwyddocaol ar yr ymatebion i'r pwnc hwn yn ystod yr Archwiliad. Mae'r dulliau rheoli lleol a amlygwyd yn cyd-fynd â'r polisiau cenedlaethol unigol ar gyfer Cymru a Lloegr.
- 5.10.23. Yn ystod yr Archwiliad, cydnabu'r ExA fod gan CWCC bedair AQMA o fewn ei ardal weinyddol ac, felly, y bu'n ofynnol iddo gynhyrchu Cynlluniau Gweithredu Ansawdd Aer. Y rhain yw:

- Whitby Rd/ Station Rd (a ddatganwyd ar gyfer torri amcan NO₂ cymedrig blynyddol y Strategaeth Ansawdd Aer, 2005).
 - Frodsham (a ddatganwyd hefyd ar gyfer torri amcan NO₂ cymedrig blynyddol y Strategaeth Ansawdd Aer, 2015).
 - Thornton-le-Moors (a ddatganwyd ar gyfer torri'r amcan sylffwr deuocsid cymedrig 15 munud, 2016).
 - Canol Dinas Caer (a ddatganwyd ar gyfer torri'r amcan NO₂ cymedrig blynyddol, 2017).
- 5.10.24. Ar y llaw arall, nid oes gan FCC unrhyw AQMAau dynodedig o fewn ei ardal weinyddol ac, felly, dim Cynlluniau Gweithredu Ansawdd Aer cyhoeddedig.
- 5.10.25. O ran materion posibl yn ymwneud â rheoli arogleuon a goblygiadau ehangach casgliadau'r ES. Mewn ymatebion i gwestiynau ysgrifenedig a ofynnwyd gan yr ExA trwy [REP1-044], nododd yr Ymgeisydd gan nad yw'r staciau awyr yn strwythurau parhaol ar y safleoedd AGI a'u bod yn cael eu defnyddio'n anfynd, ni ddangoswyd hwy ar y cynlluniau a gyflwynwyd, yn yr un ffordd ag nad yw offer cynnal a chadw dros dro arall, fel sgaffaldiau, craeniau a chyfarpar archwilio, yn cael eu dangos. Nid yw uchderau staciau wedi'u cyfyngu gan y tabl paramedrau gan eu bod yn offer cynnal a chadw dros dro.
- 5.10.26. Mae'r ExA yn cytuno, oherwydd natur anfynd a dros dro gweithgareddau awyru cynlluniedig, na ddisgwylir i effaith weledol y staciau awyr a ragwelir gan yr ES fod yn arwyddocaol. O ystyried anfyndchder digwyddiadau o'r fath (awyru) a'r pellter i'r derbynyddion perthnasol sy'n gysylltiedig, mae'r ExA hefyd yn cytuno bod defnyddio staciau o'r fath yn debygol o fod yn fesur lliniaru effeithiol iawn. Nid oes tystiolaeth o sylwedd i feddwl yn wahanol.
- 5.10.27. Ar wahân i'r mater hwnnw, derbyniodd yr ExA fod yr LSE ar gyfer ansawdd aer yn gysylltiedig ag adeiladu ar ffurf problemau llwch yn bennaf yn gysylltiedig â chloddio ffosydd y biblinell a thechnegau gosod di-ffos.
- 5.10.28. Mae'r ExA hefyd yn ymwybodol bod paragraff 6.7.8 PPW yn rhestru enghreifftiau o fesurau lliniaru ansawdd aer y gellir eu gweithredu'n effeithiol sy'n gallu cynnwys rheoli traffig. Ystyrir yr agwedd honno ar lliniaru yn adran traffig a thrafnidiaeth yr adroddiad hwn.
- 5.10.29. Cydnabyddir hefyd bod LSE yn codi o effeithiau llwch ar safleoedd ecolegol yn ystod cloddwaith sy'n gysylltiedig â thechnegau gosod di-ffos. Fodd bynnag, nodwyd na ragwelir y bydd unrhyw LSE yn codi yn ystod gweithgarwch gweithredol na datgomisiynu.
- 5.10.30. At hynny, mae'r ExA yn cydnabod bod Cynllun Rheoli Llwyd wedi'i gynnwys fel Gofyniad yn dDCO yr Ymgeisydd gyda mesurau i reoli allyriadau, a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Lleol (REAC Cyf: D-AQ-004) [REP7-236]. Mae'r REAC yn ymdrin â rheoli a monitro llwyd ar y safle hefyd. Gydag ystod o fesurau lliniaru, dangosodd y dystiolaeth nad oedd yr effeithiau gweddilliol yn arwyddocaol. Yn yr un modd, ni amlygwyd unrhyw effeithiau cyfunol arwyddocaol mewn perthynas â'r

newid yn yr hinsawdd ar gyfer yr asesiad ansawdd aer na thrwy gyfrwng cyflwyniadau eraill a gafwyd yn ystod cyfnod yr Archwiliad.

- 5.10.31. O ystyried yr holl fesurau lliniaru a gynnigir ac a sicrhau yn dDCO yr Ymgeisydd, roedd yr ExA yn fodlon na fyddai polisiau rheoli ansawdd aer lleol yn cael eu torri yn Sir y Fflint nac ardal weinyddol CWCC.

CASGLIAD YR EXA

- 5.10.32. Mae'r ExA yn fodlon bod yr ES wedi rhoi ystyriaeth briodol i ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig ag ansawdd aer, ochr yn ochr â pholisiau cenedlaethol a lleol ar gyfer Cymru a Lloegr, ac na ddangosir gwrthdaro arwyddocaol â nhw. Mae hyn yn cyd-fynd â safbwyntiau cychwynnol y Cynghorau cynhaliol a fynegwyd yn LIR [REP1A-002], Atodiad [REP1A-003] CWCC; a LIR [REP1A-005], Atodiad [REP1A-006] FCC.
- 5.10.33. At hynny, mae'r ExA yn fodlon bod y cyfiawnhad i'r amodau sylfaenol a'r fethodoleg a ddefnyddiwyd gan yr Ymgeisydd yn gymesur ac yn rhesymol. Nid oes rheswm o sylwedd i gasglu nad oedd ystyriaeth yr Ymgeisydd o'r ardal astudio, derbynyddion neu'r amodau sylfaenol yn briodol ar gyfer yr asesiad. Mae pecyn mesurau lliniaru'r Ymgeisydd yn helaeth, yn addas, ac yn gallu cael ei sicrhau'n briodol.
- 5.10.34. At ei gilydd, mae'r ExA o'r farn, yn amodol ar ddarpariaethau dDCO yr Ymgeisydd, y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn annhebygol o arwain at unrhyw effeithiau arwyddocaol mewn perthynas ag ansawdd aer gan gynnwys darpariaeth rheoli llwch. Byddai'r effaith ganlyniadol yn niwtral ac ni fyddai gwrthdaro o bwys yn amlwg â pholisi cenedlaethol na lleol yng Nghymru na Lloegr. Yn unol â hynny, mae'n dod i'r casgliad nad yw effeithiau ansawdd aer yn pwysu'n sylweddol o blaid, nac yn erbyn, gwneud y DCO.

5.11. TRAFFIG, TRAFNIDIAETH A RHEOLI GWASTRAFF POLISI

- 5.11.1. O ran goblygiadau traffig a thrafnidiaeth ar lefelau cenedlaethol a sirol ar gyfer Cymru a Lloegr, gyda'i gilydd, mae'r ExA yn cydnabod cynnwys a darpariaethau cyfunol perthnasol:
- NPS EN-1; NPS EN-4 a'r dNPS EN-1 a dNPS EN-4 sy'n dod i'r amlwg;
 - PPW;
 - Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol: Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040;
 - CDLI FCC (2015-2030);
 - Cynllun Lleol CWCC Rhan 1 (Polisiau Strategol) (2015); a
 - Chynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd Gogledd Cymru (2015).
- 5.11.2. Yn ogystal, mae Pennod 17 yr ES (Traffig a Thrafnidiaeth) Diwygiad C [REP7-061] hefyd yn amlygu'r holl ddeddfwriaeth, polisiau a chanllawiau allweddol perthnasol ar gyfer Cymru a Lloegr, y mae'r ExA wedi'u hystyried ochr yn ochr â chynnwys llawn Pennod 3 yr adroddiad argymhelliad hwn.

- 5.11.3. Wrth asesu'r Datblygiad Arfaethedig yn erbyn polisiau pwysig a pherthnasol, mae'r ExA yn cydnabod na fyddai'r seilwaith y cyflwynir cais amdano'n arwain at lefelau ychwanegol sylweddol o draffig yn ystod ei weithredu. Felly, canolbwyntiodd ar oblygiadau polisi mesur unrhyw LSE yn ystod y cyfnod adeiladu.
- 5.11.4. Archwiliodd yr ExA os, a sut, gellir osgoi, lleihau a/neu liniaru unrhyw effeithiau niweidiol arwyddocaol yn briodol, yn unol â'r cyngor cyffredinol yn NPS EN-1 ac NPS EN-4, nad yw'n wahanol iawn i dNPS EN-1 a dNPS EN-4 sy'n dod i'r amlwg. Mae'r ddarpariaeth bolisi arall sy'n weddill yng Nghymru a Lloegr, o'i hystyried yn ei chyfanrwydd, yn cyd-fynd yn fras â'r ymagwedd honno, h.y. i sicrhau nad oes unrhyw effeithiau niweidiol ar fuddiannau traffig a thrafnidiaeth.
- 5.11.5. O ran goblygiadau rheoli gwastraff, mae adran 5.14 NPS EN-1 'Rheoli Gwastraff' yn amlinellu polisi'r llywodraeth ar wastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus a rheoli gwastraff yn gynaliadwy a weithredir trwy'r hierarchaeth wastraff. Y nod cyffredinol yw cynhyrchu llai o wastraff trwy ei aildefnyddio fel adnodd lle bynnag y bo'n bosibl, neu ei waredu mewn ffordd sy'n lleiaf niweidiol i'r amgylchedd ac iechyd dynol.
- 5.11.6. Mae paragraff 5.14.6 NPS EN-1 yn cyfeirio at y gofyniad penodol i baratoi Cynllun Rheoli Gwastraff Safle, a ddylai gynnwys gwybodaeth am y dulliau arfaethedig o adfer a gwaredu gwastraff, ynghyd ag asesiad o effaith gwastraff sy'n deillio o'r datblygiad ar gapasiti cyfleusterau rheoli gwastraff yn yr ardal. Mae dNPS EN-1 yn hyrwyddo aildefnyddio neu ailgylchu deunyddiau ar y safle, lle y bo'n bosibl, neu sicrhau bod deunyddiau'n dod o ffynonellau wedi'u hailgylchu neu eu haildefnyddio. Yn ogystal, mae'n hyrwyddo defnyddio deunyddiau carbon isel, yn ogystal â deunyddiau o ffynonellau cynaliadwy. Mae hefyd yn hyrwyddo defnyddio cyflenwyr lleol i gael deunyddiau.
- 5.11.7. O ran Cymru: mae Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040, PPW a TAN 21: Gwastraff; a Thuag at Ddyfodol Diwastraff: Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned, gyda'i gilydd, yn cefnogi rheoli gwastraff yn gynaliadwy, effeithlonrwydd adnoddau ac egwyddorion economi gylchol.
- 5.11.8. O ran Lloegr, mae'r Polisi Cynllunio Cenedlaethol ar gyfer Gwastraff yn amlinellu uchelgais y Llywodraeth i hyrwyddo ymagwedd gynaliadwy at ddefnyddio a rheoli adnoddau. Mae'n nodi y dylai polisiau cynllunio gwastraff gael eu darllen ochr yn ochr â'r canlynol: yr NPPF; y Cynllun Rheoli Gwastraff Cenedlaethol ar gyfer Lloegr ac unrhyw bolisiau, ganllawiau, neu ddogfennau olynol perthnasol. Mae amcan amgylcheddol troswaol yr NPPF a sbardunir yma yn mynnu bod y system gynllunio'n cyfrannu at yr amgylchedd naturiol a lleol a'i wella trwy "*ddefnyddio adnoddau naturiol yn ddarbodus*" a "*lleihau gwastraff a llygredd i'r eithaf*".
- 5.11.9. Gyda'i gilydd, mae'r NPS ar gyfer Gwastraff Peryglus; y Cynllun Rheoli Gwastraff ar gyfer Lloegr; Ein Gwastraff, Ein Hadnoddau: Strategaeth ar gyfer Lloegr yn ceisio gwarchod y stoc o adnoddau deunyddiau trwy

leihau gwastraff i'r eithaf, hyrwyddo effeithlonrwydd adnoddau, a symud tuag at economi gylchol. Maen nhw hefyd yn amlinellu nodau'r Llywodraeth o leihau'r difrod a achosir i'r amgylchedd naturiol i'r eithaf trwy leihau a rheoli gwastraff. Gyda'i gilydd, maen nhw'n cynnwys camau gweithredu i'w cymryd yn awr gydag ymrwymadau cadarn ar gyfer y blynyddoedd i ddod ac yn rhoi cyfeiriad polisi tymor hwy yn unol â'r Cynllun Amgylcheddol 25 Mlynedd.

- 5.11.10. Ar lefel leol yng Nghymru a Lloegr, mae polisiâu STR15, STR16, EN19, EN23 ac EN27 CDLI FCC; a pholisiâu ENV8 ac ENV9 CDLI CWCC, gyda'i gilydd, yn ceisio delio â gwastraff fel adnodd, gan hyrwyddo lleihau gwastraff i'r eithaf ac ymwybyddiaeth ohono, cyflawni rheoli gwastraff yn gynaliadwy, a darparu seilwaith rheoli gwastraff. Mae rhai agweddau ar y polisiâu hynny hefyd yn gwarchod dyddodion mwynau rhag sterileiddio diangen (a ystyrir yn yr adran bwnc nesaf).

ACHOS YR YMGEISYDD

- 5.11.11. Mae Pennod 17 yr ES (Traffig a Thrafnidiaeth) [REP7-061], yn amlinellu prif ddadleuon yr Ymgeisydd mewn perthynas ag effeithiau traffig a thrafnidiaeth. Mae amrywiaeth o wybodaeth dechnegol arall yn gysylltiedig â hynny, gan gynnwys Atodiadau'r ES:
- 17.1 Data Traffig wedi'i Arolygu Diwygiad B [REP7-141];
 - 17.14 Cynllun Teithio Gweithwyr Dros Dro Diwygiad B [REP7-147];
 - 17.4 Data Traffig Sylfaenol Diwygiad B [REP7-148];
 - 17.9 Llifoedd Traffig yn y Dyfodol Diwygiad B [REP7-157];
 - 17.8 Proffiliau Traffig Adeiladu Diwygiad B [REP7-155];
 - 17.7 Llifoedd Traffig Adeiladu Diwygiad B [REP7-153].
- 5.11.12. Mae cyd-destun ehangach hefyd yn cynnwys Ffigurau'r ES: 17.1 Parth Dylanwad Traffig a Thrafnidiaeth Diwygiad C [REP7-226]; 17.4 Llwybrau Traffig Adeiladu Diwygiad C [REP7-229]; 17.3 Lleoliadau Damweiniau Anafiadau Personol Diwygiad C [REP7-228]. Yn ogystal, dibynnir ar y Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu Amlinellol (OCTMP) Diwygiad E [REP7-240].
- 5.11.13. Mae effeithiau gweithredol, datgomisiynu a phiblinell bresennol Cysylltiad y Fflint i Derfynell PoA i gyd wedi cael eu hepgor o asesiad yr Ymgeisydd gan na fyddai unrhyw newidiadau i draffig. Ni chododd CWCC na FCC bryder yn hyn o beth, ac nid oedd unrhyw SU wedi gwrthwynebu'r penderfyniad hwnnw.
- 5.11.14. Cynigir nifer o leoliadau mynediad newydd a phresennol i hwyluso adeiladu'r Datblygiad Arfaethedig. Mae Ffigur 17.5 yr ES, Lleoliadau Mynediad [REP7-230] yn manylu ar y rhain. Amlinellir yr ymagwedd at asesu lleoliadau mynediad, gan gynnwys diffiniadau, yn y Nodyn Egwyddorion Mynediad, Atodiad D yr OCTMP [REP7-240]. Byddai prif fynedfeydd yn gwasanaethu'r cyfadeiladau canolog arfaethedig; AGIau a BVSau.
- 5.11.15. Mae Ffigur 17.6 Gwyriadau Hawliau Tramwy Cyhoeddus (PRoW) Diwygiad E [REP7-231] a Ffigur 17.7 Gwyriadau Ffyrdd Diwygiad C [REP7-232] yn

berthnasol i asesiadau'r Ymgeisydd o effeithiau hefyd. Mae'r ExA wedi ystyried y rheiny yn ei asesiad cyffredinol ynghyd â holl gyflwyniadau eraill perthnasol yr Archwiliad sy'n darparu cyd-destun ychwanegol.

- 5.11.16. Mae'r Ymgeisydd wedi amlygu llwybrau traffig adeiladu yn seiliedig ar eu haddasrwydd i ymdopi â Cherbydau Nwyddau Trwm (HGVau) a Cherbydau Nwyddau Ysgafn (LGVau) a amlinellir yn yr OCTMP. Cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, byddai llwybrau HGV yn defnyddio'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol (SRN) gymaint â phosibl. Cyflwynir llwybrau traffig adeiladu arfaethedig ar gyfer LGVau a HGVau yn Ffigur 17.4 yr ES Llwybrau Traffig Adeiladu [REP7-155]; ac fe'u crynhoir yn Nhabl 17.5 [REP7-061]. Mae'r broses dethol llwybr traffig adeiladu a'i reolaeth ddilynol yn tanategu'r pecyn lliniaru llawn a ddisgwylir gan yr Ymgeisydd ar gyfer y pwnc hwn.
- 5.11.17. Mae Pennod 14 Deunyddiau a Rheoli Gwastraff [REP7-055] yn rhan o'r ES a gyflwynwyd hefyd. Mae'n llywio'r holl fesurau lliniaru a monitro a gynigir gan yr Ymgeisydd.

SAFBWYNTIAU PARTÏON Â BUDDIANT

- 5.11.18. Priffyrdd Cenedlaethol (NH) yw'r Ymgymwrwr Statudol sy'n gyfrifol am yr SNR yn Lloegr. Fel y cyfryw, cwblhaodd yr Ymgeisydd SoCG gydag NH [REP7-263] ac, o ran traffig a thrafnidiaeth, cytunodd ar y materion canlynol, fel yr amlinellir yn Nhabl 3-3. Roedd y rhain yn cynnwys cytuno ar:
- Y diffiniad o HGV ac LGV.
 - Dim cynnig mynediad i brif ffyrdd na ffyrdd eilaidd ar ffyrdd a reolir gan NH.
 - Addasrwydd y data arolwg.
 - Egwyddorion llwybro traffig adeiladu.
 - Technegau adeiladu.
 - Cwmpas asesiad yr Ymgeisydd.
 - Effeithiau'r Datblygiad Arfaethedig.
 - Yr effaith ar yr SRN.
 - Bod y fynedfa dros dro i'r cyfadeilad adeiladu o Ardal Gwasanaethau Traffordd Caer, sydd wedi'i lleoli oddi ar y system gylchu wrth Gyffordd 14 yr M56 heb fynediad uniongyrchol i'r SRN o'r gwasanaethau, yn annerbyniol.
- 5.11.19. Mae NH yn amodi derbynioldeb mynediad dros dro o ran yr angen am adolygiadau ychwanegol o gynlluniau lleoliad, trefniadau mynd i mewn ac allan ac effeithiau ar weithrediad diogel Ardal Gwasanaethau Traffordd Caer. Wedi dweud hynny, mae NH yn cytuno nad yw'r ardal gwasanaethau traffordd yn destun trefniadau prydles, felly ni fyddai angen cydsyniadau landlord, er ei fod yn cynghori y byddai angen i weithredwyr y safle gytuno ar weithrediadau dros dro.
- 5.11.20. Mae NH hefyd yn cytuno â'r Ymgeisydd y byddai swm y traffig a gynhyrchir wrth Gyffordd 14 yr M56 yn ystod y cam adeiladu yn lleiafswmiol ac y byddai effeithiau'r Datblygiad Arfaethedig o ran traffig a

thrafnidiaeth yn dderbyniol, yn amodol ar ddarparu adolygiad o drefniadau mynd i mewn ac allan.

- 5.11.21. Y tu hwnt i'r pwyntiau cytunedig uchod, mae anghytundebau technegol amrywiol wedi bod yn amlwg drwy gydol yr Archwiliad rhwng NH a'r Ymgeisydd ynglŷn â chyfreithlondeb y DCO ei hun, sy'n cynnwys ymatebion: [RR-064]; [REP1-068]; [REP1-069]; [REP2-049]; [REP4-290] [REP5-050], [REP5-051], [REP6-046], [REP6-047] [REP6-048] a [REP7-316]. Yn ogystal, gwnaeth NH gyflwyniad cloi erbyn DL8 [REP8-046].
- 5.11.22. Wrth ymateb i gyflwyniadau NH a wnaed cyn DL8, cyflwynodd yr Ymgeisydd farn Cwnsler y Brenin a geisiodd ynglŷn â chyflwyniadau NH. Gellir gweld barn Cwnsler y Brenin yr Ymgeisydd yn Llyfrgell yr Archwiliad yn [REP8-038].
- 5.11.23. Yn y pen draw, ar ddiwedd yr Archwiliad, roedd NH yn parhau i wrthwynebu'r Datblygiad Arfaethedig. Fodd bynnag, roedd hyn yn deillio'n bennaf o gynnig yr Ymgeisydd i gaffael tir a hawliau'n orfodol, gydag NH yn ceisio diogelu ei fuddiannau, yn ogystal â diogelwch a chyfanrwydd yr SRN. Mae'r ExA yn ymdrin â'r pryderon hyn ym Mhenodau 8 a 9 yr adroddiad hwn.
- 5.11.24. Llywodraeth Cymru yw'r Awdurdod Priffyrdd ar gyfer yr SNR yng Nghymru. Yn ei gyflwyniad SoCG Diwygiad D [REP7-264], cadarnhaodd yn nodedig, ymhlith cytundebau eraill, nad yw'r Ymgeisydd yn ceisio meddiannu seilwaith Trafnidiaeth gweithredol Llywodraeth Cymru, ond yn hytrach y byddai'n defnyddio technegau gosod di-ffos ar ddyfnder a fyddai yn yr isbridd ac nid y briffordd ei hun. Er hynny, byddai angen i'r ymgeisydd gael mynediad dros draciau a mynedfeydd a berchnogir neu a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru. O ystyried yr amgylchiadau hynny, gwnaeth Adran Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru ymholiad ynglŷn â gwaith torri ffos agored ger yr A55 yn Northop Hall (Gwaith rhif 44) a ph'un a allai fod angen meddiant am resymau diogelwch.
- 5.11.25. O ganlyniad, cadarnhaodd yr Ymgeisydd na fyddai'n meddiannu arwyneb yr A55 ac y byddai'n aros ymhell o fewn terfynau caeau. Yr unig eithriad yw cyffordd Brookside yr A55 yn Northop Hall lle mae'r biblinell yn agosach i Derfynau'r Gorchymyn. Os bydd angen meddiannu seilwaith Trafnidiaeth gweithredol Llywodraeth Cymru ar gyfer yr agwedd olaf honno, mae'r Partion yn cytuno y byddai angen i'r Ymgeisydd gael cymeradwyaeth dechnegol pe byddai unrhyw waith yn effeithio ar strwythurau presennol y briffordd.
- 5.11.26. Yn y SoCG gydag FCC [REP7-259], cytunwyd ar restr o faterion traffig a thrafnidiaeth. Y maes anghydfod yw bod yr Ymgeisydd yn cynnig defnyddio Llwybr Ceffylau Cyhoeddus Rhif 8 (309/8/10) a 309/10/30 (Deeside Lane) fel y llwybr mynediad adeiladu dros dro o'r gyffordd â Sealand Road i'r gyffordd â Deeside Lane ac yn parhau ar hyd Deeside Lane, fel y dangosir ar Waith Rhif 30 E y Cynlluniau Gwaith [REP4-006]. Mae Llwybr Ceffylau Rhif 8 a 309/10/30 (Deeside Lane) yn draciau heb eu gwneud nad ydynt yn rhan o'r rhwydwaith priffyrdd mabwysiedig, a

chynghorodd FCC fod ganddo ddyletswydd i gynnal y llwybr ceffylau hyd at safon ar gyfer defnyddwyr ar droed ac ar geffylau yn unig ac i gynnal Deeside Lane hyd at safon sy'n addas i'w defnyddio ar droed yn unig. Mae FCC wedi dweud nad yw'n addas ar hyn o bryd i'r defnydd a gynigir gan yr Ymgeisydd (mynediad i draffig cyfadeilad ac adeiladu). Mae FCC wedi gofyn i'r Ymgeisydd uwchraddio'r Llwybr Ceffylau a 309/10/30 (Deeside Lane) i arwyneb tarmac er mwyn iddynt fod yn addas ar gyfer traffig adeiladu. Nid yw'r Ymgeisydd yn cytuno nac yn derbyn bod arwynebu'r Llwybr Ceffylau a 309/10/30 (Deeside Lane) yn angenrheidiol nac yn briodol i adeiladu'r Datblygiad Arfaethedig.

5.11.27. Darperir safbwyntiau FCC a'r Ymgeisydd yn [REP6-035]. Llywiwyd ymagwedd yr Ymgeisydd gan CNC sydd wedi gofyn yn benodol i'r Llwybr Ceffylau aros ar agor yn llawn fel y gallant gyrraedd Afon Dyfrdwy i wneud unrhyw waith cynnal a chadw/gwaith arall, ac nid ydynt yn cytuno â chulhau na chau'r Llwybr Ceffylau mewn unrhyw ffordd. Mae'r ExA yn ymateb i'r mater hwn yn Adran 5.12 yr adroddiad hwn.

5.11.28. Mae'r ExA yn ymwybodol bod gan FCC bwerau o dan y Ddeddf Priffyrdd i gau Priffyrdd (sy'n cynnwys PRoW) dros dro i gyflawni ei ddyletswyddau statudol, sy'n cynnwys cynnal a chadw, atgyweiriadau, a gwelliannau. Pan fydd angen i unrhyw drydydd parti gael mynediad, byddai FCC (neu unrhyw gontractwr ar ei ran) yn cysylltu â'r parti hwnnw i drefnu mynediad o amgylch y gwaith neu ddarparu dewisiadau amgen addas, ond yn sicr ni fyddai'n rheswm i wneud unrhyw welliannau i'r Llwybr Ceffylau (neu unrhyw briffordd/ hawl dramwy gyhoeddus arall o ran hynny).

5.11.29. O ran CWCC, mae'r Ymgeisydd wedi cwblhau SoCG [REP8-021]. Mewn perthynas â thraffig a thrafnidiaeth, cytunwyd ar y materion canlynol:

- Y diffiniad o HGV ac LGV.
- Y diffiniad o fynediad dros dro.
- Bod y data arolwg yn addas.
- Bod egwyddorion llwybro traffig adeiladu'n briodol, yn enwedig o ystyried y mesurau lliniaru a amlinellir yn yr OCTMP [REP7-240].
- Technegau adeiladu.
- Cwmpas asesiad yr Ymgeisydd.
- Casgliadau'r EIA, yn yr ystyr bod yr ES "*Pennod 17 (Traffig a Thrafnidiaeth) [REP7-061] a'r asesiad manwl ychwanegol gan gynnwys yr asesiad trafndiaeth [REP7-164] yn golygu y gellir dod i'r casgliad nad yw effeithiau traffig a thrafnidiaeth gweddilliol y... Datblygiad Arfaethedig yn arwyddocaol.*"

5.11.30. Yn ogystal â'r uchod, yn ei lythyr eglurhaol a gyflwynwyd erbyn DL8 [REP8-041], cyfeiriodd CWCC at OCTMP yr Ymgeisydd [REP7240], yn ogystal ag amlygu ei safbwynt a nodwyd yn ei gyflwyniad erbyn DL7 [REP7-306] y byddai gwaith o dan briffordd yn waith stryd. Fel y cyfryw, mae'n dadlau y byddai angen i waith o'r fath gael ei gynnwys fel gwaith stryd yn y DCO neu byddai angen caniatâd ar wahân, y tu allan i'r DCO, o dan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991. Yn hyn o beth, mae CWCC hefyd wedi cadarnhau ei fod wedi ceisio addasu Cytundeb Perfformiad Cynllunio'r Ymgeisydd (nad oedd wedi'i gwblhau erbyn

diwedd yr Archwiliad) trwy ddileu cyfeiriadau at ddarparu hysbysiadau ynglŷn â gwaith stryd. Yn olaf, mae CWCC hefyd wedi rhoi sylwadau ar drafod Darpariaethau Amddiffynnol â'r Ymgeisydd. Mae'r ExA yn mynd i'r afael â'r materion hyn ym Mhenodau 8 a 9 yr adroddiad hwn.

- 5.11.31. O ran materion rheoli gwastraff, ni chododd IPau unrhyw faterion na phryderon o bwys, y canfuwyd bod cyfiawnhad iddynt, mewn RRau nac WRau.

ARCHWILIAD

- 5.11.32. Cydnabu'r ExA yn ystod yr Archwiliad y byddai mwyafrif y biblinell newydd yn cael ei hadeiladu trwy ddulliau torri ffos agored ac y byddai technegau gosod di-ffos yn cael eu defnyddio wrth groesfannau cymhleth, fel prif ffyrdd, cyrsiau dŵr, a seilwaith rheilffyrdd.
- 5.11.33. Byddai 'lled gweithio' yn cael ei sefydlu ar gyfer pob rhan o'r biblinell sy'n ffurfio'r llwybr. Byddai hyn yn cael ei wneud fesul rhan a byddai'n gofyn am adeiladu: ardaloedd paratoi, swyddfeydd safle; cabanau diogelwch; symud uwchbridd ymaith a'i storio'n lleol; a chodi ffensys dros dro ar gyfer diogelwch.
- 5.11.34. Ar lefel genedlaethol, mae NPS EN-1 yn datgan bod cludo deunyddiau, nwyddau, a phersonél i brosiect ac oddi yno, yn ystod pob cam o'r prosiect, yn gallu cael amrywiaeth o effeithiau ar y seilwaith trafndiaeth amgylchynol. Ym mharagraff 5.13.2, mae'n datgan bod ystyried a lliniaru effeithiau trafndiaeth yn rhan hanfodol o amcanion polisi ehangach y Llywodraeth ar gyfer datblygu cynaliadwy.
- 5.11.35. Roedd yr ExA yn ymwybodol o gyflwyniadau'r Archwiliad y byddai mwy o draffig yn cael ei gynhyrchu yn sgil cludo deunyddiau sy'n ofynnol ar gyfer adeiladu. Byddai deunydd yn cael ei ddanfôn i'r cyfadeiladau adeiladu canolog unigol a'i bentyrru yno. Yna, byddai'n cael ei ddosbarthu i ardaloedd gweithio penodol trwy HGV neu dractorau o fewn y lledau gweithio cytunedig. Byddai traffig adeiladu hefyd yn cynnwys peiriannau ac offer arbenigol ar gyfer technegau gosod di-ffos, teithiau gweithwyr, a chludo deunydd crynswth arall.
- 5.11.36. Cydnabu'r ExA hefyd fod yr Ymgeisydd wedi amlygu llwybrau adeiladu yn seiliedig ar eu haddasrwydd i ymdopi â thraffig HGV ac LGV fel yr amlinellir yn yr OCTMP [REP7-240]. Yn wir, mae Tabl 17.5 [REP7-061] yn enwi pob llwybr sy'n berthnasol ac mae ymgylgoreion technegol ehangach wedi ymgysylltu'n weithredol yn ystod ymarferion cwmpasu ac ymgynghori a gynhaliwyd gan yr Ymgeisydd.
- 5.11.37. O ystyried llwybrau adeiladu, ar yr adeg yr ysgrifennwyd yr ES, cydnabu'r Ymgeisydd fod amseriad rhaglen adeiladu ffyrdd wreiddiol Cymru yn golygu y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn weithredol cyn i gynllun Coridor Sir y Fflint ('Y Llwybr Coch') ddechrau cael ei adeiladu. Fodd bynnag, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod yn rhewi cynlluniau adeiladu ffyrdd newydd yn y wlad ym mis Mehefin 2021, a oedd yn cynnwys cynllun Coridor Sir y Fflint (Y Llwybr Coch) [REP7-061], ac fe'i canslwyd wedi hynny ar 14 Chwefror 2023, cyn i'r Archwiliad ddechrau.

- 5.11.38. Archwiliodd yr ExA oblygiadau canslo'r cynllun hwn yn ystod yr Archwiliad. Wrth ymateb, dangoswyd nad oedd y cyhoeddiad ynghylch canslo yn effeithio'n sylweddol ar y trefniadau traffig adeiladu sylfaenol, a ystyriwyd yn ES yr Ymgeisydd. Yn wir, ni wnaeth Llywodraeth Cymru unrhyw gyflwyniadau technegol i'r gwrthwyneb. Cytunodd hefyd trwy SoCG [REP7-264] gyda'r Ymgeisydd na fyddai unrhyw effeithiau niweidiol ar weithredu unrhyw ran o'r rhwydwaith trafndiaeth a berchnogir gan Lywodraeth Cymru o ganlyniad i adeiladu'r Datblygiad Arfaethedig.
- 5.11.39. Yn ogystal, yn ystod yr Archwiliad, roedd cryn dystiolaeth o ymgysylltiad gweithredol a arweiniwyd gan yr Ymgeisydd â rhanddeiliaid eraill perthnasol, gan gynnwys adrannau Priffyrdd CWCC ac FCC. Fodd bynnag, daeth i'r amlwg yn ystod yr Archwiliad nad oedd unrhyw gynlluniau priffyrdd eraill wedi'u hamlygu i'w hystyried y tu hwnt i'r rhai a aseswyd eisoes gan yr Ymgeisydd.

CASGLIAD YR EXA

- 5.11.40. Mae'r ExA yn fodlon bod adran 17.2 [REP7-061] yn amlygu'r holl ddeddfwriaeth, polisiau a chanllawiau perthnasol ar gyfer Cymru a Lloegr i lywio'r ES.
- 5.11.41. Mae'r ExA o'r farn bod yr asesiad trafndiaeth a thraffig a amlinellir yn yr ES yn cyd-fynd ag NPS EN-1 ac NPS EN-4 a'r diweddariadau drafft unigol. Mae'n cytuno nad oes unrhyw effeithiau traffig neu drafndiaeth niweidiol arwyddocaol yn debygol o ddeillio o'r Datblygiad Arfaethedig gyda'r mesurau lliniaru a bennwyd gan yr Ymgeisydd. Mae hefyd yn fodlon y byddai mesurau lliniaru synhwyrol a phriodol ar gael ar gyfer traffig adeiladu trwy'r CTMP a'r CEMP a sicrheir trwy R5 ac R6 y dDCO.
- 5.11.42. Er bod yr ExA yn cydnabod y byddai mwy o drafft yn ystod adeiladu, byddai'r mesurau rheoli a gynhwysir yn y dDCO yn ddigonol i liniaru unrhyw effeithiau negyddol i lefel dderbyniol. Mae hyn yn cynnwys camau priodol i leihau effeithiau ar ansawdd aer o drafft adeiladu i sicrhau na fyddai unrhyw niwed arwyddocaol. Felly, mae'r ExA o'r farn bod yr effaith gyffredinol yn y cydbwysedd cynllunio yn niwtral.
- 5.11.43. O ran rheoli gwastraff, mae'r ExA yn fodlon na fyddai'r Datblygiad Arfaethedig yn arwain at unrhyw effeithiau arwyddocaol yn deillio o wastraff a gynhyrchir yn ystod ei adeiladu, ei weithredu, neu ei ddatgomiynu. Mae hefyd yn fodlon y gellir sicrhau materion lliniaru yn ymwneud â gwastraff yn briodol trwy'r DCO a'r CEMP.
- 5.11.44. Mae'r ExA hefyd o'r farn y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn bodloni'r holl ofynion deddfwriaethol a pholisi sy'n ymwneud â rheoli gwastraff, gan gynnwys yr egwyddorion yn NPS EN-1 ac NPS EN-4, a pholisiau eraill allweddol sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr. Nid oes unrhyw anfanteision sy'n pwysu yn erbyn y Datblygiad Arfaethedig yn hyn o beth. Yn unol â hynny, mae'n canfod bod effeithiau rheoli gwastraff yn ystyriaeth niwtral yn y cydbwysedd cynllunio.

5.12. EFFEITHIAU ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL (GAN GYNNWYS IECHYD DYNOL)/DEFNYDD TIR AMAETHYDDOL/ GOBLYGIADAU GWEITHIO MWYNAU/ AC EFFEITHIAU CRONNOL CYFFREDINOL POLISI

- 5.12.1. Mae NPS EN-1 yn nodi yn adran 5.12 “*Ile mae’r prosiect arfaethedig yn effeithio ar bobl, dylai’r ES asesu’r effeithiau hynny ar gyfer pob elfen o’r prosiect, gan amlygu unrhyw effeithiau niweidiol ar ieched, ac amlygu mesurau i osgoi, lleihau neu wneud iawn am yr effeithiau hyn*”. Mae hefyd yn datgan “*Ile mae’r prosiect yn debygol o gael effeithiau economaidd-gymdeithasol ar lefelau lleol neu ranbarthol, dylai’r ymgeisydd gynnal a chynnwys yn ei gais asesiad o’r effeithiau hyn yn rhan o’r ES*”. Lle y bo’n briodol, mae’n ystyried y gallai unrhyw asesiad gynnwys y canlynol:
- Creu swyddi a chyfleoedd hyfforddi;
 - Darparu gwasanaethau lleol ychwanegol a gwelliannau i seilwaith lleol, gan gynnwys darparu cyfleusterau addysgol ac i ymwelwyr;
 - Effeithiau ar dwristiaeth; ac
 - Effaith mewnlif newidiol o weithwyr yn ystod gwahanol gamau adeiladu, gweithredu, a datgomisiynu’r prosiect seilwaith ynni.
- 5.12.2. Mae NPS EN-4 yn ildio i NPS EN-1 yn hyn o beth ac nid yw dNPS EN-1 a dNPS EN-4 sy’n dod i’r amlwg yn symud i ffwrdd o’r safbwynt hwnnw i raddau sylweddol.
- 5.12.3. O ran Cymru, mae PPW yn annog cynnwys y gymuned leol wrth ddatblygu cynigion. Mae angen ystyried anghenion, dyheadau, ieched, a lles pawb ar y dechrau, a dylai cynigion gael eu ffurfio i helpu i fodloni’r anghenion hyn yn ogystal â chreu, integreiddio, amddiffyn a/ neu wella ymdeimlad o gymuned a hyrwyddo cydraddoldeb. Mae hyn yn cyd-fynd â Chymru’r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 a TAN16, y mae’r ddau ohonynt yn ceisio hyrwyddo buddiannau ieched a lles.
- 5.12.4. O ran Lloegr, mae’r NPPF yn argymhell ym mharagraff 92 *y dylai polisiâu a phenderfyniadau geisio cyflawni lleoedd iach, cynhwysol, a diogel*. Mae cefnogi buddiannau economaidd yn llinyn craidd pwysig o’r NPPF hefyd.
- 5.12.5. O ran defnydd tir amaethyddol, mae paragraff 5.10.8 NPS EN-1 yn cynghori y dylai Ymgeiswyr geisio lleihau effeithiau ar y tir amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (BMV) gymaint â phosibl (a ddiffinnir fel tir gradd 1, 2 a 3a o’r Dosbarthiad Tir Amaethyddol) ac, os oes modd, defnyddio tir mewn ardaloedd o ansawdd gwaeth (graddau 3b, 4 a 5) ac eithrio lle y byddai hyn yn anghyson ag ystyriaethau cynaliadwyedd eraill.
- 5.12.6. O ran mesur ystyriaethau defnydd tir ehangach, prif amcan PPW yw sicrhau bod y system gynllunio’n cyfrannu tuag at gyflawni datblygu cynaliadwy ac yn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd,

amgylcheddol, a diwylliannol Cymru. Mae hyn yn cynnwys ystyried defnydd priodol o gefn gwlad agored.

- 5.12.7. Yn yr un modd, o ran Lloegr, mae'r NPPF yn datgan mai diben y system gynllunio yw cyfrannu tuag at gyflawni datblygu cynaliadwy. Mae'n ceisio atal datblygiad newydd a phresennol rhag cyfrannu at lygredd pridd neu ddŵr neu ansefydlogrwydd tir, neu gael ei roi mewn perygl annerbyniol o ganlyniad i hynny. Yn bennaf, mae'n argymhell y dylai penderfyniadau cynllunio a pholisïau lleol sicrhau bod datblygiad newydd yn briodol i'w leoliad.
- 5.12.8. Mae PPW A'r NPPF yn gyson, at ei gilydd, ag ymagwedd gyffredinol NPS EN-1 wrth geisio osgoi effeithiau ar dir amaethyddol BMV.
- 5.12.9. Ar lefel leol yng Nghymru a Lloegr, mae Amcan 7 CDLI FCC yn mynnu bod datblygiad yn creu lleoedd sy'n ddiogel, yn hygyrch ac yn annog a chefnogi iechyd da, llesiant, a chydaddoldeb. Mae Polisi SO8 CDLI CWCC yn ceisio rhywbeth tebyg ac yn hyrwyddo cerdded a beicio.
- 5.12.10. Ystyrir bod Cynllun Lles Sir y Fflint, 2017-2023, ar y cyd ag Amcan 7, yn bodloni gofynion yr WBFGA, gan ei fod yn ceisio cynorthwyo â chyflwr lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol, a diwylliannol yn Sir y Fflint.
- 5.12.11. Gyda'i gilydd, mae polisiau lleol yn ardaloedd gweinyddol y ddau Gyngor cynhaliol yn ceisio annog datblygiad o fath priodol yng nghefn gwlad agored.
- 5.12.12. Yn ogystal â'r polisiau hynny a grybwyllwyd, cyfeirir at ddarpariaethau deddfwriaethol a chanllawiau eraill yn adran 16.2 of [REP7-059], ac 11.2 [REP7-050] yn rhan o'r ES.

ACHOS YR YMGEISYDD

- 5.12.13. Mae ystod o ffactorau economaidd-gymdeithasol ac iechyd wedi'u cynnwys ym Mhennod 16 yr ES Y Boblogaeth ac Iechyd Dynol Diwygiad C [REP7-059], y dylid ei darllen ochr yn ochr ag Atodiad 16.1 Defnydd Tir ac Asedau [REP7-138]. Er gwaethaf yr holl asesiadau yn [REP7-059] a [REP7-138], darperir darlun ehangach o'r effaith economaidd yn Atodiad B yr ES – Effeithiau Economaidd Posibl Prosiect Gogledd-Orllewin Hynet [REP1-046], y mae'r ExA wedi'i gadw mewn cof hefyd wrth ystyried y Datblygiad Arfaethedig.
- 5.12.14. O ran goblygiadau penodol yn gysylltiedig â dosbarthiad tir amaethyddol ac adnoddau pridd, mae atodiadau technegol [REP7-122] a [REP7-123] yn ffurfio rhan o'r ES ar y cyd â Phennod 11 Tir a Phriddoedd [REP7-050]. Mae'r wybodaeth a gynhyrchwyd yn amlygu bod 73% o'r samplau pridd a gasglwyd o fewn y Ffin Adeiladu Seilwaith Newydd wedi'u nodi fel BMV. Yn y cyd-destun hwnnw, mae Tabl 11.12 [REP7-050] yn rhoi asesiad o effeithiau arwyddocaol. Mae'r tabl yn nodi colled a dirywiad posibl pridd BMV (Gradd 1-3a) wrth gyfleusterau ar ben y tir (AGIau a BVSau) fel effaith niweidiol arwyddocaol gymedrol. Mewn manau eraill a lle y bo'n bosibl ar hyd y llwybr, byddai maint yr effaith yn cael ei liniaru

trwy gloddio, trin ac aildefnyddio'r gwahanol briddoedd amaethyddol yn ofalus, sydd i'w gofnodi mewn Cynllun Rheoli Pridd (SMP).

- 5.12.15. Mae SMP Amlinellol (OSMP) [REP7-244] wedi cael ei gynhyrchu i gyflwyno opsiynau ar gyfer rheoli risg difrod i strwythur pridd yn ystod adeiladu ac adfer. Byddai canfyddiadau'r OSMP yn cael eu defnyddio gan y contractwr adeiladu a benodir yn y pen draw fel sail i baratoi'r SMP adeiladu manwl, yn rhan o CEMP manwl [REP6-008] cyn adeiladu. Yna, byddai'r dyluniad manwl yn ystyried lleoliad priddoedd BMV ac aliniad y biblinell o fewn y Datblygiad Arfaethedig, a byddai ardaloedd gweithio'n ceisio lleihau effeithiau ar yr ardaloedd hyn a/ neu eu hosgoi, cyn belled ag y bo'n ymarferol, fel yr amlinellir yn D-LS-007 y REAC.
- 5.12.16. Wedi hynny, mae Tabl 11.15 [REP7-050] yn amlinellu un effaith weddilliol arwyddocaol yn unig ar dir a phridd sy'n gysylltiedig â chamau adeiladu, gweithredol neu ddatgomiynu'r Datblygiad Arfaethedig. Dangosir bod colli tir BMV yn niwtral gyda mesurau lliniaru ar gyfer elfennau adeiladu'r biblinell o dan y tir. Ond yn yr ardaloedd gwledig lle y bwriedir lleoli'r BVSau a'r AGIau, mae'n debygol y bydd rhywfaint o dir BMV yn cael ei golli'n barhaol i'r datblygiad. Felly, mae'r ES yn amlygu hyn fel effaith niweidiol gymedrol. Fodd bynnag, gyda draenio priodol wrth osodiadau parhaol ar ben y tir (h.y. y BVSau a'r AGIau) a derbynyddion sensitif i atal halogiad rhag mudo i ddyfroedd a reolir, ni fyddai'r effeithiau canlyniadol yn arwyddocaol ar ôl yr holl fesurau lliniaru.
- 5.12.17. At hynny, mae Atodiad 11.3 yr ES Asesiad Adnodd Mwynau Rhannau 1 a 2 Diwygiad A [REP7-120] a [REP7-121] yn berthnasol hefyd. Mae'r holl Ardaloedd Diogelu Mwynau (MSAau) perthnasol o fewn ardaloedd gweinyddol FCC a CWCC wedi cael eu hasesu ar y cyd â [REP7-059].
- 5.12.18. Mae methodoleg yr Ymgeisydd ar gyfer asesiadau sy'n gysylltiedig â defnydd tir yn [REP7-059] wedi cael ei diffinio gan ddefnyddio canllawiau'r Llawlyfr Dylunio ar gyfer Ffyrdd a Phontydd LA112 Y Boblogaeth ac Iechyd Dynol. Y rheswm am hyn yw oherwydd bod yr Ymgeisydd o'r farn bod y canllawiau hyn yn darparu'r fethodoleg orau sydd ar gael i asesu iechyd y boblogaeth ac iechyd dynol yng nghydestun y Datblygiad Arfaethedig.
- 5.12.19. Nodir bod senario achos gwaethaf wedi cael ei gymhwyso ar gyfer yr asesiad gan ddefnyddio ardal astudio 500m o amgylch Terfynau Gorchymyn y DCO, sy'n cynnwys caffael ardaloedd iswynebol yn barhaol (lle y byddai aliniad terfynol y biblinell wedi'i leoli).
- 5.12.20. Mae'r Ymgeisydd yn cofnodi ei fod wedi ystyried ystod o ffactorau yn ymwneud ag iechyd dynol o ganlyniad i adeiladu a gweithredu, gan gynnwys:
- ansawdd aer;
 - sŵn;
 - gweithgarwch corfforol; a
 - chyfleoedd cyflogaeth.

- 5.12.21. O ystyried natur linol y Datblygiad Arfaethedig, mae'r ExA yn nodi bod tua 364 o dderbynyddion sy'n sensitif yn lleol yn debygol o brofi effeithiau sŵn niweidiol canolig i uchel gyda'r nos a bod 732 o dderbynyddion sensitif yn debygol o brofi effeithiau sŵn niweidiol canolig i uchel yn ystod y nos. Mae sŵn yn ystod y dydd yn debygol o fod yn gysylltiedig â dirgryniad wrth osod seilbyst, cywasgu'r tir ac, mewn rhai ardaloedd, traffig adeiladu, tra disgwylir i sŵn gyda'r nos ac yn ystod y nos ddeillio o weithgareddau adeiladu sy'n gysylltiedig â'r technegau gosod di-ffos.
- 5.12.22. Fodd bynnag, mae'r Ymgeisydd yn cydnabod y byddai'r gweithgarwch hwn yn digwydd o bryd i'w gilydd ac am gyfnod byr wrth y rhan fwyaf o groesfannau di-ffos. Mewn rhai lleoliadau lle mae amodau'r tir yn anodd, disgwylir i'r gwaith gyda'r nos ac yn ystod y nos bara hyd at bedair wythnos. Felly, mae effeithiau sŵn ar iechyd dynol yn ystod adeiladu yn debygol o arwain at effaith niweidiol arwyddocaol ar iechyd dynol.
- 5.12.23. Mae gwarchodfa natur Coetir Cymunedol Penarlâg ac Ewloe a'r rhandiroedd cymunedol ar Upper Aston Lane yn agos i'r Datblygiad Arfaethedig. Mae defnyddwyr y cyfleusterau hamdden hyn yn debygol o brofi effeithiau niweidiol arwyddocaol yn sgil cynnydd ym mhellter llwybr i gerddwyr/ gostyngiad mewn hygyrchedd o ganlyniad i'r gwaith adeiladu.
- 5.12.24. O ran PRow, mae Tabl 16.18 [REP7-059] yn amlygu'r holl PRowau y gellid effeithio arnynt o bosibl. Rhestrir yr effaith ar rannau perthnasol y Datblygiad Arfaethedig isod:
- Mae Rhan 1 (llwybr y biblinell) yn cynnwys 10 llwybr troed, yn ogystal â Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol (NCN);
 - Mae Rhan 2 yn cynnwys 20 llwybr troed, 4 llwybr ceffylau, ac NCN;
 - Mae Rhan 3 yn cynnwys 19 llwybr troed, 1 gilffordd, Llwybrau 5, 56 a 70 yr NCN, Caer Ddi-draffig (nifer o lwybrau di-draffig o amgylch Caer, gan gynnwys y llwybrau rheilffordd a glan afon) a Llwybr Glas Mileniwm Caer (llwybr beicio 10.7 milltir sydd bron yn gwbl ddi-draffig, a adeiladwyd yn bennaf ar linell reilffordd segur);
 - Mae Rhan 4 yn cynnwys 22 llwybr troed a Llwybr Arfordir Cymru (llwybr troed arfordirol parhaus yng Nghymru sy'n ymestyn ar hyd y morlin cyfan);
 - Mae Rhan 5 yn cynnwys 54 llwybr troed;
 - Mae Rhan 6 yn cynnwys 11 llwybr troed; ac
 - Mae Rhan 7 yn cynnwys 44 llwybr troed.
- 5.12.25. Mae'r ES yn amlygu bod Llwybr 5 yr NCN yn Rhan 1 wedi'i leoli'n bennaf ar ffyrdd lleol o amgylch Elton, gan gynnwys y rhai hynny gerllaw'r Datblygiad Arfaethedig. Felly, gallai defnyddwyr deimlo dan fygythiad o ganlyniad i draffig adeiladu ac fe allent wynebu oedi dros dro i'w teithiau, o ganlyniad i'r cynnydd posibl mewn swm traffig adeiladu. Fe allai gwerth amwynder gael ei golli dros dro hefyd o ganlyniad i'r gwaith adeiladu.
- 5.12.26. Mae Tabl 16.20 yn rhestru effeithiau niweidiol arwyddocaol ar PRow yn Rhan 2: 309/FP1/2; 309/FP3/1; 294/FP2/1 a 309/BR4/1. Mae Tabl 16.15 isod yn amlinellu'r llwybrau PRow y bydd effaith arwyddocaol arnynt yn

Rhan 3, sef: 211/FP4/1; 3263/BY11/1; Llwybr Glas Mileniwm Caer; Llwybr 5 yr NCN. Yn Rhan 4 y biblinell: PRow 303/54/10; 307/3/10; 308/1/20; 303/32/10; 308/4/10.

- 5.12.27. Yn Rhan 5, mae 5 dargyfeiriad PRow, sef: 303/34/10; 303/25/20; 303/24/10; 303/20/10 a 303/141/10. Bydd un PRow yn cael ei byrhau'n barhaol hefyd, sef 414/37/10. Fodd bynnag, mae'r Ymgeisydd yn deall nad yw'r PRow hon yn cael ei defnyddio mwyach. Nid oedd unrhyw barti i'r archwiliad yn anghytuno â'r casgliad hwnnw. Mae adeiladu'r Datblygiad Arfaethedig hefyd yn gofyn am dorri ffos agored, sy'n croesi PRow (414/39A/10) gan hollti'r llwybr dros dro am gyfnod disgwylidig o 2-4 wythnos. Felly, byddai hyn yn arwain at effeithiau niweidiol arwyddocaol ar Gerddwyr, Beicwyr a Marchogion (WCH). Yn wir, byddai'r dargyfeiriadau PRow a hollti llwybr, gyda'i gilydd, yn arwain at oblygiad niweidiol i iechyd dynol yn ystod adeiladu.
- 5.12.28. Ni amlygwyd unrhyw effeithiau niweidiol arwyddocaol ar gyfer WCH yn Rhannau 6 neu 7 o'r biblinell.
- 5.12.29. O ran effeithiau eraill pwysig ar ddefnydd tir, mae'r ExA wedi rhoi ystyriaeth lawn i Atodiad 16.1 – Defnydd Tir ac Asedau ar gyfer busnesau amaethyddol a ystyrir ar y cyd â Phennod 16 yr ES (Y Boblogaeth ac Iechyd Dynol) [REP7-059] ar gyfer asesu'r holl effeithiau adeiladu a gweithredol.
- 5.12.30. Mae pecyn lliniaru'r Ymgeisydd yn cynnwys mesurau dylunio ymgorfforedig yn ogystal â'r canlynol:
- Diwrnod gwaith safonol o 10 awr am 5 niwrnod yr wythnos ond gydag ychydig o weithio am 24 awr yn ystod y cam drilio a fyddai'n para tua 4 wythnos.
 - Cau pob PRow am gyfnodau byr yn unig yn ystod adeiladu ar y cyd â dargyfeiriadau i ganiatáu lefelau hygyrchedd.
 - Darpariaethau'r OCTMP (gyda CTMP terfynol i ddilyn wedi'i sicrhau gan y DCO) ar gyfer rheoli traffig adeiladu'n briodol, a sicrheir gan R6 y dDCO.
 - Cynllun Teithio Gweithwyr interim [REP7-166] i leihau teithiau.
 - Byddai cyfadeiladau adeiladu dros dro yn cael eu sefydlu cyn i'r prif waith adeiladu ddechrau.
 - Byddai gweithgarwch adeiladu dilynol yn defnyddio'r goleuadau disgleirdeb isaf.
 - Byddai'r rhan fwyaf o'r gwaith o fewn ardal weithio â ffens o'i hamgylch i sicrhau diogelwch.
- 5.12.31. O ran y tablau a nodir ym Mhennod 16 yr ES (Y Boblogaeth ac Iechyd Dynol) [REP7-059] mae Tabl 16.31 yn crynhoi'r effeithiau gweddilliol sy'n gysylltiedig â'r Datblygiad Arfaethedig yn ystod adeiladu ar ôl yr holl fesurau lliniaru. Ystyrir bod y rhan fwyaf o'r effeithiau'n niwtral neu heb fod yn arwyddocaol. Yr eithriadau yw tarfu dros dro ar:
- ddefnyddwyr llwybrau PRow 309/BR4/1 a 309/FP3/1;
 - preswylwyr yng Nghanolfan Ofal a Chartref Gofal Thornton Manor;
 - disgyblion a staff yn Ysgol St Oswald a tharfu ar ddefnyddwyr;

- defnyddwyr Ysgol Gynradd Sirol Sandycroft; a
- Pharc Anifeiliaid Greenacres.

- 5.12.32. Mae'r elfennau hynny i gyd yn effeithiau niweidiol arwyddocaol, er y byddent am gyfnod dros dro/tymor byr.
- 5.12.33. Ni ddisgwylir i unrhyw un o'r effeithiau a amlygwyd gan yr ES newid o ganlyniad i unrhyw effeithiau cyfunol, megis y newid yn yr hinsawdd, ac ni ystyrir bod angen unrhyw ddulliau monitro penodol ar gyfer unrhyw agwedd ar y boblogaeth ddynol.
- 5.12.34. O ran effeithiau economaidd trosfwaol pwysig [REP1-046], mae'r Ymgeisydd yn dadlau'n gryf y bydd Prosiect HyNet (yn ei gyfanrwydd) yn cynnig buddsoddiadau sylweddol o oddeutu £17.7 biliwn a gwariant gweithredol o £29.1 biliwn yn y cyfnod hyd at 2050. Archwiliodd yr ExA natur holl agweddau sylfaenol buddion buddsoddi'r Datblygiad Arfaethedig wedi hynny, fel y manylir ymhellach isod.
- 5.12.35. Mae Pennod 19 yr ES (Effeithiau Cyfunol a Chronnol) [APP-071], a ddiweddarwyd yn gynyddrannol hyd at [REP7-066], yn rhoi cyd-destun asesu ychwanegol.

SAFBWYNTIAU PARTÏON Â BUDDIANT

- 5.12.36. Roedd FCC a CWCC yn fodlon at ei gilydd ar rinweddau'r achos economaidd-gymdeithasol a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd. Mae FCC wedi gofyn i'r Ymgeisydd uwchraddio'r Llwybr Ceffylau a PRoW 309/10/30 (Deeside Lane) i arwyneb tarmac er mwyn iddynt fod yn addas ar gyfer traffig adeiladu, ac mae'r ExA wedi ystyried hyn.
- 5.12.37. Mae'r ExA hefyd wedi ystyried cyflwyniadau manylach a wnaed gan IPau mewn perthynas ag ardaloedd tir a busnesau penodol yn yr Adroddiad Argymhelliad hwn. Wrth wneud hynny, mae'r ExA yn cydnabod yr ystod lawn o effeithiau a fyddai'n amlwg i breswylwyr a busnesau (gan gynnwys busnesau amaethyddol) sy'n gweithredu yng Nghymru a Lloegr yn ystod adeiladu'r Datblygiad Arfaethedig a'i weithredu yn y dyfodol.
- 5.12.38. Amlinellodd yr Ymgeisydd ystod o risgiau posibl yn ei ES, ond daeth i'r casgliad na fyddai LSE o ddamweiniau mawr nac o ganlyniad i faterion diogelwch. Cododd IPau bryderon yn ystod yr Archwiliad, gan gynnwys y posibilrwydd o ffrwydriad a'r risgiau diogelwch posibl wrth ardaloedd gweithio yn ystod adeiladu.
- 5.12.39. Nododd Sylw Perthnasol CF Fertilisers [RR-081] fod y biblinell newydd a'r derfynell AGI yn Ince yn agos iawn i dir sy'n destun parth effaith Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr (COMAH). Fodd bynnag, mae'r Ymgeisydd yn nodi nad yw safle CF Fertilisers yn destun parth effaith COMAH mwyach (mae'r safle hwn wedi'i leoli gerllaw AGI Ince) a chytunwyd ar hyn yn SoCG yr Ymgeisydd a gwblhawyd gyda CF Fertilisers [REP4-255]. Mae'r Ymgeisydd hefyd wedi dangos ei fod wedi ymgysylltu'n rheolaidd â'r HSE yn ystod y broses ddylunio i drafod y Datblygiad Arfaethedig. Mae'n cynghori y bydd mesurau iechyd a diogelwch yn cael eu hintegreiddio i'r dyluniad a fydd yn sicrhau bod y buddiannau hyn yn cael eu sicrhau'n

ddigonol yn hyn o beth. Nid yw'r HSE wedi mynegi unrhyw wrthwynebiadau yn hyn o beth, [REP7-314] a [REP8-045].

- 5.12.40. Mae safbwynt LFoE erbyn DL7 [REP7-315] ac yn ystod mynychu'r Gwrandawriad, yn berthnasol. Mae LFoE yn cyfeirio at y nodau llesiant (yn yr WBFGA). Mae hyn yn ymestyn i Gymru lewyrchus sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. Safbwynt LFoE, yn ei hanfod, yw nad yw'r Datblygiad Arfaethedig yn cyd-fynd ag ysbryd nodau'r WBFGA o ganlyniad i'r ymagweddau cyflawni model busnes lefel uchel gan 'Eni' (rhiant-gwmni honedig yr Ymgeisydd) yn ogystal ag agweddau technegol amrywiol sy'n gysylltiedig â hynny.

ARCHWILIAD

Iechyd Dynol/Defnydd Tir (gan gynnwys BMV)

- 5.12.41. O ran cais FCC bod yr Ymgeisydd yn uwchraddio'r Llwybr Ceffylau a PRoW/llwybr troed (309/10/30) Deeside Lane i arwyneb tarmac i'w gwneud yn addas i draffig adeiladu, gwrthododd yr Ymgeisydd fod ailwynebu'r Llwybr Ceffylau a 309/10/30 (Deeside Lane) yn angenrheidiol neu'n briodol ar gyfer adeiladu'r Datblygiad Arfaethedig, gan y byddai gwneud hynny'n ofyniad beichus arno.
- 5.12.42. Mae'r ExA wedi ystyried y dadleuon o blaid gwneud gwelliannau o'r fath drwy gydol cyfnod yr Archwiliad ac mae'n cytuno ag achos yr Ymgeisydd na fyddai darpariaeth o'r fath yn gam angenrheidiol na rhesymol. Y prif reswm yw y byddai hyn yn mynd ymhell y tu hwnt i'r effeithiau ar ddefnyddio'r Llwybr Ceffylau a Deeside Lane, yn gysylltiedig â'r Datblygiad Arfaethedig. Yn unol â hynny, mae'r ExA o'r farn y byddai gosod baich o'r fath ar yr Ymgeisydd yn ddiangen ac yn afresymol.
- 5.12.43. Cydnabu'r ExA yn ystod yr Archwiliad y byddai Rhan 1 llwybr y biblinell yn cynnwys colli tir amaethyddol yn barhaol yn: Llain Rhif 3-03 (Gwaith Rhif 57A) a ddefnyddir ar gyfer ffermio gwartheg godro; Llain Rhif 3-18a (Gwaith Rhif 57B) a ddefnyddir ar gyfer ffermio da byw; yn ogystal â Llain Rhif 5-01 (Gwaith Rhif 57C) a Llain Rhif 5-07 (Gwaith Rhif 57D), y defnyddir y ddwy ohonynt i gadw ceffylau, yn Rhan 2. Yn Rhan 3, byddai tir amaethyddol yn cael ei golli'n barhaol ar gyfer Llain Rhif 9-15 (Gwaith Rhif 57G) a ddefnyddir ar gyfer ffermio gwartheg godro. Ac yn Rhan 5 llwybr y biblinell, byddai tir amaethyddol yn cael ei golli'n barhaol yn Llain Rhif 17-43 (Gwaith Rhif 57I) a ddefnyddir ar gyfer ffermio da byw.
- 5.12.44. O ystyried ystod y colledion parhaol sy'n gysylltiedig, mae'r Ymgeisydd yn dadlau yn yr ES y byddai swyddogaeth gyffredinol yr holl fusnesau ffermio'n gallu parhau o hyd ar ôl cwblhau'r Datblygiad Arfaethedig. Mae'n cydnabod y byddai rhywfaint o dir amaethyddol BMV yn cael ei golli lle y bwriedir lleoli'r AGIau a'r BVSau, ond mae'n ystyried, wrth gymhwyso cyngor 5.10.8 NPS EN-1, sy'n ceisio lleihau effeithiau ar ardaloedd o'r fath i'r eithaf, na ellir osgoi'r effaith niweidiol ganlyniadol hon. Yn ogystal â hyn, mae'r Ymgeisydd yn dadlau ei fod wedi cymhwyso pecyn osgoi a lliniaru effeithiol ar hyd llwybr y biblinell i osgoi colli unrhyw BMV arall.

- 5.12.45. Yn hynny o beth, mae Adran 16.10 Pennod 16 yr ES yn amlinellu'r holl fesurau lliniaru a gwella. Mae'n amlygu y byddai mesurau digolledu ar gyfer y cam gweithredol yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer yr holl dir amaethyddol lle y canfyddir effeithiau niweidiol arwyddocaol, sy'n dangos y gallai fod effaith niweidiol ar hyfywedd gweithredol busnesau amaethyddol. Byddai'r mesurau hyn yn bennaf ar ffurf iawndal ariannol o ystyried yr effeithiau niweidiol arwyddocaol a fyddai'n codi o'r effaith. Rhestrir hyn hefyd yn y REAC [REP7-236].
- 5.12.46. Wrth ymateb i gwestiynau'r ExA, nododd yr Ymgeisydd pe byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn arwain at dorri'r cynllun Amaeth-Amgylcheddol, byddai'r Ymgeisydd yn disgwyl i lofnodwr y cynllun fod yn gyfrifol am hysbysu'r sefydliad rheoli perthnasol am unrhyw achosion o'i dorri. Byddai'r Ymgeisydd hefyd yn rhoi cymorth a chynghor i'r lofnodwr, fel y bo'r angen. Byddai unrhyw golledion o ganlyniad i'r toriad yn cael eu hasesu'n unigol hefyd, a byddai'r Ymgeisydd yn gyfrifol am ddigolledu lofnodwr y cynllun lle y darperir prawf o golled. Byddai'r Ymgeisydd yn ceisio cytuno ar iawndal ar gyfer unrhyw achosion o dorri trwy gytundeb gwirfoddol, sy'n fater sydd y tu hwnt i ystyriaeth y DCO yr ymgeisiwyd amdano.
- 5.12.47. Mae'r ExA wedi rhoi ystyriaeth lawn i Atodiad 16.1 – Defnydd Tir ac Asedau [REP7-138] a'r ystod o effeithiau a amlygwyd. Mae hyn yn cynnwys daliadau tir amaethyddol a allai brofi effeithiau gweithredol o ganlyniad i'r Datblygiad Arfaethedig, cyn unrhyw fesurau lliniaru, sydd wedi'u lleoli o fewn yr ardal astudio 500m ar gyfer y rhan berthnasol o'r Datblygiad Arfaethedig y mae'r daliad wedi'i leoli ynddi. (Bydd Lleiniau Rhif 3-03; a 3-18a (rhan 1 y biblinell); Lleiniau Rhif 5-01; a 5-07 (rhan 2 y biblinell); Lleiniau Rhif 9-15 (o fewn rhan 3); a Llain Rhif 17-43 (o fewn rhan 5) i gyd yn profi effeithiau niweidiol cymedrol (arwyddocaol), tra bydd Lleiniau Rhif 19-4a a Llain Rhif 19-4b (o fewn rhan 5) yn profi effeithiau niweidiol mawr iawn (arwyddocaol).
- 5.12.48. Yn unol â hynny, at ei gilydd, ni fu gan yr ExA reswm i anghytuno â chynnwys Tabl 16.31 na Thabl 16.32 [REP7-059], sy'n crynhoi'r effeithiau gweddilliol sy'n gysylltiedig â'r Datblygiad Arfaethedig, ar ôl adeiladu a gweithredu.
- 5.12.49. Byddai'r asedau cymunedol Canolfan Ofal Thornton Manor (rhan 1 y llwybr); Five Villages Hall ac Ysgol Gynradd St Oswald (o fewn rhan 2) yn profi effeithiau niweidiol yn amrywio o gymedrol i fawr; Eglwys Anglicanaidd Sant Francis ac Ysgol Gynradd Sandycroft (rhan 3); Cartref Gofal BVS Aston Hill (rhan 4), o ganlyniad i ostyngiadau mewn lefelau amwynder yn deillio o weithgarwch adeiladu dros dro, hyd yn oed gyda mesurau lliniaru.
- 5.12.50. O ran eiddo preifat arall: byddai Cryers Lane (rhan 1 y biblinell) Grove Road (rhan 2) yn profi effeithiau niweidiol arwyddocaol; Deeside Lane; Roslin Close; Moor Lane (rhan 3) Lôn Isaf BVS Aston Hill BVS; Llys Gary Speed; Moorfield Court; Moorfield Road; Mountfield Road; Hillfield Road a The Barnyard; Church Lane; Brookside; Pinfold Lane (rhan 4) Neuadd Highfield (rhan 5) – byddent oll yn profi effeithiau niweidiol arwyddocaol

o ganlyniad i weithgarwch adeiladu dros dro a fyddai'n effeithio ar hygyrchedd ac amwynder. Felly hefyd eiddo ar Cornist Lane; Nant Road; Lleprog Lane; Allt y Chwiler (o fewn rhan 7). Er y byddai'r effaith hon yn lleihau gyda mesurau lliniaru, byddai'n effaith dros dro niweidiol o hyd.

- 5.12.51. O ran yr effeithiau adeiladu tebygol ar fusnesau lleol presennol, byddai sensitifrwydd uchel iawn safle datblygu Protos ac Encirc Glass (rhan 1 y biblinell) yn arwain at effeithiau niweidiol cymedrol (arwyddocaol), dros dro, a amlygwyd yn yr ES. Byddai busnesau o fewn rhan 4, sef Psyche Studios; Intertek; Recycling Solutions; Chester Composites; Gorilla Access Services Ltd, yn profi effaith niweidiol arwyddocaol, ond dros dro, hefyd.
- 5.12.52. Mae NCN wedi'i nodi yn yr ardal astudio ar gyfer rhan 5 llwybr y biblinell. Mae'n debygol y byddai gwerth amwynder yn cael ei golli dros dro ar gyfer WCH o ganlyniad i darfu gan waith adeiladu. Felly, mae effeithiau niweidiol cymedrol (arwyddocaol) tymor byr, dros dro wedi cael eu hamlygu ar WCHau. Mae'r ExA wedi nodi ystod yr holl effeithiau niweidiol eraill a amlygwyd ym Mhennod 16 yr ES.
- 5.12.53. Cydnabu'r ExA y byddai ystod o effeithiau niweidiol arwyddocaol dros dro tymor byr ar WCHau sy'n defnyddio PRoWau eraill o ganlyniad i weithgarwch adeiladu ac, mewn rhai achosion, llwybr dargyfeirio hirach.
- 5.12.54. At ei gilydd, roedd yr holl bartïon technegol perthnasol a oedd yn weithredol yn yr Archwiliad yn cytuno'n fras ar yr effeithiau niweidiol ar y boblogaeth ac iechyd dynol a fesurwyd gan yr ES. Nid oedd yr ExA wedi amlygu unrhyw anghysondebau na hepgoriadau arwyddocaol i ddod i gasgliad gwahanol.

Agweddau economaidd-gymdeithasol/ goblygiadau gweithio mwynau

- 5.12.55. Heblaw am y pwyntiau hynny, archwiliodd yr ExA holl welliannau economaidd-gymdeithasol datganedig y Datblygiad Arfaethedig. Cydnabu'r ExA yn ystod yr Archwiliad y byddai'r cyfleoedd cyflogaeth o waith adeiladu sy'n gysylltiedig â'r Datblygiad Arfaethedig yn cael effeithiau cymdeithasol cadarnhaol eang sylweddol, yn unol â chasgliadau'r ES. Fodd bynnag, gofynnodd yr ExA gwestiynau amrywiol ynglŷn â goblygiadau manylach. Yn arbennig, ExQ Q1.16.1 i Q1.16.6, ymhlith eraill [PD-014]; [PD-022] a [PD-027] a'r rheiny yn ystod Gwrandawiadau.
- 5.12.56. Gwnaeth yr Ymgeisydd gyflwyniadau (gan gynnwys [REP1-044]) ynglŷn â chynyddu buddion economaidd y Datblygiad Arfaethedig i'r eithaf mewn perthynas ag effeithiau ar y gadwyn gyflenwi. Mae wedi ymgysylltu ag oddeutu 250 o sefydliadau lleol a chenedlaethol, gan gynnwys lefelau amrywiol o'r llywodraeth a phartneriaethau lleol.
- 5.12.57. Yn unol â Bargen Bontio Môr y Gogledd, a ryddhawyd gan Awdurdod Pontio Môr y Gogledd (sef yr Awdurdod Olew a Nwy gynt), mae'r Ymgeisydd yn rhoi tystiolaeth ei fod yn hyrwyddo gofyniad cynnwys lleol yn y gwahoddiad i dendro ar gyfer contractwyr adeiladu sy'n cynnig ar gyfer contract y biblinell. Byddai'n ofynnol i'r rhai sy'n tendro gynnwys

adran ar 'gynnwys lleol' yn y cynigion, a fyddai'n cael ei hystyried yn rhan o'r gwerthusiadau technegol a masnachol cyn dyfarnu unrhyw gontract.

- 5.12.58. Yn ogystal, mae Consortiwm HyNet (y mae'r Ymgeisydd yn aelod allweddol ohono) wedi gweithio ar y cyd o dan arweinyddiaeth Prifysgol Caer ochr yn ochr â Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu Peirianegol i fynd i'r afael â darparu cyfleoedd swyddi tra medrus ar gyfer y gymuned leol.
- 5.12.59. Amlygwyd bod y ddau gorff a grybwyllwyd uchod yn datblygu rhaglen brentisiaeth beilot HyNet yn yr ardal leol. Law yn llaw â hyn, mae'r Ymgeisydd wedi cyfarfod yn rhagweithiol â darparwyr addysg lleol i drafod y datblygiad a'r cyfle i ryngweithio yn y prosiect a/ neu gyda rhaglenni allgymorth presennol yr Ymgeisydd: Ysgol Gynradd Eglwys Loegr Sant Oswald, Caer; Ysgol Gynradd Sirol Sandycroft, Sandycroft.
- 5.12.60. Nodir bod HyNet yn ceisio trafodaethau tebyg â sefydliadau addysgol sydd wedi'u lleoli gerllaw llwybr y biblinell: fel Ysgol Uwchradd Penarlâg; ac Ysgol Gynradd Sirol Penarlâg. Byddai rhaglenni allgymorth presennol yr Ymgeisydd hefyd yn darparu cyfleoedd addysgol i ysgolion ar draws rhanbarth Gogledd Cymru. Cyflawnir hyn trwy ddarparu addysg amgylcheddol (arfordirol yn benodol) a'r ganolfan addysg DangerPoint, sy'n darparu addysg sgiliau bywyd ac sydd hefyd wedi datblygu taith arall yn ddiweddar sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd a'r newid yn yr hinsawdd lle y cyfeirir at Brosiect HyNet a CCS.
- 5.12.61. Heblaw am y pwyntiau hynny, o ystyried y dadleuon achos angen trosfwaol a wnaed gan yr Ymgeisydd [APP-049], mae'r ExA yn derbyn bod effeithiau economaidd-gymdeithasol cadarnhaol ehangach allweddol yn gysylltiedig â'r Datblygiad Arfaethedig. Byddai'r rhain yn digwydd o'i gyflawni yn y byd go iawn yn hytrach nag unrhyw Ofynion a sicheir trwy'r DCO.
- 5.12.62. O ystyried achos economaidd yr Ymgeisydd yn llawn [REP1-046], nodir y byddai mwyafrif gwariant adeiladu HyNet Gogledd-orllewin yn dod o'r Gogledd-orllewin (90-100%), tra byddai gwariant ar offer yn fwy gwasgareddig.
- 5.12.63. Mae'r ExA yn cydnabod y byddai gwariant ar Brosiect HyNet yn arwain at y posibilrwydd o greu tua 144,287 o flynyddoedd o swyddi ar gyfer y Gogledd-orllewin a 289,377 ar gyfer y DU hyd at 2050. Mae hyn yn gyfystyr â chreu tua 4,509 o swyddi'n flynyddol ar gyfer rhanbarth y Gogledd-orllewin a 9,043 o swyddi ar gyfer y DU gyfan [REP1-046].
- 5.12.64. Mae'r Ymgeisydd yn amcangyfrif y byddai cyfleoedd cyflogaeth blynyddol brig [REP1-046] yn 11,522 o swyddi yn y Gogledd-orllewin a 23,167 ar gyfer y DU. At ei gilydd, amcangyfrifir y bydd 5,979 o swyddi'n cael eu creu bob blwyddyn ar gyfartaledd ar gyfer y Gogledd-orllewin a 11,259 ar gyfer y DU. Mae'r ExA yn cydnabod bod lefel y cyfleoedd gwaith y mae hyn yn ei chynrychioli yn cynnig buddion economaidd-gymdeithasol mawr iawn yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

- 5.12.65. Mae mewnfuddsoddi'n ffactor arall wrth fesur rhinweddau'r achos economaidd. Y ffigurau Gwerth Ychwanegol Gros y mae'r Ymgeisydd yn cyfeirio atynt yw £16.9 biliwn ar gyfer y Gogledd-orllewin a £30.5 biliwn ar gyfer y DU, yn y drefn honno [REP1-046].
- 5.12.66. Trwy ei gyflwyniadau i'r Archwiliad, mae'r Ymgeisydd wedi dangos ei fod wedi defnyddio dadansoddiad priodol a gafwyd o economi hydrogen y DU gan gyfeirio at H21 Leeds City Gate; Hyb Hydrogen Lerpwl Manceinion; a CCS Arfordir Dwyreiniol y DU i lywio ei ddadansoddiad a'i asesiadau o'r effaith economaidd.
- 5.12.67. Mae'r ExA yn cydnabod bod Prosiect HyNet, yn ei gyfanrwydd, yn cynnig cyfle unwaith mewn cenhedlaeth i ddatgarboneiddio'r economi yn helaeth ar yr un pryd â chynhyrchu buddion economaidd mawr iawn. Byddai'r Datblygiad Arfaethedig wedi'i gysylltu'n annatod â sicrhau nodau ehangach Prosiect HyNet a fanylwyd gan yr Ymgeisydd. Felly, mae'n briodol ystyried y buddion ehangach cyffredinol y cyfeiriodd atynt wrth asesu'r achos angen cyffredinol a gyflwynwyd a'r datblygiadau cysylltiedig a sbardunir gan y Datblygiad Arfaethedig ei hun.
- 5.12.68. Mae'r ExA yn cytuno bod buddion economaidd cyffredinol amrywiol Prosiect HyNet, yn rhanbarthol a ledled y DU, yn sylweddol ac yn amlwg yn rhai y dylid rhoi pwys mawr iawn iddynt mewn unrhyw benderfyniad a wneir gan yr SoS.
- 5.12.69. Ar wahân i'r mater hwnnw, yn ystod cyfnod yr Archwiliad (fel y nodwyd yn yr adran flaenorol uchod ar safbwyntiau partïon â buddiant) nodwyd bod Sylw Perthnasol CF Fertilisers [RR-081] yn dangos bod y biblinell newydd a'r derfynell AGI yn Ince yn agos i dir sy'n destun parth effaith COMAH. Yn dilyn holi gan yr ExA, dywedodd yr Ymgeisydd nad oedd safle CF Fertilisers yn Ince yn destun parth effaith COMAH mwyach. At hynny, cydnabu'r Ymgeisydd, o ystyried cynllunio priodol mewn argyfwng, y byddai'n ymgysylltu â gweithredwyr unrhyw safleoedd COMAH ger y Datblygiad Arfaethedig. Mae'r Ymgeisydd wedi ymgysylltu â'r HSE yn rheolaidd yn ystod y broses ddylunio i drafod y Datblygiad Arfaethedig a mesurau diogelwch sydd wedi'u hintegreiddio yn y dyluniad. O ystyried yr ymatebion gan yr HSE, mae'r ExA yn fodlon y byddai buddiannau diogelwch yn cael eu parchu, o gofio'r holl ofynion deddfwriaethol a heb unrhyw gyflwyniadau ychwanegol gan CF Fertilisers ar ddiwedd cyfnod yr Archwiliad i ddod i gasgliad arall.
- 5.12.70. Cydnabu'r ExA bresenoldeb yr MSA hefyd, ac felly hefyd polisi Cynllun Lleol yn amddiffyn safleoedd o'r fath. O ystyried cwestiynau'r ExA a chyflwyniadau i'r archwiliad, ni chredwyd bod yr LSE i'r rheiny'n wahanol i'r rhai a aseswyd yn yr ES. Y rheswm am hynny yw oherwydd bod datblygiad presennol eisoes yn sterileiddio ardaloedd o'r fath neu fod yr effeithiau ar MSAAu yn ddibwys fel arall. Nid oes unrhyw ran o holl ddeunydd yr Archwiliad wedi achosi i'r ExA feddwl yn wahanol. Cyfeiriodd LIR [REP1A-002], Atodiad [REP1A-003] CWCC; a LIR [REP1A-005], Atodiad [REP1A-006] FCC, o'u hystyried gyda'i gilydd, yn uniongyrchol at bwysigrwydd lleol MSAAu mewn unrhyw werthusiad. Fodd bynnag, erbyn diwedd yr Archwiliad, nid oedd unrhyw bryder sylweddol yn deillio o'r

cyflwyniadau LIR yn parhau ynglŷn â'r mater hwn gan y naill Gyngor cynhaliol na'r llall.

- 5.12.71. O ran effeithiau cyfunol a chronnol cyffredinol, ni nodwyd bod angen unrhyw fesurau lliniaru ychwanegol yn Adran 19.9 [REP7-065]. Ni nodwyd unrhyw effeithiau cyfunol a chronnol sylweddol yn yr ES ac ni ddaethant i'r amlwg yn ystod cyfnod yr Archwiliad. Nid yw asesiad yr ES wedi amlygu'r angen am unrhyw ofynion monitro ychwanegol y tu hwnt i'r rhai hynny a nodir ym Mhenodau technegol 6 – 18 yr ES. Nid oedd yr ExA wedi canfod unrhyw reswm da i ddod i gasgliad gwahanol i'r ES.

CASGLIADAU'R EXA

Effeithiau economaidd-gymdeithasol/ defnydd tir (gan gynnwys colli tir amaethyddol BMV)/ gweithio mwynau)

- 5.12.72. Mae'r ExA yn cytuno bod yr Ymgeisydd wedi dangos ystyriaeth o'r WBFGA yn y Datganiad Cynllunio a gyflwynwyd [REP4-022]. Mae'n fodlon bod yr Ymgeisydd wedi asesu effeithiau niweidiol ar y Boblogaeth ac Iechyd Dynol yn gywir o fewn canfyddiadau Pennod 16 Diwygiad C yr ES [REP7-059], gan ddefnyddio methodoleg ac ardal astudio briodol.
- 5.12.73. Mae'r ExA hefyd yn derbyn y byddai ystod o effeithiau adeiladu niweidiol dros dro ond arwyddocaol ar breswylwyr a busnesau, i'w hystyried gan yr SoS mewn unrhyw benderfyniad ar y DCO yr ymgeisir amdano.
- 5.12.74. Mae'r ExA yn canfod bod yr Ymgeisydd wedi osgoi a lliniaru'r effeithiau niweidiol hynny ar boblogaethau lleol, cyn belled ag y bo'n ymarferol, yn ystod cyfnodau adeiladu fel y dangoswyd yn yr ES trwy gyfres o fesurau lliniaru. Byddai'r ystod o effeithiau niweidiol sy'n ymwneud â'r Datblygiad Arfaethedig yn ymestyn i gollu tir yn barhaol ar gyfer busnesau amaethyddol. Mae'r ExA yn derbyn bod amrywiaeth o niweidiau wedi'u hamlygu yn [REP7-059], sy'n denu pwys negyddol yn argymhelliad cyffredinol yr ExA.
- 5.12.75. Yn ogystal, mae'r ExA yn derbyn nad yw dDCO yr Ymgeisydd yn atal tirfeddianwyr rhag cael mynediad dros agweddau tanddaear piblinell y Datblygiad Arfaethedig sydd o fewn eu daliad tir ar ôl adeiladu. Nid yw'r rheswm pam y byddai'r Ymgeisydd yn cael mynediad yn effeithio ar y safbwynt hwnnw. Mae'r Datblygiad Arfaethedig wedi'i ddylunio i ganiatáu mynediad gan draffig a pheiriannau fferm y gwyddys eu bod yn defnyddio'r tir ar hyn o bryd. Fodd bynnag, pe byddai angen peiriannau trwm iawn, er enghraifft ar gyfer mwynloddio tir, cydnabyddir y byddai defnydd yn cael ei gyfyngu heb ganiatâd priodol lle y gallai ddifrodi'r piblinell. Ni fyddai partïon eraill yn gallu cael at yr AGIau a'r BVSau yn ystod adeiladu nac ar ôl hynny. Byddai ffens yn cael ei chodi o'u hamgylch i atal mynediad.
- 5.12.76. Mae'r ExA yn derbyn y byddai'r OSMP [REP7-244] a'r SMP terfynol a ddefnyddir wedi hynny i seilio'r CEMP terfynol arno yn rheoli risg difrod i strwythur pridd yn ystod adeiladu ac adfer, cyn belled ag y bo'n ymarferol. Yna, byddai'r dyluniad manwl yn ystyried lleoliad priddoedd

BMV ac aliniad y Biblinell CO₂ Newydd, a byddai ardaloedd gweithio'n ceisio lleihau effeithiau ar yr ardaloedd hyn a/ neu eu hosgoi.

- 5.12.77. Fodd bynnag, hyd yn oed gyda'r holl fesurau lliniaru a sicrheir gan y DCO, bydd rhywfaint o BMV yn cael ei golli'n barhaol, yn bennaf oherwydd yr ardaloedd tir gwledig sy'n angenrheidiol i adeiladu'r AGIau a'r BVSau gan ddefnyddio tir amaethyddol.
- 5.12.78. O ganlyniad, mae colli rhywfaint o dir BMV i wneud lle ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig yn effaith niweidiol na ellir ei hosgoi a fesurwyd gan yr ES. Mae'r ExA yn cytuno â'r canfyddiad hwn ac felly mae'n ffactor sy'n pwysu yn erbyn gwneud y DCO. O ystyried bod cwantwm y tir sy'n gysylltiedig yn isel ac y byddai tir BMV ar gael fel arall at ddibenion amaethyddol o hyd, mae'r ExA yn priodoli pwys cymedrol i'r mater hwn.
- 5.12.79. O ystyried yr holl effeithiau ar yr adnodd mwynau a amlygwyd yn Atodiad 11.3 yr ES Asesiad Adnodd Mwynau Rhannau 1 a 2 Diwygiad A [REP7-120] a [REP7-121], mae'r ExA yn cytuno na fyddai unrhyw effeithiau niweidiol arwyddocaol ar MSAAu sy'n cyfrif yn erbyn y Datblygiad Arfaethedig. Y rheswm am hyn yw oherwydd lle mae MSAAu yn bresennol ar hyd llinell y biblinell, dangosir eu bod naill ai eisoes wedi'u sterileiddio gan amgylchiadau presennol neu y byddai effaith leiafsymiol (nad yw'n arwyddocaol) yn cael ei harsylwi fel arall.
- 5.12.80. Mae'r achos economaidd-gymdeithasol aruthrol a wnaed gan yr Ymgeisydd y gellir ei ddangos yn rhanbarthol a ledled y DU, sy'n cynnig buddion cyhoeddus gwirioneddol sylweddol yn gysylltiedig â buddsoddiad uniongyrchol/ anuniongyrchol a chreu swyddi wedi hynny, yn pwysu'n drwm o blaid gwneud y DCO.
- 5.12.81. At ei gilydd, heblaw am yr effeithiau niweidiol disgwylidig ar breswylwyr, BMV a busnesau a amlygwyd uchod, mae'r buddion economaidd-gymdeithasol trosfwaol sy'n gysylltiedig â'r Datblygiad Arfaethedig yn sylweddol. Mae'r buddion economaidd-gymdeithasol hynny'n ymwneud ag achos angen cyffredinol yr Ymgeisydd a buddion newid yn yr hinsawdd cysylltiedig, ond hyd yn oed o'u hystyried yn unigol mae'r buddion economaidd (uniongyrchol ac anuniongyrchol/ gan gynnwys twf economaidd a chreu swyddi) a ddangoswyd gan yr Ymgeisydd yn pwysu'n drwm o blaid cefnogi'r DCO.

Peryglon iechyd dynol/ risgiau diogelwch

- 5.12.82. Mae Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2017 yn darparu bod angen ystyried risgiau iechyd a diogelwch sy'n berthnasol i Ddatblygiad Arfaethedig wrth geisio caniatâd ar ei gyfer. Mae NPS EN-1 yn datgan y dylai ymgeiswyr sy'n ceisio caniatâd ar gyfer prosiectau gysylltu â'r HSE hefyd.
- 5.12.83. Amlinellodd yr Ymgeisydd ystod o risgiau posibl yn ei ES, ond daeth i'r casgliad na fyddai LSE o ddamweiniau mawr nac o faterion diogelwch. Mynegodd IPau bryderon yn ystod yr Archwiliad, gan gynnwys y posibilrwydd o ffrwydriad a'r risgiau diogelwch posibl wrth ardaloedd gweithio yn ystod adeiladu. Nid yw'r HSE wedi mynegi unrhyw

wrthwynebiadau ac ni chodwyd unrhyw bryderon sylweddol gan unrhyw ymgylgoreion technegol statudol eraill ychwaith.

- 5.12.84. Wrth ymateb i ystod o sylwadau gan IPau ynglŷn ag agweddau iechyd a diogelwch, mae'r Ymgeisydd [REP8-035] wedi cadarnhau bod risg cyrydiad, mewn perthynas â systemau piblinell CO₂, yn hysbys a bod dealltwriaeth dda ohoni. Yn achos y Datblygiad Arfaethedig, byddai'n ofynnol i'r ffrwd nwy CO₂ a gynhyrchir gan y cyfleusterau allyrru ac a gludir yn y piblinellau CO₂ gydymffurfio â therfynau wedi'u diffinio'n fanwl gywir sy'n ymdrin â'r holl baramedrau gweithredu, gan gynnwys ei chyfansoddiad.
- 5.12.85. Byddai'r nwy CO₂ yn sych gyda chynnwys lleithder y disgwylir iddo gael ei gynnal islaw trothwy penodedig a therfynau penodedig ar gyfer amhureddau eraill. Byddai cydymffurfedd â'r terfynau hynny'n cael ei sicrhau trwy fonitro parhaus a'r broses sy'n rheoli'r ffrwd CO₂ sy'n mynd i mewn i'r biblinell.
- 5.12.86. Yn ogystal, cyfeiriodd yr Ymgeisydd at gorff sylweddol o arbenigedd presennol ar gyfer cludo trwy biblinell CO₂ sy'n cynnwys ymchwil a phrofiad gweithredol gan y diwydiannau CCS ac Olew a Nwy. Mae hyn wedi'i ymgorffori mewn ystod o godau, safonau, canllawiau, a phapurau a gyhoeddwyd gan y diwydiant a chyrrff rheoleiddiol (gan gynnwys HSE y DU, y Sefydliad Safonau Prydeinig, y Sefydliad Safonau Rhyngwladol, a'r Sefydliad Ynni). Ceisir sicrhau bod dyluniad a gweithrediad y biblinell yn cydymffurfio â'r rhain a chodau, safonau, a chanllawiau eraill perthnasol [REP8-035].
- 5.12.87. At ei gilydd, mae'r ExA o'r farn y byddai mesurau lliniaru priodol a digonol yn cael eu sicrhau yn y DCO ac na fyddai unrhyw effeithiau arwyddocaol yn deillio o ddamweiniau na materion diogelwch. Daw'r ExA i'r casgliad y dylid rhoi pwys niwtral i unrhyw fater risg diogelwch yn y cydbwysedd cynllunio.

Effeithiau cronol cyffredinol o'r Datblygiad Arfaethedig

- 5.12.88. Mae Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2017 yn mynnu bod asesiadau o effeithiau cronol yn cael eu cynnal pan wneir ceisiadau am ganiatâd datblygu. Dangosodd asesiad ES manwl yr Ymgeisydd fod potensial cyfyngedig ar gyfer effeithiau cronol.
- 5.12.89. Yn ystod yr Archwiliad, gofynnodd yr ExA sawl cwestiwn ynglŷn â materion asesu cronol a oedd yn llywio'r ES. Mae ymateb yr Ymgeisydd [REP2-038] yn bwysig.
- 5.12.90. Mae'r ExA yn nodi bod yr Ymgeisydd wedi cyfeirio at ddull dau lwybr, yn yr ystyr y bydd dau gais cynllunio ar wahân yn cael eu cyflwyno i FCC o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990: un ar gyfer Terfynell y Parlwr Du (PoA) a Gwaith Blaendraeth ac un arall ar gyfer y tair BVS.
- 5.12.91. Cydnabu'r ExA hefyd gynnwys Pennod 19 yr ES Effeithiau Cyfunol a Chronol [APP-071] yn ogystal â Phennod 19.1 – Asesiad o Effeithiau Rhyngbroiect Diwygiad A [APP-172] a Phennod 19.2 – Asesiad o

Effeithiau o Fewn Prosiectau Diwygiad A [APP-173]. Gofynnodd yr ExA i'r holl IPau a oes unrhyw brosiectau wedi'u nodi eu bod yn cael eu hadeiladu y disgwylir iddynt gael eu cwblhau cyn i Ddatblygiad Arfaethedig y DCO gael ei adeiladu, sydd wedi'u heithrio o asesiad yr Ymgeisydd ar Gam 2 (yn unol â Thablau 2 a 3 yn Atodiad 19.1 – Asesiad o Effeithiau Rhyngbrosiect, Cyfrol III [APP-172]). Mae'r ExA wedi cael diweddariadau gan yr Ymgeisydd, CWCC ac FCC yn ystod yr Archwiliad i lywio'r ES yn hyn o beth [REP7-185].

- 5.12.92. Ymatebodd yr Ymgeisydd drwy ddweud nad oedd adolygu darpar ddatblygiadau eraill yn barhaus ar ôl cyflwyno'r ES (2022) yn rhan o'i fethodoleg. Mae'r Ymgeisydd o'r farn, wrth adolygu datblygiadau eraill, y dylid pennu dyddiad terfyn i allu cwblhau'r asesiad o effeithiau cronol. Darperir ar gyfer hyn yn Nodyn Cyngor Dau ar Bymtheg yr Arolygiaeth Gynllunio: Asesu Effeithiau Cronol (Awst 2019) sy'n datgan yn adran 3.4.9 *"y deëllir ei bod yn ofynnol i ymgeiswyr roi terfyn ar waith asesu ar adeg benodol er mwyn gallu cwblhau cais yn derfynol a'i gyflwyno"*.
- 5.12.93. O safbwynt yr Ymgeisydd, fe allai ystyried gwybodaeth gyhoeddus a gwybodaeth a oedd ar gael iddo yn unig. Ymgynghorodd yr Ymgeisydd â'r ymgynghoreion cyhoeddus a'r holl ymgynghoreion ar y rhestr hir o ddatblygiadau a gyflwynwyd yn yr Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol yn ystod yr Ymgynghoriad Statudol (a welir yn Adroddiad Ymgynghori DCO HyNet [APP-031]). Rhoddwyd yr Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol i CWCC ac ni nododd unrhyw ddatblygiadau ychwanegol y dylid eu hystyried (cyfeiriwch at Adroddiad Ymgynghori DCO HyNet [APP-031]). Mae'r Ymgeisydd wedi parhau i ymgynghori â'r ddau awdurdod yn rheolaidd, fel y cofnodwyd yn y SoCGau perthnasol [REP7-259] a [REP8-021].
- 5.12.94. Derbyniodd yr Ymgeisydd y byddai datblygiad 22/03693/FUL, Encirc Glass, a amlygwyd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer ei gynnwys yn rhestr hir yr Asesiad o Effeithiau Rhyngbrosiect (Tabl 2 Atodiad 19.1 yr ES [CR1-044]). Mae'r datblygiad yn ddigon agos ac ar raddfa ddigon mawr ar gyfer Effeithiau Rhyngbrosiect arwyddocaol posibl, ac felly byddai'n cael ei gynnwys yn rhestr fer yr Asesiad o Effeithiau Rhyngbrosiect (Tabl 3 Atodiad 19.1 yr ES [CR1-044]). Fodd bynnag, oherwydd derbyniwyd y cais gan CWCC ar 30 Medi 2022, mae hyn y tu allan i gwmpas asesiad ES y cais o Effeithiau Rhyngbrosiect, fel y datganwyd yn y paragraff uchod. Er gwaethaf yr uchod, mae'r Ymgeisydd wedi ymgysylltu ag Encirc Glass yn wirfoddol trwy drafodaethau SoCG [REP6-026] ynglŷn â'r rhyngweithio rhwng y ddau ddatblygiad (sy'n ymwneud yn bennaf â mynediad i'r safle) ac mae hyn yn cael ei drin trwy drafodaethau masnachol rhwng y partion.
- 5.12.95. Ni ddisgwylir unrhyw newidiadau i gasgliadau effeithiau arwyddocaol yr asesiad o ganlyniad i gynnwys datblygiadau eraill a nodwyd yn ystod yr Archwiliad.
- 5.12.96. At hynny, tynnodd yr ExA sylw'r Ymgeisydd/ IPau at gynnwys Nodyn Cyngor 9 yr Arolygiaeth Gynllunio: Amlen Rochdale. Mae'r nodyn cyngor hwn yn cadarnhau'r egwyddor sefydledig, sef:

“Ni ddylai'r ES fod yn gyfres o adroddiadau ar wahân ar bynciau digyswllt. Dylai'r gydberthynas rhwng agweddau ar y datblygiad arfaethedig gael ei hasesu a dylai'r datblygwr roi ystyriaeth ofalus i esbonio sut mae cydberthnasoedd wedi cael eu hasesu er mwyn mynd i'r afael ag effeithiau amgylcheddol y cynnig yn ei gyfanrwydd. Nid yw'n dilyn o reidrwydd y byddai'r effaith niweidiol fwyaf o ran effaith unrhyw bwnc unigol yn arwain yn awtomatig at yr effaith bosibl fwyaf pan ystyrir effeithiau nifer o bynciau ar y cyd. Yn ogystal, efallai na fydd effeithiau unigol yn arwyddocaol, ond fe allent ddod yn arwyddocaol pan asesir eu cydberthynas. Mater i'r datblygwr yw dangos bod effeithiau arwyddocaol tebygol y prosiect wedi cael eu hasesu'n briodol.”

- 5.12.97. Nid yw'r ExA o'r farn y byddai unrhyw effeithiau cronol arwyddocaol yn codi o adeiladu neu weithredu'r Datblygiad Arfaethedig o ystyried canfyddiadau'r ES a'r mesurau lliniaru a sicrheir, wrth fesur yr holl effeithiau a allai arwain at unrhyw niwed posibl. Wrth ffurfio ei farn, mae'r ExA wedi ystyried cyflwyniadau LFoE a wnaed yn ystod yr Archwiliad. Fodd bynnag, mae nifer o'i gyflwyniadau'n cyfeirio at effeithiau ehangach 'Prosiect HyNet' yn ymwneud ag Asesu Effeithiau Amgylcheddol a materion HRA, sy'n mynd y tu hwnt i gylch gwaith yr Archwiliad hwn. Ystyrir bod y Datblygiad Arfaethedig ar wahân i Brosiect ehangach HyNet ac nid oedd yr Arolygiaeth Gynllunio o'r farn ei fod yn ffurfio rhan o brosiect aml-gam ehangach ar raddfa fawr ar gam 'Derbyn' y Cais. Ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth yn ystod yr Archwiliad sy'n peri i'r ExA ddod i gasgliad gwahanol yn hyn o beth.
- 5.12.98. Er hynny, mae'r ExA yn derbyn ei bod yn amlwg bod buddion amgylcheddol ac economaidd-gymdeithasol uniongyrchol/anuniongyrchol ehangach yn gorgyffwrdd wrth ystyried dadleuon ynglŷn â'r darlun ehangach a grybwyllwyd yn achos angen cyffredinol yr Ymgeisydd. Cydnabuwyd gorgyffyrddiadau o'r fath eisoes wrth asesu angen yn argymhelliad yr ExA, fel y datganwyd uchod.
- 5.12.99. Mae'r ExA o'r farn bod yr ES yn darparu gwybodaeth am sut byddai effeithiau Datblygiad Arfaethedig yr Ymgeisydd yn cyfuno ac yn rhyngweithio ag effeithiau datblygiadau eraill (gan gynnwys prosiectau y ceisiwyd neu y rhoddwyd caniatâd ar eu cyfer, yn ogystal â'r rhai hynny sydd eisoes yn bodoli) ac y gallai gwybodaeth am groniad effeithiau, a'r gydberthynas rhyngddynt, effeithio ar yr amgylchedd, yr economi, neu'r gymuned yn eu cyfanrwydd. Mae'r Datblygiad Arfaethedig yn cydymffurfio ag NPS EN-1 yn hyn o beth ac â Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2017 (y rheoliadau EIA).
- 5.12.100. Nid yw'r un o'r cyflwyniadau a wnaed gan IPau wedi achosi i'r ExA gasglu bod unrhyw bryderon cyfiawnadwy yn ymwneud â pheidio ag asesu effeithiau cronol yn briodol yn yr ES. Mae'r ExA wedi ystyried y wybodaeth gychwynnol a gynhwyswyd yn LIR [REP1A-002], Atodiad [REP1A-003] CWCC; a LIR [REP1A-005], Atodiad [REP1A-006] FCC, yn ogystal â diweddariadau i'r Archwiliad wrth ddod i'r casgliad hwnnw.
- 5.12.101. O ran storio CO₂ ar y môr, sydd y tu allan i gwmpas y Datblygiad Arfaethedig, cadarnhaodd yr Ymgeisydd fod ei waith yn cael ei

oruchwylio gan gorff rheoleiddiol cymwys, sef Awdurdod Pontio Môr y Gogledd.

- 5.12.102. Mae'r ExA hefyd yn fodlon y byddai datgomisiynu'r biblinell bresennol a'r Datblygiad Arfaethedig yn ddarostyngedig i reolaethau digonol fel na fyddai'n arwain at effeithiau cronol arwyddocaol.
- 5.12.103. Felly, mae'r ExA yn cytuno na fyddai unrhyw effeithiau cronol arwyddocaol ar gyfer unrhyw agwedd ar y Datblygiad Arfaethedig sy'n pwysu yn ei erbyn. Yn unol â hynny, byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn cyd-fynd â'r gofynion deddfwriaethol a pholisi perthnasol ar gyfer Cymru a Lloegr.

6. CANFYDDIADAU A CHASGLIADAU MEWN PERTHYNAS AG ASESIAID RHEOLIADAU CYNEFINOEDD

6.1. CYFLWYNIAD

- 6.1.1. Mae'r bennod hon yn nodi dadansoddiad a chasgliadau'r Awdurdod Archwilio (ExA) sy'n berthnasol i'r Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA). Bydd hyn yn cynorthwyo'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Adran Diogelu Ynni a Sero Net (DESNZ), fel yr Awdurdod Cymwys, i gyflawni ei ddyletswyddau o dan Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 ('y Rheoliadau Cynefinoedd').
- 6.1.2. Mae'r bennod hon wedi'i strwythuro fel a ganlyn:
- Adran 6.2: Canfyddiadau mewn perthynas ag Effeithiau Arwyddocaol Tebygol (LSE) ar Rwydwaith Safleoedd Cenedlaethol y DU a safleoedd Ewropeaidd eraill⁷
 - Adran 6.3: Amcanion Cadwraeth ar gyfer safleoedd a nodweddion
 - Adran 6.4: Canfyddiadau mewn perthynas ag Effeithiau Niweidiol ar Gyfanrwydd (AEoI)
 - Adran 6.5: Casgliadau'r HRA
- 6.1.3. Yn unol â'r egwyddor ragofalus sydd wedi'i hymgorffori yn y Rheoliadau Cynefinoedd, dim ond ar ôl canfod na fydd yn effeithio'n andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Ewropeaidd ac nad oes amheuaeth wyddonol resymol yn aros y ceir rhoi caniatâd i'r Datblygiad Arfaethedig⁸.
- 6.1.4. Disgrifir ystyriaethau polisi a'r rhwymedigaethau cyfreithiol o dan y Rheoliadau Cynefinoedd ym Mhennod 3 yr adroddiad hwn.
- 6.1.5. Bu'r ExA yn ystyriol drwy gydol yr Archwiliad o'r angen i sicrhau bod gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer DESNZ y math o wybodaeth y gallai fod ei hangen yn rhesymol i gyflawni ei ddyletswyddau yn Awdurdod Cymwys. Mae wedi gofyn am dystiolaeth gan yr Ymgeisydd a'r Partion â Buddiant (IP) perthnasol, gan gynnwys Natural England (NE) a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) sef y Cyrff Cadwraeth Natur Priodol (ANCB), drwy ein cwestiynau ysgrifenedig (ExQs) a Gwrandawiaadau Mater Penodol.

Adroddiad ar y Goblygiadau i Safleoedd Ewropeaidd ac Ymgynghoriad

⁷ Mae'r term 'safleoedd Ewropeaidd' yn cynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA), ACA arfaethedig, AGA posibl, safleoedd Ramsar, safleoedd Ramsar arfaethedig, ac unrhyw safleoedd a nodwyd yn fesurau digolledu am effeithiau andwyol ar unrhyw un o'r uchod. Mae 'Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol y DU' yn cyfeirio at ACA ac AGA sy'n perthyn i'r Deyrnas Unedig sydd eisoes wedi'u dynodi o dan y Cyfarwydddebau ac unrhyw safleoedd pellach a ddynodir o dan y Rheoliadau Cynefinoedd.

⁸ CJEU Achos C-127/02 Waddenzee 7 Medi 2004, Cyfeiriad ar gyfer dyfarniad rhagarweiniol gan y Raad van State (Yr Iseldiroedd) yn yr achos: Landelijke Vereniging tot Behoud van de Waddenzee and Nederlandse Vereniging tot Bescherming van Vogels v Staatssecretaris van Landbouw, Natuurbeheer en Visserij

- 6.1.6. Lluniwyd Adroddiad ar y Goblygiadau ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd (RIES) [OD-008], a oedd yn casglu, dogfennu a chyfeirio at wybodaeth berthnasol i HRA a ddarparwyd yn y cais Caniatâd Datblygu (DCO) ac yn ystod yr Archwiliad hyd at Ddyddiad Cau (DL) 6 (4 Gorffennaf 2023) gan yr ExA. Cyhoeddwyd y RIES i nodi dealltwriaeth yr ExA ar wybodaeth berthnasol i HRA a sefyllfa'r IP mewn perthynas ag effeithiau'r Datblygiad Arfaethedig ar safleoedd Ewropeaidd ar yr adeg honno. Mae Atodiad 1 Tablau A1.1 i A1.9 yn crynhoi dealltwriaeth yr ExA o ymarfer sgrinio ac asesiad AEOI yr Ymgeisydd, a chytundeb gydag ANCB bryd hynny, ar gyfer pob safle Ewropeaidd a ystyrir yn yr HRA.
- 6.1.7. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y RIES fel rhan o'r Archwiliad rhwng 1 Awst a 5 Medi 2023. Cafwyd sylwadau gan yr Ymgeisydd [REP7-289], NE [REP7-317] a CNC [REP7-318] yn DL7 (5 Medi 2023). Mae'r sylwadau hyn wedi'u hystyried wrth ddrafftio'r bennod hon.
- 6.1.8. Argymhelliad yr ExA yw y gellir dibynnu ar yr RIES, a'r ymgynghoriad arno, fel corff priodol o wybodaeth i alluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i gyflawni ei ddyletswyddau ymgynghori o dan Reoliad 63(3) o'r Rheoliadau Cynefinoedd, pe bai'n dymuno gwneud hynny.

Disgrifiad o'r Datblygiad Arfaethedig a Goblygiadau HRA

- 6.1.9. Disgrifir y Datblygiad Arfaethedig ym Mhennod 2 yr adroddiad hwn.
- 6.1.10. Dangosir y berthynas ofodol rhwng Terfynau Gorchymyn y Datblygiad Arfaethedig a'r safleoedd Ewropeaidd yn Ffigur 9.1.1 o Atodiad 9.1 y Datganiad Amgylcheddol (ES) [REP7-087] Taflenni 1, 2 a 3.
- 6.1.11. Nid yw'r Datblygiad Arfaethedig yn uniongyrchol gysylltiedig â rheoli safle Ewropeaidd nac yn angenrheidiol i reoli safle felly. Felly, mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud 'Asesiad Priodol' (AA) o oblygiadau'r Datblygiad Arfaethedig ar safleoedd Ewropeaidd y gellid effeithio arnynt yng ngoleuni eu Hamcanion Cadwraeth.
- 6.1.12. Cyflwynir asesiad yr Ymgeisydd o effeithiau yn y ddogfen gais ganlynol:
- HRA – HRA - Gwybodaeth i Hysbysu AA [REP7-248] (y cyfeirir o hyn ymlaen fel 'Adroddiad HRA')
- 6.1.13. Mae adran 3.7 o'r HRAR yn cadarnhau bod yr HRA wedi cael ei drafod gydag ymgynghoreion statudol wrth baratoi'r cais a'r ES.
- 6.1.14. Darparwyd HRAR gyda'r cais DCO ('HRAR y cais') [APP-226]. Diweddarwyd hyn wedyn yn ystod yr Archwiliad [CR1-121, REP2-023, REP7-248] mewn ymateb i ExQs, sylwadau a wnaed gan IP a cheisiadau am newid. Trafodir y rhain yn fanylach isod. (Darparwyd fersiwn hefyd yn DL4 [REP4-243] a oedd yn ailadrodd y fersiwn a ddarparwyd yn DL2 [REP2-023].) Mae'r holl gyfeiriadau at yr HRAR yn yr adroddiad hwn at REP7-248 oni nodir yn wahanol.
- 6.1.15. Cyhoeddodd yr ExA ExQs yn ymwneud â materion HRA yn ystod yr Archwiliad [PD-013]/ PD-014 (Cymraeg/Saesneg), [PD-022] (Cymraeg/Saesneg), [PD-027] (Cymraeg/Saesneg).

- 6.1.16. Cyflwynodd yr Ymgeisydd dri chais am newid yn ystod yr Archwiliad fel y disgrifir ym Mhennod 2 yr adroddiad hwn. Derbyniwyd y newidiadau hyn gan yr ExA fel y nodir ym Mhennod 2.
- 6.1.17. Roedd Cais am Newid 1 (CR1) [CR1-001 i CR1-126] yn cynnwys 18 newid. Darparwyd HRAR diwygiedig [CR1-121] fel rhan o ddogfennaeth CR1. Esboniwyd yn CR1-121 ei fod hefyd wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu gwybodaeth ddiwygiedig yn ymwneud â methodoleg adeiladu ar gyfer croesi Afon Dyfrdwy. Ni nodwyd unrhyw safleoedd Ewropeaidd ychwanegol.
- 6.1.18. Esboniodd CR1-121 fod gan ddau o'r newidiadau botensial i newid casgliadau'r HRA:
- Newid PS02b - cadw tanc slyri a symud y Biblinell a Adeiladir o'r Newydd yn agosach at goetir â chysylltiad swyddogaethol Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Safleoedd Madfallod Glannau Dyfrdwy a Bwcle; a
 - Newid PS03 - adleoli Gosodiad ar Ben y Tir Northop Hall, a fyddai'n cyflwyno cysylltiad draenio i Lednant Nant Wepre 1, sydd â chysylltiad hydrolegol ag ACA Safleoedd Madfallod Glannau Dyfrdwy a Bwcle.
- 6.1.19. Darperir asesiad o effeithiau posibl y newidiadau ar hen nodwedd gymhwyso coedydd derw mes digoes yr ACA yn nodiadau tystiolaeth (a) (PS02b) a (d) (PS03) i Dabl HRAR 6.3 (matrics sgrinio ACA Safleoedd Madfallod Glannau Dyfrdwy a Bwcle). Daethpwyd i'r casgliad na fyddai LSE ar yr ACA yn deillio o'r newidiadau hyn. Nid oedd unrhyw IP yn anghytuno â'r casgliad hwn.
- 6.1.20. Ni nododd yr Ymgeisydd unrhyw newidiadau i'r HRA o ganlyniad i Gais am Newid 2 [CR2-001 i CR2-022]. Ni chafodd hyn ei herio gan unrhyw IP.
- 6.1.21. Ni nododd yr Ymgeisydd a fyddai unrhyw newidiadau i'r HRA o ganlyniad i Gais am Newid 3 (CR3) [CR3-001 i CR3-019]. Fodd bynnag, yn ei lythyr eglurhaol DL6 [REP6-001], eglurodd, mewn ymateb i'r eglurhad y gofynnwyd amdano ym Mhenderfyniad Gweithdrefnol yr ExA ar CR3 [PD-025], y gallai CR3 arwain at "fân newidiadau enwol" i agosrwydd y safleoedd Ewropeaidd at y Terfynau Gorchymyn a'r pellteroedd a nodwyd rhyngddynt. Roedd o'r farn nad oedd y newidiadau CR3 yn arwain at unrhyw newid i'r asesiad LSE a gynhwysir yn y HRAR ac felly nad oedd angen diwygio canlyniadau a chasgliadau'r HRA. Ni chafodd hyn ei herio gan unrhyw IP. Diwygiwyd y pellteroedd a nodwyd rhwng y Terfynau Gorchymyn a'r safleoedd Ewropeaidd yn y HRAR wedi'i ddiweddarau a gyflwynwyd yn DL7 [REP7-248].
- 6.1.22. Mewn ymateb i gwestiwn 3.11.1 ExQ3 [PD-027] ynghylch a fyddai'r HRAR yn cael ei ddiweddarau ymhellach o ganlyniad i unrhyw newidiadau pellach i'r Datblygiad Arfaethedig yn cael eu hystyried yn ystod yr Archwiliad, nododd yr Ymgeisydd [REP7-291] fod yr HRAR diwygiedig [REP7-248] a gyflwynwyd yn DL7 yn ystyried y ceisiadau am newid dyluniad. Eglurodd fod y casgliadau cyffredinol yn aros yr un fath ag yr adroddwyd yn flaenorol ac nad oeddent wedi newid o ganlyniad i'r ceisiadau am newid. Roedd y diwygiad yn cynnwys diweddariad i'r

asesiad mewn cyfuniad i gynnwys Datblygiadau Eraill ychwanegol. Roedd hefyd yn cynnwys diweddariadau i adlewyrchu ymatebion blaenorol yr Ymgeisydd i gwestiynau 2.11.1, 2.11.2 a 2.11.14 ExQ2 [REP5-025]. Nid oedd unrhyw IP yn anghytuno â chasgliad yr Ymgeisydd.

- 6.1.23. Ni nododd yr Ymgeisydd unrhyw LSE ar safleoedd Ewropeaidd y tu allan i'r DU yng Ngwladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd yn ei HRAR nac yn ei ES. Dim ond safleoedd Ewropeaidd y DU sy'n cael sylw yn yr adroddiad hwn. Ni chodwyd unrhyw effeithiau o'r fath i'w trafod gan unrhyw IP yn ystod yr Archwiliad.

6.2. CANFYDDIADAU MEWN PERTHYNAS AG EFFEITHIAU SYLWEDDOL TEBYGOL

- 6.2.1. O dan Reoliad 63 o'r Rheoliadau Cynefinoedd, rhaid i'r Awdurdod Cymwys ystyried a fydd datblygiad yn cael LSE ar safle Ewropeaidd, naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill. Pwrpas y prawf LSE yw nodi'r angen am AA a'r gweithgareddau, y safleoedd neu'r cynlluniau a'r prosiectau i'w cynnwys i'w hystyried ymhellach yn yr AA.
- 6.2.2. Nododd yr Ymgeisydd safleoedd Ewropeaidd o fewn 10 cilometr (km) i Ffin y Seilwaith a Adeiladir o'r Newydd. Nodir y safleoedd Ewropeaidd a'r nodweddion cymwys a ystyriwyd yn asesiad LSE yr Ymgeisydd yn Adran 5 yr HRAR.
- 6.2.3. Amlygodd NE yn REP1-070 fod safleoedd Ewropeaidd ychwanegol o fewn 10km i safle'r cais, gan gynnwys safleoedd Cam 1 a Cham 2 Pyllau a Mwsoglau Canolbarth Lloegr, ac awgrymodd y gellid cynnwys geiriad am y safleoedd hyn yn y HRAR er eglurder. Fodd bynnag, cadarnhaodd ei fod yn fodlon â'r safleoedd a'r nodweddion sydd wedi'u cynnwys yn yr asesiad.
- 6.2.4. Mewn ymateb [REP5-025] i C2.11.1 yn ail gylch yr ExA o ExQs (ExQ2) a cheisiadau am wybodaeth [PD-022] nododd yr Ymgeisydd fod y ddau safle Ramsar oddeutu 8.6km ac 8.9km, yn y drefn honno, i'r dwyrain o'r Datblygiad Arfaethedig yn eu man agosaf a'u bod wedi'u dynodi ar gyfer eu cynefinoedd a'u casgliad blodau. Penderfynodd yr Ymgeisydd eu bod y tu hwnt i barth dylanwad posibl y Datblygiad Arfaethedig a chadarnhaodd nad yw'r cynefinoedd/rhywogaethau cymwys i'w cael o fewn Ffin y Seilwaith a Adeiladir o'r Newydd. Ar y sail hon roedd yn ystyried nad oedd llwybrau effaith posibl a allai arwain at LSE. Roedd y fersiwn diweddaraf o'r HRAR a gyflwynwyd yn DL7 [REP7-248] yn cyfeirio at safleoedd Ramsar ac yn cynnwys yr wybodaeth hon.
- 6.2.5. Cadarnhaodd CNC yn REP1-071 ei fod yn cytuno â'r safleoedd a'r nodweddion a ystyriwyd yn HRA yr Ymgeisydd.
- 6.2.6. Asesodd yr HRAR yr effeithiau posibl yn ystod adeiladu a gweithredu a chynnal a chadw; ni wnaeth asesu effeithiau yn ystod y cyfnod datgomisiynu. Mae'r ES [APP-055] yn nodi bod y biblinell wedi'i dylunio i oes o 40 mlynedd a bod y seilwaith cysylltiedig wedi'i ddylunio i 25 mlynedd. Mae'n cadarnhau yn Adran 3.8 mai'r sail ar gyfer asesu bywyd gweithredol y Datblygiad Arfaethedig yw 25 mlynedd. Pan ddatgomisiynir

y biblinell, byddai'n cael ei llenwi â nitrogen a'i gadael yn y fan a'r lle, a byddai nodweddion uwchben y ddaear yn cael eu datgymalu, eu clirio ac amodau'r ddaear yn cael eu hadfer i'w cyflwr blaenorol.

- 6.2.7. Cydnabu'r Ymgeisydd yn [REP1-044] fod datgomisiynu wedi'i gynnwys yn y DCO drafft (dDCO) [APP-024]. Aeth i'r afael â datgomisiynu yn yr HRAR wedi'i ddiweddarau a ddarparwyd yn DL2 [REP2-023]. Mae'r HRAR yn croesgyfeirio at Adran 3.8 o Bennod 3 yr ES [APP-055], sy'n disgrifio'r dull arfaethedig o ddatgomisiynu.
- 6.2.8. Rhagwelodd yr Ymgeisydd y byddai'r effeithiau sy'n gysylltiedig â datgomisiynu yn debyg i effeithiau adeiladu ac eglurodd fod cyfeiriadau yn y HRAR at effeithiau adeiladu yn cael eu hystyried yr un mor berthnasol i effeithiau datgomisiynu.
- 6.2.9. Yn ystod yr Archwiliad, gofynnodd yr ExA hefyd am wybodaeth am effeithiau ansawdd aer sy'n deillio o allyriadau cerbydau [PD-022]. Ceir sylwadau manylach ar hyn isod.

LSE o'r Datblygiad Arfaethedig yn Unig

- 6.2.10. Nododd yr Ymgeisydd effeithiau posibl y Datblygiad Arfaethedig yr ystyrir eu bod â'r potensial i arwain at LSE yn unig yn Adran 6.3 y HRAR.
- 6.2.11. Yr effeithiau yr ystyria'r Ymgeisydd fod ganddynt y potensial i arwain at LSE yn unig (i gyd yn ystod y gwaith adeiladu/datgomisiynu) yw:
- colli cynefin uniongyrchol ac anuniongyrchol (gan gynnwys cynefin â chysylltiad swyddogaethol);
 - marwoldeb rhywogaethau;
 - darnio cynefinoedd a/neu rywogaethau;
 - aflonyddwch gweledol;
 - aflonyddwch sŵn/dirgryniad;
 - effeithiau hydrolegol; ac
 - effeithiau ansawdd aer (dyddodiad llwch).
- 6.2.12. Daeth HRAR yr Ymgeisydd i'r casgliad na fyddai LSE o'r Datblygiad Arfaethedig yn unig ar unrhyw un o nodweddion cymwys.
- 6.2.13. Daeth HRAR yr Ymgeisydd i'r casgliad na fyddai LSE o'r Datblygiad Arfaethedig yn unig ar unrhyw un o nodweddion cymwys:
- ACA Coedwigoedd Dyffryn Alun (Adran 5.1 HRAR);
 - ACA Mynydd Helygain (Tabl 6.4 HRAR);
 - Safle Ramsar Cam 1 Pyllau a Mwsoglau Canolbarth Lloegr (Adran 5.1 HRAR); a
 - Safle Ramsar Cam 2 Pyllau a Mwsoglau Canolbarth Lloegr (Adran 5.1 HRAR).
- 6.2.14. Penderfynodd yr Ymgeisydd eu bod y tu hwnt i barth dylanwad posibl y Datblygiad Arfaethedig a chadarnhaodd nad yw'r cynefinoedd/rhywogaethau cymwys i'w cael o fewn Ffin y Seilwaith a Adeiladir o'r Newydd. Ar y sail hon roedd yn ystyried nad oedd llwybrau effaith posibl a allai arwain at LSE.

- 6.2.15. Cadarnhaodd CNC ei fod yn cytuno â chasgliad yr Ymgeisydd o ddim LSE mewn perthynas ag ACA Coedwigoedd Dyffryn Alun ac ACA Mynydd Helygain [REP1-071]. Mae'r nodweddion cymwys a dealltwriaeth yr ExA o safbwyntiau'r Ymgeisydd a CNC mewn perthynas â'r ACA hyn i'w gweld yn Atodiad 1 Tablau A1.1 ac A1.2 o'r RIES.
- 6.2.16. Ni wnaeth NE gyfeirio'n benodol at safleoedd Ramsar Cam 1 a Cham 2 Pyllau a Mwsoglau Canolbarth Lloegr yn y Datganiad o Dir Cyffredin (SoCG) terfynol [REP8-022] ond cadarnhaodd yn hynny o beth y cytunwyd ar bob mater bioamrywiaeth, gan gynnwys HRA.
- 6.2.17. Mae'r ExA yn fodlon, oherwydd lleoliad y safleoedd Ewropeaidd hyn a natur eu cynefinoedd cymwys, nad oes llwybrau effaith posibl a allai arwain at LSE ar y safleoedd a'u nodweddion.

LSE o'r Datblygiad Arfaethedig mewn Cyfuniad

- 6.2.18. Aeth yr Ymgeisydd i'r afael ag effeithiau posibl mewn cyfuniad sy'n deillio o'r Datblygiad Arfaethedig o fewn Adran 6.4 o'r HRAR, sy'n nodi'r fethodoleg a gymhwyswyd. Mae'r cynlluniau a'r prosiectau eraill sydd wedi'u cynnwys yn yr asesiad mewn cyfuniad wedi'u nodi yn Atodiad B o'r HRAR.
- 6.2.19. Roedd adran 6.4 y cais HRAR [APP-226] yn manylu ar ddull yr Ymgeisydd o asesu effeithiau cyfunol. Rhestrod Atodiad B o'r HRAR 42 o 'Ddatblygiadau Eraill' i'w hystyried yn yr asesiad cyfunol. Yn wreiddiol, ystyriwyd bod gan naw o'r Datblygiadau Eraill y potensial i gyfrannu at arwain at LSE ynghyd â'r Datblygiad Arfaethedig; manylir ar y rhain yn Nhabl 6.10 o'r HRAR ac fe'u dangosir ar Ffigur 19.1 yr ES [REP4-234].
- 6.2.20. Amlygodd yr Ymgeisydd, yn ei ymateb [REP1-044] i Q1.11.3 o gylch cyntaf yr ExA o ExQs (ExQ1) [PD-013]/ [PD-014] fod un datblygiad (ID14) wedi'i dynnu o'r HRA yn dilyn trafodaethau gydag Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru. Adlewyrchwyd hyn yn y diweddariad nesaf o'r HRAR [CR1-121].
- 6.2.21. O ganlyniad i'r newidiadau dylunio arfaethedig, nododd yr Ymgeisydd yn [REP7-248] chwe Datblygiad Arall arall gyda'r potensial ar gyfer LSE ar y cyd â'r Datblygiad Arfaethedig. O'r rhain, daeth i'r casgliad y gallai dau arwain at LSE ac aethpwyd â'r rhain ymlaen i'r cam asesu AEOI hefyd.
- 6.2.22. Nododd NE, yn RR-065 a REP1-070, fod yr asesiad cyfunol yn cynnwys cynlluniau eraill a oedd yn rhan o Brosiect ehangach Gogledd-Orllewin HyNet ac awgrymodd fod yr asesiad yn parhau i gael ei ddiweddarw wrth i fwy o wybodaeth ddod ar gael. Ymrwymodd yr Ymgeisydd yn [REP1-044] i adolygu'r angen i ddiweddarw'r asesiad pe bai gwybodaeth ychwanegol neu newydd ar gael.
- 6.2.23. Ni nodwyd unrhyw gynlluniau neu brosiectau ychwanegol gan IP i'w cynnwys yn yr asesiad cyfunol.
- 6.2.24. Yr effeithiau a ystyrir gan yr Ymgeisydd i fod â'r potensial i arwain at LSE cyfunol (i gyd yn ystod y gwaith adeiladu/datgomisiynu) yw:
- colli cynefin uniongyrchol ac anuniongyrchol (gan gynnwys cynefin â chysylltiad swyddogaethol);

- marwoldeb rhywogaethau;
- aflonyddwch gweledol;
- aflonyddwch sŵn/dirgryniad; ac
- effeithiau ansawdd aer (dyddodiad llwch).

6.2.25. Nodir y safleoedd a'r nodweddion na ellid eithrio LSE cyfunol ar eu cyfer yn Nhabl 1 isod.

6.2.26. Ni nodwyd unrhyw LSE cyfunol ar gyfer y safleoedd a'r nodweddion cymwys lle cafodd LSE eu heithrio o'r Datblygiad Arfaethedig yn unig. Mae effeithiau cyfunol wedi'u heithrio oherwydd daethpwyd i'r casgliad nad oedd llwybrau effaith posibl a allai arwain at LSE yn unig.

Tabl 1. Safleoedd Ewropeidd a nodweddion y nodwyd LSE ar eu cyfer gan yr Ymgeisydd/na ellid eu heithrio

Allwedd

C/D = adeiladu/datgomisiynu

Safle(oedd) Ewropeidd	Nodwedd(ion) Cymwys	LSE yn unig o:	LSE mewn cyfuniad o:
ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid (Croesir gan y Datblygiad Arfaethedig)	Yr holl nodweddion cymwys (cynefinoedd a rhywogaethau)	Dyddodiad llwch (C/D)	Dyddodiad llwch (C/D)
	Dyfrgwn	Colli cynefin â chysylltiad swyddogaethol (gwalau dyfrgwn posibl ar hyd Nant Wepre) (C/D) Marwoldeb o ganlyniad i faglu mewn gwagleoedd (C/D)	Colli cynefin â chysylltiad swyddogaethol (C/D) Marwoldeb (C/D)
	Eogiaid Iwerydd Llysywod pendwll y môr	Aflonyddwch o ganlyniad i oleuadau o amgylch Afon Dyfrdwy (C/D)	Aflonyddwch o ganlyniad i oleuadau o amgylch Afon Dyfrdwy (C/D)

Safle(oedd) Ewropeaidd	Nodwedd(ion) Cymwys	LSE yn unig o:	LSE mewn cyfuniad o:
	Lampreiod y nant Lampreiod yr afon Silod	Darnio o ganlyniad i oleuadau o amgylch Afon Dyfrdwy (Afon Dyfrdwy) (C/D)	
ACA Safleoedd Madfallod Glannau Dyfrdwy a Bwcle (Yn union wrth ymyl y Datblygiad Arfaethedig)	Hen goedydd derw mes digoes gyda Derw Bytholwyrdd a Gwibredyn yn Ynysoedd Prydain	Colli cynefin coetir â chysylltiad swyddogaethol yn uniongyrchol (C/D) Effeithiau hydrolegol oherwydd gweithio yn Nant/Ceunant Wepre ac o'i hamgylch (cysylltiad hydrolegol) (C/D)	Amh.
	Madfall Ddŵr Gribog	Colli cynefinoedd uniongyrchol dros dro (C/D) Marwoldeb (C/D) Aflonyddwch (C/D) Darnio (C/D)	Amh.

Safle(oedd) Ewropeaidd	Nodwedd(ion) Cymwys	LSE yn unig o:	LSE mewn cyfuniad o:
<p>AGA Aber Afon Mersi (tua 0.8km i'r gogledd)</p> <p>Safle Ramsar Aber Afon Mersi (tua 0.8km i'r gogledd)</p> <p>AGA Aber Afon Dyfrdwy (tuag 1km i'r gogledd)</p> <p>Safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy (tuag 1km i'r gogledd)</p>	<p>Pibydd coesgoch</p> <p>Cynulliad Adar Dŵr</p>	<p>Aflonyddwch o sŵn (C/D)</p> <p>Aflonyddwch o oleuadau o amgylch Afon Dyfrdwy (C/D)</p>	<p>Aflonyddwch o sŵn a golau (C/D)</p>
<p>ACA Aber Afon Dyfrdwy (tuag 1km i'r gogledd)</p>	<p>Lampreiod y môr</p> <p>Lampreiod yr afon</p>	<p>Aflonyddwch o oleuadau o amgylch Afon Dyfrdwy (C/D)</p> <p>Darn o oleuadau o amgylch Afon Dyfrdwy (C/D)</p>	<p>Amh.</p>

Canlyniadau Asesiad LSE

- 6.2.27. Daeth yr Ymgeisydd i'r casgliad na fyddai LSE o'r Datblygiad Arfaethedig ar ei ben ei hun nac ar y cyd â phrosiectau a chynlluniau eraill ar ACA Coedwigoedd Dyffryn Alun ac ACA Mynydd Helygain.
- 6.2.28. Aseswyd y safleoedd canlynol a'u nodweddion gan yr Ymgeisydd i benderfynu a allent fod yn destun AEOI o'r Datblygiad Arfaethedig ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau a phrosiectau eraill, o ystyried eu hamcanion cadwraeth:
- ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid;
 - ACA Safleoedd Madfallod Glannau Dyfrdwy a Bwcle;
 - AGA Aber Afon Mersi;
 - Safle Ramsar Aber Afon Mersi;
 - ACA Aber Afon Dyfrdwy;
 - AGA Aber Afon Dyfrdwy; a
 - safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy.
- 6.2.29. Mae'r nodweddion cymwys a'r llwybrau effaith LSE a ddangosir gan yr Ymgeisydd wedi'u crynhoi yn Nhabl 6.11 y HRAR. Mae tablau A1.1 i A1.9 o'r RIES yn rhestru'r holl safleoedd Ewropeaidd a ystyriwyd yn yr HRAR ac ar gyfer pob safle yn nodi pa lwybrau a gafodd eu sgrinio i mewn ac a gafodd eu sgrinio allan.
- 6.2.30. Nid oedd unrhyw IP yn anghytuno â'r llwybrau LSE posibl a sgriniwyd i mewn gan yr Ymgeisydd. Fodd bynnag, roedd penderfyniad yr Ymgeisydd i eithrio rhai llwybrau effaith LSE yn destun dadl gan IP a chafodd ei gwestiynu gan yr ExA yn ystod yr Archwiliad.
- 6.2.31. Mewn ymateb [REP1-070] i ExQ1.11.1 [PD-013]/ [PD-014] yn gofyn am farn NE a CNC ar gasgliadau'r Ymgeisydd mewn perthynas â safleoedd penodol, cadarnhaodd NE ei fod yn fodlon ar gasgliadau'r Ymgeisydd mewn perthynas ag ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid. Fe ildiodd i CNC mewn perthynas ag ACA Safleoedd Madfallod Glannau Dyfrdwy a Bwcle.
- 6.2.32. Mewn ymateb i ExQ1.4.14 dywedodd CNC [REP1-071] ei fod wedi adolygu'r brig cymedrig 5 mlynedd o bifyddion coesgoch a gofnodwyd yn AGA Aber Afon Dyfrdwy wrth ddynodi'r safle ac yn ôl y data diweddaraf er mwyn llywio asesiad cyflwr o'r dramwyfa a'r pifyddion cochgoes sy'n gaeafu. Daeth i'r casgliad bod y boblogaeth pifyddion coesgoch mewn cyflwr ffafriol. Yn seiliedig ar hyn a natur yr aflonyddwch fel y'i disgrifiwyd gan yr Ymgeisydd, daeth CNC i'r casgliad nad oedd y Datblygiad Arfaethedig yn debygol o gael effaith sylweddol ar AGA Aber Afon Dyfrdwy.
- 6.2.33. Cadarnhaodd CNC yn wreiddiol ei fod yn cytuno â chasgliadau'r Ymgeisydd mewn perthynas â'r holl safleoedd Ewropeaidd sy'n berthnasol i Gymru [REP1-071]. Wedi hynny cododd CNC bryderon am ACA Safleoedd Madfallod Glannau Dyfrdwy a Bwcle. Mae sylwadau ar hyn i'w gweld isod.

- 6.2.34. Cadarnhaodd NE [RR-065] ei fod yn fodlon na fyddai effeithiau goleuadau'r cyfnod adeiladu yn debygol o arwain at AEOI AGA Aber Afon Dyfrdwy, safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy, AGA Afon Mersi a safle Ramsar Afon Mersi. Nododd yn REP1-070 mewn ymateb i ExQ1.4.15 [PD-014] ei fod yn fodlon bod y lliniaru arfaethedig ar gyfer aflonyddwch goleuadau yn ddigonol. Cadarnhaodd hefyd ei fod yn fodlon â'r mesurau a gynhwysir yn y Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu Amlinellol (OCEMP) [REP7-242] i gyfyngu ar symudiadau personél o amgylch yr ardaloedd gwaith ac felly osgoi effeithiau aflonyddu cysylltiedig i adar.
- 6.2.35. Nid oedd NE yn cytuno â chasgliad sgrinio'r Ymgeisydd o ddim LSE mewn perthynas ag aflonyddwch sŵn posibl i adar sy'n gaeafu (ar dir â chysylltiad swyddogaethol), sy'n nodweddion ar AGA a safle Ramsar Aber Afon Mersi ac AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy. Yn dilyn hynny, aeth yr Ymgeisydd â'r llwybr effaith hwn ymlaen i'r asesiad AEOI yn yr HRAR DL2 wedi'i ddiweddarau [REP2-023].
- 6.2.36. Nodir isod sylwadau ar y safleoedd a'r nodweddion yr oedd LSE yn fater i'w drafod ar eu cyfer yn ystod yr Archwiliad.

AGA a safle Ramsar Aber Afon Mersi/AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy

Aflonyddwch sŵn ar adar sy'n gaeafu – ar ei ben ei hun ac mewn cyfuniad

- 6.2.37. Nododd paragraff 6.2.11 o'r HRAR fod aflonyddwch sŵn yn debygol yn ystod y gwaith adeiladu. Fodd bynnag, sgriniodd yr Ymgeisydd LSE allan o aflonyddwch sŵn ar gyfer yr holl adar sy'n gaeafu.
- 6.2.38. Nododd y nodiadau tystiolaeth i'r matricesau sgrinio yn yr HRAR y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn croesi Afon Dyfrdwy gan ddefnyddio dulliau croesi di-ffos a dywedodd y byddai'r gwahaniaeth uchder rhwng cynefin y fflatiau llaid a'r pyllau allanfa/mynedfa croesi di-ffos arfaethedig yn lleihau posibilrwydd aflonyddu. Nodir bod nifer y rhywogaethau adar cymwys a gofnodwyd mewn manau eraill ar hyd llwybr y Datblygiad Arfaethedig yn isel.
- 6.2.39. Nododd NE [RR-065] nad oedd yn cytuno â chasgliadau'r Ymgeisydd ynghylch aflonyddwch sŵn i adar sy'n gaeafu a cheisiodd fanylion pellach ar lefelau sŵn disgwylidiedig. Nid oedd yn cytuno â chyffredinolriad yr Ymgeisydd fod aflonyddwch sylweddol yn annhebygol y tu hwnt i bellter o 300m a dywedodd y dylid ystyried gwaith aflonyddwch uchel (gan gynnwys stancio a thorri hydrolog). Ailadroddodd NE y pwyntiau hyn yn [REP1-070].
- 6.2.40. Rhoddodd yr Ymgeisydd ragor o wybodaeth am lefelau sŵn yn [REP1-042] ac yn yr HRAR wedi'i ddiweddarau [REP2-023]. Y lefelau sŵn a ragwelwyd 10m o'r technegau gosod di-ffos oedd 82 desibel (dB). Byddai'r pyllau allanfa a mynedfa o leiaf 16m o lannau'r afon ac ar newid uchder o ryw 2m, gan ddarparu rhywfaint o wanhad o bosibl. Roedd y lefelau sŵn a ragwelir ar 16m oddeutu 78dB. Cydnabu'r Ymgeisydd y potensial i lefelau'r sŵn fod yn uwch na'r trothwyon a allai ennyn ymateb gan yr adar. Dywedodd y byddai'r gwaith croesi arfaethedig yn fyr eu hyd

ac y byddai unrhyw aflonyddwch yn digwydd dros dro a bod digon o gynefin arall ar gael ar hyd Afon Dyfrdwy i ddarparu ar gyfer adar wedi'u dadleoli dros dro. Dyma oedd y sail i gasgliad gwreiddiol dim LSE. Roedd yr Ymgeisydd wedi penderfynu cario'r llwybr effaith hwn ymlaen at asesiad AEOI ar y sail na ellid diystyru LSE yn ystod y gwaith adeiladu yn absenoldeb lliniaru, a darparodd HRAR DL2 [REP2-023] ddiweddariad yn unol â hynny.

- 6.2.41. Mewn ymateb i ExQ2.11.3 [PD-022] nododd yr Ymgeisydd fod rhywogaethau cymwys AGA a safle Ramsar Aber Afon Mersi ac AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy yn hwyaid ac adar dŵr yn bennaf, y byddai amgylcheddau morydol a dŵr yn cynrychioli cynefin â chysylltiad swyddogaethol ar eu cyfer [REP5-025]. Fel y manylir yn y matricesau sgrinio perthnasol yn yr HRAR, mae mwyafrif y Ffin Seilwaith a Adeiladir o'r Newydd yn cynnwys tir fferm â'r, glaswelltir gwael wedi'i led-wella a glaswelltir wedi'i wella, sy'n gynefinoedd anffafriol ar gyfer y rhywogaethau adar cymwys, ac felly nid ystyrir bod ganddynt gysylltiad swyddogaethol â'r safleoedd Ewropeaidd.
- 6.2.42. O ran sut y canfuwyd maint y cynefin swyddogaethol, eglurodd yr Ymgeisydd ei fod wedi ystyried dewisiadau cynefinoedd a chylchoedd bywyd rhywogaethau cymwys AGA / safle Ramsar Aber Afon Mersi ac AGA / safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy, presenoldeb cynefin sy'n addas i gynnal y rhywogaethau hyn, a chanlyniadau'r arolygon adar sylfaenol a gynhaliwyd i lywio'r asesiad effaith ecolegol (Atodiad 9.8 ES: Adroddiad Adar [REP4-112]).
- 6.2.43. O ran y lefelau sŵn a fyddai, ym marn yr Ymgeisydd, yn arwain at naill ai LSE neu AEOI, eglurodd yr Ymgeisydd fod adolygiad llenyddiaeth wedi nodi tystiolaeth o aflonyddwch i rydwyr ac adar dŵr ar lefelau sŵn sy'n fwy na 56dB, fel y manylwyd ym mharagraff 6.2.11 o'r HRAR, ac y defnyddiwyd hwn fel y trothwy ar gyfer pennu'r potensial ar gyfer LSE. O ran AEOI, roedd yr Ymgeisydd o'r farn nad oedd yn briodol ystyried trothwy sŵn ar ei ben ei hun a bod nifer o ffactorau eraill wedi llywio asesiad o'r fath. Mae'r rhain yn cynnwys nifer yr adar cymwys yr effeithir arnynt; hyd, agosrwydd, a maint gofodol yr aflonyddwch sŵn; topograffeg; ac argaeledd adnodd/cynefin amgen i ddarparu ar gyfer unrhyw adar sydd wedi'u dadleoli. Hysbysodd yr holl ffactorau hyn yr asesiad a nodwyd yn Adran 7 yr HRAR a'r casgliad na fyddai'r Datblygiad Arfaethedig yn arwain at AEOI AGA a safle Ramsar Aber Afon Mersi ac AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy.
- 6.2.44. Mewn ymateb i ExQ2.11.4 ynghylch a fyddai unrhyw gydrannau 'ysgytwol' osgled mawr yn cael eu defnyddio yn ystod y gwaith adeiladu yn agos at y safleoedd hyn, cadarnhaodd yr Ymgeisydd [REP5-025] nad oedd yn rhagweld y byddai unrhyw fecanweithiau neu fethodoleg adeiladu y gellid eu hystyried yn rhai osgled mawr neu ysgytwol. Byddai peiriannau ac offer rheolaidd a safonol yn cael eu defnyddio i adeiladu croesfan Afon Dyfrdwy.
- 6.2.45. Ymatebodd yr Ymgeisydd yn [REP5-025] i ExQ2.11.6 ynghylch pa nodweddion cymwys ac i ba fath o aflonyddwch yr oedd ei gasgliad am botensial LSE yn deillio o effeithiau aflonyddwch cyfun yn berthnasol. Gan mai dim ond gwenoliaid y môr a phibyddion coesgoch a gofnodwyd

mewn niferoedd mwy nag 1% o boblogaethau'r dyfyniad AGA/Taflen Wybodaeth Ramsar neu Arolwg Adar Gwlypdir (WeBS) (fel y nodir ym mharagraff 4.2.9 o'r HRAR), dywedodd mai dim ond i'r ddwy rywogaeth gymwys hyn y byddai effeithiau aflonyddwch cyfun yn berthnasol. Byddai aflonyddwch yn deillio o weithgareddau adeiladu a gallai fod o olau, sŵn/dirgryniad, a/neu bresenoldeb dynol. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd fod yr holl lwybrau aflonyddwch hyn wedi'u hystyried wrth ddod i'r casgliadau asesu cyfunol.

6.2.46. Ceir sylwadau pellach ar hyn yn Adran 6.5 y bennod hon.

ACA Aber Afon Dyfrdwy

Effeithiau hydrolegol

- 6.2.47. Mae adran 6.2 o'r HRAR yn nodi y gallai '*frac-out*'⁹ yn ystod drilio cyfeiriadol llorweddol y gwaith croesi di-ffos arwain at farwolaethau rhywogaethau pysgod cymwys ond mae'n nodi, o ystyried daeareg Afon Dyfrdwy, nad yw hyn yn debygol o ddigwydd. Sgriniodd yr HRAR LSE o effeithiau hydrolegol ar nodweddion cymhwyso lampreiod y môr a lampreiod yr afon yr ACA.
- 6.2.48. Gofynnodd CNC [RR-066] fod mesurau lliniaru'n cael eu cynnig i osgoi'r prif amser mynd ar gyfer rhywogaethau pysgod allweddol er mwyn sicrhau bod effeithiau felly'n fach iawn, ac eglurhad ynghylch amserlenni ar gyfer croesfannau di-ffos Afon Dyfrdwy).
- 6.2.49. Mewn ymateb [REP5-044] i ExQ2.11.7 [PD-022], nododd CNC ei fod yn ystyried bod y prif gyfnod mudo i lampreiod y môr yn disgyn yn gyffredinol rhwng mis Ebrill a mis Mehefin, gyda chafeat y gall hyn fod yn ddibynnol ar dymheredd y dŵr gan fod 12° yn dymheredd sbardun. Nododd fod mudo lampreiod yr afon (a'r nant) yn digwydd rhwng mis Hydref a mis Mawrth, a'r silio ym mis Ebrill.
- 6.2.50. Esboniodd yr Ymgeisydd [REP1-042] nad oedd disgwyl i waith cwblhau'r groesfan ddi-ffos gymryd mwy na phedair wythnos, fel y nodwyd yn y HRAR. Fel y nodir yn Adran 6.2 HRAR, cynhaliwyd ymchwiliadau geodechnegol i'r ddwy ochr i Afon Dyfrdwy, a'u canlyniadau wedi'u cynnwys yn yr ES yn Atodiad 11.6 (Adroddiad Ymchwilio Daear) [APP-135]. Byddai'r groesfan yn ddigon dwfn (o leiaf 15m) nes bod trwch digonol o strata cydlynol anystwyth, o athreiddedd isel fel bod *frac-out* bentonit yn annhebygol o ddigwydd. Mewn achos annhebygol iawn o *frac-out* oherwydd natur lanw gyflym Afon Dyfrdwy, byddai bentonit yn cael ei wasgaru a'i wanhau'n gyflym o fewn y golofn ddŵr, gan atal daliant lleol. Felly, roedd yr Ymgeisydd o'r farn na fyddai LSE ar dderbynyddion, gan gynnwys rhywogaethau pysgod allweddol, yn Afon Dyfrdwy ac nad oedd angen gwaith a amserwyd yn dymhorol.
- 6.2.51. Derbyniodd CNC [REP1-071] gasgliadau'r Ymgeisydd ar risg isel *frac-out* yn ystod y gwaith drilio cyfeiriadol llorweddol. Amlygodd hefyd, oherwydd yr amserlen arfaethedig o 4 wythnos ar gyfer y gwaith, y gellid osgoi'r

⁹ Lle rhyddheir llaid drilio trwy greigwely wedi'i dorri i'r graig a'r tywod o'i amgylch ac mae'n teithio tuag at yr wyneb.

cyfnodau mudol brig. Cadarnhaodd yn ei ymateb [REP5-044] i ExQ2.11.8 ei fod yn cytuno na fyddai LSE ar nodweddion lampreiod y môr a'r afon yn yr ACA.

ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid

Effeithiau ansawdd aer – mewn cyfuniad

- 6.2.52. Nododd Tabl 6.10 o'r cais HRAR [APP-226] y potensial i Ddatblygiad Arall 14 gael effeithiau cyfunol ar yr holl nodweddion cymwys o ganlyniad i ddyddodiad llwch (ac effeithiau aflonyddwch cyfunol ar rywogaethau pysgod cymwys) ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid.
- 6.2.53. Eglurwyd wedyn ym mharagraff 19.9.1 o Adendwm yr ES ar gyfer CR1 [CR1-124] fod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau na fyddai adeiladu ID14 yn digwydd ar yr un pryd â'r Datblygiad Arfaethedig. Yn unol â hynny, cafodd ei ddileu o'r rhestr o gynlluniau a phrosiectau a gynhwysir yn yr asesiad cyfunol yn yr HRAR wedi'i ddiweddarau [CR1-121] a ddarparwyd â'r dogfennau cais am newid a dderbyniwyd.
- 6.2.54. Nodwyd potensial ar gyfer effeithiau llwch mewn cyfuniad hefyd yn Nhabl 6.10 yr HRAR mewn perthynas â Datblygiad Arall 27. Mewn ymateb i ExQ2.11.9 [PD-022], cadarnhaodd yr Ymgeisydd fod y casgliad LSE ar gyfer effeithiau llwch cyfunol ar ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid yn berthnasol i'r holl nodweddion cymwys (cynefinoedd a rhywogaethau) [REP5-025].
- 6.2.55. Ceir sylwadau pellach ar hyn yn Adran 6.5 y bennod hon.

Colli cynefinoedd/marwolaethau dyfrgwn – ar ei ben ei hun ac mewn cyfuniad

- 6.2.56. Roedd y rhestr o gyrsiau dŵr lle cofnodwyd arwyddion o ddyfrgwn ym mharagraff 4.4.7 o'r HRAR DL2 wedi'i ddiweddarau yn cynnwys lleoliadau ychwanegol o fewn ac yn agos at Ffin y Seilwaith a Adeiladir o'r Newydd. Mewn ymateb i ExQ2.11.11 [PD-022], cadarnhaodd yr Ymgeisydd [REP5-025] fod effeithiau posibl ar ddyfrgwn ar hyd yr holl gyrsiau dŵr a arolygwyd, a lle cofnodwyd arwyddion maes dyfrgwn, wedi'u hystyried o fewn yr HRAR. Cadarnhaodd arwyddion maes bresenoldeb dyfrgwn ar hyd y cyrsiau dŵr hyn ond ni chofnodwyd unrhyw fannau gorffwys. Dywedodd yr Ymgeisydd fod yr asesiad a gyflwynwyd yn nodyn tystiolaeth (b) i'r matrices sgrinio a gynhwysir yn Nhabl 6.2 yr HRAR yn ddilys o hyd, a ddaeth i'r casgliad bod potensial am LSE ar ddyfrgwn mewn perthynas â cholli cynefin â chysylltiad swyddogaethol ar hyd Nant Wepre a phosibilrwydd maglu dyfrgwn mewn gwagleoedd wedi'u creu yn ystod y gwaith adeiladu.
- 6.2.57. Nododd Tabl 6.10 o HRAR y cais [APP-226] y potensial i Ddatblygiad Arall 27 gael effeithiau cyfunol ar ddyfrgwn, ond ni nododd y llwybr effaith posibl. Mewn ymateb i ExQ2.11.10 cadarnhaodd yr Ymgeisydd fod ei gasgliad, sef bod potensial ar gyfer LSE cyfunol ar ddyfrgwn pe bai adeiladu pob datblygiad yn digwydd ar yr un pryd, mewn perthynas â cholli cynefin (gan gynnwys cynefin â chysylltiad swyddogaethol) a marwolaethau o ganlyniad i fagl mewn gwagleoedd [REP5-025].

6.2.58. Ceir sylwadau pellach ar hyn yn Adran 6.5 y bennod hon.

ACA Safleoedd Madfallod Glannau Dyfrdwy a Bwcle

Effeithiau ansawdd aer

6.2.59. Nid oedd yr HRAR yn cynnwys asesiad o effeithiau ansawdd aer o allyriadau cerbydau, wrth bedwar dargyfeiriad ffordd o fewn 200m i ACA Safleoedd Madfallod Glannau Dyfrdwy a Bwcle ar y sail y byddai gwyradau yn "rhai dros dro a byr" (Adran 6.2 o'r HRAR).

6.2.60. Mewn ymateb i ExQ2.11.12 [PD-022], ynghylch hyd y gwyradau ffordd a'r symudiadau cerbyd disgwylidig ar hyd y gwyradau hyn, cadarnhaodd yr Ymgeisydd y rhagwelwyd y byddai cau'r ffyrdd yn para hyd at bythefnos [REP5-025]. Byddai cau Pinfold Lane a Shotton Lane dros dro yn arwain at ddargyfeirio traffig i'r B5125 Ffordd Treffynnon, sef y llwybr agosaf at yr ACA. Dywedodd yr Ymgeisydd na fyddai hyn yn fwy na'r amrywiad dyddiol arferol disgwylidig o ran maint traffig.

6.2.61. Cadarnhaodd CNC yn ei ymateb [REP5-044] i ExQ2.11.12 ei fod o'r farn nad oedd newidiadau posibl i ansawdd aer sy'n deillio o'r gwyradau ffyrdd arfaethedig yn debygol o gael LSE mewn perthynas â'r amcanion cadwraeth ar gyfer nodweddion yr ACA (Madfallod Dŵr Cribog a choetir llydanddail).

Effeithiau colli cynefin, marwoldeb, aflonyddwch, darnio ar fadfallod dŵr cribog - ar ei ben ei hun

6.2.62. Dywed paragraff 4.3.6 o'r HRAR, o ganlyniad i newidiadau arfaethedig CR1, nad oedd pum corff dŵr ychwanegol a gwmpaswyd wedi bod yn destun asesiad Mynegai Addasrwydd Cynefinoedd (HSI) ar gyfer madfallod dŵr cribog gan eu bod wedi'u nodi y tu allan i ffenestri'r arolwg tymhorol. Roedd ExQ2.11.13 [PD-022] yn gofyn i'r Ymgeisydd gadarnhau'r dull a gymerwyd i asesu cyrff dŵr nad oeddent yn destun asesiad HSI, gan gynnwys y pum corff dŵr ychwanegol a gwmpaswyd o ganlyniad i CR1.

6.2.63. Ymatebodd yr Ymgeisydd yn [REP5-025]. Eglurodd y byddai effeithiau yn Lloegr ar y cyrff dŵr hyn nad ydynt yn destun asesiad HSI ac sydd y tu allan i 'barth risg coch' NE (sy'n cynnwys poblogaethau madfallod dŵr cribog o bwysigrwydd rhanbarthol, cenedlaethol neu ryngwladol) yn cael eu cwmpasu gan Drwydded Lefel Rhanbarth (mesur D-BD-044 o'r Gofrestr Camau Gweithredu ac Ymrwymadau Amgylcheddol (REAC) [REP7-236]).

6.2.64. Cadarnhaodd fod asesiad rhagofalus wedi'i gymhwyso i gyrff dŵr nad ydynt yn destun asesiad HSI sydd yn y parth risg coch yn Lloegr neu sydd yng Nghymru (oni bai eu bod wedi cael eu cwmpasu allan oherwydd amodau amgylcheddol anaddas ar adeg yr arolwg neu wedi'u gwahanu oddi wrth y Datblygiad Arfaethedig gan rwystr mawr rhag gwasgaru), ac y tybiwyd bod madfallod dŵr cribog yn bresennol.

6.2.65. Amlygodd yr Ymgeisydd mai dim ond 80 o'r 222 o gyrff dŵr ledled ardal yr arolwg (paragraff 4.3.6 yr HRAR) sydd yng Nghymru a dim ond cyfran o'r rhain sydd o fewn ACA Safleoedd Madfallod Glannau Dyfrdwy a Bwcle

(ac ACA Mynydd Helygain) neu o fewn tua 500m i'r ACA (ac felly â chysylltiad swyddogaethol â'r HRA ac yn berthnasol iddo). Tynnodd yr Ymgeisydd sylw hefyd at y ffaith bod y pum corff dŵr ychwanegol sy'n rhan o CR1 ym mhen gogledd-ddwyrain y Datblygiad Arfaethedig yn Lloegr ac nad ydynt wedi'u cysylltu'n swyddogaethol â'r un o'r ACA.

6.2.66. Ceir sylwadau pellach ar hyn yn Adran 6.5 y bennod hon.

Madfallod Dŵr Cribog (GCN) - arolygon

6.2.67. Dywedodd CNC yn ei WR a'i ymateb i ExQ1.4.8 [REP1-071] ei fod o'r farn bod yr arolygon GCN wedi'u cynnal yn unol â chanllawiau cyhoeddedig, eu bod yn gymesur ac felly'n foddhaol at ddibenion llywio egwyddorion adeiladu a gweithredu'r Datblygiad Arfaethedig. Fodd bynnag, roedd hefyd yn cwestiynu a ystyriwyd yn yr asesiadau yr amodau glawiad isel yn ystod Gwanwyn 2022 (a allai effeithio ar fridio); ac a roddwyd ystyriaeth i'r ystod chwilota ar gyfer GCN o fewn pyllau sydd yn Lloegr, a allai o bosibl fforio o fewn tir yng Nghymru.

6.2.68. Roedd yr Ymgeisydd o'r farn [REP2-038] ei fod wedi ystyried y materion hyn yn briodol yn yr asesiad a thrwy'r camau lliniaru a gynhwysir yn yr OCEMP [REP7-242]. Eglurodd mai dim ond saith o'r pyllau a gyflwynwyd ar gyfer arolygon presenoldeb/absenoldeb yng Nghymru a gofnodwyd fel rhai sych yn ystod yr arolygon. O'r rhain, cofnodwyd presenoldeb GCN yn un ohonynt yn ystod y pum arolwg cychwynnol; cofnodwyd ei fod yn sych ar ymweliad y chweched arolwg. Roedd yr holl gyrff dŵr a gofnodwyd wedyn fel rhai sych yn destun o leiaf un arolwg llwyddiannus, ac fe'u cofnodwyd fel rhai sych ar ymweliad yr ail, y trydydd neu'r pedwerydd arolwg. Beth bynnag, byddai'r mesurau lliniaru arfaethedig a Datganiad Dull Gweithio Rhagofalus (fel y'i nodir yn yr OCEMP) i ddiogelu GCN yn ystod y gwaith adeiladu yn cael eu cymhwyso ar draws y Datblygiad Arfaethedig cyfan. Byddai arolygon cyn-adeiladu yn cael eu cwblhau i lywio gofynion trwyddedu a lliniaru fel y'u sicrhawyd gan Ofyniad (R) 12 y dDCO [REP9-011]. Cytunodd yr Ymgeisydd ei bod yn debygol bod ystod fforio ddaearol GCN yn Lloegr yn estyn i Gymru ac roedd yn ystyried y byddai'r camau lliniaru arfaethedig yn diogelu GCN yn ystod y gwaith adeiladu.

6.2.69. Ceir sylwadau pellach ar hyn yn Adran 6.5 y bennod hon.

Asesiad LSE - Crynodeb

6.2.70. Mae'r ExA yn fodlon, ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd, bod y llwybrau effaith cywir ar bob safle Ewropeaidd wedi cael eu hasesu ac mae'n fodlon â'r dull o asesu effeithiau arwyddocaol tebygol ar eu pennau eu hunain ac ar y cyd.

6.2.71. Mae'r safleoedd a'r nodweddion na ellid eithrio LSE ar eu cyfer, a'r llwybrau perthnasol, wedi'u nodi yn Nhabl 1 uchod ac yn cael eu hystyried ymhellach yn Adran 6.4 y bennod hon.

6.2.72. Gan ystyried y rhesymeg a ddarparwyd, mae'r ExA o'r farn bod y Datblygiad Arfaethedig yn debygol o gael effaith sylweddol o'r llwybrau a nodwyd yn Nhabl 1.2.1 uchod ar nodweddion cymwys y safleoedd

Ewropeaidd o'i ystyried ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill. Ni ddadleuwyd hyn gan IP yn ystod yr Archwiliad.

6.3. AMCANION CADWRAETH

- 6.3.1. Mae'r amcanion cadwraeth ar gyfer y safleoedd a'r nodweddion a nodwyd uchod yn Nhabl 1.2.1 wedi'u nodi yn Atodiad A o HRAR yr Ymgeisydd. Mae Tabl 5.2 yr HRAR yn manylu ar y bygythiadau a'r pwysau hysbys i'r safleoedd hyn.
- 6.3.2. Cadarnhaodd NE [REP1-070] a CNC [REP1-071] mewn ymateb i ExQ1.11.2 [PD-013]/ [PD-014] eu bod yn fodlon bod yr amcanion cadwraeth ar gyfer y safleoedd Ewropeaidd fel y'u nodir yn Atodiad A yr HRAR yn gywir.
- 6.3.3. Mewn ymateb i ExQ2.11.16 [PD-022] ynghylch statws cadwraeth cyfredol y safleoedd Ewropeaidd y daeth yr HRA i gasgliad o LSE ar eu cyfer, dywedodd yr Ymgeisydd nad yw'r wybodaeth hon ar gael i'r cyhoedd [REP5-025]. Eglurodd fod yr wybodaeth am amcanion cadwraeth a gyflwynwyd yn Atodiad A o'r HRAR wedi'i chael o ddogfennau Amcanion Cadwraeth (Lloegr) a Chynllun Rheoli Craidd (Cymru) ar gyfer pob safle Ewropeaidd.

6.4. CANFYDDIADAU MEWN PERTHYNAS AG EFFEITHIAU ANDWYOL AR GYFANRWYDD

- 6.4.1. Mewn ymateb i ExQ2.11.16 [PD-022] ynghylch statws cadwraeth cyfredol y safleoedd Ewropeaidd y daeth yr HRA i gasgliad o LSE ar eu cyfer, dywedodd yr Ymgeisydd nad yw'r wybodaeth hon ar gael i'r cyhoedd [REP5-025]. Eglurodd fod yr wybodaeth am amcanion cadwraeth a gyflwynwyd yn Atodiad A o'r HRAR wedi'i chael o ddogfennau Amcanion Cadwraeth (Lloegr) a Chynllun Rheoli Craidd (Cymru) ar gyfer pob safle Ewropeaidd].
- 6.4.2. Mae'r ExA yn fodlon, yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddarparwyd, fod y llwybrau cywir wedi'u hasesu ar gyfer y safleoedd perthnasol. Mae'r adran hon yn trafod y casgliadau mewn perthynas ag AEoI ar gyfer pob safle.
- 6.4.3. Nodir dull yr Ymgeisydd o ymdrin â'r asesiad AEoI cyfunol yn ei HRAR [REP7-248].
- 6.4.4. Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r Archwiliad, mae'r ExA yn fodlon y gellir seilio asesiad o AEoI o'r Datblygiad Arfaethedig ar y cyd â chynlluniau a phrosiectau eraill ar yr wybodaeth hon ac nad oes angen ystyried unrhyw gynlluniau na phrosiectau eraill.

Lliniaru

- 6.4.5. Nodir mesurau lliniaru arfaethedig yn Adran 7 o'r HRAR, y gwneir croesgyfeiriad ohonynt at y mesurau cyfatebol sydd wedi'u cynnwys yn yr REAC [REP7-236]. Cadarnhaodd Adran 7.1 yr HRAR y byddai Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP) yn cael ei weithredu yn ystod y gwaith adeiladu, a fyddai'n cael ei lywio gan y mesurau a nodir yn y REAC a'r OCEMP [REP7-242]. Mae'r CEMP wedi'i sicrhau gan R5 y dDCO.

- 6.4.6. Manylir ar fesurau lliniaru penodol pellach drwy gydol Adran 7 yr HRAR ac maent yn cynnwys mesurau arfer gorau mewn perthynas ag atal llwch, atal llygredd dŵr, cael trwyddedau rhywogaethau gwarchoddedig perthnasol, mesurau i osgoi maglu dyfrgwn, dylunio goleuo priodol, a phlannu coetir newydd. Ystyriwyd y mesurau hyn yn asesiad yr Ymgeisydd o'r effeithiau ar gyfanrwydd.
- 6.4.7. Mewn ymateb i ExQ1.11.5 [PD-014] tynnodd yr Ymgeisydd sylw at y canllawiau a ddefnyddiwyd, yn bennaf canllawiau'r Sefydliad Rheoli Ansawdd Aer, i ddatblygu mesurau lliniaru priodol ar gyfer rheoli llwch adeiladu [REP1-044].
- 6.4.8. Mewn perthynas ag effeithiau cyfunol, cadarnhaodd Adran 7.8 yr HRAR fod Datblygiadau Eraill 1a, 19, 21 a 27 yn cynnig eu mesurau lliniaru eu hunain (fel y disgrifir yn Atodiad B). Nododd ei bod yn gyfnod cyn-ymgeisio ar y Datblygiadau Eraill sy'n weddill a thybiodd y byddent yn sicrhau camau lliniaru priodol er mwyn osgoi effeithiau andwyol.

Safleoedd Ewropeaidd nad anghytunwyd ynghylch casgliad yr Ymgeisydd o ddim AEOI yn eu cylch

- 6.4.9. Daeth HRAR yr Ymgeisydd i'r casgliad na fydd y Datblygiad Arfaethedig yn arwain at AEOI i'r safleoedd Ewropeaidd canlynol a'u nodweddion ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad:
- ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid; ac
 - ACA Aber Afon Dyfrdwy.
- 6.4.10. Disgrifir y mesurau lliniaru arfaethedig ar gyfer y safleoedd hyn yn Adran 7.2 o'r HRAR. Mae'r mesurau arfaethedig yn cynnwys Cynllun Rheoli Llŵch, goruchwyliaeth gan Glerc Gwaith Ecolegol, darparu dulliau dianc addas o ffosydd neu wagleoedd neu osod ffensys gwahardd dros dro o'u cwrpas fel sy'n briodol a dyluniad goleuo addas. Mae'r mesurau hyn wedi'u cynnwys yn yr REAC ac wedi'u sicrhau trwy R5 (CEMP) ac R11 (Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecolegol) y dDCO.
- 6.4.11. Nodir nodweddion y safleoedd hyn y nodwyd LSE ar eu cyfer, ond yr eithriwyd AEOI ar eu cyfer, yn Nhabl 2 isod.
- 6.4.12. Ni chododd yr ANCB, nac IP eraill, bryderon mewn perthynas â chasgliadau'r Ymgeisydd ar gyfer y safleoedd hyn a'u nodweddion. Cadarnhaodd CNC ei fod yn cytuno â chasgliad yr Ymgeisydd o ddim LSE mewn perthynas â'r safleoedd hyn [REP1-071].
- 6.4.13. Mae'r ExA yn fodlon ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn yr HRAR y gellir eithrio AEOI ar y safleoedd hyn a'u nodweddion cymwys.

Tabl 2: LSE ar safleoedd Ewropeaidd a nodweddion cymwys y gellir eithrio AEOI o'r Datblygiad Arfaethedig (ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad) yn eu cylch

Safle(oedd) Ewropeaidd	Nodwedd(ion) Cymwys	Nodwyd LSE o:	AEOI ar ei ben ei hun	AEOI mewn cyfuniad
ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid	Cyrsiau dŵr o lefelau gwastad i fynyddig gyda'r llystyfiant <i>Ranunculus fluitantis</i> a <i>Callitriche-Batrachion</i> Llyriad nofiadwy	Effeithiau ansawdd aer (dyddodiad llwch) (C/D)	X [APP-226] Cytunwyd gyda CNC [REP1-071]	X [APP-226] Cytunwyd gyda CNC [REP1-071]
	Eogiaid Iwerydd Lampreiod y môr Lampreiod y nant Lampreiod yr afon Silod	Aflonyddwch o oleuadau o amgylch gosodiad croesfan ddi-ffos Afon Dyfrdwy (C/D) Darnio cynefinoedd/rhywogaethau (C/D) Effeithiau ansawdd aer (dyddodiad llwch) (C/D)		

Safle(oedd) Ewropeaidd	Nodwedd(ion) Cymwys	Nodwyd LSE o:	AEoI ar ei ben ei hun	AEoI mewn cyfuniad
	Dyfrgwn	Colli cynefinoedd a/neu farwolaethau uniongyrchol ac anuniongyrchol (C/D) Effeithiau ansawdd aer (dyddodiad llwch) (C/D)		
ACA Aber Afon Dyfrdwy	Lampreiod y môr Lampreiod yr afon	Aflonyddwch (C/D) Darnio cynefinoedd/rhywogaethau (C/D)	X [APP-226] Cytunwyd gyda CNC [REP1-071]	X [APP-226] Cytunwyd gyda CNC [REP1-071]

Allwedd:

C/D = Adeiladu/ Datgomisiynu

X = dim AEoI

Safleoedd Ewropeaidd yr oedd casgliad yr Ymgeisydd o ddim AEOI yn eu cylch yn destun archwiliad pellach

- 6.4.14. Daeth yr Ymgeisydd i'r casgliad o ddim AEOI ar gyfer y safleoedd canlynol a'u nodweddion cymwys:
- ACA Safleoedd Madfallod Glannau Dyfrdwy a Bwcle;
 - AGA Aber Afon Mersi;
 - safle Ramsar Aber Afon Mersi;
 - AGA Aber Afon Dyfrdwy; a
 - safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy.
- 6.4.15. Cyflwynir asesiad yr Ymgeisydd o effeithiau'r Datblygiad Arfaethedig ar ei ben ei hun ac ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill yn Adrannau 7.2 i 7.7 ac Adran 7.8 (a gefnogir gan Atodiad B) o'r HRAR, yn y drefn honno. Daeth i'r casgliad na fyddai'r Datblygiad Arfaethedig yn effeithio'n andwyol ar gyfanrwydd unrhyw un o'r safleoedd Ewropeaidd a'r nodweddion a aseswyd.
- 6.4.16. Roedd rhai o gasgliadau'r Ymgeisydd o ddim AEOI mewn perthynas â'r safleoedd Ewropeaidd hyn a nodweddion cymwys penodol yn destun dadl gan IP ac fe'u trafodwyd trwy gydol yr Archwiliad. Nodir y cofnod o archwilio'r materion hyn isod.
- 6.4.17. Nododd NE yn REP1-070 mewn ymateb i ExQ1.4.15 [PD-014] ei fod yn ansicr o hyd ynghylch lliniaru ar gyfer aflonyddwch sŵn. Gofynnodd am roi ystyriaeth bellach i amseriad y gwaith a fyddai'n agos at nifer sylweddol o adar yr AGA a chadarnhau amseriad y gwaith yn agos at Afon Dyfrdwy.
- 6.4.18. Cadarnhaodd CNC yn wreiddiol ei fod yn cytuno â chasgliadau'r Ymgeisydd na fyddai AEOI ar unrhyw safle Ewropeaidd [REP1-071]. Yn dilyn hynny, dywedodd yn ei ymateb [REP5-044] i ExQ2 [PD-022] na allai gytuno eto ar unrhyw AEOI ar ACA Safleoedd Glannau Dyfrdwy a Bwcle. Yna cadarnhaodd yn [REP7-318] ei fod yn cytuno ag asesiad yr Ymgeisydd o'r effeithiau ar y safleoedd Ewropeaidd, gan gynnwys meini prawf a chasgliadau asesu diwygiedig yr Ymgeisydd yn seiliedig ar 1.6km o bellter gwasgaru GCN (mewn ymateb i gwestiwn cyfeirnod ID 2, Tabl 4.1 o'r RIES [OD-008]), yn unol â chanllawiau'r Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) wedi'u diweddarau. Amlygodd fod casgliadau'r asesiad yr un mor berthnasol i ACA Safleoedd Madfallod Glannau Dyfrdwy a Bwcle ac ACA Mynydd Helygain, y mae GCN hefyd yn nodwedd gymhwysol arni.
- 6.4.19. Ceir sylwadau pellach ar y materion hyn isod.

AGA a safle Ramsar Aber Afon Mersi / AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy

- 6.4.20. Darperir disgrifiad o'r safleoedd Ewropeaidd hyn a'u nodweddion cymwys, a'r effeithiau posibl yn sgil y Datblygiad Arfaethedig, yn Adrannau 5 a 7 o HRAR yr Ymgeisydd, yn y drefn honno.

6.4.21. Rhoddodd HRAR yr Ymgeisydd asesiad a oedd yn mynd i'r afael â'r potensial ar gyfer AEOI o ganlyniad i:

- Aflonyddwch sŵn/dirgryniad a goleuadau ar bibyddion coesgoch a'r casgliadau o adar dŵr, ar ei ben ei hun ac mewn cyfuniad.

6.4.22. Cododd NE bryderon yn ystod yr Archwiliad ynghylch casgliadau'r Ymgeisydd mewn perthynas ag aflonyddwch sŵn ar adar sy'n gaeafu. Ceir sylwadau manylach ar hyn isod.

Effeithiau aflonyddwch sŵn ar adar sy'n gaeafu, ar ei ben ei hun ac mewn cyfuniad

6.4.23. Rhoddodd yr Ymgeisydd ragor o wybodaeth am gamau lliniaru sŵn arfaethedig yn [REP1-042] ac yn HRAR DL2 wedi'i ddiweddarau [REP2-023]. Nododd fod camau lliniaru arfaethedig yn cynnwys dulliau sgrinio sŵn dros dro, rhwystrau acwstig a rheolaeth, megis palisiau (fel y nodir ym mesurau D-NV-005 a D-NV-009 y REAC [REP7-236]), wedi'u sicrhau gan R4 (Dylunio Cynllun) ac R5 (CEMP) y dDCO [REP9-011]. Roedd yr REAC hefyd yn mynnu y dylai dulliau sgrinio sŵn gyflawni isafswm gwanhau o 10dB, gan arwain at lefel sŵn lai o ryw 68dB (mesur D-NV-009 o'r REAC).

6.4.24. Byddai mesurau lliniaru sŵn yn cael eu disgrifio mewn Cynllun Rheoli Sŵn a Dirgryniad (fel y nodir ym mesur D-NV-001 y REAC), i'w cynnwys yn y CEMP, wedi'u sicrhau gan R5 y dDCO. Amlygodd yr Ymgeisydd fod y lliniaru arfaethedig yn seiliedig ar y senario waethaf posib. Byddai ecolegydd yn cynnal adolygiad (prawf sensitifrwydd HRA) yn ystod dyluniad manwl neu'n dilyn hwnnw i bennu'r angen am gamau lliniaru sŵn, yn dibynnu ar agosrwydd y gwaith a'r lefelau sŵn a fyddai'n cael eu cynhyrchu (yn unol â mesur D-BD-067 y REAC, wedi'i sicrhau gan R5 (CEMP) y dDCO).

6.4.25. Mewn perthynas â phryderon NE ([RR-065] a [REP1-070]) ynghylch datganiad yr Ymgeisydd yn yr HRAR fod aflonyddwch sylweddol yn annhebygol y tu hwnt i bellter o 300m, ymatebodd yr Ymgeisydd nad oedd yn rhagweld y bydd angen stancio na thorri hydrolog nac unrhyw weithgareddau aflonyddwch uchel eraill. Byddai hynny'n cael ei bennu'n derfynol yn y cam dylunio manwl trwy'r prawf sensitifrwydd HRA. Ar ôl gweithredu camau lliniaru ac ystyried y cyfnod byr ac argaeledd cynefinoedd amgen, roedd yr Ymgeisydd o'r farn na fyddai AEOI ar yr AGA a'r safleoedd Ramsar.

6.4.26. Yn DL4 cyflwynodd yr Ymgeisydd SoCG drafft wedi'i ddiweddarau [REP4-246] gyda NE, lle cydnabu'r Ymgeisydd gyngor NE i ystyried gwaith aflonyddwch uchel gan gynnwys stancio a thorri hydrolog yn achosi aflonyddwch sŵn y tu hwnt i 300m, er iddo ailadrodd nad oedd yn rhagweld y bydd angen gwaith o'r fath. Cadarnhaodd yr SoCG drafft y byddai unrhyw ofyniad am waith aflonyddwch uchel yn cael ei bennu yn y cam dylunio manwl ac y byddai prawf sensitifrwydd o'r HRA yn cael ei gynnal, fel y disgrifir yn yr OCEMP [REP7-242] ac y sicheir gan y dDCO [REP9-011].

6.4.27. Dywedodd yr Ymgeisydd o fewn y SoCG drafft bod disgwyl i groesfan Afon Dyfrdwy gymryd hyd at bedair wythnos ac y byddai unrhyw

aflonyddwch sŵn ar adar sy'n gaeafu yn digwydd dros dro, a bod digon o adnodd cynefin amgen ar hyd Afon Dyfrdwy i ddarparu ar gyfer adar sydd wedi'u dadleoli dros dro pe bai hyn yn digwydd. Disgrifiodd y mesurau lliniaru arfaethedig a nodwyd yn HRAR DL2 wedi'i ddiweddarau [REP2-023] ac a ddisgrifir yn yr OCEMP [REP7-242].

- 6.4.28. Dangosir y mater hwn fel y cytunwyd arno yn y SoCG drafft a dywedir bod NE wedi cadarnhau mewn gohebiaeth e-bost dyddiedig 5 Mehefin 2023 eu bod, ar ôl adolygu gwybodaeth bellach a ddarparwyd yn yr HRAR diwygiedig [REP2-023], yn cytuno ar y mater hwn.
- 6.4.29. Yn ymateb NE [REP5-043] i ExQ2.11.5, nododd ei fod wedi codi pryderon o'r blaen ynghylch effeithiau aflonyddwch sŵn ar adar sy'n gysylltiedig ag AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy ac AGA / safle Ramsar Aber Afon Mersi ac LSE ar bibyddion coesgoch oherwydd agosrwydd y Datblygiad Arfaethedig i'r ardaloedd lle cofnodwyd niferoedd sylweddol o bibyddion coesgoch yn yr arolygon adar sy'n gaeafu. Nododd fod yr asesiadau LSE ac AEOI wedi'u diweddarau yn yr HRAR [REP2-023] mewn perthynas ag aflonyddwch sŵn ac roedd o'r farn fod mesurau lliniaru addas wedi'u cynnig i gyfyngu ar aflonyddwch i adar yn ystod gwaith croesi Afon Dyfrdwy. Cadarnhaodd ei fod yn fodlon bod yr wybodaeth yn yr HRAR wedi'i ddiweddarau [REP2-023] wedi mynd i'r afael â'i sylwadau blaenorol.
- 6.4.30. Cadarnhaodd NE ymhellach yn [REP7-317] a [REP8-022] (y SoCG terfynol) ei fod yn cytuno â chasgliad yr Ymgeisydd na fyddai AEOI ar AGA a safle Ramsar Aber Afon Mersi, AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy ac ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid (h.y. y safleoedd Ewropeaidd yn Lloegr/yn rhannol yn Lloegr).
- 6.4.31. Ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn ystod yr Archwiliad, gan gynnwys y lliniaru arfaethedig, mae'r ExA yn fodlon nad oes unrhyw lwybrau LSE a fyddai'n arwain at AEOI ar y safleoedd Ewropeaidd hyn o'r Datblygiad Arfaethedig ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad.

ACA Safleoedd Madfallod Glannau Dyfrdwy a Bwcle

- 6.4.32. Ceir disgrifiad o'r safleoedd Ewropeaidd a'u nodweddion cymwys, a'r effeithiau posibl sy'n deillio o'r Datblygiad Arfaethedig, yn Adrannau 5 a 7 o HRAR yr Ymgeisydd, yn y drefn honno.
- 6.4.33. Rhoddodd HRAR yr Ymgeisydd asesiad a oedd yn mynd i'r afael â'r potensial ar gyfer AEOI o ganlyniad i:
- gollu cynefin coetir â chysylltiad swyddogaethol ac effeithiau hydrolegol yn sgil y Datblygiad Arfaethedig ar ei ben ei hun ar goedydd derw mes di-goes gyda Derw Bytholwyrdd a Gwibredyn; a
 - cholli cynefin dros dro, marwolaethau, aflonyddwch a darnio yn sgil y Datblygiad Arfaethedig ar ei ben ei hun ar GCN.
- 6.4.34. Cododd CNC bryderon yn ystod yr Archwiliad ynghylch casgliadau'r Ymgeisydd mewn perthynas ag effeithiau ar GCN. Ceir sylwadau manylach ar hyn isod.

Effeithiau colli cynefin, marwolaethau, aflonyddwch a darnio ar GCN yn sgil y Datblygiad Arfaethedig ar ei ben ei hun

- 6.4.35. Dywedodd CNC yn [REP1-071] ei fod yn cytuno â chasgliadau'r HRAR ar gyfer pob un o'r safleoedd Ewropeaidd. Fodd bynnag, er nad oedd yn cyfeirio at unrhyw safle penodol roedd yn amlygu yn SoCG drafft DL1 [REP1-023] nad oedd yn ymddangos bod y pellteroedd gwasgaru diwygiedig ar gyfer GCN, fel y'u nodir yng nghanllawiau JNCC a ddiweddarwyd yn 2022, yn cael eu hadlewyrchu yn yr HRAR a bod y mater hwnnw wedi'i ddangos "dan drafodaeth". Dangosodd y SoCG drafft gyda CNC a gyflwynwyd yn DL3 (REP3-026) fod y mater hwn yn dal i gael ei drafod. Ni chyflwynwyd SoCG drafft gyda CNC ar gyfer DL4 na DL5.
- 6.4.36. Mewn ymateb i ExQ2.11.14 [PD-022] yn gofyn am ddiweddariad ar y sefyllfa, eglurodd yr Ymgeisydd [REP5-025] y cytunwyd mewn cyfarfod gyda CNC ar 29 Mehefin 2023 nad oedd angen arolygon GCN pellach. Cytunwyd hefyd, er mwyn sicrhau bod yr HRA yn adlewyrchu ac yn cydnabod y canllawiau JNCC wedi'u diweddarau, y byddai'r HRAR yn cael ei ddiweddarau cyn diwedd yr Archwiliad i ystyried pyllau o fewn 1.6km i'r ACA fel rhai â chysylltiad swyddogaethol. Dywedodd yr Ymgeisydd y cytunwyd nad oedd y casgliad yn yr HRAR o ddim AEOI yn debygol o newid ac y byddai CNC yn cadarnhau ei safbwynt ar ôl iddo adolygu'r HRAR wedi'i ddiweddarau.
- 6.4.37. Cadarnhaodd CNC yn ei ymateb [REP5-044] i ExQ2.11.15 ei fod o'r farn bod yr arolygon GCN yn briodol ac yn gymesur, a'i fod yn fodlon ar ddull lliniaru arfaethedig yr Ymgeisydd fel y'i nodir yn yr ES, OCEMP a'r Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecolegol Amlinellol [REP7-250] ac fel y sicrheir gan R5 (CEMP) ac R11 (Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecolegol) y dDCO [REP9-011]. Roedd yn cydnabod bod yr Ymgeisydd wedi nodi yng nghyfarfod mis Mehefin 2023 y byddai'r HRAR yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu cyngor y JNCC wedi'i ddiweddarau. Fodd bynnag, dywedodd nad oedd ar hyn o bryd yn gallu cynghori mewn perthynas â chasgliad dim AEOI ar yr ACA nes bod yr wybodaeth yn cael ei darparu.
- 6.4.38. Mae'r SoCG drafft rhwng yr Ymgeisydd a CNC a gyflwynwyd yn DL6 [REP6-028] yn cofnodi bod yr Ymgeisydd, mewn cyfarfod gyda CNC ar 12 Gorffennaf 2023, wedi ystyried pellter gwasgaru 1.6km GCN yn yr HRA (wedi'i ddiweddarau). Mae Eitem 3.3.14 y SoCG Drafft yn Nhabl 3-3 wedi hynny yn dangos ei statws fel un y cytunwyd arno, er bod y drafodaeth ochr yn ochr â hynny yn dal i adlewyrchu pryderon cychwynol CNC a'r ffaith na roddodd unrhyw sylwadau ychwanegol ar gytundeb felly. Cyflwynodd yr Ymgeisydd fersiwn terfynol, wedi'i diweddarau o'r HRAR yn DL7 [REP7-248], a oedd yn ymgorffori diwygiadau mewn perthynas â phellteroedd gwasgaru GCN. Mae'r SoCG terfynol a lofnodwyd [REP7-261] yn cynnwys datganiad ychwanegol bod yr Ymgeisydd wedi diwygio ei feini prawf a'i gasgliadau asesu wedi hynny a bod CNC yn cyd-fynd â'r asesiad wedi'i ddiweddarau a'i gasgliadau. Yn ogystal, cadarnhaodd CNC [REP7-318] mewn ymateb i gwestiwn cyfeirnod ID 2 Tabl 4.1 o'r RIES [OD-008] ei fod yn cytuno â meini prawf a chasgliadau asesu diwygiedig yr Ymgeisydd yn seiliedig ar bellter gwasgaru GCN o 1.6km. Amlygodd hefyd fod casgliadau'r asesiad yr un mor berthnasol i ACA Safleoedd

Madfallod Glannau Dyfrdwy a Bwcle ac ACA Mynydd Helygain, y mae GCN hefyd yn nodwedd gymhwysol arni.

- 6.4.39. Ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn ystod yr Archwiliad, gan gynnwys y camau lliniaru arfaethedig, mae'r ExA yn fodlon na fydd y llwybrau LSE hyn yn arwain at AEOI y safleoedd Ewropeaidd o'r Datblygiad Arfaethedig ar ei ben ei hun.

Canlyniadau Asesu AEOI - Crynodeb

Y Datblygiad Arfaethedig ar ei ben ei hun ac mewn cyfuniad

- 6.4.40. Daeth HRAR yr Ymgeisydd i'r casgliad y gellir eithrio AEOI ar gyfer y safleoedd Ewropeaidd a restrir yn Nhabl 3 isod o'r Datblygiad Arfaethedig ar ei ben ei hun ac mewn cyfuniad â chynlluniau a phrosiectau eraill. Cytunwyd ar y casgliadau hyn gyda NE [REP7-317] a [REP8-022] (y SoCG terfynol) a CNC [REP7-261] (y SoCG terfynol) a [REP7-318].
- 6.4.41. Roedd rhai o'r casgliadau yn HRAR yr Ymgeisydd yn destun Archwiliad drwy ExQs a Gwrandawiaidau Mater Penodol, fel y manylir uchod.
- 6.4.42. Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r Archwiliad, mae'r ExA yn fodlon y gellir eithrio AEOI o'r holl safleoedd Ewropeaidd a'u nodweddion cymwys o'r Datblygiad Arfaethedig ar ei ben ei hun ac ar y cyd â chynlluniau a phrosiectau eraill.

Tabl 3: Casgliadau'r ExA mewn perthynas ag AEOI ar ddiwedd yr Archwiliad

Safle(oedd) Ewropeaidd a nodwedd(ion) cymwys	Nodwyd LSE o:	AEOI ar ei ben ei hun wedi'u heithrio	AEOI mewn cyfuniad wedi'u heithrio	Rhan-ddirymiad wedi'i weithredu a mesurau digolledu yn ofynnol?
ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid				
Yr holl nodweddion cymwys (cynefinoedd a rhywogaethau)	Effeithiau ansawdd aer (dyddodiad llwch) - ar ei ben ei hun ac mewn cyfuniad (C/D)	Oes	Oes	Nac oes
Dyfrgwn	Colli cynefin â chysylltiad swyddogaethol (gwalau dyfrgwn posibl ar hyd Nant Wepre) - ar ei ben ei hun ac mewn cyfuniad (C/D) Marwolaethau o ganlyniad i faglu mewn gwagleoedd - ar ei ben ei hun ac mewn cyfuniad (C/D)	Oes	Oes	Nac oes
Eogiaid Iwerydd	Aflonyddwch o ganlyniad i oleuadau o amgylch Afon	Oes	Oes	Nac oes

Safle(oedd) Ewropeaidd a nodwedd(ion) cymwys	Nodwyd LSE o:	AEoI ar ei ben ei hun wedi'u heithrio	AEoI mewn cyfuniad wedi'u heithrio	Rhan-ddirymiad wedi'i weithredu a mesurau digolledu yn ofynnol?
Lampreiod y môr Lampreiod y nant Lampreiod yr afon Silod	Dyfrdwy - ar ei ben ei hun ac mewn cyfuniad (C/D) Darnio o ganlyniad i oleuadau o amgylch Afon Dyfrdwy - ar ei ben ei hun (C/D)			
ACA Safleoedd Madfallod Glannau Dyfrdwy a Bwcle				
Hen goedydd derw mes di-goes gyda Derw Bytholwyrdd a Gwibredyn yn Ynysoedd Prydain	Colli cynefin coetir â chysylltiad swyddogaethol yn uniongyrchol - ar ei ben ei hun (C/D) Effeithiau hydrolegol oherwydd gweithio yn Nant/Ceunant Wepre ac o'i hamgylch (cysylltiad hydrolegol) - ar ei ben ei hun (C/D)	Oes	Oes	Nac oes

Safle(oedd) Ewropeaidd a nodwedd(ion) cymwys	Nodwyd LSE o:	AEoI ar ei ben ei hun wedi'u heithrio	AEoI mewn cyfuniad wedi'u heithrio	Rhan-ddirymiad wedi'i weithredu a mesurau digolledu yn ofynnol?
Madfallod Dŵr Cribog	Colli cynefin uniongyrchol dros dro - ar ei ben ei hun (C/D) Marwolaethau - ar ei ben ei hun (C/D) Aflonyddwch - ar ei ben ei hun (C/D) Darnio - ar ei ben ei hun (C/D)	Oes	Oes	Nac oes
AGA Aber Afon Mersi				
Pibyddion coesgoch Cynulliad adar dŵr	Aflonyddwch o sŵn ar ei ben ei hun ac mewn cyfuniad (C/D) Aflonyddwch o oleuadau o amgylch Afon Dyfrdwy - ar ei ben ei hun ac mewn cyfuniad (C/D)	Oes	Oes	Nac oes
Safle Ramsar Aber Afon Mersi				

Safle(oedd) Ewropeaidd a nodwedd(ion) cymwys	Nodwyd LSE o:	AEoI ar ei ben ei hun wedi'u heithrio	AEoI mewn cyfuniad wedi'u heithrio	Rhan-ddirymiad wedi'i weithredu a mesurau digolledu yn ofynnol?
Pibyddion coesgoch Cynulliad adar dŵr	Aflonyddwch o sŵn ar ei ben ei hun ac mewn cyfuniad (C/D) Aflonyddwch o oleuadau o amgylch Afon Dyfrdwy - ar ei ben ei hun ac mewn cyfuniad (C/D)	Oes	Oes	Nac oes
AGA Aber Afon Dyfrdwy				
Pibyddion coesgoch Cynulliad adar dŵr	Aflonyddwch o sŵn ar ei ben ei hun ac mewn cyfuniad (C/D) Aflonyddwch o oleuadau o amgylch Afon Dyfrdwy - ar ei ben ei hun ac mewn cyfuniad (C/D)	Oes	Oes	Nac oes
Safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy				

Safle(oedd) Ewropeaidd a nodwedd(ion) cymwys	Nodwyd LSE o:	AEoI ar ei ben ei hun wedi'u heithrio	AEoI mewn cyfuniad wedi'u heithrio	Rhan-ddirymiad wedi'i weithredu a mesurau digolledu yn ofynnol?
Pibyddion coesgoch Cynulliad adar dŵr	Aflonyddwch o sŵn ar ei ben ei hun ac mewn cyfuniad (C/D) Aflonyddwch o oleuadau o amgylch Afon Dyfrdwy - ar ei ben ei hun ac mewn cyfuniad (C/D)	Oes	Oes	Nac oes
ACA Aber Afon Dyfrdwy				
Lampreiod y môr Lampreiod yr afon	Aflonyddwch o oleuadau o amgylch Afon Dyfrdwy - ar ei ben ei hun (C/D) Darnio o oleuadau o amgylch Afon Dyfrdwy - ar ei ben ei hun (C/D)	Oes	Oes	Nac oes

6.5. CASGLIADAU'R HRA

- 6.5.1. Nid yw'r Datblygiad Arfaethedig wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â rheoli safle Ewropeaidd, nac yn angenrheidiol i hynny, ac felly mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol asesu goblygiadau'r prosiect mewn perthynas ag effeithiau andwyol ar safleoedd yr effeithir arnynt o bosibl.
- 6.5.2. Ystyriwyd naw safle Ewropeaidd a'u nodweddion cymwys yn asesiad yr Ymgeisydd o LSE:
- ACA Coedwigoedd Dyffryn Alun;
 - ACA Mynydd Helygain;
 - ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid;
 - ACA Safleoedd Madfallod Glannau Dyfrdwy a Bwcle;
 - AGA Aber Afon Mersi;
 - safle Ramsar Aber Afon Mersi;
 - ACA Aber Afon Dyfrdwy;
 - AGA Aber Afon Dyfrdwy; a
 - safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy.
- 6.5.3. Nodwyd LSE ar gyfer saith o'r safleoedd hyn, a restrir yn Nhabl 1 uchod, a hynny o'r Datblygiad Arfaethedig ar ei ben ei hun a/neu mewn cyfuniad â chynlluniau neu brosiectau eraill.
- 6.5.4. Roedd methodoleg a chanlyniadau gwaith sgrinio'r Ymgeisydd am LSE ar safleoedd Ewropeaidd yn destun rhywfaint o drafodaeth a chraffu, ond ni wnaeth unrhyw IP anghytuno â'r safleoedd a'r nodweddion y nodwyd LSE ar eu cyfer. Rydym ni, yr ExA, yn fodlon bod y safleoedd Ewropeaidd a'r nodweddion cymwys cywir wedi'u nodi at ddibenion yr asesiad, a bod yr holl effeithiau posibl a allai arwain at effeithiau arwyddocaol wedi'u nodi.
- 6.5.5. Canfyddiadau'r ExA yw, yn amodol ar y mesurau lliniaru sydd i'w sicrhau yn y dDCO, y gellir eithrio AEoI y safleoedd canlynol yn sgil y Datblygiad Arfaethedig o'i ystyried ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad â chynlluniau neu brosiectau eraill:
- ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid;
 - ACA Safleoedd Madfallod Glannau Dyfrdwy a Bwcle;
 - AGA Aber Afon Mersi;
 - safle Ramsar Aber Afon Mersi;
 - ACA Aber Afon Dyfrdwy;
 - AGA Aber Afon Dyfrdwy; a
 - safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy.
- 6.5.6. Rydym ni, yr ExA, o'r farn fod digon o wybodaeth gerbron yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer DESNZ i'w alluogi i ymgymryd ag AA er mwyn cyflawni ei ddyletswydd o dan ofynion y Rheoliadau Cynefinoedd.

7. CASGLIAD AR YR ACHOS AM GANIATÂD DATBLYGU

7.1. CYFLWYNIAD

- 7.1.1. Mae'r Bennod hon yn nodi rhesymeg a chasgliadau'r Awdurdod Archwilio (ExA) ynghylch a oes achos dros wneud Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig.
- 7.1.2. Mae deddfwriaeth a pholisi perthnasol wedi'u nodi ym Mhennod 3. Ystyrir yr angen am y Datblygiad Arfaethedig ym Mhennod 5 yr adroddiad hwn (gan ystyried yr ystyriaethau ym Mhennod 4) ochr yn ochr ag arfarniad o'r effeithiau posibl eraill a gofnodir ym Mhennodau 5 a 6, sy'n estyn i effeithiau amgylcheddol yn ogystal ag effeithiau economaidd-gymdeithasol pwysig eang.
- 7.1.3. Am y rhesymau a nodir ym Mhennod 5 yr adroddiad hwn, mae'r ExA yn ystyried mai dim ond Fersiwn Pont Biblinell Ymgorfforedig (EPBV) Croesfan Nant Alltami o'r DCO [REP8-007], a gyflwynwyd yn Nherfyn Amser 8, sy'n cyd-fynd â'r holl ofynion polisi a deddfwriaeth yng Nghymru a Lloegr o ran ansawdd dŵr, perygl llifogydd, effeithiau gwrthsefyll llifogydd yn y dyfodol a llygredd.
- 7.1.4. Mae casgliadau'r ExA yn seiliedig ar ddarpariaethau'r DCO (rDCO) a argymhellir yn Atodiad D yr adroddiad hwn, sef EPBV y DCO [REP8-007], y trafodir ei ddrafftio ym Mhennod 9.

7.2. Y CYDBWYSEDD CYNLLUNIO

- 7.2.1. Mae casgliadau'r ExA yn cael eu llywio gan yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Archwiliad, gan gynnwys: dogfennau'r cais, y Datganiad Amgylcheddol, Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA), Adroddiadau Effaith Lleol, Datganiadau Tir Cyffredin, Sylwadau Perthnasol, Sylwadau Ysgrifenedig, cyflwyniadau llafar yn y gwrandawladau, atebion i gwestiynau ysgrifenedig yr ExA, ymatebion i geisiadau am wybodaeth a'r Archwiliadau Safle gyda Chwmni a Digwmni a gynhaliwyd.
- 7.2.2. Wrth wneud hynny, mae'r ExA wedi ystyried yr holl ddeddfau a pholisïau perthnasol eraill ar gyfer Cymru a Lloegr gan gynnwys rhoi sylw dyladwy i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.
- Effeithiau Llain Las / Lletem Las ac 'Amgylchiadau Eithriadol/ Arbennig Iawn'*
- 7.2.3. Ym Mhennod 5 nododd yr ExA fod y Gosodiad ar Ben y Tir (AGI) yn Ince a'r ddwy Orsaf Falfiau Bloc (BVS) (yn Rock Bank a Mollington) o fewn y Llain Las. O fewn ardal weinyddol FCC, byddai un BV yn Aston Hill o fewn Lletem Las ddynodedig.
- 7.2.4. O ran polisi, mae'r holl strwythurau hynny yn ffurfiau amhriodol ar ddatblygiad o ran dynodiad Llain Las/ Lletem Las, er eu bod yn hanfodol i weithrediad y Datblygiad Arfaethedig.

- 7.2.5. Oherwydd eu sefydlogrwydd, mäs, graddfa a golwg ffisegol, mae'r ExA yn cydnabod na fyddai'r cyfleusterau hyn yn cadw natur agored y Llain Las, na chymeriad agored y Lletem Las yn Sir y Fflint. Ar ben hynny, mae ganddynt olwg beirianyddol galed nad yw'n rhannu'r un nodweddion gwyrddni naturiol a gwledig â'u hamgylchoedd uniongyrchol.
- 7.2.6. Daethpwyd i'r casgliad hefyd gan yr ExA y byddai'r AGI yn Ince a'r BVS yn Rock Bank, Mollington a'r BVS yn Aston Hill yn lleihau natur agored y Llain Las a'r Lletem Las yn sylweddol. Mae agweddau gofodol a gweledol yn gysylltiedig ag agoredrwydd fel y cydnabuwyd gan yr ExA.
- 7.2.7. Yn unol â hynny, rhaid penderfynu achos dros 'amgylchiadau arbennig iawn' ar gyfer yr elfennau hyn o'r Datblygiad Arfaethedig yn unol â chyngor cyfunol yr NPS EN-1, y Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol (NPPF) a Pholisi Cynllunio Cymru (PPW).
- 7.2.8. Mae paragraff 148 o'r NPPF yn cadarnhau na fydd 'amgylchiadau arbennig iawn' yn bodoli oni bai bod ystyriaethau eraill yn amlwg yn drech na'r niwed posibl i'r Llain Las oherwydd anaddasrwydd, ac unrhyw niwed arall sy'n deillio o'r cynnig.
- 7.2.9. Mae paragraff 3.74 PPW yn adlewyrchu sefyllfa polisi yr NPPF, gan nodi na ddylai datblygiad amhriodol roi caniatâd cynllunio ac eithrio mewn 'amgylchiadau eithriadol iawn', lle mae ystyriaethau eraill yn amlwg yn gorbwyso'r niwed y byddai'r datblygiad yn ei wneud i'r Lletem Las. Felly, byddai'r achosion eithriadol iawn hyn yn cael eu trin fel gwyradau o gynlluniau datblygu priodol.
- 7.2.10. Mae'r ExA wedi cydnabod mai un amcan llwybro craidd a wnaed gan yr Ymgeisydd oedd osgoi aneddiadau a gwrthdaro diangen â datblygiadau eraill cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol. Derbynnir na fyddai'n ymarferol i'r biblinell a'r seilwaith cysylltiedig osgoi Llain Las Gorllewin Swydd Gaerlleon a Chaer, na'r Lletemau Glas yn Sir y Fflint.
- 7.2.11. O ran safle AGI Ince, dewiswyd ei leoliad i sicrhau ei fod mor agos ag y bo'n ymarferol i ganolbwynt o allyrwy'r diwydiannol lleol, yn enwedig CF Fertilisers a datblygiad 'Protos' Peel NRE Limited. Cytunwyd ar ei leoliad mewn ymgynghoriad â'r partïon hyn â buddiant, yn enwedig y tîrfeddiannwr (Peel NRE), i sicrhau bod y Datblygiad Arfaethedig yn osgoi gwrthdaro â chynigion datblygu eraill ac uchelgeisiau ynghylch ei gyfleusterau. Mae'r dewis lleoliad hefyd yn gyson â galluogi diwydiant i ddefnyddio cyfleusterau dal a storio carbon.
- 7.2.12. O ran BVS Aston Hill, ystyrir mai'r lleoliad yw'r mwyaf priodol mewn ardal gyfyngedig iawn lle mae'r holl safleoedd addas yn dod o fewn y Lletem Las ddynodedig. Er mwyn lliniaru hyn, cynigir sgrinio'r BVS trwy blannu lliniarol i leihau lefel yr ymyrraeth weledol.
- 7.2.13. Mae'r Achos Anghenion ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig [APP-049] yn amlinellu'r buddion amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol-economaidd y gall y Datblygiad Arfaethedig eu cyflawni. Wrth wneud hynny, mae'n ffurfio achos yr Ymgeisydd am amgylchiadau

eithriadol/arbennig iawn, gan gyfiawnhau'r niwed i'r Llain Las a'r Lletem Las.

- 7.2.14. Mae'r ExA yn derbyn, o ystyried yr argyfwng hinsawdd presennol, fod Llywodraeth y DU wedi nodi ei chefnogaeth flaenaf i brosiectau dal a storio carbon newydd gyflwyno eu hunain i helpu i gwtogi'n sylweddol ar allyriadau carbon deuocsid (CO₂) cyn gynted ag y bo modd. Mynegir y gefnogaeth gyffredinol hon i ddal a storio carbon mewn llawer o ddogfennau a pholisïau ond, yn fwyaf diweddar, mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i gyflwyno Prosiect HyNet yn 'The Growth Plan 2022' a gyhoeddwyd ym mis Medi 2022 (Llywodraeth EM, 2022).
- 7.2.15. Mae'r ExA yn cydnabod bod gan Brosiect HyNet y potensial i gwtogi hyd at 10 miliwn tonnall ar allyriadau CO₂ bob blwyddyn erbyn dechrau'r 2030au, sy'n cyfateb i gymryd 4 miliwn o geir oddi ar y ffordd [REP4-022].
- 7.2.16. Mae'r Ymgeisydd hefyd yn nodi y byddai Prosiect HyNet, hyd 2030, yn arwain at dros £5 biliwn o fuddsoddiad cyfalaf ac yn creu dros £3.7 biliwn o werth ychwanegol gros. Wrth wneud hynny byddai'n creu miloedd o swyddi bob blwyddyn, fel y disgrifir yn [REP4-022] a [REP1-046].
- 7.2.17. Ar y cyfan, mae'r ExA yn cytuno bod amgylchiadau eithriadol/ arbennig iawn i ddiystyru niwed o'r fath sy'n deillio o amhriodoldeb a gostyngiadau sylweddol mewn agoredrwydd, mewn lleoliadau Llain Las a Lletem Las yn unol â chynghor y NPPF a PPW.
- 7.2.18. Felly, o ystyried y gyfres lawn o gasgliadau ar gyfer pob pwnc a restrir ym Mhennod 5 o adroddiad yr ExA, canfu'r ExA y canlynol:
- Effeithiau andwyol sy'n pwysu yn erbyn y DCO sy'n cael ei wneud:
 - Mae'r ExA yn cydnabod y byddai niwed amlwg yn codi i'r 'Llain Las' (yn Swydd Gaerlleon) ac i'r 'Lletem Las' (yn Sir y Fflint) yn rhinwedd amhriodoldeb a gostyngiadau sylweddol mewn agoredrwydd, oherwydd yr agweddau uwchben y tir ar y datblygiad yn y lleoliadau hynny. Byddai un AGI (yn Ince) a dau BV (yn Rock Bank a Mollington) o fewn y Llain Las. O fewn ardal weinyddol FCC, byddai un BV yn Aston Hill o fewn Lletem Las. Mae'r ExA yn derbyn bod yr AGI yn Ince a'r BVS yn strwythurau adeiledig ffisegol sy'n hanfodol i weithrediad y Datblygiad Arfaethedig. Er y byddai maint a màs y BVS a'r AGI perthnasol yn lleihau 'agoredrwydd' y Llain Las a'r Lletem Las yn sylweddol yn y lleoliadau hynny, byddai camau lliniaru arfaethedig yn y pen draw yn sgrinio'r effaith weledol ac yn caniatáu integreiddio gweledol dyladwy yng nghefn gwlad. Serch hynny, yn unol ag NPS EN-1, NPPF a PPW mae'r ExA yn rhoi pwys mawr iawn i niwed canlyniadol o'r fath sy'n deillio o amhriodoldeb a gostwng agoredrwydd a fyddai'n amlwg i ardaloedd Lletem Las a Llain Las Cymru a Lloegr.
 - Mae perygl 'posibl' cyfyngedig i niwed iechyd coed i Goetir Hynafol oherwydd pellteroedd parth clustogi cymharol sy'n gysylltiedig â'r DCO a gweithgarwch gwaith adeiladu cysylltiedig. Gan dderbyn

hefyd nad yw'r Ymgeisydd yn cynnig colli unrhyw goed hynafol; bod coetir hynafol yn anadferadwy; ac felly, bod unrhyw effaith a allai fod yn niweidiol i asedau o'r fath yn dal i fod o bwys mawr yn argymhelliad yr ExA.

- Mae'r golled coed gyffredinol yn dwyn pwysau mawr yn erbyn y Datblygiad Arfaethedig. Ond mae'r ExA yn derbyn y byddai plannu digolledu yn mynd rhywfaint o'r ffordd i liniaru'r effaith hon, a bod dull dylunio ymgorfforedig yr Ymgeisydd yn lleihau colli coed fel strategaeth osgoi gyffredinol.
 - Effeithiau gweledol a thirwedd cysylltiedig y datblygiad am gyfnod cychwynnol cyn i'r camau lliniaru ymsefydlu. Mae'r ExA wedi canfod y byddai effeithiau gweledol yn niweidiol yn ystod y gwaith adeiladu ac ym mlwyddyn 1 ar ôl yr adeiladu ar gyfer y derbynyddion pwysicaf. Byddai'r effeithiau hyn yn lleihau dros amser gan gofio'r camau lliniaru. Mae'r ExA yn cytuno y byddai'r Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu Amlinellol [REP7-242], ynghyd â'r Gofrestr o Gamau Gweithredu ac Ymrwymiadau Amgylcheddol [REP7-236] yn sicrhau plannu priodol ac na fyddai'r effaith gyffredinol dros amser yn arwyddocaol erbyn blwyddyn 15 o weithredu. Serch hynny, mae'r ExA yn rhoi pwys mawr i'r niwed gweledol.
 - Mae'r ExA wedi canfod risg 'posibl' o niwed i ased archeolegol o ddi-ddordeb hanesyddol a diwylliannol nad yw'n ddynodedig, sef olion angladdol o'r Oes Efydd (yn agos at BVS Northop Hall a Babell). Lliniarir fel arall yn erbyn bodolaeth debygol yr olion hynny drwy ddarparu cofnodion archeolegol, cyn belled ag y bo'n ymarferol. Serch hynny, mae'r ExA yn canfod y byddai effaith andwyol gymedrol debygol i'r asedau archeolegol hynny heb eu dynodi o werth hanesyddol a diwylliannol yn ystod y gwaith adeiladu oherwydd risgiau tarfu ar yr olion hynny. Wrth gydnabod y risg hwnnw o niwed posibl, mae'r ExA yn fodlon bod lefel y lliniaru posibl fel arall yn briodol, a bod yr Ymgeisydd wedi mabwysiadu arfer gorau. Ond mae risg gweddilliol niwed posibl i ased heb ei ddynodi yn parhau fel ystyriaeth berthnasol. Yn yr amgylchiadau hynny, mae'r ExA yn priodoli pwys cymedrol i'r mater hwn.
 - Byddai sŵn ac aflonyddwch i lefelau amwynder trigolion a busnesau ac iechyd pobl yn ystod cyfnodau adeiladu yn andwyol. Ond am gyfnod cyfyngedig a rheoledig. Yn benodol, byddai effaith andwyol sylweddol ar ardaloedd preswyl AGI Mollington, Sandycroft, Aston, Ewlo a Northop Hall. Mae'r ExA yn rhoi pwys mawr i niwed o'r fath.
 - Colli tir amaethyddol 'Gorau a Mwyaf Amlbwrpas' (BMV) i ddarparu ar gyfer yr agweddau uwchben y ddaear ar y cynllun (yr AGI a BVS arfaethedig yn bennaf). Mae'r ExA yn rhoi pwys cymedrol i gollu tir BMV gan y byddai'r cwantwm tir yn isel, gyda'r ardaloedd cyfagos yn parhau ar gael ar gyfer gweithgaredd amaethyddol.
- Effeithiau niwtral - Yn ogystal, mae'r ExA wedi ystyried y materion canlynol ac wedi dod i'r casgliad nad ydynt yn pwysu'n sylweddol o blaid neu yn erbyn gwneud y DCO gan gofio pob mesur lliniaru a gynigir:

- ansawdd aer;
 - bioamrywiaeth (yn amodol ar ychwanegu gofyniad ychwanegol at y DCO a ffafrir gan yr Ymgeisydd i sicrhau gwelliannau ecolegol oddi ar y safle yng Nghymru a Lloegr);
 - effeithiau treftadaeth a diwylliannol (ar wahân i'r ased archeolegol penodol nas dynodwyd y cyfeirir ato yn yr adran uchod);
 - sŵn a dirgryniad yn ystod y gweithredu;
 - effeithiau ar yr amgylchedd dŵr a'r risgiau llifogydd, ar yr amod bod croesfan amgen gan Nant Alltami, sef y groesfan bont biblinell ymgorfforedig, yn cael ei sicrhau yn y DCO, fel yr argymhellir yn y rDCO sydd ynghlwm yn atodiad D yr adroddiad hwn. (Sylwer: Mae'r rheswm dros argymhell fersiwn y bont biblinell ymgorfforedig, yn hytrach na'r fersiwn croesfan ffos a ffafriwyd gan yr Ymgeisydd, wedi'i ym Mhennod 5 uchod);
 - effeithiau gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd;
 - effeithiau trafnidiaeth;
 - effeithiau rheoli llygredd/ tir halogedig/ gweithio mwynau a diogelu;
 - effaith rheoli gwastraff ac asedau perthnasol;
 - problemau niwsans posibl yn ymwneud ag effeithiau llwch, arogl a golau artiffisial;
 - effeithiau diogelwch; diogeled, damweiniau mawr a thrychinebau; neu fuddiannau datgomisiynu;
- Yn ogystal â'r uchod, canfu'r ExA, gyda'r ystod o fesurau lliniaru a sicrhawyd ar gyfer unrhyw niwed a nodwyd, bod yr ES wedi asesu effeithiau cronus yn briodol ac nad ydynt yn pwysu o blaid neu yn erbyn y DCO.

7.2.19. Ochr yn ochr â'r pwyntiau hynny, i gloi'r holl faterion treftadaeth ddiwylliannol i Gymru a Lloegr, mae'r ExA wedi ystyried Rheoliad 3 o'r Rheoliadau Penderfyniadau, ac wedi rhoi sylw llawn i ddymunoldeb y canlynol:

- diogelu henebion cofrestredig a'u lleoliadau;
- diogelu adeiladau rhestredig, eu lleoliadau, ac unrhyw nodweddion o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig; a
- diogelu neu wella cymeriad neu olwg ardaloedd cadwraeth.

7.2.20. Yn bwysig, yn unol â'r uchod, mae'r ExA o'r farn bod yr Ymgeisydd wedi asesu arwyddocâd yr holl asedau treftadaeth perthnasol y gallai'r Datblygiad Arfaethedig effeithio arnynt yn ddigonol. Rhoddwyd sylw dyladwy i ddeddfwriaeth yng Nghymru a Lloegr. Darparwyd digon o wybodaeth fel rhan o'r Cais i'r ExA wneud dyfarniad gwybodus, a wnaed ochr yn ochr ag ymweliadau safle'r Archwiliad a gynhaliwyd hefyd.

Buddion sy'n pwysu'n sylweddol o blaid gwneud y DCO

7.2.21. Buddion sy'n pwysu'n sylweddol o blaid gwneud y DCO:

- Canfu'r ExA fod angen cyffredinol amlwg am y Datblygiad Arfaethedig a fyddai'n cynorthwyo'r DU yn uniongyrchol i gyrraedd nodau Sero

Net, gan gynnwys cyfnodau datgarboneiddio trosiannol a'r cyllidebau carbon cysylltiedig a fabwysiadwyd yng Nghymru a Lloegr. Mae cryn bwys yn perthyn i'r budd hanfodol hwn.

- Mae'r achos economaidd-gymdeithasol amlwg a llethol ledled y rhanbarth a'r DU a wnaed gan yr Ymgeisydd, gan gynnig buddion cyhoeddus pendant sylweddol yn sgil buddsoddiad uniongyrchol/anuniongyrchol a chreu swyddi dilynol, hefyd yn dal cryn bwys o blaid gwneud y DCO.

Cydbwysedd cynllunio a chasgliad

- 7.2.22. Yn unigol ac ar y cyd, mae'r manteision cyhoeddus cyffredinol mawr iawn sy'n gysylltiedig â'r Datblygiad Arfaethedig yn gorbwysu unrhyw niwed 'posibl' i iechyd coetir hynafol yn agos at lwybr y biblinell, gan gofio'r holl fesurau lliniaru a gynigir. Ystyrir bod newid felly'n annhebygol ym marn yr ExA, o ystyried y glustogfa 15 metr i'w chynnal gan y DCO (gydag eithriad o 13 metr yn Newbridge Farm) a'r camau lliniaru cyfunol a gynigir.
- 7.2.23. Er na ellir diystyru niwed posibl yn llwyr, o ystyried pa mor agos yw coed ar gyrion y coetir ar gyfer rhan gyfyngedig o lwybr y biblinell ger Newbridge Farm, noda'r ExA y byddai aliniad y Datblygiad Arfaethedig yn symud i ffwrdd o'r ardal hon o goetir oherwydd ei lwybr arfaethedig.
- 7.2.24. O ran coed hynafol, mae'r Datblygiad Arfaethedig wedi cael ei ddiwygio yn ystod yr Archwiliad mewn ymdrech i sicrhau nad oes colled o'r fath yn digwydd. Yn wir, nid yw'r cynnig diwygiedig bellach yn rhagweld colli unrhyw goed hynafol.
- 7.2.25. Waeth beth fo'r uchod, mae'r Ymgeisydd wedi cynnig strategaeth ddigolledu yn hyn o beth, a fyddai'n cael ei sicrhau trwy'r DCO. Mae'r strategaeth ddigolledu yn cyd-fynd ag arfer gorau.
- 7.2.26. Ar ben hynny, gan gymhwyso cyngor NPS EN-1 (2011) a'r NPS EN1 sy'n dod i'r amlwg (Mawrth 2023), mae'n amlwg bod yr achos angen dros y Datblygiad Arfaethedig yn sylweddol a bod brys amdano wrth ddelio ag ystyriaethau Llain Las (ar gyfer Lloegr) ac ystyriaethau Lletem Las (ar gyfer Cymru). Gyda'i gilydd, maent yn ffurfio'r achos 'amgylchiadau arbennig iawn' (NPS/NPPF ar gyfer Lloegr) ac 'amgylchiadau eithriadol iawn' (ar gyfer PPW) a amlinellir gan yr Ymgeisydd i ganiatáu i'r niwed a nodwyd ddigwydd o fewn lleoliadau Llain Las / Lletem Las yn rhinwedd amhriodoldeb ac unrhyw ostyngiad dilynol mewn agoredrwydd.
- 7.2.27. Byddai gostyngiad sylweddol anochel mewn agoredrwydd yn effeithio ar olwg yr ardal, ond byddai'n cael ei liniaru cyn belled ag y bo modd mewn termau gweledol pan fydd pob gwaith tirlunio yn ceisio sicrhau integreiddio gweledol yr AGI a BVS yn y cefn gwlad ehangach. Mae agweddau pellach ar yr achos amgylchiadau arbennig/eithriadol iawn a dderbyniwyd gan yr ExA yn cynnwys diffyg dewisiadau realistig eraill i osgoi niwed o'r fath, o ystyried y dystiolaeth o osgoi ardaloedd preswyl. Mae hyn yn gysylltiedig â dewisiadau llwybr strategol.

- 7.2.28. Yn y cyd-destun hwnnw, mae'r ExA wedi ystyried yr achos cyffredinol a wnaed yn unol â darpariaethau NPS EN-1 (NPS Cyffredinol ar gyfer Ynni), polisi cenedlaethol a lleol arall, ac yn cytuno bod amgylchiadau arbennig iawn/eithriadol iawn yn bresennol i ganiatáu i'r datblygiad fynd rhagddo o fewn lleoliadau Llain Las a Lletem Las. Mae'r amgylchiadau a ddisgrifir gan yr Ymgeisydd yn amlwg yn gorbwyso unrhyw niwed a fyddai'n codi mewn perthynas â'r dynodiadau tir penodol hynny.
- 7.2.29. O ran treftadaeth ddiwylliannol, mae'r ExA wedi rhoi sylw dyladwy i asedau archeolegol heb eu dynodi o werth diwylliannol hysbys. Aseswyd y niwed hwnnw, ochr yn ochr â holl ddeunydd yr Archwiliad a chyfraniadau gan IP i ddod i gasgliad ar natur, arwyddocâd a gwerth asedau treftadaeth a nodwyd, ynghyd â dealltwriaeth ddigonol o gyfraniad eu harwyddocâd.
- 7.2.30. Mae'r ExA hefyd wedi ystyried goblygiadau'r Datblygiad Arfaethedig i safleoedd yr holl asedau dynodedig, fel y gellir deall yn iawn faint yr effaith ar asedau treftadaeth a diwylliannol (i gyd). Wrth ystyried y materion hyn, canfu'r ExA y byddai effaith niwtral yn deillio o'r Datblygiad Arfaethedig ar asedau treftadaeth dynodedig ac y byddai'r niwed cyfyngedig i asedau treftadaeth heb eu dynodi yn cael ei drechu gan fuddion cyhoeddus cyffredinol mawr iawn y Datblygiad Arfaethedig, fel y disgrifir uchod.
- 7.2.31. Wrth ddod â'r holl bwyntiau perthnasol at ei gilydd, mae'r ExA yn canfod bod yr angen amlwg am y Datblygiad Arfaethedig, a'i fuddion cyhoeddus sylweddol, yn amlwg yn gorbwyso'r holl effeithiau andwyol a nodwyd. Mae'r ExA yn cydnabod bod y Datblygiad Arfaethedig yn cynnig y cyfle prin i gynorthwyo'r DU i gyflawni ei hamcanion datgarboneiddio a gwelliant economaidd rhanbarthol llethol, ar raddfa fawr, ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Byddai lefel y gwelliant economaidd-gymdeithasol yn sylweddol i Gymru a Lloegr, ac i'r DU gyfan.
- 7.2.32. Er y byddai rhai effeithiau andwyol, nid oes yr un o'r rheini, naill ai'n unigol nac ar y cyd, yn arwain yr ExA i gasgliad gwahanol yn y cydbwysedd cyffredinol o fuddion ac effeithiau andwyol.
- 7.2.33. Datblygiad yw'r Datblygiad Arfaethedig y darparwyd Adroddiad HRA ar ei gyfer. Wrth ddod i'r casgliad cyffredinol a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn, mae'r ExA wedi ystyried yr holl ddogfennau sy'n berthnasol i HRA.
- 7.2.34. Mae'r ExA wedi rhoi sylw i ganfyddiadau'r HRA a sylwadau CNC a NE. Mae'n ofynnol i'r penderfynwr gynnal asesiad priodol. Yr Ysgrifennydd Gwladol (SoS) yw'r awdurdod cymwys o dan Reoliadau Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd) (Rheoliadau Cynefinoedd) a bydd yn gwneud yr asesiad terfynol. Mae'r ExA o'r farn bod digon o wybodaeth gerbron yr Ysgrifennydd Gwladol i'w alluogi i gynnal asesiad priodol er mwyn cyflawni ei ddyletswydd o dan ofynion y Rheoliadau Cynefinoedd.
- 7.2.35. O ran y gofyniad ychwanegol, mae'r ExA yn nodi y gellir cyflawni hyn gan ddefnyddio terminoleg Enillion Net Bioamrywiaeth (BNG) yr Ymgeisydd a

gymhwyswyd i ddogfennaeth yr Archwiliad ei hun, er hwylustod gweinyddol, yn y cyd-destun nad yw BNG yn orfodol i NSIP yng Nghymru na Lloegr. Mae'r gofyniad ychwanegol y mae'r Ymgeisydd yn ei gynnig wedi'i eirio fel a ganlyn:

"Ni chaiff unrhyw ddatblygiad ddechrau hyd nes y bydd cynllun (a allai gynnwys hyd at ddwy ran, sef un ar gyfer Lloegr ac un yng Nghymru) sy'n sicrhau y darperir BNG o 1% neu fwy ar gyfer y cynefinoedd â blaenoriaeth y mae'r datblygiad awdurdodedig yn effeithio arnynt (fel y'i cyfrifwyd gan ddefnyddio Metrig Bioamrywiaeth 3.1 NE), wedi'i gyflwyno i'r awdurdod cynllunio perthnasol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Rhaid i'r cynllun nodi mesurau i gyflawni a sicrhau'r gwaith cynnal a chadw am 30 mlynedd o'r ddarpariaeth BNG."

- 7.2.36. Yn gryno, byddai'r ExA yn tynnu sylw at y gwrthwynebiadau a godwyd gan CNC i fersiwn dewisol yr ymgeisydd o'r dDCO (croesfan â ffos Nant Alltami). Mae ei wrthwynebiad oherwydd risg bosibl colli llif dŵr i'r ddaear o fewn Nant Alltami, gyda'r potensial i achosi dirywiad yng nghorff dŵr Nant Wepre, a pheidio â chydymffurfio â WFD. Fel y manylwyd ym Mhennod 5 yr adroddiad hwn, roedd yr ExA o'r farn bod y fersiwn a ffefrir gan yr Ymgeisydd o'r DCO (y fersiwn croesi â ffos) yn annerbyniol. Fodd bynnag, mae'r ExA wedi bwrw ymlaen ar sail y dDCO amgen a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd, sef fersiwn y bont biblinell ymgorfforedig [REP8-007]), a gyflwynwyd yn D8, nad yw CNC yn gwrthwynebu iddo, gan nad yw'n ystyried ei fod yn torri WFD.
- 7.2.37. Yng ngoleuni'r uchod, mae'r ExA yn canfod, yn amodol ar ddarpariaethau'r rDCO (Atodiad D), sef fersiwn y bont biblinell ymgorfforedig, sy'n cynnwys y gofyniad uchod, nad oes rheswm i unrhyw fater gan gynnwys materion HRA atal gwneud y DCO.
- 7.2.38. Ar y cyfan, yn amodol ar sicrhau croesfan amgen Nant Alltami, sef y groesfan bont biblinell ymgorfforedig, fel yr argymhellir yn y rDCO sydd ynghlwm yn atodiad D yr adroddiad hwn, mae'r achos dros wneud DCO ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig wedi'i wneud ac fe'i hargymhellir yn unol â hynny.

8. CAFFAEL GORFODOL A MATERION CYSYLLTIEDIG

8.1. CYFLWYNIAD

8.1.1. Roedd y cais yn cynnwys cynigion ar gyfer Caffael Gorfodol (CA) a Meddiannu Dros Dro (TP) tir a hawliau dros dir. Mae'r bennod hon yn cofnodi archwilio'r cynigion hynny a materion cysylltiedig.

8.2. Y CAIS AM BWERAU CA A TP

8.2.1. Mae Gorchymyn Cydsyniad Datblygu drafft (dDCO) y cais a'r holl fersiynau dilynol yn cynnwys darpariaeth ar gyfer CA buddiannau rhydd-ddaliadol a hawliau preifat a chreu hawliau newydd dros dir. Maent hefyd yn cynnwys darpariaethau ar gyfer TP y tir. Mae'r holl gyfeiriadau at y dDCO yn y Bennod hon o'r Adroddiad o hyn ymlaen yn cyfeirio at Fersiwn a Ffafir yr Ymgeisydd (APV) o'r dDCO (y Fersiwn Croesi â Ffos (TCV)) [REP9-011] a fersiwn amgen yr Ymgeisydd o'r dDCO yw fersiwn y Bont Biblinell Ymgorfforedig (EPBV) [REP8-007] o'r dDCO oni nodir yn wahanol.

8.2.2. Nid yw unrhyw ran o'r tir sydd wedi'i gynnwys yn y cais CA yn Dir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol neu'n Dir Comin. Fodd bynnag, mae tir Man Agored a buddiannau'r Goron o fewn Terfynau'r Gorchymyn. Un llain yw'r tir Man Agored ac fe'i dangosir ar y Cynlluniau Tir Categori Arbennig [REP7-008], tra dangosir buddiannau'r Goron ar Gynlluniau Tir y Goron [REP4-005]. Mae'r rhain yn ymwneud â rhifau llain penodol o fewn yr ardaloedd Rhif Gwaith canlynol er mwyn i'r Ymgeisydd weithredu'r Datblygiad Arfaethedig. Mae'r Rhifau Llain fel y'u nodwyd yn y Llyfr Cyfeirio (BoR) [REP7-025] a'r Cynlluniau Tir [CR3-003] wedi'u cynnwys yn y rhestr isod mewn cromfachau ():

- Tir Categori Arbennig - Tir Man Agored:
 - Gwaith Rhif 35 – Gwaith Piblinell Carbon Deuocsid (CO₂) (Llain Rhif 17-02).
- Buddiannau'r Goron:
 - Gwaith Rhif 15 -Gwaith Piblinell CO₂ (Llain Rhif 6-26).
 - Gwaith Rhif 16 -Gwaith Piblinell CO₂ (Llain Rhif 7-07).
 - Gwaith Rhif 17 -Gwaith Piblinell CO₂ (Llain Rhif 7-07, 7-08, 7-09 ac 8-01).
 - Gwaith Rhif 17A - Mynediad Parhaol (Llain Rhif 7-07 a 7-08).
 - Gwaith Rhif 17B - Mynediad Parhaol (Llain Rhif 7-08 a 7-09).
 - Gwaith Rhif 18 -Gwaith Piblinell CO₂ (Llain Rhif 8-01).
 - Gwaith Rhif 18A - Mynediad Dros Dro (Llain Rhif 8-02).
 - Gwaith Rhif 19 -Gwaith Piblinell CO₂ (Llain Rhif 8-16).
 - Gwaith Rhif 39 -Gwaith Piblinell CO₂ (Llain Rhif 17-22 a 17-24).
 - Gwaith Rhif 42 -Gwaith Piblinell CO₂ (Llain Rhif 18-26).
 - Gwaith Rhif 44 -Gwaith Piblinell CO₂ (Llain Rhif 19-10, 19-11, 19-12, 20-01, 20-02, 20-03, 20-05, ac 20-06).
 - Gwaith Rhif 49 - Mynediad Parhaol (Llain Rhif 22-04).

- Gwaith Rhif 50 - Gwaith Piblinell CO₂ (Llain Rhif 22-06, 22-07, 22-08, 22-09 a 22-10).
- 8.2.3. Roedd y cais fel y'i cyflwynwyd yn wreiddiol yn cynnwys Datganiad o Resymau (SoR) [APP-027], Datganiad Cyllid [APP-009], BoR [APP-007] a Chynlluniau Tir [APP-011]. Fodd bynnag, cafwyd diwygiadau i'r dogfennau hyn drwy gydol yr Archwiliad gyda'r fersiynau diweddaraf wedi'u cael fel rhan o gyflwyniadau Terfyn Amser (DL) 7 (dydd Mawrth 5 Medi 2023).
- 8.2.4. Fel y cyfryw, y fersiynau diweddaraf o'r dogfennau uchod yw'r SoR [REP7-021], Datganiad Cyllid [APP-029], BoR [REP7-025] a Chynlluniau Tir [CR3-003]. Mae'r dogfennau hyn, gyda'i gilydd, yn sail i'r dadansoddiad yn y bennod hon. Dylid darllen cyfeiriadau at y SoR, BoR, y Datganiad Cyllid a'r Cynlluniau Tir yn y bennod hon o hyn ymlaen fel cyfeiriadau at y diwygiadau diweddaraf a nodir uchod, oni nodir yn wahanol.
- 8.2.5. Mae'r dDCO yn gwahaniaethu rhwng 'Tir y Gorchymyn' a 'Therfynau'r Gorchymyn'. Mae'n pennu mai Tir y Gorchymyn yw'r tir a ddangosir ar y cynlluniau tir [CR3-003], sydd o fewn terfynau tir i'w gaffael neu ei ddefnyddio a'i ddisgrifio yn y BoR [REP7-025]; tra diffinnir bod Terfynau'r Gorchymyn yn golygu "*... y cyfyngiadau a ddangosir ar y cynlluniau gwaith [REP7-007] lle gellir cyflawni'r datblygiad awdurdodedig*". Fel y cyfryw, mae Terfynau'r Gorchymyn yn cynnwys y tir sy'n ofynnol ar gyfer Gwaith Rhif 1 i 57N fel y dangosir ar y Cynllun Gwaith [REP7-007].
- 8.2.6. Mae Terfynau Gorchymyn y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) yn sefydlu maint y tir y gallai'r pwerau CA a TP sy'n cael eu ceisio effeithio arno ar hyd llwybr y Biblinell Arfaethedig. Mae union leoliad y Biblinell CO₂ a Adeiladir o'r Newydd, ei chymeriant tir cysylltiedig islaw'r wyneb a chaffaeliad hawliau arwyneb newydd, yn dibynnu ar aliniad ei llwybr o fewn y coridor hwnnw o dir a ddangosir yn binc ar y Cynlluniau Tir [CR3-003] ac yn gyffredinol mae'n 100 metr (m) o led. Mae hyn yn caniatáu i'r llwybr gael ei gwblhau yn y cam dylunio manwl.
- 8.2.7. Pan fydd union leoliad y Biblinell CO₂ a Adeiladir o'r Newydd yn hysbys, y lled gwaith cyffredinol sy'n ofynnol ar gyfer adeiladu'r Biblinell CO₂ a Adeiladir o'r Newydd fyddai 32m yn nodweddiadol, er bod hyn yn debygol o ehangu wrth groesfannau mawr neu ardaloedd o groesi heb ffos. Mae'r Ymgeisydd o'r farn y byddai'r lled hwn yn darparu'r hyblygrwydd angenrheidiol ar gyfer methodoleg fanwl y llwybro a'r adeiladu. Mewn rhai ardaloedd, mae Terfynau'r Gorchymyn arfaethedig yn ehangach er mwyn caniatáu ar gyfer materion a allai godi (e.e. amodau tir a allai fod yn broblemus, er mwyn lle i'r datblygiad a ganiatawyd, ac ati)
- 8.2.8. Ar ôl ei adeiladu, mae SoR yr Ymgeisydd [REP7-021] yn nodi: "*bydd y coridor tir mwyaf o 24.4m o led a gafaelwyd yn darparu digon o le ar gyfer mynediad gwaith diogel a gweithgareddau cynnal a chadw diogel wrth weithredu. Mae hyn yn cynnwys caniatáu digon o ardal waith i greu ffosydd i gael at y biblinell sydd wedi'i chladdu os oes angen. Mewn rhai lleoliadau, mae'r coridor wedi'i leihau i lai na 24.4m lle nad yw'n bosibl darparu'r lled hwnnw, megis lle mae Datblygiad Arfaethedig y DCO yn*

mynd ar hyd strydoedd cyfyngedig yn Church Lane a Chester Road. Yn y lleoliadau hyn, mae'r biblinell yn cael ei gosod trwy dechnegau di-ffos er mwyn peidio ag amharu ar ddefnyddiau'r wyneb ..." (paragraff 6.2.9). Mae'r ddogfen hon hefyd yn cadarnhau mai "... lled arfaethedig y caffaeliad islaw'r wyneb yw 24.4m ar y mwyaf." (paragraff 6.2.6).

- 8.2.9. Lle mae coridor y biblinell yn cael ei leihau, fel y nodwyd gan yr Ymgeisydd, mae'n nodi y byddai lled y caffaeliad parhaol, hawliau arwyneb ac amddiffyn yr arwyneb a diffyg mynediad gyda ffos mewn manau felly yn ychwanegu cymhlethdod a chost peirianeg. Fodd bynnag, mae hefyd yn nodi bod "... dyluniad y Datblygiad Arfaethedig wedi'i ddatblygu i ganiatáu ar gyfer hyn gan ystyried cyfyngiadau penodol y lleoliad."
- 8.2.10. O ran gweithredu'r Datblygiad Arfaethedig mae'r Ymgeisydd wedi datgan "... os oes angen gwneud gwaith ar y biblinell mewn lleoliadau lle mae coridor y biblinell wedi'i gyfyngu, bydd gwaith o'r fath yn cael ei wneud o byllau yn nau ben y gosodiad di-ffos. Er y bydd yr angen i greu a defnyddio pyllau o'r fath yn arwain at fwy o gymeriant tir yn y ddau ben, cyflwynir hyn i gynrychioli'r cydbwysedd priodol o dan yr holl amgylchiadau gan ystyried y defnyddiau presennol, yn enwedig eiddo preswyl, a fyddai fel arall yn destun effeithiau andwyol." (SoR [REP7-021] paragraff 6.2.10).
- 8.2.11. Nodir disgrifiad o 'Dir y Gorchymyn'/ 'Terfynau'r Gorchymyn' yn adran 3 o'r SoR [REP7-021] ac fe'i nodir ar y Cynlluniau Tir [CR3-003].

8.3. AT BA DDIBENION Y MAE ANGEN Y TIR

- 8.3.1. Mae'r dibenion y mae angen pwerau CA a TP atynt wedi'u nodi yn y BoR a'r SoR. I grynhoi, mae'r Ymgeisydd o'r farn bod datblygu'r Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol yn ei gwneud yn ofynnol caffael buddiannau ychwanegol mewn tir, caffael a chreu hawliau newydd o dan dir a thros dir, a defnydd dros dro o dir.
- 8.3.2. Fel y cyfryw, mae'r Ymgeisydd, er gwaethaf ei fwriad i gaffael y buddiannau a'r hawliau hyn drwy gytundeb gwirfoddol, yn ceisio pwerau i gaffael tir, buddiannau a hawliau yn orfodol, er mwyn sicrhau y gellir sicrhau'r buddiannau a'r hawliau angenrheidiol yn y tir heb oedi diangen. Yn absenoldeb pwerau o'r fath byddai ansicrwydd ynghylch ei allu i weithredu'r Datblygiad Arfaethedig ac effeithio ar fodloni amcan yr Ymgeisydd o ran gallu cyflawni'r Datblygiad Arfaethedig ac amcanion y Llywodraeth (fel y nodir yn y Datganiadau Polisi Cenedlaethol (NPS) a'r NPS drafft sy'n dod i'r amlwg.
- 8.3.3. Mae Terfynau Gorchymyn y DCO yn sefydlu maint y tir yr effeithir arno gan y pwerau CA a TP a geisir ar hyd llwybr y Biblinell Arfaethedig. Mae hyn er mwyn mynd i'r afael â nifer o rwystrau perchnogol posibl, gan gynnwys bodolaeth perchnogaeth, hawliau neu gyfyngiadau anhysbys dros dir y Gorchymyn ac ar gyfer y posibilrwydd na fydd cytundebau tir yn cael eu cwblhau. Dyma'r hawliau y mae'r Ymgeisydd yn gofyn amdanynt:

- i'w alluogi i gaffael y buddiant rhydd-ddaliadol mewn tir lle na fyddai pwerau eraill (megis, ymhlith pethau eraill, caffael hawliau newydd, diystyru hawliau, caffael isbridd yn unig neu feddiannaeth dros dro) yn ddigonol neu'n briodol i alluogi adeiladu, gweithredu, cynnal a chadw a datgomiynu'r Datblygiad Arfaethedig (Erthygl 24 o'r dDCO (yr APV (y TCV) [REP9-011]/ Erthygl 25 o'r DCO (yr EPBV) [REP8-007])).
- caffael hawliau yn barhaol, gan gynnwys drwy greu hawliau, y mae eu diben yn cynnwys hawliau mynediad ar gyfer adeiladu, gweithredu a chynnal Datblygiad Arfaethedig y DCO; yn ogystal â hawliau mynediad a hawliau ar gyfer cymryd camau lliniaru. O ran greu hawliau newydd, mae'r rhain yn cynnwys hawliau mynediad ar gyfer cynnal a chadw, a chyfamodau cyfyngol i sicrhau y diogelir y Biblinell CO₂ a Adeiladir o'r Newydd. (Erthygl 26 o'r dDCO (yr APV (y TCV) [REP9-011]/ Erthygl 27 o'r dDCO (yr EPBV) [REP8-007])).
- dileu a/neu ddiystyru hawliau i hwyluso adeiladu, gweithredu a/neu gynnal y Datblygiad Arfaethedig (Erthygl 27 o'r dDCO (yr APV (y TCV) [REP9-011]/ Erthygl 28 o'r dDCO (yr EPBV) [REP8-007]));
- y gallu i gaffael buddiannau yn yr isbridd a/neu'r awyrlle os ystyrir bod hyn yn ddigonol i alluogi adeiladu, gweithredu a/neu gynnal y Datblygiad Arfaethedig heb orfod caffael y buddiant rhydd-ddaliadol yn ei gyfanrwydd (Erthygl 31 o'r dDCO (yr APV (y TCV) [REP9-011]/ Erthygl 32 o'r dDCO (yr EPBV) [REP8-007]));
- yr hawl i fynd i mewn a meddiannu cymaint o'r isbridd neu'r awyrlle o dan neu dros unrhyw stryd o fewn Terfynau'r Gorchymyn ag sy'n ofynnol at ddibenion y Datblygiad Arfaethedig, neu unrhyw bwrpas ategol i'r Datblygiad Arfaethedig (Erthygl 33 o'r dDCO (yr APV (y TCV) [REP9-011]/ Erthygl 34 o'r dDCO (yr EPBV) [REP8-007])); a
- chymryd TP ar dir ar gyfer cyflawni'r Datblygiad Arfaethedig ac at ddibenion cynnal a chadw (Erthyglau 34 a 35 o'r dDCO (yr APV (y TCV) [REP9-011]/ Erthyglau 35 a 36 o'r dDCO (yr EPBV) [REP8-007])).

8.4. GOFYNION DEDDFWRIAETHOL

- 8.4.1. Mae Adran(nau) 122(2) o Ddeddf Cynllunio 2008 (DC2008) yn amodi y gall DCO gynnwys darpariaeth sy'n awdurdodi CA dim ond os yw'r Ysgrifennydd Gwladol (SoS) wedi ei fodloni bod amodau penodol yn cael eu bodloni. Mae'r rhain yn cynnwys bod angen y tir sy'n destun CA ar gyfer y datblygiad y mae'r caniatâd datblygu yn ymwneud ag ef neu ei fod yn ofynnol i hwyluso'r datblygiad neu'n anorfod i'r datblygiad.
- 8.4.2. Yn ogystal, mae a122(3) yn ei gwneud yn ofynnol bod achos cymhellol er budd y cyhoedd er mwyn caffael y tir yn orfodol. Er mwyn i hyn gael ei fodloni, mae canllawiau'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol ar CA (y Canllawiau CA) yn nodi y bydd angen perswadio'r SoS bod tystiolaeth gref y bydd y buddion cyhoeddus a fyddai'n deillio o'r CA yn gorbwyso'r golled breifat a fyddai'n cael ei dioddef gan y rhai y bydd eu tir yn cael ei gaffael.

- 8.4.3. Mae adran 123 yn ei gwneud yn ofynnol i'r SoS gael ei fodloni bod un o'r tri amod gweithdrefnol a nodir yn is-adrannau (2) i (4) yn cael ei fodloni, sef:
- bod y cais am y gorchymyn yn cynnwys cais am awdurdodi CA y tir - a123(2); neu
 - fod pob person sydd â buddiant yn y tir yn cydsynio i gynnwys y ddarpariaeth – a123(3); neu
 - fod y weithdrefn ragnodedig wedi'i dilyn mewn perthynas â'r tir - a123(4).
- 8.4.4. Roedd y cais yn cynnwys cais am awdurdodi CA y tir ac, o'r herwydd, mae'r Awdurdod Archwilio (ExA) wedi ei fodloni bod yr amod a nodir yn a123(2) Deddf Cynllunio 2008 wedi'i fodloni.
- 8.4.5. Mae Adran 127 Deddf Cynllunio 2008 yn berthnasol i dir Ymgwymerwr Statudol (SU). Mae adrannau 127(2) a (3) yn datgan y gall gorchymyn sy'n rhoi caniatâd datblygu gynnwys darpariaeth sy'n awdurdodi CA tir SU yn unig i'r graddau y mae'r SoS wedi ei fodloni y gellir ei brynu ac na fydd yn cael ei ddisodli heb niwed difrifol i gynnal yr ymgwymeriad neu os caiff ei brynu y gellir ei ddisodli gan dir arall sy'n perthyn i'r ymgwymerwyr, neu sydd ar gael i'w gaffael ganddynt, heb niwed difrifol i'r ymgwymeriad. Yn yr un modd, mae a127(5) a (6) Deddf Cynllunio 2008 yn darparu ar gyfer cynnwys darpariaethau mewn perthynas â CA hawliau sy'n perthyn i SU dim ond i'r graddau bod yr SoS yn fodlon y gellir cymryd yr hawl heb niwed difrifol i gyflawni'r ymgwymeriad, neu y gellir gwneud iawn am unrhyw niwed. Mae gan nifer o SU fuddiannau tir o fewn Terfynau'r Gorchymyn.
- 8.4.6. Mae adran 138 Deddf Cynllunio 2008 yn ymwneud â dileu hawliau ar dir SU. Mae'n nodi y gall gorchymyn gynnwys darpariaeth ar gyfer diddymu'r hawliau perthnasol, neu ddileu'r cyfarpar perthnasol dim ond os yw'r SoS yn fodlon bod y diddymu neu ddileu yn angenrheidiol at ddibenion cyflawni'r datblygiad y mae'n ymwneud ag ef. Ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig, mae'r adran hon o Ddeddf Cynllunio 2008 yn berthnasol i SU sydd â buddiannau tir a chyfarpar o fewn Terfynau'r Gorchymyn.
- 8.4.7. Mae pwerau TP hefyd yn gallu bod o fewn cwmpas DCO yn rhinwedd paragraff 2, Rhan 1 o Atodlen 5 i Ddeddf Cynllunio 2008. Mae hyn yn caniatáu ar gyfer, ymhlith pethau eraill, atal buddiannau mewn tir neu hawliau dros dir yn orfodol neu drwy gytundeb. Nid yw Deddf Cynllunio 2008 a'r Canllawiau CA cysylltiedig yn cynnwys yr un lefel o fanyleb a phrofion i'w bodloni mewn perthynas â rhoi pwerau TP, gan nad yw pwerau o'r fath trwy ddiffiniad yn ceisio amddifadu neu ddiwygio buddiannau person mewn tir yn barhaol. Ymhellach, mae pwerau felly'n tueddu i fod yn bwerau ategol ac yn ddibynnol ar gynnig y cais yn ei gyfanrwydd, heb allu bwrw ymlaen heblaw bod y datblygiad sylfaenol wedi'i gyfiawnhau.
- 8.4.8. Mae Deddf Cynllunio Cymdogaeth 2017 yn cynnwys nifer o ddarpariaethau sy'n ymwneud â TP ar dir, gan gynnwys gofynion hysbysiadau, cyflwyno gwrth-hysbysiadau a digolledu. Nid yw'r darpariaethau hyn mewn grym eto ac fe'u disgrifir fel newidiadau

technegol yn y nodiadau esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf. Er nad oes angen asesu'r cynnig yn erbyn y darpariaethau hyn, maent yn arwydd defnyddiol o'r ffordd yr ystyria'r Senedd y dylid mynd i'r afael â'r materion hyn a sut y gellir sicrhau cydbwysedd rhwng awdurdodau caffael a'r rhai y mae defnyddio'r cyfryw bwerau yn effeithio ar eu buddiannau. O ganlyniad, mae'r ExA wedi rhoi sylw i'r egwyddorion cyffredinol a nodwyd ganddynt wrth gyrraedd ei argymhelliad.

- 8.4.9. Yn ogystal â'r gofynion deddfwriaethol a nodir uchod, mae'r Canllawiau CA yn nodi nifer o ystyriaethau cyffredinol y mae'n rhaid mynd i'r afael â hwy hefyd, gan gynnwys:
- a yw'r holl ddewisiadau rhesymol yn lle CA wedi'u harchwilio.
 - a oes gan yr Ymgeisydd syniad clir o sut mae'n bwriadu defnyddio'r tir sy'n destun pwerau CA;
 - a all yr Ymgeisydd ddangos bod arian ar gael i fodloni'r rhwymedigaethau digolledu a allai ddeillio o arfer pwerau CA; ac
 - a yw'r SoS yn fodlon bod y dibenion a nodir ar gyfer y CA a TP yn ddilys ac yn ddigon i gyfiawnhau'r ymyrraeth anochel â hawliau dynol y rhai yr effeithir arnynt.
- 8.4.10. Mae'r ExA wedi ystyried yr holl ddeddfwriaeth a chanllawiau perthnasol yn ei resymu isod a daw i gasgliadau perthnasol ar ddiwedd y bennod hon.

8.5. ARCHWILIO'R ACHOS CA A TP

- 8.5.1. Wrth archwilio'r cais, mae'r ExA wedi ystyried yr holl ddeunydd ysgrifenedig mewn perthynas â CA a TP. Gofynnodd gwestiynau i'r Ymgeisydd a'r Personau yr Effeithir Arnynt (AP) yng Nghwestiynau Ysgrifenedig Cyntaf (ExQ1) [PD-014], Ail Gwestiynau Ysgrifenedig (ExQ2) [PD-022] a Thrydydd Cwestiynau Ysgrifenedig (ExQ3) [PD-027] yr ExA. Cyhoeddodd hefyd lythyr Rheol 17 [PD-028] yn gofyn am ragor o wybodaeth gan yr Ymgeisydd mewn perthynas â CA a TP. Yn ogystal, cynhaliodd ddau wrandawriad CA (CAH), a gynhaliwyd ar amseroedd a lleoliadau ar wahân.
- 8.5.2. Cynhaliwyd y CAH cyntaf (CAH1) ar 7 Mehefin 2023 yn Ewlo, Sir y Fflint ac eisteddodd mewn tair sesiwn, (Sesiwn CAH1 [EV-014], Sesiwn CAH1 2 [EV-015] a Sesiwn CAH1 3 [EV-016]). Cynhaliwyd yr ail CAH (CAH2) ar 10 Awst 2023 yng Nghaer, Swydd Gaerlleon ac eisteddodd mewn dwy sesiwn (Sesiwn 1 CAH2 [EV-034] a Sesiwn 2 CAH2 [EV-035]). Pwrpas y CAH hyn oedd archwilio materion CA/TP yn fanylach. Hefyd, cynhaliodd yr ExA Archwiliadau Safle gyda Chwmni (ASI), lle'r oedd yn gallu gweld rhannau o'r tir CA sy'n destun gwrthwynebiadau a'r tir y ceisir pwerau TP drosto. Disgrifir y prosesau hyn ymhellach isod.

PROSES AU YSGRIFENEDIG

- 8.5.3. Yn ExQ1 [PD-014] (C1.6.1 i C1.6.23) gofynnodd yr ExA am ragor o wybodaeth am nifer o faterion CA, a archwiliwyd hefyd yn ystod CAH1 (Sesiwn 1 [EV-014], Sesiwn 2 CAH2 [EV-015] a Sesiwn 3 CAH1 [EV-016]). Roedd y materion hyn yn cynnwys (er enghraifft):

- a oedd unrhyw anghywirdebau yn y BoR, SoR neu Gynlluniau Tir ac a oedd y BoR yn cydymffurfio â'r canllawiau perthnasol¹⁰;
- digonolrwydd y Datganiad Cyllid;
- sut roedd trafodaethau gydag AP yn datblygu (gan gynnwys SU);
- nodi pob person sydd â buddiant yn y tir;
- nodi personau Categori 3;
- unrhyw ddewisiadau rhesymol yn lle CA neu TP; a
- barn AP am unrhyw ardal o dir neu hawliau, yn destun CA/TP, nad ystyrir eu bod yn ofynnol.

8.5.4. Darparwyd diweddariadau ar y cynnydd a wnaed gydag AP mewn perthynas â CA a TP yn rheolaidd, gan gynnwys: DL1 [REP1-009]; DL2 [REP2-010]; DL3 [REP3-012]; DL4 [REP4-014]; DL5 [REP5-006]; DL6 [REP6-004]; DL6a [REP6a-004]; DL7 [REP7-023]; DL8 [REP8-010] a DL9 [REP9-015].

8.5.5. Roedd ExQ2 yr ExA yn cynnwys sawl cwestiwn ychwanegol (C2.6.1 i C2.6.6) yn deillio o'r dystiolaeth ysgrifenedig, o'r ymatebion i'w ExQ1 a chafodd materion CA/TP eu trafod ymhellach yn y CAH2 (Sesiwn 1 [EV-034] a Sesiwn 2 [EV-035]). Roedd y materion a drafodwyd yn CAH2 yn cynnwys, er enghraifft:

- ceisiadau am ddiweddariadau ar drafodaethau rhwng yr Ymgeisydd ac AP;
- a oedd yr holl ddewisiadau rhesymol yn lle CA/TP wedi'u harchwilio;
- a ganiatawyd digon o amser gydag AP ar gyfer trafodaethau mewn perthynas â CA/TP;
- effeithiau CA/TP ar SU; a
- cynnydd o ran Darpariaethau Amddiffynnol (PP) ac a oeddent yn addas at y diben.

8.5.6. Yn ExQ3 roedd yr ExA yn cynnwys nifer o gwestiynau ychwanegol (C3.6.1 i C3.6.6) yn codi o'r dystiolaeth ysgrifenedig, o'r ymatebion i ExQ1, ExQ2 a CAH2. Roedd y materion yn cynnwys, er enghraifft:

- ffin Terfynau'r Gorchymyn, fel y disgrifir ar y Cynlluniau Tir (a'r fersiwn terfynol yw [CR3-003]);
- eglurhad gan y Prifffyrdd Cenedlaethol mewn perthynas â CA/TP a materion eraill; ac
- eglurhad ynghylch Llain 17-02, tir a nodwyd gan yr Ymgeisydd fel tir categori arbennig.

GWRANDAWIADAU

8.5.7. Yn ystod yr Archwiliad, cynhaliwyd dau CAH. Fel y nodwyd uchod, cynhaliwyd y rhain ar ddiwrnodau a lleoliadau ar wahân. Yn CAH1 dewisodd nifer o AP neu eu cynrychiolwyr fynychu'r CAH. Roeddent yn cynnwys:

- Cyngor Bwrdeistref Gorllewin Swydd Gaerlleon a Chaer (CWCC);

¹⁰ Deddf Cynllunio 2008, Canllawiau yn ymwneud â gweithdrefnau ar gyfer caffael tir yn orfodol, yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, Medi 2013.

- Cyngor Sir y Fflint (FCC);
- Asiantaeth yr Amgylchedd (EA);
- Priffyrdd Cenedlaethol (NH);
- Glandŵr Cymru (CRT);
- Encirc Limited;
- Cyngor Cymuned Penarlâg;
- Messer's Oultram (Fisher German LLP a Stephens Scown LLP);
- J Bradburne Price & Co ar ran:
 - Ysgutorion Mrs G. Evans,
 - Mr A. a Mrs K. Hirst,
 - Mr J. C. Peers; a
 - gwneud sylwadau cyffredinol ar ran eraill; a
- Mr J. Williams.

8.5.8. Yn CAH2 dewisodd pedwar AP neu eu cynrychiolwyr fynychu'r CAH. Roeddent yn cynnwys:

- CWCC;
- FCC;
- Encirc Limited; a
- Messer's Oultram (Fisher German LLP a Stephens Scown LLP).

8.5.9. Cafodd holl sesiynau'r CAH eu recordio a'u ffrydio'n fyw yn ddigidol. Cyhoeddwyd recordiadau fideo digidol sesiynau CAH1 a CAH2 ar dudalen we'r prosiect ar wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol. Yn y ddau CAH gofynnodd yr ExA nifer o gwestiynau i'r Ymgeisydd ac AP. Roedd hefyd yn gwahodd unrhyw AP a oedd yn dymuno ymateb i unrhyw beth a gododd o'r CAH i wneud hynny'n ysgrifenedig. O ran AP yn mynychu CAH1 gofynnwyd am unrhyw gyflwyniadau o'r fath erbyn DL4 (dydd Mawrth 20 Mehefin 2023), ac o ran CAH2 gofynnwyd am unrhyw gyflwyniadau o'r fath erbyn DL7 (dydd Mawrth 5 Medi 2023). Roedd hyn yn rhoi cyfleoedd i AP wneud sylwadau ar y broses CA/TP ac ar yr hawliau a geisiwyd a'r darpariaethau a gynigiwyd mewn gwahanol iteriadau o'r dDCO wrth i'r Archwiliad fynd yn ei flaen.

8.5.10. Roedd cwestiynau'r ExA yn y ddau CAH yn gofyn am wybodaeth a/neu eglurhad ar nifer o faterion gan gynnwys:

- dull cyffredinol yr Ymgeisydd o ymdrin â CA a TP yng nghyd-destun y profion perthnasol o dan Ddeddf Cynllunio 2008 a'r Canllawiau CA;
- pwrpas, strwythur a chynnwys y BoR, SoR a'r Datganiad Cyllid a'r pwerau a geisir a'r achos cyffredinol dros roi'r pwerau hynny;
- materion nad oeddent yn glir o'r dystiolaeth ysgrifenedig;
- yr angen am hawliau TP, a'r dull o ymdrin â hwy;
- cynnydd ar drafodaethau gydag AP;
- yr angen i gaffael hawliau a dewisiadau amgen;
- diweddariadau i'r BoR a'r Cynlluniau Tir;
- PP mewn perthynas ag SU ac eraill; ac
- a oes achos cymhellol er budd y cyhoedd.

ARCHWILIADAU SAFLE GYDA CHWMNI

8.5.11. Fel y nodwyd ym Mhennod 1, cynhaliwyd ASI gan yr ExA brynhawn dydd Llun 7 Awst 2023 a thrwy'r dydd ddydd Mawrth 8 Awst 2023. Cyn hyn, gwahoddwyd AP i awgrymu lleoliadau i'w harchwilio. Yn ystod yr ASI, arsylwodd yr ExA nifer o safleoedd yr effeithiwyd arnynt gan gynigion CA a TP yr Ymgeisydd. Roedd hyn yn rhoi dealltwriaeth i'r ExA o leoliad y lleiniau hynny, yn ogystal â'r seilwaith uwchben y ddaear yn y fan a'r lle. Gellir dod o hyd i fanylion llawn y safleoedd yr ymwelwyd â nhw yn Hynt yr ASI [PD-021].

ACHOS YR YMGEISYDD

8.5.12. Nodir achos yr ymgeisydd yn y SoR [REP7-021], a oedd ynghlwm wrth Ddatganiad Cyllid [APP-049], Cynlluniau Tir [CR3-003] a BoR [REP7-025].

8.5.13. Nodir gwybodaeth ategol fanwl yn y Datganiad Cynllunio [REP4-021] a'r Datganiad Amgylcheddol, lle ym Mhenodau 3 (Disgrifiad o Ddatblygiad Arfaethedig y DCO) [REP7-036] a 4 (Ystyried Dewisiadau Eraill) [REP7-038] mae'n disgrifio'r Datblygiad Arfaethedig ac yn nodi ei esblygiad dylunio, gan gynnwys ystyried dewisiadau amgen (adran 4). Roedd yr adran hon hefyd yn ystyried 'Opsw'n Amgen Gwneud Dim' (Adran 4.3).

8.5.14. Yn ystod yr Archwiliad, darparodd yr Ymgeisydd wybodaeth ychwanegol hefyd mewn ymateb i'r ExQ1 [PD-014], ExQ2 [PD-022] ac ExQ3 [PD-027]; cyflwyniadau Parti/ Partion â Buddiant (IP) ac AP a chyflwyniadau mewn ymateb i SU.

Gofynion ar gyfer CA Tir

8.5.15. Mae'r angen am y Datblygiad Arfaethedig yn cael ei gwmpasu'n fanylach yn Natganiad Angen yr Ymgeisydd [APP-049] ac yn Adran 4 y SoR [REP7-021]. Mae'r ExA yn asesu'r angen am y Cais ym Mhennod 5 yr Adroddiad hwn yn yr adran o'r enw 'Angen am y Datblygiad Arfaethedig'.

8.5.16. Mae'r Ymgeisydd yn chwilio am bwerau CA i'w alluogi i gaffael tir a buddiannau mewn tir y byddai ei angen i adeiladu, gweithredu a chynnal y Datblygiad Arfaethedig. Yn absenoldeb CA, mae'r Ymgeisydd o'r farn na fydd yr holl dir sy'n ofynnol i ganiatáu'r Datblygiad Arfaethedig yn cael ei gaffael efallai ac ni fydd yn gallu bwrw ymlaen. Mae hefyd yn dweud:

- bod "... angen cael sicrwydd y gellir cael yr hawliau a'r tir gofynnol o fewn amserlen resymol." (paragraff 2.2.2 o'r SoR [REP7-021]); ac
- "O ystyried y gefnogaeth bolisi glir ar gyfer datblygu prosiectau o'r math hwn, mae rhoi pwerau CA i'r... Datblygiad Arfaethedig yn cynrychioli ymyrraeth gymesur a chyfreithlon â hawliau preifat er budd y cyhoedd." (paragraff 2.2.2 o'r SoR [REP7-021]);

8.5.17. Mae'r Ymgeisydd wedi cynghori, lle bynnag y bo'n bosibl, y bydd yn cyd-drafod i gaffael y tir a'r buddiannau sydd eu hangen arno i gyflawni'r cynllun drwy gytundeb gwirfoddol [REP7-021]. Fodd bynnag, mae hefyd yn nodi lle "...mae'n ymddangos bod trafodaethau'n annhebygol o gael eu cwblhau neu eu cwblhau mewn pryd..." y bydd yn ceisio sicrhau'r tir

a'r hawliau hynny drwy arfer y pwerau CA a roddir yn y DCO, pe bai'n cael ei wneud.

- 8.5.18. Cefnogir y Cais gan y Cynlluniau Tir [CR3-003] sy'n dangos y tir a'r buddiannau sy'n ofynnol, tra bod y Cynlluniau Gwaith [REP7-007] yn dangos y gwaith sydd i'w wneud. Mae adran 6 o'r SoR [REP7-021] yn esbonio ym mha ffordd y byddai'r gwaith i'w wneud yn effeithio ar bob llain o dir. Mae hefyd yn cynnwys nifer o dablau, sy'n nodi'r lleiniau y byddai effaith arnynt a pham mae'r Ymgeisydd yn ceisio eu caffael. Mae Tabl 1 yn nodi'r lleiniau lle ceisir 'Caffael tir yn barhaol ar gyfer safleoedd arwyneb'; mae Tabl 2 yn nodi lle ceisir 'Caffael tir yn barhaol ar gyfer y biblinell', tra bod Tabl 3 yn nodi'r lleiniau lle ceisir 'Caffael hawliau yn barhaol'.
- 8.5.19. Ceisir pwerau TP hefyd ac mae Tabl 4 yn Adran 6 y SoR [REP7-021] yn nodi'r lleiniau lle mae angen TP ac at ba ddiben y defnyddir pob un o'r lleiniau.
- 8.5.20. Yn ogystal â defnyddio pwerau CA a TP, mae'r Ymgeisydd hefyd yn ceisio:
- y gallu i ddiddymu hawliau, yn ogystal â'r gallu i greu hawliau newydd neu osod cyfamodau cyfyngol, i hwyluso adeiladu, gweithredu a/neu gynnal y Datblygiad Arfaethedig, (Erthyglau 29 (Hawliau Preifat) a 36 (SU) y dDCO (yr APV (y TCV) [REP9-011]/ Erthyglau 30 (Hawliau Preifat) a 37 (SU) y dDCO (yr EPBV) [REP8-007]));
 - y gallu i gaffael buddiannau yn yr isbridd a/neu awyrle lle ystyrir bod hyn yn ddigonol i alluogi adeiladu, gweithredu a/neu gynnal y Datblygiad Arfaethedig heb fod angen caffael buddiant rhydd-ddaliadol yn ei gyfanrwydd (Erthygl 31 (Caffael isbridd neu awyrle yn unig) dy DCO (yr APV (y TCV) [REP9-011]/ Erthygl 37 (Caffael isbridd neu awyrle yn unig) y dDCO (yr EPBV) [REP8-007]); a
 - yr hawl i fynd i mewn a meddiannu cymaint o'r isbridd neu'r awyrle o dan neu dros unrhyw stryd o fewn Terfynau'r Gorchymyn ag sy'n ofynnol at ddibenion y Datblygiad Arfaethedig, neu unrhyw bwrpas ategol i'r Datblygiad Arfaethedig (Erthygl 33 (Hawliau o dan neu dros strydoedd) y dDCO (yr APV (y TCV) [REP9-011]/ Erthygl 34 (Hawliau o dan neu dros strydoedd) y dDCO (yr EPBV) [REP8-007])).
- 8.5.21. Mae'r SoR [REP7-021] pan gaiff ei ddarllen fel dogfen gyfan yn nodi'n glir bod yr ymyrraeth arfaethedig â hawliau'r rhai sydd â buddiant yn Nhir y Gorchymyn at ddiben cyfreithlon, sef y Datblygiad Arfaethedig, a bod ymyrraeth o'r fath yn angenrheidiol ac yn gymesur â'r diben hwnnw. Mae'r Ymgeisydd hefyd yn ailadrodd ei farn y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn dwyn buddion cyhoeddus sylweddol ac y byddai'r rhain yn gorbwyso'r golled breifat a fyddai'n cael ei dioddef gan y rhai y mae eu tir neu eu buddiannau i'w caffael, ac felly bod modd cyfiawnhau ymyrraeth â'r tir neu'r hawliau hynny.

DEWISIADAU AMGEN

- 8.5.22. Ym Mhennod 4 y Datganiad Amgylcheddol [REP7-038] archwiliodd yr Ymgeisydd opsiynau amgen ar gyfer y cynllun. Roedd y rhain yn cynnwys senario 'gwneud dim', yn ogystal â'r ystyriaethau a roddwyd i opsiynau llwybro eraill a'r rhesymau dros ddiystyru'r opsiynau hynny.
- 8.5.23. Wrth ddewis llwybr y Biblinell Arfaethedig, gwerthusodd yr Ymgeisydd nifer o opsiynau coridor i nodi'r cyfle gorau yn erbyn y cyfyngiadau hysbys a'i egwyddorion arweiniol i lywio'r broses ddethol:
- Osgoi, lleihau a rheoli effeithiau ar yr amgylchedd ac amwynder lleol.
 - Sicrhau bod y CO₂ yn cael ei gludo yn ddiogel.
 - Sicrhau'r buddion economaidd-gymdeithasol mwyaf posibl yn y rhanbarth.
 - Bod yn dechnegol hyfyw a bod modd ei adeiladu gyda'r aflonyddwch lleiaf posibl.
 - Bod yn gost-effeithiol.
- 8.5.24. Roedd yr Ymgeisydd hefyd o'r farn bod gan goridau unigol fantais dros ddewisiadau amgen eraill:
- lle'r oedd yn agosach byddai'n darparu mwy o gyfleoedd i gysylltu ag allyrwy'r diwydiannol presennol, byddai'n defnyddio mwy o seilwaith presennol, yn mynd trwy ardaloedd llai cymhleth neu drefol (lle bo hynny'n bosibl), a/neu'n lleihau cymeriant tir a'r angen am CA;
 - byddai'n debygol o fod wedi gwella canlyniadau amgylcheddol yn erbyn yr opsiynau eraill dan ystyriaeth drwy osgoi neu gael llai o effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd;
 - byddai'n darparu canlyniadau cymdeithasol ac economaidd o fwy o fudd o'i gymharu â'r coridorau eraill; a
 - byddai'n darparu achos busnes cryfach, er enghraifft, gellid ei osod am gost adeiladu a gweithredol resymol, gyda llai o gyfyngiadau peirianyddol.
- 8.5.25. Byddai'r holl opsiynau amgen wedi golygu bod CA a TP y tir yn ofynnol ac, o ganlyniad, mae'r Ymgeisydd yn argymhell nad yw'r tir y bwriedir ei gaffael ar gyfer y cynllun yn fwy nag sy'n ofynnol yn rhesymol i'r Ymgeisydd ei feddiannu ac ar gyfer adeiladu, lliniaru a chynnal a chadw'r cynllun yn barhaus.
- 8.5.26. I benderfynu'r senario 'gwneud dim' roedd yr Ymgeisydd o'r farn nad oedd senario o'r fath yn briodol o ystyried ymrwymiad y DU i gyrraedd ei tharged Sero Net 2050, a fyddai hefyd yn golygu na fyddai allyriadau carbon o ffynonellau diwydiannol yng Ngogledd Cymru a rhanbarth Gogledd-orllewin Lloegr yn cael eu lleihau.
- 8.5.27. Mae'n amlwg bod yr Ymgeisydd wedi ystyried opsiynau ac atebion llwybro amgen yn ystod esblygiad y Datblygiad Arfaethedig a'r broses ddyfunio hyd yma. Fodd bynnag, canfu na fyddai unrhyw un o'r dewisiadau amgen hyn yn darparu buddion cymharol er budd y cyhoedd i'r Datblygiad Arfaethedig a'u bod yn llai dymunol o ystyried y meini prawf dethol a nodir uchod, a oedd yn cynnwys materion amgylcheddol a thechnegol, gan gynnwys presenoldeb seilwaith presennol a ffynonellau diwydiannol.

- 8.5.28. Mae'r ExA yn nodi bod SoR yr Ymgeisydd [REP7-021] yn nodi y bydd yn parhau i fynd ar drywydd trafodaethau i gaffael y buddiannau perthnasol trwy gytundeb gwirfoddol. Yn wir, fel rhan o gyflwyniadau'r Ymgeisydd adeg DL, darparwyd diweddariadau rheolaidd ar y cynnydd a wnaed gydag AP mewn perthynas â CA a TP, gan gynnwys: DL1 [REP1-009]; DL2 [REP2-010]; DL3 [REP3-012]; DL4 [REP4-014]; DL5 [REP5-006]; DL6 [REP6-004]; DL6a [REP6a-004]; DL7 [REP7-023]; DL8 [REP8-010] a DL9 [REP9-015]. Trwy'r diweddariadau hyn a chyflwyniadau eraill i'r Archwiliad, mae'n amlwg y bu trafodaethau rhwng yr Ymgeisydd a llawer o'r AP yn parhau drwy gydol yr Archwiliad, gyda chytundeb yn cael ei wneud i gaffael y tir a'r hawliau angenrheidiol gyda nifer ohonynt. Mae'r ExA yn ystyried y materion hyn yn fanylach isod.
- 8.5.29. I gloi, mae'r Ymgeisydd yn datgan "*Mae'r holl ddewisiadau rhesymol yn lle CA wedi cael eu harchwilio. Mae'r Ymgeisydd wedi nodi'n glir at beth y bydd pob Llain o dir y Gorchymyn yn cael ei ddefnyddio a pham y bydd ei angen. O ystyried yr angen cenedlaethol a lleol am Ddatblygiad Arfaethedig y DCO a'r gefnogaeth iddo mewn polisi, yn ogystal ag addasrwydd tir y Gorchymyn, cyfiawnheir CA y tir, buddiannau eraill ynghyd ag atal a dileu materion sy'n effeithio ar dir y Gorchymyn a nodwyd gan yr Ymgeisydd ar gyfer Datblygiad Arfaethedig y DCO*" (paragraff 10.1.3 o'r SoR [REP7-021]).

ARGAELEDD A DIGONOLRWYDD ARIAN

- 8.5.30. Roedd Datganiad Cyllid [APP-029] yn cyd-fynd â'r cais, pan gyflwynwyd y cais am y tro cyntaf. Yn y datganiad hwnnw mae'r Ymgeisydd yn amcangyfrif mai cyfanswm cost datblygu'r prosiect yw £250 miliwn, ac amcangyfrifir mai £20.7 miliwn ohono yw cyfanswm cost caffael tir a hawliau dros dir (costau CA).
- 8.5.31. Mae Datganiad Cyllid yr Ymgeisydd [APP-029] yn cadarnhau "*... mewn perthynas â chynulliad tir, gan gynnwys unrhyw arfer pwerau CA, yn cael ei ddarparu gan Eni UK Limited a bydd yn cael ei warantu drwy warant rhiant-gwmni gan Eni UK Limited o blaid yr Ymgeisydd.*" (paragraff 1.4.9) Fel y cyfryw, mae'r Ymgeisydd yn cadarnhau "*... na fydd angen cael unrhyw gyllid trydydd parti mewn perthynas â'r gofynion cynulliad tir...*" am fod ei riant-gwmni (Eni UK Limited) "*... wedi cymryd y costau hyn i ystyriaeth, fel y byddent gydag unrhyw brosiect seilwaith mawr y maent yn ei ariannu, a byddant yn sicrhau y bydd yr arian angenrheidiol ar gael i'r Ymgeisydd yn ôl y gofyn.*" (paragraff 1.4.10).
- 8.5.32. O ran cyfanswm cost datblygu'r prosiect, mae'r Ymgeisydd yn cynghori bod y costau hyn yn cynnwys costau adeiladu, datblygu, rheoli prosiect, caffael tir a gweithredu. Mae'n cynghori y bydd cyllid ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig "*... yn cael ei ddarparu drwy ffynonellau mewnol ac o bosibl trefniadau dyled allanol.*" (Paragraff 1.5.1). Mae hefyd yn cynghori y "*Bydd pob gweithgaredd i gefnogi FEED [Dylunio Peirianeg Pen Blaen] yn cael ei ariannu gan Eni UK Limited...*" (ei riant-gwmni) ac y bydd "*costau a geir ar ôl y penderfyniad buddsoddi terfynol ar Ddatblygiad Arfaethedig y DCO yn cael eu hariannu o gyfuniad o ecwiti, cyllid dyled a chymorth uniongyrchol y llywodraeth o bosibl, gyda'r union*

gyfuniad yn dibynnu ar gadarnhau'r modelau busnes sy'n cael eu datblygu gan BEIS a thrafodaethau parhaus gyda chynghorwyr ariannol." (paragraff 1.5.2).

- 8.5.33. Mae'r Datganiad Cyllid yn nodi bod gan yr Ymgeisydd y gallu i gaffael yr adnoddau ariannol sydd eu hangen ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig, gan gynnwys cost caffael unrhyw dir a hawliau a thalu iawndal, gan gynnwys yn achos hawliad am falltod.
- 8.5.34. Ni chodwyd digonolrwydd y cyllid ar gyfer CA gan unrhyw IP yn ystod yr Archwiliad. Fel rhan o ExQ1, gofynnodd yr ExA am eglurhad ar:
- ddadansoddiad o'r costau CA a ragwelir neu ddarparu esboniad manwl ynghylch pam na ddylid cyflwyno gwybodaeth o'r fath i'r Archwiliad; ac
 - amcangyfrif o gyfanswm y gost CA, gan ofyn i'r Ymgeisydd egluro sut y cyrhaeddwyd y ffigur CA a sut y byddai'r costau hyn yn cael eu talu.
- 8.5.35. Mewn ymateb [REP1-044] cynghorodd yr Ymgeisydd *"Mae Amcangyfrif Cost Eiddo (PCE) llawn wedi cael ei gynnal... sy'n dadansoddi'r costau CA disgwylledig i'r holl leiniau a nodwyd o fewn Terfynau'r Gorchymyn. Mae'r PCE yn gyfrinachol ac felly ni fydd yn cael ei gyflwyno i'r Archwiliad. Seiliwyd y PCE ar 'gyfradd y farchnad' ar gyfer tir yn yr ardal gan ystyried data gwerthu diweddar. Addaswyd hyn ar gyfer ffactorau unigol hysbys sy'n effeithio ar eiddo, megis lle ceisiwyd caniatâd cynllunio a fyddai'n newid gwerth tir. Mae rhywfaint o'r wybodaeth hon yn fasnachol gyfrinachol neu'n cynnwys gwybodaeth fusnes benodol a ddarparwyd i'r Ymgeisydd na chafodd ei rhoi yng nghyd-destun cael ei chyhoeddi."*
- 8.5.36. Mae'r ExA yn nodi bod yr Ymgeisydd, yn ei Ddatganiad Cyllid [APP-029], wedi cadarnhau ei fod wedi penodi cwmnïau arbenigol o ran materion digolledu. Mae hefyd yn nodi dadl yr Ymgeisydd ynghylch darparu amcangyfrif cost eiddo, sef y byddai darparu dadansoddiad manwl o'r costau CA disgwylledig neu amcangyfrif o gyfanswm y gost CA yn niweidiol i drafodaethau parhaus, gan fod gwybodaeth felly'n fasnachol sensitif.
- 8.5.37. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd hefyd yn ei ymateb i'r ExQ1 [REP1-044] *"Mae trafodaethau masnachol gyda thirfeddianwyr yn parhau ac mae'r Ymgeisydd yn hyderus y gellir gwneud cynnydd da ar y rheini. Mae'r Ymgeisydd o'r farn, er bod angen bodloni'r ExA bod digon o gyllid ar gael yn gyffredinol, gan gynnwys ar gyfer digolledu, nid oes angen gwneud hynny fesul achos ond yn hytrach fesul prosiect cyfan. O ystyried yr erwau sy'n gysylltiedig, mae gwyriadau o'r naill dirddaliad i'r llall yn tueddu i gyfartaleddu ar draws y cynllun gan ganiatáu i werth cyfartalog y farchnad gynrychioli dirprwy rhesymol."*
- 8.5.38. O ran ariannu'r rhwymedigaethau sy'n codi o CA, cadarnhaodd Datganiad Cyllid yr Ymgeisydd [APP-029] y bydd cyllid *"... mewn perthynas â chynulliad tir, gan gynnwys unrhyw arfer pwerau CA, yn cael ei ddarparu gan Eni UK Limited a bydd yn cael ei warantu drwy warant rhiant-gwmni gan Eni UK Limited o blaid yr Ymgeisydd."*

8.5.39. Cadarnhaodd hefyd ei fod, fel rhiant-gwmni'r Ymgeisydd yn y DU wedi "... cymryd y costau hyn i ystyriaeth..." ac y "... bydd yn sicrhau y bydd yr arian angenrheidiol ar gael i'r Ymgeisydd pan fo angen." Beth bynnag, nid oes unrhyw reswm dros dybio na ellid sicrhau cyllid ychwanegol yn y digwyddiad annhebygol iawn ei fod yn ofynnol gan gofio:

- statws ariannol rhiant-gwmni yr Ymgeisydd (Eni (UK) Limited), y cadarnhawyd ar 31 Rhagfyr 2021 fod ganddo gyfanswm asedau o £866 miliwn, gyda £124 miliwn cyfwerth ag arian parod; a
- bod rhiant-gwmni eithaf Eni (UK) Limited, Eni SpA, wedi'i restru ar Gyfnewidfydd Stoc Milan ac Efrog Newydd, gyda chyfanswm asedau o €74,251 miliwn, ar 31 Rhagfyr 2021.
- bod Eni SpA yn gallu dibynnu ar y sgoriau credyd canlynol:
 - A-/Sefydlog/A-2 (Standard & Poor's) (22 Rhagfyr 2021); a
 - Baa1 (Sgôr Credyd Tymor Hir) (Moody's) (7 Medi 2022).

8.5.40. Nid oes unrhyw Bartïon â Buddiant wedi herio Datganiad Cyllid yr Ymgeisydd [APP-029] na'i ymatebion i ExQ mewn perthynas â'r mater hwn. Yn wir, nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n ceisio gwrth-ddweud na herio safbwynt yr Ymgeisydd ar gyllid wedi'i chynnwys yn yr Archwiliad ac yn seiliedig ar yr wybodaeth gerbron yr Awdurdod Archwilio ac mae'n fodlon bod yr arian angenrheidiol ar gael i'r Ymgeisydd.

8.6. MATERION A GODWYD YN YR ARCHWILIAD/ GWRTHWYNEBIADAU I CA A TP

8.6.1. Ar ddechrau'r Archwiliad, roedd yr APau canlynol wedi gwrthwynebu cynigion CA a TP neu godi pryderon ynglŷn â nhw:

- Cadent Gas Limited [RR-006].
- CRT [RR-008].
- EA [RR-024].
- Essar Oil UK Ltd [RR-002].
- Exolum Pipeline Systems Limited [RR-033].
- Network Rail (Cymru a Lloegr) (NR) [RR-026].
- National Grid Electricity Transmission PLC (NGET) [RR-062]/ National Grid Gas PLC (NGG) [RR-063].
- NH [RR-064].
- Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) [RR-066].
- Scottish Power Energy Networks (SPEN) [RR-075].
- United Utilities Water (UUW) [RR-080].
- Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) [RR-023].
- A White Events Limited [RR-027].
- Peel NRE Limited [RR-078].
- Travelodge Hotels Limited [RR-011].
- Ian Bentley [RR-044].
- John Horace George Bletcher [RR-055].
- Mr David John Brown, Mr James Edward Brown, a Mrs Ruth Brown [RR-073].
- J.G. ac M.A. Brown a'u Mab [RR-045].
- Y Meistri MJ ac A Cheers [RR-032].
- David Leigh Connah [RR-043].

- Brian Cook [RR-005].
- Emma Clare Craven-Smith-Milnes [RR-071].
- Ysgutorion yr Ymadawedig Mrs Gwyneth Evans [RR-052].
- Sarah Harley [RR-074].
- Peter Hardern [RR-050].
- Y Teulu Hewitt [RR-053].
- Andrew a Karen Hirst [RR-041].
- Mr B., Mrs S. a Mr M. Jones (Mollington) [RR-047].
- Frances Isobel Jones, Kevin Glyn Jones, a Sarah Ann Jones [RR-072].
- Michael A. Jones a Sarah M. Jones a T. Benjamin Jones [RR-047].
- Richard Benjamin Jones (R B a J Jones a'u Mab) [REP1-081].
- Andrew Mullock [RR-042].
- Y Meistri H W Oultram a'u Cwmni, Miss C Oultram a'r Meistri S ac A Oultram [RR-030].
- John Calvin Peers [RR-046].
- Myles David Platt [RR-049].
- Stephanie Roberts [RR-051].
- Gillian Stevenson [RR-037].
- Y Meistri AM a JM Walton [RR-028].
- Philip Warrington [RR-068] a Vera Elaine Warrington [RR-082].
- Mr E. a Mrs J. Williams [RR-048].
- Y Meistri EE a JE Williams [RR-029].
- Y Meistri J ac E Williams [RR-069].
- Carl Woods [RR-009].
- Y Meistri J Wrench a'u Mab [RR-031].

8.6.2. Yn ogystal, cynghorodd yr EA yn ei Sylw Perthnasol (RR) [RR-024] ei fod yn *"...methu cadarnhau nad oes unrhyw wrthwynebiadau i gaffael unrhyw un o'n buddiannau tir."*

8.6.3. Cafwyd sylwadau ynglŷn â'r cynigion CA a TP, nad oeddent yn gwrthwynebu nac yn mynegi pryderon, gan y canlynol hefyd:

- 2 Sisters Food Group [RR-001]/ Boparan Private Office [RR-004].
- British Pipeline Agency (y cyfeirir ati hefyd fel United Kingdom Oil Pipelines Limited) [AS-075].
- CF Fertilisers (UK) Limited [RR-081].
- Gavin Goodwin [RR-036].
- John Littler [RR-056].
- Paul Smith [RR-067].

8.6.4. Cyflwynwyd [AS-073] yn ystod yr Archwiliad gan J Bradburn Price a'i Gwmni, ar ran nifer o APau a oedd eisoes wedi gwrthwynebu CA a TP neu fynegi pryder ynglŷn â nhw ar ddechrau'r Archwiliad. Fodd bynnag, roedd hefyd yn cynnwys tri APau newydd, a chododd bryderon ynglŷn â CA a TP ar eu rhan. Rhestrir yr APau newydd hyn isod:

- Michelle Elford [AS-073].
- Mr a Mrs K.N. Garner [AS-073].
- Mr R, Mrs N., Mr I a Mr G Jones [AS-073].

8.6.5. Yn ogystal â'r uchod, gwnaeth CWCC ac FCC sylwadau ynglŷn â CA/TP drwy gydol yr Archwiliad. Fodd bynnag, newidiodd eu safbwyntiau yn

dilyn gwrthwynebiad NH ynglŷn â CA/ TP, fel yr amlinellwyd uchod. Gan weithredu fel Awdurdod Priffyrdd ar gyfer eu hawdurdodaeth unigol:

- Mynegodd CWCC wrthwynebiad i CA/TP yn ei gyflwyniad a gyflwynwyd erbyn DL7 (Dydd Mawrth 5 Medi 2023) [REP7-306]; a
- Mynegodd FCC wrthwynebiad i CA/TP yn ei gyflwyniad a gyflwynwyd erbyn DL8 (Dydd Mawrth 12 Medi 2023) [REP8-044]).

- 8.6.6. Drwy gydol yr Archwiliad, rhoddwyd diweddariadau i'r ExA ar sut oedd materion yn symud ymlaen gyda'r partïon a grybwyllwyd uchod trwy gyfrwng Atodlen CA.
- 8.6.7. Dim ond un hysbysiad ffurfiol o dynnu gwrthwynebiad/ pryder yn ôl a gafwyd gan U UW [REP9-018]. Mae'r ExA yn fodlon bod y gwrthwynebiad/ pryder hwn wedi'i dynnu'n ôl bellach, a bod PP wedi cael eu cytuno sy'n cynnig yr amddiffyniadau angenrheidiol ar gyfer yr AP hwn. Yn ogystal, o ran APau a wnaeth sylwadau ynglŷn â'r cynigion CA a TP, fel y'u rhestrir uchod, mae'r ExA yn fodlon nad oedd y cyflwyniadau hyn yn wrthwynebiadau nac yn bryderon.
- 8.6.8. Felly, o ran yr APau y cyfeiriwyd atynt yn y paragraff blaenorol, mae'r ExA yn fodlon nad oes unrhyw faterion nac amgylchiadau yn weddill a fyddai'n awgrymu na ddylai'r pwerau CA a geisir mewn perthynas â'r lleiniau yr effeithir arnynt gael eu rhoi. O ganlyniad, nid yw'r ExA yn eu hystyried ymhellach isod (ac eithrio i'r graddau eu bod yn berthnasol i'w ystyriaeth o ddarpariaethau penodol y dDCO ym Mhennod 9 yr adroddiad hwn).
- 8.6.9. Ar ddiwedd yr Archwiliad, heblaw am U UW, roedd yr holl wrthwynebiadau/ pryderon a oedd ar ôl gan yr APau a restrir uchod yn parhau i fod yn weddill.
- 8.6.10. Mae Tabl 4 isod yn rhoi manylion y lleiniau y mae'r gwrthwynebiadau sy'n weddill yn effeithio arnynt ac yn darparu Cyfeirnod Llyfrgell yr Archwiliad, o dan y pennawd 'Sylwadau', a gafwyd gan yr APau a restrir.

Tabl 4: Gwrthwynebiadau i CA a TP a oedd yn weddill ar ddiwedd yr Archwiliad

AP	Y Llain yr Effeithir Arni	Sylw
Cadent Gas Limited.	2-04, 2-04a, 2-05, 2-06, 2-08, 2-12, 2-13, 3-01, 3-02, 3-03, 3-13, 3-14, 3-15, 4-01, 4-02, 4-05, 6-09, 6-20, 6-22, 6-24, 6-25, 9-01, 9-03, 9-05, 9-06, 9-07, 9-08, 9-09, 9-10, 9-12,	[RR-006], [REP1-052], [REP3-040], [REP7-279] a [REP8-039].

AP	Y Llain yr Effeithir Arni	Sylw
	9-13, 9-14, 9-14a 9-15, 9-18a, 9-18b, 9-19, 9-19a, 9-20, 10-01, 10-04, 10-04a, 10-12 a 12-05.	
Glandŵr Cymru.	8-03 a 9-06.	[RR-008], [AS-065], [CR1RR-002], [REP1-054], [REP1-055], [REP1-056], [REP1-057], [REP2-048], [REP3-041], [REP4-271], [REP4-272], [REP4-273], [REP5-027], [REP5-028], [REP6-038], [REP7-265], [REP8-040].
EA	1-01a, 1-04, 1-06, 1-07, 1-21, 1-25, 2-01, 3-14, 3-15, 3-17, 4-07, 4-10, 4-13, 5-14, 5-16, 5-24, 5-25, 5-26, 6-02, 6-03, 6-06, 6-07, 6-10, 6-11, 6-14, 6-17, 6-19, 6-23, 9-14a, 9-16, 9-16a, 9-16b, 9-17 a 12-10.	[RR-024], [REP1-062], [REP1-084], [REP3-045], [REP4-279], [CR1RR-004], [REP5-033], [REP6-041], [REP6A-021], [REP7-309] a [REP8-043].
Essar Oil UK Ltd.	3-04, 3-06, 3-07, 3-08, 3-09, 3-10, 3-11, a 3-12. Ar ddiwedd yr Archwiliad, roedd Essar Oil UK Ltd yn adolygu lleiniau 3-05 a 3-15 i gadarnhau eu cywirdeb.	[RR-002].
Exolum Pipeline Systems Limited.	6-27, 6-28, 7-07, 7-08, 7-09, 7-10, 8-01, 8-02, 8-09 ac 8-10.	[RR-033], [REP8-050] a [REP8-051].

AP	Y Llain yr Effeithir Arni	Sylw
NR.	1-06b, 1-23, 9-21, 9-23, 9-24, 9-25, 14-24, 14-29, 17-12, 19-04 a 19-04c.	[RR-026], [PDA-008] a [REP1-072].
- 8.7.89. Mae'r Ymgeisydd yn ceisio pwerau CA dros y lleiniau a nodwyd yn Nhabl 4 yr adroddiad hwn. Fel yr amlinellir yn y BoR [REP7-025] a'r Cynlluniau Tir [CR3-003], ceisir caffael iswyneb yn barhaol mewn perthynas â lleiniau rhif 6-26*, 6-29, 6-30, 6-31, 7-01 a 7-04. Ni cheisir caffael tir ar lefel yr wyneb yn barhaol. (Sylwer: Yn y paragraff hwn, mae '*' yn dynodi nad yw Mr G. Jones wedi'i restru yn y BoR yn erbyn y rhif llain penodol hwnnw).
- 8.7.90. Yn ogystal, nododd y dogfennau a grybwyllwyd uchod y ceisir caffael hawliau'n barhaol mewn perthynas â Lleiniau Rhif 7-02b, 7-03 a 7-03a.
- 8.7.91. Mae'r BoR [REP7-025] a'r Cynlluniau Tir [CR3-003] hefyd yn nodi'r rhifau lleiniau y ceisir caffael hawliau newydd drostynt, gyda'r dDCO yn Atodlen 8 (Tir y ceir caffael hawliau newydd ac ati ynddo). Mae'r atodlen hon yn nodi'r rhifau lleiniau perthnasol, yn ogystal â'r hawliau newydd a geisir mewn perthynas â'r rhifau lleiniau hynny. O ran yr AP hwn (Mr R, Mrs N., Mr I a Mr G Jones), byddai'r hawliau newydd hyn yn berthnasol i leiniau rhif 7-02b, 7-03 a 7-03a ar gyfer hawliau at ddibenion adeiladu, gosod, gweithredu, cynnal a chadw a datgomisiynu'r datblygiad awdurdodedig ac i osod cyfamod cyfyngol.
- 8.7.92. O ran TP, mae'r dDCO yn Atodlen 7 (Tir y ceir arfer TP drosto) yn nodi pa leiniau y mae TP yn berthnasol iddynt, y rheswm pam y ceisir TP mewn perthynas â phob rhif llain a'r rhif gwaith sy'n berthnasol i bob llain y ceisir TP drosto. O ran yr AP hwn (Mr R, Mrs N., Mr I a Mr G Jones), rhestrir llain rhif 7-03b yn Atodlen 7 y dDCO, a'r rheswm a nodir dros geisio'r llain hon yw "*Defnydd dros dro fel mynedfa adeiladu...*"

Mr a Mrs K.N. Garner (Asiant: J. Bradburne Price and Co.)

- 8.7.93. Mynegodd Mr a Mrs K.N. Garner bryderon/ gwrthwynebiadau ynglŷn â CA/ TP gyntaf, fel y crynhowyd ym mharagraff 8.7.3 uchod, yn hysbysiad eu hasiant o bresenoldeb mewn Gwrandawriadau [AS-073].
- 8.7.94. Mae'r Ymgeisydd yn ceisio pwerau CA dros y lleiniau a nodwyd yn Nhabl 4 yr adroddiad hwn. Fel yr amlinellir yn y BoR [REP7-025] a'r Cynlluniau Tir [CR3-003], ceisir caffael iswyneb yn barhaol mewn perthynas â llain rhif 16-04. Ni cheisir caffael tir ar lefel yr wyneb yn barhaol, ac nid yw'r Ymgeisydd ychwaith yn ceisio caffael unrhyw hawliau'n barhaol mewn perthynas â'r rhif llain hwn.
- 8.7.95. Mae'r BoR [REP7-025] a'r Cynlluniau Tir [CR3-003] hefyd yn nodi'r rhifau lleiniau y ceisir caffael hawliau newydd drostynt, gyda'r dDCO yn Atodlen 8 (Tir y ceir caffael hawliau newydd ac ati ynddo). Mae'r atodlen hon yn nodi'r rhifau lleiniau perthnasol, yn ogystal â'r hawliau newydd a geisir mewn perthynas â'r rhifau lleiniau hynny. Fel yr amlinellwyd uchod, o ran yr AP hwn (Mr a Mrs K.N. Garner), ni amlinellir unrhyw hawliau newydd yn Atodlen 8.
- 8.7.96. O ran TP, mae'r dDCO yn Atodlen 7 (Tir y ceir arfer TP drosto) yn nodi pa leiniau y mae TP yn berthnasol iddynt, y rheswm pam y ceisir TP mewn perthynas â phob rhif llain a'r rhif gwaith sy'n berthnasol i bob llain y

ceisir TP drosto. O ran yr AP hwn (Mr a Mrs K.N. Garner), ni chynigir TP dros dir.

Michelle Elford (Asiant: J. Bradburne Price and Co.)

- 8.7.97. Mynegodd Michelle Elford bryderon/ gwrthwynebiadau ynglŷn â CA/ TP, fel y crynhowyd ym mharagraff 8.7.3 uchod, yn hysbysiad ei hasiant o bresenoldeb mewn Gwrandawriadau [AS-073].
- 8.7.98. Mae'r Ymgeisydd yn ceisio pwerau CA dros y lleiniau a nodwyd yn Nhabl 4 yr adroddiad hwn. Fel yr amlinellir yn y BoR [REP7-025] a'r Cynlluniau Tir [CR3-003], ceisir caffael iswyneb yn barhaol mewn perthynas â llain rhif 17-28. Ni cheisir caffael tir ar lefel yr wyneb yn barhaol, ac nid yw'r Ymgeisydd ychwaith yn ceisio caffael unrhyw hawliau'n barhaol mewn perthynas â'r rhif llain hwn.
- 8.7.99. Mae'r BoR [REP7-025] a'r Cynlluniau Tir [CR3-003] hefyd yn nodi'r rhifau lleiniau y ceisir caffael hawliau newydd drostynt, gyda'r dDCO yn Atodlen 8 (Tir y ceir caffael hawliau newydd ac ati ynddo). Mae'r atodlen hon yn nodi'r rhifau lleiniau perthnasol, yn ogystal â'r hawliau newydd a geisir mewn perthynas â'r rhifau lleiniau hynny. Fel yr amlinellwyd uchod, o ran yr AP hwn (Michelle Elford), ni amlinellir unrhyw hawliau newydd yn Atodlen 8.
- 8.7.100. O ran TP, mae'r dDCO yn Atodlen 7 (Tir y ceir arfer TP drosto) yn nodi pa leiniau y mae TP yn berthnasol iddynt, y rheswm pam y ceisir TP mewn perthynas â phob rhif llain a'r rhif gwaith sy'n berthnasol i bob llain y ceisir TP drosto. O ran yr AP hwn (Michelle Elford), ni chynigir TP dros dir.

John Horace George Bletcher (Asiant: Rostons)

- 8.7.101. Mynegodd John Horace George Bletcher (JHG Bletcher) bryderon/ gwrthwynebiadau ynglŷn â CA/ TP, fel y crynhowyd ym mharagraff 8.7.3 uchod, yn RR [RR-055] ac mewn sylw ysgrifenedig [REP1-080] a gyflwynwyd ar ei ran gan Rostons. Yn ogystal, mewn perthynas â CA/ TP hefyd, mynegodd y pryderon canlynol (wedi'u crynhoi):
- Diffyg ymgysylltiad parod ac ystyrion, yn enwedig ynglŷn â'r AGI sydd i'w osod (y ceisiwyd ei adleoli i safle mwy addas) a fyddai'n effeithio'n barhaol ar dir sy'n allweddol i gynnal menter fferm laeth y teulu.
 - Gwaethygu effeithiau o ystyried datblygiadau eraill tebyg a fydd, o'u hystyried gyda'i gilydd, yn arwain at effeithio ar y tir am sawl blwyddyn.
 - Capasiti cynhyrchiol y tir ac effaith ar hyfywedd y busnes ffermio, yn enwedig o ran gwasgaru slyri (caniateir gwasgaru terfyn uchaf o 170kg/ ha o nitrogen o 1 Ebrill 2023 yng Nghymru) a'r goblygiadau canlyniadol, gan gynnwys cydymffurfio â Rheoliadau.
 - Risgiau bioddiogelwch uwch ac effaith ariannol ddifrifol ar y busnes ffermio o ganlyniad i golli'r tir, gan gynnwys:
 - byddai angen tir neu le ychwanegol i storio slyri; ac
 - argaeledd porthiant ychwanegol a'r angen amdano oherwydd bod rhaid dod â'r fuches i mewn.

- 8.7.102. Mae'r Ymgeisydd yn ceisio pwerau CA dros y lleiniau a nodwyd yn Nhabl 4 yr adroddiad hwn. Fel yr amlinellir yn y BoR [REP7-025] a'r Cynlluniau Tir [CR3-003], ceisir caffael tir yn barhaol mewn perthynas â llain rhif 20-19a; ceisir caffael iswyneb yn barhaol mewn perthynas â lleiniau rhif 20-18, 20-19, 20-19c ac 20-21. Yn ogystal, nododd y dogfennau a grybwyllwyd uchod na cheisir caffael hawliau'n barhaol.
- 8.7.103. Mae'r BoR [REP7-025] a'r Cynlluniau Tir [CR3-003] hefyd yn nodi'r rhifau lleiniau y ceisir caffael hawliau newydd drostynt, gyda'r dDCO yn Atodlen 8 (Tir y ceir caffael hawliau newydd ac ati ynddo). Mae'r atodlen hon yn nodi'r rhifau lleiniau perthnasol, yn ogystal â'r hawliau newydd a geisir mewn perthynas â'r rhifau lleiniau hynny. O ran JHG Bletcher, ni cheisir unrhyw hawliau newydd.
- 8.7.104. O ran TP, mae'r dDCO yn Atodlen 7 (Tir y ceir arfer TP drosto) yn nodi pa leiniau y mae TP yn berthnasol iddynt, y rheswm pam y ceisir TP mewn perthynas â phob rhif llain a'r rhif gwaith sy'n berthnasol i bob llain y ceisir TP drosto. O ran yr AP hwn (JHG Bletcher) y rhifau lleiniau a restrir yw 20-16, 20-17, 20-19b ac 20-20. Fel yr amlinellwyd gan yr Ymgeisydd yn Atodlen 7 y dDCO, mae'r rheswm dros geisio pob llain yn amrywio, fel y nodir isod:

- Defnydd dros dro fel mynedfa adeiladu.
- Defnydd dros dro fel cyfadeilad adeiladu ac ardal weithio.

**Frances Isobel Jones, Kevin Glyn Jones, a Sarah Ann Jones
(Asiant: Rostons)**

- 8.7.105. Mynegodd Frances Isobel Jones, Kevin Glyn Jones, a Sarah Ann Jones (F.I., K.G. ac S.A. Jones) bryderon/ gwrthwynebiadau ynglŷn â CA/ TP, fel y crynhowyd ym mharagraff 8.7.3 uchod, yn RR [RR-072].
- 8.7.106. Mae'r Ymgeisydd yn ceisio pwerau CA dros y lleiniau a nodwyd yn Nhabl 4 yr adroddiad hwn. Fel yr amlinellir yn y BoR [REP7-025] a'r Cynlluniau Tir [CR3-003], ceisir caffael tir yn barhaol mewn perthynas â lleiniau rhif 22-03, 22-06 a 22-10; ceisir caffael iswyneb yn barhaol mewn perthynas â lleiniau rhif 20-30, 21-01, 21-06, 22-01, 22-05, 22-07, 22-08 a 22-09.
- 8.7.107. Mae'r BoR [REP7-025] a'r Cynlluniau Tir [CR3-003] hefyd yn nodi'r rhifau lleiniau y ceisir caffael hawliau/ hawliau newydd drostynt yn barhaol, gyda'r dDCO yn Atodlen 8 (Tir y ceir caffael hawliau newydd ac ati ynddo). Mae'r atodlen hon yn nodi'r rhifau lleiniau perthnasol, yn ogystal â'r hawliau newydd a geisir mewn perthynas â'r rhifau lleiniau hynny ac mae'n cadarnhau na cheisir unrhyw hawliau parhaol/ newydd mewn perthynas â'r AP hwn (F.I., K.G. ac S.A. Jones).
- 8.7.108. O ran TP, mae'r dDCO yn Atodlen 7 (Tir y ceir arfer TP drosto) yn nodi pa leiniau y mae TP yn berthnasol iddynt, y rheswm pam y ceisir TP mewn perthynas â phob rhif llain a'r rhif gwaith sy'n berthnasol i bob llain y ceisir TP drosto. O ran yr AP hwn (F.I., K.G. ac S.A. Jones) y rhifau lleiniau a restrir yw 21-07, 22-02 a 22-04. Fel yr amlinellwyd gan yr Ymgeisydd yn Atodlen 7 y dDCO, mae'r rheswm dros geisio pob llain yn amrywio, fel y nodir isod:

- Defnydd dros dro fel mynedfa adeiladu.
- Defnydd dros dro fel ardal weithio a mynedfa.
- Defnydd dros dro ar gyfer ac i adeiladu mynedfa.

Mr David John Brown, Mr James Edward Brown, a Mrs Ruth Brown (Asiant: Rostons)

- 8.7.109. Mynegodd Mr David John Brown, Mr James Edward Brown, a Mrs Ruth Brown (Mr D.J. Brown, Mr J. E. Brown, a Mrs R. Brown) bryderon/gwrthwynebiadau ynglŷn â CA/ TP, fel y crynhowyd ym mharagraff 8.7.3 uchod, yn RR [RR-073].
- 8.7.110. Mae'r Ymgeisydd yn ceisio pwerau CA/ TP dros y lleiniau a nodwyd yn Nhabl 4 yr adroddiad hwn. Fel yr amlinellir yn y BoR [REP7-025] a'r Cynlluniau Tir [CR3-003], ceisir caffael tir yn barhaol mewn perthynas â llain rhif 3-03; ceisir caffael iswyneb yn barhaol mewn perthynas â lleiniau rhif 2-03, 2-08, 2-09, 2-13, 2-14, 4-05, 4-06, 4-07, 4-09, 4-10, 4-12, 4-13, 4-15, 4-16, 4-17 a 4-18.
- 8.7.111. Yn ogystal, nododd y dogfennau a grybwyllwyd uchod y ceisir caffael hawliau'n barhaol mewn perthynas â Llain Rhif 2-02a.
- 8.7.112. Mae'r BoR [REP7-025] a'r Cynlluniau Tir [CR3-003] hefyd yn nodi'r rhifau lleiniau y ceisir caffael hawliau newydd drostynt, gyda'r dDCO yn Atodlen 8 (Tir y ceir caffael hawliau newydd ac ati ynddo). Mae'r atodlen hon yn nodi'r rhifau lleiniau perthnasol, yn ogystal â'r hawliau newydd a geisir mewn perthynas â'r rhifau lleiniau hynny. O ran yr AP hwn (Mr D.J. Brown, Mr J. E. Brown, a Mrs R. Brown), byddai'r hawliau newydd hyn yn berthnasol i lain rhif 2-02A ar gyfer hawliau at ddibenion adeiladu, gosod, gweithredu, cynnal a chadw a datgomisiynu'r datblygiad awdurdodedig ac i osod cyfamod cyfyngol.
- 8.7.113. O ran TP, mae'r dDCO yn Atodlen 7 (Tir y ceir arfer TP drosto) yn nodi pa leiniau y mae TP yn berthnasol iddynt, y rheswm pam y ceisir TP mewn perthynas â phob rhif llain a'r rhif gwaith sy'n berthnasol i bob llain y ceisir TP drosto. O ran yr AP hwn (Mr D.J. Brown, Mr J. E. Brown, a Mrs R. Brown) y rhifau lleiniau a restrir yw 2-02, 2-11, 2-12, 3-02, 4-01, 4-02, 4-03, 4-04 a 4-11. Fel yr amlinellwyd gan yr Ymgeisydd yn Atodlen 7 y dDCO, mae'r rheswm dros geisio pob llain yn amrywio, fel y nodir isod:
- Defnydd dros dro fel ardal gwaith adeiladu ac ar gyfer mynediad i hwyluso adeiladu.
 - Defnydd dros dro fel mynedfa adeiladu.
 - Defnydd dros dro fel cyfadeilad adeiladu ac ardal weithio.
 - Defnydd dros dro fel mynedfa adeiladu a llain weledd.

Ymateb yr ExA i'r gwrthwynebiadau generig

- 8.7.114. Ceisiodd yr Ymgeisydd, yn ei 'Ymateb i RR' [REP1-042], egluro nifer o'r pwyntiau a godwyd a rhoddir crynodeb o'r prif ymatebion isod:
- Coridor 100m nominal yn unig a ddynodwyd ar hyd y Datblygiad Arfaethedig cyfan er mwyn "*rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i gontractwyr dylunio manwl wrth ddylunio'r llwybr terfynol i gydbwysu*

gofynion adeiladu ac amgylcheddol ag ymyrryd â buddiannau tir lleol."

- Mae lled 24.4m y coridor hawliau parhaol yn unol ag arferion y diwydiant piblinellau ac mae'n ofynnol i sicrhau bod digon o fynediad ar gael ar gyfer gwaith archwilio a chynnal a chadw ar y biblinell yn y dyfodol os bydd ei angen.
- Os bydd unrhyw ran o dir y tiffeddianwyr yn cael ei golli, bydd iawndal yn cael ei asesu ar sail achosion unigol yn unol â'r Cod Iawndal.

8.7.115. Ar ôl ystyried yr holl wrthwynebiadau/ pryderon generig uchod, o'r dystiolaeth, a gyflwynwyd i'r Archwiliad, gan gynnwys:

- Ymateb yr Ymgeisydd i RRau [REP1-042];
- Sylwadau'r Ymgeisydd ar Gyflwyniadau a Dderbyniwyd erbyn DL3 [REP4-263]; a
- Sylwadau'r Ymgeisydd ar Gyflwyniadau a Dderbyniwyd erbyn DL4 [REP5-015],

mae'r ExA yn fodlon bod yr Ymgeisydd wedi caniatáu digon o amser ar gyfer trafodaethau ac, erbyn diwedd yr Archwiliad, nad oedd Ceisiadau Cynllunio ffurfiol ar gyfer datblygiad gan yr APau a restrir yn yr adran hon o'r Adroddiad ar wrthwynebiadau generig wedi cael eu dwyn i sylw'r ExA. Mae hyn yn cynnwys mewn perthynas â datblygiad preswyl fel y codwyd yn yr RRau a wnaed gan yr Ysgutorion a John Calvin Peers.

8.7.116. Yn wir, yn seiliedig ar dystiolaeth/ dogfennau a gyflwynwyd i'r Archwiliad, mae'r ExA o'r farn bod cryn ansicrwydd y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn amharu ar unrhyw ddatblygiadau y cyfeiriwyd atynt gan yr APau hyn, fel yr amlinellwyd yn eu RRau a restrir uchod. Fel y cyfryw, ni all yr ExA gytuno, ar yr adeg hon, y byddai unrhyw wrthdaro â llwybr y Datblygiad Arfaethedig a'r datblygiadau y cyfeiriwyd atynt gan yr APau hyn.

8.7.117. Ar ôl ystyried y gwrthwynebiadau generig hyn yn ofalus, mae'r ExA o'r farn bod y pwerau CA/ TP a geisir, gan gynnwys hawliau newydd, mewn perthynas â'r rhifau lleiniau a restrir yn yr adran hon yn ofynnol ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig. Maen nhw naill ai'n ofynnol ar gyfer y gwaith penodol a nodwyd ar y Cynlluniau Gwaith neu'n angenrheidiol i hwyluso'r gwaith hwnnw neu'n atodol iddo. Yn yr un modd, mae'r gallu i gynnal a chadw a gweithredu'r datblygiad yn rhan annatod o'r Datblygiad Arfaethedig. Felly, mae'r ExA yn fodlon y bodlonir gofynion a122(2) PA2008.

8.7.118. O ran p'un a oes achos cymhellol er budd y cyhoedd, mae'r ExA o'r farn y byddai'r golled ganlyniadol mewn perthynas â'r APau a restrir yn yr adran 'gwrthwynebiadau generig' hon yn gyfyngedig ac yn cael ei gwrthbwyso'n amlwg gan y buddion cyhoeddus canlynol:

- bodloni angen trosfwaol y gellir ei ddangos am y datblygiad arfaethedig a fyddai'n helpu'r DU yn uniongyrchol i gyrraedd nodau Sero Net, gan gynnwys cyfnodau datgarboneiddio trosiannol a'r cyllidebau carbon cysylltiedig a fabwysiadwyd yng Nghymru a Lloegr; a'r

- achos economaidd-gymdeithasol aruthrol a wnaed gan yr Ymgeisydd y gellir ei ddangos yn rhanbarthol a ledled y DU, sy'n cynnig buddion cyhoeddus gwirioneddol sylweddol yn gysylltiedig â buddsoddiad uniongyrchol/ anuniongyrchol a chreu swyddi wedi hynny.

8.7.119. O ystyried yr uchod i gyd, mae'r ExA o'r farn bod achos cymhellol er budd y cyhoedd dros gynnwys y pwerau CA/ TP a geisir mewn perthynas â'r Datblygiad Arfaethedig yn y DCO ac y bodlonir yr amodau a amlinellir yn a122(3) PA2008.

Gwrthwynebiadau nad ydynt yn generig

Essar Oil UK Ltd

8.7.120. Mynegodd Essar Oil UK Ltd (Essar) bryderon ynglŷn â CA/ TP yn ei RR [RR-002]. Dywedodd er ei fod yn cefnogi cynigion HyNet a'r DCO, nad yw'n cefnogi faint o'i dir sydd wedi'i gynnwys. Dywedodd Essar nad oedd yn fodlon gwerthu'r buddiant rhydd-ddaliadol nac unrhyw hawliau parhaus, oherwydd fe allai hyn gael effaith fawr ar weithredu Purfa Stanlow. Er gwaethaf hynny, cyngorodd Essar ei fod yn bwriadu trafod cytundebau meddiannol ar gyfer unrhyw dir hanfodol yn wirfoddol yn unol â thelerau priodol.

8.7.121. Mae'r Ymgeisydd yn ceisio pwerau CA dros y lleiniau a nodir yn Nhabl 4 yr adroddiad hwn. Fel yr amlinellir yn y BoR [REP7-025] a'r Cynlluniau Tir [CR3-003], ceisir caffael tir yn barhaol mewn perthynas â lleiniau rhif 3-04 a 3-12; ceisir caffael iswyneb yn barhaol mewn perthynas â llain rhif 3-11 a cheisir caffael hawliau'n barhaol mewn perthynas â lleiniau rhif 3-06, 3-07, 3-08, 3-09 a 3-10. Mae'r dogfennau hyn hefyd yn nodi'r rhifau lleiniau y ceisir hawliau newydd drostynt, gyda'r dDCO yn Atodlen 8 (Tir y ceir caffael hawliau newydd ac ati ynddo). O ran Essar, byddai'r hawliau newydd hyn yn berthnasol i leiniau rhif 3-04, 3-06, 3-07, 3-08, 3-09 a 3-10 ar gyfer hawliau at ddibenion adeiladu, gosod, gweithredu, cynnal a chadw a datgomisiynu'r datblygiad awdurdodedig (Gwaith Rhif 9A a 10), ynghyd â'r hawl i osod cyfamod cyfyngol.

8.7.122. O ran TP, nid oes TP ar gyfer tir sy'n gysylltiedig ag Essar wedi'i restru yn y dDCO yn Atodlen 7 (Tir y ceir arfer TP drosto), ac nid oes unrhyw TP sy'n berthnasol i Essar Oils UK Ltd wedi'i bennu yn y BoR [REP7-025] nac yn y Cynlluniau Tir [CR3-003] ychwaith.

Ymateb yr ExA

8.7.123. Ni wnaeth Essar unrhyw gyflwyniadau eraill y tu hwnt i'w RR yn ystod yr Archwiliad ac ni chymerodd ran mewn unrhyw Wrandawiadau a gynhaliwyd yn rhan o'r Archwiliad. Nid yw wedi gwneud sylw penodol ynglŷn â'r DCO arfaethedig, nac wedi ceisio unrhyw PP. O'r dystiolaeth, a gyflwynwyd i'r Archwiliad, gan gynnwys y canlynol gan yr Ymgeisydd:

- Ymateb i RRau [REP1-042];
- Datganiad Tir Cyffredin (SoCG) wedi'i Gwblhau gydag Essar [REP9-008];
- Atodlen Trafodaethau â Buddiannau Tir [REP9-015],

mae'r ExA yn fodlon bod yr Ymgeisydd wedi caniatáu digon o amser ar gyfer trafodaethau.

- 8.7.124. Yn wir, yn seiliedig ar y dystiolaeth/ dogfennau a gyflwynwyd i'r Archwiliad, mae'r ExA o'r farn bod y pwerau CA/ TP a geisir, gan gynnwys hawliau newydd, mewn perthynas â'r rhifau lleiniau a restrwyd yn ofynnol ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig. Maen nhw naill ai'n ofynnol ar gyfer y gwaith penodol a nodwyd ar y Cynlluniau Gwaith neu'n angenrheidiol i hwyluso'r gwaith hwnnw neu'n atodol iddo. Yn yr un modd, mae'r gallu i gynnal a chadw a gweithredu'r datblygiad yn rhan annatod o'r Datblygiad Arfaethedig. Felly, mae'r ExA yn fodlon y bodlonir gofynion a122(2) PA2008.
- 8.7.125. O ran p'un a oes achos cymhellol er budd y cyhoedd, mae'r ExA o'r farn y byddai'r golled ganlyniadol mewn perthynas â'r AP hwn yn gyfyngedig ac yn cael ei gwrthbwysu'n amlwg gan y buddion cyhoeddus canlynol:
- bodloni angen trosfwaol y gellir ei ddangos am y datblygiad arfaethedig a fyddai'n helpu'r DU yn uniongyrchol i gyrraedd nodau Sero Net, gan gynnwys cyfnodau datgarboneiddio trosiannol a'r cyllidebau carbon cysylltiedig a fabwysiadwyd yng Nghymru a Lloegr; a'r
 - achos economaidd-gymdeithasol aruthrol a wnaed gan yr Ymgeisydd y gellir ei ddangos yn rhanbarthol a ledled y DU, sy'n cynnig buddion cyhoeddus gwirioneddol sylweddol yn gysylltiedig â buddsoddiad uniongyrchol/ anuniongyrchol a chreu swyddi wedi hynny.
- 8.7.126. Fel y cyfryw, mae'r ExA o'r farn bod achos cymhellol er budd y cyhoedd dros gynnwys y pwerau CA/ TP a geisir mewn perthynas â'r Datblygiad Arfaethedig yn y DCO ac y bodlonir yr amodau a amlinellir yn a122(3) PA2008.

Encirc Limited

- 8.7.127. Mynegodd Encirc Limited (Encirc] wrthwynebiad ynglŷn â CA/ TP yn ei gyflwyniad Terfyn Amser 3 [REP3-050], gan ailadrodd y pryderon hynny yn ei ymateb [CR1RR-005] i Gais i Wneud Newidiadau cyntaf (CR1) yr Ymgeisydd. Crynhoir ei wrthwynebiadau sy'n benodol i CA/ TP isod:
- Yr effaith y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn ei chael ar:
 - weithredu ei gyfleuster, gan gynnwys mynediad. Mae'n datgan bod mynediad di-dor i Safle Encirc yn hanfodol i weithredu busnes Encirc ac felly ei bod yn hanfodol bod yr holl hawliau mynediad sydd ganddo ar hyn o bryd yn cael eu cadw; a
 - chynlluniau i ddatblygu'r safle yn y dyfodol ar gyfer canolfan ddosbarthu/ warws awtomataidd, yn enwedig o ran y llwybr mynediad arfaethedig. Roedd hyn o bryder arbennig o ran y potensial i sterileiddio neu atal y gwaith hwn, yn ogystal â'r posibilrwydd o achosi problemau cydlynu, a chynigion datblygu yn y dyfodol, fel cynlluniau ar gyfer datblygiad rheilffordd, sy'n cynnwys seidins rheilffordd newydd ac ardal ryngfoddol, a fyddai'n gweld cyfleuster rheilffordd newydd yn cael ei leoli tua 300m ar hyd y llinellau rheilffordd presennol ar y safle.

(Sylwer: Yn ei gyflwyniad erbyn DL7 [REP7-323], dywedodd Encirc fod Pwyllgor Cynllunio CWCC wedi penderfynu cymeradwyo ei ddatblygiad newydd arfaethedig ar gyfer canolfan ddosbarthu/warws awtomataidd, yn amodol ar gwblhau cytundeb a106 o flaen llaw, ar 17 Awst 2023, er na dderbyniwyd diweddariad pellach ar gwblhau cytundeb a106 a rhoi Caniatâd Cynllunio cyn i'r Archwiliad orffen.)

- Materion newydd yn codi o CR1, sef:
 - Mewn perthynas â lleiniau 1-06a-1-06c sy'n ceisio ymestyn y tir y mae'r Ymgeisydd yn ceisio caffael hawliau drosto'n barhaol fel bod hawliau'n cael eu sicrhau ar gyfer mynediad i gysylltu lleiniau tir 1-22 ac 1-21 â'r briffordd fabwysiedig yn Ash Road, a hepgorwyd yn flaenorol o'r DCO a gyflwynwyd. Mae'r ychwanegiad hwn yn golygu nad oes angen cysylltiad trwy safle Encirc rhwng lleiniau tir 1-06 ac 1-03 a dylai'r cysylltiad hwn gael ei ddileu o'r DCO drafft.
 - Bydd PP a chytundeb preifat cysylltiedig yn arwain at gytuno â drilio cyfeiriadol llorweddol o dan y llinellau rheilffordd yn lleiniau tir 1-19, 1-20, 1-22 ac 1-23.
 - Bydd yr hawliau parhaol dros 1-21 yn cael eu hisraddio i hawliau dros dro a dim ond os nad yw drilio cyfeiriadol llorweddol o dan Lain 1-22 yn ymarferol.
 - Dylai hawliau ar gyfer mynediad i leiniau 1-06a, 1-06c, 1-06 ac 1-22 aros at ddibenion monitro a chynnal a chadw yn unig (yn amodol ar PP sy'n sicrhau gweithrediad parhaus rheilffordd a datblygiad rheilffordd yn y dyfodol). Gallai'r llwybr hwn newid o ganlyniad i gytundebau a wneir rhwng Encirc a'r Ymgeisydd.
 - Yn rhan o ddatblygu ei warws awtomataidd, bydd y porthdy diogelwch yn cael ei leoli ar dir wedi'i farcio'n llain 1-06a. Gan ei fod yn gyfleuster tollau HMRC [Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi], mae mynediad y tu hwnt i'r porthdy wedi'i gyfyngu a bydd angen cydymffurfio ag ef bob amser.
 - Byddai caffael hawliau ar gyfer mynediad ar hyd lleiniau 1-06a, 1-06b ac 1-06c yn gofyn am ddefnyddio Ash Road ar gyfer mynediad. Ar hyn o bryd, mae symudiadau Cerbydau Nwyddau Trwm (HGVau) i safle Encirc wedi'u cyfyngu gan ganiatâd cynllunio cyf. 18/04948/S73. Ceir pryder ynglŷn â gwahaniaethu rhwng symudiadau traffig HGV sy'n gysylltiedig â'r Datblygiad Arfaethedig a'r rheiny sy'n gysylltiedig ag Encirc.
 - Byddai argaeledd mynediad i leiniau 1-03 ac 1-06 o'r gogledd, fel y dangosir ar hyd lleiniau 1-01 ac 1-02, yn anghydnaws â chynigion y cais cynllunio, yn ogystal â chynlluniau datblygu Encirc yn y dyfodol ar gyfer ffwrnais wedi'i phweru gan hydrogen a chyfleuster rheilffordd rhyngfoddol.
- Y lefel isel o ymgysylltiad gan yr Ymgeisydd, o ystyried effaith y Datblygiad Arfaethedig ar ei dir a sensitifrwyd y safle.
- Effaith gweithgarwch adeiladu ar weithrediad presennol pen pellaf ei reilffordd, y mae'n datgan bod rhaid iddo allu gweithredu bob amser i sicrhau y gall fodloni ei gwotâu rhagnodedig.

- Agweddau ar ddiogelwch y groesfan reilffordd a sut bydd ei gofynion yn cael eu hystyried.
- Dyfnder y Biblinell, gan gynghori bod rhaid i'r Datblygiad Arfaethedig beidio â sterileiddio'r safle ac atal datblygiad yn y dyfodol.
- Bod y safle'n safle tollau HMRC ac felly bod gan HMRC storfa gymeradwy ar ei gyfleuster sy'n destun amodau y cytunwyd arnynt o flaen llaw y mae'n rhaid iddo gydymffurfio â nhw. Mynegir pryderon ynglŷn â mynediad y Datblygiad Arfaethedig i'r cyfleuster hwn, gan dorri amodau HMRC o bosibl.
- Cydymffurfio â Rheoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr, gan fod y safle'n cael ei reoleiddio o dan y Rheoliadau hyn a bod rhaid gweithredu trefniadau mynediad llym i'r safle er mwyn cydymffurfio â'i rwymedigaethau yn hyn o beth.

8.7.128. Mae'r Ymgeisydd yn ceisio pwerau CA/ TP dros y lleiniau a nodir yn Nhabl 4 yr adroddiad hwn. Fel yr amlinellir yn y BoR [REP7-025] a'r Cynlluniau Tir [CR3-003], ceisir caffael iswyneb yn barhaol mewn perthynas â lleiniau 1-20 ac 1-22. Nid yw'r Ymgeisydd yn ceisio caffael tir ar lefel yr wyneb yn barhaol mewn perthynas â thir yr AP hwn.

8.7.129. Yn ogystal â'r uchod, mae'r BoR [REP7-025] a'r Cynlluniau Tir [CR3-003] yn dangos y ceisir caffael hawliau'n barhaol mewn perthynas â lleiniau rhif 1-01, 1-01a, 1-02, 1-03, 1-06, 1-06a, 1-06b, 1-06c, 1-21, 1a-01, 1a02 ac 1a-03. Yn ogystal, mae'r dogfennau hyn hefyd yn nodi'r rhifau lleiniau y ceisir hawliau newydd drostynt, gyda'r dDCO yn Atodlen 8 (Tir y ceir caffael hawliau newydd ac ati ynddo). Mae'r atodlen hon yn nodi'r rhifau lleiniau perthnasol, yn ogystal â'r hawliau newydd a geisir mewn perthynas â'r rhifau lleiniau hynny. O ran Encirc, byddai'r hawliau newydd hyn yn berthnasol i leiniau rhif 1-01, 1-01a, 1-02, 1-03, 1-06, 1-06a, 1-06b, 1-06c, 1-21, 1a-01, 1a02 ac 1a-03 ar gyfer hawliau at ddibenion adeiladu, gosod, gweithredu, cynnal a chadw a datgomisiynu'r datblygiad awdurdodedig (Gwaith Rhif 9A a 10), ynghyd â'r hawl i osod cyfamodau.

8.7.130. O ran TP, mae'r dDCO yn Atodlen 7 (Tir y ceir arfer TP drosto) yn nodi pa leiniau y mae TP yn berthnasol iddynt, y rheswm pam y ceisir TP mewn perthynas â phob rhif llain a'r rhif gwaith sy'n berthnasol i bob llain y ceisir TP drosto. O ran yr AP hwn (Encirc), mae llain rhif 1-06d wedi'i restru yn Atodlen 7 y dDCO, sy'n cadarnhau bod yr Ymgeisydd yn ceisio TP dros y llain hon ar gyfer "Defnydd dros dro fel mynedfa adeiladu..."

Ymateb yr ExA

8.7.131. Parhaodd Encirc i ymgysylltu drwy gydol yr Archwiliad gan gynnal ei wrthwynebiadau i CA/ TP, er ei fod yn parhau "...yn obeithiol trwy... PP y bydd y partïon yn gallu canfod ffordd o weithredu'r Prosiect [y Datblygiad Arfaethedig] ar yr un pryd ag amddiffyn gweithrediad Gwaith Gweithgynhyrchu a Llenwi Gwydr Encirc, cynnal y mynediad sy'n ofynnol i Safle Encirc a sicrhau y gellir cyflwyno cynlluniau Encirc ar gyfer datblygu yn y dyfodol." Fodd bynnag, erbyn diwedd yr Archwiliad, roedd ei wrthwynebiad i'r Datblygiad Arfaethedig yn parhau ac ni ddaethpwyd i gytundeb ar PP ac unrhyw gytundeb(au) ochr cysylltiedig.

- 8.7.132. Mae'r Ymgeisydd yn cyfeirio at gyflwyno SoCG wedi'i gwblhau gydag Encirc erbyn DL9. Er hynny, nid oedd dogfen o'r fath wedi'i chynnwys yn y pecyn dogfennau a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd erbyn DL9 ac ni chyflwynwyd dogfen o'r fath gan yr Ymgeisydd cyn i'r Archwiliad orffen. Felly, y fersiwn ddiwethaf a oedd ar gael i'r ExA ei hystyried oedd y dSoCG a oedd yn cael ei baratoi gan yr Ymgeisydd gydag Encirc [REP6-026], a gyflwynwyd erbyn DL6. O ran y dDCO, roedd y drafft hwnnw'n nodi bod y canlynol "*Yn Destun Trafodaeth*": "*Mae'r partïon wedi cytuno y bydd PP er budd Encirc yn cael eu cynnwys yn y DCO. Mae telerau'r darpariaethau hyn yn destun trafodaeth rhwng y partïon ar hyn o bryd.*" (gweler Tabl 3-6). Fel dSoCG, mae'r ExA wedi rhoi pwys cyfyngedig iddo yn unig.
- 8.7.133. Fel rhan o'i gyflwyniadau erbyn DL7 [REP7-323], cynhwysodd Encirc Ltd ei PP a ffeirir [REP7-321], yn ogystal â 'Thabl Pwyntiau sy'n Weddill rhwng y Partïon o ran PP er Budd Encirc' [REP7-322]. Dangosodd hyn y meysydd anghydfod yn y PP drafft fel paragraffau 2 (178), 3(d) (179(d)), 7 (184), 13 (189) a 14 (*) (mae'r Rhifau mewn cromfachau'n dynodi'r rhifau paragraffau PP a gynhwysir yn dDCO yr Ymgeisydd, ac mae'r symbol (*) yn dynodi y byddai paragraff yn newydd i'r dDCO a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd ac y byddai angen i'r holl baragraffau dilynol gael eu hailrifo yn unol â hynny).
- 8.7.134. Amlinellodd yr Ymgeisydd ei ymateb i gyflwyniadau DL7 Encirc yn Atodiad 1 ei 'Ddatganiad Safbwyntiau Terfynol' [REP8-037]. Ar ôl ystyried yr holl gyflwyniadau a wnaed gan y ddau barti ynglŷn â PP, mae'r ExA wedi dod i'r casgliad fod 'Datganiad Safbwyntiau Terfynol' yr Ymgeisydd [REP8-037] yn darparu dadleuon clir, rhesymedig a darbwyllo sy'n cyfiawnhau pam mae'r PP, fel y'u hamlinellir yn y dDCO, yn darparu amddiffyniad digonol a phriodol o blaid Encirc Limited. Nid yw'r ExA wedi'i ddarbwyllo bod yr ychwanegiadau at y PP, a hyrwyddwyd gan Encirc yn DL7, yn ychwanegiadau cymesur na rhesymol.
- 8.7.135. Ni waeth am farn yr ExA ynglŷn â PP o blaid Encirc Limited, nodir bod cyflwyniad DL7 Encirc [REP7-323] yn datgan "*Mae'r partïon yn parhau i drafod mewn perthynas â PP er budd Encirc.*" Yn wir, yn ei 'Ddiweddariad ar Ddrafftio'r DCO' [REP7-294], mae'r Ymgeisydd yn nodi yn dilyn DL7 "*Mae'r Ymgeisydd yn awyddus i barhau i weithio gydag Encirc i gytuno ar delerau'r PP ...*"
- 8.7.136. At hynny, yn ei ddogfen o'r enw "Ymateb yr Ymgeisydd i'r Cais Rheol 17 am Wybodaeth" [REP9-012], mae'r Ymgeisydd yn datgan ei fod "...wedi ceisio ymgysylltu ag Encirc Limited ynglŷn â rhyngweithiadau cysylltiedig y datblygiad sy'n effeithio ar safle Encirc Limited, sef y trefniadau mynediad cymhleth a chynlluniau datblygu Encirc yn y dyfodol." Cynghorodd hefyd er "...nad oedd wedi gallu cwblhau cytundeb boddhaol gydag Encirc..." ei fod "...wedi ymrwymo i barhau i ymgysylltu ag Encirc ar ôl i'r Archwiliad orffen."
- 8.7.137. Ar ôl ystyried yr holl sylwadau a wnaed ynglŷn â CA/ TP, gan Encirc a'r Ymgeisydd, yn ogystal â'r manylion a amlinellir yn y Cynlluniau Tir [CR3-003] a'r BoR [REP7-025], mae'r ExA yn fodlon bod y pwerau CA/ TP a

geisir yn ofynnol i hwyluso'r Datblygiad Arfaethedig a/ neu'n atodol iddo. Felly, mae'r ExA yn fodlon bod y pwerau a geisir yn bodloni'r amodau a amlinellir yn a122(2) PA2008.

- 8.7.138. Er gwaethaf yr uchod, gallai arfer yr hawliau hyn ymyrryd â gweithrediad Encirc a'i ddatblygiad a'i ddyheadau yn y dyfodol. Fodd bynnag, er nad oedd yr Ymgeisydd ac Encirc wedi dod i gytundeb ar PP nac unrhyw gytundeb ochr ar ddiwedd yr Archwiliad, roedd yn amlwg bod trafodaethau'r ddau barti ynglŷn â'r materion hyn wedi cyrraedd cam datblygedig.
- 8.7.139. Er bod yr ExA yn derbyn bod effaith bosibl ar Encirc o ran CA/ TP heb ddod i gytundeb ar PP a chytundeb ochr, mae'r angen am ddatblygiad fel y Datblygiad Arfaethedig wedi'i amlygu'n glir yn y dNPSau sy'n dod i'r amlwg, sy'n bwysig ac yn berthnasol wrth ystyried y Datblygiad Arfaethedig hwn. At hynny, mae'r ExA o'r farn y byddai'r effaith ar yr AP hwn yn cael ei gwrthbwyso'n amlwg gan y buddion cyhoeddus a fyddai'n deillio o'r Datblygiad Arfaethedig, gan gynnwys:
- bodloni angen trosfwaol y gellir ei ddangos am y datblygiad arfaethedig a fyddai'n helpu'r DU yn uniongyrchol i gyrraedd nodau Sero Net, gan gynnwys cyfnodau datgarboneiddio trosiannol a'r cyllidebau carbon cysylltiedig a fabwysiadwyd yng Nghymru a Lloegr; a'r
 - achos economaidd-gymdeithasol aruthrol a wnaed gan yr Ymgeisydd y gellir ei ddangos yn rhanbarthol a ledled y DU, sy'n cynnig buddion cyhoeddus gwirioneddol sylweddol yn gysylltiedig â buddsoddiad uniongyrchol/ anuniongyrchol a chreu swyddi wedi hynny.
- 8.7.140. Fel y nodwyd uchod, parhaodd drafodaethau rhwng Encirc a'r Ymgeisydd ynglŷn â materion CA/ TP drwy gydol yr Archwiliad a rhoddwyd diweddariadau i'r ExA ar gynnydd. Fodd bynnag, roedd nifer o faterion yn weddill ar ddiwedd yr Archwiliad, fel y manylwyd uchod yn yr adroddiad hwn. Er hynny, roedd yn amlwg i'r ExA fod Encirc a'r Ymgeisydd o'r farn y gellid datrys yr holl faterion a oedd yn weddill a amlygwyd ganddynt trwy gytundeb ochr a gosod PP, ac y byddai'r ddau barti'n parhau i weithio ar gwblhau'r cytundeb ochr a'r PP sy'n ofynnol yn ystod y cyfnod penderfynu.
- 8.7.141. Ym marn yr ExA, mae achosion y partion wedi'u cyflwyno'n ddigon da iddo allu llunio barn ynghylch y materion hyn sy'n weddill yn ymwneud â CA/ TP, fel yr amlygwyd gan Encirc. Fel y cyfryw, mae'n ystyried y gellir datrys y materion hyn trwy gwblhau cytundeb ochr a gosod PP ac y bydd y rhain yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r materion sy'n parhau i fod yn destun dadl.
- 8.7.142. At ei gilydd, dylai'r cytundeb ochr a'r PP, pan fyddant wedi'u cwblhau, roi'r hyder angenrheidiol i sicrhau bod y pwerau CA/ TP yn cael eu cymhwyso'n briodol i'r rhai hynny sy'n ofynnol i gynnal y datblygiad, heb achosi niwed i weithrediadau Encirc, ei gynigion datblygu na'i ddyheadau datblygu yn y dyfodol.

8.7.143. Felly, mae'r ExA yn fodlon, yn amodol ar gwblhau'r cytundeb ochr sy'n angenrheidiol a chytuno'n derfynol ar PP, bod y buddion yn drech na'r effaith bosibl ar fuddiannau tir Encirc a bod achos cymhellol er budd y cyhoedd dros gynnwys y pwerau CA/ TP a geisir mewn perthynas â'r Datblygiad Arfaethedig yn y DCO ac y bodlonir yr amodau a amlinellir yn a122(3) PA2008.

Peel NRE Limited

8.7.144. Mynegodd Peel NRE Limited (Peel NRE) wrthwynebiad ynglŷn â CA/ TP yn ei RR [RR-078] a'i WR [REP1-074]. Mae'r cyflwyniadau hyn yn egluro nad yw Peel NRE yn gwrthwynebu cysyniad cyffredinol y Datblygiad Arfaethedig mewn egwyddor, ond yn hytrach ei fod yn gwrthwynebu caffael tir a hawliau dros ei dir yn orfodol. Yn y cyflwyniadau hyn, amlinellodd Peel NRE y meysydd allweddol yr oedd yn eu gwrthwynebu, a chrynohir y rhain isod lle y bônt yn berthnasol i CA/ TP:

- Y cynnig i gaffael tir, buddiannau a hawliau a amlygir yn y Cynlluniau Tir, gan nodi bod y Datblygiad Arfaethedig yn ceisio caffael tir (gan gynnwys buddiannau a hawliau) yn barhaol ar gyfer yr AGI, yr iswyneb (gan gynnwys hawliau) yn barhaol ar gyfer y Biblinell, yr hawliau parhaol i gael mynediad, a defnydd dros dro o'r tir ar gyfer adeiladu. Effaith y CAau hyn ar ddatblygiad a ganiatawyd eisoes a'r ffaith y byddant yn cyfyngu'n ddifrifol ar ddatblygiad yn y dyfodol, nid yn unig yn ystod adeiladu'r Biblinell ond drwy gydol ei gweithrediad.
- Hawddfrait y biblinell CO₂, ar y sail y byddai'r coridor 24.4m arfaethedig o amgylch y biblinell ar gyfer CA isbridd (yn lleiniau 1-11, 1-12, 1-13, 1-15, 1-18 ac 1-19) yn achosi i gwantwm annerbyniol o dir gael ei gyfyngu rhag datblygu trwy gyfrwng y cyfamodau cyfyngol arfaethedig.

8.7.145. Yn ddefnyddiol, amlinellodd Peel NRE yr hyn yr oedd ei angen i dynnu ei wrthwynebiadau i'r Datblygiad Arfaethedig yn ôl. Crynohir y rhain isod:

- Bod caffael tir a hawliau dros y tir yr effeithir arno (gan gynnwys diddymu unrhyw hawliau) yn cael ei wneud ar delerau a gytunwyd gyda Peel NRE.
- Bod y Datblygiad Arfaethedig yn rhoi digon o amddiffyniad i estyniad Protos i'w alluogi i gael ei gyflwyno'n ddirwystr;
- Nad oes unrhyw waith sy'n berthnasol i'r Tir yr Effeithir Arno yn cael ei wneud heb gymeradwyaeth Peel NRE o flaen llaw; a
- Bod hawliau mynediad llawn, yn ystod y camau adeiladu a gweithredu, yn cael eu cadw i'r tir yr effeithir arno er budd Peel NRE.

8.7.146. Yn ogystal, nododd Peel NRE yn eglur y bu'n gweithio gyda'r Ymgeisydd i ddatrys y gwrthwynebiadau. Fodd bynnag, ni ddaethpwyd i gytundeb ar yr adeg honno a hyd nes y deuir i gytundeb boddhaol sy'n datrys pryderon Peel NRE, dywedodd y byddai ei wrthwynebiadau'n parhau.

8.7.147. Mae'r Ymgeisydd yn ceisio pwerau CA/ TP dros y lleiniau a nodir yn Nhabl 4 yr adroddiad hwn. Fel yr amlinellir yn y BoR [REP7-025] a'r Cynlluniau Tir [CR3-003], ceisir caffael tir yn barhaol mewn perthynas â lleiniau

rhif 1-09, 1-10 ac 1-14; ceisir caffael iswyneb yn barhaol mewn perthynas â lleiniau rhif 1-11, 1-12, 1-13, 1-15, 1-18, ac 1-19.

8.7.148. Yn ogystal, nododd y dogfennau a grybwyllwyd uchod y ceisir caffael hawliau'n barhaol mewn perthynas â Lleiniau Rhif 1-01, 1-01a, 1-02, 1-03, 1-04, 1-06, 1-06a, 1-06b, 1-06c, 1a-01, 1a-02, 1a-03 ac 1a-04.

8.7.149. Mae'r BoR [REP7-025] a'r Cynlluniau Tir [CR3-003] hefyd yn nodi'r rhifau lleiniau y ceisir hawliau newydd drostynt, gyda'r dDCO yn Atodlen 8 (Tir y ceir caffael hawliau newydd ac ati ynddo). Mae'r atodlen hon yn nodi'r rhifau lleiniau perthnasol, yn ogystal â'r hawliau newydd a geisir mewn perthynas â'r rhifau lleiniau hynny. O ran Peel NRE, byddai'r hawliau newydd hyn yn berthnasol i leiniau rhif 1-01, 1-01a, 1-02, 1-03, 1-04, 1-06, 1-06a, 1-06b, 1-06c, 1a-01, 1a-02, 1a-03 ac 1a-04 ar gyfer hawliau at ddibenion adeiladu, gosod, gweithredu, cynnal a chadw a datgomisiynu'r datblygiad awdurdodedig ac i osod cyfamod cyfyngol.

8.7.150. O ran TP, mae'r dDCO yn Atodlen 7 (Tir y ceir arfer TP drosto) yn nodi pa leiniau y mae TP yn berthnasol iddynt, y rheswm pam y ceisir TP mewn perthynas â phob rhif llain a'r rhif gwaith sy'n berthnasol i bob llain y ceisir TP drosto. O ran yr AP hwn (Peel NRE) y rhifau lleiniau hyn yw 1-05, 1-06d, 1-08, 1-16 ac 1-17. Fel yr amlinellwyd gan yr Ymgeisydd yn Atodlen 7 y dDCO, mae'r rheswm dros geisio pob llain yn amrywio, fel y nodir isod:

- Defnydd dros dro fel ardal gwaith adeiladu ac ar gyfer mynediad.
- Defnydd dros dro fel mynedfa adeiladu.
- Defnydd dros dro fel cyfadeilad adeiladu ac ardal weithio.

Ymateb yr ExA

8.7.151. Mae'n amlwg i'r ExA fod yr Ymgeisydd a Peel NRE wedi bod yn cynnal trafodaethau parhaus ynglŷn â nifer o faterion drwy gydol yr Archwiliad, gan gynnwys mynediad, coridor hawddfrait/ cyfamodau cyfyngol cysylltiedig a chytundebau tir. Fodd bynnag, heb ddod i gytundeb ar PP, roedd gwrthwynebiadau Peel NRE i'r Datblygiad Arfaethedig yn parhau. Yn ei gyflwyniad DL8 [REP8-047], cynghorodd Peel NRE fod: *"...trafodaethau â'r Ymgeisydd ynglŷn â mynedfa amgen ac mae'r partïon... yn agos at ddod i gytundeb trwy PP..."*

8.7.152. Ceisiodd yr ExA ddiweddariad ynglŷn â PP sy'n weddill yn ei lythyr Rheol 17 dyddiedig 14 Medi 2023 [PD-028]. Yn ei ymateb [REP9-012], datganodd yr Ymgeisydd ei fod *"...wedi ceisio ymgysylltu â Peel NRE ynglŷn â rhyngweithiadau cymhleth iawn y datblygiad sy'n effeithio ar safle Protos, sef adeiladu AGI Ince a'r biblinell gysylltiedig, trefniadau mynediad cymhleth, datblygiadau lluosog Peel NRE yn y dyfodol a'r pwyntiau niferus a gododd Peel NRE ynglŷn â Datganiad Amgylcheddol yr Ymgeisydd. Mae'r Ymgeisydd a Peel NRE wedi gweithio'n ddiwyd gyda'i gilydd i ddod i gytundeb, a olygodd fod yr Ymgeisydd wedi addasu ei Ddatganiad Amgylcheddol a bwrw ymlaen â thrafodaethau masnachol cyfrinachol i oresgyn y materion a godwyd. Gyda chytundeb fframwaith ar waith (a gytunwyd ac a ddosbarthwyd i'w lofnodi ar 20 Medi 2023 ond nad yw'r broses wedi'i chwblhau), mae'r Partïon yn falch o gadarnhau eu*

bod wedi dod i gytundeb ar PP cytunedig, ac mae Peel NRE wedi rhoi cadarnhad i'r Ymgeisydd y bydd y pwyntiau gweithredu a amlinellwyd uchod yn ei fodloni'n ddigonol i dynnu ei wrthwynebiadau i Ddatblygiad Arfaethedig y DCO yn ôl pan fydd y cytundeb wedi cael ei lofnodi."

- 8.7.153. Fodd bynnag, nid oedd Peel NRE wedi cadarnhau'r safbwynt hwn, nac wedi tynnu ei wrthwynebiad yn ôl, cyn diwedd yr Archwiliad. Er hynny, mae'r ExA yn nodi bod y PP o blaid Peel NRE yn fersiynau terfynol y dDCO ([REP9-011] y TCV (yr APV) ac [REP8-007] yr EPBV) yn unfath â'r PP a gyflwynwyd gan Peel NRE erbyn DL8 [REP8-047].
- 8.7.154. Ar ôl ystyried yr holl sylwadau a wnaed ynglŷn â CA/ TP, gan Peel NRE a'r Ymgeisydd, yn ogystal â'r manylion a amlinellir yn y Cynlluniau Tir [CR3-003] a'r BoR [REP7-025], mae'r ExA yn fodlon bod y pwerau CA/ TP a geisir yn ofynnol i hwyluso'r Datblygiad Arfaethedig a/ neu'n atodol iddo. Felly, mae'r ExA yn fodlon bod y pwerau a geisir yn bodloni'r amodau a amlinellir yn a122(2) PA2008.
- 8.7.155. Er gwaethaf yr uchod, gallai arfer yr hawliau hyn ymyrryd â gweithrediadau Peel NRE, gan gynnwys datblygiad a dyheadau presennol ac yn y dyfodol. Fodd bynnag, er nad oedd yr Ymgeisydd a Peel NRE wedi dod i gytundeb ar PP nac unrhyw gytundeb masnachol neu dir ar ddiwedd yr Archwiliad, roedd yn amlwg bod trafodaethau'r ddau barti ynglŷn â'r materion hyn wedi cyrraedd cam datblygedig.
- 8.7.156. Er bod yr ExA yn derbyn bod effaith bosibl ar Peel NRE o ran CA/ TP heb ddod i gytundeb ar PP ac unrhyw gytundeb masnachol a/ neu dir, mae'r angen am ddatblygiad fel y Datblygiad Arfaethedig wedi'i amlygu'n glir yn y dNPSau sy'n dod i'r amlwg, sy'n bwysig ac yn berthnasol wrth ystyried y Datblygiad Arfaethedig hwn. At hynny, mae'r ExA o'r farn y byddai'r effaith ar yr AP hwn yn cael ei gwrthbwysio'n amlwg gan y buddion cyhoeddus a fyddai'n deillio o'r Datblygiad Arfaethedig, gan gynnwys:
- bodloni angen trosfwaol y gellir ei ddangos am y datblygiad arfaethedig a fyddai'n helpu'r DU yn uniongyrchol i gyrraedd nodau Sero Net, gan gynnwys cyfnodau datgarboneiddio trosiannol a'r cyllidebau carbon cysylltiedig a fabwysiadwyd yng Nghymru a Lloegr; a'r
 - achos economaidd-gymdeithasol aruthrol a wnaed gan yr Ymgeisydd y gellir ei ddangos yn rhanbarthol a ledled y DU, sy'n cynnig buddion cyhoeddus gwirioneddol sylweddol yn gysylltiedig â buddsoddiad uniongyrchol/ anuniongyrchol a chreu swyddi wedi hynny.
- 8.7.157. Fel y nodwyd uchod, parhaodd drafodaethau rhwng Peel NRE a'r Ymgeisydd ynglŷn â materion CA/ TP drwy gydol yr Archwiliad a rhoddwyd diweddariadau i'r ExA ar gynydd. Fodd bynnag, roedd nifer o faterion yn weddill ar ddiwedd yr Archwiliad, fel y manylwyd yn SoCG yr Ymgeisydd a gwblhawyd gyda Peel NRE [REP7-262]. Er hynny, roedd yn amlwg i'r ExA fod Peel NRE a'r Ymgeisydd o'r farn y gellid datrys yr holl faterion a oedd yn weddill a amlygwyd ganddynt trwy gytundeb(au) masnachol a/ neu dir a gosod PP, ac y byddai'r ddau barti'n parhau i weithio ar gwblhau'r cytundeb(au) a'r PP sy'n ofynnol.

- 8.7.158. Ym marn yr ExA, mae achosion y partïon wedi'u cyflwyno'n ddigon da iddo allu llunio barn ynghylch y materion hyn sy'n weddill yn ymwneud â CA/ TP, fel yr amlygwyd gan Peel NRE. Fel y cyfryw, mae'n ystyried y gellir datrys y materion hyn trwy gwblhau cytundeb(au) masnachol a/ neu dir a gosod PP ac y bydd y rhain yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r materion sy'n parhau i fod yn destun dadl.
- 8.7.159. At ei gilydd, dylai'r cytundeb(au) masnachol a/ neu dir a'r PP, pan fyddant wedi'u cwblhau, roi'r hyder angenrheidiol i sicrhau bod y pwerau CA/ TP yn cael eu cymhwyso'n briodol i'r rhai hynny sy'n ofynnol i gynnal y datblygiad, heb achosi niwed i weithrediadau Peel NRE, ei ddatblygiadau presennol a ganiatawyd, ei gynigion datblygu yn y dyfodol na'i ddyheadau datblygu yn y dyfodol.
- 8.7.160. Felly, mae'r ExA yn fodlon, yn amodol ar gwblhau'r cytundeb(au) masnachol a/ neu dir sy'n angenrheidiol a chytuno'n derfynol ar PP, bod y buddion yn drech na'r effaith bosibl ar fuddiannau tir Peel NRE a bod achos cymhellol er budd y cyhoedd dros gynnwys y pwerau CA/ TP a geisir mewn perthynas â'r Datblygiad Arfaethedig yn y DCO ac y bodlonir yr amodau a amlinellir yn a122(3) PA2008.

Travelodge Hotels Limited

- 8.7.161. Cyflwynodd Travelodge Hotels Limited sylwadau ynglŷn â CA/ TP yn ei RR [RR-011]. Roedd y sylwadau hyn yn ymwneud â'r cynigion ar gyfer ffordd fynediad dros dro dros y fynedfa y mae'n ei defnyddio ar gyfer ei weithrediadau busnes. Cynghorodd y byddai'n gwneud sylwadau ar yr ymyriadau tebygol â'r fynedfa hon. Fodd bynnag, ni chafwyd unrhyw gyflwyniadau ychwanegol gan Travelodge Hotels Limited yn ystod yr Archwiliad.
- 8.7.162. Mae'r Ymgeisydd yn ceisio pwerau CA dros y lleiniau a nodir yn Nhabl 4 yr adroddiad hwn. Fel yr amlinellir yn y BoR [REP7-025] a'r Cynlluniau Tir [CR3-003], nid yw'r Ymgeisydd yn ceisio caffael tir nac iswyneb yn barhaol, na chaffael hawliau'n barhaol, mewn perthynas â Travelodge Hotels Limited. Fodd bynnag, mae'r dogfennau a grybwyllwyd uchod yn nodi bod yr Ymgeisydd yn ceisio defnyddio hawliau dros dro mewn perthynas â Llain Rhif 10-06.
- 8.7.163. Mae'r BoR [REP7-025] a'r Cynlluniau Tir [CR3-003] hefyd yn nodi'r rhifau lleiniau y ceisir hawliau newydd drostynt, gyda'r dDCO yn Atodlen 8 (Tir y ceir caffael hawliau newydd ac ati ynddo). Fodd bynnag, ni restrir unrhyw hawliau newydd yn yr Atodlen hon mewn perthynas â'r rhifau lleiniau a grybwyllwyd uchod. At hynny, nid oes unrhyw TP dros dir sy'n gysylltiedig â Travelodge Hotels Limited wedi'i restru yn y dDCO yn Atodlen 7 (Tir y ceir arfer TP drosto), nac yn y BoR [REP7-025] nac yn y Cynlluniau Tir [CR3-003].

Ymateb yr ExA

- 8.7.164. Ni wnaeth Travelodge Hotels Limited unrhyw gyflwyniadau ychwanegol y tu hwnt i'w RR yn ystod yr Archwiliad. Er y cymerodd ran yn y Cyfarfod

Rhagarweiniol, ni chymerodd ran mewn unrhyw Wrandawiadau dilynol a gynhaliwyd yn rhan o'r Archwiliad.

- 8.7.165. O ran yr RR, cyngorodd yr Ymgeisydd fel a ganlyn yn ei ymateb i RRau [REP1-042]:
- "...nid yw'n bwriadu cyfyngu ar fynediad i'r gwesty yn ystod unrhyw gam o adeiladu Datblygiad Arfaethedig y DCO."
 - mae'n ymddangos bod yr RR yn cyfeirio at ail bwynt mynediad ac "Mae mynediad i'r lleoliad hwn dros dro a disgwylir iddo ddiwydd dros gyfnod o ddiwrnodau neu wythnosau a/ neu disgwylir i symiau traffig yn y lleoliad hwn fod yn ddibwys."
 - "Mae mesurau i sicrhau mynediad diogel ac addas gan gerbydau o fathau priodol wedi cael eu hystyried yn rhan o'r Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu Amlinellol" [REP7-240].
- 8.7.166. O ran buddiannau Travelodge Hotels Limited ynglŷn â CA/ TP, mae'r ExA yn fodlon bod yr Ymgeisydd wedi caniatáu digon o amser ar gyfer trafodaethau.
- 8.7.167. Yn seiliedig ar y dystiolaeth/ dogfennau a gyflwynwyd yn ystod yr Archwiliad, gan gynnwys ymateb yr Ymgeisydd a grybwyllwyd uchod, mae'r ExA o'r farn bod y pwerau CA/ TP a geisir, gan gynnwys hawliau dros dro, mewn perthynas â llain rhif 19-06 yn ofynnol ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig. Maen nhw naill ai'n ofynnol ar gyfer y gwaith penodol a nodir ar y Cynlluniau Gwaith neu'n angenrheidiol i hwyluso'r gwaith hwnnw neu'n atodol iddo. Felly, mae'r ExA yn fodlon y bodlonir gofynion a122(2) PA2008.
- 8.7.168. O ran p'un a oes achos cymhellol er budd y cyhoedd, mae'r ExA o'r farn y byddai'r golled ganlyniadol mewn perthynas â'r AP hwn yn gyfyngedig ac yn cael ei gwrthbwysu'n amlwg gan y buddion cyhoeddus canlynol:
- bodloni angen trosfwaol y gellir ei ddangos am y datblygiad arfaethedig a fyddai'n helpu'r DU yn uniongyrchol i gyrraedd nodau Sero Net, gan gynnwys cyfnodau datgarboneiddio trosiannol a'r cyllidebau carbon cysylltiedig a fabwysiadwyd yng Nghymru a Lloegr; a'r
 - achos economaidd-gymdeithasol aruthrol a wnaed gan yr Ymgeisydd y gellir ei ddangos yn rhanbarthol a ledled y DU, sy'n cynnig buddion cyhoeddus gwirioneddol sylweddol yn gysylltiedig â buddsoddiad uniongyrchol/ anuniongyrchol a chreu swyddi wedi hynny.
- 8.7.169. Fel y cyfryw, mae'r ExA o'r farn bod achos cymhellol er budd y cyhoedd dros gynnwys y pwerau CA/ TP a geisir mewn perthynas â'r Datblygiad Arfaethedig yn y DCO ac y bodlonir yr amodau a amlinellir yn a122(3) PA2008.

Brian Cook

- 8.7.170. Mynegodd Brian Cook bryderon ynglŷn â CA/ TP yn RR [RR-005]. Roedd y pryderon hyn yn ymwneud â'r 1.5 erw gerllaw ei eiddo y mae'n ei defnyddio i hyfforddi ei gŵn a thyfu ffrwythau a phlanhigion bach eraill. Mae'n awgrymu bod y biblinell yn cael ei hailalinio i ochr arall ei ffin, fel

ei bod yn mynd trwy gae ffermwr cyffiniol, gan ei fod o'r farn bod ailaliniad o'r fath yn fwy economaidd hyfyw. Dywedodd Mr Cook hefyd fod Rostons wedi cael ei benodi i weithredu ar ei ran. Fodd bynnag, mae'r ExA yn nodi na dderbyniwyd unrhyw gyflwyniadau o'r fath gan Rostons ar ran Mr Cook yn ystod yr Archwiliad.

- 8.7.171. Mae'r Ymgeisydd yn ceisio pwerau CA dros y lleiniau a nodir yn Nhabl 4 yr adroddiad hwn. Fel yr amlinellir yn y BoR [REP7-025] a'r Cynlluniau Tir [CR3-003], ceisir caffael iswyneb yn barhaol mewn perthynas â llain rhif 10-07. Ni cheisir caffael tir ar lefel yr wyneb yn barhaol, ac nid yw'r Ymgeisydd ychwaith yn ceisio caffael unrhyw hawliau'n barhaol mewn perthynas â'r rhif llain hwn.
- 8.7.172. Mae'r BoR [REP7-025] a'r Cynlluniau Tir [CR3-003] hefyd yn nodi'r rhifau lleiniau y ceisir hawliau newydd drostynt, gyda'r dDCO yn Atodlen 8 (Tir y ceir caffael hawliau newydd ac ati ynddo). Mae'r atodlen hon yn nodi'r rhifau lleiniau perthnasol, yn ogystal â'r hawliau newydd a geisir mewn perthynas â'r rhifau lleiniau hynny. Fel yr amlinellwyd uchod, o ran yr AP hwn (Brian Cook), nid oes unrhyw hawliau newydd wedi'u nodi yn Atodlen 8.
- 8.7.173. O ran TP, mae'r dDCO yn Atodlen 7 (Tir y ceir arfer TP drosto) yn nodi pa leiniau y mae TP yn berthnasol iddynt, y rheswm pam y ceisir TP mewn perthynas â phob rhif llain a'r rhif gwaith sy'n berthnasol i bob llain y ceisir TP drosto. O ran yr AP hwn (Brian Cook), ni chynigir TP dros dir.

Ymateb yr ExA

- 8.7.174. Ni wnaeth Mr Cook unrhyw gyflwyniadau ychwanegol y tu hwnt i'r RR a grybwyllwyd uchod ac ni dderbyniwyd unrhyw gyflwyniadau gan Rostons, ar ei ran, yn ystod yr Archwiliad.
- 8.7.175. O ran yr RR hwn, cynghorodd yr Ymgeisydd yn ei ymateb i RRau [REP1-042] *"...bydd yn parhau i ymgysylltu â'r tîrfeddiannwr a bydd iawndal yn cael ei asesu ar sail achosion unigol yn unol â'r Cod Iawndal."* Yn ogystal, nodwyd yn Atodlen trafodaethau ynghylch buddiannau tir [REP9-015] yr Ymgeisydd, a ddiweddarwyd yn barhaus drwy gydol cyfnod yr Archwiliad, na ddaethpwyd i gytundeb ond bod trafodaethau'n parhau.
- 8.7.176. Yn ogystal, fel y trafodwyd ym Mhenodau 4 a 5 uchod, mae 'Ystyried Dewisiadau Amgen' (Pennod 4.9) ac 'Asesu Dewisiadau Amgen' yn amlinellu'n glir y cyfiawnhad dros y llwybr a ddewiswyd gan yr Ymgeisydd ar gyfer y biblinell ac nid yw'r ExA wedi'i ddarbwylllo gan y rhesymeg a gyflwynwyd yn yr RR hwn ar gyfer ailaliniad o'r fath. Yn wir, mae'r ExA yn nodi nad oedd yr RR yn cynnwys unrhyw dystiolaeth a oedd yn cyfiawnhau'r cais yn ddigonol, ac ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth o'r fath yn ystod yr Archwiliad.
- 8.7.177. O ran buddiannau Brian Cook ynglŷn â CA/ TP, o ystyried y ffactorau uchod, mae'r ExA yn fodlon bod yr Ymgeisydd wedi caniatáu digon o amser ar gyfer trafodaethau.

- 8.7.178. Yn seiliedig ar y dystiolaeth/ dogfennau a gyflwynwyd yn ystod yr Archwiliad, gan gynnwys ymateb yr Ymgeisydd a grybwyllwyd uchod, mae'r ExA o'r farn bod y pwerau CA/ TP a geisir yn ofynnol ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig. Maen nhw naill ai'n ofynnol ar gyfer y gwaith penodol a nodir ar y Cynlluniau Gwaith neu'n angenrheidiol i hwyluso'r gwaith hwnnw neu'n atodol iddo. Felly, mae'r ExA yn fodlon y bodlonir gofynion a122(2) PA2008.
- 8.7.179. O ran p'un a oes achos cymhellol er budd y cyhoedd, mae'r ExA o'r farn y byddai'r golled ganlyniadol mewn perthynas â'r AP hwn yn gyfyngedig ac yn cael ei gwrthbwysu'n amlwg gan y buddion cyhoeddus canlynol:
- bodloni angen trosfwaol y gellir ei ddangos am y datblygiad arfaethedig a fyddai'n helpu'r DU yn uniongyrchol i gyrraedd nodau Sero Net, gan gynnwys cyfnodau datgarboneiddio trosiannol a'r cyllidebau carbon cysylltiedig a fabwysiadwyd yng Nghymru a Lloegr; a'r
 - achos economaidd-gymdeithasol aruthrol a wnaed gan yr Ymgeisydd y gellir ei ddangos yn rhanbarthol a ledled y DU, sy'n cynnig buddion cyhoeddus gwirioneddol sylweddol yn gysylltiedig â buddsoddiad uniongyrchol/ anuniongyrchol a chreu swyddi wedi hynny.
- 8.7.180. Fel y cyfryw, mae'r ExA o'r farn bod achos cymhellol er budd y cyhoedd dros gynnwys y pwerau CA/ TP a geisir mewn perthynas â'r Datblygiad Arfaethedig yn y DCO ac y bodlonir yr amodau a amlinellir yn a122(3) PA2008.

Emma Clare Craven-Smith-Milnes ac Anthony David Wynne Griffith (Asiant: Rostons)

- 8.7.181. Mynegodd Emma Clare Craven-Smith-Milnes wrthwynebiad i ddechrau ynglŷn â CA/ TP yn RR [RR-071], a gwnaed sylwadau ysgrifenedig gan J. Bradburne Price and Co, ar ran Emma Clare Craven-Smith-Milnes ac Anthony David Wynne Griffith, o dan gyfeirnod [REP1-079] Llyfrgell yr Archwiliad.
- 8.7.182. Gellir crynhoi'r gwrthwynebiadau ynglŷn â CA/ TP fel diffyg ymgysylltiad parod ac ystyrion; a'r effeithiau y byddai'r Datblygiad Arfaethedig, gan gynnwys unrhyw ardal(oedd) hawddfrait, yn eu cael ar ddatblygiad fferm solar arfaethedig ar y tir hwnnw, gan ei sterileiddio rhag ei ddatblygu. Yn ogystal, mynegwyd pryderon ynglŷn â cholli tir a ddefnyddir ar gyfer pori a chynhyrchu porthiant, gan ddadlau y byddai colli'r cyfryw dir yn golygu na fyddai'r fenter wartheg yn hyfyw mwyach. Yn olaf, mynegwyd pryderon ynglŷn â cholli tir i fesurau lliniaru, ac awgrymwyd yn y sylw na ddylid rhoi CA ar gyfer caffael tir i liniaru effaith y Datblygiad Arfaethedig, ond yn hytrach y dylai'r Ymgeisydd geisio caffael tir o'r fath ar y farchnad agored.
- 8.7.183. Mae'r Ymgeisydd yn ceisio pwerau CA dros y lleiniau a nodir yn Nhabl 4 yr adroddiad hwn. Fel yr amlinellir yn y BoR [REP7-025] a'r Cynlluniau Tir [CR3-003], ceisir caffael tir yn barhaol mewn perthynas â lleiniau rhif 3-18a, 5-01**, a 5-07; ceisir caffael iswyneb yn barhaol mewn perthynas â lleiniau rhif 3-17*, 3-18, 4-07*, 4-08, 4-10*, 4-13*, 4-14, 4-19, 4-20,

5-02**, a 5-09*. (Sylwer: Yn y paragraff hwn, mae '*' yn dynodi nad yw Anthony David Wynne Griffith wedi'i restru yn y BoR yn erbyn y rhifau lleiniau hynny; mae '**' yn dynodi nad yw Emma Clare Craven-Smith-Milnes wedi'i rhestru yn y BoR yn erbyn y rhifau lleiniau hynny).

- 8.7.184. Yn ogystal, nododd y dogfennau a grybwyllwyd uchod y ceisir caffael hawliau'n barhaol mewn perthynas â Llain Rhif 5-08.
- 8.7.185. Mae'r BoR [REP7-025] a'r Cynlluniau Tir [CR3-003] hefyd yn nodi'r rhifau lleiniau y ceisir hawliau newydd drostynt, gyda'r dDCO yn Atodlen 8 (Tir y ceir caffael hawliau newydd ac ati ynddo). Mae'r atodlen hon yn nodi'r rhifau lleiniau perthnasol, yn ogystal â'r hawliau newydd a geisir mewn perthynas â'r rhifau lleiniau hynny. O ran yr APau hyn (Emma Clare Craven-Smith-Milnes ac Anthony David Wynne Griffith), byddai'r hawliau newydd hyn yn berthnasol i lain rhif 5-08 ar gyfer hawliau at ddibenion adeiladu, gosod, gweithredu, cynnal a chadw a datgomisiynu'r datblygiad awdurdodedig ac i osod cyfamod cyfyngol.
- 8.7.186. O ran TP, mae'r dDCO yn Atodlen 7 (Tir y ceir arfer TP drosto) yn nodi pa leiniau y mae TP yn berthnasol iddynt, y rheswm pam y ceisir TP mewn perthynas â phob rhif llain a'r rhif gwaith sy'n berthnasol i bob llain y ceisir TP drosto. O ran yr APau hyn (Emma Clare Craven-Smith-Milnes ac Anthony David Wynne Griffith), y rhif llain a restrir yw 5-03. Fel yr amlinellwyd gan yr Ymgeisydd yn Atodlen 7 y dDCO, ceisir y llain hon ar gyfer "*Defnydd dros dro fel mynedfa adeiladu...*" Nodir nad yw'r BoR [REP7-025] yn rhestru Emma Clare Craven-Smith-Milnes yn erbyn y rhif llain hwn.

Ymateb yr ExA

- 8.7.187. Yn ystod yr Archwiliad, ceisiodd yr ExA dystiolaeth ac eglurhad ynglŷn â'r datblygiad fferm solar arfaethedig. Yn wir, ceisiodd ExQ2 [PD-022] yn Q2.6.3 dystiolaeth gan Rostons o unrhyw ganiatâd cynllunio ar gyfer y cynllun solar y cyfeirir ato, a gofynnodd ExQ2 [PD-022] yn Q2.6.4 i'r Ymgeisydd a CWCC b'un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw gyflwyniad(au)/ cais/ ceisiadau, cynllunio neu fel arall, a gyflwynwyd yn ffurfiol ar gyfer y cynllun solar a grybwyllwyd uchod.
- 8.7.188. Wrth ymateb i'w gwestiwn erbyn DL5 [REP5-045], cyngorodd Rostons "*...nad yw cais cynllunio llawn wedi cael ei gyflwyno...*" ar gyfer y datblygiad solar ar ddyddiad yr ymateb (neges e-bost ddyddiedig 28 Mehefin 2023), ond bod cais cyn-gynllunio (23/01234) a chyflwyniad Sgrinio Asesu Effeithiau Amgylcheddol (22/04248/SCR) wedi cael eu cyflwyno i CWCC. Cadarnhaodd Rostons fod y ddau fater yn parhau.
- 8.7.189. Yn ei ymateb i ExQ2 [REP5-026], cadarnhaodd yr Ymgeisydd, wrth ymateb i Q2.6.4, nad oedd yn ymwybodol o gais cynllunio ffurfiol yn cael ei gyflwyno i CWCC; yn ei ymateb i ExQ2 [REP5-030], atebodd CWCC mewn modd tebyg i ymateb Rostons a amlinellwyd uchod, ond nododd hefyd y byddai'n rhoi diweddariadau i'r ExA ar unrhyw gyflwyniadau a wnaed mewn perthynas â'r datblygiad fferm solar hwn.

8.7.190. Darparodd CWCC nifer o ddogfennau erbyn DL8, gan gynnwys copi o'i lythyr cyngor cyn-ymgeisio yn ymwneud â'i gyfeirnod cynllunio 23/01234/PREAPP [REP7-308]. Dyma'r cyngor cyn-ymgeisio y cyfeiriodd Rostons ato uchod yn ymwneud â '*Fferm Solar 25.83 MW a Batris Storio Arfaethedig*' yn '*Tir i'r de o Thornton-le-Moors, Cryers Lane, Gorllewin Caer, CH2 4LH*'. Heb ragfarnu unrhyw geisiadau cynllunio yn y dyfodol, mae'r ExA o'r farn nad oedd y cyngor cyn-ymgeisio hwn yn arbennig o gadarnhaol nac anogol yng ngoleuni sylwadau terfynol CWCC, a oedd yn cynnwys:

- Yr angen i ddangos bod amgylchiadau arbennig iawn yn bodoli sy'n drech na'r niwed i'r Llain Las trwy gyfrwng amhriodoldeb a'r niwed arall a amlygwyd, gan gynnwys colli natur agored a dibenion cynnwys tir yn y Llain Las.
- Yr angen i ddangos nad oes unrhyw safleoedd a ddatblygwyd yn flaenorol cyn safleoedd yng nghefn gwlad agored a ystyriwyd/dangoswyd trwy asesiad ledled y fwrdeistref.
- Ni fyddai datblygiad ar dir amaethyddol o ansawdd uchel yn cael ei gefnogi.
- Nid yw'r cynnig yn cydymffurfio â pholisïau tirwedd CWCC, nad ydynt yn cefnogi datblygiad fferm solar mawr iawn, mewn ardaloedd o sensitifrwydd tirwedd uchel.

8.7.191. O'r dystiolaeth, a gyflwynwyd i'r Archwiliad, gan gynnwys:

- Ymateb yr Ymgeisydd i RRau [REP1-042];
- Ymatebion yr Ymgeisydd i gyflwyniadau DL1 [REP2-029]
- Ymateb yr Ymgeisydd i ExQ2 [REP5-026];
- Ymateb CWCC i ExQ2 [REP5-030];
- Ymateb Rostons i ExQ2 [REP5-045];
- Sylwadau'r Ymgeisydd ar yr Ymateb i ExQ2 [REP6-036];
- Copi o Farn Sgrinio CWCC a roddwyd mewn perthynas â chais sgrinio cyfeirnod 22/04248/SCR [REP7-302];
- Copi o fatrics sgrinio Asesu Effeithiau Amgylcheddol CWCC yn gysylltiedig â chais sgrinio cyfeirnod 22/04248/SCR [REP7-303] a [REP7-0307];
- Copi o lythyr eglurhaol CWCC a roddwyd gyda'r Farn Sgrinio yn gysylltiedig â chais sgrinio cyfeirnod 22/04248/SCR [REP7-304];
- Copi o lythyr CWCC yn rhoi cyngor cyn-ymgeisio yn ymwneud â'i gyfeirnod cynllunio 23/01234/PREAPP [REP7-308].
- Atodlen Trafodaethau gyda Buddiannau Tir [REP9-015] yr Ymgeisydd,

mae'r ExA yn fodlon bod yr Ymgeisydd wedi caniatáu digon o amser ar gyfer trafodaethau ac, erbyn diwedd yr Archwiliad, nad oedd cais cynllunio ffurfiol a gyflwynwyd ar gyfer y datblygiad fferm solar arfaethedig, y cyfeiriwyd ato gan yr AP hwn, wedi cael ei ddwyn i sylw'r ExA.

8.7.192. At hynny, gan na chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth na dogfennau i'r Archwiliad i'r gwrthwyneb, mae'r ExA o'r farn bod cryn ansicrwydd yn gysylltiedig â'r datblygiad fferm solar arfaethedig y cyfeiriwyd ato gan yr AP hwn, yn enwedig yng ngoleuni'r cyngor cyn-ymgeisio a roddwyd gan CWCC a grybwyllwyd uchod.

- 8.7.193. O ystyried yr uchod, ni all yr ExA gytuno, ar hyn o bryd, y byddai unrhyw wrthdaro â'r datblygiad fferm solar y cyfeiriwyd ato gan yr AP gan nad oedd yn ymddangos bod caniatâd cynllunio'n bodoli ar ddiwedd yr Archwiliad.
- 8.7.194. Mae'r ExA o'r farn bod y pwerau CA/ TP a geisir, gan gynnwys hawliau newydd, y cyfeiriwyd atynt uchod yn yr adroddiad hwn, yn ofynnol ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig. Maen nhw naill ai'n ofynnol ar gyfer y gwaith penodol a nodwyd ar y Cynlluniau Gwaith neu'n angenrheidiol i hwyluso'r gwaith hwnnw neu'n atodol iddo. Yn yr un modd, mae'r gallu i gynnal a chadw a gweithredu'r datblygiad yn rhan annatod o'r Datblygiad Arfaethedig. Felly, mae'r ExA yn fodlon y bodlonir gofynion a122(2) PA2008.
- 8.7.195. O ran p'un a oes achos cymhellol er budd y cyhoedd, mae'r ExA o'r farn y byddai'r golled ganlyniadol mewn perthynas â'r AP hwn yn gyfyngedig ac yn cael ei gwrthbwysu'n amlwg gan y buddion cyhoeddus canlynol:
- bodloni angen trosfwaol y gellir ei ddangos am y datblygiad arfaethedig a fyddai'n helpu'r DU yn uniongyrchol i gyrraedd nodau Sero Net, gan gynnwys cyfnodau datgarboneiddio trosiannol a'r cyllidebau carbon cysylltiedig a fabwysiadwyd yng Nghymru a Lloegr; a'r
 - achos economaidd-gymdeithasol aruthrol a wnaed gan yr Ymgeisydd y gellir ei ddangos yn rhanbarthol a ledled y DU, sy'n cynnig buddion cyhoeddus gwirioneddol sylweddol yn gysylltiedig â buddsoddiad uniongyrchol/ anuniongyrchol a chreu swyddi wedi hynny.
- 8.7.196. Fel y cyfryw, mae'r ExA o'r farn bod achos cymhellol er budd y cyhoedd dros gynnwys y pwerau CA/ TP a geisir mewn perthynas â'r Datblygiad Arfaethedig yn y DCO ac y bodlonir yr amodau a amlinellir yn a122(3) PA2008.

Sarah Harley

- 8.7.197. Mynegodd Sarah Harley bryderon ynglŷn â CA/ TP yn RR [RR-074]. Datganodd yr RR "*Rwyf yn barti â buddiant gan y bydd rhan o'r biblinell yn effeithio arnaf fel tirfeddiannwr. Fy mhryderon yw'r effaith y bydd y biblinell yn ei chael ar fy mywoliaeth.*"
- 8.7.198. Mae'r Ymgeisydd yn ceisio pwerau CA dros y lleiniau a nodir yn Nhabl 4 yr adroddiad hwn. Fel yr amlinellir yn y BoR [REP7-025] a'r Cynlluniau Tir [CR3-003], ceisir caffael tir yn barhaol mewn perthynas â llain rhif 5-18; ceisir caffael iswyneb yn barhaol mewn perthynas â lleiniau rhif 5-13, 5-14, 5-16, 5-17 a 5-20.
- 8.7.199. Mae'r BoR [REP7-025] a'r Cynlluniau Tir [CR3-003] hefyd yn nodi'r rhifau lleiniau y ceisir caffael hawliau/ hawliau newydd drostynt yn barhaol, gyda'r dDCO yn Atodlen 8 (Tir y ceir caffael hawliau newydd ac ati ynddo). Mae'r atodlen hon yn nodi'r rhifau lleiniau perthnasol, yn ogystal â'r hawliau newydd a geisir mewn perthynas â'r rhifau lleiniau hynny ac mae'n cadarnhau na cheisir unrhyw hawliau parhaol/ newydd mewn perthynas â'r AP hwn (Sarah Harley).

8.7.200. O ran TP, mae'r dDCO yn Atodlen 7 (Tir y ceir arfer TP drosto) yn nodi pa leiniau y mae TP yn berthnasol iddynt, y rheswm pam y ceisir TP mewn perthynas â phob rhif llain a'r rhif gwaith sy'n berthnasol i bob llain y ceisir TP drosto. O ran yr AP hwn (Sarah Harley), y rhif llain a restrir yw 5-19. Fel yr amlinellwyd gan yr Ymgeisydd yn Atodlen 7 y dDCO, ceisir y llain hon ar gyfer "*Defnydd dros dro ar gyfer mynedfa a storio mawn*".

Ymateb yr ExA

8.7.201. Ni wnaeth Sarah Harley unrhyw gyflwyniadau ychwanegol y tu hwnt i'w RR yn ystod yr Archwiliad. Fodd bynnag, yn ei gyflwyniad 'Ymateb i RR' [REP1-042], datganodd yr Ymgeisydd ei fod "*...yn cydnabod y parti fel tirfeddiannwr yr effeithir arni ac yn sylweddoli ei phryderon ynglŷn â'r effaith ar ei bywoliaeth.*" Cynghorodd y byddai'n "*...ceisio cytuno ar gytundebau gwirfoddol gyda'r holl dirfeddianwyr yr effeithir arnynt...*" ond os bydd angen CA, bydd unrhyw iawndal "*...yn cael ei asesu ar sail achosion unigol, yn unol â'r Cod Iawndal.*"

8.7.202. O'r dystiolaeth, a gyflwynwyd i'r Archwiliad, gan gynnwys y canlynol gan yr Ymgeisydd:

- Ymateb i RRau [REP1-042];
- Atodlen Trafodaethau â Buddiannau Tir [REP9-015],

mae'r ExA yn fodlon bod yr Ymgeisydd wedi caniatáu digon o amser ar gyfer trafodaethau.

8.7.203. Yn wir, yn seiliedig ar y dystiolaeth/ dogfennau a gyflwynwyd i'r Archwiliad, mae'r ExA o'r farn bod y pwerau CA/ TP a geisir, mewn perthynas â'r rhifau lleiniau a restrir, yn ofynnol ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig. Maen nhw naill ai'n ofynnol ar gyfer y gwaith penodol a nodir ar y Cynlluniau Gwaith neu'n angenrheidiol i hwyluso'r gwaith hwnnw neu'n atodol iddo. Yn yr un modd, mae'r gallu i gynnal a chadw a gweithredu'r datblygiad yn rhan annatod o'r Datblygiad Arfaethedig. Felly, mae'r ExA yn fodlon y bodlonir gofynion a122(2) PA2008.

8.7.204. O ran p'un a oes achos cymhellol er budd y cyhoedd, mae'r ExA o'r farn y byddai'r golled ganlyniadol mewn perthynas â'r AP hwn yn gyfyngedig ac yn cael ei gwrthbwysu'n amlwg gan y buddion cyhoeddus canlynol:

- bodloni angen trosfwaol y gellir ei ddangos am y datblygiad arfaethedig a fyddai'n helpu'r DU yn uniongyrchol i gyrraedd nodau Sero Net, gan gynnwys cyfnodau datgarboneiddio trosiannol a'r cyllidebau carbon cysylltiedig a fabwysiadwyd yng Nghymru a Lloegr; a'r
- achos economaidd-gymdeithasol aruthrol a wnaed gan yr Ymgeisydd y gellir ei ddangos yn rhanbarthol a ledled y DU, sy'n cynnig buddion cyhoeddus gwirioneddol sylweddol yn gysylltiedig â buddsoddiad uniongyrchol/ anuniongyrchol a chreu swyddi wedi hynny.

8.7.205. Fel y cyfryw, mae'r ExA o'r farn bod achos cymhellol er budd y cyhoedd dros gynnwys y pwerau CA/ TP a geisir mewn perthynas â'r Datblygiad

Arfaethedig yn y DCO ac y bodlonir yr amodau a amlinellir yn a122(3) PA2008.

Richard Benjamin Jones (R B a J Jones a’u Mab) (Asiant: Rostons)

- 8.7.206. Mynegodd Richard Benjamin Jones (R B a J Jones a’u Mab) bryderon ynglŷn â CA/ TP yn ei sylw ysgrifenedig [REP1-081], a gyflwynwyd erbyn DL1. Mae’r canlynol yn crynhoi’r pryderon CA/ TP a godwyd:
- Colli ardal sylweddol o’r platfform pori, sy’n allweddol i’r fenter laeth.
 - Yr angen i gadw gwartheg dan do yn ystod y cyfnod adeiladu, gan ddwysáu’r angen am borthiant a sarn ychwanegol.
 - Risgiau bioddiogelwch uwch a’r effaith ariannol ar y busnes ffermio o ganlyniad i golli’r tir, gan gynnwys:
 - byddai angen tir neu le ychwanegol i storio slyri; ac
 - argaeledd porthiant ychwanegol a’r angen amdano oherwydd bod rhaid dod â’r fuches i mewn.
 - Agosrwydd y llwybr mynediad adeiladu i’r eiddo preswyl sy’n gysylltiedig â’r fferm, gan awgrymu llwybr mynediad amgen ar gyfer adeiladu.
- 8.7.207. Mae’r Ymgeisydd yn ceisio pwerau CA dros y lleiniau a nodir yn Nhabl 4 yr adroddiad hwn. Fel yr amlinellir yn y BoR [REP7-025] a’r Cynlluniau Tir [CR3-003], ceisir caffael iswyneb yn barhaol mewn perthynas â lleiniau rhif 9-22, 10-01*, 10-02, 10-04*, 10-09, 10-11, 10-12*, 10-13 a 10-16*. Ni cheisir caffael tir ar lefel yr wyneb yn barhaol mewn perthynas â’r AP hwn. (Sylwer: Yn y paragraff hwn, mae ‘*’ yn dynodi nad yw R B a J Jones a’u Mab wedi’u rhestru yn y BoR yn erbyn y rhifau lleiniau penodol hyn).
- 8.7.208. Mae’r BoR [REP7-025] a’r Cynlluniau Tir [CR3-003] hefyd yn nodi’r rhifau lleiniau y ceisir caffael hawliau/ hawliau newydd drostynt yn barhaol, gyda’r dDCO yn Atodlen 8 (Tir y ceir caffael hawliau newydd ac ati ynddo). Mae’r atodlen hon yn nodi’r rhifau lleiniau perthnasol, yn ogystal â’r hawliau newydd a geisir mewn perthynas â’r rhifau lleiniau hynny ac mae’n cadarnhau na cheisir unrhyw hawliau parhaol/ newydd mewn perthynas â’r AP hwn (Richard Benjamin Jones (R B a J Jones a’u Mab)).
- 8.7.209. O ran TP, mae’r dDCO yn Atodlen 7 (Tir y ceir arfer TP drosto) yn nodi pa leiniau y mae TP yn berthnasol iddynt, y rheswm pam y ceisir TP mewn perthynas â phob rhif llain a’r rhif gwaith sy’n berthnasol i bob llain y ceisir TP drosto. O ran yr AP hwn (Richard Benjamin Jones (R B a J Jones a’u Mab)), y rhifau lleiniau a restrir yw 10-15* a 10-17* (mae ‘*’ yn y paragraff hwn yn dynodi nad yw R B a J Jones a’u Mab wedi’u rhestru yn y BoR yn erbyn y rhifau lleiniau penodol hyn). Fel yr amlinellwyd gan yr Ymgeisydd yn Atodlen 7 y dDCO, y rheswm a roddir dros geisio’r ddwy lain a restrir yw "*Defnydd dros dro fel mynedfa adeiladu...*"

Ymateb yr ExA

- 8.7.210. Ni wnaeth Richard Benjamin Jones (R B a J Jones a’u Mab) unrhyw gyflwyniadau ychwanegol yn ystod yr Archwiliad y tu hwnt i’r Sylw

Ysgrifenedig a gyflwynwyd erbyn DL1 [REP1-081]. Fodd bynnag, cynghorodd yr Ymgeisydd y canlynol yn ei gyflwyniad 'Ymateb i Sylwadau Ysgrifenedig' [REP2-041]:

- Bydd yn parhau i ymgysylltu â'r tirfeddiannwr i liniaru effeithiau llwybr y biblinell ar ei dir, gan gynnwys unrhyw effaith ar ei fferm/ busnes llaeth yn ystod adeiladu'r biblinell gan roi sylw dyladwy i unrhyw fesurau bioddiogelwch.
- Nid yw'n disgwyl i unrhyw dir gael ei golli'n barhaol o ganlyniad i'r biblinell pan fydd y gwaith adeiladu wedi'i gwblhau.
- Bydd yn ceisio gweithio gyda'r IP i sicrhau bod mesurau lliniaru priodol ar waith i leihau effaith adeiladu pan fydd lleoliad y coridor adeiladu wedi'i ddiffinio.
- Mae'r AP yn ymwybodol o'r newidiadau deddfwriaethol sydd i ddod ynglŷn â therfynau Nitrogen a storio slyri a bydd angen iddo sicrhau bod ei system yn cydymffurfio'n llawn cyn i'r biblinell gael ei hadeiladu.
- Bydd y tir yn cael ei golli dros dro, a bydd iawndal yn cael ei asesu ar sail achosion unigol yn unol â'r Cod Iawndal.
- Mae llwybr mynediad adeiladu eisoes wedi'i gynnig ac wedi'i gynnwys yn Nherfynau'r Gorchymyn ar hyd ochr orllewinol rheilffordd Lerpwl i Gaer (Llain 9-25). Cydnabyddir bod y trac presennol yn gul iawn ac yn union gerllaw eiddo preswyl. O ganlyniad, bydd defnydd o'r fynedfa hon yn cael ei gyfyngu fel y bo'n briodol, a defnyddir ail fynedfa ar gyfer traffig adeiladu trwm. Bydd yr ail lwybr mynediad trwy fynedfa gae newydd oddi ar Station Road (Llain 10-1) ar hyd hawl dramwy adeiladu'r biblinell, ac felly trwy ardal y bydd adeiladu'r biblinell eisoes yn amharu arni.

8.7.211. O'r dystiolaeth, a gyflwynwyd i'r Archwiliad, gan gynnwys y canlynol gan yr Ymgeisydd:

- Ymateb i sylwadau ysgrifenedig [REP2-041]; ac
- Atodlen Trafodaethau â Buddiannau Tir [REP9-015],

mae'r ExA yn fodlon bod yr Ymgeisydd wedi caniatáu digon o amser ar gyfer trafodaethau.

8.7.212. Yn wir, yn seiliedig ar y dystiolaeth/ dogfennau a gyflwynwyd i'r Archwiliad, mae'r ExA o'r farn bod y pwerau CA/ TP a geisir, mewn perthynas â'r rhifau lleiniau a restrir, yn ofynnol ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig. Maen nhw naill ai'n ofynnol ar gyfer y gwaith penodol a nodir ar y Cynlluniau Gwaith neu'n angenrheidiol i hwyluso'r gwaith hwnnw neu'n atodol iddo. Yn yr un modd, mae'r gallu i gynnal a chadw a gweithredu'r datblygiad yn rhan annatod o'r Datblygiad Arfaethedig. Felly, mae'r ExA yn fodlon y bodlonir gofynion a122(2) PA2008.

8.7.213. O ran p'un a oes achos cymhellol er budd y cyhoedd, mae'r ExA o'r farn y byddai'r golled ganlyniadol mewn perthynas â'r AP hwn yn gyfyngedig ac yn cael ei gwrthbwysu'n amlwg gan y buddion cyhoeddus canlynol:

- bodloni angen trosfwaol y gellir ei ddangos am y datblygiad arfaethedig a fyddai'n helpu'r DU yn uniongyrchol i gyrraedd nodau

Sero Net, gan gynnwys cyfnodau datgarboneiddio trosiannol a'r cyllidebau carbon cysylltiedig a fabwysiadwyd yng Nghymru a Lloegr; a'r

- achos economaidd-gymdeithasol aruthrol a wnaed gan yr Ymgeisydd y gellir ei ddangos yn rhanbarthol a ledled y DU, sy'n cynnig buddion cyhoeddus gwirioneddol sylweddol yn gysylltiedig â buddsoddiad uniongyrchol/ anuniongyrchol a chreu swyddi wedi hynny.

8.7.214. Fel y cyfryw, mae'r ExA o'r farn bod achos cymhellol er budd y cyhoedd dros gynnwys y pwerau CA/ TP a geisir mewn perthynas â'r Datblygiad Arfaethedig yn y DCO ac y bodlonir yr amodau a amlinellir yn a122(3) PA2008.

Y Meistri H W Oultram a'u Cwmni, Miss C Oultram a'r Meistri S ac A Oultram (Asiant: Fisher German LLP; a Chyfreithiwr: Stephens Scown LLP)

8.7.215. Mynegodd y Meistri H W Oultram a'u Cwmni, Miss C Oultram a'r Meistri S ac A Oultram (y Teulu Oultram) wrthwynebiadau mewn perthynas â CA/ TP yn eu RR [RR-030] ac yn eu WR [REP1-082]. Crynhoir y rhai isod:

- Diffyg eglurder ynglŷn ag union linell y biblinell a'r hawddfrait gysylltiedig, gan gynnwys hawliau mynediad parhaol i'r biblinell; yn ogystal â chyfrifoldeb yr Ymgeisydd mewn perthynas ag atebolrwydd, indemniadau, ac yswiriant, gan gynnwys o ran premiymau.
- Yr ansicrwydd a achosir, gan gynnwys mewn perthynas â'r hawliau a fydd yn cael eu harfer trwy'r eiddo, gan gyfyngu ar y gallu i gynllunio a gwneud penderfyniadau tymor hir ar gyfer y tir/ yr eiddo hwnnw.
- Bod yr hawddfrait 24m yn ormodol, heb ei chyfiawnhau, ac o bosibl yn sterileiddio ardaloedd mawr o'r tir/ eiddo a, lle y bo'n berthnasol, yn atal datblygiad priodol a chyfyngu ar weithrediadau eraill, gan gynnwys rhai gweithrediadau amaethyddol.
- Bod Penawdau'r Telerau a Chytundebau Opsiwn yn parhau i fod mewn fformat sy'n annerbyniol, yn enwedig o ran:
 - bod faint o dir a fanylir yn ormodol ac yn fwy na'r hyn sy'n rhesymol ofynnol; a
 - sterileiddio'r tir am gyfnod yr opsiwn, sef hyd at 8 mlynedd o bosibl.
- Nad oes cynigion na manylebau ar gael mewn perthynas â phob agwedd ar y gwaith hwylustod sy'n ofynnol, yn ystod ac ar ôl adeiladu, gan gynnwys mewn perthynas â draenio tir, ffensys, cadw'r holl wasanaethau cyfleustodau, manau croesi i led gweithio, amserlen a manyleb ar gyfer adfer a beichiau dydd i ddydd eraill.
- Diffyg manylion ar gael ynglŷn â nifer, maint a lleoliad tyllau archwilio, fentiau, pyst marcio a strwythurau eraill tebyg a allai gael eu hadeiladu ar hyd llinell y bibell, a dim darpariaeth ar waith ar gyfer sicrhau cytundeb y tîrffeddiannwr/ meddiannydd yr effeithir arno ynglŷn â lleoliad y strwythurau hyn.
- Yr effaith bosibl ar werthoedd rhent a chyfalaf bosibl.
- Malltod bosibl a achosir gan ansicrwydd parhaus ynglŷn ag union lleoliad y biblinell a'r hawddfrait gysylltiedig.
- Canlyniadau difrifol i hyfywedd y fferm, gan gynnwys:

- Bydd yr ardal sy'n ofynnol ar gyfer y gwaith adeiladu'n dileu ardaloedd allweddol o'r fferm ar gyfer padogau pori a bwrw lloi, yn ogystal â chreu problemau logistaidd difrifol yn ymwneud â symud buches odro (dros 200 o fuchod) o amgylch y fferm yn ddyddiol.
 - Bydd dileu hyd at 16 erw o dir gyferbyn â'r fferm ar gyfer safle cyfadeilad yn ystod y cam adeiladu'n cael effaith niweidiol ddifrifol ar hyfywedd y fferm, gan fod y bloc o dir dan sylw'n allweddol i system bori'r fuches odro ac ar gyfer gwasgaru slyri.
 - Mae'r tir yn werthfawr iawn i weithredu'r fuches a chynhyrchu silwair a byddai colli'r tir hwn (hyd yn oed am gyfnod dros dro) yn golygu y byddai angen lleihau niferoedd y fuches a/ neu newid arferion ffermio'n sylweddol a fyddai'n gofyn am gaffael offer ychwanegol. Bydd colli'r ardal honno fel ffynhonnell werthfawr o silwair a thir pori a'r fynedfa arfaethedig i'r cyfadeilad yn amharu'n ddifrifol ar fynediad at y tir pori sy'n weddill ar gyfer y fuches odro, os nad ei atal yn llwyr, gan wneud y busnes llaeth yn anhyfyw o adeg yr amhariad cychwynnol.
 - Byddai dyfodol tymor hir y fferm fel daliad llaeth dan fygythiad oherwydd amcangyfrifir y byddai colli'r tir yn arwain at waredu hyd at draean o'r fuches laeth o ganlyniad i ddiffyg tir pori a llai o le i wasgaru slyri, gan leihau trosiant a dileu swyddi.
- Y posibilrwydd o golli cymorthdaliadau fferm yn sgil colli'r tir, oherwydd bwriad Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yw mynnu, o 2025 ymlaen, bod 10% o dir yr holl ffermydd yng Nghymru sy'n gwneud cais am gymorthdaliadau yn cynnal coetir, y byddai'r daliad yn ei fodloni ar hyn o bryd. Fodd bynnag, gallai colli'r tir achosi i'r fferm fod yn anghymwys ar gyfer cymorthdaliadau, yn dibynnu ar faint o goetir sy'n cael ei ddileu.
 - Yn ogystal, mae'r AP hwn yn cynghori "*Er mwyn i'r busnes aros yn hyfyw, bydd angen newid i system bori sero, a fydd yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol mewn adeiladau, peiriannau ac offer newydd a thir ychwanegol i allu dod â'r porthiant i'r fuches odro.*" Mae'n cynghori "*...y byddai'n dymuno i'r Ymgeisydd ddarparu'r buddsoddiad hwn.*"

8.7.216. Mae'r Ymgeisydd yn ceisio pwerau CA dros y lleiniau a nodir yn Nhabl 4 yr adroddiad hwn. Fel yr amlinellir yn y BoR [REP7-025] a'r Cynlluniau Tir [CR3-003], ceisir caffael tir yn barhaol mewn perthynas â lleiniau rhif 19-04a, 19-04b a 19-04d; ceisir caffael iswyneb yn barhaol mewn perthynas â lleiniau rhif 18-02, 18-03, 18-04, 18-05, 18-06, 18-07, 18-10, 18-11, 18-14, 18-18, 18-19, 18-20, 18-20a, 18-21, 18-22, 18-23, 18-24, 18-25, 19-03 a 19-04.

8.7.217. Mae'r BoR [REP7-025] a'r Cynlluniau Tir [CR3-003] hefyd yn nodi'r rhifau lleiniau y ceisir caffael hawliau/ hawliau newydd drostynt yn barhaol, gyda'r dDCO yn Atodlen 8 (Tir y ceir caffael hawliau newydd ac ati ynddo). Mae'r atodlen hon yn nodi'r rhifau lleiniau perthnasol, yn ogystal â'r hawliau newydd a geisir mewn perthynas â'r rhifau lleiniau hynny ac mae'n cadarnhau na cheisir unrhyw hawliau parhaol/ newydd mewn perthynas â'r AP hwn (y Teulu Oultram).

8.7.218. O ran TP, mae'r dDCO yn Atodlen 7 (Tir y ceir arfer TP drosto) yn nodi pa leiniau y mae TP yn berthnasol iddynt, y rheswm pam y ceisir TP mewn perthynas â phob rhif llain a'r rhif gwaith sy'n berthnasol i bob llain y ceisir TP drosto. O ran yr AP hwn (y Teulu Oultram), y rhifau lleiniau a restrir yw 18-13, 18-16 a 19-04c. Fel yr amlinellwyd gan yr Ymgeisydd yn Atodlen 7 y dDCO, mae'r rheswm dros geisio pob llain yn amrywio, fel y nodir isod:

- Defnydd dros dro fel cyfadeilad adeiladu, ardal weithio a mynedfa.
- Defnydd dros dro fel mynedfa adeiladu a llain welededd.
- Defnydd dros dro fel ardal weithio.

Ymateb yr ExA

8.7.219. Yn ogystal â chyflwyno RR [RR-030] ac WR [REP1-082], gwnaeth yr AP hwn nifer o gyflwyniadau eraill, gan gynnwys [CR1RR-010], [REP4-292], [REP6-051], [REP6-052] a [REP7-325]. Mynychodd Mr S Oultram a Miss C Oultram ran o ASI2, fel yr oedd yn berthnasol i'w buddiannau tir, ar ddydd Mawrth 8 Awst 2023, a chymerodd eu cynrychiolwyr ran yn y ddau CAH (CAH1 a CAH2) hefyd ar eu rhan.

8.7.220. Ceisiodd yr Ymgeisydd, yn ei 'Ymateb i RR' [REP1-042], egluro nifer o'r pwyntiau a godwyd a rhoddir crynodeb o'r prif ymatebion isod:

- Coridor 100m nominal yn unig a ddynodwyd ar hyd y Datblygiad Arfaethedig cyfan er mwyn "*rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i gontractwyr dylunio manwl wrth ddylunio'r llwybr terfynol i gydbwysu gofynion adeiladu ac amgylcheddol ag ymyrryd â buddiannau tir lleol.*"
- Mae lled 24.4m y coridor hawliau parhaol yn unol ag arferion y diwydiant piblinellau ac mae'n ofynnol i sicrhau bod digon o fynediad ar gael ar gyfer gwaith archwilio a chynnal a chadw ar y biblinell yn y dyfodol os bydd ei angen.
- Mae'n ymwybodol o effeithiau posibl y Datblygiad Arfaethedig ar fusnes fferm laeth yr ymatebwr a chynhaliodd Asesiad o'r Effaith ar Fusnes Fferm yn ddiweddar i ddeall yr effeithiau hynny ymhellach a sut byddent yn effeithio ar hyfywedd y busnes ffermio.
- Byddai'r Ymgeisydd yn ceisio parhau i ymgysylltu â'r tirfeddianwyr:
 - ynglŷn â'r materion sy'n achos pryder iddynt a byddai'n ceisio negodi â nhw. At hynny, byddai'n ceisio ymgysylltu â'r AP hwn yng nghyd-destun trafodaethau parhaus ynglŷn â Phenawdau'r Telerau a chytundeb opsiwn; ac
 - i liniaru colli unrhyw dir ar gyfer eu busnes fferm yn ystod adeiladu'r Datblygiad Arfaethedig ac yn parhau i drafod dulliau sy'n lleihau ac yn liniaru effeithiau'r cynllun ar eu busnes gyda nhw.
- Os collir unrhyw ran o dir y tirfeddianwyr, bydd iawndal yn cael ei asesu ar sail achosion unigol yn unol â'r Cod Iawndal.

8.7.221. Wrth ymateb i CR1 a CR2, a wnaed yn RR [CR1RR-010], nododd yr AP hwn fod CA ychwanegol ar gyfer tir i'r gogledd-orllewin o'r tanc slyri presennol ar Fferm Newbridge (18-20a) wedi'i gynnwys yn y Datblygiad Arfaethedig. Nododd fod dau bosibilrwydd yn codi o'r cais hwn i wneud

newidiadau, yr oedd un ohonynt yn cynnwys symud y tanc slyri ymaith, y byddai ei ddymchwel yn effeithio ar fferm yr AP. Fodd bynnag, mynegodd yr AP bryder nad oedd yr Ymgeisydd wedi asesu effeithiau economaidd y dymchweliad hwnnw ar y fferm. Nododd yr AP *"Ni all fferm laeth weithredu heb danc slyri; mae'n ofyniad statudol. Mae'r datblygwr yn cyfaddef nad oes lleoliad amgen addas ar gyfer y tanc ac felly bydd angen i'r busnes gau."*

8.7.222. O ran CR2, nododd yr AP hwn fod y newid yn cynnwys cynyddu'r tir a gymerir yn barhaol ger Nant Alltami (19-04d), a nododd y byddai cymryd y tir hwnnw'n hollti'r daliad, gan golli erwau ychwanegol o dir a fyddai'n gwneud y busnes yn anghynaliadwy. Cyngorodd yr AP *"...mae lefel na all uned laeth weithredu oddi tani ac a fydd yn arwain at leihau'r stoc a cholli swyddi."*

8.7.223. Wrth ymateb i'r sylwadau uchod, cyngorodd yr Ymgeisydd *"...mae'r tir ychwanegol (llain rhif 18-20a) ar gyfer lle ychwanegol i leoli'r biblinell rhwng y tanc slyri y cyfeiriwyd ato a'r coetir hynafol sydd wedi'i leoli i'r gogledd o fferm yr IP. O ystyried yr agosrwydd i'r coetir hynafol, darparwyd opsiwn ychwanegol i adleoli'r tanc slyri os bydd y corff statudol perthnasol o'r farn bod y biblinell yn rhy agos i'r ardal gwarchod gwreiddiau."* O ran y pwynt olaf, mae'n amlwg o'r cyflwyniadau a wnaed yn ystod yr Archwiliad bod yr Ymgeisydd wedi ceisio datrys pryderon a godwyd ynglŷn â'r Coetir Hynafol a bod FCC wedi cytuno i leihau lled y llain glustogi i 13m yn groes i gyngor Coed Cadw. Trafodir y mater hwn ym Mhennod 5 yr adroddiad hwn.

8.7.224. O ran sylw'r AP hwn ynglŷn â CR2, ymatebodd yr Ymgeisydd yn ei 'Adroddiad Ymgynghori ynglŷn â Chais i Wneud Newidiadau 1' [REP5-024], gan nodi bod llain rhif 19-04d yn ardal ar gyfer dewisoldeb adeiladu (yn cyd-fynd ag egwyddorion dewisoldeb yn y coridor 100m) ac y byddai ond yn ceisio *"...caffael hawliau arwyneb (fel opsiwn dylunio), ar gyfer rhan fach o led y llain hon. Cadarnheir union leoliad a maint yr ardal hon yn ystod y cam dylunio manwl. Fodd bynnag, mae'r rhychwant dangosol oddeutu 14m gyda lled bras o 4m, ond fe allai'r dimensiynau amrywio yn dibynnu ar y lleoliad croesi terfynol a ddewisir yn ystod y cam dylunio manwl."* Unwaith eto, amlygodd yr Ymgeisydd *"...os bydd unrhyw dir yn cael ei hollti, ymdrinnir â hyn o dan y cod iawndal."*

8.7.225. Cyflwynwyd sylwadau ar ran Mr. S a Miss C Oultram erbyn DL4 [REP4-292]. Roedd y cyflwyniad hwn yn ailadrodd pryderon blaenorol ynglŷn â cholli'r storfa slyri, gan amlygu'r ddarpariaeth ddeddfwriaethol sy'n rheoli storio gwrtaith organig ar ffermydd ac yn *"...pennu'r hyn y mae'n rhaid ei ddarparu, gan gynnwys y gofyniad i allu storio gwerth 5 mis o slyri."* Datganodd na all fferm laeth weithredu heb storfa slyri.

8.7.226. Roedd y sylw hwn hefyd yn herio'r angen am TP dros dir ar gyfer cyfadeilad adeiladu, gan ailadrodd effeithiau cymryd unrhyw dir ar hyfywedd y fferm. Mae hefyd yn dadlau bod defnyddio'r term 'dros dro' yn gamarweiniol. Yn ogystal â'r uchod, ymhelaethodd y sylw ar bryderon yr IP ynglŷn â gwahanu tir, a wnaed yn [CR1RR-010] a grybwyllwyd uchod ac ailbwysleisiodd bryderon ynglŷn â cholli tir pori a gwasgaru.

8.7.227. Yn ei ymateb i gyflwyniadau DL4 [REP5-015], rhoddodd yr Ymgeisydd ddiweddariad ynglŷn â phryderon yr AP hwn yn deillio o'r posibilrwydd o golli'r storfa slyri. Cynghorodd ei fod yn cynnal trafodaethau ag FCC ynglŷn â lleihau lled y llain glustogi sy'n gysylltiedig â'r coetir hynafol cyfagos, gan ganiatáu i'r tanc slyri aros yn ei le. Dywedodd yr Ymgeisydd fod swyddog coedwigaeth FCC wedi cadarnhau nad oedd yn gwrthwynebu'r cynigion, yng ngoleuni'r ystyriaeth geidwadol o ardal gwarchod gwreiddiau'r coetir hynafol ac yng nghyd-destun mesurau lliniaru eraill arfaethedig i ddiogelu coetir hynafol, fel sy'n ofynnol yn y Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu Amlinellol [REP4-237] a sicrhau gan Ofyniad 5 y dDCO [REP4-008].

8.7.228. O ran y TP yn gysylltiedig â'r cyfadeilad adeiladu dros dro, cadarnhaodd yr Ymgeisydd ei fod yn bwriadu dileu'r cyfadeilad hwn yn rhan o CR3. O ran materion gwahanu a cholli tir pori a gwasgaru, cynghorodd yr Ymgeisydd ei fod wedi ystyried y pwyntiau hyn yn ei 'Bapur sefyllfa llwybro a lliniaru Ewloe' [REP6-037] a gyflwynwyd erbyn DL6. Daeth y ddogfen hon i'r casgliad:

- *"Mae'r Ymgeisydd wedi ymgysylltu'n barhaus â'r tirlfeddiannwr ar bob adeg cyn ac ar ôl cyflwyno'r DCO. Mae'r Ymgeisydd yn ymwybodol o effaith y Biblinell CO₂ ar y tirlfeddiannwr ac mae'n parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau bod effaith y cynllun ar fusnes ffermio'r tirlfeddiannwr yn cael ei lleihau i'r eithaf cyn belled ag y bo'n ymarferol.*
- *Mae rhywfaint o'r ymgysylltiad parhaus hwn wedi arwain at newidiadau i'r cais DCO, gan gynnwys dileu effaith cyfadeilad adeiladu yn rhan o CR3.*
- *Mae'r Ymgeisydd hefyd yn ymgysylltu'n weithredol ag FCC wrth gytuno ar y mesurau ardal gwarchod gwreiddiau er mwyn cytuno ar egwyddor llwybro'r biblinell o amgylch tanc slyri'r tirlfeddiannwr.*
- *Mae'r effeithiau parhaol sy'n weddill yn cynnwys yr opsiwn pont bibell ymgorfforedig dros Nant Alltami (nad yw'r Ymgeisydd yn ei ffafrio) a'r gofyniad am dir lliniaru addas sy'n angenrheidiol ar gyfer y datblygiad. Mae'r Ymgeisydd yn ymgysylltu â'r tirlfeddiannwr i leihau'r effeithiau hyn gymaint â phosibl a'u digolledu.*
- *Mae'r Ymgeisydd yn hyderus y bydd effeithiau adeiladu'n rhai dros dro, a fydd yn cael eu lleihau i'r eithaf trwy arferion gwaith da ac y byddant yn llai na'r achos gwaethaf a aseswyd. Mae'r Ymgeisydd yn honni, at ei gilydd, bod yr effeithiau wedi cael eu lliniaru cyn belled ag y bo'n ymarferol ac na ellir osgoi'r effeithiau sy'n weddill. O ystyried buddion y Biblinell CO₂ a'r gefnogaeth bolisi sylweddol iddi, mae'r Ymgeisydd o'r farn bod unrhyw effeithiau niweidiol ar y busnes fferm yn cael eu gwrthbwyso'n sylweddol gan yr ystyriaethau o blaid rhoi caniatâd gyda phwerau gorfodol."*

8.7.229. Wrth ymateb i CR3, nododd sylwadau ar ran Mr. S a Miss C Oultram y gostyngiad o ran TP dros dir, gan gynnwys dileu lleiniau rhif 18-08, 18-09 a 18-12 a dileu llain rhif 18-13 yn rhannol. Fodd bynnag, roeddent yn parhau i bryderu bod rhan o'r tir a gedwir yn Nherfynau'r Gorchymyn yn lleiniau rhif 18-13 a 18-17 a 18-16 yn rhwystro mynediad i weddill y

fferm, gan nodi bod lleiniau rhif 18-16 a 18-17 wedi'u cynnwys yn Nherfynau'r Gorchymyn i ddarparu mynediad.

- 8.7.230. Roeddent o'r farn y byddai TP dros leiniau rhif 18-16 a 18-17 gyda'i gilydd yn gwahanu'r llwybr gwartheg oddi wrth y brif ffordd. Maen nhw'n honni y bydd colli mynediad i'r llwybr gwartheg yn eu hatal rhag defnyddio'r tir nad yw'n angenrheidiol mwyach ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig, gan na fyddent yn gallu defnyddio'r llwybr gwartheg i gael y stoc i'r briffordd. Fel y cyfryw, maen nhw'n dadlau na fyddent yn gallu pori eu stoc ar y lleiniau hynny. I gefnogi eu dadl, mae'r AP yn amlygu bod SoR yr Ymgeisydd a gyflwynwyd erbyn CR3 [CR3-011], lle y nododd baragraff 6.4.8, yn datgan "*...mae SoR CR3 yn nodi na ellir rhannu tir o'r math hwn*".
- 8.7.231. O ganlyniad i hyn, mae'r AP o'r farn y bydd yn anoddach o lawer symud y fuches ac y bydd angen mwy o staff i gynnal diogelwch. Mae hefyd yn herio cael gwared ar wrych sefydledig, gan ddatgan y bydd hyn yn cael effaith barhaol y tu hwnt i'r cyfnod meddiannu dros dro, ac yn herio pa effaith y bydd y gwaith hwn yn ei chael ar y ffos ddraenio y bydd angen ei chroesi neu ba waith y bydd angen ei gyflawni i wneud y llwybr gwartheg yn addas i draffig trwm, gan nad yw'n ystyried bod yr Ymgeisydd wedi bod yn glir ynglŷn â'r naill fater na'r llall.
- 8.7.232. Wrth ymateb i gyflwyniadau a dderbyniwyd erbyn DL6 [REP7-290], mae'r Ymgeisydd yn mynd i'r afael â'r holl bwyntiau a godwyd gan yr AP yn y cyflwyniad hwnnw. Mae'n cydnabod y sylwadau a wnaed gan yr AP hwn erbyn DL6 a datganodd ei fod "*yn deall pwysigrwydd y llwybr gwartheg.*" Cynghorydd yr Ymgeisydd hefyd y byddai'n "*sicrhau y gellir cynnal mynediad dros y llwybr gwartheg trwy waith hwyluso pan gyrhaeddir y cam dylunio manwl.*"
- 8.7.233. Trafodwyd pryderon yr AP ynglŷn â mynediad i'r llwybr gwartheg hefyd yn ystod CAH2 (Rhan 2) [EV-035] lle'r oedd yn amlwg i'r ExA fod y ddau barti wedi cyrraedd cyfyngder. Esboniodd Mr Baker ar ran yr AP hwn yr angen gweithredol i'w gleientiaid ddefnyddio'r fynedfa hon yn barhaus. Fodd bynnag, nododd hefyd eu bod yn ceisio sicrwydd clir na fydd unrhyw amhariad o gwbl ar eu mynediad er mwyn symud eu gwartheg a'u cerbydau bob awr o'r dydd a'r nos, ac nad oeddent yn fodlon ystyried unrhyw beth ymhellach hyd nes y rhoddwyd sicrwydd o'r fath ([EV-035] wedi'i amseru ar 5:42).
- 8.7.234. Pan holwyd sut gellid datrys y cyfyngder hwn, dywedodd Mr Tilney o Stephens Scown LLP, ar ran yr AP, nad oedd ganddo gyfarwyddiadau penodol ynglŷn â'r mater gan ei gleient, ond awgrymwyd y gellid rhoi diweddariad ar y mater i'r ExA erbyn DL7.
- 8.7.235. Wrth ymateb, esboniodd yr Ymgeisydd y bydd y fynedfa'n cael ei defnyddio i gael cerbydau adeiladu i mewn ac allan, a chadarnhaodd ei fod yn fodlon cydlynu gyda'r tiffeddiannwr ac oedi symudiadau ddwywaith y dydd i ganiatáu ar gyfer symud gwartheg. Dywedodd hefyd fod angen rhywfaint o reolaeth er mwyn diogelwch y ddau barti, ac felly nad oes modd darparu mynediad dirwysr, direolaeth, bob awr o'r dydd

a'r nos ar gyfer symudiadau gwartheg. Fodd bynnag, cadarnhaodd hefyd ar lafar nad yw'n bwriadu atal cerbydau unigol rhag cael mynediad ar adegau eraill.

- 8.7.236. Yn ogystal, esboniodd yr Ymgeisydd er bod meddiant dros dro yn cael ei geisio dros y lleiniau, ei fod wedi ceisio gweithio gyda'r tîrfeddianwyr, ac nad yw'n ceisio atal mynediad yn y man hwnnw a bod hyn wedi'i gynnwys yn ei 'Bapur Sefyllfa Llwybro a Lliniaru Ewloe' [REP6-037], ac wedi'i gynnig i'r tîrfeddianwyr.
- 8.7.237. Erbyn DL7, cyflwynwyd cyflwyniad ar ran Mr. S Oultram a Miss C Oultram i'r Archwiliad gan Stephens Scown LLP [REP7-325]. Roedd y cyflwyniad hwn yn ailadrodd y dadleuon a gyflwynwyd i'r Archwiliad eisoes ynglŷn â llain rhif 18-17 a'r mynediad cyfyngol sy'n ofynnol dros y tir hwnnw. Mae'r llythyr hefyd yn gwneud sylwadau ar ymateb yr Ymgeisydd a wnaed yn ystod CAH2, sef nad oedd yn dweud y byddai'n atal mynediad arall (heblaw am symudiadau stoc torfol yn rheolaidd) a'r unig ddewis amgen posibl fyddai PP. Fodd bynnag, mae'r llythyr yn datgan na chynigiwyd PP hyd yma, ac na welwyd unrhyw ddrafft.
- 8.7.238. Mae'r llythyr a grybwyllwyd uchod hefyd yn datgan, o dan y pennawd 'Effaith a Aseswyd', "*Mae'r Teulu Oultram wedi cyflogi ymgynghorydd amaethyddol i gynghori ar yr effaith ddisgwyliedig.*" Yna, mae'r llythyr yn amlinellu nodiadau Mr. Harvey o Harvey Hughes Ltd, sy'n ymdrin â disgrifiad o'r gweithrediad fferm a sut y defnyddir y tir ar y daliad fferm. Mae hefyd yn ymdrin â nifer o bynciau, fel yr amlinellir isod, gan wneud sylwadau ar bob un yn ei dro. Dyma'r meysydd pwnc:
- Ardal y cyfadeilad.
 - Tir silwair.
 - Storio silwair.
 - Symud silwair.
 - Gwasgaru slyri.
 - Gwelliannau i adeiladau.
 - Gostyngiad mewn stoc.
- 8.7.239. Mae'r nodyn hwn yn gwneud pwyntiau terfynol byr ynglŷn â'r canlynol:
- bod angen i'r effeithiau ariannol sy'n deillio o'r pwyntiau uchod gael eu cyfrifo'n llawn, pan ddeïllir hyd a lled ac amseriadau'r Datblygiad Arfaethedig yn llawn; a
 - defnyddio'r trac mynediad at ddiben deuol, sef mynediad ar gyfer gwartheg a chontractwyr, gan fynegi'r farn na fydd defnydd deuol o'r fath yn gweithio ac, ar ei gwaethaf, y gallai achosi sefyllfa sy'n rhoi bywyd pobl ac anifeiliaid mewn perygl.
- 8.7.240. Wrth adolygu llythyr Stephens Scown LLP [REP7-325], a gyflwynwyd ar ran y Teulu Oultram erbyn DL7, yn ogystal â nodiadau Mr. Harvey a gynhwyswyd ynddo, ni chanfu'r ExA unrhyw gofnod nac esboniad o gymwysterau a phrofiad Mr. Harvey. Yn wir, nododd yr ExA heblaw am grybwyll "*Y Teulu Oultram...*" yn cyflogi "*...ymgynghorydd amaethyddol i gynghori ar yr effaith ddisgwyliedig*", nad oes cofnod o ba bryd y cyflogwyd yr ymgynghorydd, na thelerau penodol ei gyfarwyddiadau/

cyflogaeth. Fel y cyfryw, heb wybodaeth o'r fath, yn enwedig cymwysterau a phrofiad proffesiynol, mae'r ExA yn rhoi pwys cyfyngedig i nodiadau Mr. Harvey.

- 8.7.241. Yn 'Sylwadau'r Ymgeisydd ar gyflwyniadau a dderbyniwyd erbyn DL7' a gyflwynwyd erbyn DL8 [REP8-035], amlinellodd ei ymateb i gyflwyniad DL7 y Teulu Oultram [REP7-325]. Cynghorodd yr Ymgeisydd:

"Fel y cyflwynwyd droeon ac a gadarnhawyd yn CAH2, mae'n fodlon ac yn gallu darparu mynediad a rennir i'r cae yn y man hwn. Dangosir y llain yn wyrdd ac nid yn frown oherwydd nid yw'n llwybr presennol y mae'r Ymgeisydd yn dymuno ei ddefnyddio ond yn un y mae angen gwaith ffisegol i'w greu.

Fel yr esboniwyd, gellir darparu mynediad i gerbydau ar gyfer gwaith fferm 'arferol' ar gais, fwy neu lai (yn amodol ar symudiadau traffig arferol, e.e. aros tra bod cerbyd yn mynd i mewn neu allan). Symud y fuches yw'r hyn y mae angen ei gytuno fel y gall yr Ymgeisydd drefnu oedi ei ddefnydd o'r fynedfa.

Mae'r Ymgeisydd wedi ystyried ymarferoldeb y mynediad hwnnw'n fanwl, gan gynnwys p'un a oes angen gwneud y fynedfa'n fwy llydan i ddarparu lle ar gyfer y ddau ddefnydd (sy'n bosibl o fewn terfynau'r gorchymyn ac y gellir ei adeiladu'n rhwydd dros y draeniad presennol). Er enghraifft, mae'r Ymgeisydd eisoes wedi nodi y byddai giatiau newydd yn hwyluso rhannu mynediad yn y lleoliad hwn.

Fel y mynegwyd yn CAH2, mae'r Ymgeisydd yn fodlon cofnodi'r mynediad hwn a rennir, ond gofynnwyd iddo beidio ag anfon rhagor o ddogfennau at y tirlfeddiannwr, a olygodd fod cytuno ar eiriad amgen ar gyfer hyn y tu allan i gytundeb tir, fel darpariaeth amddiffynnol, yn amhosibl. Mae'n afresymol i'r tirlfeddiannwr feirniadu'r Ymgeisydd am beidio â chofnodi pwyntiau o'r fath er ei foddhad ar ôl iddo wrthod ymgysylltu â drafftio'r cyfryw ddogfennau. Yn dilyn y gwrandawriad, mae'r Ymgeisydd yn deall y gallai'r sefyllfa hon fod wedi newid ac y gellir cytuno ar yr union drefniadau ar gyfer y fynedfa hon yn briodol o fewn y telerau opsiwn os bydd y tirlfeddiannwr yn ymgysylltu â'r rheiny bellach. Rhoddwyd Penawdau'r Telerau diwygiedig wedi'u teilwra i asiant y tirlfeddiannwr ar 22 Awst 2023 ac mae'r Ymgeisydd yn aros am ymateb gan y tirlfeddiannwr."

- 8.7.242. Yn yr un ddogfen, wrth ymateb i nodiadau ysgrifenedig Mr Harvey o Harvey Hughes Ltd, sydd wedi'u hymgorffori yn llythyr Stephens Scown LLP, mae'r Ymgeisydd yn ymateb:

"Mae'r Ymgeisydd yn nodi pryderon y tirlfeddiannwr ynglŷn â'r platfform pori a ddefnyddir gan y fuches odro ar Fferm Newbridge.

Mae'r Ymgeisydd yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau hyfywedd y busnes llaeth a weithredir ar Fferm Newbridge. Yn dilyn trafodaethau parhaus â'r tirlfeddiannwr, mae'r Ymgeisydd wedi ceisio deall a lleihau effeithiau ar y busnes fferm a negodi â'r tirlfeddiannwr. Mae'r cyfadeilad adeiladu a gynigiwyd yn flaenorol wedi cael ei ddileu o Derfynau Gorchymyn y DCO bellach yn rhan o Gais i Wneud Newidiadau Rhif 3,

sy'n golygu y bydd oddeutu 20 erw'n aros o fewn rheolaeth y fferm yn ystod adeiladu.

Bydd yr Ymgeisydd yn parhau i weithio gyda'r tîrfeddiannwr i sicrhau bod effeithiau adeiladu a cholli unrhyw dir yn cael eu lliniaru cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol. Bydd yr Ymgeisydd yn gweithio i gytuno ar waith hwylustod, gan gynnwys unrhyw ofyniad ar gyfer ffensys, cafnau dŵr ychwanegol, giatiau a manau mynd heibio i sicrhau bod y gwartheg yn gallu parhau i bori'r tir a holltir gan y gwaith dros dro. Ar ôl cael cyngor gan syrfëwr gwledig arbenigol a chanddo brofiad ffermio helaeth, mae'r Ymgeisydd yn sylweddoli nad yw'r busnes ffermio'n un ysbeidiol ond, yn seiliedig ar y cyngor hwnnw, mae'n ystyried y gellir rhoi datrysiadau ar waith i ddefnyddio tir ar gyfer adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw Datblygiad Arfaethedig y DCO ar yr un pryd â sicrhau hyfywedd y fuches. Er enghraifft, efallai y bydd angen newid y platfform pori yn ystod y cyfnod adeiladu a bydd yr Ymgeisydd yn parhau i ystyried hyn wrth i'r dyluniad manwl ddatblygu (megis trwy weithredu system 'dim pori'). Nid yw'r Ymgeisydd yn credu y bydd colli tir pori dros dro yn dod â'r busnes i ben. Mae'r Ymgeisydd yn sylweddoli y bydd angen i'r tîrfeddiannwr gael mynediad i lawr y llwybr bob bore a nos pan fydd y gwartheg yn pori, a bydd hyn yn cael ei ddarparu. Mae'r Ymgeisydd yn fodlon ymrwymo i ddarparu staff ychwanegol fel y bo'r angen yn ystod camau cynnar adeiladu i sicrhau bod y gwartheg yn cyrraedd y tir yn ddiogel. Mae'r gwartheg wedi cerdded yr un llwybr ers cenedlaethau ac nid ydym yn cytuno y bydd y sŵn, yr arogleuon a'r gweithgarwch cyffredinol yn eu hatal rhag cerdded i lawr y llwybr. Mae'r gwartheg yn croesi prif ffordd brysur iawn i gyrraedd y tir bob dydd ar hyn o bryd ac felly maen nhw'n gyfarwydd â sŵn, arogleuon a cherbydau.

Nid yw'r Ymgeisydd yn credu na fydd y tir yn hygyrch ar gyfer pori ac mae'n ystyried y bydd y system yn gallu gweithredu'r un fath ag ar hyn o bryd. Mae'r claddfeydd silwair presennol yn darparu lle storio ar gyfer y gwartheg ar hyn o bryd, gan gynnwys indrawn. Felly, ni fyddai gofyniad ar gyfer claddfeydd silwair newydd na gwelliannau i'r adeiladau presennol.

O ystyried bod modd pori'r tir, bydd y platfform pori presennol yn aros yr un fath, gan y bydd ffens o amgylch Datblygiad Arfaethedig y DCO yn ystod adeiladu (coridor 32m). Mae'r Ymgeisydd wedi ymrwymo i ddarparu manau croesi rhesymol i ganiatáu mynediad i unrhyw dir a holltir dros dro gan y gwaith.

Mae'r Ymgeisydd wedi ymrwymo o hyd i weithio gyda'r tîrfeddiannwr i sicrhau hyfywedd ei fusnes. Nid ydym yn cytuno y bydd defnydd deul o'r tir yn rhoi bywydau pobl ac anifeiliaid mewn perygl, gyda rheolaeth a chynllunio gofalus.

At hynny, mae'r Ymgeisydd yn derbyn y bydd y gwaith yn cael effaith dros dro ar y busnes ffermio a bydd yr Ymgeisydd yn gweithio'n agos gyda'r tîrfeddiannwr i geisio lliniaru'r colledion hyn, lle nad yw hyn yn bosibl. Bydd yr Ymgeisydd yn digolledu colledion profedig yn unol â'r cod iawndal.

- 8.7.243. Mae 'Atodlen trafodaethau â buddiannau tir' [REP9-015] yr Ymgeisydd, a gyflwynwyd erbyn DL9, yn amlinellu'n glir manylion trafodaethau â H W Oultram a'i Gwmni, Miss C Oultram, a Mr S W Oultram o ran y lleiniau y mae ganddynt fuddiannau tir ynddynt. Mae'n amlwg o'r ddogfen hon bod trafodaethau wedi dechrau ym mis Mai 2022 ac wedi parhau tan ddiwedd yr Archwiliad, er y bu cyfnod pan ofynnodd y Teulu Oultram i ddiweddariadau ychwanegol ar benawdau'r telerau gael eu hoedi. Mae hefyd yn dangos llawer o weithgarwch yn dilyn CAH2 o 14 Awst 2023 tan 18 Medi 2023.
- 8.7.244. Er gwaethaf y gweithgarwch hwn, ni ddaethpwyd i gytundeb erbyn diwedd yr Archwiliad. Fodd bynnag, mae 'Atodlen trafodaethau â buddiannau tir' [REP9-015] yr Ymgeisydd yn dod i gasgliad ynglŷn â'r cofnodion yn ymwneud â 'Gwrthwynebiadau Rhif': 28 - Miss C Oultram; 70 - H W Oultram a'i Gwmni; a 123 - Mr S W Oultram: *"Mae'r Ymgeisydd yn parhau i fod yn ymrwymedig i ymgysylltu a thrafod â'r trefeddiannwr a'i asiant."*
- 8.7.245. O'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Archwiliad, gan gynnwys y dystiolaeth lafar yn ystod y CAH (CAH1 a CAH2), y cyflwyniadau ysgrifenedig a wnaed ar ran y Teulu Oultram, ac ymatebion yr Ymgeisydd a dogfennau eraill a gyflwynwyd i'r Archwiliad, nid yw'r ExA wedi'i ddarbwylllo gan y dadleuon a gyflwynwyd gan yr AP hwn ynglŷn â CA/ TP. Yn wir, mae'n ymddangos i'r ExA fod yr Ymgeisydd wedi ceisio mynd i'r afael â'r gwrthwynebiadau a wnaed gan yr AP hwn a bodloni ei ofynion cyn belled ag y bo'n ymarferol, er mwyn i'r ddau barti allu cydfodoli yn ystod pob cam, gan gynnwys camau adeiladu a gweithredol y Datblygiad Arfaethedig.
- 8.7.246. Wrth ffurfio'r safbwynt hwn, darbwylwyd yr ExA yn arbennig gan dystiolaeth lafar yr Ymgeisydd a roddwyd yn CAH2 a chan ei gyflwyniad erbyn DL8 'Sylwadau'r Ymgeisydd ar gyflwyniadau a dderbyniwyd erbyn DL7' [REP8-035]. Fel y cyfryw, o'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Archwiliad, fel yr amlinellwyd uchod, mae'r ExA yn fodlon bod yr Ymgeisydd wedi caniatáu digon o amser ar gyfer trafodaethau.
- 8.7.247. At hynny, yn seiliedig ar y dystiolaeth/ dogfennau a gyflwynwyd i'r Archwiliad, gan gynnwys y dystiolaeth lafar a roddwyd yn ystod y CAHau (CAH1 a CAH2), mae'r ExA o'r farn bod y pwerau CA/ TP a geisir, mewn perthynas â'r rhifau lleiniau a restrir, yn ofynnol ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig. Maen nhw naill ai'n ofynnol ar gyfer y gwaith penodol a nodir ar y Cynlluniau Gwaith neu'n angenrheidiol i hwyluso'r gwaith hwnnw neu'n atodol iddo. Yn yr un modd, mae'r gallu i gynnal a chadw a gweithredu'r datblygiad yn rhan annatod o'r Datblygiad Arfaethedig. Felly, mae'r ExA yn fodlon y bodlonir gofynion a122(2) PA2008.
- 8.7.248. O ran p'un a oes achos cymhellol er budd y cyhoedd, mae'r ExA o'r farn y byddai'r golled ganlyniadol mewn perthynas â'r AP hwn yn gyfyngedig ac yn cael ei gwrthbwysu'n amlwg gan y buddion cyhoeddus canlynol:
- bodloni angen trosfwaol y gellir ei ddangos am y datblygiad arfaethedig a fyddai'n helpu'r DU yn uniongyrchol i gyrraedd nodau

Sero Net, gan gynnwys cyfnodau datgarboneiddio trosiannol a'r cyllidebau carbon cysylltiedig a fabwysiadwyd yng Nghymru a Lloegr; a'r

- achos economaidd-gymdeithasol aruthrol a wnaed gan yr Ymgeisydd y gellir ei ddangos yn rhanbarthol a ledled y DU, sy'n cynnig buddion cyhoeddus gwirioneddol sylweddol yn gysylltiedig â buddsoddiad uniongyrchol/ anuniongyrchol a chreu swyddi wedi hynny.

8.7.249. Fel y cyfryw, mae'r ExA o'r farn bod achos cymhellol er budd y cyhoedd dros gynnwys y pwerau CA/ TP a geisir mewn perthynas â'r Datblygiad Arfaethedig yn y DCO ac y bodlonir yr amodau a amlinellir yn a122(3) PA2008.

Gillian Stevenson

8.7.250. Mynegodd Gillian Stevenson bryderon ynglŷn â CA/ TP yn RR [RR-037]. Roedd y pryderon hyn yn ymwneud ag ymgysylltiad cyfyngedig a'r potensial i'r Datblygiad Arfaethedig sterileiddio'r tir ar gyfer datblygiad yn y dyfodol.

8.7.251. Mae'r Ymgeisydd yn ceisio pwerau CA dros y lleiniau a nodir yn Nhabl 4 yr adroddiad hwn. Fel yr amlinellir yn y BoR [REP7-025] a'r Cynlluniau Tir [CR3-003], ceisir caffael iswyneb yn barhaol mewn perthynas â lleiniau rhif 12-05 a 12-07. Ni cheisir caffael tir ar lefel yr wyneb yn barhaol.

8.7.252. Yn ogystal, nododd y dogfennau a grybwyllwyd uchod y ceisir caffael hawliau'n barhaol mewn perthynas â Llain Rhif 12-06.

8.7.253. Mae'r BoR [REP7-025] a'r Cynlluniau Tir [CR3-003] hefyd yn nodi'r rhifau lleiniau y ceisir caffael hawliau newydd drostynt, gyda'r dDCO yn Atodlen 8 (Tir y ceir caffael hawliau newydd ac ati ynddo). Mae'r atodlen hon yn nodi'r rhifau lleiniau perthnasol, yn ogystal â'r hawliau newydd a geisir mewn perthynas â'r rhifau lleiniau hynny. O ran yr AP hwn (Gillian Stevenson), byddai'r hawliau newydd hyn yn berthnasol i lain rhif 12-06 ar gyfer hawliau at ddibenion adeiladu, gosod, gweithredu, cynnal a chadw a datgomisiynu'r datblygiad awdurdodedig ac i osod cyfamod cyfyngol.

8.7.254. O ran TP, mae'r dDCO yn Atodlen 7 (Tir y ceir arfer TP drosto) yn nodi pa leiniau y mae TP yn berthnasol iddynt, y rheswm pam y ceisir TP mewn perthynas â phob rhif llain a'r rhif gwaith sy'n berthnasol i bob llain y ceisir TP drosto. O ran yr AP hwn (Gillian Stevenson), mae'r BoR a'r Cynlluniau Tir yn cadarnhau na cheisir TP.

Ymateb yr ExA

8.7.255. Ni wnaeth Gillian Stevenson unrhyw gyflwyniadau ychwanegol y tu hwnt i'r RR hwn yn ystod yr Archwiliad. Fodd bynnag, mae Atodlen Trafodaethau â Buddiannau Tir [REP9-015] yr Ymgeisydd yn amlinellu'n glir trafodaethau a chynnydd a wnaed o fis Mai 2022 hyd at ddiwedd yr Archwiliad ar 20 Medi 2023, lle y cadarnhawyd na ddaethpwyd i gytundeb ond "*...ei fod yn agored ac yn ymrwymedig o hyd i ddod i gytundeb gwirfoddol gyda'r tirfeddiannwr.*"

8.7.256. O'r dystiolaeth, a gyflwynwyd i'r Archwiliad, gan gynnwys y canlynol gan yr Ymgeisydd:

- Ymateb i RRau [REP1-042];
- Atodlen Trafodaethau â Buddiannau Tir [REP9-015],

mae'r ExA yn fodlon bod yr Ymgeisydd wedi caniatáu digon o amser ar gyfer trafodaethau.

8.7.257. Yn wir, yn seiliedig ar y dystiolaeth/ dogfennau a gyflwynwyd i'r Archwiliad, mae'r ExA o'r farn bod y pwerau CA/ TP a geisir, mewn perthynas â'r rhifau lleiniau a restrir, yn ofynnol ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig. Maen nhw naill ai'n ofynnol ar gyfer y gwaith penodol a nodir ar y Cynlluniau Gwaith neu'n angenrheidiol i hwyluso'r gwaith hwnnw neu'n atodol iddo. Yn yr un modd, mae'r gallu i gynnal a chadw a gweithredu'r datblygiad yn rhan annatod o'r Datblygiad Arfaethedig. Felly, mae'r ExA yn fodlon y bodlonir gofynion a122(2) PA2008.

8.7.258. O ran p'un a oes achos cymhellol er budd y cyhoedd, mae'r ExA o'r farn y byddai'r golled ganlyniadol mewn perthynas â'r AP hwn yn gyfyngedig ac yn cael ei gwrthbwysu'n amlwg gan y buddion cyhoeddus canlynol:

- bodloni angen trosfwaol y gellir ei ddangos am y datblygiad arfaethedig a fyddai'n helpu'r DU yn uniongyrchol i gyrraedd nodau Sero Net, gan gynnwys cyfnodau datgarboneiddio trosiannol a'r cyllidebau carbon cysylltiedig a fabwysiadwyd yng Nghymru a Lloegr; a'r
- achos economaidd-gymdeithasol aruthrol a wnaed gan yr Ymgeisydd y gellir ei ddangos yn rhanbarthol a ledled y DU, sy'n cynnig buddion cyhoeddus gwirioneddol sylweddol yn gysylltiedig â buddsoddiad uniongyrchol/ anuniongyrchol a chreu swyddi wedi hynny.

8.7.259. Fel y cyfryw, mae'r ExA o'r farn bod achos cymhellol er budd y cyhoedd dros gynnwys y pwerau CA/ TP a geisir mewn perthynas â'r Datblygiad Arfaethedig yn y DCO ac y bodlonir yr amodau a amlinellir yn a122(3) PA2008.

Philip Warrington a Vera Elaine Warrington

8.7.260. Mynegodd Philip a Vera Elaine Warrington bryderon unfath ynglŷn â CA/ TP yn eu RR [RR-068] (Philip Warrington) ac [RR-082] (Vera Elaine Warrington). Roedd y pryderon hyn yn ymwneud ag effaith y Datblygiad Arfaethedig ar y gallu i farchnata a gwerthu eu heiddo, ffermdy, adeiladau allan a buarth, gan gynnwys mewn perthynas ag unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol.

8.7.261. Mae'r Ymgeisydd yn ceisio pwerau CA dros y lleiniau a nodir yn Nhabl 4 yr adroddiad hwn. Fel yr amlinellir yn y BoR [REP7-025] a'r Cynlluniau Tir [CR3-003], ceisir caffael iswyneb yn barhaol mewn perthynas â lleiniau rhif 12-02, 12-07, 12-08 a 12-10. Ni cheisir caffael tir ar lefel yr wyneb yn barhaol.

8.7.262. Yn ogystal, nododd y dogfennau a grybwyllwyd uchod y ceisir caffael hawliau'n barhaol mewn perthynas â Llain Rhif 12-06.

- 8.7.263. Mae'r BoR [REP7-025] a'r Cynlluniau Tir [CR3-003] hefyd yn nodi'r rhifau lleiniau y ceisir caffael hawliau newydd drostynt, gyda'r dDCO yn Atodlen 8 (Tir y ceir caffael hawliau newydd ac ati ynddo). Mae'r atodlen hon yn nodi'r rhifau lleiniau perthnasol, yn ogystal â'r hawliau newydd a geisir mewn perthynas â'r rhifau lleiniau hynny. O ran yr AP hwn (Philip a Vera Elaine Warrington), byddai'r hawliau newydd hyn yn berthnasol i lain rhif 12-06 ar gyfer hawliau at ddibenion adeiladu, gosod, gweithredu, cynnal a chadw a datgomisiynu'r datblygiad awdurdodedig ac i osod cyfamod cyfyngol.
- 8.7.264. O ran TP, mae'r dDCO yn Atodlen 7 (Tir y ceir arfer TP drosto) yn nodi pa leiniau y mae TP yn berthnasol iddynt, y rheswm pam y ceisir TP mewn perthynas â phob rhif llain a'r rhif gwaith sy'n berthnasol i bob llain y ceisir TP drosto. O ran yr AP hwn (Philip a Vera Elaine Warrington), mae'r BoR a'r Cynlluniau Tir yn cadarnhau na cheisir TP.

Ymateb yr ExA

- 8.7.265. Nid oedd Philip na Vera Elaine Warrington wedi gwneud cyflwyniadau ychwanegol y tu hwnt i'w RR yn ystod yr Archwiliad. Fodd bynnag, cynghorodd yr Ymgeisydd yn ei 'Ymateb i RRau' [REP1-042] y byddai'n *"...parhau i gysylltu'n rhagweithiol â'r tirlfeddiannwr i asesu'r effaith y bydd y datblygiad yn ei chael ar y pryderon datganedig."* Mae Atodlen Trafodaethau â Buddiannau Tir [REP9-015] yr Ymgeisydd yn amlinellu'n glir trafodaethau a chynnydd a wnaed o fis Mai 2022 hyd at ddiwedd yr Archwiliad ar 20 Medi 2023, lle y cadarnhaodd na ddaethpwyd i gytundeb ond ei fod *"...yn agored ac yn ymrwymedig o hyd i ddod i gytundeb gwirfoddol gyda'r tirlfeddiannwr."*
- 8.7.266. O'r dystiolaeth, a gyflwynwyd i'r Archwiliad, gan gynnwys y canlynol gan yr Ymgeisydd:
- Ymateb i RRau [REP1-042];
 - Atodlen Trafodaethau â Buddiannau Tir [REP9-015],
- mae'r ExA yn fodlon bod yr Ymgeisydd wedi caniatáu digon o amser ar gyfer trafodaethau.
- 8.7.267. Yn wir, yn seiliedig ar y dystiolaeth/ dogfennau a gyflwynwyd i'r Archwiliad, mae'r ExA o'r farn bod y pwerau CA/ TP a geisir, gan gynnwys hawliau newydd, mewn perthynas â'r rhifau lleiniau a restrir, yn ofynnol ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig. Maen nhw naill ai'n ofynnol ar gyfer y gwaith penodol a nodir ar y Cynlluniau Gwaith neu'n angenrheidiol i hwyluso'r gwaith hwnnw neu'n atodol iddo. Yn yr un modd, mae'r gallu i gynnal a chadw a gweithredu'r datblygiad yn rhan annatod o'r Datblygiad Arfaethedig. Felly, mae'r ExA yn fodlon y bodlonir gofynion a122(2) PA2008.
- 8.7.268. O ran p'un a oes achos cymhellol er budd y cyhoedd, mae'r ExA o'r farn y byddai'r golled ganlyniadol mewn perthynas â'r AP hwn yn gyfyngedig ac yn cael ei gwrthbwysu'n amlwg gan y buddion cyhoeddus canlynol:

- bodloni angen trosfwaol y gellir ei ddangos am y datblygiad arfaethedig a fyddai'n helpu'r DU yn uniongyrchol i gyrraedd nodau Sero Net, gan gynnwys cyfnodau datgarboneiddio trosiannol a'r cyllidebau carbon cysylltiedig a fabwysiadwyd yng Nghymru a Lloegr; a'r
- achos economaidd-gymdeithasol aruthrol a wnaed gan yr Ymgeisydd y gellir ei ddangos yn rhanbarthol a ledled y DU, sy'n cynnig buddion cyhoeddus gwirioneddol sylweddol yn gysylltiedig â buddsoddiad uniongyrchol/ anuniongyrchol a chreu swyddi wedi hynny.

8.7.269. Fel y cyfryw, mae'r ExA o'r farn bod achos cymhellol er budd y cyhoedd dros gynnwys y pwerau CA/ TP a geisir mewn perthynas â'r Datblygiad Arfaethedig yn y DCO ac y bodlonir yr amodau a amlinellir yn a122(3) PA2008.

Carl Woods

8.7.270. Mynegodd Carl Woods bryderon ynglŷn â CA/ TP yn RR [RR-009]. Roedd y pryderon hyn yn ymwneud â'r ffaith bod y fynedfa dros dro arfaethedig yn hollti cae 1 erw yn Llain 7-02 yn dair rhan, oherwydd bod y fynedfa dros dro wedi'i gosod trwy ei ganol. Roedd yr RR o'r farn bod y fynedfa bresennol i'r cae, sydd wedi'i lleoli i'r gogledd o'r eiddo cyfagos, yn berffaith dda gan ei bod yn darparu "...trac fferm presennol yn syth i'r cae y tu ôl." Fel y cyfryw, mae'r RR yn dadlau na fyddai'r cae dan sylw yn ofynnol ar gyfer mynediad.

8.7.271. Mae'r Ymgeisydd yn ceisio pwerau CA dros y lleiniau a nodir yn Nhabl 4 yr adroddiad hwn. Fel yr amlinellir yn y BoR [REP7-025] a'r Cynlluniau Tir [CR3-003], ni cheisir caffael tir nac iswyneb yn barhaol mewn perthynas â'r AP hwn. At hynny, ni cheisir hawliau parhaol/ newydd mewn perthynas â'r AP hwn (Carl Woods).

8.7.272. O ran TP, mae'r dDCO yn Atodlen 7 (Tir y ceir arfer TP drosto) yn nodi pa leiniau y mae TP yn berthnasol iddynt, y rheswm pam y ceisir TP mewn perthynas â phob rhif llain a'r rhif gwaith sy'n berthnasol i bob llain y ceisir TP drosto. O ran yr AP hwn (Carl Woods), ceisir TP mewn perthynas â lleiniau rhif 7-02 a 7-02a, ac fel yr amlinellwyd gan yr Ymgeisydd yn Atodlen 7 y dDCO, ceisir TP mewn perthynas â'r lleiniau hyn ar gyfer "*Defnydd dros dro fel mynedfa adeiladu...*"

Ymateb yr ExA

8.7.273. Ni wnaeth Carl Woods unrhyw gyflwyniadau ychwanegol y tu hwnt i'r RR yn ystod yr Archwiliad. Fodd bynnag, yn ei 'Ymateb i RRau' [REP1-042], cynghorodd yr Ymgeisydd "*...fod y trac mynediad dan sylw yn ofynnol ar gyfer mynedfa adeiladu dros dro yn unig, a bydd y cae'n cael ei adfer ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau ar y rhan honno o'r biblinell.*" Yn ystod CAH1, gofynnodd yr ExA i'r Ymgeisydd esbonio pam mae'r fynedfa dros dro sy'n gysylltiedig â Llain Rhif 7-02 wedi'i lleoli yng nghanol cae, yn hytrach nag ar hyd terfyn gogleddol neu ddeheuol y cae hwnnw, a sut byddai TP o'r fath yn ddilys, yn gymesur, ac yn angenrheidiol. Wrth ymateb, esboniodd yr Ymgeisydd:

"Mae'r trac presennol i'r gogledd yn rhy fach ar gyfer faint o draffig adeiladu a fydd yn mynd ar hyd-ddo, yn enwedig o ystyried y coed hynod ar hyd 7-02b. O ran ei leoliad, o fewn y cae i'r de mae adeiladau domestig ar bob ochr, felly bydd y trac mynediad yn effeithio ar un tirfeddiannwr neu'r llall ni waeth ble y'i lleolir. Mae'n fynedfa eithaf hir, a bydd yn ffordd uniongyrchol a ddefnyddir ar gyfer darn arbennig o waith twnelu, felly bydd angen manau mynd heibio."

- 8.7.274. Er gwaethaf yr uchod, cytunodd yr Ymgeisydd i adolygu'r trac mynediad dros dro hwn a ph'un a ellid ei gulhau fel pwynt gweithredu yn codi o'r CAH. Yn dilyn yr adolygiad hwnnw, darparodd yr Ymgeisydd ymateb technegol llawn yn ei ddogfen 'Ymatebion i Bwyntiau Gweithredu o Wrandawiadau a gynhaliwyd yn ystod yr wythnos yn dechrau 5 Mehefin 2023' [REP4-265]. Dywedodd y darparwyd ar gyfer coridor llai yn y fersiynau wedi'u diweddarau o'r Cynlluniau Tir [CR2-004] (Fersiwn gyfredol [CR3-003]) a'r Cynlluniau Gwaith [CR2-005] (Fersiwn gyfredol [REP7-007]) ac y byddai'r rhain yn ffurfio rhan o CR3.
- 8.7.275. Yn ogystal â'r uchod, mae Atodlen Trafodaethau â Buddiannau Tir [REP9-015] yr Ymgeisydd yn amlinellu'n glir trafodaethau a chynnydd a wnaed o fis Mai 2022 hyd at ddiwedd yr Archwiliad ar 20 Medi 2023, lle y cadarnhawyd na ddaethpwyd i gytundeb ond ei fod *"...yn agored ac yn ymrwymedig o hyd i ddod i gytundeb gwirfoddol gyda'r tirfeddiannwr."*
- 8.7.276. O'r dystiolaeth, a gyflwynwyd i'r Archwiliad, gan gynnwys y canlynol gan yr Ymgeisydd:
- Ymateb i RRau [REP1-042];
 - 'Ymatebion i Bwyntiau Gweithredu o Wrandawiadau a gynhaliwyd yn ystod yr wythnos yn dechrau 5 Mehefin 2023' [REP4-265]; ac
 - Atodlen Trafodaethau â Buddiannau Tir [REP9-015],
- mae'r ExA yn fodlon bod yr Ymgeisydd wedi caniatáu digon o amser ar gyfer trafodaethau.
- 8.7.277. Yn wir, yn seiliedig ar y dystiolaeth/ dogfennau a gyflwynwyd i'r Archwiliad, mae'r ExA o'r farn bod y pwerau CA/ TP a geisir, mewn perthynas â'r rhifau lleiniau a restrir, yn ofynnol ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig. Maen nhw naill ai'n ofynnol ar gyfer y gwaith penodol a nodir ar y Cynlluniau Gwaith neu'n angenrheidiol i hwyluso'r gwaith hwnnw neu'n atodol iddo. Felly, mae'r ExA yn fodlon y bodlonir gofynion a122(2) PA2008.
- 8.7.278. O ran p'un a oes achos cymhellol er budd y cyhoedd, mae'r ExA o'r farn y byddai'r golled ganlyniadol mewn perthynas â'r AP hwn yn gyfyngedig ac yn cael ei gwrthbwysu'n amlwg gan y buddion cyhoeddus canlynol:
- bodloni angen trosfwaol y gellir ei ddangos am y datblygiad arfaethedig a fyddai'n helpu'r DU yn uniongyrchol i gyrraedd nodau Sero Net, gan gynnwys cyfnodau datgarboneiddio trosiannol a'r cyllidebau carbon cysylltiedig a fabwysiadwyd yng Nghymru a Lloegr; a'r

- achos economaidd-gymdeithasol aruthrol a wnaed gan yr Ymgeisydd y gellir ei ddangos yn rhanbarthol a ledled y DU, sy'n cynnig buddion cyhoeddus gwirioneddol sylweddol yn gysylltiedig â buddsoddiad uniongyrchol/ anuniongyrchol a chreu swyddi wedi hynny.

8.7.279. Fel y cyfryw, mae'r ExA o'r farn bod achos cymhellol er budd y cyhoedd dros gynnwys y pwerau CA/ TP a geisir mewn perthynas â'r Datblygiad Arfaethedig yn y DCO ac y bodlonir yr amodau a amlinellir yn a122(3) PA2008.

Ymgymrwyr statudol

Cadent Gas Limited

8.7.280. Mynegodd Cadent Gas Ltd (Cadent) bryderon ynglŷn â CA/ TP yn ei RR [RR-006], gan ddatgan mai ei brif gyfrifoldeb yw bodloni ei rwymedigaethau statudol a sicrhau nad oes unrhyw ddatblygiad yn effeithio ar y rhwymedigaethau statudol hynny mewn unrhyw ffordd niweidiol. Fel y cyfryw, cynghorodd y byddai'n ceisio amddiffyn ei sefyllfa o ystyried seilwaith o fewn neu'n agos i ffin arfaethedig y DCO.

8.7.281. Cynghorodd hefyd y dylai hawliau i gadw ei gyfarpar yn ei le a hawliau mynediad i archwilio, cynnal a chadw, adnewyddu, ac atgyweirio'r cyfryw gyfarpar sydd wedi'i leoli o fewn neu'n agos i Derfynau'r Gorchymyn gael eu cynnal bob amser a bod rhaid peidio â chyfyngu ar fynediad i archwilio'r cyfryw gyfarpar. Felly, cynghorodd Cadent y byddai angen i PP digonol gael eu cynnwys yn y DCO i sicrhau bod ei gyfarpar a'i fuddiannau tir yn cael eu hamddiffyn yn ddigonol ac i gydymffurfio â safonau diogelwch perthnasol.

8.7.282. Mae'r Ymgeisydd yn ceisio pwerau CA/ TP dros y lleiniau a nodir yn Nhabl 4 yr adroddiad hwn. Fel yr amlinellir yn y BoR [REP7-025] a'r Cynlluniau Tir [CR3-003], ceisir caffael tir yn barhaol mewn perthynas â lleiniau rhif 3-03, 6-09 a 9-15; ceisir caffael iswyneb yn barhaol mewn perthynas â lleiniau rhif 2-05, 2-08, 2-13, 3-13, 3-14, 3-15, 4-05, 6-22, 6-24, 6-25, 9-01, 9-03, 9-07, 9-09, 9-10, 9-12, 9-14, 9-14a, 9-18a, 9-18b, 9-19, 9-19a, 10-01, 10-04, 10-12 a 12-05.

8.7.283. Ceisir caffael hawliau'n barhaol hefyd mewn perthynas â Llain Rhif 2-04a. Yn ogystal, mae'r BoR [REP7-025] a'r Cynlluniau Tir [CR3-003] hefyd yn nodi'r rhifau lleiniau y ceisir caffael hawliau newydd drostynt, gyda'r dDCO yn Atodlen 8 (Tir y ceir caffael hawliau newydd ac ati ynddo). Mae'r atodlen hon yn nodi'r rhifau lleiniau perthnasol, yn ogystal â'r hawliau newydd a geisir mewn perthynas â'r rhifau lleiniau hynny. O ran Cadent, byddai'r hawliau newydd hyn yn berthnasol i'r canlynol:

- llain rhif 2-04a ar gyfer hawliau at ddibenion adeiladu, gosod, gweithredu, cynnal a chadw a datgomisiynu'r datblygiad awdurdodedig (Gwaith Rhif 5C) ac i osod cyfamod cyfyngol; a
- llain rhif 6-09 ar gyfer hawliau at ddibenion adeiladu, gosod, gweithredu, cynnal a chadw a datgomisiynu'r datblygiad awdurdodedig (Gwaith Rhif 14A) ac i osod cyfamod cyfyngol.

8.7.284. O ran TP, mae'r dDCO yn Atodlen 7 (Tir y ceir arfer TP drosto) yn nodi pa leiniau y mae TP yn berthnasol iddynt, y rheswm pam y ceisir TP mewn perthynas â phob rhif llain a'r rhif gwaith sy'n berthnasol i bob llain y ceisir TP drosto. O ran yr AP hwn (Cadent), y rhifau lleiniau hyn yw 2-04, 2-12, 3-01, 3-02, 4-01, 4-02, 6-20, 9-05, 9-06, 9-08, 9-13, 9-20, a 10-04a. Fel yr amlinellwyd gan yr Ymgeisydd yn Atodlen 7 y dDCO, mae'r rheswm dros geisio pob llain yn amrywio, fel y nodir isod:

- Defnydd dros dro fel ardal gwaith adeiladu ac ar gyfer mynediad i hwyluso adeiladu.
- Defnydd dros dro fel mynedfa adeiladu.
- Defnydd dros dro fel cyfadeilad adeiladu ac ardal weithio.
- Defnydd dros dro fel mynedfa adeiladu ac ardal weithio.
- Meddiant dros dro ar gyfer rheoli traffig.

Ymateb yr ExA

8.7.285. Mynnodd Cadent drwy gydol yr Archwiliad fod arno angen PP ([RR-006], [REP1-052], [REP3-040], [REP7-297] a [REP8-039]) a darparodd eiriad a ffeirir. Cyflwynwyd ei eiriad a ffeirir diwethaf ar gyfer PP erbyn DL8 (Atodiad 1 [REP8-039]). Fodd bynnag, mae'r geiriad hwn a ffeirir ar gyfer PP a gyflenwyd gan Cadent yn wahanol i'r geiriad a hyrwyddwyd gan yr Ymgeisydd yn y dDCO.

8.7.286. Yn wir, mae rhai gwahaniaethau eithaf sylweddol, gan fod fersiynau'r Ymgeisydd wedi dileu rhannau mawr o'r adran 'Dehongliadau' a dileu'r adran ar 'Indemniad' yn llwyr. Mae nifer o fân newidiadau eraill hefyd.

8.7.287. Drwy gydol yr archwiliad, gofynnodd yr ExA yn barhaus am ddiweddariadau ynglŷn â statws PP sy'n weddill, gan gynnwys ExQ1, ExQ2 ac ExQ3, yn ogystal ag yn ystod yr ISH yn ymwneud â'r dDCO a oedd yn bodoli ar adeg y Gwrandawriad Mater Penodol (ISH) hwnnw (ISH2) ([EV-020] i [EV-022] (dDCO Perthnasol [REP3-005])); ISH3 [EV-028] i [EV-030] (dDCO Perthnasol [CR3-008]) ac yn ei lythyr Rheol 17 dyddiedig 14 Medi 2023 [PD-028]. Yn ôl y diweddariad a ddarparwyd gan yr Ymgeisydd yn ISH3, fel yr amlinellir hefyd yng Nghrynodebau Ysgrifenedig yr Ymgeisydd o Gyflwyniadau Llafar a wnaed yn y Gwrandawriadau a gynhaliwyd yn ystod yr wythnos yn dechrau 7 Awst 2023 [REP7-292], ynglŷn â PP gyda Cadent, roeddent "...wedi'u cytuno i raddau helaeth, gydag un neu ddau bwynt masnachol yn destun trafodaeth o hyd, ond nid yw'r Ymgeisydd o'r farn na ellir datrys y rhain."

8.7.288. Adlewyrchwyd y safbwynt hwn hefyd yn nogfen 'Diweddariad yr Ymgeisydd ar Ddrafftio'r DCO' [REP7-294], a gyflwynwyd erbyn DL7 hefyd, lle y datganodd:

"Nid oes unrhyw bwyntiau trafod yn weddill rhwng yr Ymgeisydd a Cadent ynglŷn â thelerau'r PP. Fodd bynnag, mae cytundeb Cadent â'r PP yn amodol ar gytuno ar delerau cytundeb ochr preifat. Mae telerau'r cytundeb ochr wedi'u cytuno i raddau helaeth, gydag un pwynt yn weddill sy'n parhau i gael ei ystyried."

- 8.7.289. Er hynny, mynegodd Cadent yn glir yn ei gyflwyniad erbyn DL8 [REP8-039]:
- o ran y PP a gynhwysir yn y dDCO ([REP7-013] yr APV (y TCV) a [REP7-014] yr EPBV) a gyflwynwyd gan yr Hyrwyddwr erbyn DL7 *"...nid dyma'r PP a ffeffrir gan Cadent. Nid yw'r Hyrwyddwr wedi rhoi sylwadau ar PP Cadent i'r Archwiliad o hyd ac nid yw wedi cyfiawnhau unrhyw wriiad oddi wrth PP Cadent."*
 - *"Safbwynt Cadent yw hwnnw a fynegir yn y dystiolaeth sydd ger bron yr Archwiliad; mae Cadent yn gofyn i PP Cadent gael eu sicrhau yn y DCO."*
- 8.7.290. Cyhoeddodd yr ExA y llythyr Rheol 17 a grybwyllwyd uchod [PD-028], yn rhannol o ganlyniad i'r safbwyntiau croes a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd a Cadent ynglŷn â PP, i geisio diweddariadau ychwanegol ac eglurhad ynglŷn â PP. Ymatebodd yr Ymgeisydd erbyn DL9 [REP9-012] ynglŷn â PP o blaid Cadent, gan gynghori:
- "Mae'r cytundeb ochr wedi cael ei gytuno bellach ac yn cael ei ddosbarthu ar gyfer ei lofnodi, sy'n golygu bod y PP fel y'u cynhwyswyd yn niwygiadau K [REP8-005] ac L [REP8-007] y dDCO wedi'u cytuno bellach. Mae'r Ymgeisydd yn deall, ar ôl i'r cytundeb gael ei lofnodi, y bydd Cadent yn tynnu ei wrthwynebiad yn ôl yn uniongyrchol."*
- 8.7.291. Er hynny, nid oedd Cadent wedi tynnu ei safbwynt yn ôl ynglŷn â PP ar ddiwedd yr Archwiliad, fel yr awgrymwyd gan yr Ymgeisydd yn ei gyflwyniadau erbyn DL7 [REP7-292] a [REP7-294], a gofynnodd Cadent, yn ei gyflwyniad erbyn DL8 [REP8-039], i'r ExA sicrhau bod ei PP safonol yn cael eu sicrhau yn y DCO.
- 8.7.292. Mae'n ymddangos i'r ExA fod y sefyllfa rhwng yr Ymgeisydd a Cadent wedi newid rhwng cyflwyniad Cadent erbyn DL8 [REP8-039] ac ymateb yr Ymgeisydd i'r llythyr Rheol 17 a gyhoeddwyd gan yr ExA ar 14 Medi 2023 [REP9-012], gan fod yr Ymgeisydd yn cynghori bod cytundeb ochr *"...wedi cael ei gytuno a'i ddosbarthu ar gyfer ei lofnodi, sy'n dangos bod y PP, fel y'u cynhwyswyd yn y dDCO ar ôl DL8 ar ffurf gytunedig..."* (Fersiynau terfynol y dDCO yw [REP9-011] (yr APV (y TCV) a [REP8-007] (yr EPBV).
- 8.7.293. Ar ôl ystyried yr holl sylwadau a wnaed ynglŷn â CA/ TP, gan Cadent a'r Ymgeisydd, yn ogystal â'r manylion a amlinellir yn y Cynlluniau Tir [CR3-003] a'r BoR [REP7-025], mae'r ExA yn fodlon bod y pwerau CA/ TP a geisir dros y rhifau lleiniau a nodir uchod yn ofynnol i hwyluso'r Datblygiad Arfaethedig a/ neu'n atodol iddo. Felly, mae'n fodlon bod y pwerau a geisir yn bodloni'r amodau a amlinellir yn a122(2) PA2008.
- 8.7.294. Er y gallai arfer yr hawliau hyn amharu ar ymgymeriad Cadent, ar ôl ystyried 'Ymateb yr Ymgeisydd i'r Cais Rheol 17 am Wybodaeth' [REP9-012], mae'n ymddangos bod cytundeb ochr wedi cael ei lunio a bod y PP, fel y'u cynhwyswyd yn y dDCO ar ôl DL8, mewn fformat cytunedig. Yn ogystal, mae'r ExA o'r farn bod y PP fel y'u cynhwyswyd yn

y dDCO cyfredol yn darparu amddiffyniad priodol o ran cyfarpar ac ymgymeriad statudol Cadent.

8.7.295. Heb gadarnhad o'r uchod gan Cadent, mae'r ExA o'r farn bod yr angen am y Datblygiad Arfaethedig wedi'i amlygu'n glir yn y dNPSau sy'n dod i'r amlwg, sy'n bwysig ac yn berthnasol wrth ystyried y Datblygiad Arfaethedig hwn. At hynny, mae'r ExA o'r farn y byddai'r effaith ar yr AP hwn yn cael ei gwrthbwysu'n amlwg gan y buddion cyhoeddus a fyddai'n deillio o'r Datblygiad Arfaethedig, gan gynnwys:

- bodloni angen trosfwaol y gellir ei ddangos am y datblygiad arfaethedig a fyddai'n helpu'r DU yn uniongyrchol i gyrraedd nodau Sero Net, gan gynnwys cyfnodau datgarboneiddio trosiannol a'r cyllidebau carbon cysylltiedig a fabwysiadwyd yng Nghymru a Lloegr; a'r
- achos economaidd-gymdeithasol aruthrol a wnaed gan yr Ymgeisydd y gellir ei ddangos yn rhanbarthol a ledled y DU, sy'n cynnig buddion cyhoeddus gwirioneddol sylweddol yn gysylltiedig â buddsoddiad uniongyrchol/ anuniongyrchol a chreu swyddi wedi hynny.

8.7.296. At ei gilydd, yn amodol ar gynnwys PP yn y DCO ar y ffurf y nodwyd ei bod wedi'i chytuno'n derfynol ar ddiwedd yr Archwiliad (DL9), mae'r ExA o'r farn na fyddai'r pwerau CA/ TP a geisir mewn perthynas â'r rhifau lleiniau a grybwyllwyd uchod yn achosi niwed difrifol i gynnal ymgymeriad Cadent. At hynny, mae'r ExA yn fodlon y byddai'n angenrheidiol cynnwys pwerau mewn perthynas â diddymu hawliau at ddiben cynnal y datblygiad. Fel y cyfryw, mae'n ystyried y bodlonir y profion a amlinellir yn a127 ac a138 PA2008.

8.7.297. Mae'r ExA hefyd o'r farn bod y buddion cyhoeddus a fyddai'n deillio o'r Datblygiad Arfaethedig hwn yn drech nag unrhyw golled neu niwed a allai ddigwydd o ganlyniad i greu'r hawliau hyn yn orfodol. Yn unol â hynny, mae'n ystyried bod achos cymhellol er budd y cyhoedd dros gynnwys pwerau CA mewn perthynas â'r lleiniau a amlygwyd a bod y prawf a amlinellir yn a122(3) wedi'i fodloni hefyd.

Glandŵr Cymru

8.7.298. Mynegodd Glandŵr Cymru (CRT) wrthwynebiadau ynglŷn â CA/ TP yn ei RR [RR-008], gan ddatgan bod ganddo, fel SU, ddyletswyddau penodol i warchod dyrffyrdd ac felly dyletswydd i wrthwynebu defnyddio pwerau prynu gorfodol a allai gael effaith negyddol ar ei dir neu ei ymgymeriadau. Cynghorodd pe byddai unrhyw bwerau CA dros ei dir yn cael eu cadw yn y Gorchymyn, dylai'r cyfryw gaffaeliad fod gyda chydsyniad CRT yn unig.

8.7.299. Yn ogystal â'r uchod, mae CRT yn dadlau:

- nad oes achos cymhellol er budd y cyhoedd dros gaffael pwerau prynu gorfodol yn y modd a geisir gan yr Ymgeisydd. Mae'n nodi y bwriedir i bwerau o'r fath gael eu defnyddio fel dewis olaf ac mae'n ystyried nad yw'r Ymgeisydd wedi gwneud ymdrech resymol i gaffael y tir a'r hawliau y mae arno eu hangen gan CT yn wirfoddol; a

- bod y cyfiawnhad dros faint o dir CRT y ceisir ei gaffael ar gyfer un groesfan biblinell ar draws y gamlas yn ddadleuol, gan gynghori ei fod o'r farn y byddai caffael hawl dros ran gul o isbridd o leiaf 3.5m o dan lefel gwely'r gamlas yn ddigonol ar gyfer y biblinell.

- 8.7.300. Mynegodd CRT bryderon hefyd ynglŷn â nifer o Erthyglau yn y dDCO fel y'i cyflwynwyd yn wreiddiol [APP-024], gan gynnwys yr Erthyglau yn Rhan 5 (Pwerau Caffael), sef Erthyglau: 24 (Caffael Tir yn Orfodol), 31 (Caffael Isbridd), 34 (Defnydd Dros Dro o Dir), a 36 (Ymgwymerwyr Statudol). Nododd hefyd nad oedd y dDCO a gyflwynwyd yn wreiddiol [APP-024] yn cynnwys PP o'i blaid ac, fel ymgwymerwr statudol, ei fod yn ystyried y dylai gael PP o'r fath.
- 8.7.301. Mae'r Ymgeisydd yn ceisio pwerau CA dros y lleiniau a nodir yn Nhabl 4 yr adroddiad hwn. Fel yr amlinellir yn y BoR [REP7-025] a'r Cynlluniau Tir [CR3-003], ceisir caffael tir yn barhaol mewn perthynas â llain rhif 9-06; ceisir caffael iswyneb yn barhaol mewn perthynas â llain rhif 8-03. Mae'r dogfennau hyn hefyd yn nodi'r rhifau lleiniau y ceisir hawliau newydd drostynt, gyda'r dDCO yn Atodlen 8 (Tir y ceir caffael hawliau newydd ac ati ynddo). Fodd bynnag, ni restrir unrhyw hawliau newydd yn yr Atodlen hon mewn perthynas â'r rhifau lleiniau a grybwyllwyd uchod.
- 8.7.302. O ran TP, ni restrir TP dros dir sy'n gysylltiedig â CRT yn y dDCO yn Atodlen 7 (Tir y ceir arfer TP drosto), ac nid oes TP sy'n berthnasol i CRT wedi'i nodi yn y BoR [REP7-025] nac yn y Cynlluniau Tir [CR3-003] ychwaith.

Ymateb yr ExA

- 8.7.303. Parhaodd yr Ymgeisydd a'r CRT i ymgysylltu drwy gydol yr Archwiliad, er nad oedd y gwrthwynebiad gan CRT wedi cael ei dynnu'n ôl erbyn iddo orffen.
- 8.7.304. Mae'r SoCG a gwblhawyd gyda CRT [REP7-265] yn cytuno bod y partion wedi bod yn ymgysylltu ynglŷn â PP ac wedi dod i gytundeb ar yr holl faterion heblaw am y rhai hynny a oedd yn cyfyngu ar bwerau CA yr Ymgeisydd. Mae'r SoCG hwn yn cadarnhau bod yr Ymgeisydd a CRT yn parhau i ymgysylltu ynglŷn â'r cytundeb gwirfoddol i gaffael tir CRT ac yn cynghori, pan gyrhaeddir cytundeb, y bydd y pwynt sy'n weddill yn PP yn cael ei gytuno.
- 8.7.305. Yn wir, o ran PP, cadarnhaodd CRT erbyn DL6 [REP6-038] ei fod yn ystyried diwygiadau awgrymedig a sylwadau a bod nifer o faterion yn y PP wedi cael eu trafod a'u cytuno mewn cyfarfod rhwng y partion ym mis Gorffennaf 2023. Cynghorodd CRT ei fod yn bwriadu ymateb yn ffurfiol i'r Ymgeisydd ynglŷn â'r materion sy'n weddill a'i fod yn awyddus i weithio gydag ef i ddod i gytundeb arnynt.
- 8.7.306. Cadarnhaodd CRT y sefyllfa yn y SoCG wedi'i gwblhau [REP7-265] hefyd yn ei gyflwyniad erbyn DL8 [REP8-040], lle y datganodd "...yr unig fater sy'n weddill yn y PP... yw hwnnw ynglŷn â chyfyngu ar ddefnyddio pwerau caffael gorfodol. Mae [CRT] o'r farn y dylai hyn fod trwy hawliau tir gwirfoddol addas." Fodd bynnag, nododd CRT hefyd fod yr Ymgeisydd

yn cadarnhau bod y ffaith nad oes cytundeb gwirfoddol wedi cael ei gwblhau eto'n dangos pam oedd angen pwerau CA i gyflawni'r prosiect. Fel y cyfryw, mae CRT yn dadlau nad diffyg ymdrech ar ei ran ef oedd yn gyfrifol am y ffaith nad oedd cytundeb gwirfoddol ar waith a'i fod yn obeithiol o hyd y gellid dod i gytundeb o'r fath gyda'r Ymgeisydd.

- 8.7.307. Er hynny, mae'r SoCG a gwblhawyd gyda CRT [REP7-265] yn cadarnhau y bydd y pwynt sy'n weddill yn y PP yn cael ei gytuno yn amodol ar gytuno ar gytundeb tir gwirfoddol. Er gwaethaf hyn, ni roddwyd cadarnhad o gwblhau cytundeb o'r fath neu gytuno ar y PP i'r Archwiliad cyn iddo orffen, ac ni chafodd yr ExA unrhyw gadarnhad gan CRT ei fod wedi tynnu ei wrthwynebiad yn ôl ychwaith.
- 8.7.308. Yn 'Ymateb i lythyr Rheol 17 yr ExA' [REP9-012] yr Ymgeisydd, cadarnhaodd yr Ymgeisydd "Mae'r sefyllfa yr un fath â honno a amlinellwyd yn y diweddariad DL7 ar ddrafftio'r DCO [REP7-294], sef yr unig bwynt na chytunwyd arno yw cyfyngu ar bwerau CA." Fodd bynnag, cadarnhaodd hefyd yn yr un ymateb:
- "Mae'r partion yn parhau i drafod y cytundeb tir gwirfoddol, ond gan nad yw wedi'i gwblhau eto, ni all yr Ymgeisydd gytuno i ddileu'r cyfryw bwerau. Cytunwyd ar yr holl ddarpariaethau sy'n ofynnol i amddiffyn yr ymgymeriad, gan gynnwys yr angen am gymeradwyaeth dechnegol ar gyfer gwaith o dan y gamlas, ac felly mae'r Ymgeisydd yn honni bod y darpariaethau'n ddigonol i sicrhau na fydd niwed difrifol yn digwydd."*
- 8.7.309. Ar ôl ystyried yr holl sylwadau a wnaed ynglŷn â CA/ TP, gan CRT a'r Ymgeisydd, yn ogystal â'r manylion a amlinellir yn y Cynlluniau Tir [CR3-003] a'r BoR [REP7-025], mae'r ExA yn cytuno â safbwynt yr Ymgeisydd fel y'i hamlinellir uchod. At hynny, mae'r ExA yn fodlon bod y pwerau CA/ TP a geisir dros y rhifau lleiniau a nodir uchod yn ofynnol i hwyluso'r Datblygiad Arfaethedig a/ neu'n atodol iddo. Felly, mae'n fodlon bod y pwerau a geisir yn bodloni'r amodau a amlinellir yn a122(2) PA2008.
- 8.7.310. Er gwaethaf y casgliad hwn, mae'n amlwg i'r ExA fod y ddau barti wedi gwneud cynnydd sylweddol ynglŷn â'r cytundeb gwirfoddol a PP ac nid yw'r ExA yn gweld unrhyw reswm pam na fyddai'r Ymgeisydd a CRT wedi dod i gytundeb cyfeillgar mewn perthynas â PP trwy gwblhau'r cytundeb tir gwirfoddol sy'n weddill.
- 8.7.311. Ni waeth p'un a yw'r partion yn cytuno ar gytundeb gwirfoddol a PP, mae'n amlwg i'r ExA y gallai arfer hawliau CA amharu ar ymgymeriad CRT. Fodd bynnag, fel yr amlinellwyd uchod, mae'r ExA yn fodlon y byddai'r PP fel y'u drafftwyd ar hyn o bryd yn amddiffyn ymgymeriad CRT yn ddigonol, gan gynnwys yr angen i gytuno ar gymeradwyaeth dechnegol ar gyfer gwaith o dan y gamlas.
- 8.7.312. O ran buddion cyhoeddus, mae'r ExA o'r farn y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn darparu buddion cyhoeddus trwy'r canlynol:
- bodloni angen trosfwaol y gellir ei ddangos am y datblygiad arfaethedig a fyddai'n helpu'r DU yn uniongyrchol i gyrraedd nodau Sero Net, gan gynnwys cyfnodau datgarboneiddio trosiannol a'r

cyllidebau carbon cysylltiedig a fabwysiadwyd yng Nghymru a Lloegr;
a'r

- achos economaidd-gymdeithasol aruthrol a wnaed gan yr Ymgeisydd y gellir ei ddangos yn rhanbarthol a ledled y DU, sy'n cynnig buddion cyhoeddus gwirioneddol sylweddol yn gysylltiedig â buddsoddiad uniongyrchol/ anuniongyrchol a chreu swyddi wedi hynny.

8.7.313. I gloi, mae'r ExA o'r farn bod y PP a gynhwysir yn yr rDCO sydd ynghlwm yn Atodiad Ch yr adroddiad hwn yn rhoi amddiffyniad priodol i CRT o ran ei ymgymeriad statudol, ei dir ac unrhyw gyfarpar ac yn sicrhau na fyddai'r Datblygiad Arfaethedig yn achosi niwed difrifol i gynnal ymgymeriad CRT. At hynny, mae'r ExA yn fodlon y byddai'n angenrheidiol cynnwys pwerau mewn perthynas â diddymu hawliau at ddiben cynnal y datblygiad. Fel y cyfryw, mae'r ExA yn ystyried y bodlonir y profion a amlinellir yn a127 ac a138 PA2008.

8.7.314. Mae'r ExA hefyd o'r farn bod y buddion cyhoeddus a fyddai'n deillio o'r Datblygiad Arfaethedig hwn yn drech nag unrhyw golled neu niwed a allai ddigwydd o ganlyniad i greu'r hawliau hyn yn orfodol. Yn unol â hynny, mae'n ystyried bod achos cymhellol er budd y cyhoedd dros gynnwys pwerau CA mewn perthynas â'r lleiniau a amlygwyd a bod y prawf a amlinellir yn a122(3) wedi'i fodloni hefyd.

Asiantaeth yr Amgylchedd

8.7.315. Cododd Asiantaeth yr Amgylchedd bryderon ynghylch CA/TP yn ei RR [RR-024] gan gynghori "*Ar hyn o bryd, ni allwn gadarnhau nad oes unrhyw wrthwynebiad i gaffael unrhyw un o'n buddiannau tir.*" Dywedodd hefyd fod yr Ymgeisydd yn ymgynghori â'i... *dîm Gweithrediadau* [perthnasol] *er mwyn ... mynd i'r afael ag ymholiadau sy'n ymwneud â pherchnogaeth tir yr effeithir arno.*"

8.7.316. Mae'r Ymgeisydd yn ceisio pwerau CA/TP ar y lleiniau a nodwyd yn Nhabl 4 yr adroddiad hwn. Fel y nodir yn y BoR [REP7-025] a Chynlluniau Tir [CR3-003], ceisir caffael tir yn barhaol mewn perthynas â llain rhif 6-03; tra ceisir caffael is-wyneb yn barhaol mewn perthynas â lleiniau rhif 1-25, 2-01, 3-14, 3-15, 3-17, 4-07, 4-10, 4-13, 5-14, 5-16, 6-02, 6-10, 6-14, 6-17, 6-19, 6-23, 9-14a, 9-16, 9-16a, 9-16A, 9-16b, 9-17 a 12-10.

8.7.317. Yn ogystal, roedd y dogfennau uchod hefyd yn nodi y ceisir caffael hawliau yn barhaol mewn perthynas â lleiniau Rhif 1-01a, 1-04, 1-06, 1-21 a 6-07.

8.7.318. Mae'r BoR [REP7-025] a'r Cynlluniau Tir [CR3-003] hefyd yn nodi'r rhifau lleiniau, lle ceisir hawliau newydd, gyda'r dDCO yn Atodlen 8 (Tir lle gellir caffael hawliau newydd ac ati). Mae'r atodlen hon yn nodi'r rhifau lleiniau perthnasol, yn ogystal â'r hawliau newydd a geisir mewn perthynas â'r rhifau lleiniau hynny. O ran Asiantaeth yr Amgylchedd byddai'r hawliau newydd hyn yn berthnasol i leiniau rhif 1-01a, 1-04, 1-06, 1-07, 1-21 a 6-07 ar gyfer hawliau at ddibenion adeiladu, gosod, gweithredu, cynnal a chadw a datgomisiynu'r datblygiad awdurdodedig ac i osod cyfamodau cyfyngol.

8.7.319. O ran TP, mae'r dDCO yn Atodlen 7 (Tir y gellir cymryd TP arno) yn pennu i ba leiniau y mae TP yn berthnasol, at ba ddiben y ceisir TP mewn perthynas â phob rhif llain a'r rhif gwaith sy'n berthnasol i bob llain lle ceisir TP. O ran yr AP hwn (Asiantaeth yr Amgylchedd) y rhifau llain hyn yw 5-24, 5-25, 5-26 a 6-11. Fel y nodir gan yr Ymgeisydd yn Atodlen 7 o'r dDCO, pennir mai diben pob llain yw defnydd dros dro ar gyfer mynediad a storio mawn.

Ymateb yr ExA

- 8.7.320. Parhaodd Asiantaeth yr Amgylchedd i gymryd rhan drwy gydol yr Archwiliad, gan wneud cyflwyniadau yn DL1, DL3 a phob DL dilynol tan DL8 pan wnaeth ei chyflwyniadau terfynol. Darparodd hefyd RR i CR1 a chymerodd ran yn y ddau CAH (CAH1 a CAH2).
- 8.7.321. O ran CA/TP mae'r SoCG a gwblhawyd gan yr Ymgeisydd gydag Asiantaeth yr Amgylchedd [REP9-004] yn egluro bod yr Asiantaeth honno wedi parhau i ymgysylltu â'r Ymgeisydd trwy gydol yr Archwiliad, gyda'r bwriad o gyd-drafod ei buddiannau tir a cheisio eglurhad (yn bennaf mewn perthynas â Gwaith Rhif 57F sy'n cael ei ddiogelu gan yr Ymgeisydd am fesurau lliniaru ychwanegol). Cadarnhaodd y SoCG hwn hefyd y cytunwyd ar y canlynol:
- Yr egwyddor ar 5 Awst 2022 i ddefnyddio technoleg croesi di-ffos i adeiladu'r biblinell o dan afon Gowy; a
 - Bod PP wedi'u cytuno rhwng y ddau barti ar 5 Medi 2023.
- 8.7.322. Mae'n ymddangos i'r ExA fod cyd-drafodaethau o ran CA/TP rhwng yr Ymgeisydd ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn datblygu, gyda'r Ymgeisydd wedi darparu "*Penawdau'r Telerau ar gyfer gwely sianel Gowy, a oedd yn cyd-fynd â 'Chytundeb Opsiynau a Phrydles ar gyfer tir lliniaru amgylcheddol yn ymwneud â'r...*" Datblygiad Arfaethedig. (SoCG [REP9-004] Tabl 2-1 Cofnod o Ymgysylltu mewn perthynas â Datblygiad Arfaethedig y DCO (4 Medi 2023)).
- 8.7.323. Er bod y materion CA/TP hyn yn parhau heb eu datrys, a hynny'n rhannol oherwydd y gwaith lliniaru yng Ngwaith Rhif 57F lle ceisiodd Asiantaeth yr Amgylchedd eglurhad pellach, nododd yr ExA fod y SoCG yn Nhabl 2-1 yn darparu diweddariad dyddiedig 8 Medi 2023. Cadarnhaodd y diweddariad fod e-bost yr Ymgeisydd dyddiedig 8 Medi 2023 yn rhoi i Asiantaeth yr Amgylchedd rai ymatebion i Benawdau'r Telerau/materion Gwaith Rhif 57F a godwyd, yn enwedig mewn perthynas â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD) a chamau lliniaru a gwelliannau ecolegol. Dywedodd yr Ymgeisydd ei fod wedi rhannu:
- Na fydd y camau lliniaru/gwelliannau arfaethedig o fewn gorlifdir afon Gowy yn effeithio ar wely, glannau nac argloddiau'r sianel.
 - Na fydd y camau lliniaru/gwelliannau arfaethedig yn peryglu cyflawni mesurau lliniaru WFD Afon Gowy.
 - Adeg y dylunio manwl, bydd ymgysylltu pellach ag Asiantaeth yr Amgylchedd yn digwydd i sicrhau uniondeb yr argloddiau, y sianel, a'r mynediad cynnal a chadw ac ar gyfer cyflawni mesurau lliniaru WFD posibl Afon Gowy yn y dyfodol.

- Bydd rhyw 8m o glustogfa'n cael ei chynnal, i'w chadarnhau gydag Asiantaeth yr Amgylchedd yn ystod y dylunio manwl.
- 8.7.324. Rhoddodd yr Ymgeisydd eglurhad pellach mewn perthynas â Gwaith Rhif 57F yn ei '... Ymateb i Drydydd Cwestiynau Ysgrifenedig yr ExA [REP8-036]'. Fodd bynnag, ni chafodd yr ExA gadarnhad bod y partion hyn wedi dod i gytundeb ar y materion CA/TP hyn cyn cau'r Archwiliad, ond nodwyd bod y SoCG a gwblhawyd gan yr Ymgeisydd gydag Asiantaeth yr Amgylchedd [REP9-004] yn cytuno bod PP o blaid Asiantaeth yr Amgylchedd wedi'i gyrraedd ar 5 Medi 2023.
- 8.7.325. Ni waeth beth yw'r uchod, ni thynnodd Asiantaeth yr Amgylchedd ei gwrthwynebiad yn ôl o ran CA/TP cyn cau'r Archwiliad.
- 8.7.326. Ar ôl ystyried yr holl sylwadau a wnaed mewn perthynas â CA/TP, gan Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Ymgeisydd, yn ogystal â'r manylion a nodir yn y Cynlluniau Tir [CR3-003] a'r BoR [REP7-025], mae'r ExA yn fodlon bod y pwerau CA/TP a geisir dros y rhifau lleiniau a nodir uchod yn ofynnol i hwyluso a/neu'n anorfod i'r Datblygiad Arfaethedig a bod PP digonol ar waith i ddiogelu buddiannau'r Asiantaeth yn hyn o beth. Felly, mae'n fodlon bod y pwerau a geisir yn bodloni'r amodau a nodir yn a122(2) Deddf Cynllunio 2008.
- 8.7.327. O ran buddion cyhoeddus, mae'r ExA o'r farn y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn darparu buddion cyhoeddus drwy:
- ddiwallu angen cyffredinol amlwg am y datblygiad arfaethedig a fyddai'n cynorthwyo'r DU yn uniongyrchol i gyrraedd nodau Sero Net, gan gynnwys cyfnodau datgarboneiddio trosiannol a'r cyllidebau carbon cysylltiedig a fabwysiadwyd yng Nghymru a Lloegr; a'r
 - achos economaidd-gymdeithasol amlwg a diwrthdro yn rhanbarthol a ledled y DU a wnaed gan yr Ymgeisydd, gan gynnig buddion diriaethol sylweddol i'r cyhoedd sy'n gysylltiedig â buddsoddiad uniongyrchol/anuniongyrchol a chreu swyddi dilynol.
- 8.7.328. Fel y nodwyd uchod, parhaodd trafodaethau rhwng Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Ymgeisydd mewn perthynas â materion CA/TP trwy gydol yr Archwiliad a diweddarwyd yr ExA ar gynnydd. Fodd bynnag, roedd y '*Cytundeb opsiynau a'r Brydles ar gyfer tir lliniaru amgylcheddol*' heb eu cadarnhau ar ddiwedd yr Archwiliad. Heb ystyried hyn, roedd yn amlwg i'r ExA fod Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Ymgeisydd wedi mynd ymhell yn y trafodaethau mewn perthynas â'r materion hyn a bod yr ExA o'r farn bod y partion hyn yn gallu dod i benderfyniad, yn enwedig yng ngoleuni'r ffaith eu bod wedi cytuno ar PP.
- 8.7.329. Fel y cyfryw, mae'r ExA o'r farn fod achosion y partion wedi'u nodi'n ddigon da iddo allu llunio barn am y materion hyn heb eu penderfynu sy'n ymwneud â CA/TP, fel yr amlygwyd uchod ac yng nghyflwyniadau'r partion. Ystyria fod modd datrys y materion hyn drwy gwblhau cytundeb opsiynau a rhoi Prydles ar gyfer tir lliniaru amgylcheddol. Bydd y cytundeb opsiynau a'r brydles, o'u cyfuno â'r PP y cytunwyd arno, ym marn yr ExA, yn mynd i'r afael yn ddigonol â gweddill y materion sy'n destun anghydfod.

- 8.7.330. Ar y cyfan, dylai'r cytundeb ochr a'r brydles ar ôl eu cadarnhau, ynghyd â'r PP y cytunwyd arno, ddarparu'r hyder angenrheidiol i sicrhau y defnyddir y pwerau CA/TP mewn modd sy'n briodol i'r rhai sy'n ofynnol i gyflawni'r datblygiad, heb arwain at niwed i dir, cyfarpar ac ymgymeriad statudol Asiantaeth yr Amgylchedd.
- 8.7.331. I gloi, mae'r ExA o'r farn fod y PP sy'n cael ei gynnwys yn yr rDCO sydd ynghlwm yn Atodiad D yr adroddiad hwn yn rhoi lefel briodol o ddiogelwch i'r Asiantaeth o ran ei hymgymeriad statudol, tir ac unrhyw gyfarpar ac yn sicrhau na fyddai'r Datblygiad Arfaethedig yn arwain at niwed difrifol i barhad ymgymeriad yr Asiantaeth. At hynny, mae'r ExA hefyd yn fodlon y byddai cynnwys pwerau mewn perthynas â dileu hawliau yn angenrheidiol at ddibenion cyflawni'r datblygiad. Fel y cyfryw, ystyria'r ExA fod y profion a nodir yn a127 ac a138 Deddf Cynllunio 2008 yn cael eu bodloni.
- 8.7.332. Cred yr ExA hefyd fod y buddion cyhoeddus a fyddai'n deillio o'r Datblygiad arfaethedig hwn yn gorbwyso unrhyw golled neu niwed a allai ddeillio o greu'r hawliau hyn yn orfodol. Yn unol â hynny, cred fod achos cymhellol er budd y cyhoedd o blaid cynnwys pwerau CA mewn perthynas â'r lleiniau a nodwyd a bod y prawf a nodir yn a122(3) hefyd yn cael ei fodloni.

Exolum Pipeline Systems Limited

- 8.7.333. Cyflwynodd Exolum Pipeline Systems Limited (Exolum) gopi o'i ymateb i'r ymgynghoriad dan a42 Deddf Cynllunio 2008 fel ei RR [RR-033]. Er nad oedd yr RR hwnnw yn codi gwrthwynebiad penodol i CA/TP, cododd bryder ynghylch agosrwydd y Datblygiad Arfaethedig i'w gyfarpar gan gynghori y byddai angen ei gydsyniad ar gyfer gwaith o'r fath. Mae'r RR hwn hefyd yn cynghori *"... yn yr achos hwn, ni fyddai caniatâd yn cael ei roi gan y byddai'r datblygiad arfaethedig yn cyfyngu ar fynediad i'r biblinell, a hynny ar gyfer cynnal a chadw arferol ac mewn argyfwng."*
- 8.7.334. Yn ogystal, roedd cyflwyniad DL8 Exolum [REP8-050], a roddodd ddiweddariad mewn perthynas â PP, yn nodi'n glir fod yr unig faes pryder sy'n weddill yn ymwneud â geiriad y PP ym mharagraff 3.1 o ran *"... atal caffael eiddo a buddiannau Exolum mewn tir."* Felly, mae'r ExA yn ystyried bod Exolum yn gwrthwynebu CA/TP mewn perthynas â'r Datblygiad Arfaethedig.
- 8.7.335. Mae'r Ymgeisydd yn ceisio pwerau CA/TP ar y lleiniau a nodwyd yn Nhabl 4 yr adroddiad hwn. Fel y nodir yn y BoR [REP7-025] a'r Cynlluniau Tir [CR3-003] mae caffael parhaol is-wyneb yn cael ei geisio mewn perthynas â lleiniau rhif 6-28, 7-07, 7-08, 7-09, 8-01; tra ceisir caffael hawliau yn barhaol mewn perthynas â llain rhif 6-27.
- 8.7.336. Yn ogystal, mae'r dogfennau hyn hefyd yn nodi'r rhifau lleiniau lle ceisir hawliau newydd, gyda'r dDCO yn Atodlen 8 (Tir lle gellir caffael hawliau newydd ac ati). Mae'r atodlen hon yn nodi'r rhifau lleiniau perthnasol, yn ogystal â'r hawliau newydd a geisir mewn perthynas â'r rhifau lleiniau hynny. O ran Exolum byddai'r hawliau newydd hyn yn berthnasol i lain rhif 6-27 ar gyfer hawliau at ddibenion adeiladu, gosod, gweithredu,

cynnal a chadw a datgomisiynu'r datblygiad awdurdodedig, ynghyd â'r hawl i osod cyfamod cyfyngol.

8.7.337. O ran TP, mae'r dDCO yn Atodlen 7 (Tir y ceir cymryd TP arno) yn pennu i ba leiniau y mae TP yn berthnasol, at ba ddiben y ceisir TP mewn perthynas â phob rhif llain a'r rhif gwaith sy'n berthnasol i bob llain lle ceisir TP. O ran yr AP hwn (Exolum) y rhifau lleiniau hyn yw 7-10, 8-02 ac 8-09. Fel y nodir gan yr Ymgeisydd yn Atodlen 7 o'r dDCO, mae'r pwrpas y ceisir pob llain ato yn amrywio, fel y nodir isod:

- Defnydd dros dro fel ardal weithio.
- Defnydd dros dro fel ardal waith adeiladu ac ar gyfer mynediad.
- Defnydd dros dro fel mynedfa, clos ac ardal weithio adeiladu.

Ymateb yr ExA

8.7.338. Dywedodd yr Ymgeisydd, yn ei gyflwyniad DL7 'Diweddariad yr Ymgeisydd ar Ddrafftio'r DCO' [REP7-294] fod trafodaethau ar PP gydag Exolum yn parhau, ond bod rhai rhannau o'r PP a geisir yn destun anghytuno o hyd. Roedd y meysydd anghytundeb hyn yn ymwneud â phwerau gorfodol, y diffiniad o weithred cydsynio, hawliau mynediad a'r amserlen i gymeradwyo cynlluniau.

8.7.339. Dywedodd Exolum yn ei gyflwyniad DL8 [REP8-050] fod PP wedi'u cytuno heblaw'r geiriad sy'n atal caffael eiddo Exolum a'i fuddiannau mewn tir, fel y nodir yn y PP a ffefrir gan Exolum a gyflwynwyd hefyd yn DL8 [REP8-051]. Nododd nad yw'r Ymgeisydd wedi cytuno i gynnwys ei eiriad, ond nododd fod geiriad cyfatebol yn ymddangos mewn PP eraill o fewn y dDCO a gyflwynwyd yn DL7 [REP7-014], gan ddyfynnu Rhan 3 paragraff 20, Rhan 4 paragraff 36, a Rhan 5 paragraff 52. O'r herwydd, dywedodd ei fod yn gobeithio y byddai'r Ymgeisydd yn cytuno i gynnwys y geiriad hwn a dywedodd y byddai'n parhau i ymgysylltu â'r Ymgeisydd i gytuno ar y PP.

8.7.340. Mae'r Ymgeisydd yn ei gyflwyniad DL7 [REP7-294], y soniwyd amdano uchod hefyd, yn nodi'r rhesymau pam nad yw'n gallu ildio mewn perthynas â'r mater hwn. O ran pwerau Gorfodol dywedodd:

"Ni all yr Ymgeisydd gytuno i unrhyw derfynau i'r pwerau gorfodol drwy fynnu caniatâd Exolum i arfer y pwerau gorfodol hynny yn absenoldeb cytundeb hawliau tir gwirfoddol addas. Mae'r ffaith nad oes cytundeb gwirfoddol wedi'i gwblhau eto yn dangos pam mae angen y pwerau hyn i sicrhau bod yr NSIP yn cael ei gyflawni."

8.7.341. Roedd llythyr Rheol 17 yr ExA [PD-028], yn gofyn am ragor o wybodaeth am eithrio geiriad dewisol Exolum ac yn 'Ymateb yr Ymgeisydd i'r Cais Rheol 17 am Wybodaeth' [REP9-012] roedd yn gwrthwynebu 'codi' geiriad o PP eraill a dywedodd ei fod o'r farn y byddai eu cymhwyso yn yr achos hwn yn methu ag ystyried y gwahanol ffeithiau ac amgylchiadau sydd ar waith yn yr achos hwn. Fodd bynnag, yn Atodiad 1 o'r ddogfen honno darparwyd geiriad PP diwygiedig ac yn Atodiad 8 o'r un ddogfen darparwyd copi o e-bost a gyflwynwyd ar ran Exolum, gan Veale

Wasbrough Vizards LLP, dyddiedig 20 Medi 2023. Roedd yr e-bost hwnnw'n cadarnhau bod y PP, fel y'i diwygiwyd wedi'i gytuno.

- 8.7.342. Heb ystyried yr uchod, ni chafwyd unrhyw gadarnhad bod Exolum yn dileu ei wrthwynebiadau i CA/TP na'r PP i'r Archwiliad cyn ei gau.
- 8.7.343. Ar ôl ystyried yr holl sylwadau a wnaed mewn perthynas â CA/TP, gan Exolum a'r Ymgeisydd, yn ogystal â'r manylion a nodir yn y Cynlluniau Tir [CR3-003] a'r BoR [REP7-025], mae'r ExA yn fodlon bod y pwerau CA/TP a geisir dros y rhifau lleiniau a nodwyd uchod yn ofynnol i hwyluso a/neu'n anorfod i'r Datblygiad Arfaethedig. Felly, mae'n fodlon bod y pwerau a geisir yn bodloni'r amodau a nodir yn a122(2) Deddf Cynllunio 2008.
- 8.7.344. Er ei bod yn bosibl y gallai arfer yr hawliau hyn ymyrryd ag ymgymeriad Exolum, mae'n debyg i'r ExA fod y PP rhwng Exolum a'r Ymgeisydd fel pe bai wedi'i gytuno o'r diwedd. Ar ôl ystyried y PP a gyflwynwyd yn DL9, fel y'i cynhwysir yn atodiadau 'Ymateb yr Ymgeisydd i'r Cais am Wybodaeth Rheol 17' [REP9-012], mae'r ExA o'r farn bod y rhain yn darparu lefel fwy priodol o ddiogelwch o ran ei dir, ei gyfarpar a'i ymgymeriad statudol.
- 8.7.345. Wrth gyrraedd y man hwn, caiff yr ExA ei berswadio'n arbennig gan yr e-bost a gynhwysir yn Atodiad 8 o 'Ymateb yr Ymgeisydd i'r Cais am Wybodaeth Rheol 17' [REP9-012].
- 8.7.346. O ran buddion cyhoeddus, mae'r ExA o'r farn y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn darparu buddion cyhoeddus drwy:
- ddiwallu angen cyffredinol amlwg am y datblygiad arfaethedig a fyddai'n cynorthwyo'r DU yn uniongyrchol i gyrraedd nodau Sero Net, gan gynnwys cyfnodau datgarboneiddio trosiannol a'r cyllidebau carbon cysylltiedig a fabwysiadwyd yng Nghymru a Lloegr; a'r
 - achos economaidd-gymdeithasol amlwg a diwrthdro yn rhanbarthol a ledled y DU a wnaed gan yr Ymgeisydd, gan gynnig buddion diriaethol sylweddol i'r cyhoedd sy'n gysylltiedig â buddsoddiad uniongyrchol/anuniongyrchol a chreu swyddi dilynol.
- 8.7.347. Rhwng pob dim, yn amodol ar gynnwys PP yn y DCO ar y ffurf y nodwyd y cytunwyd arni o'r diwedd ar ddiwedd yr Archwiliad (DL9), mae'r ExA yn ystyried na fyddai'r pwerau CA/TP a geisir mewn perthynas â'r rhifau lleiniau a grybwyllir uchod yn arwain at niwed difrifol i barhau ymgymeriad Exolum. Ar ben hynny, mae hefyd yn fodlon y byddai cynnwys pwerau mewn perthynas â dileu hawliau yn angenrheidiol er mwyn cyflawni'r datblygiad. Fel y cyfryw, mae'r ExA yn ystyried bod y profion a nodir yn a127 ac a138 Deddf Cynllunio 2008 yn cael eu bodloni.
- 8.7.348. Cred yr ExA hefyd fod y buddion cyhoeddus a fyddai'n deillio o'r Datblygiad arfaethedig hwn yn gorbwyso unrhyw golled neu niwed a allai ddeillio o greu'r hawliau hyn yn orfodol. Yn unol â hynny, mae'n ystyried bod achos cymhellol er budd y cyhoedd o blaid cynnwys pwerau CA mewn perthynas â'r lleiniau a nodwyd a bod y prawf a nodir yn a122(3) hefyd yn cael ei fodloni.

Network Rail (Cymru a Lloegr)

- 8.7.349. Cododd NR wrthwynebiadau ynghylch CA/TP yn ei RR [RR-026] a WR [REP1-072] gan gynghori ei fod yn SU a chanddo rwymedigaethau statudol a rheoleiddiol mewn perthynas â chynnal, gweithredu, diogelu a gwella seilwaith rheilffyrdd y wlad. Cadarnhaodd nad oedd yn gwrthwynebu'r Datblygiad Arfaethedig mewn egwyddor, ond ei fod yn gwrthwynebu pwerau a gynhwysir yn y DCO, sef yn benodol Erthyglau 19, 21, 22, 24, 26, 27, 28, 29, 31, 33, 34, 35 a 39, a fyddai'n awdurdodi'r Ymgeisydd i CA ar dir, hawliau mewn tir neu dros dir, neu TP ar dir y mae'n dibynnu arno i gyflawni ei ymgymeriad statudol.
- 8.7.350. Yn ychwanegol at yr uchod cynghorodd NR ei fod hefyd yn gwrthwynebu PP arfaethedig yr Ymgeisydd, gan nodi eu bod wedi'u diwygio o'i PP safonol. Nid oedd yn ystyried y gallai gytuno i'r diwygiadau yr oedd yr Ymgeisydd wedi'u cynnwys.
- 8.7.351. Dywedodd NR ei fod yn disgwyl i'r hawliau isbridd angenrheidiol neu hawliau eraill gael eu caffael trwy hawddfrait y cytunwyd arni, yn hytrach na thrwy arfer pwerau CA ac anogodd drafodaethau ynghylch penawdau'r telerau ar gytundeb opsiynau, yn ogystal â chytuno ar PP. Hefyd, roedd NR o'r farn y byddai Cytundeb Fframwaith a Chytundeb Diogelu Asedau yn ofynnol i reoli'r rhyngwyneb uniongyrchol sydd gan y DCO gyda'r rheilffordd weithredol (Cytundeb Fframwaith); ac i sicrhau bod y gofynion technegol, peirianeg a diogelwch priodol ac angenrheidiol ar gyfer gweithio ar neu ger rheilffordd weithredol Network Rail yn cael eu cymhwyso i'r Cynllun DCO (Cytundeb Diogelu Asedau).
- 8.7.352. Mae'r Ymgeisydd yn ceisio pwerau CA/TP ar y lleiniau a nodwyd yn Nhabl 4 yr adroddiad hwn. Fel y nodir yn y BoR [REP7-025] a'r Cynlluniau Tir [CR3-003] ceisir caffael is-wyneb yn barhaol mewn perthynas â lleiniau rhif 1-23, 9-21, 14-29, 17-12 a 19-04; tra ceisir caffael hawliau yn barhaol mewn perthynas â llain rhif 1-06B a cheisir defnydd dros dro o hawliau mewn perthynas â lleiniau Rhif 9-24 a 9-25. Yn ogystal, mae'r dogfennau hyn hefyd yn nodi'r rhifau lleiniau lle ceisir hawliau newydd, gyda'r dDCO yn Atodlen 8 (Tir lle gellir caffael hawliau newydd ac ati). Mae'r atodlen hon yn nodi'r rhifau lleiniau perthnasol, yn ogystal â'r hawliau newydd a geisir mewn perthynas â'r rhifau lleiniau hynny. O ran NR byddai'r hawliau newydd hyn yn berthnasol i lain rhif 1-06b ar gyfer hawliau at ddibenion adeiladu, gosod, gweithredu, cynnal a chadw a datgomisiynu'r datblygiad awdurdodedig (Gwaith Rhif 3B), ynghyd â'r hawl i osod cyfamod cyfyngol.
- 8.7.353. O ran TP, mae'r dDCO yn Atodlen 7 (Tir y gellir cymryd TP arno) yn pennu i ba leiniau y mae TP yn berthnasol, at ba ddiben y ceisir TP mewn perthynas â rhif llain a'r rhif gwaith sy'n berthnasol i bob llain lle ceisir TP. O ran yr AP hwn (NR) y rhifau lleiniau hyn yw 9-23, 14-24 a 19-04c. Fel y nodir gan yr Ymgeisydd yn Atodlen 7 o'r dDCO, mae'r pwrpas y ceisir pob llain ato yn amrywio, fel y nodir isod:
- Defnydd dros dro fel mynedfa adeiladu.
 - Defnydd dros dro fel mynedfa adeiladu ac ardal waith.
 - Defnydd dros dro fel ardal weithio.

Ymateb yr ExA

- 8.7.354. Mae'r Ymgeisydd yn cadarnhau yn y SoCG a gwblhawyd gyda NR [REP8-026] fod *"Cyfres o PP drafft wedi'i chylchredeg gan NR ac yn dilyn trafodaethau rhwng NR a'r Ymgeisydd cadarnhawyd ar 30 Awst 2023 fod y PP bellach wedi'u cytuno rhwng y partion."* Fodd bynnag, mae'r SoCG hefyd yn nodi y *"Bydd NR yn gofyn bod yr Ymgeisydd yn atodi'r PP y cytunwyd arnynt wrth y Cytundeb Fframwaith"* ac, mewn perthynas ag Erthyglau dDCO sydd wedi'u nodi'n rhai 'dan drafodaeth' yn y SoCG gorffenedig, mae'n nodi bod *"... NR yn cynnal ei wrthwynebiad"* a *"... dim ond ar ôl cwblhau'r Cytundeb Fframwaith gyda'r PP atodedig y bydd NR yn tynnu ei wrthwynebiad yn ôl."*
- 8.7.435. Mewn perthynas â CA tir SU, mae'r ExA yn fodlon o'r dystiolaeth a gyflwynwyd fod y tir dan sylw wedi'i gaffael gan SU at ddibenion ei ymgymeriad. Ar ben hynny, mae'r ExA yn ymwybodol o'r dystiolaeth sylweddol a ddarparwyd gan y ddau barti mewn perthynas â niwed difrifol i barhau ymgymeriad NH. Fodd bynnag, nid yw'r ExA wrth ystyried yr holl dystiolaeth sy'n rhan o'r Archwiliad yn cael ei berswadio y bydd niwed difrifol ar draul parhau ymgymeriad NH yn digwydd.
- 8.7.436. Yn wir, wrth gyrraedd y safbwynt hwn, mae'r ExA yn canfod bod tystiolaeth yr Ymgeisydd na fyddai niwed difrifol yn digwydd yn rhesymol ac yn ddarbwyllol, yn enwedig y canlynol:
- Barn y KC, a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd, "Ym mater cais am DCO mewn perthynas â phrosiect Piblinell CO₂ Hynet" (y cyfeirir ato gan yr Ymgeisydd fel "barn KC ar gyflwyniadau NH"); ac
 - Ymateb yr Ymgeisydd i'r Cais am Wybodaeth Rheol 17 [REP9-012], a oedd yn nodi ei "... ymateb i gwestiwn 5, ymateb yr Ymgeisydd i NH [REP8-046]' yn Atodiad 3 y ddogfen honno.
- 8.7.437. Fel y cyfryw, mae'r ExA yn fodlon bod y pwerau CA/TP a geisir dros y rhifau lleiniau a nodwyd uchod yn ofynnol i hwyluso a/neu'n anorfod i'r Datblygiad Arfaethedig. Felly, mae'n fodlon bod y pwerau a geisir yn bodloni'r amodau a nodir yn a122(2) Deddf Cynllunio 2008.
- 8.7.438. O ran PP, mae'r ExA yn nodi bod NH yn ystyried y "*... bu'n rhaid cadw holl ddarpariaethau safonol NH i sicrhau bod amddiffyniad priodol ar waith os yw'r Ymgeisydd yn dewis arfer y pwerau hynny, os caniateir hynny.*" Mae'n nodi bod hyn oherwydd "*... pwerau eang... yn cael eu ceisio gan yr Ymgeisydd yn y DCO a allai arwain at waith priffyrdd 'anhysbys' yn cael ei gyflwyno o dan y DCO.*"
- 8.7.439. Ar ôl adolygu'r ddau fersiwn o'r PP (fersiynau cyfredol yr Ymgeisydd o'r dDCO) a PP NH, sydd ynghlwm yn Atodiad 1 o'i ddatganiad cau [REP8-046]), ac ar ôl myfyrio ar safbwynt y ddau barti, fel y'i nodir mewn cyflwyniadau a wnaed yn yr Archwiliad ar y mater, gan gynnwys barn y KC a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd a DL7 [REP8-038], nid yw'r ExA yn cael ei berswadio o ran pryderon NH. Felly, daeth yr ExA i'r casgliad y byddai PP yr Ymgeisydd, sy'n cael eu cynnwys yn yr rDCO yn Atodiad D yr adroddiad hwn, yn rhoi lefel briodol o ddiogelwch i NH o ran ei ymgymeriad statudol, ei dir, ac unrhyw gyfarpar, ac yn sicrhau na fyddai'r Datblygiad Arfaethedig yn arwain at niwed difrifol i barhau ei ymgymeriad.
- 8.7.440. O ran ystyried a oes achos cymhellol er budd y cyhoedd o blaid caffael y tir yn orfodol, mae'r ExA yn nodi'r gefnogaeth bolisi sylweddol ac achos angen brys i'w gyflawni y cyfeiria'r Ymgeisydd uchod atynt. Mae hefyd yn

ystyried y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn darparu buddion cyhoeddus drwy:

- ddiwallu angen cyffredinol amlwg am y datblygiad arfaethedig a fyddai'n cynorthwyo'r DU yn uniongyrchol i gyrraedd nodau Sero Net, gan gynnwys cyfnodau datgarboneiddio trosiannol a'r cyllidebau carbon cysylltiedig a fabwysiadwyd yng Nghymru a Lloegr; a'r
- achos economaidd-gymdeithasol amlwg a diwrthdro yn rhanbarthol a ledled y DU a wnaed gan yr Ymgeisydd, gan gynnig buddion diriaethol sylweddol i'r cyhoedd sy'n gysylltiedig â buddsoddiad uniongyrchol/anuniongyrchol a chreu swyddi dilynol.

8.7.441. Rhwng pob dim, mae'r ExA yn fodlon bod cynnwys pwerau o ran:

- CA mewn perthynas â thir SU, fod tir wedi'i gaffael gan NH at ddibenion ei ymgymeriad (a127(1)) a bod natur a safle'r tir yn golygu y gellir ei brynu ac nid ei ddisodli heb niwed difrifol i barhau'r ymgymeriad (a127(3));
- CA hawl dros dir ymgymerydd statudol, drwy greu hawl newydd dros dir o ran bod natur a safle'r tir yn golygu y gellir prynu'r hawl heb niwed difrifol i barhau'r ymgymeriad (a127(6)); a
- bod diddymu'r hawl berthnasol, neu waredu'r cyfarpar berthnasol, yn angenrheidiol er mwyn cyflawni'r datblygiad y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef (a138.(4)).

8.7.442. Byddai pwerau felly'n angenrheidiol at ddibenion cyflawni'r datblygiad ac, o'r herwydd, mae'r ExA yn ystyried bod y profion a nodir yn a127 ac a138 Deddf Cynllunio 2008 yn cael eu bodloni.

8.7.443. Felly, cred yr ExA hefyd fod y buddion cyhoeddus a fyddai'n deillio o'r Datblygiad Arfaethedig hwn yn gorbwyso unrhyw golled neu niwed a allai ddeillio o CA tir a hawliau. Yn unol â hynny, mae'n ystyried bod achos cymhellol er budd y cyhoedd o blaid cynnwys pwerau CA mewn perthynas â'r lleiniau a nodwyd a bod y prawf a nodir yn a122(3) hefyd yn cael ei fodloni.

Awdurdodau Lleol yn eu rolau fel yr awdurdodau priffyrdd lleol

8.7.444. Gwnaeth CWCC a FCC sylwadau ar CA/TP. Gwnaeth CWCC ei sylwadau yn ei RR [RR-012] a'i WR [REP1-061]; tra gwnaeth FCC ei sylwadau yn RR [RR-034] a [RR-035]. O ran CA/TP:

- Gwnaeth CWCC arsylwadau yn y dogfennau hyn ynghylch prinder cyswllt â'r Ymgeisydd ond dywedodd y byddai'n adolygu ei safbwynt ac yn diweddarau'r ExA. Cododd gwestiynau mewn perthynas â gwaith parhaol mewn ardaloedd o TP arfaethedig a gohiriodd ei safbwynt mewn perthynas â PP.
- Gofynnodd FCC am eglurhad cyffredinol ynghylch materion amrywiol gan gynnwys amserlen rhaglen prosiect (gan gynnwys dull caffael) ac effeithiau posibl ar ei dir a'i dir a gedwir. Soniodd hefyd am effeithiau posibl ar ddiogelu mwynau, yn ogystal â phryderon ynghylch geiriad arfaethedig a phriodoldeb darpariaethau o fewn y dDCO, gan gynnwys y prif bwerau.

8.7.445. Heb ystyried yr uchod, yn eu rolau fel Awdurdod Priffyrdd ar gyfer eu priod awdurdodaeth, mae safbwyntiau CWCC a FCC ill dau wedi newid swyddi yng ngoleuni gwrthwynebiad NH o ran CA/TP, fel y nodir uchod. Crynhoir manylion eu gwrthwynebiadau isod:

- Cododd CWCC wrthwynebiad i CA/ TP yn ei gyflwyniad a gyflwynwyd yn DL7 (Dydd Mawrth 5 Medi 2023) [REP7-306] yn cynghori ei fod "... yn cefnogi'n sylfaenol y farn gyfreithiol a roddwyd gan Ruth Stockley dyddiedig 4 Gorffennaf 2023 i NH [REP5-051] ar gymhwyso'r NRSWA" a'i fod "... yn cytuno â NH bod y cyngor a roddwyd gan Ruth Stockley yn ddibynadwy iawn, yn gywir ac mai dyna'r ffordd gywir o gymhwyso'r NRSWA mewn cyd-destun DCO." Yn ogystal, gwnaeth CWCC:
 - ailadrodd y gwrthwynebiadau a godwyd gan NH, nad ydynt yn cael eu hailadrodd yma gan eu bod wedi'u crynhoi uchod yn yr adran uchod sy'n gysylltiedig â NH ac mae'n amlygu'r hyn yr ystyria ei fod yn anghysondeb o fewn y dDCO yn Erthygl 12 lle mae'n honni ei fod yn ddiffygiol yng ngoleuni cymhwyso'r NRSWA.
 - cynghori nad yw wedi gallu cytuno ar PP, a hynny'n rhannol oherwydd nad yw'r Ymgeisydd yn darparu rhestr o briffyrdd y mae'r DCP yn effeithio arnynt a'r traffig eithriadol arnynt. Fodd bynnag, dywed ei fod "... wedi darparu cyfres dderbyniol o PP i'r Ymgeisydd ar gyfer amddiffyn yr awdurdodau priffyrdd lleol" ac mae'n annog yr ExA i gynnwys ei fersiwn dewisol yn y DCO.
- Mynegodd FCC wrthwynebiad i CA/TP yn ei gyflwyniad a gyflwynwyd yn DL8 (Dydd Mawrth 12 Medi 2023) [REP8-044]) gan gynghori yng ngoleuni cyflwyniadau DL5 NH (REP5-050) a (REP5-051), sylwadau'r Ymgeisydd ar gyflwyniadau a gafwyd yn DL5 (REP6-035), ISH3 ([EV-028] i [EV-030]) a'r sylwadau a wnaed gan CWCC ([REP7-299], [REP7-300], [REP7-301] a [REP7-306]) ei fod yn cytuno â'r safbwynt a gymerwyd gan NH a CWCC yn hyn o beth.

8.7.446. Mae'r Ymgeisydd yn ceisio pwerau CA/TP ar y lleiniau a nodwyd yn Nhabl 4 yr adroddiad hwn. Fel y nodir yn y BoR [REP7-025] a'r Cynlluniau Tir [CR3-003] ceisir caffael yn barhaol:

- Dir mewn perthynas â lleiniau rhif
 - CWCC: 6-01; a
 - FCC: 17-03, 17-04, 17-43, 17-44, 19-04a, 19-04d, 19-13, 22-10, 25-05 a 25-10.
- Ceisir iswyneb mewn perthynas â lleiniau rhif
 - CWCC: 2-08, 2-09, 2-10, 2-13, 3-13, 3-14, 3-15, 4-09, 4-10, 4-17, 4-18, 4-19, 5-09, 5-14, 5-20, 5-22, 5-23, 6-14, 6-15, 6-16, 6-17, 6-18, 6-19, 6-22, 6-23, 6-24, 6-25, 6-26, 7-01, 7-05, 7-08, 8-07, 8-11, 9-07, 9-09, 9-10, 9-12, 10-01, 10-04, 10-06, 10-07, 10-11, 10-12, 10-16, 11-06, 11-14 a 12-05; a
 - FCC: 12-18, 12-19, 13-12, 14-04, 14-08, 15-03, 15-04, 15-11, 15-13, 16-10, 16-12, 16-13, 16-14, 16-15, 16-18, 16-19, 16-20, 16-21, 16-23, 16-24, 16-25, 16-26, 16-27, 17-01, 17-06, 17-07,

17-08, 17-12, 17-13, 17-24, 17-25, 17-39, 17-40, 17-42, 18-02, 18-10, 18-11, 18-14, 18-18, 18-19, 18-20, 18-21, 18-24, 18-26, 18-27, 18-32, 19-02, 19-03, 19-04, 19-11, 19-12, 20-03, 20-04, 20-05, 20-06, 20-18, 20-19, 20-21, 20-27, 20-29, 21-02, 21-04, 21-06, 22-01, 22-07, 22-08 a 22-09.

- Ceisir hawliau mewn perthynas â llain rhif
 - CWCC: 1-06c, 1a-01, 1a-02, 1a-04, 2-04a, 3-05, 6-09, 7-02b a 12-06; a
 - FCC: 13-06, 13-10, 13-11, 14-11, 15-14, 17-17 a 17-18.

8.7.447. Yn ogystal, nododd y dogfennau uchod, fel sy'n berthnasol i FCC, fod defnydd dros dro o hawliau yn cael ei geisio mewn perthynas â lleiniau rhif 13-13, 13-15, 13-17, 13-18, 14-02 a 14-03. Nid yw'r BOR [REP7-025] na'r Cynlluniau Tir [CR3-003] yn nodi unrhyw ddefnydd dros dro o hawliau mewn perthynas â CWCC.

8.7.448. Roedd y BoR [REP7-025] a'r Cynlluniau Tir [CR3-003] hefyd yn nodi'r rhifau lleiniau lle ceisir hawliau newydd, gyda'r dDCO yn Atodlen 8 (Tir lle gellir caffael hawliau newydd ac ati). Mae'r atodlen hon yn nodi'r rhifau lleiniau perthnasol, yn ogystal â'r hawliau newydd a geisir mewn perthynas â'r rhifau lleiniau hynny. O ran:

- CWCC byddai'r hawliau newydd hyn yn berthnasol i leiniau rhif 1-06c, 1a-01, 1a-02, 1a-04, 2-04a, 3-05, 6-09, 7-02b, 9-07 a 12-06; a
- FCC byddai'r hawliau newydd hyn yn berthnasol i leiniau rhif 13-06, 13-10, 13-11, 14-11, 15-14, 17-17 a 17-18.

8.7.449. O ran CWCC a FCC byddai'r hawliau newydd hyn yn hawliau at ddibenion adeiladu, gosod, gweithredu, cynnal a chadw a datgomisiynu'r datblygiad awdurdodedig ac i osod cyfamodau cyfyngol.

8.7.450. O ran TP, mae'r dDCO yn Atodlen 7 (Tir y gellir cymryd TP arno) yn pennu i ba leiniau y mae TP yn berthnasol, at ba ddiben y ceisir TP mewn perthynas â phob rhif llain a'r rhif gwaith sy'n berthnasol i bob llain lle ceisir TP. O ran:

- CWCC y rhifau llain hyn yw 2-04, 2-11, 3-01, 4-03, 4-04, 5-21, 5-24, 5-25, 5-26, 6-21, 7-02a, 8-08, 8-14, 9-08, 9-11, 10-04a, 10-15, 10-17 ac 11-01. Fel y nodir gan yr Ymgeisydd yn Atodlen 7 y dDCO, mae'r diben y ceisir pob llain ato yn amrywio, fel y nodir isod:
 - Defnydd dros dro fel mynedfa adeiladu.
 - Defnydd dros dro fel mynedfa adeiladu gan gynnwys llain weledd.
 - Defnydd dros dro ar gyfer mynediad a storio mawn.
 - Defnydd dros dro fel ardal waith adeiladu.
 - Defnydd dros dro fel mynedfa adeiladu ac ardal waith.
- FCC y rhifau llain hyn yw 12-16, 12-17, 13-19, 14-23, 14-24, 14-25, 14-27, 16-06a, 16-08, 17-10, 17-11, 17-34, 18-01, 18-13, 18-16, 18-17, 19-04C, 20-10a, 20-16, 20-17, 20-17, 20-19b, 20-20, 22-02, 22-04, 25-08, 25-09, 28-02 a 29-01. Fel y nodir gan yr Ymgeisydd yn

Atodlen 7 y dDCO, mae'r diben y ceisir pob llain ato yn amrywio, fel y nodir isod:

- Defnydd dros dro fel mynedfa adeiladu.
- Defnydd dros dro fel mynedfa adeiladu ac ardal waith.
- Defnydd dros dro fel mynedfa adeiladu ac ardal weithio, ac ar gyfer dargyfeirio hawl tramwy cyhoeddus a chwrs dŵr.
- Defnydd dros dro fel ardal weithio.
- Defnydd dros dro fel clos adeiladu, ardal weithio a mynediad.
- Defnydd dros dro fel mynedfa adeiladu gan gynnwys llain weledd.
- Defnydd dros dro fel clos adeiladu ac ardal weithio.
- Defnydd dros dro fel mynedfa ac ardal weithio.
- Defnydd dros dro ar gyfer mynedfa ac i'w hadeiladu.

Ymateb yr ExA

- 8.7.451. Parhaodd yr Ymgeisydd i gysylltu â CWCC a FCC trwy gydol yr Archwiliad. Ar y cyfan roedd yn ymddangos bod y partion yn bwrw ymlaen gyda llawer o faterion yn cael eu hegluro neu eu datrys (h.y. datrys meddiant dros dro ar dir a gwaith parhaol (CWCC [REP5-031] ym mharagraff 2.3.38) a chytuno ar PP o blaid awdurdodau draenio (CWCC [REP8-041] a FCC [REP8-044])).
- 8.7.452. Cyngorodd CWCC yn ei gyflwyniad DL7 [REP7-299] mewn perthynas â CA/TP, fod Penawdau'r Telerau wedi'u diweddaru wedi'u cael gan yr Ymgeisydd a bod y Cyngor wedi cael ymatebion i ymholiadau. Roedd hefyd yn cynghori y *"Bydd y Cyngor yn parhau i fwrw ymlaen â'r trafodaethau gyda'r Ymgeisydd."* Yng nghyflwyniad DL8 CWCC [REP8-041] dywedodd nad oedd diweddariad sylweddol ar fater CA/TP.
- 8.7.453. Roedd FCC yn ei gyflwyniad DL8 [REP8-044] hefyd yn rhoi diweddariad ynghylch CA/TP a chadarnhaodd ei fod *"... wedi cael Penawdau'r Telerau ... a bod y trafodaethau'n parhau."*
- 8.7.454. Ni waeth yr arwyddion cadarnhaol hyn, fel y nodir uchod, gwnaeth CWCC [REP7-306] a FCC [REP8-044], yn eu rolau fel awdurdod priffyrdd lleol ar gyfer eu priod awdurdodaethau, godi gwrthwynebiadau mewn perthynas â CA/TP. Roedd y gwrthwynebiadau hyn yn seiliedig yn bennaf ar wrthwynebiadau NH sef nad yw achos yr Ymgeisydd o blaid CA wedi'i wneud yn foddhaol. Dadleuodd NH fod hyn oherwydd bod modd cyflawni'r un canlyniad yn unol ag a50 o'r NRSWA, gan nodi y bwriedir i CA fod yn fesur dewis olaf pan fydd yr holl ymdrechion i drafod wedi methu.
- 8.7.455. Dylid nodi mai dim ond un o wrthwynebiadau NH mewn perthynas â'r mater hwn yw'r uchod, ond nodir crynodeb o wrthwynebiadau NH yn yr adran NH uchod. Nid ydynt yn cael eu hailadrodd yma gyda'r bwriad o osgoi ailadrodd.
- 8.7.456. Nid yw'r Ymgeisydd wedi ymateb yn uniongyrchol i gyflwyniad DL8 FCC [REP8-044], o ran ei newid safbwynt yn cytuno â safbwyntiau NH a CWCC ar y mater hwn (Gweler cyflwyniadau NH [REP5-050] a [REP5-

051] a chyflwyniadau CWCC [REP7-299] a [REP7-306]). Mae'r ExA yn nodi, serch hynny, y cafwyd ymateb manwl i'r gwrthwynebiadau gan NH a CWCC yn y canlynol:

- Datganiad Safbwynt Terfynol yr Ymgeisydd [REP8-037]; ac
- 'Ymateb yr Ymgeisydd i'r Cais am Wybodaeth Rheol 17' [REP9-012], yn Atodiad 3 'Ymateb yr Ymgeisydd i Gwestiwn 5, Ymateb yr Ymgeisydd i NH [REP8-046]' ac Atodiad 7 (sic) 'Ymateb yr Ymgeisydd i Gwestiwn 5, Ymateb yr Ymgeisydd i CWCC [REP8-041a]'.

8.7.457. Dylid nodi bod yr ExA o'r farn bod yr ymatebion uchod yr un mor berthnasol i gyflwyniad DL8 FCC [REP8-044], gan fod ei wrthwynebiad, yn ei rôl fel awdurdod priffyrdd lleol, i raddau helaeth yr union yr un fath ag un CWCC ac yn ei dro NH.

8.7.458. Mewn ymateb i'r gwrthwynebiadau a godwyd gan CWCC, mae 'datganiad safbwynt terfynol yr Ymgeisydd' [REP8-037] yn ymateb gan nodi bod "... CWCC, am y tro cyntaf, wedi mabwysiadu dehongliad NH yn ei gyflwyniad DL7 [REP7-306]. Yr unig reswm a roddir am hyn yw bod awdur y farn gyfreithiol a ddarperir gan NH [REP5-051] yn arbenigwr mewn cyfraith priffyrdd." Yn wir, mae'r Ymgeisydd wedi gwrthbrofi gwrthwynebiadau NH yn sylweddol, sydd yr un mor berthnasol i newid safbwynt CWCC. Er mwyn osgoi dyblygu, nid yw'r rhain yn cael eu hailadrodd yma ond gellir eu gweld uchod (Gweler paragraffau 8.7.404 i 8.7.406 (cynhwysol)).

8.7.459. O ran ymatebion sy'n benodol i wrthwynebiadau CWCC, a grynhoir uchod, mae'r Ymgeisydd yn gwrthbrofi'r honiad bod CWCC wedi gofyn dro ar ôl tro am restr o briffyrdd yr effeithir arnynt ('Ymateb yr Ymgeisydd i'r Cais am Wybodaeth Rheol 17' [REP9-012], yn Atodiad 7 (sic) 'Ymateb yr Ymgeisydd i Gwestiwn 5, Ymateb yr Ymgeisydd i CWCC [REP8-041a]' paragraffau 1.1 a 1.1.6). Yn wir, mae'n cynghori bod "... y priffyrdd yr effeithir arnynt wedi'u rhestru yn y cais..." a dywed bod "... y rhestr wedi'i datblygu mewn partneriaeth â CWCC..." (Ibid, paragraff 1.1). Yn wir, mae'n darparu rhestr gynhwysfawr o ddogfennau lle mae'n ystyried y gellir dod o hyd i wybodaeth yn nogfennaeth y cais, yn ogystal â manylion llwybrau traffig adeiladu a meysydd cytundeb a osodwyd yn y SoCG a gwblhawyd gyda CWCC. ('Ymateb yr Ymgeisydd i'r Cais am Wybodaeth Rheol 17' [REP9-012], yn Atodiad 7 (sic) 'Ymateb yr Ymgeisydd i Gwestiwn 5, Ymateb yr Ymgeisydd i CWCC [REP8-041a], paragraff 1.1.2 i 1.1.4 (cynhwysol)).

8.7.460. Mae'r ymgeisydd yn nodi:

- Bod CWCC wedi cynnig bod NRSWA yn berthnasol i'r holl waith o fewn ei briffyrdd ac mai hyn "... yw sail CWCC ar gyfer gwrthod y safbwynt diffygion a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd. Fodd bynnag, mae hefyd yn sylfaenol anghyson ar y pwynt hwn trwy ddadlau bod NRSWA yn berthnasol felly dylai'r safbwynt diffygion ddilyn y statud hwnnw a bod angen ei ddiogelu ar arolygon cyflwr y briffordd, nad yw'n cyd-fynd â'r sefyllfa statudol." ('Ymateb yr Ymgeisydd i'r Cais am Wybodaeth Rheol 17' [REP9-012], yn Atodiad 7 (sic) 'Ymateb yr Ymgeisydd i

Gwestiwn 5, ymateb yr Ymgeisydd i CWCC [REP8-041a]', paragraff 1.1.7).

- Mae gan yr awdurdod priffyrdd bŵer o dan Ddeddf Priffyrdd 1980 a59 i adennill costau atgyweirio difrod anghyffredin i briffyrdd. Cynigiwyd PP yn rhannol i atal yr angen i ddibynnu ar y pŵer hwnnw trwy ddiffinio strydoedd sensitif sydd â risg y bydd difrod o'r fath yn digwydd i'w monitro yn ystod eu defnyddio gan draffig adeiladu. (Ibid, paragraff 1.1.8).
- Nid oes cyfiawnhad dros osod y PP o blaid yr awdurdod priffyrdd yn y ffurf y mae CWCC yn gofyn amdani, gan fod eu cyflwyniad eu hunain yn nodi y dylid dibynnu ar sefyllfa statudol. (Ibid, paragraff 1.1.9).

8.7.461. O ran cynnen CWCC fod Erthygl 12 y dDCO yn ddiffygiol, mae'r Ymgeisydd wedi darparu gwrthsafiad yn ei Ddatganiad Safbwynt Terfynol [REP8-037], lle mae'n ystyried yn gryno:

- Bod CWCC yn camddehongli'r erthygl honno ac yn nodi bod yr erthygl yn dilyn y geiriad a nodir mewn nifer sylweddol o DCO a gymeradwywyd gan wahanol SoS a oedd yn ystyried yn amlwg, dro ar ôl tro, nad oedd yn ddryslyd.
- Nid yw honiad CWCC bod y penderfyniadau hyn a'r DCO a ganiatawyd yn ddiffygiol yn cael ei gefnogi gan unrhyw resymu o fewn cyflwyniad CWCC ac, yn syml, mae'n anghywir.
- Mae pwerau'r dDCO yn caniatáu i rai o ddarpariaethau NRSWA fod yn berthnasol i weithgareddau mewn strydoedd y tu hwnt i'r hyn sy'n perthyn i ddiffiniad 'gwaith stryd' o dan NRSWA, gan gynnwys cyfyngu ar ddefnydd yn hytrach na gwaith ffisegol, gyda'r adrannau allweddol yn:
 - Erthygl 12 (1), sy'n amodi:
 - bod darpariaethau NRSWA a restrir ym mharagraff (2) yn gymwys "ni waeth a yw cyflawni'r gwaith neu'r cau, newid neu ddargyfeirio yn golygu gwaith stryd o fewn ystyr y Ddeddf honno ai peidio";
 - bod yr adrannau o NRSWA a restrir ym mharagraff (2) yn cael eu cymhwyso (gydag addasiadau angenrheidiol) i arfer pwerau na fyddent fel arall yn perthyn i'r diffiniad o waith stryd o dan NRSWA.
 - Erthygl 12(2), sy'n rhestru darpariaethau NRSWA sy'n cael eu cymhwyso at y gweithgareddau paragraff (1), ac felly'n gweithredu i ymestyn cwmpas yr adrannau hyn o'r hyn o dan NRSWA i gynnwys gweithgareddau eraill a fyddai'n effeithio ar ddefnydd strydoedd ac y mae'n rhesymol bod y darpariaethau (yn arbennig hysbysu) yn gymwys iddynt.
 - Erthygl 12(3), sy'n diwygio cymhwyso a55 o NRSWA i adlewyrchu cyd-destun DCO a'r cwmpas diwygiedig a nodir ym mharagraff (1).
 - Erthygl 12(4), sy'n datgymhwyso pwerau NRSWA sy'n anghydnaws yn sylfaenol â DCO o 'waith stryd' o dan y DCO.

8.7.462. Mae'r Ymgeisydd yn nodi ei Femorandwm Esboniadol (EM) [REP7-017], fel sy'n gysylltiedig ag APC (y TCV) y dDCO, ym mharagraff 4.58 sy'n esbonio'r uchod ac yn rhoi enghraifft. (Mae hyn hefyd wedi'i nodi yn yr un paragraff yn yr EM sy'n gysylltiedig ag EPBV y dDCO [REP7-018]).

- 8.7.463. Ar sail pwyntiau a wnaed uchod, mae'r Ymgeisydd yn dadlau bod erthygl 12 y dDCO yn berffaith synhwyrol a dealladwy, ond hefyd mai ei heffaith yw amddiffyn awdurdodau priffyrdd.
- 8.7.464. Gwneir yr amddiffyniad hwn trwy estyn cwmpas NRSWA i weithgareddau a rymusir o dan y DCO, na fyddai fel arfer yn cael eu cwmpasu gan y Ddeddf honno er mwyn sicrhau bod rhybudd a rheolaeth briodol o ymyrraeth â phriffyrdd yn cael eu sicrhau yn y DCO.
- 8.7.465. Ni wnaeth CWCC na FCC gyflwyniad yn DL9. Heb ystyried y ffaith hon, yng ngoleuni CWCC a FCC yn ailadrodd gwrthwynebiad NH, fel sy'n berthnasol i'w hymgymeriadau eu hunain fel awdurdod priffyrdd lleol ac o gofio'r pryderon ychwanegol a godwyd ganddynt, fel y crynhowyd uchod, nid yw'r ExA o'r farn bod y pryderon hyn yn ychwanegu unrhyw beth at y dadleuon presennol, fel y nodir eisoes yn yr adran NH uchod.
- 8.7.466. Yn ogystal, nid yw'r ExA yn ystyried bod y gwrthwynebiadau a godwyd gan CWCC/FCC, mewn perthynas â'u rolau fel SU ar gyfer y rhwydweithiau priffyrdd lleol yn eu priod awdurdodaethau, gan gynnwys y pryderon ychwanegol a grynhoir uchod, yn newid yr ystyriaethau neu'r canfyddiadau sy'n gysylltiedig â gwrthwynebiadau NH, sydd, ym marn ExA, yr un mor berthnasol i wrthwynebiadau CWCC a FCC. Nid yw'r ystyriaethau a'r canfyddiadau hynny'n cael eu hailadrodd yma gyda'r bwriad o osgoi dyblygu. Fodd bynnag, gellir eu gweld ym mharagraffau 8.7.400 i 8.7.443 (Cynhwysol) uchod.
- 8.7.467. Yn wir, mae'r ExA o'r farn bod yr Ymgeisydd wedi darparu dadleuon clir a rhesymegol sy'n gwrthdadau'r pryderon a godwyd ac felly nid yw'n cael ei berswadio bod y pryderon a godwyd gan yr awdurdodau priffyrdd lleol yn rhesymol nac yn gyfiawn.
- 8.7.468. At hynny, o ran pryderon a godwyd mewn perthynas â PP gan CWCC a FCC, eto ystyrir bod ystyriaethau a chanfyddiadau'r ExA, fel y'u nodir yn yr adran NH uchod, mewn perthynas â PP yr un mor berthnasol i wrthwynebiadau CWCC a FCC ynghylch y mater hwn. Unwaith eto, nid yw'r ystyriaethau a'r canfyddiadau hyn yn cael eu hailadrodd yma, am yr un rheswm a nodwyd uchod, ond gellir dod o hyd i'r ystyriaethau/canfyddiadau hynny yn yr un rhifau paragraff a nodwyd ym mharagraff 8.7.466 uchod.
- 8.7.469. At ei gilydd, yng ngoleuni'r ystyriaethau a'r canfyddiadau hynny, mewn perthynas â mater CA tir, gan gynnwys is-wyneb tir, mae'r ExA yn fodlon ar y dystiolaeth a gyflwynwyd bod y tir dan sylw wedi cael ei gaffael gan yr SU hyn at ddibenion eu hymgymeriad. Ar ben hynny, mae'r ExA yn ymwybodol o'r dystiolaeth sylweddol a ddarparwyd gan y ddwy ochr mewn perthynas â niwed difrifol i barhau ymgymeriad CWCC a FCC. Fodd bynnag, nid yw'r ExA wrth ystyried yr holl dystiolaeth a wnaed yn yr Archwiliad yn cael ei berswadio y bydd niwed difrifol yn digwydd i barhau ymgymeriad CWCC neu FCC.

- 8.7.470. Yn wir, wrth gyrraedd y man hwn, mae'r ExA yn canfod bod tystiolaeth yr Ymgeisydd na fyddai niwed difrifol yn digwydd yn rhesymol ac yn ddarbwyllol, yn enwedig y canlynol:
- Datganiad Safbwynt Terfynol yr Ymgeisydd [REP8-037]; a
 - Barn y KC [REP8-038], a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd, "Ym mater cais am DCO mewn perthynas â phrosiect Piblinell CO₂ Hynet" (y cyfeirir ato gan yr Ymgeisydd fel "barn KC ar gyflwyniadau NH"); ac
 - 'Ymateb yr Ymgeisydd i'r Cais am Wybodaeth Rheol 17' [REP9-012], a oedd yn nodi ei '... ymateb i Gwestiwn 5, ymateb yr Ymgeisydd i CWCC [REP8-041a]' yn Atodiad 7 (sic) y ddogfen honno.
- 8.7.471. Fel y cyfryw, mae'r ExA yn fodlon bod y pwerau CA/TP a geisir dros y rhifau lleiniau uchod yn ofynnol i hwyluso a/neu'n anorfod i'r Datblygiad Arfaethedig. Felly, mae'n fodlon bod y pwerau a geisir yn bodloni'r amodau a nodir yn a122(2) Deddf Cynllunio 2008.
- 8.7.472. O ran PP, mae'r ExA yn nodi bod CWCC a FCC yn ailadrodd sylw NH am fod yn "... angenrheidiol cadw'r holl ... ddarpariaethau safonol i sicrhau bod amddiffyniad priodol ar waith os yw'r Ymgeisydd yn dewis arfer y pwerau hynny, os cânt eu caniatáu." Maen nhw'n dadlau bod hyn oherwydd "... pwerau eang... yn cael eu ceisio gan yr Ymgeisydd yn y DCO a allai arwain at waith priffyrdd 'anhysbys' yn cael ei gyflwyno o dan y DCO." At hynny, nodir y pryderon ychwanegol sy'n ymwneud â PP a godwyd gan CWCC a FCC. Fodd bynnag, mae'r Ymgeisydd wedi cyflwyno dadleuon argyhoeddiadol yn erbyn defnyddio PP o'r fath.
- 8.7.473. Ar ôl adolygu dau fersiwn y PP (fersiynau cyfredol yr Ymgeisydd o'r dDCO) a'r PP a hyrwyddwyd gan CWCC/FCC, fel y'u cyflwynwyd yn DL7 [REP7-300]), ac ar ôl myfyrio ar safbwynt pob parti sy'n berthnasol i'r mater hwn, fel y nodir mewn cyflwyniadau a wnaed yn yr Archwiliad, gan gynnwys:
- Datganiad Safbwynt Terfynol yr Ymgeisydd [REP8-037], sy'n cynnwys gwrthateb yr Ymgeisydd ynghylch arsylwadau CWCC ynghylch Erthygl 12 y dDCO;
 - barn y KC a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd yn DL7 [REP8-038]; ac
 - Ymateb yr Ymgeisydd i'r Cais Rheol 17 am Wybodaeth [REP9-012], Atodiad 7 (sic), a oedd yn nodi ei '... ymateb i C5, ymateb yr Ymgeisydd i CWCC [REP8-041a]',
- nid yw'r ExA yn cael ei berswadio mewn perthynas â phryderon yr SU hyn. Yn wir, mae'r ExA yn ystyried y byddai PP yr Ymgeisydd, sydd wedi'u cynnwys yn yr rDCO yn Atodiad D yr adroddiad hwn, yn rhoi i CWCC a FCC (sy'n gweithredu fel yr awdurdod priffyrdd lleol o fewn eu priod awdurdodaethau) lefel briodol o ddiogelwch o ran eu hymgymeriad statudol, tir ac unrhyw gyfarpar, gan hefyd sicrhau na fyddai'r Datblygiad Arfaethedig yn arwain at niwed difrifol i barhau eu hymgymeriad.
- 8.7.474. O ran ystyried a oes achos cymhellol er budd y cyhoedd o blaid caffael y tir yn orfodol, mae'r ExA yn nodi'r gefnogaeth bolisi sylweddol ac achos angen brys dros gyflenwi y mae'r Ymgeisydd uchod yn cyfeirio atynt. Mae

hefyd yn ystyried y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn darparu buddion cyhoeddus drwy:

- ddiwallu angen cyffredinol amlwg am y datblygiad arfaethedig a fyddai'n cynorthwyo'r DU yn uniongyrchol i gyrraedd nodau Sero Net, gan gynnwys cyfnodau datgarboneiddio trosiannol a'r cyllidebau carbon cysylltiedig a fabwysiadwyd yng Nghymru a Lloegr; a'r
- achos economaidd-gymdeithasol amlwg a diwrthdro yn rhanbarthol a ledled y DU a wnaed gan yr Ymgeisydd, gan gynnig buddion diriaethol sylweddol i'r cyhoedd sy'n gysylltiedig â buddsoddiad uniongyrchol/anuniongyrchol a chreu swyddi dilynol.

8.7.475. Rhwng pob dim, mae'r ExA yn fodlon bod cynnwys pwerau o ran:

- CA mewn perthynas â thir SU, fod tir wedi'i gaffael gan yr SU (CWCC a FCC yn gweithredu fel awdurdod priffyrdd lleol) at ddibenion eu hymgymeriad (a127(1)) a bod natur a safle'r tir yn golygu y gellir ei brynu ac na fydd yn cael ei ddisodli heb niwed difrifol i barhau'r ymgymeriad. (a127(3));
- CA hawl dros dir ymgymerydd statudol, drwy greu hawl newydd dros dir o ran natur a safle'r tir yn golygu y gellir prynu'r hawl heb niwed difrifol i barhau'r ymgymeriad (a127(6)); a
- diddymu'r hawl berthnasol, neu ddileu'r cyfarpar perthnasol yn angenrheidiol er mwyn cyflawni'r datblygiad y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef (a138.(4)).

8.7.476. Byddai pwerau felly'n angenrheidiol at ddibenion cyflawni'r datblygiad ac, o'r herwydd, mae'r ExA yn ystyried bod y profion a nodir yn a127 ac a138 Deddf Cynllunio 2008 yn cael eu bodloni.

8.7.477. Felly, cred yr ExA hefyd fod y buddion cyhoeddus a fyddai'n deillio o'r Datblygiad Arfaethedig hwn yn gorbwyso unrhyw golled neu niwed a allai ddeillio o CA tir a hawliau. Yn unol â hynny, mae'n ystyried bod achos cymhellol er budd y cyhoedd o blaid cynnwys pwerau CA mewn perthynas â'r lleiniau a nodwyd a bod y prawf a nodir yn a122(3) hefyd yn cael ei fodloni.

Cyfoeth Naturiol Cymru

8.7.478. Mynegodd CNC bryderon ynghylch CA/TP yn ei RR [RR-066] a'i WR [REP1-071] yn ymwneud â goblygiadau posibl y coridor hawliau parhaol 24.4m a sut y gallai hwn effeithio ar ei bwerau o ran ymgymryd â gwaith cynnal a chadw neu welliannau i amddiffynfeydd rhag llifogydd ar asedau o fewn y coridor. Roedd o'r farn y gallai hyn fod â goblygiadau iddo, yn enwedig lle mae'r biblinell yn rhedeg o dan/yn agos at asedau amddiffyn rhag llifogydd, fel Argloddiau'r Gogledd a Phenarlâg.

8.7.479. Mae'r Ymgeisydd yn ceisio pwerau CA/TP ar y lleiniau a nodwyd yn Nhabl 4 yr adroddiad hwn. Fel y nodir yn y BoR [REP7-025] a'r Cynlluniau Tir [CR3-003] ceisir caffael is-wyneb yn barhaol mewn perthynas â lleiniau rhif 13-07, 13-08, 13-12, 14-04, 14-05, 14-06, 14-07, 14-08, 15-03, 16-10, 16-14, a 16-16.

- 8.7.480. Yn ogystal, roedd y dogfennau uchod hefyd yn nodi y ceisir defnyddio hawliau dros dro mewn perthynas â Lleiniau Rhif 13-13, 13-17 a 16-01; tra ceisir caffael hawliau yn barhaol mewn perthynas â Lleiniau Rhif 12-21, 13-01, 13-02, 13-03, 13-04, 13-05, 13-06, 13-10, 13-11, 14-14a a 14-20.
- 8.7.481. Roedd y BoR [REP7-025] a'r Cynlluniau Tir [CR3-003] hefyd yn nodi'r rhifau lleiniau lle ceisir hawliau newydd, gyda'r dDCO yn Atodlen 8 (Tir lle gellir caffael hawliau newydd ac ati). Mae'r atodlen hon yn nodi'r rhifau lleiniau perthnasol, yn ogystal â'r hawliau newydd a geisir mewn perthynas â'r rhifau lleiniau hynny. O ran CNC, byddai'r hawliau newydd hyn yn berthnasol i leiniau rhif 12-21, 13-01, 13-02, 13-03, 13-04, 13-05, 13-06, 13-10, 13-11, 14-14a, 14-20 ar gyfer hawliau at ddibenion adeiladu, gosod, gweithredu, cynnal a chadw a datgomisiynu'r datblygiad awdurdodedig a gosod cyfamod cyfyngol.
- 8.7.482. O ran TP, mae'r dDCO yn Atodlen 7 (Tir y gellir cymryd TP arno) yn pennu i ba leiniau y mae TP yn berthnasol, at ba ddiben y ceisir TP mewn perthynas â phob rhif llain a'r rhif gwaith sy'n berthnasol i bob llain y ceisir TP yn ei gylch. O ran yr AP hwn (CNC) y rhifau llain hyn yw 14-14, 14-26, 16-06a, 16-08 a 16-17. Fel y nodir gan yr Ymgeisydd yn Atodlen 7 y dDCO, mae'r diben y ceisir pob llain ato yn amrywio, fel y nodir isod:
- Defnydd dros dro fel clos adeiladu ac ardal weithio.
 - Defnydd dros dro fel mynedfa adeiladu ac ardal waith.
 - Defnydd dros dro fel mynedfa adeiladu ac ardal weithio, ac ar gyfer dargyfeirio hawl tramwy cyhoeddus a chwrs dŵr.
 - Defnydd dros dro fel ardal weithio.

Ymateb yr ExA

- 8.7.483. Roedd pryderon CNC ynghylch CA/TP, fel y nodir uchod, yn canolbwyntio ar oblygiadau posibl y coridor hawliau parhaol 24.4m a sut y gallai hyn effeithio ar ei bwerau o ran ymgymryd â gwaith cynnal a chadw neu welliannau i amddiffynfeydd rhag llifogydd ar asedau yn y coridor. Yn ei WR yn ymwneud â CR1 [AS-074] cyfeiriodd CNC at y pryderon hyn, gan nodi nad oedd Newid 13 CR1 yn eu dileu. Fodd bynnag, dywedodd hefyd y byddai'n "*... parhau i ymgysylltu â'r Ymgeisydd ynghylch y mater hwn gyda'r bwriad o gytuno ar faterion a chofnodi cytundeb o'r fath yn y SoCG.*"
- 8.7.484. Ymhelaethodd CNC yn ei gyflwyniad DL4 [REP4-291] ar ei bryderon mewn perthynas â'r uchod a'u hail-bwysleisio yn ei gyflwyniad DL5 [REP5-044] yn Atodiad A lle ymatebodd i ExQ2 yng Nghwestiwn 2.19.4. Nid yw'r ExA yn manylu ar yr ymatebion hynny yma, oherwydd erbyn DL6 roedd CNC wedi cynghori mewn cyfarfod a gynhaliwyd i drafod y mater ar 17 Gorffennaf 2023, "*... y cadarnhawyd gan yr Ymgeisydd na fyddai ffens yn cael ei chodi o gwmpas y llwybr mynediad gogleddol ... yn ystod y cyfnod adeiladu a bod hyn eisoes wedi'i sicrhau o fewn y dDCO. Cadarnhawyd hefyd na fyddai unrhyw rwystr i fynediad CNC ar hyd y trac mynediad deheuol yn ystod y gwaith... Yn y cyfarfod hwn, cytunodd yr Ymgeisydd i gadarnhau'r sefyllfa hon a diwygio'r dDCO i warantu bod hyn wedi'i sicrhau. Ar y sail honno, yn amodol ar ymgorffori*

darpariaethau addas yn y DCO drafft ... mae CNC o'r farn y gellid datrys ei bryderon ynghylch mynediad at ei asedau rheoli perygl llifogydd yn foddhaol." (Cyflwyniad DL6 CNC [REP6-049] Atodiad B).

- 8.7.485. Beth bynnag yw'r uchod, yn y SoCG a gwblhawyd gan yr Ymgeisydd gyda CNC [REP7-261], a gyflwynwyd yn DL7, cytunodd y partion:
- *"Mae CNC yn fodlon na fydd y coridor hawliau parhaol yn cael unrhyw effaith ar bwerau caniataol CNC a ddefnyddir i gynnal a gwella asedau amddiffyn rhag llifogydd." Ar ben hynny, mae'r SoCG hwn a gwblhawyd [REP7-261] mewn perthynas â chael at asedau rheoli perygl llifogydd hefyd yn cadarnhau fel y cytunwyd fod "gan CNC bwerau o dan ddeddfwriaeth benodol i fynd ar y tir ar unrhyw adeg a'i bryder yw osgoi rhwystr fel mater o ddyluniad, er mwyn osgoi unrhyw wrthdaro posibl yn y dyfodol. Ni chred CNC mai darpariaethau amddiffynnol yw'r mecanwaith priodol ar gyfer cymeradwyo unrhyw waith a allai fod yn rhwystrol, naill ai yn y Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu (CTMP) a/neu ofyniad penodol, a fyddai'n fecanwaith mwyaf addas a fyddai'n cael ei ffafrio ...*
 - *... mae'r Ymgeisydd wedi newid yr OCTMP [CTMP Amlinellol] a'r OCEMP [Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu Amlinellol] i gynnwys y mesurau y mae CNC yn gofyn amdanynt. Cytunwyd yn awr ar eiriad rhwng yr Ymgeisydd a CNC (trwy e-bost dyddiedig 1 a 4 Medi 2023) ynghylch gofynion mynediad i asedau rheoli perygl llifogydd Afon Dyfrdwy."*
- 8.7.486. At hynny, yn nogfen 'Diweddariad yr Ymgeisydd ar Ddrafftio'r DCO' [REP7-294], a gyflwynwyd yn DL7, dywedodd yr Ymgeisydd ei fod yn "... yn deall, ar ôl cynnwys darpariaethau sy'n amodi na fydd ffensio clos yn atal CNC rhag cael mynediad at amddiffynfeydd rhag llifogydd yn yr OCEMP a'r CTMP, nad yw CNC yn ceisio unrhyw PP. Yn unol â hynny, nid oes unrhyw ddarpariaethau wedi'u cynnwys yn y drafft a gyflwynwyd yn DL7."
- 8.7.487. Fodd bynnag, ni chyflwynodd CNC hysbysiad ffurfiol o gwbl o ddileu ei bryderon i CA/TP, cyn i'r Archwiliad gau.
- 8.7.488. Ar ôl ystyried yr holl sylwadau a wnaed mewn perthynas â CA/TP, gan CNC a'r Ymgeisydd, yn ogystal â'r manylion a nodir yn y Cynlluniau Tir [CR3-003] a'r BoR [REP7-025], mae'r ExA yn fodlon bod y pwerau CA/TP a geisir dros y rhifau lleiniau a nodwyd uchod yn ofynnol i hwyluso a/neu'n anorfod i'r Datblygiad Arfaethedig. Felly, mae'r ExA hefyd yn fodlon bod y pwerau a geisir yn bodloni'r amodau a nodir yn a122(2) Deddf Cynllunio 2008.
- 8.7.489. Er bod arfer yr hawliau hyn o bosibl yn gallu ymyrryd ag ymgymeriad CNC, mae'n ymddangos i'r ExA fod CNC a'r Ymgeisydd wedi dod i gytundeb mewn perthynas â phryderon CNC sy'n ymwneud â CA/TP. Fel y cyfryw, gyda'r darpariaethau ar waith gyda'r OCTMP a'r OCEMP, mae'r ExA o'r farn na fydd y CA/TP arfaethedig ar dir yn cael unrhyw effaith andwyol o ran tir, cyfarpar ac ymgymeriad statudol CNC.

- 8.7.490. Wrth gyrraedd y safbwynt hwn, caiff yr ExA ei berswadio'n arbennig gan SoCG cyflawn yr Ymgeisydd gyda CNC [REP7-261] a dogfen 'Diweddariad yr Ymgeisydd ar Ddrafftio'r DCO' [REP7-294], a gyflwynwyd yn DL7.
- 8.7.491. O ran buddion cyhoeddus, mae'r ExA o'r farn y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn darparu buddion cyhoeddus drwy:
- ddiwallu angen cyffredinol amlwg am y datblygiad arfaethedig a fyddai'n cynorthwyo'r DU yn uniongyrchol i gyrraedd nodau Sero Net, gan gynnwys cyfnodau datgarboneiddio trosiannol a'r cyllidebau carbon cysylltiedig a fabwysiadwyd yng Nghymru a Lloegr; a'r
 - achos economaidd-gymdeithasol amlwg a diwrthdro yn rhanbarthol a ledled y DU a wnaed gan yr Ymgeisydd, gan gynnig buddion diriaethol sylweddol i'r cyhoedd sy'n gysylltiedig â buddsoddiad uniongyrchol/anuniongyrchol a chreu swyddi dilynol.
- 8.7.492. Rhwng pob dim, mae'r ExA o'r farn na fyddai'r pwerau CA/TP a geisir mewn perthynas â'r rhifau lleiniau uchod yn arwain at niwed difrifol i barhau ymgymeriad CNC. At hynny, mae'r ExA hefyd yn fodlon y byddai cynnwys pwerau mewn perthynas â dileu hawliau yn angenrheidiol at ddibenion cyflawni'r datblygiad. Fel y cyfryw, mae'r ExA o'r farn fod y profion a nodir yn a127 ac a138 Deddf Cynllunio 2008 yn cael eu bodloni.
- 8.7.493. Cred yr ExA hefyd fod y buddion cyhoeddus a fyddai'n deillio o'r Datblygiad arfaethedig hwn yn gorbwyso unrhyw golled neu niwed a allai ddeillio o greu'r hawliau hyn yn orfodol. Yn unol â hynny, mae'n ystyried bod achos cymhellol er budd y cyhoedd o blaid cynnwys pwerau CA mewn perthynas â'r lleiniau a nodwyd a bod y prawf a nodir yn a122(3) hefyd yn cael ei fodloni.

Scottish Power Energy Networks

- 8.7.494. Cododd SPEN bryderon mewn perthynas â CA/TP yn ei RR [RR-075] gan gynghori, er nad oedd ganddo wrthwynebiad mewn egwyddor i'r Datblygiad Arfaethedig, o ran CA/TP y byddai'n ceisio sicrhau osgoi unrhyw effaith andwyol ar ei rwydwaith ac y byddai'n ceisio gwneud sylwadau/cyflwyniadau mewn perthynas ag unrhyw agwedd ar y Datblygiad Arfaethedig a allai danseilio cynnal a datblygu ei asedau ac unrhyw rwydwaith grid yn y dyfodol.
- 8.7.495. Cynghorodd SPEN am groesbwyntiau buddiant allweddol, lle mae asedau foltedd uchel (132kV a 33kV) presennol; yn ogystal â chynghori "*nid yw'n glir lle na fydd effaith ar ei asedau sydd o fewn terfynau'r DCO.*"
- 8.7.496. O ran hawliau tir, roedd o'r farn y byddai'n mynnu bod ei holl hawliau tir yr effeithir arnynt yn cael eu cytuno ag ef, gan nodi bod cadarnhau'r hawliau presennol a hawliau arfaethedig yn debygol o fod yn dasg eang. Cynghorodd hefyd, lle mae effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol y Datblygiad Arfaethedig ar ei rwydwaith yn codi, y byddai'n ceisio sicrhau y gellid rheoli effeithiau o'r fath trwy PP y cytunwyd arnynt, gan gynnwys mewn perthynas â chytuno ar fesurau sy'n ymwneud â chontractwyr a sicrhau lle ymyrrir â hawliau tir presennol fod yr hawliau hyn yn cael eu disodli gan hawliau newydd sy'n cadw hawliau presennol SPEN neu fod

hawliau newydd yn cael eu creu yn ôl yr angen. Yn olaf, o ran CA/TP, amlygodd nad oedd y PP drafft yn y dDCO fel y'i cyflwynwyd yn wreiddiol [APP-024], yn gyson â PP o'i blaid a sicrhawyd trwy DCOs tebyg a wnaed.

- 8.7.497. Mae'r Ymgeisydd yn ceisio pwerau CA/TP ar y lleiniau a nodwyd yn Nhabl 4 yr adroddiad hwn. Fel y nodir yn y BoR [REP7-025] a'r Cynlluniau Tir [CR3-003] mae caffael tir yn barhaol yn cael ei geisio mewn perthynas â lleiniau rhif 1-09, 1-14, 3-12, 3-18a, 5-01, 5-07, 17-03, 17-04, 17-44, 19-04a, 19-04b, 19-04d, 19-13, 20-11, 20-19a, 22-10, 25-10 a 29-05; tra bod caffael is-wyneb yn barhaol yn cael ei geisio mewn perthynas â lleiniau rhif 1-11, 1-12, 1-13, 1-15, 1-18, 1-24, 1-25, 2-05, 2-08, 2-09, 3-11, 3-14, 3-15, 3-16, 3-17, 3-18, 4-12, 4-15, 4-18, 4-19, 4-20, 5-02, 5-10, 5-10, 5-13, 5-14, 5-16, 7-07, 7-08, 8-15, 9-01, 9-03, 9-22, 10-01, 10-02, 10-04, 10-07, 10-08, 10-10, 10-12, 10-13, 11-06, 11-08, 11-13, 11-14, 11-16, 11-17, 12-05, 12-09, 12-10, 12-14, 12-20, 13-08, 13-09, 13-12, 13-20, 13-21, 14-28, 14-30, 15-01, 15-07, 15-11, 15-12, 15-13, 16-12, 16-13, 16-14, 16-15, 16-18, 16-19, 16-20, 16-21, 16-22, 16-23, 16-24, 16-26, 16-27, 17-02, 17-06, 17-07, 17-08, 17-12, 17-13, 17-29, 17-33, 17-39, 17-40, 18-02, 18-03, 18-04, 18-05, 18-10, 18-11, 18-14, 18-19, 18-24, 18-26, 18-27, 18-28, 18-29, 18-30, 18-31, 18-32, 18-33, 19-04, 19-05, 19-07, 19-08, 19-09, 19-12, 20-03, 20-04, 20-05, 20-06, 20-08, 20-12, 20-19, 20-24, 20-25, 20-26, 21-05, 21-06, 22-07, 22-08 a 22-09.
- 8.7.498. Yn ogystal, roedd y dogfennau uchod hefyd yn nodi y ceisir defnyddio hawliau dros dro mewn perthynas â Lleiniau Rhif 2-06, 9-25, 13-13, 17-34 a 19-06; tra ceisir caffael hawliau yn barhaol mewn perthynas â Lleiniau Rhif 1-01, 1-01a, 1-02, 1-04, 1-06, 1-06a, 1-06b, 1-06c, 1a-01, 1a-02, 1a-03, 2-04a, 3-06, 5-08, 11-07, 12-06, 12-21, 13-01, 13-02, 13-03, 13-04, 13-05, 13-06, 13-10, 13-11, 14-14a, 14-20, 14-22, 15-14, 16-28a, 16-29, 16-30, 17-17, 17-19 a 28-03.
- 8.7.499. Roedd y BoR [REP7-025] a'r Cynlluniau Tir [CR3-003] hefyd yn nodi'r rhifau lleiniau lle ceisir hawliau newydd, gyda'r dDCO yn Atodlen 8 (Tir lle gellir caffael hawliau newydd ac ati). Mae'r atodlen hon yn nodi'r rhifau lleiniau perthnasol, yn ogystal â'r hawliau newydd a geisir mewn perthynas â'r rhifau lleiniau hynny. O ran SPEN byddai'r hawliau newydd hyn yn berthnasol i leiniau rhif 1-01, 1-01a, 1-02, 1-03, 1-04, 1-06, 1-06a, 1-06b, 1-06c, 1a-01, 1a-02, 1a-03, 1a-04, 2-04a, 3-06, 5-08, 11-07, 12-06, 12-21, 13-01, 13-02, 13-03, 13-04, 13-05, 13-06, 13-06, 13-10, 13-11, 14-14A, 14-20, 14-22, 15-14, 16-28a, 16-29, 16-30, 17-17, 17-19 a 28-03 ar gyfer hawliau at ddibenion adeiladu, gosod, gweithredu, cynnal a datgomiynu'r datblygiad awdurdodedig ac i osod cyfamodau cyfyngol.
- 8.7.500. O ran TP, mae'r dDCO yn Atodlen 7 (Tir y gellir cymryd TP arno) yn pennu i ba leiniau y mae TP yn berthnasol, at ba ddiben y ceisir TP mewn perthynas â phob rhif llain a'r rhif gwaith sy'n berthnasol i bob llain lle ceisir TP. O ran yr AP hwn (SPEN) y rhifau llain hyn yw 1-06d, 1-08, 1-17, 2-04, 2-11, 4-11, 5-03, 9-05, 10-04a, 12-13, 12-16, 12-17, 14-14, 16-06a, 16-28, 17-16, 17-31, 17-37, 18-01, 18-13, 18-16, 19-04C, 20-

10a, 20-20, 25-08 a 27-02. Fel y nodir gan yr Ymgeisydd yn Atodlen 7 y dDCO, mae'r diben y ceisir pob llain ato yn amrywio, fel y nodir isod:

- Defnydd dros dro fel mynedfa adeiladu.
- Defnydd dros dro fel clos adeiladu ac ardal weithio.
- Defnydd dros dro ar gyfer rheoli traffig.
- Defnydd dros dro fel mynedfa adeiladu ac ardal weithio, ac ar gyfer dargyfeirio hawl tramwy cyhoeddus a chwrs dŵr.
- Defnydd dros dro fel mynedfa ac ardal waith adeiladu.
- Defnydd dros dro fel mynedfa adeiladu ac ardal waith.
- Defnydd dros dro fel ardal waith adeiladu a dargyfeirio hawl tramwy cyhoeddus.
- Defnydd dros dro fel clos adeiladu, ardal weithio a mynediad.
- Defnydd dros dro fel mynediad adeiladu a llain welededd.
- Defnydd dros dro fel ardal weithio.

Ymateb yr ExA

- 8.7.501. Ac eithrio'r Ymgeisydd yn cwblhau SoCG gyda SPEN [REP7-267], ni wnaed cyflwyniadau pellach y tu hwnt i'r RR gan SPEN yn ystod yr Archwiliad. Er i'r SoCG gadarnhau y cytunwyd ar PP, ni chadarnhaodd SPEN dynnu ei bryderon yn ôl.
- 8.7.502. Parhaodd yr Ymgeisydd i roi gwybod i'r ExA am gynnydd ar PP yn ystod yr Archwiliad, ac yn ystod ISH3 ([EV-028] i [EV-030] cadarnhaodd yr Ymgeisydd y daethpwyd i gytundeb â SPEN mewn perthynas â PP. Cadarnhawyd hyn hefyd yng 'Nghrynodeb ysgrifenedig o gyflwyniad llafar...' [REP7-292] yr Ymgeisydd ac yn y SoCG wedi'i gwblhau gan yr Ymgeisydd gyda SPEN [REP7-267] a gadarnhaodd y daethpwyd i gytundeb ar PP.
- 8.7.503. Ar ôl ystyried yr holl sylwadau a wnaed mewn perthynas â CA/TP, gan SPEN a'r Ymgeisydd, yn ogystal â'r manylion a nodwyd yn y Cynlluniau Tir [CR3-003] a'r BoR [REP7-025], nododd yr ExA fod PP wedi'u cytuno gyda'r Ymgeisydd.
- 8.7.504. Mae'r ExA yn fodlon bod y pwerau CA/TP a geisir dros y rhifau lleiniau uchod yn ofynnol i hwyluso a/neu'n anorfod i'r Datblygiad Arfaethedig a bod PP digonol ar waith i ddiogelu buddiannau SPEN yn hyn o beth. Felly, mae'n fodlon bod y pwerau a geisir yn bodloni'r amodau a nodir yn a122(2) Deddf Cynllunio 2008.
- 8.7.505. O ran buddion cyhoeddus, mae'r ExA o'r farn y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn darparu buddion cyhoeddus drwy:
- ddiwallu angen cyffredinol amlwg am y datblygiad arfaethedig a fyddai'n cynorthwyo'r DU yn uniongyrchol i gyrraedd nodau Sero Net, gan gynnwys cyfnodau datgarboneiddio trosiannol a'r cyllidebau carbon cysylltiedig a fabwysiadwyd yng Nghymru a Lloegr; a'r
 - achos economaidd-gymdeithasol amlwg a diwrthdro yn rhanbarthol a ledled y DU a wnaed gan yr Ymgeisydd, gan gynnig buddion diriaethol sylweddol i'r cyhoedd sy'n gysylltiedig â buddsoddiad uniongyrchol/anuniongyrchol a chreu swyddi dilynol.

- 8.7.506. I gloi, ystyrir bod y PP sy'n cael eu cynnwys yn yr rDCO sydd ynghlwm yn Atodiad D yr adroddiad hwn yn dderbyniol ac yn rhoi lefel briodol o ddiogelwch i SPEN o ran ei ymgymeriad statudol, ei dir, ac unrhyw gyfarpar. Maent hefyd yn sicrhau na fyddai'r Datblygiad Arfaethedig yn arwain at niwed difrifol i gynnal ymgymeriad SPEN. At hynny, mae'r ExA hefyd yn fodlon y byddai cynnwys pwerau mewn perthynas â dileu hawliau yn angenrheidiol at ddibenion cyflawni'r datblygiad. Fel y cyfryw, mae'r ExA o'r farn fod y profion a nodir yn a127 ac a138 Deddf Cynllunio 2008 yn cael eu bodloni.
- 8.7.507. Cred yr ExA hefyd y byddai'r manteision cyhoeddus a fyddai'n deillio o'r Datblygiad arfaethedig hwn yn gorbwyso unrhyw golled neu niwed a allai ddeillio o greu'r hawliau hyn yn orfodol. Yn unol â hynny, mae'n ystyried bod achos cymhellol er budd y cyhoedd o blaid cynnwys pwerau CA mewn perthynas â'r lleiniau a nodwyd a bod y prawf a nodir yn a122(3) hefyd yn cael ei fodloni.

Dŵr Cymru Welsh Water

- 8.7.508. Mynegodd DCWW bryderon ynghylch CA/TP yn ei RR [RR-023] yn ei rinwedd yn SU sy'n gyfrifol am garthffosiaeth a dŵr. Dywedodd fod ganddo nifer o asedau sy'n peri pryder a'i fod wedi cael gwybod o'r blaen am y cynigion fel rhan o drafodaethau cyn ymgeisio gyda'r Ymgeisydd.
- 8.7.509. Mae'r Ymgeisydd yn ceisio pwerau CA/TP ar y lleiniau a nodwyd yn Nhabl 4 yr adroddiad hwn. Fel y nodir yn y BoR [REP7-025] a'r Cynlluniau Tir [CR3-003] ceisir caffael tir yn barhaol mewn perthynas â lleiniau rhif 17-03, 17-21, 17-43, 17-44, 19-13 a 22-03; tra ceisir caffael is-wyneb yn barhaol mewn perthynas â lleiniau rhif 9-22, 10-04, 10-13, 10-16, 11-05, 11-06, 12-10, 12-20, 15-07, 15-08, 15-11, 15-12, 15-13, 16-05, 16-09A, 16-10, 16-11, 16-12, 16-13, 16-14, 16-15, 16-18, 16-19, 16-20, 16-22, 16-23, 16-24, 16-25, 16-26, 16-27, 17-06, 17-08, 17-12, 17-13, 17-20, 17-25, 17-26, 17-30, 17-32, 17-33, 17-36, 17-39, 17-40, 17-41, 17-42, 18-02, 18-03, 18-04, 18-05, 18-10, 18-11, 18-14, 18-22, 18-23, 18-24, 18-25, 18-26, 18-27, 18-32, 18-33, 19-05, 19-08, 19-08, 19-12, 20-01, 20-02, 20-03, 20-04, 20-05, 20-06, 20-27, 21-02, 22-01, 22-05, a 36-01.
- 8.7.510. Yn ogystal, roedd y dogfennau uchod hefyd yn nodi bod angen defnyddio hawliau dros dro mewn perthynas â Lleiniau Rhif 13-18, 16-01 a 17-34; tra ceisir caffael hawliau yn barhaol mewn perthynas â Lleiniau Rhif 11-07, 15-09, 16-28a, 16-29, 16-30 a 17-17.
- 8.7.511. Roedd y BoR [REP7-025] a'r Cynlluniau Tir [CR3-003] hefyd yn nodi'r rhifau lleiniau lle ceisir hawliau newydd, gyda'r dDCO yn Atodlen 8 (Tir lle gellir caffael hawliau newydd ac ati). Mae'r atodlen hon yn nodi'r rhifau lleiniau perthnasol, yn ogystal â'r hawliau newydd a geisir mewn perthynas â'r rhifau lleiniau hynny. O ran DCWW byddai'r hawliau newydd hyn yn berthnasol i leiniau rhif 11-07, 15-09, 16-28a, 16-29, 16-30 a 17-17 ar gyfer hawliau at ddibenion adeiladu, gosod, gweithredu, cynnal a chadw a datgomisiynu'r datblygiad awdurdodedig ac i osod cyfamodau cyfyngol.

8.7.512. O ran TP, mae'r dDCO yn Atodlen 7 (Tir y gellir cymryd TP arno) yn pennu i ba leiniau y mae TP yn berthnasol, at ba ddiben y ceisir TP mewn perthynas â phob rhif llain a'r rhif gwaith sy'n berthnasol i bob llain lle ceisir TP. O ran yr AP hwn (DCWW) y rhain yw lleiniau rhif 10-04a, 10-14, 10-15, 10-17, 11-01, 16-01, 16-11, 16-17, 17-05, 17-16, 17-37, 17-38, 18-01, 18-13, 18-17, 20-10, 20-10a, 21-03, 22-02, 22-04 a 28-02. Fel y nodir gan yr Ymgeisydd yn Atodlen 7 y dDCO, mae'r diben y ceisir pob llain ato yn amrywio, fel y nodir isod:

- TP ar gyfer rheoli traffig.
- Defnydd dros dro fel mynedfa adeiladu.
- Defnydd dros dro fel mynedfa adeiladu ac ardal weithio, ac ar gyfer dargyfeirio hawl tramwy cyhoeddus a chwrs dŵr.
- Defnydd dros dro fel ardal weithio.
- Defnydd dros dro fel mynedfa ac ardal waith adeiladu.
- Defnydd dros dro fel mynedfa adeiladu ac ardal waith.
- Defnydd dros dro fel ardal weithio, mynedfa, a dargyfeirio hawl tramwy cyhoeddus.
- Defnydd dros dro fel clos adeiladu, ardal weithio a mynediad.
- Defnydd dros dro fel mynedfa adeiladu a llain welededd.
- Defnydd dros dro fel mynedfa ac ardal weithio.
- Defnydd dros dro fel clos adeiladu ac ardal weithio.
- Defnydd dros dro ar gyfer mynedfa ac i'w hadeiladu.

Ymateb yr ExA

8.7.513. Ac eithrio'r Ymgeisydd yn cwblhau SoCG gyda DCWW [REP7-267], fel y'i cyflwynwyd yn DL7, ni wnaed unrhyw gyflwyniadau pellach y tu hwnt i'r RR gan DCWW yn ystod yr Archwiliad. Mae'r SoCG yn cadarnhau y cytunwyd ar bob mater a gynhwysir ynddo, ac eithrio mewn perthynas â PP. Yn wir, mewn perthynas â:

- gofyniad tir cytunwyd bod "*y Partïon yn ceisio penderfynu, lle bo'n berthnasol, ar hawliau a defnydd tir...*" ac y "*... byddant yn ceisio cytundeb lle bo angen ac y buont yn ymgysylltu drwy gydol y cyfnodau cyn ymgeisio ac archwilio. Bydd yr ymgysylltu hwn yn parhau yn ystod cyfnod dylunio manwl.*" ([REP7-267] Tabl 3.1 o dan y pennawd 'Tir')
- asedau DCWW cytunwyd bod "*yr Ymgeisydd yn cydnabod pryderon DCWW yn ymwneud â'i asedau niferus fel ymgymwr statudol carthffosiaeth a dŵr.*" Cytunwyd hefyd fod "*yr Ymgeisydd wedi ceisio trafodaethau parhaus i ymgysylltu â DCWW drwy gydol y broses Ymgeisio...*" ac y "*bydd yr Ymgeisydd yn parhau yn briodol cyn belled ag y bo'n ymarferol i sicrhau bod asedau DCWW yn cael eu diogelu.*" Mae hefyd yn cytuno bod "*yr Ymgeisydd wedi cymryd rhan drwy gydol yr archwiliad gyda DCWW o ran darpariaethau amddiffynnol a diogelu asedau...*" ([REP7-267] Tabl 3.2).

8.7.514. Fel y cyfryw, ni phenderfynwyd o hyd ar fater PP, er bod yr ExA wedi nodi bod y SoCG [REP7-266] yn Nhabl 2.1 yn darparu 'Cofnod o Ymgysylltu mewn perthynas â'r Datblygiad Arfaethedig sy'n dangos y bu'r Ymgeisydd yn ymgysylltu'n weithredol â DCWW ynghylch cyd-drafod PP.

- 8.7.515. Yn wir, bu'r Ymgeisydd yn rhoi gwybod o hyd i'r ExA am gynnydd ar PP yn ystod yr Archwiliad, ac yn ystod ISH3 ([EV-028] i [EV-030] rhoddodd yr Ymgeisydd wybod am y sefyllfa bresennol o ran trafodaethau gyda DCWW mewn perthynas â PP. Cadarnhawyd hyn hefyd yng 'Nghrynodeb ysgrifenedig o gyflwyniad llafar...' [REP7-292] yr Ymgeisydd, lle mae'n cyngori bod *"yr Ymgeisydd wedi rhoi darpariaethau drafft i Dŵr Cymru ar ei gais ond heb gael unrhyw sylwadau arnynt ac nid yw Dŵr Cymru wedi darparu unrhyw ddrafftio amgen. Mae'r fersiwn a gynhwysir yn briodol yn cyd-redeg yn uniongyrchol â'r amddiffyniadau safonol ar gyfer ymgwymerwyr dŵr a charthffosiaeth."* (paragraff 22.1).
- 8.7.516. Roedd llythyr Rheol 17 yr ExA [PD-028], dyddiedig 14 Medi 2023, yn gofyn am ragor o wybodaeth am gynnydd ar PP ac roedd 'Ymateb yr Ymgeisydd i gais am wybodaeth bellach Rheol 17' [REP9-012] yn cadarnhau bod *"Y sefyllfa yn parhau fel y nodir yn niweddariad yr Ymgeisydd ar ddrafftio DCO [REP7-294]... a gyflwynwyd yn DL7. Darparodd yr Ymgeisydd ddarpariaethau drafft i Dŵr Cymru ar ei gais ond nid yw wedi cael unrhyw sylwadau arnynt ac nid yw Dŵr Cymru wedi codi unrhyw wrthwynebiad i'r geiriad nac wedi darparu unrhyw ddrafftio amgen."* Dywedodd yr Ymgeisydd hefyd *"Mae'r fersiwn a gynhwysir yn briodol yn cydreddeg yn uniongyrchol â'r amddiffyniadau safonol ar gyfer ymgwymerwyr dŵr a charthffosiaeth... yn briodol mae'n cyflwyno na all unrhyw niwed difrifol godi gan fod yr holl amddiffyniadau safonol yn eu lle."*
- 8.7.517. Heb ystyried yr uchod, nid oedd DCWW wedi dileu'r pryder a amlygwyd yn ei RR [RR-023] cyn i'r Archwiliad gau.
- 8.7.518. Ar ôl ystyried yr holl sylwadau a wnaed mewn perthynas â CA/TP, gan DCWW a'r Ymgeisydd, yn ogystal â'r manylion a nodwyd yn y Cynlluniau Tir [CR3-003] a'r BoR [REP7-025], mae'n amlwg i'r ExA fod trafodaethau ynghylch PP wedi gwneud cynnydd. Yn wir, byddai'n ymddangos i'r ExA fod y PP a ddarparwyd i DCWW ac a ymgorfforwyd yn fersiynau terfynol y dDCO yn cydsynio â'r PP safonol ar gyfer ymgwymerwyr dŵr a charthffosiaeth ac felly ni fydd unrhyw niwed difrifol yn codi mewn perthynas â thir, cyfarpar neu ymgwymeriad statudol DCWW.
- 8.7.519. Mae'r ExA yn fodlon bod y pwerau CA/TP a geisir dros y rhifau lleiniau a nodwyd uchod yn ofynnol i hwyluso a/neu'n anorfod i'r Datblygiad Arfaethedig ac y bydd y PP o fewn y dDCOs yn diogelu buddiannau DCWW yn hyn o beth. Felly, mae'r ExA yn fodlon bod y pwerau a geisir yn bodloni'r amodau a nodir yn a122(2) Deddf Cynllunio 2008.
- 8.7.520. O ran buddion cyhoeddus, mae'r ExA o'r farn y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn darparu buddion cyhoeddus drwy:
- ddiwallu angen cyffredinol amlwg am y datblygiad arfaethedig a fyddai'n cynorthwyo'r DU yn uniongyrchol i gyrraedd nodau Sero Net, gan gynnwys cyfnodau datgarboneiddio trosiannol a'r cyllidebau carbon cysylltiedig a fabwysiadwyd yng Nghymru a Lloegr; a'r
 - achos economaidd-gymdeithasol amlwg a diwrthdro yn rhanbarthol a ledled y DU a wnaed gan yr Ymgeisydd, gan gynnig buddion diriaethol

sylweddol i'r cyhoedd sy'n gysylltiedig â buddsoddiad uniongyrchol/anuniongyrchol a chreu swyddi dilynol.

- 8.7.521. I gloi, ystyrir bod y PP sy'n cael eu cynnwys yn yr rDCO sydd ynghlwm yn Atodiad D yr adroddiad hwn yn dderbyniol ac yn rhoi lefel briodol o ddiogelwch i DCWW o ran ei ymgymeriad statudol, ei dir, ac unrhyw gyfarpar. Maent hefyd yn sicrhau na fyddai'r Datblygiad Arfaethedig yn arwain at niwed difrifol i barhau ymgymeriad DCWW. At hynny, mae'r ExA hefyd yn fodlon y byddai cynnwys pwerau mewn perthynas â dileu hawliau yn angenrheidiol at ddibenion cyflawni'r datblygiad. Fel y cyfryw, mae'r ExA o'r farn fod y profion a nodir yn a127 ac a138 Deddf Cynllunio 2008 yn cael eu bodloni.
- 8.7.522. Cred yr ExA hefyd fod y manteision cyhoeddus a fyddai'n deillio o'r Datblygiad arfaethedig hwn yn gorbwyso unrhyw golled neu niwed a allai ddeillio o greu'r hawliau hyn yn orfodol. Yn unol â hynny, ystyrir fod achos cymhellol er budd y cyhoedd i bwerau CA gael eu cynnwys mewn perthynas â'r lleiniau a nodwyd a bod y prawf a nodir yn a122(3) hefyd yn cael ei fodloni.

8.8. TIR CATEGORI ARBENNIG

- 8.8.1. Nid yw unrhyw ran o'r tir sydd wedi'i gynnwys yn y cais CA yn Dir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol neu'n Dir Comin. Fodd bynnag, mae yno dir Man Agored ac mae buddiannau'r Goron o fewn Terfynau'r Gorchymyn. Nodir un ardal o dir man agored yn Rhan 5 o'r BoR [REP7-025] ac fe'i dangosir yng Nghynllun Tir Categori Arbennig yr Ymgeisydd [REP7-008]. Yn ogystal, nodir buddiannau'r Goron yn Rhan 4 o'r BoR [REP7-025] ac fe'u dangosir ar Gynlluniau Tir y Goron [CR3-004]. Mae'r adran hon yn mynd i'r afael ag ystyriaeth yr ExA o achos yr Ymgeisydd a'r materion a godwyd yn ystod yr Archwiliad mewn perthynas â'r Tir Categori Arbennig a nodwyd a Thir y Goron.

MANNAU AGORED

- 8.8.2. Mae adrannau 131 a 132 o Ddeddf Cynllunio 2008 yn berthnasol i gaffael gorfodol tir comin, man agored neu randiroedd gardd gae neu danwydd. Yn yr holl achosion hyn, mae Deddf Cynllunio 2008 yn nodi y byddai gorchymyn sy'n rhoi caniatâd datblygu yn destun Gweithdrefn Seneddol Arbennig (SPP) oni bai bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon bod un o'r isadrannau berthnasol yn berthnasol a bod y ffaith honno wedi'i chofnodi yn y Gorchymyn.
- 8.8.3. Mae'r Ymgeisydd yn ceisio CA isbridd a hawliau mewn perthynas â llain rhif (17-02), y mae'r Ymgeisydd yn cyfeirio ati fel Maes Chwarae Aston Hill. Nodir manylion y CA a geisir ar gyfer y tir man agored hwn yn yr SoR [REP7-021] (paragraffau 7.1.1 i 7.1.14 (cynhwysol)), ond yn gyffredinol mae'n nodi bod angen CA mewn perthynas â'r holl ystadau a buddiannau mewn tir o dan yr wyneb a hawliau uchod ar gyfer adeiladu, gweithredu, cynnal a chadw a datgomisiynu'r datblygiad awdurdodedig.
- 8.8.4. Mae'r llain hon y tu cefn i eiddo preswyl ar ochr ogledd-orllewin Vickers Close, Penarlâg. Glaswellt ydyw'n bennaf ond mae ganddi offer chwarae

tuag at y pen gogledd-orllewin. Mae gerddi cefn yr eiddo preswyl cyfagos yn Vickers Close, Penarlâg i ochr dde-ddwyrain y llain; tra bod y caeau sy'n gorwedd i'r gogledd-ddwyrain a'r de-orllewin yn amaethyddol eu natur.

8.8.5. Gofynnodd yr ExA nifer o gwestiynau yn ystod ExQ mewn perthynas â CA Man Agored (ExQ1 [PD-014] C1.1.4 a C1.6.17; ac ExQ3 [PD-027] C3.6.3, C3.6.4, C3.6.5 a C3.6.6.6). Yng ngoleuni'r cwestiynu hwn, amlygodd yr Ymgeisydd wahaniaeth rhwng CA y tir a'r DCO sy'n ceisio CA is-wyneb (SoR [REP7-021] paragraff 7.1.4). Cynghorodd yr ymgeisydd:

- *"Ni fydd unrhyw ymyrraeth â'r defnydd arwyneb ac felly ni fydd unrhyw ymyrraeth â'r defnydd man agored."*
- *"Mae llain 17-02 yn cael ei defnyddio fel lle chwarae ac mae'r Ymgeisydd yn cynnig defnyddio technegau gosod heb ffosydd i adeiladu'r biblinell oddi tano heb ymyrryd â defnydd hamdden yr arwyneb."*
- *"Ni fyddai'r biblinell y ceisir pwerau caffael ar ei chyfer... yn rhwystro'r defnydd man agored..."*

8.8.6. Nododd yr Ymgeisydd hefyd fod hawliau hefyd yn cael eu ceisio am gysylltiad draenio, a fyddai'n cynnwys ychydig o fân waith byrhoedlog ar yr wyneb yno ac y bu'n ystyried CA yr hawliau hynny o ran cysylltiad draenio mewn perthynas ag a132 Deddf Cynllunio 2008.

8.8.7. O ran CA tir / CA iswyneb, mae'n amlwg o gyflwyniadau'r Ymgeisydd y byddai CA arfaethedig is-wyneb yn cydymffurfio ag a.131(5) o Ddeddf Cynllunio 2008 yn yr ystyr ganlynol:

- ni fyddai lled yr is-haen a gymerir trwy gaffael rhydd-ddaliad Llain rhif 17-02 yn ddim mwy nag 8m a chyda'r cyfryw "... gyfyngiad lled... ni fydd yr holl ardal is-haen rydd-ddaliadol sydd i'w chaffael yn fwy na 200 metr sgwâr"; ac
- mae'r rhoi yn gyfnewid am dir arall yn ddiangen, p'un ai er budd y personau, os o gwbl, sydd â hawl i hawliau comin neu hawliau eraill neu er budd y cyhoedd oherwydd:
 - Bydd y tir sydd i'w gaffael o dan yr wyneb, hyd at ddyfnder o 1.2m o leiaf, er yn ymarferol mae'r groesfan ddi-ffos i'w defnyddio yn debygol o olygu ei fod yn ddyfnach.
 - Ni fydd cymryd 8m o is-haen rydd-ddaliadol yn cael unrhyw effaith ymarferol ar ddefnyddwyr y man agored.
 - Ni all fod unrhyw effaith ar ddefnyddio arwyneb y man agored ar ei ffurf bresennol gan y bydd y biblinell o dan y ddaear ac mae holl ddefnyddiau gweithredol cyfredol a phosibl y man agored ar yr wyneb neu ger yr wyneb.

8.8.8. O gofio'r uchod, mae'r Ymgeisydd yn cynnig "... bod rhoi tir cyfnewid ... yn ddiangen, gan ystyried buddiannau'r rhai sydd â hawl i ddefnyddio'r tir man agored a (i'r graddau eu bod yn wahanol) buddiannau'r cyhoedd." (Ymateb yr Ymgeisydd i Drydydd Cwestiwn Ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio [REP7-291] yn Q3.6.4).

- 8.8.9. O ran dwy gangen y prawf, fel y'u nodir yn a.131(5) o Ddeddf Cynllunio 2008, ni all yr ExA weld unrhyw reswm i anghytuno â'r dadleuon a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd yn hyn o beth gan nad yw tir y gorchymyn yn fwy na 200 metr sgwâr o ran maint a bod cyfnewid tir arall yn ddiangen, p'un ai er budd y personau, os o gwbl, sydd â hawl i hawliau comin neu hawliau eraill neu er budd y cyhoedd.
- 8.8.10. Fel y cyfryw, daw'r ExA i'r casgliad nad oes angen SPP o dan a131 Deddf Cynllunio 2008, gan y byddai'r Datblygiad arfaethedig yn cydymffurfio â dwy gangen y prawf, fel y nodir yn a.131(5) Deddf Cynllunio 2008, ac mae'r Ymgeisydd wedi cofnodi'r ffaith honno, a'r isadran dan sylw, o fewn y dDCO (gweler tudalen 4 o fersiynau terfynol y dDCO).
- 8.8.11. Gan droi at y CA hawliau, mae a132 Deddf Cynllunio 2008 yn berthnasol i CA hawliau dros dir sy'n rhan o fan agored. Mae'n ei gwneud yn ofynnol dilyn SPP lle bo DCO yn awdurdodi CA hawliau dros dir o'r fath oni bai bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon bod un o'r eithriadau yn a132(3) i (5) yn gymwys.
- 8.8.12. Mae adran 132(3) yn gymwys os na fydd tir y Gorchymyn, o dan faich hawl y gorchymyn, yn llai manteisiol o gwbl nag ydoedd o'r blaen i'r personau y mae'n eiddo iddynt, person arall, os o gwbl, sydd â hawl i hawliau comin neu hawliau eraill a'r cyhoedd.
- 8.8.13. Barn yr ymgeisydd yw y byddai CA hawliau dros dir sy'n rhan o'r man agored yn cael ei eithrio rhag cymhwyso'r SPP yn rhinwedd a132(3). Mae'n nodi ei fod yn ceisio hawliau i osod y biblinell, yn ogystal â gosod a defnyddio draen (gan geisio cael cysylltiad draenio o BVS Aston Hill i'w adeiladu yn llain 17-03 (Gwaith Rhif 36) i'r ddraen bresennol yn llain 17-01), o dan dir man agored dros Lain 17-02 ac er mwyn diogelu'r biblinell mae nifer o gyfamodau cyfyngol dros wyneb y tir yn cael eu ceisio.
- 8.8.14. Pwrpas y cyfamodau cyfyngol fyddai atal gweithgareddau ar yr wyneb a fyddai'n peryglu'r biblinell (e.e. byddai gweithgareddau cyfyngedig yn cynnwys adeiladu, plannu coed dros ardal y biblinell, yn ogystal â hawliau eraill y mae wedi'u nodi yn yr SoR [REP7-021] yn Nhabl 2). Mae'r Ymgeisydd yn dadlau y byddai'r cyfamodau cyfyngol a fwriadwyd yn gwbl gydnaws â'i ddynodiad fel man agored ac ni fyddai unrhyw ymyrraeth â'r defnyddiau presennol, gan gynnwys defnydd y man agored a'r lle chwarae a all ymgymryd â'i weithgareddau rheolaidd, gan gynnwys gwaith cynnal a chadw parhaus.
- 8.8.15. Mae'r Ymgeisydd yn cynnig, yn achos yr hawliau draenio, bod a132(3) Deddf Cynllunio 2008 hefyd yn berthnasol oherwydd, er y bydd rhywfaint o darfu dros dro ar ddefnyddio man agored yn ystod y gwaith adeiladu, pan fydd y ddraen wedi'i gosod, ni fydd unrhyw effaith barhaus ac ni fydd caffael yr hawliau a geisir yn gwneud y man agored yn llai manteisiol nag ydyw ar hyn o bryd i'w berchennog na'r cyhoedd. Fel y cyfryw, mae a132(3) Deddf Cynllunio 2008 yn berthnasol ac nid yw SPP yn ofynnol.
- 8.8.16. Ni chododd unrhyw IP unrhyw bryderon mewn perthynas â man agored a gofynnodd yr ExA gwestiynau ysgrifenedig (ExQ1 [PD-014] C1.1.4 a

C1.6.17; ac ExQ3 [PD-027] C3.6.3, Q3.6.4, C3.6.5 a C3.6.6.6) ynghylch mater man agored ac roedd yn fodlon â'r ymatebion. Mae hyn yn cynnwys ymatebion gan yr Ymgeisydd [REP2-038] a [REP7-291].

8.8.17. Yn seiliedig ar yr uchod, daw'r ExA i'r casgliad nad yw SPP o dan a132 Deddf Cynllunio 2008 yn berthnasol oherwydd:

- o dan faich hawliau'r Gorchymyn, ni fyddai'r tir man agored yn llai manteisiol o gwbl nag ydoedd o'r blaen, yn unol ag a132(3) Deddf Cynllunio 2008; ac
- mewn perthynas ag a132(2)(b) Deddf Cynllunio 2008, mae'r Ymgeisydd wedi cofnodi hyn o fewn y dDCO (gweler tudalen 4 y fersiynau terfynol o'r dDCO).

TIR Y GORON

8.8.18. Mae adran 135(1) Deddf Cynllunio 2008 yn atal CA buddiannau yn Nhir y Goron oni bai bod y tir yn cael ei ddal "*heblaw gan y Goron neu ar ran y Goron*", a bod awdurdod priodol y Goron yn cydsynio i'r caffaeliad.

8.8.19. Mae adran 135(2) yn gwahardd DCO rhag cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n berthnasol i Dir y Goron neu hawliau'r Goron heb gydsyniad gan awdurdod priodol y Goron. Nid yw hyn wedi'i gyfyngu i ddarpariaethau CA mewn DCO.

8.8.20. Mae'r BoR [REP7-025] yn nodi lleiniau sy'n destun buddiannau'r Goron, a ddelir gan:

- Ei Ardderchocaf Fawrhydi'r Brenin yn Hawl ei Goron yn llain rhif 22-04 (mewn perthynas â mwyngloddiau a mwynau);
- Yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Amddiffyn yn:
 - lleiniau rhif 6-26, 7-07, 7-08, 7-09, 8-01, 8-02 ac 8-16 (mewn perthynas â chyfarpar);
 - lleiniau rhif 22-06, 22-07, 22-08, 22-09 a 22-10 (mewn perthynas â hawliau a roddwyd gan Weithred dyddiedig 20 Rhagfyr1948); a
- Gweinidogion Cymru yn:
 - lleiniau rhif 17-22, 17-24, 19-10, 19-11, 20-01, 20-02, 20-03 a 20-05;
 - llain rhif 18-26 (mewn perthynas â hawliau a roddwyd gan Weithred dyddiedig 27 Rhagfyr 1984),
 - lleiniau rhif 19-12 a 20-06 (mewn perthynas ag isbridd hyd at hanner lled y briffordd).

8.8.21. Mae'r Rhifau Gwaith wedi'u nodi isod ac yn dangos rhifau'r lleiniau fel y maent yn ymwneud â phob un:

- Gwaith Rhif 15 (Gwaith Piblinell CO₂) – llain rhif 6-26.
- Gwaith Rhif 16 (Gwaith Piblinell CO₂) – llain rhif 7-07.

- Gwaith Rhif 17
rhif 7-07, 7-08, 7-09 ac
8-01. (Gwaith Piblinell CO₂) – llain
- Gwaith Rhif 17A
rhif 7-07 a 7-08. (Mynediad Parhaol) – llain
- Gwaith Rhif 17B
rhif 7-08 a 7-09. (Mynediad Parhaol) – llain
- Gwaith Rhif 18
rhif 8-01. (Gwaith Piblinell CO₂) – llain
- Gwaith Rhif 18A
rhif 8-02. (Mynediad Dros Dro) – llain
- Gwaith Rhif 19
rhif 8-16. (Gwaith Piblinell CO₂) – llain
- Gwaith Rhif 39
rhif 17-22 a 17-24. (Gwaith Piblinell CO₂) – llain
- Gwaith Rhif 42
rhif 18-26. (Gwaith Piblinell CO₂) – llain
- Gwaith Rhif 44
rhif 19-10, 19-11, 19-12,
20-01, 20-02, 20-03, 20-05
ac 20-06). (Gwaith Piblinell CO₂) – llain
- Gwaith Rhif 49
rhif 22-04. (Mynediad Parhaol) – llain
- Gwaith Rhif 50
rhif 22-06, 22-07, 22-08,
22-09 a 22-10). (Gwaith Piblinell CO₂) – llain

- 8.8.22. Dangosir maint y tir sy'n eiddo i'w Ardderchocaf Fawrhydi'r Brenin yn Hawl ei Goron, neu y mae buddiant y Goron ynddo, ar Gynlluniau Tir y Goron [CR3-004].
- 8.8.23. Roedd yr Ymgeisydd yn Atodiad 2 o'i lythyr eglurhaol DL7 [REP7-001] yn darparu copi o awdurdod angenrheidiol y Goron, gan y Weinyddiaeth Amddiffyn ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer amddiffyn, yn unol ag a135(1) ac a135(2) Deddf Cynllunio 2008. Roedd Gweinidogion Cymru [AS-081] ac Ystâd y Goron ar ran Ei Ardderchocaf Fawrhydi'r Brenin yn Hawl Ei Goron [REP9-016] yn darparu awdurdod angenrheidiol y Goron, yn unol ag a135(1) ac a135(2) Deddf Cynllunio 2008 ar 20 Medi 2023.
- 8.8.24. Yng ngoleuni'r uchod, mae'r ExA yn fodlon bod awdurdod angenrheidiol y Goron wedi'i sicrhau mewn perthynas â Thir y Goron a/neu hawliau'r Goron, sy'n gyson â'r BoR [REP7-025], ac yn unol ag a135(1) ac a135(2) Deddf Cynllunio 2008.

8.9. YSTYRIAETHAU DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A DEDDF CYDRADDOLDEB 2010

- 8.9.1. Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn ymgorffori'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yng nghyfraith y DU. Mae Atodlen 1 o'r Ddeddf yn nodi'r Erthyglau. Mae Erthygl 6 (hawl i brawf teg), Erthygl 8 (hawl i barch at fywyd preifat a theuluol) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (amddiffyn eiddo) yn gysylltiedig.

- 8.9.2. Mewn perthynas ag Erthygl 6 (hawl i brawf teg), mae'r Ymgeisydd yn nodi y bu cyfle i gyflwyno sylwadau wrth baratoi'r cais ac yr ymgynghorwyd â pherchnogion y tir. Bu cyfle hefyd i gyflwyno sylwadau yn ystod yr Archwiliad.
- 8.9.3. Ar ben hynny, sicrhaodd yr ExA fod pob AP a oedd am gael ei glywed wedi cael cyfle i gael ei glywed yn llawn, yn deg ac yn gyhoeddus yn y CAH, a gynhaliwyd ar wahanol ddiwrnodau ac mewn gwahanol leoliadau. Cynhaliwyd CAH1 ar 7 Mehefin 2023 yn Ewole, Sir y Fflint ac eisteddodd mewn tair sesiwn, (Sesiwn 1 CAH1 [EV-014], Sesiwn 2 CAH1 [EV-015] a Sesiwn 3 CAH1 [EV-016]), tra cynhaliwyd CAH2 ar 10 Awst 2023 yng Nghaer, Swydd Gaer ac eisteddodd mewn dwy sesiwn (Sesiwn 1 CAH2 [EV-034] a Sesiwn 2 CAH2 [EV-035]). Ystyria'r ExA fod yr holl gyfleoedd uchod i gyflwyno sylwadau yn ddigonol i fodloni'r rhwymedigaethau a nodir yn Erthygl 6 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998.
- 8.9.4. O ran Erthygl 8 (hawl i barch at fywyd preifat a theuluol) nododd yr Ymgeisydd, yn ei SoR [REP7-021], fod yr erthygl hon yn amddiffyn bywyd preifat a theuluol, cartref a gohebiaeth. Mae hefyd yn cydnabod na all unrhyw awdurdod cyhoeddus ymyrryd â'r hawliau hyn ac eithrio yn unol â'r gyfraith, a chyn belled ag sy'n angenrheidiol er budd diogelwch cenedlaethol, diogelwch y cyhoedd, neu les economaidd y wlad. Yn hyn o beth, mae'r Ymgeisydd yn dadlau ei fod wedi ystyried posibilrwydd torri'r hawliau hyn o ganlyniad i gynnwys pwerau CA o fewn y Gorchymyn ac mae'n amlygu y byddai buddion cyhoeddus sylweddol iawn yn deillio o roi'r Gorchymyn.
- 8.9.5. Wrth ystyried y buddion cyhoeddus hyn, sy'n cynnwys (er enghraifft):
- Sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau allweddol a geir o fewn NPS EN-1 a NPS EN-4 (yn ogystal â pholisïau NPS EN-1 a NPS EN-4 drafft sy'n dod i'r amlwg, yr ystyrir eu bod yn bwysig ac yn berthnasol).
 - Cludo CO₂ o ddiwydiannau sy'n allyrru nwyon tŷ gwydr a'r cyfraniad cyffredinol y bydd hyn yn ei wneud at leihau CO₂ yn yr atmosffer a gwneud cyfraniad sylweddol at yr ymdrech ryngwladol, genedlaethol a lleol yn erbyn yr argyfwng hinsawdd.
 - Bydd y Datblygiad Arfaethedig yn helpu'r Llywodraeth i gyrraedd ei thargedau ar gyfer dal carbon ac yn cynorthwyo i arwain at economi wedi'i datgarboneiddio yn gyflymach.
 - Y potensial i ddal 10MtCO₂ y flwyddyn erbyn dechrau'r 2030au, a fyddai'n cyfateb i gymryd 4 miliwn o geir oddi ar y ffordd neu'r hyn sy'n cyfateb i wresogi 5 miliwn o aelwydydd â boeleri nwy naturiol am flwyddyn. (Gan gyrraedd nod 2026 a osodwyd gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd flwyddyn yn gynnar a chyfrannu'n sylweddol at darged dal a storio 20-30 MtCO₂ y flwyddyn).
 - Cynorthwyo i gyrraedd y targedau uchelgeisiol ond hollbwysig a osodwyd gan Ddeddf Newid Hinsawdd 2008 (fel y'i diwygiwyd) a gosod y ffordd ymlaen i glystyrau diwydiannol eraill yn y DU a thramor i ddatgarboneiddio diwydiant a'r economi, gan nodi bod y Datblygiad Arfaethedig wedi'i gydnabod gan y Llywodraeth fel rhan o'i phroses Pennu Dilyniant o Glystyrau Trac-1 (BEIS, 2021).

- Bydd effeithiau lleol a rhanbarthol buddiol sylweddol yn deillio o'r gyflogaeth uniongyrchol, anuniongyrchol ac a ysgogwyd a grëir gan gam adeiladu'r Datblygiad Arfaethedig
- Manteision darparu a chyflenwi cyson drwy ddarparu'r biblinell CO₂, a fyddai'n gallu gwrthsefyll oedi trafndiaeth ar y ffyrdd, tywydd garw, neu weithredu diwydiannol.
- Manteision ehangach i economi'r DU gyfan.

8.9.6. Mae'n amlwg i'r ExA na fydd y buddion hyn yn cael eu gwireddu oni bai bod y Gorchymyn yn cyd-daro â rhoi pwerau CA/TP ac, at ei gilydd, mae'n ystyried bod y buddion cyhoeddus sylweddol yn gorbwyso'r effeithiau ar bobl sy'n berchen ar fuddiannau mewn tir perthnasol neu y gallai'r Datblygiad Arfaethedig effeithio arnynt.

8.9.7. O ran Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (amddiffyn eiddo), nododd yr Ymgeisydd yn ei SoR [REP7-021] ei fod wedi ceisio lleihau faint o dir yr oedd angen pwerau CA a TP arno drosto. Mae hefyd yn dadlau, am y rhesymau a nodir yn union uchod, bod unrhyw achos o dorri hawliau dynol o ganlyniad i gynnwys pwerau CA a TP yn y DCO yn gymesur a chyfreithlon ac yn unol â chyfraith genedlaethol ac Ewropeaidd. Mae'r Ymgeisydd yn glir ei fod o'r farn y byddai budd cyhoeddus sylweddol yn deillio o roi'r DCO, a fyddai'n gorbwyso'r effeithiau ar bobl sy'n berchen ar eiddo o fewn tir y Gorchymyn.

8.9.8. Mae'r ExA yn cytuno. Mae'r hyn y mae wedi'i ddarganfod uchod yn dangos bod achos cymhellol er budd y cyhoedd dros gaffael yr holl dir a nodwyd yn orfodol, yn amodol ar ddatrys y materion eithriadol amrywiol a nodwyd uchod. At hynny, mae'r ExA yn fodlon y byddai'r ymyrraeth arfaethedig â hawliau unigolion yn gyfreithlon, yn angenrheidiol, yn gymesur ac yn gyfiawn er budd y cyhoedd.

8.9.9. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn sefydlu dyletswydd i ddileu gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a phersonau nad ydynt. Mae'r ExA wedi ystyried y ddyletswydd hon drwy gydol yr Archwiliad ac wrth ystyried y materion a godwyd yn yr adroddiad hwn.

8.10. CASGLIADAU

8.10.1. Ar ôl ystyried yr holl ddeunydd a gyflwynwyd i'r Archwiliad, mae'r ExA wedi dod i'r casgliadau canlynol:

- Mae safle'r cais wedi'i ddewis yn briodol.
- Mae'r holl ddewisiadau amgen rhesymol i CA wedi'u harchwilio.
- Mae'n amlwg bod angen i CA yr holl leiniau tir a nodwyd yn y BoR [REP7-025] ac y manylir arnynt yn y Cynlluniau Gwaith [REP7-007] ac, o ran hawliau newydd a geisir fel y nodir yn Atodlen 8 (Hawliau Newydd) y DCO a argymhellir (gweler Atodiad D yr adroddiad hwn), fod yn destun CA o ran hawliau newydd.
- Mae angen clir i'r holl leiniau tir a nodwyd yn Atodlen 7 (Tir y gellir cymryd TP arnynt) o'r DCO a argymhellir (gweler Atodiad D yr adroddiad hwn) ac fel y manylir yn y BoR [REP7-025] ac y disgrifir ar y Cynlluniau Gwaith [REP7-007] fod yn destun TP.

- Mae angen sicrhau'r tir a'r hawliau sy'n ofynnol i adeiladu'r datblygiad o fewn amserlen fasnachol resymol, ac mae'r datblygiad yn cynrychioli budd cyhoeddus sylweddol i'w ystyried yn y cydbwysedd.
- Mae'r golled breifat i'r rhai yr effeithiwyd arnynt wedi'i lliniaru trwy ddewis y tir a lleihau maint yr hawliau a'r buddiannau y bwriedir eu caffael.
- Mae'r pwerau a geisir yn bodloni'r amodau a nodir yn a122 ac a123 Deddf Cynllunio 2008 yn ogystal â Chanllawiau CA.
- Mae'r pwerau CA a geisir mewn perthynas ag SU yn bodloni'r amodau a nodir yn a127 ac a138 Deddf Cynllunio 2008 a Chanllawiau CA.
- Mae'r pwerau a geisir mewn cysylltiad â:
 - Man Agored yn cydsynio ag a132(3) yn yr ystyr pan fydd arno faich hawl y gorchymyn, ni fydd yn llai manteisiol o gwbl nag ydoedd o'r blaen i'r personau sy'n berchen arno, person arall, os o gwbl, sydd â hawl i hawliau comin neu hawliau eraill a'r cyhoedd; ac
 - mae hawliau'r Goron a/neu Dir y Goron yn unol ag a135(1) ac a135(2) Deddf Cynllunio 2008, fel awdurdod angenrheidiol y Goron, wedi'u cael gan y Weinyddiaeth Amddiffyn (a ddarperir yn Atodiad 2 o lythyr eglurhaol DL7 yr ymgeisydd [REP7-001], Gweinidogion Cymru [AS-081] ac Ystâd y Goron ar ran Ei Ardderchocaf Fawrhydi'r Brenin yn Hawl ei Goron [REP9-016], yn gyson â'r BoR [REP7-025].
- Byddai'r ymyrraeth â Hawliau Dynol yn gyfreithlon, yn angenrheidiol, yn gymesur ac yn gyfiawn er budd y cyhoedd ac fe'i hystyriwyd fel rhan o broses deg y mae iawndal ar gael ar ei chyfer am golli hawliau eiddo.
- Ni fyddai'r Datblygiad Arfaethedig, gan gynnwys o ran CA/TP, yn niweidio buddiannau pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig nac yn cael unrhyw effaith andwyol ar y berthynas rhwng personau o'r fath a phersonau nad ydynt yn rhannu nodwedd warchoddedig. Ar y sail honno, ni fyddai Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn cael ei thorri.

9. GORCHYMYN CANIATÂD DATBLYGU DRAFFT A MATERION CYSYLLTIEDIG

9.1. CYFLWYNIAD

- 9.1.1. Cyflwynwyd y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft (dDCO) [APP-024] a'r Memorandwm Esboniadol (EM) [APP-025] gan yr Ymgeisydd fel rhan o'r cais am ganiatâd datblygu. Diweddarwyd y dDCO a'r EM trwy gydol yr Archwiliad gyda dewis cyflwyno dau fersiwn ar Ddyddiad Cau (DL) 7. Roedd hyn oherwydd gwrthwynebiad Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn gysylltiedig â chroesi â ffos Nant Alltami, y Fersiwn a Ffefrir gan yr Ymgeisydd (APV) o'r DCO, nad oedd yn ystyried ei fod yn cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD).
- 9.1.2. Yn hynny o beth, y fersiynau diweddaraf o'r dDCO, a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd, oedd ei hoff dDCO Fersiwn Croesi â Ffos (TCV) [REP9-011]) a'r dDCO (Fersiwn Pont Biblinell Ymgorfforedig (EPBV) [REP8-007]. Cyflwynwyd EMs gyda'r ddau fersiwn, a'r EM ar gyfer y TCV (APV) oedd [REP7-017] a'r EM ar gyfer yr EPBV oedd [REP7-018]. Mae EMs ar gyfer y fersiynau priodol yn disgrifio pwrpas y dDCO, gyda phob un o'i erthyglau a'i atodlenni.
- 9.1.3. Mae dDCO y cais [APP-004], a'r fersiynau dilynol, yn seiliedig yn fras ar y Darpariaethau Enghreifftiol, fel y'u nodir yng Ngorchymyn Cynllunio Seilwaith (Darpariaethau Enghreifftiol) (Cymru a Lloegr) 2009 (sydd bellach wedi'i dynnu'n ôl), ond gyda gwahaniaethau. Mae'r EM gwreiddiol [APP-025] a'r fersiynau dilynol yn nodi ac yn egluro amrywiadau a wnaed yn y dDCO o'i gymharu â'r Darpariaethau Enghreifftiol. Daw'r amrywiadau hyn o'r drafftio a ddefnyddiwyd mewn gorchmynion eraill ar gyfer datblygiadau tebyg a wnaed o dan Ddeddf Cynllunio 2008, Deddf Trafnidiaeth a Gwaith 1992 a Deddfau eraill sy'n awdurdodi datblygu. Mae dDCO gwreiddiol y cais [APP-004] ac iteriadau dilynol (y fersiynau diweddaraf o'r dDCO yw'r TCV (yr APV) [REP9-011] a'r dDCO EPBV [REP8-007]) ar ffurf offeryn statudol fel sy'n ofynnol gan adran 117(4) Deddf Cynllunio 2008.
- 9.1.4. Yn ystod yr Archwiliad, cyflwynwyd nifer o ddrafftiau pellach o'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) gan yr Ymgeisydd yn ymgorffori newidiadau blaengar sy'n deillio o gwestiynau ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio (ExA), pwyntiau a wnaed gan Bartion â Buddiant (IP), ac o'r trafodion yn y gwrandawiaid DCO (Gwrandawiad Mater Penodol (ISH) 2 ac ISH3), a gynhaliwyd fel digwyddiadau cyfunol (yn bersonol ac yn rhithwir) ar 8 Mehefin 2023 (ISH2) a 10 Awst 2023 (ISH3). Nodir manylion y Gwrandawiaid hyn (ISH2 ac ISH3), gan gynnwys sawl rhan yr eisteddai pob ISH ynddi a phwy a gymerodd ran, uchod ym mharagraffau 1.4.18; 4.2.9; a 4.2.10.
- 9.1.5. Am y rhesymau a nodir ym Mhennod 5 uchod, mae'r ExA yn cydnabod y gwrthwynebiadau a godwyd gan CNC ac yn seiliedig ar yr egwyddor

ragofalus, mae o'r farn bod APV (y TCV) y dDCO yn annerbyniol. Mae hyn oherwydd gwrthwynebiad CNC a risg bosibl colli llif dŵr i'r ddaear o fewn Nant Alltami, gyda'r potensial i achosi dirywiad yng nghorff dŵr Nant Wepre, a pheidio â chydymffurfio â WFD. Felly, mae'r ExA wedi bwrw ymlaen ar sail EPBV y dDCO [REP8-007]), a gyflwynwyd yn D8, nad yw CNC yn gwrthwynebu iddo, gan nad yw'n ystyried ei fod yn torri WFD.

- 9.1.6. Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg o'r newidiadau a wnaed i'r dDCO yn ystod y broses Archwilio, rhwng dDCO y cais [APP-004] ac EPBV y dDCO [REP8-007], y mae'r ExA wedi'i gymryd fel y fersiwn terfynol, a gyflwynwyd yn DL8, am y rhesymau a nodir uchod. Yna mae'n ystyried newidiadau a wnaed i'r dDCO terfynol er mwyn cyrraedd y DCO (rDCO) a argymhellir yn Atodiad D i'r adroddiad hwn.
- 9.1.7. Nid yw'r ExA yn adrodd ar bob newid a wnaed yn y fersiynau o'r dDCO a ddiweddarwyd, gan fod rhai o ganlyniad i gamgymeriadau argraffyddol, gramadegol neu fân wallau eraill, yn fân newidiadau, yn adlewyrchu dogfennau wedi'u diweddarau, neu'n newidiadau er eglurder neu gysondeb yn dilyn trafodaeth rhwng yr Ymgeisydd a'r IP perthnasol, neu o ganlyniad i'w gwestiynau ysgrifenedig. Yn unol â hynny, ac er crynoder, mae'r ExA wedi canolbwyntio ar newidiadau allweddol a wnaed yn y fersiynau wedi'u diweddarau o'r dDCO.

9.2. Y DCO FEL Y GWNEIR CAIS AMDANO

- 9.2.1. Mae'r adran hon yn cofnodi strwythur y dDCO. Mae'n seiliedig ar EPBV y dDCO [REP8-007], y mae'r ExA wedi'i gymryd fel y fersiwn terfynol, ac mae fel a ganlyn:
- Mae Rhan 1, Erthygl 1 yn nodi sut y gellir dyfynnu'r Gorchymyn a phryd y daw i rym, tra bod Erthygl 2 yn nodi ystyr y gwahanol dermau, gan gynnwys y termau 'Cychwyn', 'Cadw' a 'Therfynau Gorchymyn'. Mae Erthygl 2 hefyd yn ehangu'r diffiniad o hawliau dros dir, yn diffinio mesuriadau fel rhai bras ac yn cadarnhau bod cyfeiriadau at waith yn cyfeirio at y gwaith a rifwyd yn Atodlen 1.
 - Mae Rhan 2, Erthyglau 3 i 5 yn rhoi caniatâd datblygu ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig ac yn caniatáu iddo gael ei adeiladu, ei gynnal a'i weithredu. Mae Erthygl 6 yn darparu terfynau gwriad, yn ochrol a fertigol, ac yn rhoi gradd resymol a chymesur o hyblygrwydd i'r ymgwymerwr wrth adeiladu'r Datblygiad Arfaethedig. Mae Erthygl 7 yn nodi pwy sydd â budd pwerau'r Gorchymyn a sut y gellir trosglwyddo'r pwerau hynny, tra bod Erthygl 8 yn ymwneud â chymhwyso ac addasu darpariaethau deddfwriaethol, gan gadarnhau pa ddarpariaethau statudol sy'n cael eu haddasu a'u cymhwysiad dilynol yng nghyd-destun arfer pwerau o dan y Gorchymyn. Mae Erthygl 9 yn nodi'r amddiffyniad i achosion mewn perthynas â niwsans statudol.
 - Mae Rhan 3, Erthyglau 10 i 19 yn darparu ar gyfer gwneud gwaith stryd gan yr Ymgeisydd neu berson sydd â budd y Gorchymyn i strydoedd ac o fewn strydoedd, y gallu i newid cynllun stryd;

datgymhwyso rhai darpariaethau o fewn Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991; cyfyngu dros dro ac atal yn barhaol hawliau tramwy cyhoeddus; cyfyngu dros dro ar ddefnydd strydoedd; y gallu i ffurfio a gosod ffyrdd mynediad; y gallu i ymrwymo i gytundebau gydag Awdurdod y Stryd; defnyddio ffyrdd preifat ar gyfer adeiladu; a, gyda chydysyniad yr awdurdod traffig perthnasol, gosod gorchymynion rheoleiddio traffig dros dro a pharhaol.

- Mae Rhan 4, Erthyglau 20 i 24 yn nodi pwerau atodol sy'n ymwneud â gollwng dŵr, cynnal a chadw gwaith draenio, awdurdod i arolygu ac ymchwilio i dir, y gallu i wneud gwaith amddiffynnol i adeiladau, a'r gallu i gael gwared ar weddillion dynol.
- Mae Rhan 5, Erthyglau 25 i 38 yn darparu i'r Ymgeisydd neu berson sydd â budd y Gorchymyn y gallu i:
 - gaffael tir y Gorchymyn, neu greu, atal, dileu neu ymyrryd â buddiannau mewn tir neu hawliau dros dir, tra hefyd yn atal caffael yr hawliau i unrhyw fwyngloddiau a mwynau o dan y tir a gafaelyd, oni bai eu bod wedi'u prynu'n benodol. Mae hefyd yn rhoi'r gallu i berchnogion mwyngloddiau weithio'r mwyngloddiau ac echdynnu mwynau, yn amodol ar gyfyngiadau;
 - gaffael tir, hawliau a chyfamodau cyfyngol yn orfodol ac yn pennu terfynau amser ar gyfer arfer yr awdurdod hwnnw;
 - diystyru hawddfrentiau a hawliau eraill;
 - atal a gwneud hawliau preifat presennol neu gyfamodau cyfyngol na ellir eu gorfodi lle mae tir wedi'i gaffael yn orfodol;
 - caffael isbridd neu awyrle yn unig;
 - meddiannu a defnyddio tir uwchben neu islaw strydoedd o fewn Terfynau'r Gorchymyn, heb orfod caffael y stryd nac unrhyw hawl na hawddfrent ynddi;
 - gallu defnyddio rhannau o dir y Gorchymyn dros dro ar gyfer adeiladu'r Datblygiad Arfaethedig; a
 - dileu hawliau Ymgymrwyr Statudol (SU) a gwaredu ac ailosod eu cyfarpar.

Mae'r darpariaethau o fewn llawer o'r Erthyglau hyn hefyd yn:

- galluogi iawndal i fod yn daladwy i bersonau yr effeithir arnynt mewn perthynas â phobl yr effeithir arnynt (os nad yw'n cael ei gynnwys mewn man arall); ac yn
- darparu pwerau mewn perthynas ag adennill costau rhesymol mewn perthynas â'r cysylltiadau newydd sy'n ofynnol pan fydd cyfarpar SU yn cael ei waredu ac mae hyn yn atal cyflenwad o'r cyfarpar hwnnw i berchnogion neu feddianwyr safleoedd fel bod yn rhaid iddynt geisio cysylltiad â chyfarpar arall.
- Mae Rhan 6, Erthyglau 39 i 49 yn ymwneud ag amryw faterion / darpariaethau cyffredinol ac amrywiol. Maent yn ymwneud â:
 - chymhwyso cyfraith landlordiaid a thenantiaid;
 - pwerau mewn perthynas â gwaredu gwrychoedd, yn ogystal â phwerau mewn perthynas â choed, gan gynnwys coed a gwmpesir

gan Orchmynion Cadw Coed, y mae angen eu gwaredu neu eu tocio mewn perthynas â'r Datblygiad Arfaethedig;

- cadarnhad nad yw'r pwerau Caffael Gorfodol (CA) y darperir ar eu cyfer yn y Gorchymyn yn effeithio ar Hawliau'r Goron;
- darparu amddiffyniad i SU, ac IP eraill, drwy'r Darpariaethau Amddiffynnol (PP), fel y nodir yn Atodlen 10;
- cynnwys darpariaethau y bydd tir y Gorchymyn yn dir gweithredol o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;
- ardystio dogfennau;
- hysbysiadau a gyflwynir o dan y Gorchymyn;
- atal adferiad dwbl;
- darparu proses apelio ar gyfer gwrthod neu beidio â phennu unrhyw fanylion o dan Ofyniad (R) gan yr awdurdod cynllunio perthnasol; a
- chyflafareddu yn achos anghydfod.

- 9.2.2. Mae deuddeg Atodlen yn perthyn i'r Gorchymyn. Mae Atodlen 1 yn darparu ar gyfer disgrifiad o'r datblygiad awdurdodedig, tra bod Atodlen 2 yn nodi'r Gofynion sy'n berthnasol iddo.
- 9.2.3. Mae atodlenni 3 i 6 yn gysylltiedig, gan eu bod yn ymwneud â materion sy'n ymwneud â strydoedd, creu mynediad, strydoedd a hawliau tramwy cyhoeddus i'w hatal neu gyfyngu arnynt dros dro. Mae strydoedd sy'n destun gwaith stryd (parhaol a thros dro) yn cael eu nodi yn Atodlen 3, tra bod Atodlen 4 yn nodi ffyrdd newydd o gael mynediad (parhaol a thros dro). Mae Atodlen 5 yn ymwneud â strydoedd sydd i'w hatal neu eu cyfyngu dros dro, tra bod Atodlen 6 yn ymwneud â hawliau tramwy cyhoeddus i'w hatal neu eu cyfyngu dros dro.
- 9.2.4. Mae Atodlenni 7 i 9 hefyd yn gysylltiedig i'r graddau eu bod yn ymwneud â chreu hawliau newydd, Meddiant Dros Dro (TP) ar dir, TP ar dir ar gyfer mynediad ac iawndal. Mae Atodlen 7, Rhan 1 yn nodi tir nad ellir ond cymryd TP arno; tra bo Atodlen 7, Rhan 2 yn nodi tir nad ellir ond cymryd TP ar gyfer mynediad arno. Mae Atodlen 8 yn nodi tir y ceir caffael hawliau newydd yn unig ynddo; tra bod Atodlen 9 yn ymdrin ag addasu deddfiadau prynu gorfodol a digolledu ar gyfer creu hawliau newydd.
- 9.2.5. Mae Atodlen 10 yn darparu PP ar gyfer SU a'u cyfarpar, tra bod Atodlen 11 yn ymwneud â gwaredu gwrychoedd ac yn nodi'r darnau o wrychoedd y gellir ymyrryd â hwy neu eu tynnu o dan y Gorchymyn. Yn olaf, mae Atodlen 12 yn darparu proses gyflafareddu.
- 9.2.6. Mae'r ExA yn canfod strwythur EPBV [REP8-007] dDCO yr Ymgeisydd, a gyflwynwyd yn DL8, fel yr amlinellir uchod, yn addas i'r diben ac ni argymhellir unrhyw newidiadau i'r strwythur.
- 9.2.7. O ran Gofynion, a nodir yn Atodlen 2 y dDCO, roedd rhai meysydd o anghytundeb yn parhau rhwng yr Ymgeisydd a'r awdurdodau lleol perthnasol. O ran Atodlen 2, Rhan 2 o'r dDCO, sy'n ymwneud â Cheisiadau a wnaed o dan Ofynion, roedd yn amlwg trwy gydol yr Archwiliad bod y ddau Gyngor (CWCC a FCC) yn poeni am osod rheolaethau o'r fath (h.y. rheolaethau sy'n ymwneud â cheisiadau a

gyflwynwyd iddynt o dan Ofynion) a'r goblygiadau yr oedd rheolaethau felly'n eu cael ar eu hadnoddau.

- 9.2.8. Mae SoCG yr Ymgeisydd a gwblhawyd gyda CWCC [REP8-021] a FCC [REP7-259] yn glir nad yw'r ddau Gyngor yn cytuno â'r Ymgeisydd mewn perthynas ag R24 (Gwybodaeth Bellach), fel y nodir yn Atodlen 2 y dDCO. Mae hyn yn rhannol oherwydd cynnwys rheolaethau mewn perthynas â gofyn am wybodaeth ychwanegol a chynnwys amserlenni, gan gofio angen posibl i ymgynghori â thrydydd partïon y tu allan i'r Cynghorau perthnasol. Ceisiodd yr Ymgeisydd fynd i'r afael â'r pryderon hyn yn ystod yr Archwiliad, a diwygiodd y Gofyniad 24(2) drwy gynyddu'r cyfnod hysbysu o 10 diwrnod i 21 diwrnod. Fodd bynnag, roedd y ddau Gyngor yn parhau i bryderu ynghylch amserlenni, yn enwedig lle mae'n rhaid ymgynghori â thrydydd parti.
- 9.2.9. Gan fyfyririo ar yr holl gyflwyniadau a wnaed ar y mater hwn yn yr Archwiliad, mae'r ExA o'r farn bod nodi: sut y dylid rhoi cymeradwyaeth; sut y dylid trin unrhyw newidiadau; terfynau amser clir ar gyfer gwneud penderfyniadau; a darpariaeth ar gyfer amgylchiadau pan fo'r awdurdod cyflawni yn ei gofyn am ddarparu rhagor o wybodaeth, mewn perthynas â chais i gyflawni Gofynion yn rhesymol.
- 9.2.10. Yn wir, mae'r ExA yn nodi bod Gofyniad 24 (Gwybodaeth Bellach) yn adlewyrchu prosesau tebyg a Gofynion sy'n gysylltiedig â chyflawni Gofynion mewn DCO eraill a bod defnydd y fath Ofynion wedi'i sefydlu. Gellir dod o hyd i Ofynion tebyg yn y DCO canlynol: DCO Piblinell Southampton i Lundain 2020; Gorchymyn Amnewid Piblinell Nwy Afon Humber 2016; Gorchymyn Fferm Wynt Alltraeth Norfolk Vanguard 2022; Gorchymyn Fferm Wynt Alltraeth Hornsea Three 2020; ac Aatgyfnerthu Gorchymyn Trydan Gogledd Swydd Amwythig 2020.
- 9.2.11. Fel y cyfryw, mae'r ExA yn canfod bod Gofyniad sy'n nodi gweithdrefn glir ar gyfer cyflawni Gofynion, fel yr hyn a gynigir yn y DCO hwn, yn rhesymol, yn angenrheidiol, ac yn berthnasol i'r datblygiad. Yn ogystal, ystyria fod y Gofyniad yn gywir, yn orfodadwy ac yn rhesymol ym mhob ffordd arall.
- 9.2.12. Yn ogystal â'r uchod, mae SoCG yr Ymgeisydd a gwblhawyd gyda CWCC [REP8-021] a FCC [REP7-259], yn glir nad yw'r ddau Gyngor yn cytuno â'r Ymgeisydd o ran R16 (Adfer Tir) fel y nodir yn Atodlen 2 y dDCO. O ran y Gofyniad hwn, nid oedd yr un o'r Cynghorau o'r farn bod y Gofyniad yn ei gyfanrwydd yn gywir neu'n orfodadwy. Yn ogystal, maent wedi amlygu nad yw'r Gofyniad yn mynnu cymeradwyo cynllun adfer ac ôl-ofal, os oes angen. Ymhlith awgrymiadau eraill mae'r ddau Gyngor wedi ceisio aralleirio'r Gofyniad i fynnu manylion llawn cynllun adfer.
- 9.2.13. Roedd yr Ymgeisydd wedi ymateb o'r blaen ar y mater hwn yn ei 'Sylwadau ar Gyflwyniadau a Gafwyd ar Ddyddiad Cau 5' [REP6-035] (Cyfeirnod 2.3.45) lle nododd "... bod y Gofyniad hwn yn bŵer wrth gefn i ganiatáu i'r Awdurdod Cynllunio Lleol fynnu adfer yn ddiodyfyn neu lle mae problem. Y prif fecanwaith ar gyfer rheoli adfer yw'r cytundebau tir a fydd yn cynnwys, er enghraifft, atodlenni cyflwr cyn cymryd meddiant,

manyllion adfer, a fydd yn bennaf at y defnydd blaenorol... Nid yw ôl-ofal tir amaethyddol ar ôl ei ddychwelyd at ddefnydd y tîrfeddiannwyr yn briodol nac yn rhesymol gan y byddai nid yn unig yn ymyrryd â'r cytundebau tir rhwng y tîrfeddiannwr a'r Ymgeisydd ond byddai'n ei gwneud yn ofynnol i'r Ymgeisydd reoli tir am fwy o amser nag sy'n angenrheidiol, ymyrryd â defnydd tîrfeddiannwyr, cymryd hawliau am fwy o amser nag sy'n angenrheidiol ac yn unol â hynny mae'n anghymesur symud o reolaeth y tîrfeddiannwr i'r Awdurdod Cynllunio Lleol."

- 9.2.14. Mae'r ExA yn nodi bod y gofyniad hwn yn dilyn Gofyniad 35 Gorchymyn Cynllunio Seilwaith (Darpariaethau Enghreifftiol) (Cymru a Lloegr) 2009 (a dynnwyd yn ôl bellach) a bod geiriad tebyg i'w weld yng Ngorchymyn Amnewid Piblinell Nwy Afon Humber 2016 (Gofyniad 16) a Gorchymyn Fferm Wynt Alltraeth Hornsea Three 2020 (Gofyniad 20). Er nodir bod y darpariaethau enghreifftiol, a dynnwyd yn ôl bellach, yn mynnu adfer tir i'w 'gyflwr blaenorol', roedd Gorchymyn Amnewid Piblinell Nwy Afon Humber yn darparu ar gyfer adfer i "gyflwr sy'n addas i'w ddefnydd blaenorol". Mae'r ymgeisydd yn dadlau bod hyn "... yn adlewyrchu nad oes angen delio â newidiadau amherthnasol nad ydynt yn effeithio ar barhad defnydd blaenorol."
- 9.2.15. Wrth ystyried yr holl gyflwyniadau a wnaed yn yr Archwiliad ar y mater hwn, mae'r ExA yn canfod bod dadleuon yr Ymgeisydd, fel y nodir uchod, yn arbennig o berswadiol. O gofio'r mecanweithiau eraill, fel yr amlygwyd gan yr Ymgeisydd, i reoli adfer y tir a feddir dros dro o ganlyniad i'r Datblygiad Arfaethedig, mae'r ExA yn fodlon ar gywirdeb a gorfodadwyedd Gofyniad 16 yn yr achos hwn, yn enwedig o ran yr hyn y mae'n ceisio ei gyflawni. Ar ben hynny, yng ngoleuni'r uchod, mae'r ExA hefyd yn ystyried bod Gofyniad 16 yn dderbyniol o ran ei anghenraid, perthnasedd i gynllunio a'r Datblygiad Arfaethedig. Mae hefyd yn canfod bod Gofyniad 16 yn rhesymol ym mhob ffordd arall.
- 9.2.16. Ynglŷn â Gofyniad 4 (Dylunio Cynllun), yn Rhan 1 o Atodlen 2 y dDCO, cododd CWCC bryder fod mecanwaith hunan-gymeradwyo ar gyfer pennu a yw unrhyw newidiadau yn berthnasol. Roedd hefyd yn gofyn am eglurhad mewn perthynas â datrys unrhyw anghydfod lle ceir anghytundeb ynghylch a yw'r diwygiadau a gynigiwyd gan yr Ymgeisydd yn 'cyd-fynd yn gyffredinol' â'r 'cynllun trefniadau cyffredinol'.
- 9.2.17. Nododd yr Ymgeisydd mewn ymateb fod y geiriad yn y Gofyniad hwn yn gwbl safonol a'i fod wedi'i ddefnyddio mewn llawer o DCO, wedi'i gymeradwyo dro ar ôl tro gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Fel cynsail mae'r Ymgeisydd yn cyfeirio at Orchymyn Cydsyniad Datblygu Piblinell Southampton i Lundain 2020, yn ogystal â Gorchymyn Piblinell Nwy Thorpe Marsh 2016, a Gorchymyn Amnewid Piblinell Nwy Afon Humber 2016. Mae'n ystyried geiriad safonol o'r fath mewn DCO lle mae angen elfen o hyblygrwydd i gynhyrchu'r dyluniad manwl.
- 9.2.18. Er bod y 'cynlluniau trefniant cyffredinol' yn ddangosol ar hyn o bryd hyd nes y bydd dyluniad manwl, mae'r Ymgeisydd yn nodi y bydd manyllion yr elfennau uwchben y ddaear yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio perthnasol i'w cymeradwyo o dan y gofynion. At hynny, mae'r Ymgeisydd

yn tynnu sylw at eiriad penodol y Gofyniad sy'n datgan "... ni fydd y datblygiad awdurdodedig yn cyd-fynd yn gyffredinol â'r cynlluniau trefniant cyffredinol pe byddai unrhyw wyriad oddi wrth y cynlluniau trefniant cyffredinol yn arwain at unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol newydd neu sylweddol wahanol i'r rhai a aseswyd yn y datganiad amgylcheddol." Fel y cyfryw, pan gyflwynir manylion i'w cymeradwyo yn unol â'r Gofyniad hwn mae gofyn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ystyried a ydynt o fewn cwmpas y Datganiad Amgylcheddol neu a oes angen rhagor o wybodaeth amgylcheddol. Mae'r Ymgeisydd yn tynnu sylw at y ffaith y byddai methu â chydymffurfio â DCO yn drosedd ac y byddai'n rhaid i'r awdurdod cynllunio perthnasol gymryd barn ar berthnasedd yn y cyd-destun hwnnw ac y gallai ddefnyddio ei bwerau gorfodi sydd ar gael iddo lle mae'n ystyried bod yr ymgwymerwr wedi methu â chydymffurfio.

9.2.19. Wrth ystyried yr holl gyflwyniadau a wnaed yn yr Archwiliad ar y mater hwn, nid yw'r ExA yn ystyried bod cyfiawnhad dros bryderon CWCC. Yn wir, mae'n cael ei berswadio'n arbennig gan y ffaith bod Gofynion tebyg wedi'u cymeradwyo droeon gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn DCO, gydag enghreifftiau diweddar wedi'u darparu. Fel y cyfryw, cred yr ExA fod defnydd y Gofyniad hwn wedi'i sefydlu. Mae hefyd yn ystyried ei fod yn angenrheidiol, yn fanwl gywir, yn orfodadwy, yn berthnasol i Gynllunio a'r Datblygiad Arfaethedig ac yn rhesymol ym mhob ystyr arall.

9.2.20. Gan droi at PP, fel y'i nodir yn Atodlen 10 y dDCO. Cytunwyd ar y PP fel y nodir isod:

- Rhan 1 (Ar gyfer Diogelu Ymgwymerwyr Trydan, Nwy, Dŵr a Charthffosiaeth), fel PP generig i gwmpasu'r ymgwymerwyr hynny nad oes PP wedi'u teilwra ar eu cyfer. Mae'r PP hyn ar ffurf sy'n gyson â'r hyn a gynhwysir mewn DCO eraill a Gorchmynion Deddf Trafnidiaeth a Gwaith ac ni chafwyd unrhyw sylwadau arnynt trwy gydol y broses Archwilio. Yn absenoldeb unrhyw dystiolaeth i'r gwrthwyneb, mae'r ExA o'r farn bod y PP o blaid Ymgwymerwyr Trydan, Nwy, Dŵr a Charthffosiaeth yn addas ac yn briodol i'w cynnwys yn y rDCO.
- Rhan 2 (Ar gyfer Diogelu Gweithredwyr Rhwydweithiau Cod Cyfathrebu Electronig), fel PP generig i gwmpasu gweithredwyr rhwydwaith cod cyfathrebu electronig lle nad oes unrhyw PP wedi'u teilwra. Mae'r PP hyn ar ffurf sy'n gyson â'r hyn a gynhwysir mewn DCO eraill a Gorchmynion Deddf Trafnidiaeth a Gwaith ac ni chafwyd unrhyw sylwadau arnynt trwy gydol y broses Archwilio. Yn absenoldeb unrhyw dystiolaeth i'r gwrthwyneb, mae'r ExA o'r farn bod y PP o blaid Gweithredwyr Rhwydweithiau Cod Cyfathrebu Electronig yn addas ac yn briodol i'w cynnwys yn y rDCO.
- Rhan 8 (Ar gyfer Diogelu SP Manweb), rhiant-gwmni SPEN sy'n gweithredu ac yn rheoli'r rhwydwaith trydan yn yr ardal fel gweithredwr rhwydwaith dosbarthu trwyddedig ac i ddarparu PP i sicrhau bod y mesurau y cytunwyd arnynt yn cael eu gwneud yn glir i gontractwyr sy'n gweithio ar y safle trwy ddatganiadau dull gofynnol a bod effeithiau ar ei rwydwaith yn cael eu hosgoi. Mae Datganiad o Dir

Cyffredin (SoCG) yr Ymgeisydd a gwblhawyd gyda SPEN [REP7-267] yn cadarnhau y cytunwyd ar y PP. Fel y cyfryw, mae'r ExA o'r farn bod y PP o blaid SP Manweb yn addas ac yn briodol i'w cynnwys yn y rDCO.

- Rhan 9 (Ar gyfer Diogelu CF Fertilisers UK Limited) gyda'r bwriad o leihau a lliniaru effeithiau ar eu tird daliad yn agos at y safle, gan gynnwys mewn perthynas â draenio a mynediad yn ystod y gwaith adeiladu a gweithredu. Er bod CF Fertilisers wedi gwneud Sylw Perthnasol (RR-081) [RR-081] nid oedd yn gwrthwynebu'r Datblygiad Arfaethedig. Yn wir, ni chafwyd unrhyw sylwadau eraill ganddo yn ystod yr Archwiliad.

Heb ystyried yr uchod, gofynnwyd i'r Ymgeisydd baratoi SoCG gyda CF Fertilisers Ltd fel y nodir yn llythyr Rheol 6 yr ExA, dyddiedig 20 Chwefror 2023 [PD-011], yn Atodiad E (Penderfyniadau Gweithdrefnol a wnaed gan yr ExA). Roedd yr Ymgeisydd yn ei 'Ddatganiad ar gyfer Cyffredinedd Datganiadau Tir Cyffredin' (Diwygiad G) [REP6A-006] yn Atodiad A yn cynnwys cadwyn e-bost rhyngddo a CF Fertilisers lle cadarnhaodd CF Fertilisers nad oedd am fynd ar drywydd SoCG ond yn hytrach ei fod "... yn dymuno dibynnu ar y PP". Cadarnhaodd hefyd fod y newidiadau arwyddnodi yn dderbyniol iddo. Parhaodd y sefyllfa hon heb newid ym mhob fersiwn ddilynol o 'Ddatganiad ar gyfer Cyffredinedd Datganiadau Tir Cyffredin' yr Ymgeisydd (Diwygiad H) [REP7-258], (Diwygiad I) [REP8-020] a (Diwygiad J) [REP9-006].

Fel y cyfryw, ystyria'r ExA fod y PP o blaid CF Fertilisers UK Limited yn addas ac yn briodol i'w cynnwys yn y rDCO.

- Rhan 12 (Ar gyfer Diogelu United Utilities Water Limited (UW), o'i blaid, fel ymgymwrwr dŵr a charthffosiaeth statudol Gogledd-orllewin Lloegr, sy'n sicrhau bod ei asedau'n cael eu diogelu'n ddigonol a bod yr Ymgeisydd wedi ystyried a mynd i'r afael ag ystod o effeithiau.

Cadarnhaodd UW yn ei lythyr yn DL9 [REP9-018] ei fod wedi "*cytuno ar gyfres o PP penodol gyda'r Ymgeisydd*" ac wedi cyflwyno copi o'r PP y cytunwyd arno [REP9-017]. Mae'r Ymgeisydd, yn ei ymateb i gais Rheol 17 yr ExA am ragor o wybodaeth [REP9-012] yn Atodiad 1 wedi cadarnhau bod angen diweddarau'r PP o blaid UW ym mharagraffau 140 (Dehongli) a 150 (Cydweithredu) ac mae wedi darparu'r geiriad y cytunwyd arno. Ar ôl eu diweddarau, ystyrir bod y PP yn addas ac yn briodol i'w cynnwys yn y rDCO a gellir dod o hyd i hyn yn y rDCO yn Atodiad D yr adroddiad hwn. Ymdrinnir â'r paragraffau wedi'u diweddarau ymhellach yn Nhabl 5 isod.

- Rhan 16 (Er Diogelu Gweinidogion Cymru fel Awdurdod Priffyrdd Strategol), yn ei rôl fel yr Awdurdod Priffyrdd sy'n gyfrifol am y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol yng Nghymru. Roedd y SoCG a gwblhawyd gan yr Ymgeisydd gyda Llywodraeth Cymru [REP7-264] yn cadarnhau fel y cytunwyd fod y Partion bellach wedi cytuno ar eiriad y PP, yn amodol ar gynnwys testun penodedig y mae'r Ymgeisydd wedi'i ymgorffori yn nau fersiwn y dDCO a gyflwynwyd

(TCV yr Ymgeisydd (yr APV) [REP9-011], a gyflwynwyd yn DL9 ac EPBV y DCO [REP8-007] a gyflwynwyd yn DL8). Fel y cyfryw, nid oes angen diweddarau'r PP ac ystyrir eu bod yn addas ac yn briodol i'w cynnwys yn y rDCO.

- Rhan 19 (Ar gyfer Diogelu Awdurdodau Draenio) sef:
 - y bwrdd draenio dan sylw, o fewn ystyr a23(a) (gwahardd rhwystrau ac ati mewn cyrsiau dŵr) o Ddeddf Draenio Tir 1991; neu
 - yn achos unrhyw ardal lle nad oes bwrdd draenio felly ar ei chyfer, yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol (LLFA) o fewn ystyr a6 (diffiniadau eraill) Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010,

At ddibenion diogelu unrhyw gwrs dŵr cyffredin yn erbyn difrod, neu i sicrhau nad amharir ar effeithlonrwydd unrhyw gwrs dŵr cyffredin at ddibenion amddiffyn rhag llifogydd neu ddraenio tir ac nad yw perygl llifogydd yn cael ei gynyddu fel arall, oherwydd y gwaith penodedig mewn perthynas â'r cwrs dŵr cyffredin.

Cadarnhaodd Cyngor Sir y Fflint (FCC), fel LLFA ar gyfer yr ardal yng Nghymru lle mae'r Datblygiad Arfaethedig, yn ei gyflwyniad DL8 [REP8-044] ei fod wedi cadarnhau ei fod wedi "*... cytuno ar PP ar gyfer draenio...*" gyda'r Ymgeisydd "*... ac y dylid cynnwys y rhain yn y dDCO diwygiedig.*"

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Gorllewin Swydd Gaerlleon a Chaer (CWCC), hefyd rôl LLFA ar gyfer yr ardal yn Lloegr y mae'r Datblygiad Arfaethedig yn gorwedd ynddi. Yn ei lythyr eglurhaol a gyflwynwyd yn DL8 [REP8-041] ynghylch draenio nododd y canlynol: "*Mae'r PP a gynhwysir yn adolygiad diweddaraf y dDCO (Drafft I) yn cael eu cymeradwyo gan y Cyngor.*" Yn ogystal, roedd CWCC mewn dogfen ar wahân, a gyflwynwyd hefyd yn DL8 (Sylw CWCC a wnaed yn DL8) [REP8-041A] yn cadarnhau yn Nhabl 1.1 yng Nghyfeirnod 2.1.1 "*... bod y PP ar gyfer draenio wedi'u cytuno gyda'r Ymgeisydd*" a bod y "*Cyngor o'r farn fod y mater hwn wedi'i ddatrys.*"

O ran CNC, yn "niweddariad yr Ymgeisydd ar Ddrafftio'r DCO" [REP7-294] cynghorodd "*.. yn dilyn cynnwys darpariaethau yn amodi na fydd ffensys cyfansawdd yn atal CNC rhag cael mynediad at amddiffynfeydd llifogydd yn y CEMP [Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu] a CTMP [Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu] amlinellol, nid yw CNC yn ceisio unrhyw PP.*" Yn unol â hynny, nid oes unrhyw ddarpariaethau wedi'u cynnwys yn y drafft a gyflwynwyd yn DL7." Felly, nid yw CNC wedi ceisio unrhyw PP, gan gynnwys mewn perthynas â'i rôl fel awdurdod draenio. Ni wnaeth CNC unrhyw sylwadau mewn perthynas â datganiad yr Ymgeisydd uchod, ac ni wnaeth unrhyw gyflwyniadau dilynol ar naill ai DL8 na DL9.

O ran Asiantaeth yr Amgylchedd (EA), mae ganddi ei chyfres ei hun o PP, y cyfeirir atynt yn Rhan 21 isod.

Gan gadw'r uchod oll mewn golwg, nid oes angen diweddarau'r PP o blaid Awdurdodau Draenio, fel y'u nodir yn fersiynau terfynol yr Ymgeisydd o'r dDCO (y TCV (yr APV) [REP9-011], a gyflwynwyd yn DL9 a'r EPBV [REP8-007] a gyflwynwyd yn DL8)) ac ystyrir eu bod yn addas ac yn briodol i'w cynnwys yn y rDCO.

- Rhan 21 (Ar gyfer Diogelu Asiantaeth yr Amgylchedd) fel SU, yn enwedig o ran ei chyfrifoldebau o ran perygl llifogydd, gan gynnwys o'r prif afonydd a'r môr, a chyfrifoldebau gwaith draenio perthnasol. Roedd y SoCG a gwblhawyd gan yr Ymgeisydd gydag EA [REP9-004] yn cadarnhau fel y cytunwyd arno "... fod y Partion nawr wedi cytuno ar eiriad y PP."

O gofio hyn, nid oes angen diweddarau'r PP o blaid EA, fel y nodir yn fersiynau terfynol yr Ymgeisydd o'r dDCO (y TCV (yr APV) [REP9-011], a gyflwynwyd yn DL9 a'r EPBV [REP8-007] a gyflwynwyd yn DL8)) ac ystyrir eu bod yn addas ac yn briodol i'w cynnwys yn y rDCO.

9.2.21. Roedd y PP canlynol heb gael sylw ar ddiwedd yr Archwiliad ac ni chytunwyd arnynt:

- Rhan 3 (Ar gyfer Diogelu'r Grid Cenedlaethol fel ymgwymerwr Trydan (National Grid Electricity Transmission PLC (NGET))) a Rhan 4 (Ar gyfer Diogelu'r Grid Cenedlaethol fel Ymgwymerwr Nwy (National Grid Gas PLC (NGG))). Mae'r rhain yn PP er budd NGET ac NGG ac yn diogelu'n briodol ar eu cyfer unrhyw dir neu asedau sy'n eiddo iddynt neu sydd yn eu rheolaeth o fewn Terfynau'r Gorchymyn neu'n agos atynt, wrth geisio sicrhau nad oes unrhyw niwed difrifol iddo barhau â'i ymgwymeriad.
- Rhan 5 (Ar gyfer Diogelu Cadent Gas Limited). Mae'r rhain yn PP er budd Cadent Gas Limited (Cadent), sef SU sydd â thir ac asedau wedi'u cynnwys o fewn Terfynau'r Gorchymyn, a/neu'n agos atynt, ac maent yn ceisio sicrhau nad oes unrhyw niwed difrifol iddo barhau â'i ymgwymeriad.
- Rhan 6 (Ar gyfer Diogelu Buddiannau Rheilffordd). Mae'r rhain yn PP er budd Network Rail (Cymru a Lloegr) (NR) ac maent yn diogelu i NR unrhyw waith i'w wneud o fewn pellter penodol i eiddo rheilffordd, gan geisio sicrhau nad oes unrhyw niwed difrifol iddo barhau â'i ymgwymeriad. Mae NR hefyd yn gofyn i'r PP gael eu clymu wrth:
 - Gytundeb Diogelu Asedau (APA) i sicrhau bod y gofynion technegol, peirianeg a diogelwch priodol ac angenrheidiol ar gyfer gweithio ar reilffordd weithredol neu gerllaw yn cael eu cymhwyso i'r Datblygiad Arfaethedig; a
 - Chytundeb Fframwaith i reoli'r rhyngwyneb uniongyrchol sydd gan y Datblygiad Arfaethedig gyda'r rheilffordd weithredol. Bydd y Cytundeb Fframwaith hefyd yn atodi APA sylfaenol, yr APA (ar ôl ei gwblhau), y PP, Cytundeb Clirio Amodau a Chytundeb Eiddo.

- Rhan 7 (Ar gyfer Diogelu Glandŵr Cymru), o ran gweithredu a rheoli'r dyfrffyrdd a'r llwybrau tynnu at ddefnydd a mwynhad y cyhoedd a chynnal dyfrffyrdd masnachol a mordeithio mewn cyflwr addas i'w defnyddio, gan ddiogelu asedau'r ymgwymerwr, wrth geisio sicrhau nad oes unrhyw niwed difrifol iddo barhau â'i ymgwymeriad.
- Rhan 10 (Ar gyfer Diogelu Wales and West Utilities) sydd, fel darparwr cyfleustodau nwy, â buddiannau tir o fewn Terfynau'r Gorchymyn, gan ddiogelu amddiffyn asedau'r ymgwymerwr, wrth geisio sicrhau nad oes unrhyw niwed difrifol iddo barhau â'i ymgwymeriad.
- Rhan 11 (Ar gyfer Diogelu Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW)), sef yr ymgwymerwr carthffosiaeth a dŵr statudol sydd â nifer o asedau o fewn Terfynau'r Gorchymyn neu'n agos atynt, gan geisio amddiffyn/diogelu asedau'r ymgwymerwr, gan sicrhau nad oes unrhyw niwed difrifol iddo barhau â'i ymgwymeriad.
- Rhan 13 (Ar gyfer Diogelu United Kingdom Oil Pipelines Limited (UKOP)), fel gweithredwyr system biblinell genedlaethol sy'n cludo amrywiaeth o danwydd (gan gynnwys hyd at 35% o betrol a disel y DU a thros 60% o danwydd hedfan jet y DU). Byddai'r Datblygiad Arfaethedig efallai'n effeithio ar ran o biblinell Mersi i Kingsbury UKOP (piblinell pwysedd uchel) sy'n cludo tanwydd (gan gynnwys petrol, disel, tanwydd jet a thanwydd gwresogi) o Stanlow i Kingsbury i'w storio a'i ddanfôn ymlaen i orsafoedd petrol a meysydd awyr.

Gyda'r uchod mewn golwg, mae UKOP yn ceisio PP yr ystyria eu bod o bwysigrwydd hanfodol i sicrhau bod ei rwydwaith yn cadw'r holl amddiffyniadau a hawliau angenrheidiol i'w alluogi i atgyweirio, cynnal a gweithredu'r rhwydwaith piblinellau yn unol â'i fframwaith statudol a rheoleiddiol. Mae'n ystyried y byddai unrhyw darfu (gan gynnwys unrhyw anallu i atgyweirio neu gynnal yr ased) yn effeithio'n sylweddol ar gyflenwi a storio tanwydd ledled y DU a bod PP y ofynnol i sicrhau diogelwch ei asedau.
- Rhan 14 (Ar gyfer Diogelu Peel NRE Limited) fel perchennog tir sy'n ofynnol gan y Datblygiad Arfaethedig ar gyfer Gosodiad ar Ben y Tir (AGI) Ince, a'r fynedfa, coridor piblinell a chlos adeiladu cysylltiedig a gynigir. Mae'r tir yr effeithir arno yn rhan o safle datblygu 130ha (ym Mharc Ince, a elwir Protos), y bu Peel NRE yn gweithio'n agos gyda'r Awdurdod Lleol (CWCC) i ddarparu gwahanol gydrannau ohono, gan gynnwys canolfan adfer ynni ac adnoddau fawr ac ardaloedd rheoli ecolegol.
- Rhan 15 (Ar gyfer Diogelu Encirc Limited) fel perchennog tir sy'n ofynnol gan y Datblygiad Arfaethedig ac er budd gweithrediad parhaus: ei Ffatri Gweithgynhyrchu a Llenwi Gwydr; cynnal y mynediad gofynnol i'w Safle; a sicrhau y gellir cyflwyno ei gynlluniau datblygu yn y dyfodol.
- Rhan 17 (Ar gyfer Diogelu National Highways Limited) sy'n ceisio cael mesurau amddiffyn NH sy'n diogelu ei ymgwymeriad a'i fuddiannau statudol, yn ogystal â diogelwch a chyfanrwydd yr SRN, rhag unrhyw

waith sy'n deillio o'r Datblygiad Arfaethedig yng nghyffiniau'r SRN; tra hefyd yn ceisio sicrhau dim niwed difrifol iddo barhau ei ymgymeriad. Mae NH hefyd yn ceisio bod y PP ynghlwm wrth:

- Gytundeb ochr gyda'r Ymgeisydd sy'n rheoleiddio (i) y modd y caffaelir hawliau dros y Lleiniau ac y gwneir y gwaith perthnasol gan gynnwys telerau sy'n diogelu ymgymeriad statudol NH a chytundeb na fydd pwerau CA yn cael eu harfer mewn perthynas â thir o'r fath; a (ii) cyflawni gwaith yng nghyffiniau'r SRN i ddiogelu ymgymeriad statudol y Priffyrdd Cenedlaethol.
- Rhan 18 (Ar gyfer Diogelu awdurdodau priffyrdd lleol) sef CWCC a FCC, yn gweithredu yn eu rolau fel awdurdod priffyrdd lleol ar gyfer eu priod awdurdodaethau, gan geisio PP sy'n diogelu ymgymeriad statudol yr awdurdod priffyrdd lleol, yn ogystal â'i fuddiannau. Mae'r PP hefyd yn cael eu ceisio i sicrhau bod diogelwch a chyfanrwydd y rhwydwaith ffyrdd lleol yn cael eu diogelu rhag unrhyw waith sy'n deillio o'r Datblygiad Arfaethedig yn ei ardal, tra hefyd yn ceisio sicrhau nad oes unrhyw niwed difrifol i gynnal ei ymgymeriad.
- Rhan 20 (Ar gyfer Diogelu Exolum Pipeline System Ltd) er mwyn amddiffyn ei biblinell/ offer, gan gynnwys hawddfrentiau sy'n gwahardd unrhyw weithgareddau datblygu ac ymwithiol, yn ogystal â'r angen i ddiogelu mynediad ar gyfer gwaith cynnal a chadw rheolaidd ac mewn argyfwng.

NGET/ NGG

- 9.2.22. O ran Atodlen 10, Rhannau 2 a 3, gwnaeth NGET a NGG RR ([RR-062] a [RR-063] yn y drefn honno) lle gwnaethant gadarnhau y byddent yn mynnu PP o fewn y dDCO ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig sicrhau bod eu buddiannau'n cael eu diogelu'n ddigonol ac i sicrhau y cydymffurfir â'r safonau diogelwch perthnasol.
- 9.2.23. Dywedodd NGG ei fod yn cysylltu â'r Ymgeisydd mewn perthynas â PP o'r fath, ynghyd ag unrhyw gytundebau atodol y gallai fod eu hangen. Fodd bynnag, dywedodd NGET nad ymgynghorwyd â hwy ar ffurf PP a chadarnhaodd nad oedd y PP fel y'u drafftwyd ar y pryd ar ffurf sy'n dderbyniol iddynt. Heb ystyried hyn, cadarnhaodd NGET hefyd eu bod yn cysylltu â'r Ymgeisydd mewn perthynas â PP, ynghyd ag unrhyw gytundebau atodol y gallai fod eu hangen.
- 9.2.24. Gofynnodd NGG a NGET i'r Ymgeisydd barhau i ymgysylltu â nhw i roi esboniad a sicrwydd ynghylch sut y bydd gwaith yr Ymgeisydd yn unol â'r Gorchymyn (os caiff ei wneud) yn sicrhau diogelwch i'w hasedau a fydd yn aros yn eu lle, ynghyd â hwyluso pob mynediad yn y dyfodol a hawliau eraill fel sy'n angenrheidiol i'w galluogi i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol yn briodol.
- 9.2.25. Dywedodd NGG a NGET y byddent "... yn parhau i gysylltu â'r Ymgeisydd yn hyn o beth gyda'r bwriad o ddod â materion i ben cyn gynted â phosibl mewn perthynas â'r trafodaethau hyn." ([RR-062] NGET a [RR-063] NGG).

9.2.26. Cyflenwyd copïau o PP gan NGG [REP1-066] a NGET [REP1-067] yn DL1, ond cafodd y rhain eu cyflwyno ar eu pen eu hunain ac ni chyflwynwyd unrhyw lythyr eglurhaol nac esboniad gyda hwy. Mae'r Ymgeisydd wedi cyflwyno nifer o Ddatganiadau Drafft o Dir Cyffredin (dSoCG), a ddarparwyd i NGET a NGG, gyda'r dSoCG diweddaraf yn cael ei gyflwyno yn DL6 (NGG [REP6-018] a NGET [REP6-017]). Mae'r ddau dSoCG hyn yn nodi bod PP yn "Cael eu Trafod", a'r sefyllfa bresennol yw bod gofyn cynnwys PP safonol o fewn y dDCO i ddiogelu asedau NGG a NGET, a bod ffurf y PP yn destun trafod o hyd. Mae'r dSoCG hyn yn nodi bod "Ymgysylltu rhwng y partïon yn ailadroddus ac adeiladol." Heb ystyried hynny, dSoCG yw'r rhain a dim ond hyn a hyn o bwys y gellir ei roi iddynt.

9.2.27. Rhoddodd yr Ymgeisydd ddiweddariad ynghylch statws PP yn ei ddogfen o'r enw 'Diweddariad yr Ymgeisydd ar Ddrafftio'r DCO' yn DL7 [REP7-294]. O ran NGG a NGET roedd yn cynghori:

"Mae'r darpariaethau hyn yn unfath i raddau helaeth o ran sylwedd. Yn y ddau achos, cytunir ar y darpariaethau yn bennaf yn amodol ar ddau eithriad. Mae'r cyntaf yn y cymal Indemniad lle mae'r Ymgeisydd yn ceisio ychwanegu'r testun ... a danlinellir isod;

- *—(1) Yn amodol ar is-baragraffau (2) a (3), os bydd unrhyw ddifrod yn cael ei achosi, oherwydd neu o ganlyniad i adeiladu unrhyw waith a awdurdodir gan y Rhan hon o'r Atodlen hon neu o ganlyniad i adeiladu, defnyddio, cynnal neu fethiant unrhyw un o'r gweithiau awdurdodedig gan neu ar ran yr ymgwymerwr neu o ganlyniad i unrhyw weithred neu ddiffyg yr ymgwymerwr (neu unrhyw berson a gyflogir neu a awdurdodir ganddo) wrth gyflawni'r cyfryw waith, gan gynnwys heb gyfyngiad waith a wneir gan yr ymgwymerwr o dan y Rhan hon o'r Atodlen hon neu unrhyw ymsuddiant sy'n deillio o unrhyw rai o'r gweithiau hyn, i unrhyw gyfarpar neu gyfarpar amgen (ac eithrio cyfarpar nad yw ei atgyweirio yn rhesymol angenrheidiol o ystyried y bwriad i'w symud at ddibenion y gwaith awdurdodedig) neu eiddo National Gas Transmission, neu os oes unrhyw ymyrraeth mewn unrhyw wasanaeth a ddarperir, neu wrth gyflenwi unrhyw nwyddau neu ynni, gan National Gas Transmission, neu os daw National Gas Transmission yn atebol i dalu unrhyw swm i unrhyw drydydd parti, ac ar yr amod y bydd National [Grid] [Gas Transmission] bob amser o dan rwymedigaeth i gymryd camau rhesymol i liniaru ei golled, bydd yr ymgwymerwr yn—*

a) dwyn a thalu ar gais, ynghyd ag anfoneb sy'n briodol o fanwl gywir neu hawliad priodol o fanwl gywir gan National...

Mae'r ail enghraifft o eiriad na chytunwyd arno yn y paragraff cydweithredu:

- *—(2) Er mwyn osgoi amheuaeth pryd bynnag y bydd angen cydsyniad, cytundeb neu gymeradwyaeth National [Grid] [Gas Transmission] mewn perthynas â chynlluniau, dogfennau neu wybodaeth arall a gyflwynir gan yr ymgwymerwr neu gymryd camau gan yr ymgwymerwr, ni ddylid ei ddal yn ôl yn afresymol na'i oedi, a*

bydd unrhyw gamau, penderfyniad, cost a/neu draul y gellir eu hawlio o dan y Rhan hon o'r Atodlen hon bob amser yn amodol ar National [Grid] [Gas Transmission] yn gweithredu'n rhesymol.

- 9.2.28. O ran -(1) uchod mae'r Ymgeisydd yn datgan ei fod o'r farn ei bod "... yn gwbl resymol lle rhoddir indemniad heb ei gapio fod sefyllfa arferol o fynnu bod partïon sy'n gwneud hawliad yn lliniaru eu colled eu hunain (fel y byddai'n berthnasol mewn hawliadau digolledu) yn cael ei chymhwysu." Mae hefyd o'r farn "... ei bod yn rhesymol bod yr hawliad yn briodol o fanwl er mwyn i'r Ymgeisydd ddeall pa gostau sydd wedi'u hysgwyddo a pham mae'r rhain yn rhesymol."
- 9.2.29. O ran -(2) uchod dywedodd yr Ymgeisydd y dylai fod "... yn annadleuol na ddylai partïon ond hawlio costau rhesymol" ac mae'n nodi ei fod dan drafodaeth i ddatrys drafftio'r darpariaethau drwy gytundeb ochr. Dywedodd yr ymgeisydd ei fod "... yn hyderus y gellir dod i gytundeb erbyn DL8 ac y bydd yn cynghori'r Archwiliad am unrhyw ddiweddariad yn DL8."
- 9.2.30. Heblaw am yr RR a chyflwyno PP safonol NGG a NGET yn DL1, nid yw'r naill na'r llall wedi cymryd rhan y tu hwnt i hyn yn y broses Archwilio, er gwaethaf cael y cyfle i ymateb yn DL8 i gyflwyniadau DL7 yr Ymgeisydd.
- 9.2.31. Gofynnodd yr ExA i'r Ymgeisydd am ddiweddariad ar PP ar 14 Medi 2023 yn ei lythyr Rheol 17 [PD-028]. Yn ei ymateb a gyflwynwyd yn DL9 [REP9-012] dywedodd yr Ymgeisydd, mewn perthynas â NGG a NGET, fod:
- "Y sefyllfa'n parhau fel y nodir yn niweddariad DL7 ar ddrafftio DCO [REP7-294] sef bod dau fân bwynt drafftio na chytunwyd arnynt. Nid yw'r Ymgeisydd yn ystyried bod y pwyntiau hyn yn ddadleuol. Mae'r newidiadau hynny fel y'u dangosir yn y trac yng nghyflwyniad DL8 ac fe'u hanfonwyd i'r Grid Cenedlaethol ar 16 Awst 2023, ond ni chafwyd unrhyw sylwadau. Mae'r darpariaethau fel y'u nodir yn y dDCO [REP8-005] yn DL8 yn ddigonol i sicrhau nad oes unrhyw risg o niwed difrifol yn berthnasol."*
- 9.2.32. Ar ôl ystyried pob un o'r uchod, nid yw'r ExA yn ystyried bod sefyllfa'r Ymgeisydd mewn perthynas â'r PP hyn yn afresymol. Ystyrir bod y PP fel y'u darperir yn y dDCO cyfredol (y TCV (yr APV) [REP9-011] neu EPBV y dDCO [REP8-007]) yn darparu lefel addas o amddiffyniad o blaid NGET (Rhan 3) a NGG (Rhan 4) ac ystyrir eu bod yn addas ac yn briodol i'w cynnwys yn y rDCO.
- 9.2.33. Waeth beth yw safbwynt yr ExA ar y mater hwn, pe bai'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Diogelu Ynni a Sero Net yn bwriadu gwneud y DCO bydd angen iddo fodloni ei hun fod geiriad y PP a gynhwysir yn Atodlen 10, Rhannau 3 (o blaid NGET) a 4 (o blaid NGG) y DCO fel y cytunwyd arnynt yn derfynol rhwng yr Ymgeisydd a NGET/NGG a bod y partïon wedi'u bodloni mewn perthynas ag unrhyw gytundeb(au) ochr a gwblhawyd rhwng y partïon hyn.

Cadent Gas Limited

- 9.2.34. Gan droi at Cadent a PP (Atodlen 10, Rhan 5), mae wedi haeru trwy gydol yr Archwiliad bod angen PP arno ([RR-006], [REP1-052], [REP3-040], [REP7-297] a [REP8-039]) ac mae wedi darparu ffurf ddewisol o eiriad, gyda'i eiriad PP diwethaf a ffefrir wedi'i gyflwyno yn DL8 (Atodiad 1 o [REP8-039]). Fodd bynnag, mae'r geiriad PP hwn a ffefrir a gyflenwyd gan Cadent yn wahanol i'r geiriad a hyrwyddwyd gan yr Ymgeisydd yn ei fersiynau terfynol o'r dDCO (y TCV (yr APV) [REP9-011] neu EPBV y dDCO [REP8-007]).
- 9.2.35. Yn wir, mae rhai meysydd gwahaniaeth eithaf sylweddol, gyda fersiynau'r Ymgeisydd wedi dileu rhannau helaeth o'r adran 'Dehongli' a dileu adran yn llwyr ar 'Indemniad'. Mae yna hefyd nifer o feysydd eraill o fân newid.
- 9.2.36. Trwy gydol yr Archwiliad mae'r ExA wedi gofyn am ddiweddariadau ynghylch statws PP heb eu pennu. Roedd hyn yn cynnwys yn rownd gyntaf a thrydedd rownd Cwestiynau Ysgrifenedig yr ExA yn C1.6.11 a C3.19.1, yn ogystal ag yn ystod yr ISH ynghylch y dDCO (ISH2 [EV-020] i [EV-022] ac ISH3 [EV-028] i [EV-030]) ac yn llythyr Rheol 17 yr ExA dyddiedig 14 Medi 2023 [PD-028]. Dywedodd y diweddariad a ddarparwyd gan yr Ymgeisydd yn ISH3, fel y nodwyd hefyd yng Nghrynodebau Ysgrifenedig Cyflwyniadau Llafar yr Ymgeisydd a wnaed yn y Gwrandawiadau a gynhaliwyd yn ystod yr wythnos yn dechrau 7 Awst [REP7-292], ynghylch PP gyda Cadent, eu bod "... wedi'u cytuno i raddau helaeth, mae un neu ddau bwynt masnachol yn parhau i gael eu trafod, ond nid yw'r Ymgeisydd yn ystyried nad oes modd datrys y rhain."
- 9.2.37. Adlewyrchwyd y sefyllfa hon hefyd yn 'niweddariad yr Ymgeisydd ar Ddrafftio'r DCO' [REP7-294], a gyflwynwyd hefyd yn DL7, lle nododd y canlynol:
- "Nid oes unrhyw bwyntiau trafod dros ben rhwng yr Ymgeisydd a Cadent mewn perthynas â thelerau'r PP. Fodd bynnag, mae cytundeb Cadent i'r PP yn amodol ar gytundeb ar delerau cytundeb ochr preifat. Cytunwyd i raddau helaeth ar delerau'r cytundeb ochr, gydag un pwynt yn weddill sydd dan ystyriaeth o hyd."*
- 9.2.38. Ni waeth am hyn, roedd Cadent yn ei gyflwyniad DL8 [REP8-039] yn glir:
- *“nad y PP a ffefrir gan Cadent” mo'r PP sydd wedi'u cynnwys yn y dDCO a gyflwynwyd gan yr Hyrwyddwr yn DL7. "Nid yw'r Hyrwyddwr wedi rhoi unrhyw sylw o hyd ar PP Cadent i'r Archwiliad ac nid yw wedi cyfiawnhau unrhyw ymadawiad o PP Cadent."*
 - *"Mae safbwynt Cadent yn parhau yn unol â'r dystiolaeth o flaen yr Archwiliad; mae Cadent yn gofyn am PP Cadent gael eu sicrhau o fewn y DCO."*
- 9.2.39. Yn rhannol oherwydd y safbwyntiau croes a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd a Cadent mewn perthynas â PP, cyhoeddodd yr ExA y llythyr Rheol 17 a grybwyllir uchod [PD-028] yn gofyn am ddiweddariadau pellach ac eglurhad ynghylch PP. Ymatebodd yr Ymgeisydd yn DL9 [REP9-012] ynghylch PP o blaid Cadent, gan gynghori:

"Mae'r cytundeb ochr bellach wedi'i gytuno ac mae mewn cylchrediad i'w lofnodi sy'n golygu bod y PP fel y'u cynhwysir yn niwygiadau K [REP8-005] ac L [REP8-007] o'r dDCO bellach wedi'u cytuno. Dealla'r Ymgeisydd y bydd gwrthwynebiad Cadent yn cael ei dynnu'n ôl yn uniongyrchol gan Cadent ar ôl llofnodi'r cytundeb."

- 9.2.40. Heb ystyried hyn ar ddiwedd yr Archwiliad, nid oedd Cadent wedi tynnu ei safbwynt yn ôl ynghylch PP, fel yr awgrymwyd gan yr Ymgeisydd yn ei gyflwyniadau DL7 [REP7-292] a [REP7-294], a gofynnodd Cadent, yn ei gyflwyniad DL8 [REP8-039], i'r ExA sicrhau bod ei PP safonol yn cael eu sicrhau yn y DCO.
- 9.2.41. Mae'n ymddangos i'r ExA fod y sefyllfa rhwng yr Ymgeisydd a Cadent wedi newid rhwng cyflwyniad DL8 Cadent [REP8-039] ac ymateb yr Ymgeisydd i lythyr Rheol 17 yr ExA dyddiedig 14 Medi 2023 [REP9-012], gyda'r Ymgeisydd yn cynghori bod cytundeb ochr "... wedi'i gytuno a'i gylchredeg i'w lofnodi, gan nodi bod y PP, fel y'u cynhwysir yn y dDCO ar ôl DL8, ar ffurf gytûn..." (Fersiynau terfynol o'r dDCO yw [REP9-011] (y TCV (yr APV) a [REP8-007] (yr EPBV).
- 9.2.42. Ar yr amod bod hyn yn gywir, mae'r ExA o'r farn y byddai geiriad y PP o blaid Cadent yn addas ac yn briodol i'w gynnwys yn y rDCO. Fodd bynnag, pe bai'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Diogelu Ynni a Sero Net yn bwriadu gwneud y DCO, bydd angen iddynt fodloni eu hunain bod geiriad y PP a gynhwysir yn Atodlen 10, Rhan 5 o'r DCO fel y cytunwyd yn derfynol rhwng yr Ymgeisydd a Cadent a bod y partïon wedi'u bodloni mewn perthynas ag unrhyw gytundeb ochr a gwblhawyd rhwng y partïon hyn.

Network Rail Cymru a Lloegr

- 9.2.43. Gan droi at safbwynt NR ynglŷn â PP (Atodlen 10, Rhan 6), roedd yn gwrthwynebu'r Datblygiad Arfaethedig, ar sail PP arfaethedig yr Ymgeisydd. Cynhaliodd NR y safbwynt hwn trwy gydol yr Archwiliad. Fodd bynnag, yn SoCG yr Ymgeisydd a gwblhawyd gyda NR [REP8-026] mae'n cytuno bod *"Cyfres o PP drafft wedi'i chylchredeg gan NR ac yn dilyn trafodaethau rhwng NR a'r Ymgeisydd cadarnhawyd ar 30 Awst 2023 fod y PP bellach wedi'u cytuno rhwng y partïon."* Fodd bynnag, mae'r SoCG hefyd yn nodi y *"Bydd NR yn gofyn bod yr Ymgeisydd yn atodi'r PP y cytunwyd arnynt wrth y Cytundeb Fframwaith"* ac, mewn perthynas ag Erthyglau dDCO sydd wedi'u nodi'n rhai 'dan drafodaeth' yn y SoCG gorffenedig, mae'n nodi bod *"... NR yn cynnal ei wrthwynebiad"* a *"... dim ond ar ôl cwblhau'r Cytundeb Fframwaith gyda'r PP atodedig y bydd NR yn tynnu ei wrthwynebiad yn ôl."*
- 9.2.44. Eglurwyd y sefyllfa hon ymhellach yn DL9 yn ymateb yr ymgeisydd i lythyr Rheol 17 yr ExA dyddiedig 14 Medi 2023 [REP9-012], lle nododd fod *"... y cytundeb fframwaith a'r PP wedi'u cytuno. Mae'r cytundeb fframwaith yn y broses o gael ei lofnodi ond nid yw'r broses honno wedi'i chwblhau eto. Deallir bod y cytundeb hwn yn datrys pryderon NR."* Yn ogystal, darparodd yr Ymgeisydd gopi o e-bost gan NR i'r Ymgeisydd, dyddiedig 20 Medi 2023, gyda'r pennawd pwnc 'Piblinell CO₂ Gogledd-

Orllewin HyNet - PP a Chytundeb Fframwaith NR' yn cadarnhau "... y cytunir ar delerau'r Cytundeb Fframwaith mewn perthynas â'r tir sy'n destun y Gorchymyn Piblinell Carbon Deuocsid arfaethedig, yn amodol ar y ffurfioldebau llofnodi." (Gweler Atodiad 8 o [REP9-012]).

- 9.2.45. O'r herwydd, mae'r ExA yn fodlon bod PP wedi'u cytuno, ynghyd â Chytundeb Fframwaith ('yn amodol ar ffurfioldebau llofnodi'), rhwng yr Ymgeisydd a NR, ac mai fersiwn diweddaraf y PP yw'r rhai a gynhwysir yn nrafftiau terfynol y DCO [REP9-011] (y TCV (yr APV) a [REP8-007] (yr EPBV). Felly, mae'r ExA o'r farn bod y PP fel y'u cynhwysir yn nrafftiau terfynol y DCO yn addas ac yn briodol i'w cynnwys yn y rDCO.
- 9.2.46. Beth bynnag am hyn, pe byddai'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer yr Adran Diogelu Ynni a Sero Net (DESNZ) yn bwriadu gwneud y DCO bydd angen iddo fodloni ei hun fod geiriad y PP a gynhwysir yn Atodlen 10, Rhan 6 o'r DCO fel y cytunwyd yn derfynol arno rhwng yr Ymgeisydd a NR a bod y partion wedi'u bodloni mewn perthynas ag unrhyw gytundeb (Cytundeb Fframwaith/ Gweithred Dealltwriaeth, Eiddo / APA, Cytundeb Fforddfraint, ac ati) wedi ei gwblhau rhwng y partion hyn.

Glandŵr Cymru (CRT)

- 9.2.47. Mae'r SoCG gorffenedig gyda CRT [REP7-265] yn cytuno y bu'r partion yn trafod PP a'u bod wedi cytuno ar yr holl faterion o fewn y rhain ac eithrio'r rhai sy'n cyfyngu ar bwerau CA yr Ymgeisydd. Mae'r SoCG hwn yn cadarnhau bod yr Ymgeisydd a CRT yn parhau i drafod y cytundeb gwirfoddol i gaffael Tir CRT a, phan fydd cytundeb, y cytunir ar y pwynt sy'n weddill yn y PP.
- 9.2.48. Yn wir, cadarnhaodd CRT mewn perthynas â PP yn DL6 [REP6-038] ei fod yn ystyried diwygiadau a sylwadau awgrymedig a bod nifer o faterion o fewn y PP wedi'u trafod a'u cytuno mewn cyfarfod rhwng y partion ym mis Gorffennaf 2023. Dywedodd CRT ei fod yn bwriadu ymateb yn ffurfiol i'r Ymgeisydd ar y materion sy'n weddill, a'i fod yn awyddus i gydweithio i ddod i gytundeb arnynt.
- 9.2.49. Cadarnhawyd y sefyllfa yn y SoCG a gwblhawyd [REP7-265] hefyd gan CRT yn ei gyflwyniad DL8 [REP8-040] lle nododd "... yr unig fater sy'n weddill yn y PP ... yw mater sy'n ymwneud â chyfyngu ar ddefnyddio pwerau CA. Mae CRT o'r farn y dylai hyn fod drwy hawliau tir gwirfoddol addas." Fodd bynnag, nododd CRT hefyd fod yr Ymgeisydd yn cadarnhau, gan nad yw cytundeb gwirfoddol wedi'i gwblhau eto, fod hyn yn dangos pam oedd angen pwerau CA i gyflawni'r prosiect. Fel y cyfryw, mae CRT yn dadlau nad diffyg ymdrech ar ei ran oedd yn gyfrifol am y diffyg cytundeb gwirfoddol ar waith, a dywed ei fod yn dal i obeithio y gellid dod i gytundeb o'r fath gyda'r Ymgeisydd.
- 9.2.50. Heb ystyried hyn, mae'r SoCG gorffenedig gyda CRT [REP7-265] yn cadarnhau, yn amodol ar gytuno ar gytundeb tir gwirfoddol, y bydd y pwynt sy'n weddill yn y PP yn cael ei gytuno. Fodd bynnag, ni chynghorwyd yr ExA am gwblhau unrhyw gytundeb o'r fath erbyn diwedd yr Archwiliad. Er gwaethaf hyn, mae'n amlwg i'r ExA fod y ddwy ochr wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran y PP ac nid yw'r ExA yn gweld

unrhyw reswm pam na fyddai'r Ymgeisydd a CRT wedi dod i gytundeb cyfeillgar mewn perthynas â PP trwy gwblhau'r cytundeb tir gwirfoddol sy'n weddill.

- 9.2.51. Er nad yw'r ExA yn gallu cadarnhau bod y partïon yn fodlon bod PP wedi'u cytuno, nid oes rheswm dros gredu nad yw'r maes anghytundeb rhwng y Partïon wedi'i ddatrys ers hynny. Yn wir, mae'r ExA o'r farn y byddai PP o blaid CRT yn addas ac yn briodol i'w cynnwys yn y rDCO. Fel y cyfryw, pe bai'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer DESNZ yn bwriadu gwneud y DCO bydd angen iddo fodloni ei hun fod geiriad y PP a gynhwysir yn Atodlen 10, Rhan 7 o'r DCO fel y cytunwyd yn derfynol rhwng yr Ymgeisydd a CRT a bod y partïon wedi'u bodloni mewn perthynas ag unrhyw gytundebau tir gwirfoddol a gwblhawyd rhwng y partïon hyn.

Wales and West Utilities

- 9.2.52. Gan droi at PP o blaid Wales and West Utilities (WWU) (Atodlen 10, Rhan 10), ac eithrio'r Ymgeisydd yn cwblhau SoCG gyda WWU [REP9-009], ni chymerodd ran arall o gwbl yn yr Archwiliad. Fodd bynnag, roedd y SoCG gorffenedig [REP9-009] yn cytuno bod *"Yr Ymgeisydd yn trafod gyda WWU mewn perthynas â PP"* ac y bu'r *"Trafod yn ailadroddus ac adeiladol"*.
- 9.2.53. Beth bynnag fo'r uchod, ni chytunwyd ar PP cyn cau'r Archwiliad. Fodd bynnag, nid oes gan yr ExA unrhyw reswm dros gredu bod PP arfaethedig yr Ymgeisydd yn y dDCO yn annerbyniol i WWU, gan na fuont yn cymryd unrhyw ran yn ystod yr Archwiliad ac yn absenoldeb unrhyw dystiolaeth i'r gwrthwyneb mae'r ExA o'r farn bod y PP o blaid WWU yn addas ac yn briodol i'w cynnwys yn y rDCO.
- 9.2.54. Fel y cyfryw, pe byddai'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer DESNZ yn bwriadu gwneud y DCO bydd angen iddo fodloni ei hun fod geiriad y PP a gynhwysir yn Atodlen 10, Rhan 7 o'r DCO fel y cytunwyd yn derfynol rhwng yr Ymgeisydd a CRT a bod y partïon wedi'u bodloni mewn perthynas ag unrhyw gytundebau tir gwirfoddol a gwblhawyd rhwng y partïon hyn.

Dŵr Cymru Welsh Water

- 9.2.55. Gan droi at DCWW (Rhan 11), ac eithrio'r Ymgeisydd yn cwblhau SoCG gyda DCWW [REP7-266], ni chymerodd DCWW unrhyw ran arall yn yr Archwiliad. Fodd bynnag, roedd y SoCG [REP7-266] yn nodi na chytunwyd ar PP er gwaethaf *"... ymgysylltu'n weithredol â DCWW ar drafod PP"*. Fodd bynnag, eglurodd yr Ymgeisydd y sefyllfa hon ymhellach yn DL9, yn ei ddogfen o'r enw 'Ymateb yr Ymgeisydd i Reol 17...' [REP9-012] lle nododd:

"Mae'r sefyllfa'n parhau fel y'i nodir yn niweddariad yr Ymgeisydd ar ddrafftio DCO [REP7-294] a gyflwynwyd ar Ddyddiad Cau 7. Darparodd yr Ymgeisydd ddarpariaethau drafft i DCWW ar ei gais ond nid yw wedi cael unrhyw sylwadau ar hynny ac nid yw DCWW wedi codi unrhyw wrthwynebiad i'r geiriad nac wedi darparu unrhyw ddrafftio amgen. Mae'r

fersiwn a gynhwysir yn cydreded yn uniongyrchol â'r amddiffyniadau safonol ar gyfer ymgwymerwyr dŵr a charthffosiaeth. Yn unol â hynny, mae'r Ymgeisydd yn cynnig na all unrhyw niwed difrifol godi gan fod yr holl fesurau amddiffyn safonol ar waith."

- 9.2.56. Ar ôl ystyried yr uchod, mae'r ExA o'r farn bod y PP o blaid DCWW, fel y'i nodir yn y fersiynau cyfredol o'r dDCO (y TCV (yr APV) [REP9-011] neu EPBV y dDCO [REP8-007]) yn darparu lefel addas o amddiffyniad o'i blaid. Yn wir, yn absenoldeb unrhyw dystiolaeth i'r gwrthwyneb mae'r ExA o'r farn bod y PP o blaid DCWW yn addas ac yn briodol i'w cynnwys yn y rDCO. Fodd bynnag, pe bai'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer DESNZ yn bwriadu gwneud y DCO bydd angen iddo fodloni ei hun fod geiriad y PP a gynhwysir yn Atodlen 10, Rhan 11 o'r DCO fel y cytunwyd yn derfynol rhwng yr Ymgeisydd a DCWW.

United Kingdom Oil Pipelines Limited

- 9.2.57. Gan droi at UKOP (a elwir hefyd yn British Pipeline Agency) dywedodd dogfen 'Diweddariad yr Ymgeisydd ar Ddrafftio'r DCO' [REP7-294] ei fod yn "... cytuno bod PP o blaid UKOP Limited yn briodol ar gyfer y datblygiad hwn ond yn anghytuno bod angen ffurf y darpariaethau o'r fath a gyflwynwyd gan UKOP Ltd i sicrhau'r mesurau amddiffyn gofynnol ar gyfer y gwaith a fyddai'n cael ei gydsynio gan y DCO." Roedd hefyd yn dweud ei fod yn "... methu cytuno i rwymedigaeth i gwblhau trwydded clos gwaith ffurfiol mewn perthynas â'r clos gwaith y bwriedir ei adeiladu dros y cyfarpar yn Llain 6.20 a bod "y PP yn darparu amddiffyniad digonol ar gyfer cyfarpar UKOP. Byddai unrhyw gytundeb tir ar gyfer y clos gwaith yn cael ei gytuno gyda'r tirfeddiannwr, nad UKOP mohono."
- 9.2.58. Fodd bynnag, nododd Datganiad Cyffredinedd SoCG yr Ymgeisydd [REP8-020], a gyflwynwyd yn DL8, y byddai fersiwn terfynol o'r SoCG yn cael ei ddarparu cyn diwedd yr Archwiliad, gan fod "... trafodaethau'n parhau ar PP a chytundeb trwydded mewn perthynas â chlos [Llain Rhif] 6-20."
- 9.2.59. Dywedodd yr Ymgeisydd, yn ei ddogfen "Ymateb yr Ymgeisydd i'r Cais Rheol 17 am Wybodaeth" [REP9-012] fod "PP bellach wedi'u cytuno ac mae'r Ymgeisydd yn deall y bydd gwrthwynebiad UKOP yn cael ei dynnu'n ôl." Fodd bynnag, nid oedd UKOP wedi cadarnhau'r sefyllfa hon cyn cau'r Archwiliad.
- 9.2.60. Yn absenoldeb unrhyw dystiolaeth i'r gwrthwyneb, mae'r ExA o'r farn y byddai'r PP o blaid UKOP yn addas ac yn briodol i'w cynnwys yn y rDCO. Fodd bynnag, pe bai'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer DESNZ yn bwriadu gwneud y DCO, bydd angen iddo fodloni ei hun fod geiriad y PP a gynhwysir yn Atodlen 10, Rhan 13 o'r DCO fel y cytunwyd yn derfynol rhwng yr Ymgeisydd ac UKOP a bod y partion wedi'u bodloni mewn perthynas ag unrhyw gytundeb trwydded a gwblhawyd rhwng y partion hyn.

Peel NRE Limited

- 9.2.61. Gan droi at Peel NRE Limited (Rhan 14), trwy gydol yr Archwiliad mae'r Ymgeisydd a Peel NRE wedi parhau i drafod nifer o faterion, gan gynnwys

mynediad, coridor hawddfraint/cyfamodau cyfyngol cysylltiedig a chytundebau tir. Fodd bynnag, yn absenoldeb cytundeb ar PP, daliodd Peel NRE at ei wrthwynebiadau i'r Datblygiad Arfaethedig. Yn ei gyflwyniad DL8 [REP8-047] crybwyllodd Peel NRE: "... trafodaethau gyda'r Ymgeisydd ynghylch dull amgen o fynediad ac mae'r partïon yn... agos at ddod i gytundeb trwy PP..."

- 9.2.62. Gofynnodd yr ExA am ddiweddariad ynghylch PP heb eu cytuno yn ei lythyr Rheol 17 dyddiedig 14 Medi 2023 [PD-028]. Yn ymateb yr ymgeisydd [REP9-012] nododd ei fod wedi "... ceisio ymgysylltu â Peel NRE ar ryngweithiadau cymhleth iawn y datblygiad sy'n effeithio ar safle Protos, sef adeiladu AGI Ince a'r biblinell gysylltiedig, trefniadau mynediad cymhleth, datblygiadau lluosog Peel NRE yn y dyfodol a'r nifer o bwyntiau a gododd Peel NRE ynghylch Datganiad Amgylcheddol yr Ymgeisydd. Mae'r Ymgeisydd a Peel NRE wedi gweithio'n ddiwyd gyda'i gilydd i ddod i gonsensws, lle addasodd yr Ymgeisydd ei Ddatganiad Amgylcheddol a datblygodd trafodaethau masnachol cyfrinachol i oresgyn y materion a godwyd. Gyda chytundeb fframwaith masnachol ar waith (wedi'i gytuno a'i gylchredeg i'w lofnodi ar 20 Medi 2023 ond ni chwblhawyd y broses) mae'r Partïon yn falch o gadarnhau eu bod wedi dod i gytundeb ar PP y cytunwyd arnynt, ac mae Peel NRE wedi cadarnhau i'r Ymgeisydd y bydd y pwyntiau gweithredu a amlinellir uchod yn eu bodloni'n ddigonol i ddileu eu gwrthwynebiadau i Ddatblygiad Arfaethedig y DCO pan fydd y cytundeb wedi'i lofnodi."
- 9.2.63. Fodd bynnag, nid oedd Peel NRE wedi cadarnhau'r sefyllfa hon, nac wedi dileu ei wrthwynebiad, cyn cau'r Archwiliad. Ni waeth am hyn, mae'r ExA yn nodi bod y PP o blaid Peel NRE yn y fersiynau dDCO terfynol ([REP9-011] y TCV (yr APV) a [REP8-007] yr EPBV) yn union yr un fath â PP Peel NRE a gyflwynwyd yn DL8 [REP8-047].
- 9.2.64. Fel y cyfryw, mae'r ExA o'r farn y byddai'r PP o blaid Peel NRE Limited yn addas ac yn briodol i'w cynnwys yn y rDCO. Fodd bynnag, pe bai'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer DESNZ yn bwriadu gwneud y DCO, bydd angen iddo fodloni ei hun fod geiriad y PP a gynhwysir yn Atodlen 10, Rhan 14 o'r DCO fel y cytunwyd yn derfynol rhwng yr Ymgeisydd a NRE Peel a bod y partïon wedi'u bodloni mewn perthynas ag unrhyw gytundeb fframwaith masnachol a gwblhawyd rhwng y partïon hyn.

Encirc Ltd

- 9.2.65. Gan droi at Encirc Ltd (Rhan 15) ar ddiwedd yr Archwiliad parhaodd ei wrthwynebiad i'r Datblygiad Arfaethedig ac ni chafwyd cytundeb ar PP nac unrhyw gytundeb(au) ochr cysylltiedig.
- 9.2.66. Mae'r Ymgeisydd yn cyfeirio at gyflwyno SoCG wedi'i gwblhau gydag Encirc yn DL9. Er gwaethaf hyn, ni chynhwyswyd unrhyw ddogfen felly yn y pecyn dogfennau a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd yn DL9 ac ni chyflwynwyd dogfen felly gan yr Ymgeisydd cyn cau'r Archwiliad. Felly, y fersiwn olaf oedd ar gael i'r ExA ei ystyried oedd y dSoCG a oedd yn cael ei baratoi gan yr Ymgeisydd gydag Encirc [REP6-026], a gyflwynwyd yn DL6. O ran y dDCO nododd y drafft hwnnw fod y canlynol 'Dan

Drafodaeth': "Mae'r partïon wedi cytuno y bydd PP er budd Encirc yn cael eu cynnwys yn y DCO. Mae telerau'r darpariaethau hyn yn cael eu trafod ar hyn o bryd rhwng y partïon." (gweler Tabl 3-6). Am mai dSoCG ydyw, nid yw'r ExA yn rhoi fawr o bwys iddo.

- 9.2.67. Roedd Encirc Ltd, fel rhan o'i gyflwyniadau DL7 [REP7-323], yn cynnwys ei PP dewisol [REP7-321], yn ogystal â 'Thabl o Bwyntiau heb eu Cytuno rhwng y Partïon mewn perthynas â PP er Budd Encirc' [REP7-322]. Dangosodd hyn y meysydd anghydfod yn y PP drafft fel paragraffau 2 (178), 3(d) (179(d)), 7 (184), 13 (189) a 14 (*) (mae'r Rhifau mewn cromfachau yn dynodi rhifau paragraff PP a gynhwysir yn fersiynau'r dDCO a gyflwynwyd yn derfynol gan yr Ymgeisydd (y TCV [REP9-011] (yr APV) a'r EPBV [REP8-007]), tra bod y symbol (*) yn dynodi y byddai paragraff yn newydd i'r fersiynau dDCO a gyflwynwyd yn derfynol gan yr Ymgeisydd ac y byddai'n ei gwneud yn ofynnol i'r holl baragraffau dilynol gael eu hail-rifo'n briodol).
- 9.2.68. Nododd yr Ymgeisydd ei ymateb i gyflwyniadau DL7 Encirc yn Atodiad 1 o'i 'Ddatganiad Safbwyntiau Terfynol' [REP8-037]. Ar ôl ystyried yr holl gyflwyniadau a wnaed gan y ddau barti mewn perthynas â PP, daeth yr ExA i'r casgliad bod 'Datganiad Safbwyntiau Terfynol' yr Ymgeisydd [REP8-037] yn darparu dadleuon clir, rhesymegol a pherswadiol sy'n cyfiawnhau pam y mae'r PP, fel y'u nodir yn y fersiynau dDCO a gyflwynwyd yn derfynol (y TCV [REP9-011] (yr APV) a'r EPBV [REP8-007]), yn darparu lefel ddigonol a phriodol o amddiffyniad o blaid Encirc Limited. Nid yw'r ExA yn argyhoeddedig fod yr ychwanegiadau at y PP, sy'n cael eu hyrwyddo gan Encirc yn DL7, yn ychwanegiadau cymesur na rhesymol.
- 9.2.69. Waeth beth yw barn yr ExA ynghylch PP o blaid Encirc Limited, nodir bod cyflwyniad DL7 Encirc [REP7-323] yn nodi *"Mae'r partïon yn parhau i drafod mewn perthynas â PP er budd Encirc."* Yn wir, mae'r Ymgeisydd yn ei 'Ddiweddariad ar Ddrafftio'r DCO' [REP7-294] yn nodi yn dilyn DL7 fod *"yr Ymgeisydd yn awyddus i barhau i weithio gydag Encirc i gytuno ar delerau'r PP ..."*
- 9.2.70. At hynny, mae'r Ymgeisydd yn ei ddogfen o'r enw "Ymateb yr Ymgeisydd i'r Cais Rheol 17 am Wybodaeth" [REP9-012] yn nodi ei fod wedi *"... ceisio ymgysylltu ag Encirc Limited ar y rhyngweithio cysylltiedig â'r datblygiad sy'n effeithio ar safle Encirc Limited, sef y trefniadau mynediad cymhleth a chynlluniau datblygu Encirc yn y dyfodol."* Dywedodd hefyd er ei fod wedi *"... methu dod i gytundeb boddhaol gydag Encirc..."* ei fod *"... wedi ymrwymo i barhau i ymgysylltu ag Encirc ar ôl diwedd yr Archwiliad."*
- 9.2.71. O gofio'r uchod i gyd, mae'r ExA o'r farn y byddai PP o blaid Encirc Ltd yn addas ac yn briodol i'w cynnwys yn y rDCO. Fodd bynnag, pe bai'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer DESNZ yn bwriadu gwneud y DCO, bydd angen iddo fodloni ei hun fod geiriad y PP a gynhwysir yn Atodlen 10, Rhan 15 o'r DCO fel y cytunwyd yn derfynol rhwng yr Ymgeisydd ac Encirc Ltd a bod y partïon yn fodlon mewn perthynas ag unrhyw

gytundeb tir, ochr, technegol neu arall sydd wedi'i gwblhau rhwng y partïon hyn.

National Highways Limited

- 9.2.72. Gan droi at NH (Rhan 17) ar ddiwedd yr Archwiliad parhaodd ei wrthwynebiad i'r Datblygiad Arfaethedig ac ni chafwyd cytundeb ar PP nac unrhyw gytundeb(au) ochr cysylltiedig. Nodir bod yr ExA yn ystod CAH2 wedi gofyn i'r ddau barti geisio culhau eu gwahaniaethau gan ystyried y prinder amser sy'n weddill yn yr Archwiliad.
- 9.2.73. Heb ystyried y cais hwn, mae'r ExA yn nodi bod 'datganiad safbwynt terfynol yr Ymgeisydd' [REP8-037] yn nodi "... *nad oes unrhyw gynnydd ystyrlon wedi'i wneud i ddatrys yr anghytundeb. Mae'r partion mewn sefyllfa "cytuno i anghytuno..."* Fel y cyfryw, mae'r ExA o'r farn bod NH a'r Ymgeisydd wedi cyrraedd cyfyngder.
- 9.2.74. Trafodir mater PP o blaid NH ym Mhennod 8 uchod ac nid yw'n cael ei ailadrodd yma er mwyn osgoi dyblygu.
- 9.2.75. Daethpwyd i ystyriaethau a chasgliadau'r ExA sy'n ymwneud â PP o blaid NH, fel y'u nodir ym Mhennod 8 uchod, ar ôl adolygu dau fersiwn y PP (fersiynau cyfredol yr Ymgeisydd o'r dDCO oedd y Fersiwn Croesi â Ffos (TCV) [REP9-011] (fersiwn a ffefrir gan yr Ymgeisydd) a Fersiwn Pont Biblinell Ymgorfforedig [REP8-007]), yn ogystal â PP NH, sydd ynghlwm yn Atodiad 1 o'i ddatganiad cau [REP8-046]).
- 9.2.76. Gan fyfyrion ar sefyllfa'r ddau barti, fel y'i nodir mewn cyflwyniadau a wnaed yn yr Archwiliad ar y mater, gan gynnwys y farn KC a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd a DL7 [REP8-038], daeth yr ExA i'r casgliad na chafodd ei berswadio mewn perthynas â phryderon NH mewn perthynas â PP arfaethedig yr Ymgeisydd. Yn wir, roedd yr ExA o'r farn bod dadleuon yr Ymgeisydd yn erbyn defnyddio PP NH yn rhesymegol ac yn ddarbwyllol.
- 9.2.77. O'r herwydd, daeth yr ExA i'r casgliad fod PP arfaethedig yr Ymgeisydd yn rhoi lefel briodol o ddiogelwch i NH o ran ei ymgymeriad statudol, ei dir, ac unrhyw offer, gan barhau i sicrhau na fyddai'r Datblygiad Arfaethedig yn arwain at niwed difrifol i barhau ei ymgymeriad. Felly, mae'r ExA o'r farn y byddai cynnwys PP o blaid NH fel y'u nodir ar hyn o bryd yn nau fersiwn y DCO, fel y disgrifir uchod, yn addas ac yn briodol i'w cynnwys yn y rDCO yn Atodiad D yr adroddiad hwn.
- 9.2.78. Waeth beth fo'r uchod, pe bai'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer DESNZ yn bwriadu gwneud y DCO bydd angen iddo fodloni ei hun bod y partïon yn fodlon mewn perthynas ag unrhyw gytundeb masnachol a gwblheir rhwng y partïon hyn.

Awdurdodau Priffyrdd Lleol

- 9.2.79. Gan droi at Awdurdodau Priffyrdd Lleol (Rhan 18), newidiodd CWCC a FCC eu safbwynt mewn perthynas ag effaith y Datblygiad Arfaethedig ar eu hymgymeriad statudol a chodwyd gwrthwynebiad ganddynt i'r

Datblygiad Arfaethedig. Cyngorwyd yr ExA am y newid safbwynt hwn yn hwyr yn yr Archwiliad, gyda CWCC yn rhoi gwybod am ei newid safbwynt yn DL7 [REP7-306] a FCC yn cyngori am ei newid safbwynt yn DL8 [REP8-044]. Felly, ar ddiwedd yr Archwiliad, roedd eu gwrthwynebiadau i'r Datblygiad Arfaethedig yn parhau ac ni chafwyd cytundeb ar PP.

9.2.80. Trafodir mater PP o blaid yr awdurdodau priffyrdd lleol ym Mhennod 8 uchod ac nid yw'n cael ei ailadrodd yma er mwyn osgoi dyblygu.

9.2.81. Daethpwyd i ystyriaethau a chasgliadau'r ExA yn ymwneud â PP o blaid yr awdurdodau priffyrdd lleol, fel y nodir ym Mhennod 8 uchod, ar ôl adolygu dau fersiwn y PP (fersiynau cyfredol yr Ymgeisydd o'r dDCO yw'r Fersiwn Croesi â Ffos (TCV) [REP9-011] (fersiwn a ffeirir gan yr Ymgeisydd) a Fersiwn Pont Biblinell Ymgorfforedig [REP8-007]), yn ogystal â'r fersiwn o PP a gyflenwir gan CWCC yn DL7 [REP7-300] (cytunodd FCC fod fersiwn CWCC o PP yn dderbyniol iddo yn ei gyflwyniad DL8 [REP8-044]).

9.2.82. Ar ôl adolygu dau fersiwn y PP (fersiynau cyfredol yr Ymgeisydd o'r dDCO) a'r PP a hyrwyddwyd gan CWCC/FCC, fel y'u cyflwynwyd yn DL7 [REP7-300]), ac ar ôl myfyrio ar safbwynt pob parti sy'n berthnasol i'r mater hwn, fel y nodir mewn cyflwyniadau a wnaed yn yr Archwiliad, gan gynnwys:

- Datganiad Safbwynt Terfynol yr Ymgeisydd [REP8-037], sy'n cynnwys gwrthateb yr Ymgeisydd ynghylch arsylwadau CWCC ynghylch Erthygl 12 o'r dDCO;
- barn y KC a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd yn DL8 [REP8-038]; ac
- Ymateb yr Ymgeisydd i'r Cais Rheol 17 am Wybodaeth [REP9-012], Atodiad 7 (sic), a oedd yn nodi ei '... ymateb i C5, ymateb yr Ymgeisydd i CWCC [REP8-041a]',

daeth yr ExA i'r casgliad na chafodd ei berswadio mewn perthynas â'r pryderon a godwyd ynghylch PP gan yr SU hyn.

9.2.83. Yn wir, canfu'r ExA fod dadleuon yr Ymgeisydd yn erbyn defnyddio'r PP a hyrwyddwyd gan yr awdurdodau priffyrdd lleol yn rhesymegol ac yn ddarbwyllol. Fel y cyfryw, roedd yn fodlon y byddai PP yr Ymgeisydd, sydd wedi'u cynnwys yn y rDCO yn Atodiad D yr adroddiad hwn, yn rhoi i CWCC a FCC (sy'n gweithredu fel yr awdurdod priffyrdd lleol, o fewn eu priod awdurdodaethau) lefel briodol o ddiogelwch o ran eu hymgymeriad statudol, tir ac unrhyw offer, gan hefyd sicrhau na fyddai'r Datblygiad Arfaethedig yn arwain at niwed difrifol i barhau eu hymgymeriad.

9.2.84. Fel y cyfryw, mae'r ExA o'r farn y byddai cynnwys PP o blaid yr Awdurdodau Priffyrdd Lleol, fel y nodir ar hyn o bryd yn nau fersiwn y DCO fel y disgrifir uchod, yn addas ac yn briodol i'w cynnwys yn y rDCO yn Atodiad D yr adroddiad hwn ac mae'n fodlon yn hyn o beth.

Exolum

9.2.85. Dywedodd yr Ymgeisydd, yn ei gyflwyniad DL7 'Diweddariad yr Ymgeisydd ar Ddrafftio'r DCO' [REP7-294] fod trafodaethau ar PP gydag Exolum yn parhau, ond bod rhai rhannau o'r PP a geisir yn destun

anghytuno o hyd. Roedd y meysydd anghytundeb hyn yn ymwneud â phwerau gorfodol, y diffiniad o weithred cydsynio, hawliau mynediad a'r amserlen i gymeradwyo cynlluniau.

9.2.86. Dywedodd Exolum yn ei gyflwyniad DL8 [REP8-050] fod PP wedi'u cytuno heblaw'r geiriad sy'n atal caffael eiddo Exolum a'i fuddiannau mewn tir, fel y nodir yn y PP a ffefrir gan Exolum a gyflwynwyd hefyd yn DL8 [REP8-051]. Nododd nad yw'r Ymgeisydd wedi cytuno i gynnwys ei eiriad, ond nododd fod geiriad cyfatebol yn ymddangos mewn PP eraill o fewn y dDCO a gyflwynwyd yn DL7 [REP7-014], gan ddyfynnu Rhan 3 paragraff 20, Rhan 4 paragraff 36, a Rhan 5 paragraff 52. O'r herwydd, dywedodd ei fod yn gobeithio y byddai'r Ymgeisydd yn cytuno i gynnwys y geiriad hwn a dywedodd y byddai'n parhau i ymgysylltu â'r Ymgeisydd i gytuno ar y PP.

9.2.87. Mae'r Ymgeisydd yn ei gyflwyniad DL7 [REP7-294], y soniwyd amdano uchod, yn nodi'r rhesymau pam nad yw'n gallu ildio mewn perthynas â'r mater hwn. O ran pwerau Gorfodol dywedodd:

"Ni all yr Ymgeisydd gytuno i unrhyw derfynau i'r pwerau gorfodol drwy fynnu caniatâd Exolum i arfer y pwerau gorfodol hynny yn absenoldeb cytundeb hawliau tir gwirfoddol addas. Mae'r ffaith nad oes cytundeb gwirfoddol wedi'i gwblhau eto yn dangos pam mae angen y pwerau hyn i sicrhau bod yr NSIP yn cael ei gyflawni."

9.2.88. Roedd llythyr Rheol 17 yr ExA [PD-028], yn gofyn am ragor o wybodaeth am eithrio geiriad dewisol Exolum ac yn 'Ymateb yr Ymgeisydd i'r Cais Rheol 17 am Wybodaeth' [REP9-012] roedd yn gwrthwynebu 'codi' geiriad o PP eraill a dywedodd ei fod o'r farn y byddai eu cymhwyso yn yr achos hwn yn methu ag ystyried y gwahanol ffeithiau ac amgylchiadau sydd ar waith yn yr achos hwn.

9.2.89. Gan nodi dau wahanol fater gyda PP drafft Exolum, a gyflwynwyd yn DL8 [REP8-051] sef peidio â chaffael eu hoffer (y mae'r Ymgeisydd yn nodi y cytunwyd arno), a bod PP gan berchnogion offer eraill, ymatebodd yr Ymgeisydd:

"Mae'r ail fater yn ymwneud ag effaith pwerau ar yr hawliau tir sydd gan Exolum; yn yr achos hwn, y gwahaniaethydd rhwng Exolum a phartion gwarchodedig eraill yw'r gwahaniaeth rhwng hawddfrait (a ddelir gan ddarparwyr seilwaith eraill) a hawl prydles. Gan fod prydles gan Exolum, byddai caffael y buddiant rhydd-ddaliad yn dileu honno. Ni ellir creu prydlesi trwy arfer pwerau gorfodol. Felly, byddai'r geiriad a gynigir yn atal yr Ymgeisydd rhag caffael y buddiant rhydd-ddaliad oherwydd yr effaith ganlyniadol ar y brydles."

Byddai geiriad arfaethedig Exolum yn atal yr Ymgeisydd rhag caffael buddiannau eraill mewn tir heb eu caniatâd - nad yw'r cydsyniad yn destun cyfyngiadau ar leoliad eu buddiant, ond yn y bôn gallai weithredu i greu sefyllfa bridwerth (er nad yw'r Ymgeisydd yn ystyried mai dyna yw'r bwriad, dyna fyddai'r effaith ac felly mae'n annerbyniol i'r Ymgeisydd)."

- 9.2.90. Mae'r Ymgeisydd yn ei ymateb yn pwysleisio nad oes ganddo "... ddim bwriad, angen, na dymuniad i gaffael offer Exolum, fodd bynnag, oherwydd cyfyngiadau CA, efallai y bydd angen ymyrryd â'u hawliau prydles o ganlyniad i unrhyw gaffael buddiant rhydd-ddaliad." Gyda'r bwriad o unioni'r maes anghytundeb hwn, mae'r Ymgeisydd wedi cynnig geiriad amgen i'r PP. Dywed ei fod yn ystyried y byddai'r geiriad amgen "... yn sicrhau bod Exolum yn cael prydles newydd, gan yr Ymgeisydd, ar yr un telerau â'r un bresennol ar yr adeg y mae'r caffaeliad yn digwydd: i bob pwrpas, amnewid tebyg am debyg ar unwaith."
- 9.2.91. Atododd yr Ymgeisydd ei eiriad PP diwygiedig a awgrymwyd yn Atodiad 1 o'i ddogfen 'Ymateb yr Ymgeisydd i'r Cais Rheol 17 am Wybodaeth' [REP9-012] ac yn Atodiad 8 o'r un ddogfen amgaewyd copi o e-bost gan Veale Wasbrough Vizards LLP, yn gweithredu ar ran Exolum, dyddiedig 20 Medi 2023 yn cadarnhau y cytunwyd i'r PP ynghlwm wrth yr e-bost hwnnw. Roedd y PP hynny'n adlewyrchu'r newidiadau i PP Exolum fel y'u nodir yn Atodiad 1 o [REP9-012] a grybwyllir uchod.
- 9.2.92. Heb ystyried yr uchod, ni chafodd yr ExA unrhyw gadarnhad bod Exolum yn dileu ei wrthwynebiadau i PP cyn cau'r Archwiliad. Fodd bynnag, mae'r ExA yn ystyried bod ychwanegu geiriad o'r fath, fel yr awgrymir yn Atodiad 1 o [REP9-012] a grybwyllir uchod, yn angenrheidiol ac yn briodol yn enwedig o ystyried bod y partion fel petaent wedi dod i gytundeb ar y mater hwn. Felly, mae'r ExA yn ystyried y byddai cynnwys PP o blaid Exolum, fel y'u diwygiwyd gan y geiriad ychwanegol yn Atodiad 1 o [REP9-012], yn addas ac yn briodol i'w cynnwys yn y rDCO yn Atodiad D yr adroddiad hwn.
- 9.2.93. Fel y cyfryw, pe bai'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer DESNZ yn bwriadu gwneud y DCO bydd angen iddo fodloni ei hun fod geiriad y PP a gynhwysir yn Atodlen 10, Rhan 20 o'r DCO fel y cytunwyd yn derfynol rhwng yr Ymgeisydd ac Exolum.

9.3. NEWIDIADAU YN YSTOD YR ARCHWILIAD

- 9.3.1. Diweddarodd yr Ymgeisydd y dDCO cyn dechrau'r Archwiliad a nifer o weithiau yn ystod yr Archwiliad. Gwnaed y diweddariadau hyn mewn ymateb i faterion a godwyd yng nghwestiynau ysgrifenedig yr ExA, i RR a Sylwadau Ysgrifenedig ac o ganlyniad i'r broses gwrandawriad. Cyflwynodd hefyd fersiynau wedi'u diweddarau o'r dDCO gyda phob Cais i Wneud Newidiadau (CR) a gyflwynwyd, ac roedd tri CR (CR1, CR2 a CR3). Cyflwynodd yr Ymgeisydd ym mhob adolygiad gopi glân a chopi yn dangos newidiadau trac o'r fersiwn copi glân blaenorol. Roedd pum eithriad i hyn, fel y nodir isod:
- ni chyflwynwyd unrhyw fersiynau o'r dDCO yn DL2, DL5, DL6 na DL6A; a
 - dim ond fersiwn glân o'r dDCO a ffafriwyd ganddo a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd yn DL9, er bod hwn yn union yr un fath ag APV y dDCO a gyflwynwyd yn DL8.
- 9.3.2. Dylid nodi bod yr Ymgeisydd wedi cyflwyno dau fersiwn o'r dDCO o DL7, y naill oedd y TCV (yr APV) a'r llall oedd yr EPBV. Gwnaed hyn gan yr

Ymgeisydd i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gan CNC ynghylch ei TCV o'r dDCO (yr APV). Cofnodir y cyflwyniadau hyn yn y paragraffau isod.

9.3.3. Roedd y fersiynau o'r dDCO wedi'i ddiweddaru a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd fel a ganlyn:

- Cyflwynwyd cyn cychwyn yr Archwiliad [AS-016] (Glân) a [AS-017] (wedi tracio).
- Fersiwn DL1 [REP1-004] (glân) a [REP1-005] (wedi tracio).
- Fersiwn CR1 [CR1-017] (glân) a [CR1-018] (wedi tracio).
- Fersiwn DL3 [REP3-005] (glân) a [REP3-006] (wedi tracio).
- Fersiwn CR2 [CR2-008] (glân) a [CR2-009] (wedi tracio).
- Fersiwn DL4 [REP4-008] (glân) a [REP4-007] (wedi tracio).
- Fersiwn CR3 [CR3-008] (glân) a [CR3-009] (wedi tracio).
- Fersiynau:
 - TCV (APV) [REP7-013] (glân) a [REP7-016] (wedi tracio);
 - EPBV [REP7-014] (glân); a
 - Cymharu'r APV a'r EPBV [REP7-015] (wedi tracio).
- Fersiynau DL8:
 - TCV (APV) [REP8-005] (glân) a [REP8-006] (wedi tracio); ac
 - EPBV [REP8-007] (glân) a [REP8-008] (wedi tracio).
- Fersiwn DL9 yw TCV (APV) [REP9-011] (glân).

9.3.4. Yn ogystal, cyflwynodd yr Ymgeisydd 'Restr o Ddiweddariadau i'r DCO' yn cofnodi'r newidiadau i'r dDCO mewn gwahanol DL trwy gydol yr Archwiliad. Galluogodd hyn i'r newidiadau i wahanol iteriadau o'r dDCO gael eu dilyn wrth i'r Archwiliad fynd yn ei flaen. Cyflwynwyd 'Rhestr o Ddiweddariadau i'r dDCO' yr Ymgeisydd fel a ganlyn:

- cyn i'r Archwiliad agor [AS-020]; ac
- yn ystod yr Archwiliad yn:
 - DL1 [REP1-008];
 - derbyn CR1 [CR1-019],
 - DL3 [REP3-009],
 - adeg derbyn CR2 [CR2-010],
 - DL4 [REP4-011],
 - adeg derbyn CR3 [CR3-010],
 - DL7 [REP7-020] yn darparu rhestr o'r newidiadau i'r TCV (APV) ac i'r EPBV; a
 - DL8 [REP8-009].

- 9.3.5. Ni ddarparwyd rhestr o newidiadau i'r dDCO mewn perthynas â fersiwn DL9 yr Ymgeisydd, sef TCV o'r dDCO (yr APV), gan ei fod yn union yr un fath â TCV y dDCO (yr APV) a gyflwynwyd yn DL8.
- 9.3.6. Mae dilyniant trwy fersiynau'r ddogfennaeth hon yn rhoi esboniad clir o'r rhan fwyaf o'r newidiadau a wnaed i'r dDCO yn ystod yr Archwiliad.
- 9.3.7. Nodir y newidiadau allweddol i'r dDCO yn ystod yr Archwiliad, a'r rhesymau dros y newidiadau hyn, yn Nhabl 5 isod:

Tabl 5: Newidiadau Allweddol i'r dDCO a wnaed yn ystod yr Archwiliad

Fersiwn o'r dDCO	Newidiadau Allweddol
<p>Cyn dechrau'r Archwiliad Cyflwyniad Ychwanegol</p> <p>[AS-017]</p> <p>(Fersiwn wedi Tracio)</p>	<p>Erthygl 2(1) (Dehongli) - diffiniad o:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ "gofynion" wedi'i ddiwygio i wella eglurder ac adlewyrchu cynsail ddiweddar; a ▪ "gwaith a drefnwyd" wedi'i ddileu, am na ddefnyddir term diffiniedig. <p>Erthygl 9 (Amddiffyniad i'r achos mewn perthynas â niwsans statudol) - is-baragraff (1)(a)(ii) wedi'i ddiwygio, i wella eglurder ac adlewyrchu cynsail ddiweddar.</p> <p>Erthygl 11 (Pŵer i newid cynllun, ac ati, strydoedd) - Erthygl 11(1) wedi'i diwygio, i wella eglurder ac adlewyrchu cynsail ddiweddar.</p> <p>Erthygl 12 Cymhwyso Deddf 1991 - Erthygl 12(2) dileu "(e) a61(strydoedd gwarchoddedig)" gan fod datgymhwyso a61 yn dal i gael ei drafod ac ni chytunwyd arno eto.</p> <p>Erthygl 21 Awdurdod i arolygu ac ymchwilio i'r tir - I wella eglurder yn Erthygl 21(7).</p> <p>Erthygl 34 Defnyddio tir dros dro ar gyfer cyflawni'r datblygiad awdurdodedig - I wella eglurder ac adlewyrchu cynsail ddiweddar diwygiwyd erthyglau 34(1), 34(3)(a) a 34(8) fel y nodir isod:</p> <p>Erthygl 34 (1) ychwanegwyd y testun canlynol at y rhestr:</p> <p><i>(f) adeiladu unrhyw waith, neu ddefnyddio'r tir, fel</i></p>

y pennir mewn perthynas â'r tir hwnnw yng ngholofn 3 o Atodlen 7, neu unrhyw waith lliniaru;

(g) adeiladu'r cyfryw waith ar y tir hwnnw fel y crybwyllir yn Rhan 1 o Atodlen 1 (datblygiad awdurdodedig); a

(h) gwneud gwaith lliniaru sy'n ofynnol yn unol â'r R yn Atodlen 2."

Erthygl 34(3)(a) ychwanegwyd y testun isod wedi'i danlinellu:

(a) yn achos tir a bennir ym mharagraff (1)(a)(i) a (ii), ar ôl diwedd y cyfnod o flwyddyn sy'n dechrau ar ddyddiad cwblhau'r rhan o'r datblygiad awdurdodedig a bennir mewn perthynas â'r tir hwnnw yng ngholofn (4) o Ran 1 a 2 o Atodlen 7 (tir y gellir cymryd TP arno'n unig); neu ...'

Erthygl 34(8) mae'r testun canlynol wedi'i groesi drwodd wedi'i ddileu ac ychwanegwyd y testun wedi'i danlinellu:

"Ni chaiff yr ymgwymerwr gaffael yn orfodol o dan y Gorchymyn hwn y tir y cyfeirir ato ym mharagraff (1)(a)(iii) a (ii) ac eithrio nad yw'r ymgwymerwr i gael ei wahardd rhag—

caffael hawliau newydd dros unrhyw ran o'r tir hwnnw o dan Erthygl 26 (CA hawliau).

~~caffael hawliau newydd dros unrhyw ran o'r tir hwnnw o dan erthygl 26 (CA hawliau a chyfamodau cyfyngol); neu~~

~~caffael unrhyw ran o isbridd (neu hawliau yn isbridd) y tir hwnnw o dan erthygl 31 (caffael isbridd neu awyrle yn unig).~~

Erthygl 35 Defnyddio tir dros dro ar gyfer cyflawni'r datblygiad awdurdodedig – Ychwanegwyd is-baragraff 12 newydd i adlewyrchu'r gynsail.

Erthygl 39 Cwmpo neu docio coed a gwaredu gwrychoedd – diwygiwyd Erthygl 39(1) i adlewyrchu darpariaethau Gorchymyn Cadw Coed, tra bod Erthygl 34(4) wedi'i diwygio i gyfyngu ar y

	<p>pŵer a geisir i'r gwrychoedd a bennir yn yr atodlen.</p> <p>Atodlen 1 (datblygiad awdurdodedig) –</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Gwaith Rhif 1, drwy ychwanegu eitem (xi) at restr (a) yn darllen: <p><i>"(xi) gwaith pibellau, falfiau ac offeryniaeth uwchben y ddaear; "</i></p> ▪ Gwaith Rhif 9, a ddiwygiwyd yn eitem (viii) a ddiwygiwyd trwy ddileu cyfeiriad at "System Amddiffyn Pwysedd Dwysedd Uchel" ac ychwanegu'r geiriau "gwaith pibellau, falfiau ac offeryniaeth uwchben y ddaear;" ▪ Gwaith Rhifau 17A a 17B: wedi'u diwygio i ddarllen: <p><i>"Creu a defnyddio mynedfa barhaol o Wervin Road, o fewn y lleoliad a ddangosir ar Ddalen 7 o'r Cynlluniau Gwaith, gan gynnwys—</i> <i>(a) creu cyffordd safn newydd gyda'r briffordd gyhoeddus; a</i> <i>(b) gwella arwyneb y ffordd a darparu arwyneb caled newydd."</i></p> ▪ Gwaith Rhif 20 wedi'i ddiwygio i ddarllen: <p><i>"Adeiladu Gorsaf Falfiau Bloc (BVS) yn Rock Bank, yn y lleoliad a ddangosir ar Ddalen 8 o'r Cynlluniau Gwaith, gan gynnwys—</i> <i>(a) ardal clos wedi'i ffensio yn cynnwys:</i> <i>(i) goleuadau diogelwch;</i> <i>(ii) falf bloc;</i> <i>(iii) lle parcio;</i> <i>(iv) mesurau amddiffyn catodig;</i> <i>(v) camerâu teledu cylch cyfyng, systemau darganfod tresmasu a systemau rheoli mynediad;</i> <i>(vi) gwaith pibellau, falfiau ac offeryniaeth uwchben y ddaear;</i> <i>(vii) pwyntiau cysylltiad;</i> <i>(viii) mecanweithiau rheoli a</i> <i>(ix) llawr caled;</i> <i>(b) pibelli o dan y ddaear;</i> <i>(c) blychau rheoli uwchben y ddaear;</i> <i>(d) llawr caled;"</i></p>
--	---

- Gwaith Rhif 26 wedi'i ddiwygio i ddarllen:
"Adeiladu BVS ym Mollington, yn y lleoliad a ddangosir ar Ddalen 10 ac 11 o'r Cynlluniau Gwaith, gan gynnwys—..." yr un diwygiadau ag a nodir yn Ngwaith Rhif 20 uchod o (a) i (d).
- Gwaith Rhif 36 wedi'i ddiwygio i ddarllen:
"Adeiladu BVS yn Aston Hill, yn y lleoliad a ddangosir ar Ddalen 10 ac 11 o'r Cynlluniau Gwaith, gan gynnwys—..." yr un diwygiadau ag a nodir yng Ngwaith Rhif 20 uchod o (a) i (d).
- Gwaith Rhif 40C wedi'i ddiwygio i ddarllen:
*"Creu a defnyddio mynedfa barhaol o Church Lane, o fewn y lleoliad a ddangosir ar Ddalen 17 o'r Cynlluniau Gwaith, gan gynnwys—
(a) creu cyffordd safn newydd; a
(b) gwella arwyneb y ffordd a darparu llawr caled newydd."*
- Gwaith Rhif 42C wedi'i ddiwygio fel 40C uchod, ond mae'n disodli'r cyfeiriad at Church Lane â chyfeiriad at Green Lane.
- Gwaith Rhif 45 wedi'i ddiwygio i ddarllen:
*"Adeiladu AGI yn Northop Hall, o fewn y lleoliad a ddangosir ar Ddalen 20 o'r Cynlluniau Gwaith, gan gynnwys—
(a) ardal clos wedi'i ffensio sy'n cynnwys;
(i) goleuadau diogelwch;
(ii) trawsnewidydd trydanol;
(iii) lle parcio;
(iv) camerâu teledu cylch cyfyng, systemau darganfod tresmasu a systemau rheoli mynediad;
(v) falfiau ynysu;
(vi) pwyntiau cyswllt;
(vii) tŷ dadansoddwr;
(viii) mecanweithiau rheoli a
(ix) llawr caled;"*
- Gwaith Rhif 48 wedi'i ddiwygio trwy ddileu'r geiriad a groeswyd, fel a ganlyn:

"Adeiladu AGI yn y Fflint, yn cynnwys offer ar gyfer rheoli a rhyngwyneb Gwaith Rhif 50, o fewn y lleoliad a ddangosir ar Ddalen 22 o'r Cynlluniau Gwaith..."

- Gwaith Rhif 50 wedi'i ddiwygio ar ôl "(e) gwaith tirlunio, ecolegol ac amgylcheddol" drwy ychwanegu "(f) gwaith i gysylltu â'r biblinell bresennol; a" ac yn diwygio (f) presennol i (g).
- Gwaith Rhif 51 wedi'i ddiwygio i ddarllen:
"Adeiladu BVS yn Cornist Lane, yn y lleoliad a ddangosir ar Ddalen 10 ac 11 o'r Cynlluniau Gwaith, gan gynnwys—..." yr un diwygiadau ag a nodir yng Ngwaith Rhif 20 uchod o (a) i (d).
- Gwaith Rhif 53 wedi'i ddiwygio i ddarllen:
"Adeiladu BVS ym Mhentre Helygain, yn y lleoliad a ddangosir ar Ddalen 10 ac 11 (sic) y Cynlluniau Gwaith, gan gynnwys—..." yr un diwygiadau ag a nodir yng Ngwaith Rhif 20 uchod o (a) i (d).
- Gwaith Rhif 53 wedi'i ddiwygio i ddarllen:
"Adeiladu BVS yn Babell, yn y lleoliad a ddangosir ar Ddalen 10 ac 11 (sic) y Cynlluniau Gwaith, gan gynnwys—..." yr un diwygiadau ag a nodir yng Ngwaith Rhif 20 uchod o (a) i (d).

Atodlen 2 R1 (Dehongli) - ychwanegwyd y diffiniadau o "DEMP" (Cynllun Rheoli Amgylcheddol Datgomisiynu).

Atodlen 2 R4 - Mewn ymateb i gais gan yr awdurdodau cynllunio perthnasol bod manylion gwaith uwchben y tir yn amodol ar gymeradwyaeth cyn dechrau, diwygiwyd yr R hwn gyda thestun wedi'i ddileu wedi'i groesi a thestun newydd wedi'i ddangos wedi'i danlinellu:

R4(1) *~~"Gwaith Rhif 1, 9, 20, 26, 36, 45, 48, 51, 53, a 56 Rhaid cyflawni'r datblygiad awdurdodedig yn gyffredinol yn unol â'r cynlluniau trefniant cyffredinol."~~*

Tabl 1, rhesi 5 ac 8, wedi'i ddiwygio: "*Uchder uchaf adeiladau a strwythurau gan gynnwys ffensys gweithredol a cholofnau goleuo*".

R4(4) *Ni chaniateir cychwyn yr holl Waith Rhif 1, 9, 20, 26, 36, 45, 48, 51, 53 a 55 nes bod, ar gyfer y gwaith hwnnw, y manylion canlynol wedi'u cyflwyno i'r awdurdod cynllunio perthnasol a'u cymeradwyo ganddo:*

(a) lleoliad, cynllun, graddfa a golwg allanol, gan gynnwys lliw, deunyddiau a gorffeniadau arwyneb pob adeilad a strwythur parhaol newydd;

(b) manylion mynediad parhaol i'r briffordd gyhoeddus;

(c) manylion unrhyw oleuadau allanol; a

(d) manylion sgoriau sŵn unrhyw beiriannau allanol neu osodiadau a allai fod yn swllyd (fel gwyntyllau)."

R4(5) wedi'i ddiwygio i ddarllen "*Ni cheir dechrau ar unrhyw ran o Waith Rhif 43 o fewn cwrs dŵr Nant Alltami nes bod manylion methodoleg dylunio ac adeiladu unrhyw waith o fewn y cwrs dŵr hwnnw wedi cael eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio perthnasol a'u cymeradwyo ganddo yn dilyn ymgynghoriad â CNC.*"

A4(6) ychwanegwyd is-baragraff newydd sy'n darllen:

"Rhaid adeiladu'r Gwaith a restrir yn is-baragraff (1) yn unol â'r manylion a gymeradwywyd o dan y paragraff hwn."

R6(4) wedi'i ddiwygio i sicrhau y gweithredir yn unol â'r R eraill.

R8(1) wedi'i ddiwygio i fod yn berthnasol i bob safle uwchben y ddaear (Gwaith Rhif 1, 9, 20, 26, 36, 45, 48, 51, 53 a 55).

R11(3) wedi'i ddiwygio i sicrhau y gweithredir yn unol â'r R eraill.

Fersiwn o'r dDCO	Newidiadau Allweddol
	<p>R15(2) wedi'i ddiwygio yn ôl cais yr awdurdodau cynllunio perthnasol i ychwanegu mynnu darparu manylion 'fel yr adeiladwyd'.</p> <p>R17(5) wedi'i ddiwygio i sicrhau y gweithredir yn unol â'r Rs eraill.</p> <p>R24(2)(b) wedi'i ddiwygio er mwyn cytuno ar gyfnod hirach, fel y mae'r Awdurdodau Cynllunio perthnasol yn gofyn amdano.</p> <p>Atodlen 10 (PP) Rhannau newydd wedi'u hychwanegu (Rhannau 8, 9, 10, 11 a 12) i adlewyrchu'r ceisiadau gan IP am ddarpariaethau pellach.</p>
<p>Fersiwn DL1</p> <p>[REP1-005]</p> <p>(Wedi Tracio)</p>	<p>Erthygl 2 (Dehongli):</p> <p>geiriad "datblygiad awdurdodedig" "a datblygiad cysylltiedig" wedi'i ddileu, gan nad oes unrhyw ddatblygiad cysylltiedig yn Atodlen 1;</p> <p>diffiniad "CEMP" wedi'i gynnwys, symud o Atodlen 2;</p> <p>"awdurdod priffyrdd" wedi'i ddiwygio mewn ymateb i ExQ1;</p> <p>diffiniad "cynllun rheoli amgylcheddol cynnal a chadw a gweithredol amlinellol" wedi'i gynnwys;</p> <p>diffiniad "cynllun rheoli hawliau tramwy cyhoeddus amlinellol" wedi'i gynnwys.</p> <p>Erthygl 6 (Terfynau gwyro) ac Erthygl 34 (Defnyddio tir dros dro ar gyfer cyflawni'r datblygiad awdurdodedig) – Diwygiwyd mewn ymateb i ExQ1 ac er mwyn egluro'r terfynau.</p> <p>Erthygl 23 (Gwaredu gweddillion dynol) – Diwygiwyd mewn ymateb i ExQ1.</p> <p>Erthygl 36 (SUs) - Diwygiwyd i egluro bod y pŵer yn amodol ar y PP.</p> <p>Erthygl 44 (Ardystio cynlluniau, ac ati) - Mae cynlluniau wedi'u hychwanegu i'w hardystio.</p> <p>Atodlen 1 (datblygiad awdurdodedig) - Newidiadau wedi'u gwneud i Rifau Gwaith. 1, 9,</p>

Fersiwn o'r dDCO	Newidiadau Allweddol
	<p>17, 45, 51B, 57I, 57M; trwy ychwanegu / dileu testun oherwydd bod testun yn ddiangen, i gywiro gwall neu mewn ymateb i ExQ1. Hefyd, ychwanegwyd Gwaith Rhif 57N, gan ei fod wedi'i hepgor trwy gamgymeriad.</p> <p>Atodlen 2, Rhan 1 R - safoni geiriad i 'weithredu' wedi'i ychwanegu trwy'r holl Rs, lle bo hynny'n briodol.</p> <p>R5(2) – Eitem (n) cynllun rheoli hawliau tramwy cyhoeddus wedi'i hychwanegu at y rhestr.</p> <p>R9 (Tir halogedig a dŵr daear) - Diwygiwyd mewn ymateb i ExQ1.</p> <p>R17 (Cynlluniau rheoli amgylcheddol ôl-adeiladu) – Diwygiwyd i ddarparu eglurder.</p> <p>Atodlen 8 (Tir y ceir caffael hawliau newydd ac ati yn unig ynddo) – Cywirwyd drwyddi draw i fynd i'r afael â mân wallau.</p> <p>Atodlen 9 (Addasu deddfiadau prynu gorfodol a digolledu ar gyfer creu hawliau newydd) – Mewn ymateb i ExQ1 mae'r Tabl o fewn yr atodlen hon wedi'i rannu i ddiffinio'r hawliau a geisir dros bob llain yn well.</p>
<p>Fersiwn CR1 (Fersiwn CR1 a Dderbynnir)</p> <p>[CR1-018]</p> <p>(Wedi Tracio)</p>	<p>Atodlen 1 (datblygiad awdurdodedig) - Newidiadau wedi'u gwneud i Rifau Gwaith. 3, 16A, 16B, 32A, 45B, a 46, gan adlewyrchu newidiadau a geisir fel rhan o'r CR.</p> <p>Atodlenni: 4 (Ffordd newydd o fynediad); 5 (Strydoedd i'w hatal neu gyfyngu dros dro); 6 (Hawliau tramwy cyhoeddus i'w cyfyngu dros dro); 7 (Tir y gellir cymryd TP arno yn unig)' ac 8 (Tir y ceir caffael hawliau newydd ac ati yn unig ynddo) – diwygiwyd y tablau o fewn yr atodlenni hyn i adlewyrchu'r newidiadau a geisir fel rhan o'r CR.</p>
<p>Fersiwn DL3</p> <p>[REP3-006]</p> <p>(Wedi Tracio)</p>	<p>Erthygl 2 (Dehongli) – Diffiniad o:</p> <p>"Cychwyn" wedi'i ddiwygio fel y ceisiwyd yn sylw'r Awdurdod Lleol;</p>

"piblinell bresennol" wedi'i diwygio i ychwanegu Rhifau Gwaith i nodi ymhle mae'r gwaith piblinell hwn yn digwydd.

Erthyglau: 10 (Gwaith stryd); 11 (Pŵer i newid cynllun ac ati strydoedd); 15 (Mynediad i waith); 18 (Rheoleiddio traffig) ac Erthygl 21 (Awdurdod i arolygu ac ymchwilio i'r tir), a ddiwygiwyd fel a ganlyn:

- Erthyglau 10(4), 11(4), 15(2), 18(1) a 21 wedi'u diwygio i ychwanegu gallu penodol i osod amodau.
- Erthyglau 10(5) ac 11(5) wedi'u diwygio felly'r sbardun ar gyfer cychwyn o'r adeg y gwneir cais i pan geir y cais gan yr awdurdod stryd.
- Newidiadau i'r testun yn Erthyglau 13(5) a 18(5).
- Erthyglau 18(6) a 18(9) cynnwys is-baragraffau newydd, gyda'r is-baragraffau canlynol wedi'u hailrifo.

Gwnaed yr holl newidiadau hyn yn unol â chais sylwadau awdurdodau lleol.

Erthygl 14 (Cyfyngiad dros dro ar ddefnyddio strydoedd) - Erthygl 14(5) testun wedi'i ddiwygio i gyd-fynd â newidiadau a wnaed i ddrafftiau tebyg eraill, tra bod testun yn Erthygl 14(7) wedi'i ddisodli i newid sbardun dechrau'r cyfnod, fel y gofynnwyd amdano mewn sylwadau gan awdurdodau lleol.

Atodlen 2, Rhan 1 Rs

Newidiadau wedi'u gwneud i destun yr Rs canlynol, yn unol â chais Awdurdodau Lleol:

- R2 (Terfynau amser)
 - R(2) - Cyfnod amser ar gyfer y cyfnod hysbysu am fwriad i ddechrau wedi'i estyn i 14 diwrnod;
- R13 (Oriau adeiladu)

Fersiwn o'r dDCO	Newidiadau Allweddol
	<ul style="list-style-type: none"> ○ R13(1) - Caniatáu ar gyfer eithriadau, fel y cymeradwyir gan yr awdurdod cynllunio perthnasol. ○ R13(3) - dileu ac ychwanegu testun ar gyfer manwl gywirdeb / eglurder. <p>Newidiadau Eraill i R:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ R17 (Cynllun Rheoli'r Amgylchedd Gweithredol a Chynnal a Chadw) ac R18 (Cynllun Rheoli Amgylcheddol Datgomisiynu) - Gwnaed newidiadau i sicrhau y cyfeirir at y ddogfen/cynllun cywir yn yr Rs hyn ac yn R17(3) cynnwys is-baragraff sy'n sicrhau y caiff ei weithredu yn unol â'r ddogfen a gymeradwywyd. ▪ R20 (Diwygiadau i fanylion cymeradwy) – Newid i destun yn R20(4) i estyn y cyfnod amser i 56 diwrnod ac ychwanegu hyblygrwydd, fel y gofynnwyd gan awdurdodau lleol. <p>Atodlen 2 Rs, Rhan 2 (Ceisiadau a wneir o dan Rs):</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ R22 (Ceisiadau a wneir o dan Rs) Testun wedi'i ddiwygio i estyn cyfnod amser penodedig ar gyfer hysbysiad o benderfyniad o 42 diwrnod i 56 diwrnod. ▪ R23 (Awdurdodau rhyddhau lluosog) - Newid wedi'i wneud i ychwanegu hyblygrwydd; ▪ R24 (Rhagor o wybodaeth): <ul style="list-style-type: none"> ○ R24(2) a R24(3) newidiadau wedi'u gwneud i gyfnodau amser penodedig o 5 diwrnod busnes i 10 diwrnod mewn ymateb i bryderon a godwyd gan awdurdodau lleol. ○ R24(3) i ychwanegu hyblygrwydd, yn unol â chais awdurdodau lleol. ○ R24(4) i estyn cyfnod amser i 56 diwrnod.
<p>Fersiwn CR2 (Fersiwn CR2 a Dderbynnir)</p> <p>[CR2-009]</p>	<p>Erthygl 6 (Terfynau gwyrriad) - Ychwanegwyd paragraff newydd yn Erthygl 6(2) gyda pharagraffau dilynol wedi'u hailrifo. Mae Erthygl 6(2) yn datgymhwyso terfynau mwyaf gwyrriad fertigol ar gyfer Gwaith Rhif 43, felly lle bydd y biblinell wedi'i chladdu mewn pont biblinell</p>

Fersiwn o'r dDCO	Newidiadau Allweddol
(Wedi Tracio)	<p>ymgorfforedig nid yw'r lefel ddyfnder leiaf a ddarperir ar gyfer gosod yn y ddaear yn berthnasol.</p> <p>Erthygl Newydd - Erthygl 14 (Atal hawliau tramwy cyhoeddus) gyda'r holl Erthyglau dilynol yn cael eu hailrifo. Mae Erthygl 14 yn cael ei mewnosod gan fod y CR yn gofyn am wyriad parhaol o ran fer o lwybr troed. Er mwyn gwneud hynny, rhaid atal y llwybr presennol.</p> <p>Atodlen 1 (Datblygiad Awdurdodedig) – Gwaith Rhif 43E newydd wedi'i fewnosod o fewn Gwaith Rhif 43 i alluogi strwythur pont biblinell ymgorfforedig goncrit i gario'r biblinell ar draws Nant Alltami, pe bai'r ExA yn canfod bod yr APV croesi â ffos agored yn annerbyniol. Yn ogystal, mae'r newid hwn yn adlewyrchu newidiadau a geisir fel rhan o'r CR.</p> <p>Atodlen 2 Rhan 1 Rs:</p> <p>R4 Dylunio manwl – Diwygiwyd o R4(6) ymlaen i adlewyrchu'r dewisoldeb rhwng croesi Nant Alltami trwy ddull gosod ffos agored neu drwy'r dull pont biblinell ymgorfforedig. Mae'r newid hwn yn adlewyrchu'r newidiadau a geisir fel rhan o'r CR.</p> <p>Atodlen: 6 (Atal neu gyfyngu dros dro ar hawliau tramwy cyhoeddus) – Teitl wedi'i ddiwygio i adlewyrchu cynnwys 'atal' a chreu Rhannau (Rhan 1 – (Hawliau tramwy cyhoeddus i'w cyfyngu dros dro) a Rhan 2 (Hawliau tramwy cyhoeddus i'w hatal). Mae'r newidiadau hyn yn adlewyrchu'r newidiadau a geisir fel rhan o'r CR.</p> <p>Atodlen 7 (Tir y gellir cymryd TP arno yn unig) – Newidiadau i'r rhifau Llain i adlewyrchu'r newidiadau a geisir fel rhan o'r CR.</p> <p>Atodlen 11 (Gwaredu gwrychoedd) – Cyfesurynnau wedi'u diweddarau i adlewyrchu newid yn Nherfynau'r Gorchymyn, gan adlewyrchu'r newidiadau a geisir fel rhan o'r CR.</p>
Fersiwn DL4	Diffiniadau Erthygl 2:

Fersiwn o'r dDCO	Newidiadau Allweddol
<p>[REP4-007] (Wedi Tracio)</p>	<p>"datblygiad awdurdodedig" - ychwanegwyd testun ychwanegol er eglurder;</p> <p>"CEMP" - ychwanegwyd testun ychwanegol er eglurder fel y cytunwyd yn ISH2;</p> <p>"cychwyn" - ychwanegwyd testun ychwanegol er eglurder fel y cytunwyd yn ISH2 oherwydd pryderon CWCC nad oedd yn glir bod y ffensys i'w codi yn rhai dros dro;</p> <p>"prif swyddog yr heddlu" - ychwanegwyd diffiniad newydd er eglurder;</p> <p>"Cynllun Rheoli Hawliau Tramwy Cyhoeddus Amlinellol" (OPRoWMP) a "REAC" [Cofrestr o Weithredoedd ac Ymrwymadau Amgylcheddol] wedi'u dileu gan fod OPRoWMP yn atodiad i'r CEMP, a'r REAC [Cofrestr Gweithredoedd ac Ymrwymadau Amgylcheddol] yn atodiad yn rhestru ymrwymadau yn yr ES. Nid oes angen i'r naill ddogfen neu'r llall gael ei diffinio, na'i hardystio, ar wahân.</p> <p>Erthygl 45 (Ardystio cynlluniau, ac ati) Dileu eitem (n) OPRoWMP, gan nad oes angen iddi gael ei ddiffinio na'i hardystio ar wahân, am y rhesymau a nodir uchod.</p> <p>Atodlen 2, Rhan 1 Rs,</p> <p>R1 (Dehongli) – ychwanegwyd "cam" fel diffiniad newydd ac R3 (Camau datblygiad awdurdodedig) - Mewnysod is-baragraffau newydd yn R3(2) ac R3(3), fel y cytunwyd yn ISH2 mewn ymateb i bryderon FCC a CWCC.</p> <p>R5 (Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu) - R5(2) dileu eitem (d): Cynllun Rheoli Aroglau, am y'i symudwyd i'r cynllun gweithredol, am ei fod yn berthnasol i'r cam hwnnw.</p> <p>R9 (Tir halogedig a dŵr daear) – Testun wedi'i ychwanegu at R9(2), R9(3) ac R9(5), fel y cytunwyd yn ISH2 i ychwanegu eglurder ynghylch pwy sy'n gyfrifol am gyflawni'r camau gweithredu.</p> <p>R13 (Oriau adeiladu) - Ychwanegwyd diffiniad R13(5) o "weithgareddau cychwyn a chau" mewn</p>

Fersiwn o'r dDCO	Newidiadau Allweddol
	<p>ymateb i bryderon FCC a CWCC ynghylch pa weithgareddau a ganiateir yn y cyfnodau cychwyn a chau.</p> <p>R17 (Cynllun rheoli amgylcheddol gweithredol a chynnal a chadw) Ychwanegwyd testun ychwanegol R17(2) er eglurder yn dilyn trafodaeth yn ISH2 ynghylch a oedd y cynllun hwn i'w gymeradwyo.</p> <p>Atodlen 7 (Tir y gellir cymryd TP arno yn unig) Rhan 1 (Tir y gellir cymryd TP arno yn unig) - Tabl wedi'i ddiwygio yn rhes 17 i ychwanegu llain newydd sy'n ofynnol yn dilyn newidiadau i gulhau'r llwybr mynediad yn y lleoliad hwn.</p>
<p>Fersiwn CR3 (Fersiwn CR3 a Dderbynnir)</p> <p>[CR3-009]</p> <p>(Wedi Tracio)</p>	<p>Atodlen 1, Rhan 1 (Datblygiad Awdurdodedig) –</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Mewnosod gwaith newydd sef Gwaith Rhif 3A a 3B oherwydd bod Gwaith Rhif 3 yn cael ei rannu i greu adran dros dro yn llain newydd 1-06d, gan arwain at yr angen i fewnosod Gwaith Rhif 3A a 3B. ▪ Dileu Gwaith Rhif 41A a 41D i adlewyrchu cael gwared ar y clos adeiladu a'r ardal waith yn Shotton Lane, gyda'r Rhifau Gwaith hyn yn cael eu marcio "Rhif heb ei ddefnyddio" a newid canlyniadol i Waith Rhif 41B oherwydd dileu Gwaith Rhif 41A a 41D. <p>Atodlen 7, Rhan 1 (Tir y gellir cymryd TP arno yn unig) – Diwygiadau i'r tabl i adlewyrchu'r newidiadau yn y defnydd o bwerau.</p> <p>Atodlen 11, Rhan 1 (Cael gwared ar wrychoedd) - Diweddarwyd pwyntiau a gwaredu gwrychoedd nad effeithir arnynt mwyach, i adlewyrchu'r newidiadau yn y llinell goch a'r effeithiau canlyniadol ar wrychoedd.</p>
<p>DL7 TCV (APV)</p> <p>[REP7-016]</p> <p>(Wedi Tracio)</p>	<p>Rhaglith</p> <p>Mae gosod cyfeiriad at a131(5) Deddf Cynllunio 2008 a bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon mewn perthynas â CA tir sy'n rhan o dir categori arbennig man agored sy'n llai na 200 metr sgwâr o faint. Ychwanegwyd yr ychwanegiad hwn yn dilyn cwestiynau a godwyd gan yr ExA yn ISH3 ac</p>

Fersiwn o'r dDCO	Newidiadau Allweddol
<p>DL7 EPBV (mewn Teip Trwm).</p> <p>[REP7-015]</p> <p>Cymhariaeth o APV a gyflwynwyd yn DL7 â'r EPBV, a gyflwynwyd hefyd yn DL7.</p> <p>(Wedi Tracio)</p>	<p>yn ExQ3 ac i adlewyrchu cyflwyniad(au) a wnaed yn DL7.</p> <p>Ychwanegwyd cyfeiriad at a131 at y paragraff sy'n cyfeirio at bwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Ddeddf Cynllunio 2008.</p> <p>Erthygl 14 (Atal hawliau tramwy cyhoeddus) wedi'i dileu yn y Fersiwn Croesi â Ffos, gyda'r holl Erthyglau dilynol wedi'u hailrifo, gan nad oes angen yr erthygl yn APV y dDCO oherwydd, heb groesfan bont o Nant Alltami, nid oes angen atal unrhyw ran o unrhyw hawl tramwy cyhoeddus.</p> <p>Mae Erthygl 14 yn cael ei chadw yn EPBV, heb fod angen ail-rifo Erthyglau dilynol.</p> <p>Atodlen 1, Rhan 1 (Datblygiad Awdurdodedig)</p> <p>Gwaith Rhif 43E, o fewn Gwaith Rhif 43 wedi'i ddileu, gan nad oes angen Gwaith Rhif 43E yn APV y dDCO oherwydd, heb groesfan bont o Nant Alltami, nid yw'r Rhif Gwaith hwn yn ofynnol.</p> <p>Mae Gwaith Rhif 43E wedi'i gadw yn yr EPBV, gyda'r holl gyfeiriadau canlyniadol at Waith Rhif 43E yn cael eu cadw.</p> <p>Atodlen 2, Rs:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ R4 (Dylunio cynllun) - R4(6) a R4(7) wedi'u diwygio, gydag is-baragraffau isod wedi'u dileu, gan fod y gofynion dylunio ar gyfer croesi Nant Alltami wedi'u gwahanu yn APV y dDCO, heb groesfan bont o fersiwn croesi â ffos Nant Alltami. <p>R4 (Dylunio cynllun) - R4(5), R4(6), R4(7) ac R4(8) wedi'u diwygio, i adlewyrchu Gwaith Rhif 43E (EPBV) fel yr opsiwn a ddewiswyd ar gyfer croesi Nant Alltami gan sicrhau manylion methodoleg dylunio ac adeiladu unrhyw waith, ynghyd ag Aseiad Perygl Llifogydd a chynllun sy'n nodi'r llwybr amgen a'r fanyleb ar gyfer gwyrriad parhaol y rhan o hawl tramwy cyhoeddus sy'n agos at yr opsiwn hwn, os oes angen.</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ R9 (Tir halogedig a dŵr daear) - Diwygiwyd i adlewyrchu mwy o sicrwydd y mae'r Asiantaeth yn gofyn amdano ynghylch yr

Fersiwn o'r dDCO	Newidiadau Allweddol
	<p>angen am ymchwiliad pellach a lle bo angen adfer tir lle mae asesiad hyd yn hyn yn nodi angen am waith o'r fath. (Hefyd wedi'i gynnwys yn yr EPBV)</p> <p>Atodlen 6 (hawliau tramwy cyhoeddus i'w cyfyngu dros dro) – dileu cyfeiriad at yr atodlen hon mewn Rhannau a dileu Rhan 2 yn llwyr, ni fyddai ei hangen yn APV y dDCO oherwydd, heb groesfan bont o Nant Alltami, nid oes angen atal unrhyw ran o unrhyw hawliau tramwy. (Mae pob agwedd sy'n ymwneud ag Atodlen 6 uchod yn cael eu cadw yn EPBV y dDCO).</p> <p>Atodlen 10 (PP) - Diweddarwyd pob rhan, ac eithrio Rhannau 1 a 2, i adlewyrchu statws y PP yng nghyflwyniad DL7 yr Ymgeisydd. (Hefyd wedi'i gynnwys yn yr EPBV)</p>
<p>DL8 TCV (APV) [REP8-006] (Wedi Tracio) a DL8 EPBV [REP8-008] (Wedi Tracio)</p>	<p>Atodlen 2, Rhan 1 - Rs, R3 (Camau datblygiad awdurdodedig) a ddiwygiwyd trwy ychwanegu testun ychwanegol at R(3)(1) a thestun newydd yn R3(4) i adlewyrchu gwelliannau a gytunwyd yn flaenorol gyda CWCC ond y'u hepgorwyd o dDCO DL7.</p> <p>R13 (Oriau Adeiladu) - ychwanegwyd diffiniad R13(5) o "dechnegau adeiladu di-ffos na ellir torri ar eu traws" i adlewyrchu gwelliannau y cytunwyd arnynt yn flaenorol â CWCC ond y'u hepgorwyd o dDCO DL7.</p> <p>Atodlen 10 Rhan 13 (Ar gyfer diogelu UKOP) – geiriau "tir neu" wedi'u hepgor o baragraff 158(1)(a) gan nad oedd yr Ymgeisydd yn cytuno ar y geiriau hyn ac fe'u cynhwyswyd trwy gamgymeriad.</p> <p>Atodlen 10 Rhan 17 (Ar gyfer diogelu National Highways Limited) – ychwanegwyd 2 Rif Llain ym Mharagraff 234(1) fel y gofynnwyd gan National Highways yn ei gyflwyniad DL7.</p>
<p>DL9 TCV (APV) [REP9-011]</p>	<p>Mae'r fersiwn hwn yr un fath â'r TCV (APV) a gyflwynwyd yn DL8.</p>

Fersiwn o'r dDCO Newidiadau Allweddol	
(Glân)	

- 9.3.10. O ran SU, dim ond United Utilities Water Limited a dynnodd ei wrthwynebiad/pryder yn ôl yn ffurfiol mewn perthynas â'r Datblygiad Arfaethedig cyn cau'r Archwiliadau. Ni chafodd unrhyw wrthwynebiadau/pryderon eraill a godwyd gan SU eraill mewn perthynas â'r Datblygiad Arfaethedig eu tynnu'n ôl yn ffurfiol gan IP erbyn diwedd yr Archwiliad. Roedd hyn yn bennaf oherwydd nad oedd yr Ymgeisydd yn cytuno o ran:
- CA/TP;
 - geiriad terfynol cytundebau ochr cysylltiedig sy'n cael eu trafod rhwng yr IP; a
 - geiriad terfynol nifer o PP neu gytundebau ochr cysylltiedig sy'n cael eu cytuno.
- 9.3.11. O ran cynnwys unrhyw dir y Goron a/neu hawliau'r Goron, gellir rhoi'r pwerau a geisir yn hyn o beth gan fod awdurdod angenrheidiol y Goron wedi'i ddarparu. Gweler:
- llythyr eglurhaol DL7 yr ymgeisydd [REP7-001] Atodiad 2, sy'n darparu copi o awdurdod angenrheidiol y Goron, gan y Weinyddiaeth Amddiffyn ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Amddiffyn.
 - cyflwyniad Llywodraeth Cymru [AS-081], ar ran Gweinidogion Cymru, yn darparu awdurdod angenrheidiol y Goron; ac
 - Ystâd y Goron ar ran Ei Ardderchocaf Fawrhydi'r Brenin yn Hawl Ei Goron [REP9-016] sy'n darparu awdurdod angenrheidiol y Goron.
- 9.3.12. Yng ngoleuni'r uchod, mae'r ExA yn fodlon bod awdurdod angenrheidiol y Goron wedi'i sicrhau mewn perthynas â Thir y Goron a/neu hawliau'r Goron, yn gyson â'r BoR [REP7-025], ac yn unol ag a135(1) a/neu a135(2) Deddf Cynllunio 2008.
- 9.3.13. Gan gadw'r uchod i gyd mewn cof, pe bai'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer DESNZ yn bwriadu gwneud y DCO bydd angen iddo fodloni ei hun fod:
- cynnwys PP fel y'i nodir yn Atodlen 10
 - Rhan 6 (Ar gyfer Diogelu NR);
 - Rhan 10 (Ar gyfer Diogelu WWU);
 - Rhan 10 (Ar gyfer Diogelu DCWW);
 - Rhan 13 (Ar gyfer Diogelu UKOP);
 - Rhan 14 (Ar gyfer Diogelu Peel NRE);
 - Rhan 15 (Ar gyfer Diogelu Encirc Limited); a
 - Rhan 20 (Ar gyfer Diogelu Exolum),

o'r rDCO sydd ynghlwm yn Atodiad D yr Adroddiad hwn neu eiriad y PP a gynhwysir yn y rhannau hynny o Atodlen 10 o'r DCO fel y cytunwyd yn derfynol rhwng yr Ymgeisydd a'r partion hynny sydd â buddiant (DCWW, Encirc Limited, Exolum, NR; Peel NRE Limited, WWU, UKOP) ac yn ymarferol; a

- NH, NR, UKOP, Peel NRE Limited ac Encirc Limited yn fodlon mewn perthynas ag unrhyw gytundeb(au) angenrheidiol (gan gynnwys cytundebau o'r enw: Diogelu Asedau; Fframwaith Masnachol; Gweithred Dealltwriaeth; Fframwaith; Tir; Trwydded; Eiddo; Ochr; Technegol; a/neu Fforddfraint) wedi'u cwblhau'n foddhaol rhwng yr Ymgeisydd a'r partion priodol fel y rhestrir uchod.

9.3.14. Fel y nodwyd uchod, mae'r darpariaethau y mae'r ExA wedi argymhell newidiadau iddynt mewn perthynas ag EPBV yr ymgeisydd o'r dDCO [REP8-007] yn y rDCO yn Atodiad D, a'r rhesymau dros hyn, wedi'u nodi yn Nhabl 6 isod:

Tabl 6: Darpariaethau DCO yr Argymhellir eu Newid

Darpariaeth	Argymhellion	Rheswm
Erthygl 6 Terfynau gwyrriad.	Cadw Erthygl 6(2).	Mae Erthygl 6(2) yn cyfeirio at Waith Rhif 43E, nad yw'n Rhif Gwaith yn TCV (yr APV) y DCO.
Erthygl 33 Diwygio Rhan 1 o Ddeddf 1965.	Mae Erthygl 33(5)(b) yn ychwanegu lle ar ddiwedd y testun sydd i'w fewnosod rhwng y gair 'Gorchymyn' a '202[●]', felly mae'n darllen "Gorchymyn 202[●]".	Gwall argraffyddol ac er eglurder.
Erthygl 35 Defnyddio tir dros dro ar gyfer cyflawni'r datblygiad awdurdodedig.	Erthygl 35(4)(d) dileu 'I' anghywir ar ddiwedd y frawddeg.	Gwall argraffyddol ac er eglurder.
Atodlen 1 Rhan 1 Datblygiad Awdurdodedig.	Disodli'r testun 'CO ₂ ' gyda 'CO ₂ ' trwy gydol Rhan 1.	Gwall argraffyddol ac er eglurder.
Atodlen 1 Rhan 1 <i>Gwaith Rhif 53.</i>	Gwaith Rhif 53 (a) dileu cyfeiriad anghywir at is-baragraff (x).	Gwall argraffyddol ac er eglurder.
Atodlen 1 Rhan 1 <i>Gwaith Rhif 57E a 57(F).</i>	<i>Dileu bylchau gwallus rhwng y geiriau "Afon Gowy / de" i ddarllen "Afon Gowy/de".</i>	Gwall argraffyddol ac er eglurder.

Darpariaeth	Argymhellion	Rheswm
Atodlen 1 Rhan 1 <i>Gwaith Rhif 57N.</i>	(i) Gwaith Rhif 57N(f) Dileu bylchau gwallus rhwng y geiriau "llwybrau troed / newid cynllun..." i ddarllen "llwybrau troed/newid cynllun..."; (ii) Gwaith Rhif 57N (h) dileu bwlch gwallus rhwng y geiriad "gwaith tirlunio/ tirlunio..." i ddarllen "gwaith tirlunio/tirlunio..."; a (iii) Gwaith Rhif 57N (h) dileu atalnodi gwallus "/ rhwng y geiriau "ffosydd" a "byndiau" ac yn hytrach gosod coma i ddarllen "ffosydd, byndiau..."	Gwallau argraffyddol ac er eglurder.
Atodlen 2, Tir halogedig a dŵr daear.	Nodi'r pennawd hwn fel R9, gan fod rhif R ar goll ar hyn o bryd ac ail-rifo'r holl Rs dilynol. Yn ogystal, cywirwyd rhifau paragraffau o fewn R9	Gwall rhifiadol wrth gyfeirnod i'r R hwn gan fod ei rif ar goll; ail-rifo'r paragraffau o fewn yr R hwn fel eu bod yn dilyn yn gywir; sicrhau bod R's dilynol yn cael eu rhifo'n gywir; ac er eglurder.
Atodlen 2, R9 Tir halogedig a dŵr daear.	Ychwanegu testun at Ran A – Stanlow yn R9(3)(d); Rhan B – safleoedd eraill y nodwyd bod angen ymchwilio ymhellach iddynt yn R9(5)(d); a Rhan C – halogiad annisgwyl yn R9(11) sy'n mynnu cyflwyno adroddiad gwirio ar ôl cwblhau unrhyw waith adfer i'r awdurdod cynllunio perthnasol ei gymeradwyo ac sy'n mynnu nad yw'r fath	Er mwyn darparu lefel briodol o reolaeth i'r awdurdodau cynllunio perthnasol i sicrhau bod unrhyw waith adfer sy'n ofynnol yn cael ei wneud yn unol â chynllun adfer y cytunwyd arno'n flaenorol o dan R9.

Darpariaeth	Argymhellion	Rheswm
	gymeradwyaeth yn cael ei dal yn ôl na'i gohirio'n afresymol.	
Atodlen 2, R9 Tir halogedig a dŵr daear.	R9(5)(b) dileu'r defnydd dyblyg o'r gair "cyfres".	Gwall argraffyddol ac er eglurder.
Atodlen 2, R9 Tir halogedig a dŵr daear.	R9(6) aildrefnu rhifau lleiniau fel eu bod yn darllen yn ddilynol a chywiro cyfeiriad gwallus at rif llain "3 + 1" gyda rhif llain "3-16".	Gwallau argraffyddol ac er eglurder.
Atodlen 2, R9 Tir halogedig a dŵr daear.	Rhan C – halogiad annisgwyl - dileu testun ar ôl R9(11) gan ei fod yn dyblygu testun blaenorol.	Dyblygu testun ac er eglurder.
Atodlen 2 R13 Budd Net i Fioamrywiaeth (BNG).	<p>Ychwanegu R13 newydd BNG ar ôl R12 Arolygon ecolegol ac ail-rifo pob R.</p> <p>R13 BNG i ddarllen: "13.—(1) Ni chaiff unrhyw ddatblygiad ddechrau hyd nes y bydd cynllun (a allai gynnwys hyd at ddwy ran, sef un ar gyfer Lloegr ac un yng Nghymru) sy'n sicrhau y darperir BNG o 1% neu fwy ar gyfer y cynefinoedd â blaenoriaeth y mae'r datblygiad awdurdodedig yn effeithio arnynt (fel y'i cyfrifwyd gan ddefnyddio Metrig Bioamrywiaeth 3.1 Natural England), wedi'i gyflwyno i'r awdurdod cynllunio perthnasol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Rhaid i'r cynllun nodi</p>	<p>Mynnu bod cynlluniau BNG, sy'n sicrhau y darperir BNG o 1% neu fwy ar gyfer y cynefinoedd blaenoriaeth y mae'r datblygiad awdurdodedig yn effeithio arnynt (fel y'u cyfrifwyd gan ddefnyddio Metrig Bioamrywiaeth 3.1 Natural England), yn cael eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio perthnasol a'u cymeradwyo ganddo a bod y cynllun hwnnw'n cael ei weithredu a'i gynnal yn unol â'r manylion a gymeradwywyd.</p>

Darpariaeth	Argymhellion	Rheswm
	<p>mesurau i gyflawni a sicrhau'r gwaith cynnal a chadw am 30 mlynedd o'r ddarpariaeth BNG.</p> <p>(2) Pan fydd cynllun o'r fath yn cael ei gymeradwyo o dan y gofyniad hwn, rhaid cyflawni'r gwaith a nodir yn y cynllun hwnnw yn unol â'r cynllun a gymeradwywyd.</p> <p>(3) Rhaid cynnal y cynllun cymeradwy yn unol â'r cynllun cynnal a chadw a sicrhawyd am 30 mlynedd o ddarpariaeth y BNG o dan is-baragraff (2).</p>	
Atodlen 2, Rhan 2 Ceisiadau a wneir o dan Rs - R23.	R23(1)(a) a (b) cyfeiriad cywir at R24 i ddarllen "R25".	Ail-rifwyd oherwydd mewnosod R13 BNG.
R25 Rhagor o Wybodaeth.	R25(1) cyfeiriad cywir at R22 i ddarllen "R23".	Ail-rifwyd oherwydd mewnosod R13 BNG.
R26 Ffioedd.	R26(2)(b) cyfeiriad cywir at R22 i ddarllen "R23".	Ail-rifwyd oherwydd mewnosod R13 BNG.
R27 Apeliadau.	R27(1)(b) cyfeiriad cywir at R24 i ddarllen "R25".	Ail-rifwyd oherwydd mewnosod R13 BNG.
R28 Canlyniad apeliadau.	R27(1) ac R27(2) cyfeiriad cywir at R26 i ddarllen "R27".	Ail-rifwyd oherwydd mewnosod R13 BNG.
Atodlen 3 Strydoedd sy'n destun gwaith stryd, Rhan 1 Strydoedd sy'n destun gwaith stryd parhaol.	Colofn (3) geiriad cywir "Gwaith ar gyfer gosod a chynnal mynediad i Waith Rhif 3 rhwng y pwyntiau a farciwyd 1AA, 1-A ac 1-B ac 1-C, 1-CC..." darllen "Gwaith ar gyfer gosod a chynnal mynediad i Waith Rhif	I gywiro gwallau argraffyddol, sicrhau y cyfeirir at rif dalen cynllun cywir ac er budd eglurder.

Darpariaeth	Argymhellion	Rheswm
	3 rhwng y pwynt a farciwyd 1-AA ar ddalen 1a a'r pwyntiau a farciwyd 1-A ac 1-B ac 1-C, 1-CC..."	
Atodlen 4 Ffyrdd newydd o gael mynediad Rhan 1 Ffyrdd newydd o fynediad parhaol o'r briffordd gyhoeddus.	Colofn (2) pumed cofnod stryd, cywiro o "Station Road" i ddarllen "Sealand Road"	Cywiro cyfeiriad anghywir at enw anghywir y ffordd.
Atodlen 4 Ffyrdd newydd o gael mynediad Rhan 3 Ffyrdd newydd o fynediad preifat.	Colofn (3), cofnod cyntaf, cywiro geiriad "Mynediad dros ffyrdd preifat presennol rhwng y pwyntiau wedi'u marcio 1-AA, 1-A ac 1-B..." i ddarllen "Mynediad dros ffyrdd preifat presennol rhwng y pwynt wedi'i farcio 1-AA ar ddalen 1a a'r pwyntiau wedi'u marcio 1-A ac 1-B..."	Er mwyn sicrhau y cyfeirir at y rhif dalen cynllun cywir ac er eglurder.
Atodlen 4 Ffyrdd newydd o gael mynediad Rhan 3 Ffyrdd newydd o fynediad preifat.	Colofn (2) cofnod stryd 33, cywiro o "Station Road" i ddarllen "Sealand Road"	Cywiro cyfeiriad anghywir at enw anghywir y ffordd.
Atodlen 5 Strydoedd i'w hatal neu eu cyfyngu dros dro.	Colofn (3), cofnod cyntaf, cywiro geiriad "Cau lled llawn dros dro i'r holl draffig rhwng y pwyntiau sydd wedi'u marcio 1-AA, 1-A ac 1-B ac 1-C, 1-CC ac 1-D..." i ddarllen "Cau lled llawn dros dro i'r holl draffig rhwng y pwynt wedi'i farcio 1-AA ar ddalen 1a a'r pwyntiau wedi'u marcio 1-A ac 1-B ac 1-C, 1-CC ac 1-D..."	Er mwyn sicrhau y cyfeirir at y rhif dalen cynllun cywir ac er eglurder.
Atodlen 7 Rhan 1	Dileu'r rhes wag rhwng y cofnod ar gyfer Llain	Er eglurder.

Darpariaeth	Argymhellion	Rheswm
Tir y gellir cymryd TP arno yn unig.	Rhif 18-01 a'r cofnod ar gyfer Llain Rhif 18-13.	
Atodlen 7 Rhan 2 Tir y gellir cymryd TP arno ar gyfer mynediad yn unig.	Dileu'r rhes wag rhwng y cofnod ar gyfer Lleiniau Rhif: 13-13, 13-15, 13-17, 13-18, 14-02, 14-03; a'r cofnod ar gyfer llain rhif 17-34.	Er eglurder.
Atodlen 10 Darpariaethau Amddiffynnol Rhan 5 Ar gyfer diogelu Cadent Gas Limited.	Paragraff 51(1)(a) dileu dyblygu (a) a pharagraff 59 cywiro sillafiad "rhesymol"	Gwall argraffyddol ac er eglurder.
Atodlen 10 Darpariaethau Amddiffynnol Rhan 12 Ar gyfer diogelu United Utilities Water Limited.	(i) Paragraff 140 (Dehongli) adleoli diffiniad o "ymgymeriad UU Water" fel ei fod yn darllen yn gywir yn nhrefn yr wyddor. (ii) Paragraff 140 (Dehongli) diffiniad o "gynllun monitro daear", "digwyddiad ymsuddo daear", "hawliau" "gwaith penodedig" wedi'i newid. (iii) Paragraff 150 (Cydweithredu) ychwanegwyd is-baragraff (5).	I adlewyrchu sefyllfa Darpariaethau Amddiffynnol, dywed yr Ymgeisydd eu bod wedi'u cytuno rhyngddo a United Utilities Water Limited, fel y nodir yn Atodiad 1 o Ymateb yr Ymgeisydd i gais Rheol 17 am ragor o wybodaeth [REP9-012].
Atodlen 10 Darpariaethau Amddiffynnol Rhan 13 Ar gyfer diogelu United Kingdom Oil Pipelines Limited	(i) Paragraff 156 (Dehongli) diffiniad o "weithred(oedd) cydsynio" wedi'i ddiwygio. (ii) Paragraff 158 (Caffael neu feddiannu tir) yn is-baragraffau (1) a (2) geiriad wedi'i ddiwygio.	I adlewyrchu sefyllfa Darpariaethau Amddiffynnol, dywed yr Ymgeisydd eu bod wedi'u cytuno rhyngddo a United Kingdom Oil Pipelines Limited, fel y nodir yn Atodiad 1 o Ymateb yr Ymgeisydd i gais Rheol 17 am ragor o

Darpariaeth	Argymhellion	Rheswm
	<p>(iii) Paragraff 160 (cyfleusterau a hawliau newydd UKOP) wedi'i ddiwygio yn is-baragraff (1).</p> <p>(iv) Paragraff 162 (Treuliau a chostau) wedi'i ddiwygio yn is-baragraff (1), (1)(a) a (1)(g).</p> <p>(v) Paragraff 164 (Cydweithredu) wedi'i ddiwygio yn is-baragraff (1).</p>	wybodaeth [REP9-012].
Atodlen 10 Darpariaethau Amddiffynnol Rhan 14 Ar gyfer diogelu Peel NRE Limited.	(i) Diwygiwyd paragraff 169, 175.	I adlewyrchu sefyllfa Darpariaethau Amddiffynnol, dywed yr Ymgeisydd eu bod wedi'u cytuno rhyngddo a Peel NRE Limited, fel y nodir yn Atodiad 1 o Ymateb yr Ymgeisydd i gais Rheol 17 am ragor o wybodaeth [REP9-012].
Atodlen 10 Darpariaethau Amddiffynnol Rhan 14 Ar gyfer diogelu Peel NRE Limited.	Paragraff 175(4) cyfeiriad at R18 wedi'i ddiwygio i R19.	Ail-rifwyd oherwydd mewnosod R13 BNG.
Atodlen 10 Darpariaethau Amddiffynnol Rhan 15 Ar gyfer diogelu Encirc Limited.	Paragraff 179 (hawliau mynediad) a 184 (hawliau mynediad – llwythi annormal) cyfeiriad e-bost a nodir yn 179(b) a 184(a) wedi'i gywiro	I gywiro gwall ac er eglurder.
Atodlen 10 Darpariaethau Amddiffynnol Rhan 15 Ar gyfer diogelu Encirc Limited.	Paragraff 184 (hawliau mynediad – llwythi annormal) – (d) gwag wedi'i ddileu ac aildrefnwyd (e) i (g) wedyn i ddarllen (d) i (f).	I gywiro gwall ac er eglurder.

Darpariaeth	Argymhellion	Rheswm
Atodlen 10 Darpariaethau Amddiffynnol Rhan 20 Ar gyfer diogelu Exolum Pipeline System Limited.	(i) Paragraff 253 (Caffael Offer) wedi'i ddiwygio yn is- baragraff (1). (ii) Paragraff 256 wedi'i ddiwygio. (iii) Paragraff 294 wedi'i ddileu gyda chyfeiriadau ato o fewn paragraff blaenorol a pharagraff dilynol wedi'u diwygio yn unol â hynny.	I adlewyrchu sefyllfa Darpariaethau Amddiffynnol, dywed yr Ymgeisydd eu bod wedi'u cytuno rhyngddo a Peel NRE Limited, fel y nodir yn Atodiad 1 o Ymateb yr Ymgeisydd i gais Rheol 17 am ragor o wybodaeth [REP9- 012].

9.4. CASGLIADAU

9.4.1. Mae'r ExA wedi ystyried holl iteriadau'r dDCO, fel y'u darparwyd gan yr Ymgeisydd, o fersiwn y cais [APP-024] i'r EPBV [REP8-007] a'r TCv (yr APV) [REP9-011] a gyflwynwyd yn DL8 a DL9 yn y drefn honno ac mae wedi ystyried i ba raddau y mae'r fersiynau terfynol hyn (yr EPBV [REP8-007] a'r TCv (yr APV) [REP9-011]) wedi mynd i'r afael â materion heb eu datrys. Mae nifer o faterion yn destun argymhellion yn y bennod hon ac fe'u cynhwysir yn y rDCO yn Atodiad D yr adroddiad hwn.

9.4.2. Gan ystyried yr holl faterion a godwyd yn y bennod hon a'r holl faterion sy'n berthnasol i'r DCO a godwyd yng ngweddill yr adroddiad hwn yn llawn, os yw'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Diogelu Ynni a Sero Net yn bwriadu gwneud y DCO, argymhellir, yn amodol ar:

- yr Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon ar gwblhau unrhyw gytundeb(au) angenrheidiol (gan gynnwys cytundebau o'r enw: Diogelu Asedau; Masnachol / Fframwaith Masnachol; Gweithred o Ddealltwriaeth; Fframwaith; Tir; Trwydded; Eiddo; Ochr; Technegol; a/neu Fforddfraint) rhwng yr Ymgeisydd a NH, NR, UKOP, Peel NRE Limited ac Encirc Limited; a
- chynnwys PP fel y'u nodir yn Atodlen 10,
 - Rhan 3 (Ar gyfer Diogelu NGET);
 - Rhan 4 (Ar gyfer Diogelu NGG);
 - Rhan 5 (Ar gyfer Diogelu Cadent);
 - Rhan 6 (Ar gyfer Diogelu NR);
 - Rhan 7 (Ar gyfer Diogelu CRT);
 - Rhan 10 (Ar gyfer Diogelu WWU);
 - Rhan 10 (Ar gyfer Diogelu DCWW);
 - Rhan 13 (Ar gyfer Diogelu UKOP);
 - Rhan 14 (Ar gyfer Diogelu Peel NRE);
 - Rhan 15 (Ar gyfer Diogelu Encirc Limited); a
 - Rhan 20 (Ar gyfer Diogelu Exolum),

o'r rDCO sydd ynghlwm yn Atodiad D yr Adroddiad hwn neu eiriad y PP a gynhwysir yn y rhannau hynny o Atodlen 10 o'r DCO fel y cytunwyd yn derfynol rhwng yr Ymgeisydd a'r partion hynny â buddiant (DCWW, Encirc Limited, Exolum, NR; Peel NRE Limited, WWU, UKOP) a'u bod yn ymarferol,

dylid gwneud y DCO ar y ffurf a nodir yn y rDCO, y gellir dod o hyd iddo yn Atodiad Ch yr adroddiad hwn.

10. CRYNODEB O GANFYDDIADAU A CHASGLIADAU

10.1. YSTYRIED CANFYDDIADAU A CHASGLIADAU

- 10.1.1. Fel y nodir ym mharagraff 9.1.5 uchod, am y rhesymau a nodir ym Mhennod 5 mae'r Awdurdod Archwilio (ExA) yn cydnabod y gwrthwynebiadau a godwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ac yn seiliedig ar yr egwyddor ragofalus, ystyria fod fersiwn a ffafrir yr Ymgeisydd o'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu drafft (dDCO) (y fersiwn croesi â ffos) yn annerbyniol. Mae hyn oherwydd gwrthwynebiad CNC o ran risg bosibl colli llif dŵr i'r ddaear o fewn Nant Alltami, gyda'r potensial i achosi dirywiad yng nghorff dŵr Nant Wepre, a risg peidio â chydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD).
- 10.1.2. O ganlyniad i'r uchod, mae'r ExA yn canfod bod fersiwn a ffafrir yr Ymgeisydd o'r dDCO (y fersiwn croesi â ffos) yn annerbyniol, gan na fyddai'n cyd-fynd ag adran (a) 105 Deddf Cynllunio 2008 (PA2008), y Datganiad Polisi Cenedlaethol (NPS) EN-1 a NPS EN-4, y Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol a pholisïau perthnasol o'r Cynlluniau Datblygu Lleol, y maent oll yn ystyriaethau pwysig a pherthnasol, sydd wedi'u hystyried yn yr adroddiad hwn.
- 10.1.3. Heb ystyried yr uchod, mae fersiwn amgen yr Ymgeisydd o'r dDCO (y Fersiwn Pont Biblinell Ymgorfforedig) [REP8-007]), a gyflwynwyd yn D8, yn osgoi torri'r WFD, oherwydd natur a dull yr adeiladu a ddefnyddir. Yn wir, mae CNC wedi cadarnhau ei fod yn fodlon na fyddai'r modd y mae'r Fersiwn Pont Biblinell Ymgorfforedig yn croesi Nant Alltami yn torri'r WFD. Fel y cyfryw, ni fyddai perygl colli llif dŵr i'r ddaear o fewn Nant Alltami ac ni fyddai unrhyw botensial i achosi dirywiad yng nghorff dŵr Nant Wepre o ganlyniad i'r opsiwn hwn.
- 10.1.4. O gofio'r uchod, mae canfyddiadau a chasgliadau'r ExA, fel y nodir isod, yn seiliedig yn llwyr ar fersiwn amgen yr Ymgeisydd o'r dDCO (y fersiwn Pont Biblinell Ymgorfforedig [REP8-007]).
- 10.1.5. Mewn perthynas ag adran (a) 105 o Ddeddf Cynllunio 2008, daw'r ExA i'r casgliad y byddai gwneud y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu a argymhellir (rDCO) yn unol â Datganiad Polisi Cenedlaethol (NPS) EN-1 a NPS EN-4, yn ogystal â'r NPS drafft sy'n dod i'r amlwg (dNPS) (dNPS EN-1 EN-1 (Mawrth 2023) a dNPS EN-4 (Mawrth 2023)). Byddai hefyd yn cyd-fynd â'r Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol (Medi 2023) a pholisïau perthnasol o'r Cynlluniau Datblygu Lleol, sydd hefyd yn bwysig ac yn berthnasol wrth ystyried y Datblygiad Arfaethedig ac a ystyriwyd yn yr adroddiad hwn. Bu'r ExA hefyd yn ystyried yr Adroddiadau Effaith Lleol a gynhyrchwyd gan Gyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Gorllewin Swydd Gaerlleon a Chaer wrth ddod i'w gasgliad.
- 10.1.6. Er mai'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer yr Adran Diogelu Ynni a Sero Net (DESNZ) yw'r awdurdod cymwys o dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd

a Rhywogaethau 2017, ac a fydd yn gwneud yr asesiad diffiniol, daw'r ExA i'r casgliad, yn amodol ar:

- sicrhau disgrifiad o'r Datblygiad Awdurdodedig yn Atodlen 1 (Datblygiad Awdurdodedig) y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO);
- gosod gofyniad ychwanegol i sicrhau 'gwelliannau' ecolegol yng Nghymru a Lloegr (fel y rhestrir isod yng Ngofyniad (R) 13 (Gwelliannau Ecolegol));
- gosod R9 (Tir Halogedig a Dŵr Daear) yn Atodlen 2 y DCO, fel yr argymhellwyd ei ddiwygio;
- gosod yr Rs eraill a restrir yn Atodlen 2, yn enwedig:
 - R4 (Dylunio Cynllun);
 - R5 (Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu);
 - R8 (Draenio Dŵr Wyneb);
 - R11 (Cynllun Lliniaru Tirwedd ac Ecolegol);
 - R13 (Gwelliannau Ecolegol); a
 - R19 (Cynllun Rheoli Amgylcheddol Datgomisiynu),

y gellir rhwystro unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd y safleoedd Ewropeaidd a'u nodweddion yn sgil y Datblygiad Arfaethedig pan gânt eu hystyried ar eu pennau eu hunain neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill. Mae'r ExA wedi ystyried y canfyddiad hwn wrth gyrraedd ei argymhelliad.

- 10.1.7. Mae'r ExA yn canfod bod yr wybodaeth a'r dadansoddiad a ddarperir yn nogfen y Datganiad Amgylcheddol yn bodloni Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effaith Amgylcheddol) 2017. Mae hefyd yn canfod bod dewisiadau amgen rhesymol wedi'u hystyried a'u hadrodd, a bod cyfiawnhad dros ddewis terfynol yr Ymgeisydd ar gyfer llwybro'r biblinell a lleoliadau'r Gosodiadau Uwchben y Tir a Gorsafoedd Falfiau Bloc.
- 10.1.8. Mae'r ExA wedi rhoi sylw i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus drwy gydol yr Archwiliad ac wrth lunio'r adroddiad hwn. Ni fyddai'r Datblygiad Arfaethedig yn niweidio buddiannau unigolion sy'n rhannu nodwedd warchoddedig neu'n cael unrhyw effaith andwyol ar y berthynas rhwng personau o'r fath a phersonau nad ydynt yn rhannu nodwedd warchoddedig. Ar y sail honno, ni fyddai unrhyw achos o dorri Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.
- 10.1.9. Ystyriodd yr ExA ymhellach a fyddai penderfynu'r cais hwn yn unol â'r NPS, yn ogystal ag ystyriaethau materol eraill, sy'n bwysig ac yn berthnasol, yn arwain y Deyrnas Unedig i fod yn groes i unrhyw un o'i rhwymedigaethau rhyngwladol lle bo'n berthnasol, gan gynnwys Deddf Newid Hinsawdd 2008 a Chytundeb Paris 2015. Daw i'r casgliad, ym mhob ffordd, na fyddai hyn yn wir.
- 10.1.10. Mae'r Datblygiad Arfaethedig yn gyson â'r Llywodraeth yn cyflawni ei hamcanion datgarboneiddio, ac yn ei chefnogi i wneud hynny, wrth ddarparu buddion economaidd cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, ar raddfa fawr. Mae'r ExA yn rhoi pwys mawr iawn i'r buddion hyn.

- 10.1.11. O ran asedau treftadaeth dynodedig a heb eu dynodi ac wrth ystyried Rheoliad 3 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Penderfyniadau) 2010, mae'r AGC wedi canfod y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn arwain at effaith niwtral ar asedau treftadaeth dynodedig a niwed i asedau treftadaeth heb eu dynodi, er y canfuwyd bod lefel y niwed sy'n debygol o ddigwydd i'r asedau treftadaeth nad ydynt wedi'u dynodi yn fach.
- 10.1.12. Er gwaethaf y niwed i'r asedau treftadaeth heb eu dynodi, canfu'r ExA y byddai niwed yn cael ei drechu gan fuddion mawr iawn y Datblygiad Arfaethedig sy'n cynorthwyo'r DU i gyflawni Sero Net a chyflawni ei hamcanion datgarboneiddio, yn ogystal â darparu buddion economaidd cenedlaethol, rhanbarthol a lleol sylweddol, ar raddfa fawr, ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Fel y cyfryw, byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn cyd-fynd ag NPS EN-1, yn cynorthwyo i fodloni'r angen a nodwyd yn EN-1 y dNPS sy'n dod i'r amlwg ac yn cydymffurfio â pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol o fewn awdurdodaeth Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Gorllewin Swydd Gaerlleon a Chaer.
- 10.1.13. O ran bioamrywiaeth ac o ystyried Rheoliad 7 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Penderfyniadau) 2010, mae'r ExA yn fodlon bod materion bioamrywiaeth, ecolegol a chadwraeth natur wedi cael eu hasesu'n ddigonol ac yn cyd-fynd â gofynion NPS EN-1, NPS EN-1 drafft a bod yr holl ystyriaethau polisi pwysig a pherthnasol eraill, gan gynnwys Cynlluniau Datblygu Lleol yr ardaloedd y mae'r Datblygiad Arfaethedig yn gorwedd ynddynt, wedi'u bodloni. Yn wir, ystyria y bydd enillion net bioamrywiaeth sy'n deillio o'r Datblygiad Arfaethedig, er y bydd yn 1%, yn gwella bioamrywiaeth, yn ogystal â helpu i wella effeithiau ecolegol a chadwraeth natur.
- 10.1.14. Wrth ystyried yr holl sylwadau a gafwyd, nid oes unrhyw faterion pwysig a pherthnasol eraill a fyddai'n gorbwyso'r buddion a nodwyd yn unigol neu gyda'i gilydd ac yn arwain at argymhelliad gwahanol i'r hyn a nodir isod. At ei gilydd, mae'r buddion sylweddol sydd i'w cael o'r Datblygiad Arfaethedig yn gorbwyso'r anfanteision a nodwyd yn gryf.
- 10.1.15. O ran pwerau Caffael Gorfodol (CA) a Meddiant Dros Dro (TP) y mae'r Ymgeisydd yn gofyn amdanynt, daw'r ExA i'r casgliad bod y Datblygiad Arfaethedig y ceisir y tir a'r hawliau ar ei gyfer yn cyd-fynd â pholisi cenedlaethol, fel y nodir yn yr NPS, a'r dNPS, sy'n bwysig ac yn berthnasol, a bod yr NPS a'r dNPS yn nodi angen cenedlaethol am biblinellau o'r natur y mae'r Datblygiad Arfaethedig yn gofyn amdanynt.
- 10.1.16. Mae'r angen i sicrhau'r tir a'r hawliau sy'n ofynnol, ac i adeiladu'r Datblygiad Arfaethedig o fewn amserlen fasnachol resymol, yn cynrychioli un yn unig o'r buddion cyhoeddus sylweddol a nodwyd uchod. Mae'r golled breifat i'r rhai yr effeithir arnynt yn cael ei lliniaru i raddau trwy'r ffaith y byddai'r cyfnod adeiladu yn gyfyngedig, ac mae'r Ymgeisydd yn ceisio cael yr hawliau a'r buddiannau lleiaf posibl y byddai eu hangen arnynt i adeiladu a chynnal y Datblygiad Arfaethedig, gan ddarparu lefelau priodol o liniaru.

- 10.1.17. Mae'r ExA yn fodlon bod yr Ymgeisydd wedi archwilio pob dewis rhesymol arall yn lle CA tir, hawliau a buddiannau a geisir ac nid oes unrhyw ddewisiadau amgen y dylid eu ffafrio. Ar ben hynny, mae'n fodlon y byddai cyllid digonol a sicr ar gael i alluogi CA o fewn y cyfnod statudol ar ôl i'r Gorchymyn gael ei wneud.
- 10.1.18. O ran CA tir sy'n ffurfio rhan o dir categori arbennig man agored, mae'r ExA yn fodlon bod y coridor isbridd ar gyfer y biblinell, sy'n cael ei hadeiladu yn y lleoliad hwn gan ddefnyddio dulliau adeiladu di-ffos, ynghyd â'r mân waith arwyneb ar gyfer y cysylltiad draenio newydd, yn dod i lai na 200 metr sgwâr o ran maint ac nad oes angen cyfnewid tir arall, boed er budd y personau, os o gwbl, sydd â hawl i hawliau comin neu hawliau eraill neu er budd y cyhoedd.
- 10.1.19. Gyda'r uchod mewn golwg, mae'r ExA yn fodlon na fyddai gorchymyn sy'n rhoi caniatâd datblygu ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig yn destun gweithdrefn seneddol arbennig, fel y nodir yn a131(3) Deddf Cynllunio 2008, oherwydd y ffaith y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn cydymffurfio â dwy gangen y prawf, fel y nodir yn a.131(5) Deddf Cynllunio 2008. Yn ogystal, mae'r ExA yn fodlon bod yr Ymgeisydd wedi cofnodi'r ffaith hon, a'r is-adran dan sylw, o fewn y rDCO (gweler tudalen 4 y fersiynau terfynol o'r dDCO).
- 10.1.20. At hynny, mae'r ExA yn fodlon na fydd manau agored o fewn tir y Gorchymyn, o dan faich unrhyw hawliau newydd a awdurdodwyd ar gyfer CA o dan delerau'r Gorchymyn hwn, yn llai manteisiol nag ydoedd cyn caffael o'r fath, i'r personau sy'n berchen arno, personau eraill, os o gwbl, sydd â hawl i hawliau comin neu hawliau eraill, a'r cyhoedd, ac, yn unol â hynny, bod adran 132(3) o Ddeddf 2008 yn gymwys.
- 10.1.21. Am y rheswm a nodir uchod, mae'r ExA yn fodlon na fyddai gorchymyn sy'n rhoi caniatâd datblygu ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig yn destun gweithdrefn seneddol arbennig, fel y nodir yn a132(2) Deddf Cynllunio 2008. At hynny, mae'r ExA yn fodlon bod yr Ymgeisydd wedi cofnodi'r ffaith hon, a'r is-adran dan sylw, o fewn y rDCO. (Gweler tudalen 4 o'r fersiynau terfynol o'r dDCO).
- 10.1.22. O ran Tir y Goron, mae tri o gyrff y Goron a nodwyd yn y Llyfr Gorchwyl ar ddiwedd yr Archwiliad, sef Ystâd y Goron, yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Amddiffyn a Gweinidogion Cymru, wedi darparu llythyrau cytundeb/cydsyniad ac o'r herwydd ystyrir bod y pwerau CA y gofynnir amdanynt yn bodloni profion perthnasol Deddf Cynllunio 2008 yn hyn o beth.
